# Dogfen ir Cyhoedd

Dr Gwynne Jones
Prif Weithredwr – Chief Executive

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | | NOTICE OF MEETING |
|---|---|---|
| **PWYLLGOR GWAITH** | | **THE EXECUTIVE** |
| **DYDD LLUN<br>19 MEDI 2016<br>10.00 o'r gloch** | | **MONDAY<br>19 SEPTEMBER 2016<br>10.00 am** |
| **SIAMBR Y CYNGOR<br>SWYDDFEYDD Y CYNGOR<br>LLANGEFNI** | | **COUNCIL CHAMBER<br>COUNCIL OFFICES<br>LLANGEFNI** |
| Swyddog Pwyllgor | **Ann Holmes<br>01248 752518** | Committee Officer |

**Annibynnol / Independent**
R Dew, K P Hughes, H E Jones a Ieuan Williams (Cadeirydd/Chair)

**Plaid Lafur/Labour Party**
J A Roberts (Is-Gadeirydd/Vice-Chair) a Alwyn Rowlands

**Aelod Democratiaid Rhyddfrydol Cymru /Welsh Liberal Democrat (Heb Ymuno / Unaffiliated)**

Aled Morris Jones

COPI ER GWYBODAETH / COPY FOR INFORMATION

I Aelodau'r Cyngor Sir / To the Members of the County Council

Bydd aelod sydd ddim ar y Pwyllgor Gwaith yn cael gwahoddiad i'r cyfarfod i siarad (ond nid i bleidleisio) os ydy o/hi wedi gofyn am gael rhoddi eitem ar y rhaglen dan Reolau Gweithdrefn y Pwyllgor Gwaith. Efallai bydd y Pwyllgor Gwaith yn ystyried ceisiadau gan aelodau sydd ddim ar y Pwyllgor Gwaith i siarad ar faterion eraill.

A non-Executive member will be invited to the meeting and may speak (but not vote) during the meeting, if he/she has requested the item to be placed on the agenda under the Executive Procedure Rules. Requests by non-Executive members to speak on other matters may be considered at the discretion of The Executive.

**Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffilmio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu wedyn ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y gweddarllediad hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cyhoeddedig yr Awdurdod**

**R H A G L E N**

**1** **DATGANIADAU O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes.

**2** **MATERION BRYS A ARDYSTIWYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU SWYDDOG A BENODWYD GANDDO.**

Dim materion brys ar adeg anfon y rhaglen hon.

**3** **COFNODION** (Tudalennau 1 - 12)

Cyflwyno i'w cadarnhau, gofnodion drafft y cyfarfodydd o'r Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar y dyddiadau a ganlyn:-

- 18 Gorffennaf , 2016
- 25 Gorffennaf, 2016 (Arbennig)

**4** **COFNODION ER GWYBODAETH** (Tudalennau 13 - 18)

Cyflwyno, er gwybodaeth, gofnodion drafft y cyfarfod o Bwyllgor Cyswllt y Sector Gwirfoddol a gynhaliwyd ar 8 Gorffennaf, 2016.

**5** **BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH** (Tudalennau 19 - 32)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd.

**6** **Y STRATEGAETH IAITH GYMRAEG** (Tudalennau 33 - 88)

Cyflwyno adroddiad gan y Prif Weithredwr Cynorthwyol – Gwella Partneriaethau, Cymunedau a Gwasanaethau.

**7** **CERDYN SGORIO CORFFORAETHOL, CHWARTER 1, 2016/17** (Tudalennau 89 - 106)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Trawsnewid Corfforaethol.

**8** **ADRODDIAD PERFFORMIAD BLYNYDDOL 2015/16** (Tudalennau 107 - 158)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Trawsnewid Corfforaethol.

**9** **CYNLLUN ARIANNOL AR GYFER Y TYMOR CANOL 2017/18 - 2019/20** (Tudalennau 159 - 174)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/ Swyddog Adran 151.

**Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffilmio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu wedyn ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y gweddarllediad hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cyhoeddedig yr Awdurdod**

**10** **ADRODDIAD MONITRO CYLLIDEB REFENIW 2016/17 – CHWARTER 1** (Tudalennau 175 - 186)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/ Swyddog Adran 151.

**11** **ADRODDIAD MONITRO CYLLIDEB GYFALAF 2016/17 – CHWARTER 1** (Tudalennau 187 - 196)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/ Swyddog Adran 151.

**12** **ADOLYGIAD RHEOLI TRYSORLYS 2015/16** (Tudalennau 197 - 216)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/ Swyddog Adran 151 fel y'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a gynhaliwyd ar 25 Gorffennaf, 2016.

**13** **ADRODDIAD TERFYNOL Y PANEL CANLYNIAD SGRIWTINI: RHEOLI DYLEDION** (Tudalennau 217 - 224)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/ Swyddog Adran 151.

**14** **GWAHODD TENDRAU AR GYFER GWASANAETH GOFAL CARTREF YN YNYS MÔN** (Tudalennau 225 - 230)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion.

**15** **MODERNEIDDIO YSGOLION - BRO RHOSYR A BRO ABERFFRAW** (Tudalennau 231 - 240)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Dysgu.

**16** **PARTNERIAETH ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL YNYS MÔN A GWYNEDD** (Tudalennau 241 - 430)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Dysgu.

**17** **ADOLYGU POLISI HAPCHWARAE'R AWDURDOD** (Tudalennau 431 - 460)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd.

**18** **GWELEDIGAETH TWF AR GYFER ECONOMI GOGLEDD CYMRU** (Tudalennau 461 - 480)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd.

**19** **POLISI CYDYMFFURFIAETH Â SAFONAU ANSAWDD TAI CYMRU** (Tudalennau 481 - 502)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Tai.

**Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffilmio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu wedyn ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y gweddarllediad hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cyhoeddedig yr Awdurdod**

# PWYLLGOR GWAITH

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Gorffennaf, 2016

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorydd J. Arwel Roberts (Is-Gadeirydd) (Yn y Gadair)<br><br>Y Cynghorwyr Richard Dew, Aled Morris Jones, H. Eifion Jones, Kenneth Hughes, Alwyn Rowlands. |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr<br>Prif Weithredwr Cynorthwyol (Llywodraethu a Thrawsnewid Prosesau Busnes )<br>Prif Weithredwr Cynorthwyol (Partneriaethau, y Gymuned a Gwella Gwasanaeth)<br>Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151<br>Pennaeth Gwasanaeth (Gwasanaethau Oedolion) (ar gyfer eitem 6)<br>Pennaeth Gwasanaeth (Gwasanaethau Democrataidd) (ar gyfer eitem 5)<br>Rheolwr Strategaeth a Datblygu Tai (LR) (ar gyfer eitem 7)<br>Rheolwr Busnes (Gwasanaethau Tai) (NM) (ar gyfer eitem 7)<br>Rheolwr Datblygu Economaidd (AD)<br>Uwch Swyddog Datblygu (Twristiaeth a Marchnata) (MPT)<br>Rheolwr Hamdden Masnachol (GR)<br>Swyddog Pwyllgor (ATH) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorydd Ieuan Williams |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorwyr John Griffith, R. Meirion Jones, Alun Mummery |

---

Cyfeiriodd y Cadeirydd gyda thristwch at y brofedigaeth a ddaeth i ran Arweinydd y Cyngor a Chadeirydd y Pwyllgor hwn, sef y Cynghorydd Ieuan Williams y bu farw ei fam dros y penwythnos. Anfonodd aelodau'r Pwyllgor Gwaith eu cydymdeimlad at y Cynghorydd Ieuan Williams a'i deulu yn eu profedigaeth. Safodd yr Aelodau a 'r Swyddogion a oedd yn bresennol mewn distawrwydd fel arwydd o barch a chydymdeimlad.

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb.

**2. MATERION BRYS A ARDYSTIWYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU SWYDDOG A BENODWYD GANDDO**

Ni chafwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

**3. COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion drafft y cyfarfod blaenorol o'r Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 20 Mehefin, 2016 i'w cymeradwyo gan y Pwyllgor Gwaith.

**Penderfynwyd cadarnhau cofnodion y cyfarfod blaenorol o'r Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 20 Mehefin, 2016 fel rhai cywir.**

**4. COFNODION I'W MABWYSIADU**

Cyflwynwyd, i'w cymeradwyo gan y Pwyllgor Gwaith, gofnodion drafft y Panel Rhiantu Corfforaethol a gynhaliwyd ar 6 Mehefin 2016

**Penderfynwyd cymeradwyo, i'w mabwysiadu, gofnodion drafft y cyfarfod o'r Panel Rhiantu Corfforaethol a gynhaliwyd ar 6 Mehefin, 2016.**

**5. BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH**

Cyflwynwyd, i'w gymeradwyo gan y Pwyllgor Gwaith, adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd a oedd yn ymgorffori Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith am y cyfnod o fis Medi, 2016 hyd at Ebrill, 2017

Adroddodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd fel a ganlyn -

- Y byddai cyfarfod arbennig o'r Pwyllgor Gwaith yn cael ei gynnal ar 25 Gorffennaf, 2016 i ystyried canlyniad yr ymgynghoriad diweddaraf ar safleoedd i sipsiwn a theithwyr ar Ynys Môn ynghyd ag adroddiad y Gwasanaethau Cymdeithasol ar y Tîm Teuluoedd a'r ddarpariaeth gofal mewn perthynas â hynny.
- Bod eitem 10 (Datganiad Sefyllfa - Llety ar gyfer Gweithiwr Adeiladu Wylfa Newydd) a raglennwyd i'w hystyried ar 19 Medi, 2016 ac eitem 29 gan y Gwasanaethau Cymdeithasol (Asesiad Anghenion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant) a raglennwyd i'w hystyried ar 13 Chwefror, 2017 yn eitemau sy'n newydd i'r Rhaglen Waith.
- Y bydd eitem ynghylch Cronfa'r Degwm a raglennwyd i'w hystyried yn y cyfarfod heddiw yn cael ei hailraglennu i'w thrafod ar ddyddiad i'w gadarnhau.
- Bod eitem 17 ar y Rhaglen Waith (Trawsnewid y Gwasanaeth Diwylliant) wedi ei hailraglennu i'w hystyried ar 28 Tachwedd, 2016.
- Bod eitem 20 ar y Rhaglen Waith (Achos Busnes Llawn ar gyfer Ysgol newydd ym Mro Rhosyr / Bro Aberffraw) wedi ei hailraglennu i'w hystyried ar 23 Ionawr, 2017.

**Penderfynwyd cadarnhau Blaenraglen Waith ddiweddaredig y Pwyllgor Gwaith ar gyfer y cyfnod o fis Medi 2016 i fis Ebrill 2017 fel y'i cyflwynwyd.**

**6. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y CYFARWYDDWR STATUDOL GWASANAETHAU CYMDEITHASOL**

Cyflwynwyd adroddiad Blynyddol drafft y Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer 2015/16 i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith.

Dywedodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol mai hwn fyddai'r adroddiad blynyddol olaf ar ei ffurf gyfredol a'i fod yn darparu proffil o'r Gwasanaethau Cymdeithasol ac yn rhoi sylw i'r Gwasanaethau Oedolion a'r Gwasanaethau Plant am y cyfnod 2015/16, gan gynnwys perfformiad a chynnydd dros y flwyddyn o ran darparu gwasanaethau cymdeithasol. Mae'r adroddiad hefyd yn amlinellu'r ffocws ar gyfer gwella yn y flwyddyn sydd i ddod. Mae'r adroddiad wedi bod i'r Pwyllgor Sgriwtini a chaiff ei gyflwyno i'r Cyngor i'w gymeradwyo ym mis Medi. Dywedodd yr Aelod Portffolio fod yr adroddiad yn cynnwys nifer o bethau cadarnhaol yn cynnwys sylwadau canmoliaethus am y gwasanaethau a dderbyniwyd yn ogystal â rhai cwynion a fydd yn cael sylw gofalus. Mae sut y bydd y Gwasanaethau Cymdeithasol yn parhau i symud ymlaen yn elfen allweddol ac i'r perwyl hwn buddsoddwyd yn sylweddol yn y gwasanaethau a'r staff o ran recriwtio a hyfforddiant i'r gweithlu, yn enwedig mewn perthynas â'r gwasanaethau plant. Sefydlwyd Panel o Aelodau i ddeall effaith Deddf

Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ar draws yr ystod o wasanaethau. Mae'r Gwasanaethau Oedolion yn cael eu hailstrwythuro gyda golwg ar sicrhau bod gwasanaethau yn effeithiol o fewn cymunedau ac mae'r prosiect ar gyfer cynllun gofal ychwanegol yn Llangefni yn mynd rhagddo.

Adroddodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Llywodraethu a Thrawsnewid Prosesau Busnes) a'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol dynodedig fod yr adroddiad blynyddol yn adolygu effeithiolrwydd gwasanaethau cymdeithasol dros y flwyddyn wrth iddynt ymateb i heriau a'i fod yn diffinio'r amcanion ar gyfer y flwyddyn i ddod. Mae'r adroddiad yn edrych yn ôl ac yn pwyso a mesur pa mor dda y mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol wedi ymateb i'r meysydd yr oedd AGGCC yn dweud bod angen iddynt wella yn ei Adroddiad Perfformiad Blynyddol ar gyfer 2014/15, yn ogystal â materion a nodwyd yn adroddiad blynyddol blaenorol y Cyngor. Un o'r meysydd a amlygwyd ar gyfer ei wella oedd y Gwasanaethau Plant, lle 'roedd y gwelliant yn fregus. O ganlyniad, blaenoriaethwyd y gwasanaethau plant ac fe sefydlwyd Rhaglen Wella ynghyd â Phanel Trawsbleidiol o Aelodau Etholedig i oruchwylio cynnydd yn erbyn y rhaglen wella tra hefyd yn gwella dealltwriaeth yr Aelodau o ofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Buddsoddwyd yn sylweddol yn y Gwasanaethau Plant i sicrhau y cyflawnir y gwasanaethau statudol ac y cydymffurfir â gofynion statudol. Mae'r Gwasanaethau Oedolion wedi wynebu eu heriau eu hunain, yn enwedig pwysau yn sgil y galw yng nghyd-destun demograffi sy'n newid gyda chynnydd yn nifer y bobl hŷn; er bod nifer o fentrau newydd cyffrous yn cael eu datblygu, mae'n hanfodol cynnal momentwm a pharhau i ddiweddaru a moderneiddio. Rhan hanfodol o'r ymdrech hon yw parhad a datblygiad y trefniadau cydweithio a chydweithredu ar lefel gwasanaeth ac awdurdod lleol yn ogystal â chyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a phartneriaid eraill.

Adroddodd y Pennaeth Gwasanaeth (Gwasanaethau Oedolion) o safbwynt darparu gofal cymdeithasol i oedolion, gan gynnwys amrediad a natur y gwasanaethau a'r gefnogaeth a ddarperir, a soniodd am yr hyn a gyflawnwyd yn y flwyddyn flaenorol a'r heriau i'r dyfodol.

Dywedodd y Cynghorydd R. Meirion Jones, Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol fod y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn croesawu'r adroddiad a'i fod, yn ei gyfarfod ar 11 Gorffennaf, 2016, wedi cynnig nifer o sylwadau ar ei gynnwys ac wedi gofyn i'r Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol edrych eto ar y naratif i atgyfnerthu rhai elfennau o'r heriau y cyfeiriwyd atynt y llynedd a sut mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn bwriadu ymdrin â hwy wrth symud ymlaen.

**Penderfynwyd derbyn yr adroddiad a nodi Adroddiad Blynyddol drafft y Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer 2015/16.**

## 7. ASESIAD O'R FARCHNAD DAI LEOL

Cyflwynwyd, i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith, adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Tai a oedd yn cynnwys Asesiad o Farchnad Dai Leol Ynys Môn am 2016.

Dywedodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol fod raid i bob awdurdod lleol lunio Asesiad o'r Farchnad Dai Leol i'w ddiweddaru bob dwy flynedd yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru. Mae'r asesiad yn rhoi dadansoddiad manwl o'r amgylchedd tai lleol gan gynnwys asesiad o'r angen am dai ac mae'n helpu i lywio'r rhaglen datblygu tai sydd gan y Cyngor, gan gynnwys y tai fforddiadwy sydd eu hangen. Mae'n arbennig o bwysig hefyd yng nghyd-destun cynllunio ar gyfer adeiladu gorsaf niwclear arfaethedig Wylfa Newydd.

Ymhelaethodd y Rheolwr Strategaeth a Datblygu Tai ar brif ganfyddiadau'r Asesiad dan y pum thema a restrir yn adran 2 yr adroddiad a'r hyn y maent yn ei olygu ar gyfer yr adrannau polisi cynllunio a thai o ran darparu tystiolaeth i weithredu arni mewn perthynas â nodi blaenoriaethau tai a datblygu canllawiau cynllunio a rhaglenni tai fforddiadwy. Dywedodd y Swyddog bod yr asesiad, a wnaed gan HDH Planning and Development Cyf. ar y cyd ag AMEC ac Aecom a oedd hefyd wedi cynhyrchu asesiad 2013, yn cadarnhau bod nifer o'r tueddiadau a welwyd yn yr asesiad blaenorol yn parhau. Bydd y wybodaeth am yr angen am dai yn cael ei defnyddio i helpu i gynllunio rhaglen datblygu Tai y Cyngor.

**Penderfynwyd cymeradwyo'r Asesiad o Farchnad Dai Lleol Ynys Môn i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru ac i'w ddefnyddio fel ffynhonnell sylweddol o dystiolaeth gwaelodlin ynghylch anghenion tai ar yr Ynys.**

**8. CYNLLUN RHEOLI CYRCHFAN NEWYDD AR GYFER YNYS MÔN AM Y CYFNOD 2016-2020**

Cyflwynwyd, i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith, adroddiad y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd a oedd yn ymgorffori Cynllun Rheoli Cyrchfan newydd (CRhC) ar gyfer yr Ynys am y cyfnod 2016-2020.

Dywedodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Cynllunio a Datblygu Economaidd fod y dull Rheoli Cyrchfan yn galluogi'r sector cyhoeddus, busnesau twristiaeth a busnesau eraill yr Ynys, sefydliadau di-elw a'r gymuned i gydweithio i gyflawni amcanion cyffredin. Mae Llywodraeth Cymru / Croeso Cymru yn parhau i fabwysiadu'r egwyddor o gynllunio rheoli cyrchfan a sefydlu partneriaethau cyrchfan i gyflawni. Cefnogwyd hyn gydag adnoddau ariannol gan fod y sector yn hanfodol bwysig i ddatblygiad economaidd yng Nghymru. O ganlyniad i'r dull effeithiol o gydweithio lleol, ymgysylltiad ac ymdrech sylweddol y sector preifat a pholisi Llywodraeth Cymru, nid yw peidio ag adolygu a mabwysiadu Cynllun Rheoli Cyrchfan newydd yn opsiwn.

Dywedodd yr Uwch Swyddog Datblygu (Twristiaeth a Marchnata) bod y cynllun wedi cael ei gyflwyno mewn partneriaeth â busnesau twristiaeth yn y sector preifat. Adolygwyd y cynllun cyfredol yng nghyd-destun adnoddau sy'n lleihau ar gyfer y Cyngor a chredir fod y cynllun newydd yn un realistig wrth symud ymlaen at 2020.

Dywedodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol fod y bartneriaeth rhwng y Cyngor a'r sector preifat i'w chroesawu. Mae angen ystyried y dyfodol yn gadarnhaol ond gan gydnabod, ar yr un pryd, yr her o gefnogi'r sector twristiaeth drwy gydol y cyfnod o adeiladu Wylfa Newydd.

**Penderfynwyd cymeradwyo Cynllun Rheoli Cyrchfan newydd ar gyfer yr Ynys am y cyfnod 2016 i 2020.**

**9 PROSIECTAU CYFALAF A GYLLIDIR GAN YR UNDEB EWROPEAIDD O 2014-2020**

Cyflwynwyd i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith, adroddiad y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd ar y sefyllfa mewn perthynas â phrosiectau cyfalaf a ariennir gan yr UE o 2014-2020.

Dywedodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Cynllunio a Datblygu Economaidd bod canlyniad y refferendwm UE wedi creu amgylchedd o fwy o ansicrwydd ac nad yw natur, amseriad a chanlyniad trafodaethau i adael yr UE yn gwbl eglur. Mae'r tirlun gwleidyddol a chyllidol yn hollol wahanol erbyn hyn ac mae bron yn amhosib rhagweld beth fydd goblygiadau'r refferendwm oherwydd yr ansicrwydd hwn. Serch hynny, y negeseuon allweddol gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â chronfeydd strwythurol yr UE yw eu bod yn parhau i fod ar agor ar gyfer busnes; yn parhau i ganolbwyntio ar gynnal y rhaglenni cyfredol; yn parhau i gymeradwyo prosiectau ac annog noddwyr prosiectau posib i barhau i ddatblygu prosiectau. O ganlyniad, mae'r argymhellion a wnaed cyn y refferendwm fel yr amlinellir nhw yn yr adroddiad yn parhau i fod yn ddilys a gofynnwyd i'r Pwyllgor Gwaith eu cymeradwyo.

Dywedodd y Rheolwr Datblygu Economaidd fod yr hinsawdd ariannol ar gyfer llywodraeth leol yn heriol sy'n golygu bod cyllid allanol yn fwyfwy pwysig er mwyn cyflawni amcanion corfforaethol. Mae'r Gwasanaeth Datblygu Economaidd a Rheoleiddio wedi bod yn gweithio'n galed ar ddatblygu prosiectau dros y 18 mis diwethaf, gan ddatblygu cynigion ar gyfer prosiectau a chynlluniau busnes cadarn i sicrhau cefnogaeth cyllid allanol er mwyn hyrwyddo datblygiad economaidd a helpu i greu cymunedau ffyniannus. Mae'r adroddiad diweddaru yn Atodiad A yn adolygu'r dirwedd bresennol o ran prosiectau cyfalaf a gyllidir gan yr UE yn y cyfnod 2014-2020 yn ogystal â darparu diweddariad ar ddatblygiad prosiectau.



DRAFT

Dywedodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol bod angen i'r awdurdod fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd ariannu gan yr UE tra'u bod yn dal i fod ar gael.

Dywedodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Cyllid, er bod pryderon ynghylch cael cyllid gan yr UE ar gyfer prosiectau o ganlyniad i adael yr UE, mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn am sicrwydd gan Lywodraeth y DU na fydd Cymru ar ei cholled yn ariannol ac y bydd setliad uwch i Lywodraeth Cymru o dan fformiwla Barnett i ddigolledu am golli'r arian a gafwyd yn flaenorol gan yr UE. Fel ardal sy'n derbyn arian gan yr UE, mae'n bwysig nad yw Ynys Môn dan anfantais o ganlyniad ac mae achos dros ofyn i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru edrych ar y fformiwla ar gyfer dyrannu arian i'r rhanbarthau.

**Penderfynwyd: -**

- **Bod y Pwyllgor Gwaith yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu a chyflawni'r portffolio o brosiectau cyfalaf sy'n targedu Cyllid Ewropeaidd.**
- **Bod yr awdurdod i dderbyn cynigion o gyllid grant gan Lywodraeth Cymru a ffynonellau eraill ar gyfer y prosiectau a amlinellir yn Nhabl 1 Atodiad A yn cael ei ddirprwyo i'r Pennaeth Gwasanaeth (Rheoleiddio a Datblygu Economaidd) mewn ymgynghoriad â'r Swyddog Adran 151.**
- **Cefnogi cynnwys yr is-brosiectau Cyrchfannau Denu Twristiaeth ac Adeiladu ar gyfer y Dyfodol gan yr UE yn rhaglen gyfalaf 2016-2020 y Cyngor, a chymeradwyo cyfraniad o £80k fel cyllid cyfatebol i ariannu prosiect Porth Ymwelwyr Ynys Gybi.**
- **Bod y Pennaeth Gwasanaeth (Rheoleiddio a Datblygu Economaidd) mewn ymgynghoriad â'r Swyddog Adran 151 yn sefydlu trefniadau llywodraethu cyflawniad prosiectau er mwyn paratoi at pan gaiff cyllid ei gymeradwyo.**
- **Cefnogi rôl y Cyngor Sir yn gweithredu fel cyfryngwr ar gyfer Menter Môn ac Ymddiriedolaeth Treftadaeth Porthaethwy i sicrhau cyllid allanol i wella Pier y Tywysog ac ar gyfer y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar mewn perthynas â'r ganolfan ymwelwyr yn Ynys Lawd.**
- **Gofyn i'r Grŵp Asedau Corfforaethol adolygu'r holl opsiynau ar gyfer ailddatblygu adeilad Neuadd y Sir.**

**10 TROSGLWYDDO PARC CAERGYBI FEL ASED CYMUNEDOL**

Cyflwynwyd, i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith, adroddiad y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd mewn perthynas â'r cynnig i drosglwyddo Parc Caergybi i Gyngor Tref Caergybi

Crynhodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Cynllunio a Datblygu Economaidd gefndir y cais a chrybwyllodd y rhesymau dros y cynnig i drosglwyddo Parc Caergybi i Gyngor Tref Caergybi, a'r broses a ddilynwyd fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad.

Dywedodd y Rheolwr Hamdden Masnachol fod yr eiddo wedi bod ym mherchnogaeth y Cyngor ers 1917 pan gafodd ei roi yn rhodd i Gyngor Dosbarth Trefol Caergybi (a olynwyd gan Gyngor Sir Ynys Môn) o dan delerau Deddf Tir Adloniant 1859. Y cyngor cyfreithiol yw bod y parc yn cael ei ddal mewn ymddiriedolaeth; mae'r eiddo wedi ei brisio'n annibynnol gan y Prisiwr Dosbarth, ond fel ymddiriedolaeth, rhaid cadw unrhyw incwm yn sgil gwerthu / trosglwyddo'r eiddo hwn i bwrpas cyflawni amcanion yr ymddiriedolaeth ac felly byddai'n cael ei drosglwyddo gyda'r ased. Cyfeiriodd y Swyddog at y mynegiadau o ddiddordeb a gafwyd a'r rhesymau pam yr oedd Cyngor Tref Caergybi wedi sgorio'n uwch na'r sefydliad arall.

**Penderfynwyd cymeradwyo trosglwyddo Parc Caergybi i Gyngor Tref Caergybi yn rhad ac am ddim am y rhesymau a nodir yn yr adroddiad ysgrifenedig.**

**Y Cynghorydd J. Arwel Roberts**
**Cadeirydd**



DRAFT

DRAFT

# PWYLLGOR GWAITH

## Cofnodion y cyfarfod arbennig a gynhaliwyd ar 25 Gorffennaf 2016

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorydd J Arwel Roberts (Is-Gadeirydd yn y Gadair)<br><br>Y Cynghorwyr R Dew, K P Hughes, A M Jones, H E Jones ac Alwyn Rowlands. |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr,<br>Prif Weithredwr Cynorthwyol (Llywodraethiant a Thrawsnewid Prosesau Busnes),<br>Prif Weithredwr Cynorthwyol (Partneriaethau, y Gymuned a Gwella Gwasanaethau),<br>Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151,<br>Pennaeth Gwasanaethau Plant (Eitem 4),<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai (Eitemau 2 a 3),<br>Rheolwr Gwasanaethau Technegol (DR) (Eitemau 2 a 3),<br>Uwch Swyddog Eiddo (GJ) (Eitemau 2 a 3),<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorwyr Lewis Davies, Jim Evans, Ann Griffith, John Griffith, T.V. Hughes, Llinos M. Huws, R.Ll. Jones, R. Meirion Jones, Alun Mummery, Dylan Rees, Nicola Roberts.<br><br>Mrs. Nia Haf Davies – Rheolwr Polisi Cynllunio (Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd – Gwynedd ac Ynys Môn). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorydd Ieuan Williams |

**1 DATGANIADAU O DDIDDORDEB**

Ni dderbyniwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

**2 SAFLEOEDD SIPSIWN A THEITHWYR DROS DRO – CANOL YR YNYS**

Cyflwynwyd - adroddiad y Pennaeth Gwasanaeth Tai mewn perthynas â'r uchod.

Dywedodd yr Aelod Portffolio (Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol) fod Llywodraeth Cymru yn rhoi dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol i gynnwys safle parhaol a dau safle dros dro yn eu Cynlluniau Datblygu Lleol ar y Cyd fel darpar safleoedd. Dywedodd y cynhaliwyd cyfnod o ymgynghori ar y tri safle a nodwyd, gan gynnwys digwyddiadau Galw i Mewn a chyfarfodydd gyda Chynghorau Cymuned ar gyfer yr ardaloedd lle gallai'r safleoedd gael eu lleoli.

Eglurodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Llywodraethiant a Thrawsnewid Prosesau Busnes) ei fod yn glir bod angen Mannau Aros Dros Dro yn Ynys Môn ac roedd y gwersylloedd anawdurdodedig a sefydlwyd yn rheolaidd gan Sipsiwn Romani ar Ynys Môn ers nifer o flynyddoedd yn tystio i hynny. Dywedodd fod tri safle yn cael eu hystyried: -

Safle 1 - Llain o dir rhwng yr A55 / A5 rhwng Llanfairpwll a Chroesffordd Star;

Safle 2 - Tir ar fân-ddaliad yn y Gaerwen;
Safle 3 - Tir ger yr A5 wrth Fferm Cymunod, Bryngwran.

Yn dilyn ymgynghoriad helaeth fel y nodwyd gan yr Aelod Portffolio, nododd yr ystyrir bod y safle ym Mryngwran yn anaddas oherwydd materion nad oedd modd eu goresgyn a godwyd gan yr Awdurdod Priffyrdd ynglŷn â'r ffaith nad yw'r fynedfa i'r safle yn cwrdd â gofynion diogelwch sylfaenol o ran gweledededd. 'Roedd safleoedd 1 a 2 ar ôl i'w hystyried fel mannau aros dros dro ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr. Mae llai o bryderon technegol am y safle ar Groesfordd Star, ac mae'r adroddiad gan Wasanaeth Archeolegol Gwynedd yn codi cwestiynau am addasrwydd y safle yn y Gaerwen a gall gymryd amser i'w datrys. Fodd bynnag, os ystyrir y dylid ymchwilio ymhellach i'r safle yn y Gaerwen, dywedodd y byddai angen gwneud gwaith pellach mewn perthynas â'r safle o ran y materion archeolegol sy'n gysylltiedig â'r heneb. Bydd angen cynnal asesiad risg ar gyfer y ddau safle mewn perthynas â materion technegol, dyluniad y safleoedd a materion iechyd a diogelwch. Bydd angen penodi Ymgynghorydd priodol i baratoi dyluniad y safleoedd i ganiatáu ar gyfer costio cynllun o'r fath, a byddai hynny'n golygu y gellid cyfrifo'r costau. Nododd y byddai'n haws darparu safle addas yn Star o fewn amserlen resymol, ond y gellid cynnal astudiaethau pellach ar y naill safle neu'r llall, neu'r ddau yn y Gaerwen a Star a bod y penderfyniad yn un i'r Pwyllgor Gwaith ei wneud.

Dywedodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Llywodraethiant a Thrawsnewid Prosesau Busnes) y cafwyd trafodaethau gyda swyddogion o'r Adrannau Cynllunio a Thai yn Llywodraeth Cymru; maent yn ymwybodol o'r gwaith sydd wedi cael ei wneud i nodi safleoedd addas ar gyfer mannau aros dros dro, ac maent yn ymwybodol y bydd angen gwneud gwaith pellach i gadarnhau addasrwydd naill ai Star neu Gaerwen cyn y gellir eu cynnwys yn y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd; deallir bod Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r cynnydd a wnaed hyd yma.

Dywedwyd bod y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaethau ac Adfywio a gynhaliwyd ar 19 Gorffennaf, 2016 wedi trafod yr adroddiadau ar y mannau aros dros dro a bod holl Aelodau'r Cyngor Sir wedi cael gwahoddiad i fod yn bresennol yn y cyfarfod hwnnw. Estynnodd y Cadeirydd wahoddiad i Is-Gadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio i annerch y cyfarfod. Cyfeiriodd y Cynghorydd Alun Mummery at argymhellion y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio i'r Pwyllgor Gwaith.

Dywedodd y Cynghorydd R. Meirion Jones a oedd wedi gofyn am ganiatâd i annerch y Pwyllgor Gwaith fel Aelod Lleol ar gyfer ardal Aethwy sy'n cynnwys ardal Star, ei fod yn derbyn bod angen safle dros dro i Sipsiwn a Theithwyr ond roedd o'r farn nad oedd y Cyngor Sir wedi dilyn canllawiau i nodi safle o'r fath. Cyfeiriodd at safle Croesffordd Star a dywedodd na chynhaliwyd unrhyw asesiad masnachol nac asesiad iechyd a diogelwch nac asesiad risg. Ni chafwyd unrhyw fanylion am y costau na diffiniad o'r matrics sgorio a ddefnyddiwyd i nodi safleoedd. Roedd y Cynghorydd Jones yn credu bod yna anghysonderau yn yr adroddiad i'r Pwyllgor. Roedd yn ystyried nad oedd y Pwyllgor Gwaith wedi cael yr holl wybodaeth i fedru gwneud penderfyniad i nodi man aros dros dro ar gyfer sipsiwn a theithwyr. Dywedodd y Cynghorydd Jones bod trigolion Star a Phenmynydd o'r farn nad yw eu sylwadau ar y safleoedd arfaethedig wedi cael eu hystyried; nid oedd y Cyngor Sir wedi trefnu unrhyw gyfarfodydd cyhoeddus na sesiynau galw i mewn yn yr ardaloedd hyn mewn perthynas â'r mater. Trefnwyd cyfarfod cyhoeddus gan y Cyngor Cymuned a'r Cynghorydd Jones fel Aelod Lleol. Yn y cyfarfod hwnnw, cododd y trigolion lleol bryderon mewn perthynas â diffygion safle Croesffordd Star. Cyfeiriodd at sylwadau a wnaed ynghylch problemau llifogydd posib, iechyd a diogelwch a'r effaith ar dwristiaeth yn yr ardal. Bydd pentrefi Star a Phenmynydd yn wynebu'r posibilrwydd o gael dau safle ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr yn eu cymunedau. Dywedodd ymhellach nad oedd yr ohebiaeth a anfonwyd gan Gyngor Cymuned Penmynydd wedi ei chynnwys o fewn y dogfennau i'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio ar gyfer ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 19

Gorffennaf.

‘Roedd y Cynghorydd T V Hughes wedi gofyn am ganiatâd i annerch y Pwyllgor Gwaith fel Aelod Lleol ar gyfer ardal Bro Rhosyr sydd yn cynnwys ardal y Gaerwen a dywedodd bod Cyngor Cymuned Llanfihangelesceifiog wedi mynegi pryder o ran y mynediad o'r A55 a'r matrics sgorio mewn perthynas â’r safle Sipsiwn a Theithwyr a nodwyd yn y Gaerwen. Ystyrir y byddai safle dros dro yn fwy derbyniol ger y safle parhaol a nodwyd ym Mhenhesgyn. ‘Roedd sylwadau wedi'u mynegi ynghylch llifogydd posibl a cholli tir amaethyddol da ynghyd â materion archeolegol ar y safle yn y Gaerwen. Cyfeiriodd y Cynghorydd Hughes at bryderon a godwyd ynglŷn â'r effaith ar y Parc Gwyddoniaeth ac yn arbennig ar y gallu i ddenu busnesau i'r safle. Yn wreiddiol, roedd M-Sparc, sef perchnogion safle’r Parc Gwyddoniaeth, am i'r parc fod yn hygyrch i'r gymuned leol ac am adeiladu llwybrau troed a gardd gymunedol; ystyriwyd y gallant dynnu’n ôl rhag caniatáu defnydd cymunedol o'r parc.

Er bod Aelodau'r Pwyllgor Gwaith yn derbyn bod pryderon ar yr Ynys mewn perthynas â chael safleoedd i Sipsiwn a Theithwyr, mae Llywodraeth Cymru yn rhoi dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol i fynd i'r afael ag angen a nodwyd yn yr Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr (a oedd yn nodi bod angen safle parhaol a dau fan aros dros dro), a bod y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd yn dangos sut y byddir yn cwrdd â’r angen hwnnw. ‘Roedd y Pwyllgor Gwaith o’r farn bod llai o bryderon datblygu economaidd a thechnegol ynghylch y safle ar Groesffordd Star.

**Penderfynwyd:**

- **Dylai’r Cyngor Sir gynnal ymchwiliadau pellach i Safle 1, sef y llain o dir rhwng yr A55/A5 rhwng Llanfairpwll a Chroesffordd Star i gadarnhau a ydyw’n addas ai peidio ac ar gyfer asesu ymhellach unrhyw risgiau i ddiogelwch neu risgiau technegol ar y safle ac ystyried a fyddai modd dylunio’r safle er mwyn datrys y rhain;**

- **Penodi ymgynghorydd priodol i baratoi dyluniad ar gyfer y safle ac i gyflwyno’r Cais Cynllunio angenrheidiol ar gyfer y safle a ddewisir;**

- **Na ddylid parhau ar hyn o bryd â Safle 2, sef y llain o dir mewn mân-ddaliad yn y Gaerwen o ganlyniad i bryderon Gwasanaeth Cynllunio Archeolegol Gwynedd o ran yr effaith ar heneb ac ardal o bwysigrwydd archeolegol cenedlaethol ynghyd â’r effaith bosib ar y Parc Gwyddoniaeth sy’n cael ei ddatblygu yn y Gaerwen;**

- **Na ddylid symud ymlaen gyda Safle 3, Tir ger yr A5 yn ymyl Fferm Cymunod, Bryngwran, oherwydd materion diogelwch ffyrdd a nodwyd gan yr angenrheidrwydd i greu mynedfa newydd i’r safle oddi ar yr A5;**

- **Dylai’r Cyngor Sir barhau i ddiwallu ei rôl i hyrwyddo cydlyniant cymunedol. Rhaid i hyn sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion y trigolion i deimlo’n ddiogel ac i fod yn rhan o ymgynghoriad ar faterion datblygu a’r gydnabyddiaeth fod gan y Cyngor gyfrifoldebau cyfreithiol dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.**

**3. SAFLEOEDD SIPSIWN A THEITHWYR DROS DRO – ARDAL CAERGYBI**

Cyflwynwyd - adroddiad y Pennaeth Gwasanaeth Tai mewn perthynas â'r uchod.

Dywedodd Yr Aelod Portffolio (Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol) fod y Cyngor wedi ymgynghori ynghylch dau safle a nodwyd yn Fferm Tyddyn Lantern, Caergybi a Hen fferm oddi ar Ffordd Cyttir, Caergybi.

Nododd y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Llywodraethiant a Thrawsnewid Prosesau Busnes) yr ystyrir nad yw'r un o'r ddau safle yn addas i'w clustnodi fel mannau aros dros dro ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr yn dilyn y broses ymgynghori. Mae angen dod o hyd i ddatrysiad tymor byr yng Nghaergybi drwy osod biniau i leihau gwastraff domestig a gwastraff anghyfreithlon mewn lleoliadau yng Nghaergybi lle mae'n ymddangos bod teithwyr yn gwersylla arnynt heb ganiatâd. Dywedodd y bydd angen gwneud rhagor o ymchwiliadau i gwrdd ag anghenion teithwyr sy'n teithio i Iwerddon ac i fesur y defnydd a wneir o'r Porthladd gan Sipsiwn a Theithwyr. Oherwydd diffyg tir mewn perchnogaeth gyhoeddus yng Nghaergybi, bydd angen cynnal trafodaethau gyda pherchnogion tir sector preifat er mwyn nodi tir addas fel Man Aros Dros Dro ar gyfer y Teithwyr Gwyddelig sy'n aros yn achlysurol yng Nghaergybi ar eu ffordd i'r porthladd ac oddi yno.

**PENDERFYNWYD:-**

- **Na ddylid bwrw ymlaen gyda'r naill na'r llall o'r ddau safle a gafodd eu cynnwys yn yr ymgynghoriad fel man aros dros dro yng nghyffiniau Caergybi ac na ddylid cynnwys yr un ohonynt yn y Cynllun Datblygu Lleol.**

- **Dylid gwneud gwaith pellach i ddod o hyd i safleoedd amgen i gwrdd â'r angen am le aros dros dro yn ardal Caergybi fel y nodir yn yr Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr a gynhaliwyd gan y Cyngor yn 2016 er mwyn cydymffurfio â dyletswyddau'r Cyngor o dan Ran 3 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014.**

- **Dylid gwneud gwaith pellach i ddeall yn well faint o ddefnydd a wneir o borthladd Caergybi gan Sipsiwn a Theithwyr a nifer y gwersylloedd anawdurdodedig sy'n digwydd o ganlyniad i deithio i'r Porthladd ac oddi yno. Hyn i gynnwys trafodaethau pellach gyda'r Heddlu, Awdurdodau Porthladd, Llywodraeth Cymru a chydranddeiliaid allweddol eraill.**

- **Fel datrysiad tymor byr, ystyried gosod biniau mewn lleoliad addas i ostwng nifer yr achosion o adael gwastraff domestig yn anghyfreithlon a oedd yn gysylltiedig â gwersylloedd anawdurdodedig yng Nghaergybi.**

- **Yr Awdurdod i barhau i gyflawni ei rôl i hyrwyddo cydlyniant cymunedol. Rhaid i hyn gydbwyso anghenion cymunedau lleol a Sipsiwn a Theithwyr sy'n ymweld er mwyn iddynt deimlo'n ddiogel, a dylid ymgynghori â nhw ar faterion datblygu, gan gydnabod bod yn rhaid i'r Cyngor weithredu yn erbyn agweddau hiliol a herio sylwadau ymfflamychol.**

**4 TROTHWY GOFAL – TEULUOEDD GWYDN**

Cyflwynwyd - adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Plant mewn perthynas â'r uchod.

Dywedodd yr Aelod Portffolio (Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol) fod Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn rhoi dyletswydd glir ar Awdurdodau Lleol i sicrhau llesiant plant trwy fabwysiadu dull ataliol o weithredu er mwyn lleihau'r angen iddynt dderbyn gofal.

Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Plant fod Timau Trothwy Gofal mewn awdurdodau lleol eraill yng Nghymru a Lloegr wedi dangos llwyddiant wrth gefnogi teuluoedd i fedru magu eu plant o fewn y teulu yn hytrach nag o fewn y system ofal. Nododd bod cyfran sylweddol o gyllideb y gwasanaeth yn cael ei gwario ar nifer gynyddol o blant sy'n derbyn gofal, er nad yw hynny o reidrwydd yn cyflawni'r canlyniadau gorau ar eu cyfer. Mae angen sefydlu ffordd arloesol i wella ac ailgynllunio'r ddarpariaeth gwasanaeth i sicrhau ansawdd uwch trwy Dîm Trothwy Gofal.

**PENDERFYNWYD:-**

- **Rhyddhau cyllid o arian wrth gefn cyffredinol y Cyngor ar gyfer 2016/17 er mwyn ariannu costau'r Tîm Trothwy Gofal.**

- **Cymeradwyo bod cyllid ar gyfer y ddwy flynedd ddilynol yn cael ei gynnwys yng nghyllideb y gwasanaeth am y ddwy flynedd.**

Daeth y cyfarfod i ben am 10.40 am

**Y CYNGHORYDD J. ARWEL ROBERTS**
**CADEIRYDD**

This page is intentionally left blank

# PWYLLGOR CYSWLLT Y SECTOR GWIRFODDOL

## Cofnodion y cyfarfod gynhaliwyd ar 8 Gorffennaf 2016

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Mr Islwyn Humphreys (Cadeirydd)<br><br>**Awdurdod Lleol**<br><br>Y Cynghorwyr Jim Evans, Aled Morris Jones, Alun Mummery<br><br>**Y Sector Gwirfoddol**<br><br>Mr Andrew M Hughes (Medrwn Môn) |
| **WRTH LAW:** | Mrs Annwen Morgan (Prif Weithredwraig Gynorthwyol – CSYM)<br>Mr Alwyn R Jones (Pennaeth Gwasanaethau Oedolion)<br>Mr John R Jones (Prif Swyddog – Medrwn Môn)<br>Ms Lindsey Williams (Lleisiau Cymunedol – Medrwn Môn)<br>Mrs Shirley Cooke (Swyddog Pwyllgor – CSYM) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorwyr Alwyn Rowlands, Ieuan Williams;<br>Ms Eleri Lloyd Jones (Age Cymru – Gwynedd a Môn)<br>Mr Wyn Thomas (BIBPC) |

---

**1 CADEIRYDD**

Cafwyd trafodaeth am ethol Cadeirydd y Pwyllgor Cyswllt ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod.

**Cytunwyd y dylid gohirio ethol Cadeirydd tan gyfarfod nesaf y Pwyllgor Cyswllt er mwyn cael cadarnhad am rôl bresennol Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr o fewn y Pwyllgor.**

**2 IS-GADEIRYDD**

Fel yr uchod.

**3 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb.

**4 COFNODION - 15 IONAWR, 2016**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Cyswllt Sector Gwirfoddol a gynhaliwyd ar 15 Ionawr, 2016 ac fe'u cadarnhawyd fel rhai cywir.

**Materion yn codi:-**

**Eitem 3 - Cofnodion - 14 Hydref, 2016**

Cyfeiriodd y Prif Swyddog, Medrwn Môn at y pwynt cyntaf yn Eitem 3 o'r cofnodion. Yng nghyfarfod blaenorol y Pwyllgor Cyswllt, cytunwyd gydag Arweinydd y Cyngor y dylai'r Prif Swyddog gael copi o ddadansoddiad manwl y Pennaeth Adnoddau o fuddsoddiadau'r Awdurdod yn y Trydydd Sector. Nododd y Prif Swyddog nad oedd wedi derbyn y wybodaeth hyd yma.

**GWEITHRED:**

**Prif Weithredwr Cynorthwyol i ddilyn hyn i fyny gyda'r Pennaeth Adnoddau, sef cais Prif Swyddog Medrwn Môn am wybodaeth ar fuddsoddiad yr Awdurdod yn y Trydydd Sector.**

**5 ADOLYGIAD O'R CÔD YMARFER CYLLIDO A DYRANIAD CYLLIDOL Y SECTOR GWIRFODDOL 2015/16**

Adroddodd y Prif Swyddog, Medrwn Môn bod y Cod Ymarfer Cyllidol wedi'i gytuno arno a bod cyllid y Sector Gwirfoddol bellach wedi'i ddyrannu. Nododd fod gan y Pwyllgor gyfle yn awr i adolygu'r Cod Ymarfer. Nodwyd bod Medrwn Môn wedi anfon holiadur i'r Sector Gwirfoddol er mwyn adolygu profiadau, cynnydd a chyfathrebu.

Gan gyfeirio at y gostyngiad mewn cyllid ar gyfer y Trydydd Sector, nododd y Cadeirydd, a oedd yn cynrychioli'r Samariaid ar y Pwyllgor hwn, nad oedd yr elusen wedi derbyn arian ar gyfer y flwyddyn ariannol hon. Roedd y broses o lenwi'r ffurflen wedi achosi rhwystrau o ganlyniad i gyfrinachedd. Nododd y byddai'n rhaid ystyried dull newydd ar gyfer ariannu'r trydydd sector yn y dyfodol.

**Cyfeiriodd y Prif Swyddog, Medrwn Môn at yr Ymddiriedolaeth Elusennol a gofynnodd am eglurder gan y Pennaeth Adnoddau am unrhyw nawdd posibl a oedd ar gael drwy'r Ymddiriedolaeth.**

**GWEITHRED: Fel yr uchod.**

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

**6 TRAFOD STRATEGAETH Y SECTOR GWIRFODDOL A RÔL Y PWYLLGOR CYSWLLT**

Nododd y Prif Swyddog, Medrwn Môn fod y Compact wedi'i gytuno arno, yn cynnwys yr egwyddorion a'r Cod Ymarfer Cyllido, sy'n nodi'r ymrwymiadau mewn perthynas â'r Polisi Gwirfoddoli a'r ddogfen Gweithio mewn Partneriaeth.

Nodwyd bod cynnydd wedi'i wneud mewn sawl maes er mwyn datblygu trefniadau ymgysylltu effeithiol ar gyfer gweithio mewn partneriaeth. Fodd bynnag, gellir cyflawni mwy ar sail fwy ffurfiol drwy strwythuro'r berthynas a datblygu un

strategaeth ar gyfer cydweithio e.e. Compact, Lleisiau Lleol, Bwrdd Ymgysylltu, AHNE, Fforwm Iaith Gymraeg Ynys Môn.

**Cytunwyd y dylai Bwrdd Medrwn Môn drafod opsiynau pellach ar gyfer adeiladu ar drefniadau'r bartneriaeth bresennol. Cytunodd y Prif Swyddog i ddrafftio strategaeth i gynnwys y dogfennau uchod a sut y gellid eu defnyddio'n ymarferol.**

**GWEITHRED: Fel yr uchod.**

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

## 7 RÔL Y SECTOR GWIRFODDOL YN STRWYTHUR SGRIWTINI'R CYNGOR SIR

Gofynnwyd am eglurder ynghylch pam nad oes gan y Sector Gwirfoddol rôl statudol ar y Pwyllgorau Sgriwtini.

Yn dilyn ymgynghoriad â'r Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor), cadarnhaodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol fod rôl a phresenoldeb y Trydydd Sector yn y ddau Bwyllgor Sgriwtini drwy wahoddiad yn unig. Fodd bynnag, nodwyd bod aelodau'r Eglwys Babyddol a'r Eglwys yng Nghymru yn cael eu gwahodd fel aelodau cyfetholedig.

Nododd y Prif Swyddog, Medrwn Môn ei fod yn derbyn gwahoddiad rheolaidd i fynychu'r Pwyllgorau Sgriwtini gan Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd a'i fod yn cael copi o'r Rhaglen Waith Sgriwtini a blaen raglen Waith y Pwyllgor Gwaith, sydd o ddiddordeb i'r Trydydd Sector. Nododd hefyd, er nad oes gan gynrychiolwyr y Trydydd Sector unrhyw hawliau pleidleisio, ei fod yn gobeithio y byddai'r Pwyllgorau Sgriwtini yn gallu elwa o waith y Panel Dinasyddion. Nododd yr hoffai weld proses fwy ffurfiol yn cael ei mabwysiadu.

Awgrymodd y Cynghorydd Aled Morris Jones y dylid cefnogi Medrwn Môn ac **y dylai rôl y Sector Gwirfoddol yn y Bartneriaeth ac ar y Pwyllgor Sgriwtini Adfywio gael ei ffurfioli gyda hawliau pleidleisio.**

**GWEITHRED: Fel yr uchod.**

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

## 8 DIWEDDARIAD AR DDATBLYGIADAU'R PANEL DINASYDDION

Darparodd y Rheolwr Prosiect (Lleisiau Cymunedol) ddiweddariad ar y Panel Dinasyddion Lleisiau Cymunedol a'r Panel Ieuenctid. O ran cyswllt cymunedol, nodwyd bod y Rheolwr Prosiect wedi mynychu cyfarfodydd gyda Chadeiryddion ac Is-Gadeiryddion y Pwyllgor Sgriwtini yn ddiweddar.

Cyfeiriodd y Rheolwr Prosiect at y fframwaith a fabwysiadwyd gan y prosiect ar gyfer gweithgareddau ymgysylltiad cymunedol gan gynnwys sefydlu'r Panel Dinasyddion a'r Panel Ieuenctid.

Cyfeiriodd y Rheolwr Prosiect at Nawdd Loteri a dywedodd y byddai Medrwn Môn yn chwilio am gyllid allanol ar gyfer parhad y prosiectau ond fel y mae pethau ar hyn o bryd, byddai'r cyllid ar gyfer Llais Ni yn dod i ben ym mis Ebrill.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

**9 PARATOI AM Y DYFODOL O RAN DEDDFAU GWASANAETHAU CYMDEITHASOL A LLESIANT (CYMRU) 2014 A CHENEDLAETHAU'R DYFODOL**

Rhoddodd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion grynodeb o'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, sydd mewn grym ers 1 Ebrill, 2016 ynghyd â heriau allweddol, materion gwasanaeth a gofynion y dyfodol. Cyfeiriodd at Nodau'r Ddeddf fel a ganlyn:-

- rhoi llais i'r unigolyn, gyda grym dros y gwasanaethau y maent yn eu derbyn
- galluogi unigolion i gyflawni drwy adeiladu ar eu hamgylchiadau, galluoedd, rhwydweithiau a chymunedau;
- ymyrraeth gynnar – yn cynnwys gwasanaethau ataliol;
- cydweithio a chyd-ddylunio partneriaethau cryf.

Yn codi o'r drafodaeth, nodwyd y dylai'r Prif Weithredwr Cynorthwyol wahodd **Llio Johnson, yr Uwch Reolydd Partneriaeth i fynychu'r cyfarfod nesaf.**

**Gweithred: Fel yr uchod.**

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

**10 LLEISIAU CYMUNEDOL**

Darparodd y Rheolwr Prosiect (Lleisiau Cymunedol) ddiweddariad i'r Pwyllgor ar yr haenau allweddol o ymgynghoriadau a ddefnyddir mewn gwaith partneriaeth rhwng Lleisiau Cymunedol a'r Cyngor Sir mewn perthynas â'r canlynol:-

1. Yr agwedd 'Adeiladu Cymunedau';
2. Yr agwedd 'canol y ffordd' (Ymgynghoriad Llyfrgelloedd / Ymgynghoriad Cyllideb / Ymgynghoriad Hybiau Cymunedol)
3. Yr agwedd 'sylfaenol' (Clybiau Brecwast/Agwedd Gofal Ychwanegol)

Cyfeiriwyd at y fframwaith a'r fethodoleg a ddefnyddiwyd.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

**11 BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH**

Cyflwynwyd Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith ar gyfer y cyfnod rhwng Gorffennaf 2016 a Chwefror 2017 ac fe'i nodwyd.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

## 12 CYFARFOD NESAF

Cytunwyd y dylid cynnal cyfarfod nesaf y Pwyllgor, sydd wedi'i drefnu ar gyfer dydd Gwener 13 Hydref, 2016, yn Neuadd Gymunedol Gwelfor, Caergybi.

Diolchodd y Cadeirydd i Mr John R Jones am ei gyfraniad gwerthfawr i'r Sector Gwirfoddol a Medrwn Môn a dymunodd ymddeoliad iach a hapus iddo.

**Mr Islwyn Humphreys**
**Cadeirydd**

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Gwaith** |
| **Dyddiad:** | **19 Medi 2016** |
| **Pwnc:** | **Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Cyng Ieuan Williams** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Lynn Ball**<br>**Pennaeth Swyddogaeth – Busnes y Cyngor / Swyddog Monitro** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | **Huw Jones, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd**<br>**01248 752108**<br>**JHuwJones@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Amherthnasol** |

| **A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau** |
|---|
| Yn unol â'i Gyfansoddiad, mae'n ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi blaenraglen waith a'i diweddaru'n rheolaidd. Cyhoeddir blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith yn fisol er mwyn galluogi Aelodau'r Cyngor a'r cyhoedd weld pa benderfyniadau allweddol y mae'r Pwyllgor yn debygol o'u gwneud dros y misoedd i ddod.<br><br>Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith:<br><br>gadarnhau'r blaenraglen waith atodol ar gyfer y cyfnod **Hydref 2016 – Mai 2017;**<br><br>Adnabod unrhyw faterion ar gyfer ymgynghoriad gyda Phwyllgorau Sgriwtini'r Cyngor a chadarnhau'r angen i'r Pwyllgorau Sgriwtini ddatblygu eu rhaglenni gwaith i gefnogi rhaglen waith y Pwyllgor Gwaith;<br><br>Nodi bod blaenraglen waith y Pwyllgor Gwaith yn cael ei diweddaru'n fisol a'i chyflwyno fel eitem safonol yn fisol i'r Pwyllgor Gwaith. |

** Allwedd i'r Categoriau:*
*Strategol – cynlluniau a mentrau allweddol corfforaethol*
*Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*Er gwybodaeth*

| B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn? |
|---|
| - |

| C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith? |
|---|
| Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith cyn cyhoeddi pob diweddariad er mwyn cryfhau atebolrwydd a threfniadau blaengynllunio. |

| D – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn? |
|---|
| Ydyw. |

| DD – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? |
|---|
| Amherthnasol. |

| E – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? | | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| 1 | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | Mae blaenraglen waith y Pwyllgor Gwaith yn cael ei thrafod yn fisol yng nghyfarfodydd y Penaethiaid Gwasanaeth (eitem safonol ar y rhaglen).<br><br>Fe'i chylchredir yn rheolaidd hefyd i Gyfarwyddwr Corfforaethol a Phenaethiaid Gwasanaeth er mwyn ei diweddaru. |
| 2 | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | |
| 3 | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | |
| 5 | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| 6 | **Eiddo** | |
| 7 | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| 8 | **Sgriwtini** | Bydd Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith yn llywio rhaglenni gwaith y Pwyllgorau Sgriwtini. |
| 9 | **Aelodau Lleol** | Amherthnasol. |
| 10 | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | Amherthnasol. |

** Allwedd i'r Categoriau:*
*Strategol – cynlluniau a mentrau allweddol corfforaethol*
*Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*Er gwybodaeth*

| F – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol) | | |
|---|---|---|
| 1 | Economaidd | |
| 2 | Gwrthdlodi | |
| 3 | Trosedd ac Anhrefn | |
| 4 | Amgylcheddol | |
| 5 | Cydraddoldebau | |
| 6 | Cytundebau Canlyniad | |
| 7 | Arall | |

| FF - Atodiadau: |
|---|
| Blaenraglen waith y Pwyllgor Gwaith: Hydref 2016 – Mai 2017. |

| G - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach): |
|---|
| |

* *Allwedd i'r Categoriau:*
*Strategol – cynlluniau a mentrau allweddol corfforaethol*
*Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*Er gwybodaeth*

**BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH**
Cyfnod: Hydref 2016 – Mai 2017

Diweddarwyd 09.09.16

Mae blaenraglen waith y Pwyllgor Gwaith yn galluogi Aelodau'r Cyngor a'r cyhoedd weld pa benderfyniadau allweddol y mae'r Pwyllgor yn debygol o'u gwneud dros y misoedd i ddod.

Mae modd i benderfyniadau gweithredol gael ei gwneud gan y Pwyllgor Gwaith llawn yn gweithredu fel corff cyfunol neu gan aelodau unigol o'r Pwyllgor Gwaith yn gweithredu trwy hawliau dirprwyiedig. Mae'r blaenraglen waith yn cynnwys gwybodaeth am y penderfyniadau a geisir, pwy fydd yn gwneud y penderfyniadau a phwy yw'r Swyddogion a'r Deilyddion portffolio arweiniol ar gyfer pob eitem.



Dylid nodi, fodd bynnag, bod y blaenraglen waith yn ddogfen hyblyg, gan nad oes modd gwybod am yr holl eitemau y bydd angen penderfyniad arnynt gymaint â hyn ymlaen llaw ac efallai bydd angen newid yr amserlen ar gyfer rhai materion er mwyn cwrdd â blaenoriaethau newydd ayyb. Oherwydd hyn, fe adolygir yn rheolaidd y rhestr o eitemau sydd wedi'u cynnwys.

Yn achlysurol, bydd angen cyflwyno adroddiadau am drafodion eiddo penodol, a hynny yn unol â Pholisi a Gweithdrefnau Rheoli Asedau. Oherwydd dylanwad y farchnad allanol, nid yw'n bosibl dynodi amseriad adroddiadau fel hyn ymlaen llaw.

Amlinellir blaenraglen waith y Pwyllgor Gwaith ar gyfer y cyfnod **Hydref 2016 - Mai 2017** ar y tudalennau dilynol.

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG – Er gwybodaeth*

# BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Hydref 2016 – Mai 2017

Diweddarwyd 09.09.16

| | **Y pwnc a'i *gategori a** beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | **Hydref 2016** | | | |
| 1 | **Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Ieuan Williams | | Pwyllgor Gwaith<br><br>17 Hydref 2016 | |
| 2 | **Premiymau'r Dreth Gyngor**<br><br>Adroddiad cynnydd ar yr incwm ychwanegol amcangyfrifedig o Ebrill 2017 ymlaen ac, os yn berthnasol, unrhyw faterion sydd wedi dod i'r amlwg. | | Adnoddau | Marc Jones<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adain 151<br><br>Cyng Hywel Eifion Jones | | Pwyllgor Gwaith<br><br>17 Hydref 2016 | |
| 3 | **Ffoaduriaid Syriaidd**<br><br>Adroddiad cynnydd ar gyflawni'r rhaglen adleoli a chefnogaeth. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn yn unol â'i benderfyniad ar 25 Ebrill 2016. | Tai | Shan Ll Williams<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai<br><br>Cyng Aled Morris Jones | | Pwyllgor Gwaith<br><br>17 Hydref 2016 | |
| 4 | **Llawr y Dref, Llangefni – Achos Busnes**<br><br>Ystyried canlyniadau'r broses ymgynghori. | Mae hyn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn ymwneud â phenderfyniadau a wnaed gan y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 26 Mai 2016. | Tai | Shan L Williams<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai<br><br>Cyng Aled Morris Jones | | Pwyllgor Gwaith<br><br>17 Hydref 2016 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG – Er gwybodaeth*

## BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Hydref 2016 – Mai 2017

Diweddarwyd 09.09.16

| | Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 5 | **Protocol Gogledd Cymru ar gyfer y gymuned Sipsiwn a Theithwyr**<br><br>Mabwysiadu protocol. | Mae hyn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn ymwneud â mabwysiadau protocol ar y cyd ar gyfer Gogledd Cymru. | Tai | Shan L Williams<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai<br><br>Cyng Aled Morris Jones | 26 Medi 2016 | Pwyllgor Gwaith<br><br>17 Hydref 2016 | |
| | **Tachwedd 2016** | | | | | | |
| 6 | **Cyllideb 2017/18 (S)**<br><br>Cwblhau cynigion cychwynnol drafft y Pwyllgor Gwaith ar gyfer ymgynghori. | Mae hyn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith gan ei fod yn dod o fewn Fframwaith Gyllideb y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Hywel Eifion Jones | 14 Tachwedd 2016 | Pwyllgor Gwaith<br><br>7 Tachwedd 2015 | |
| | | | | | | | |
| 7 | **Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Ieuan Williams | | Pwyllgor Gwaith<br><br>28 Tachwedd 2016 | |
| 8 | **Sylfaen y Dreth Gyngor 2017/18**<br><br>Pennu Sylfaen y Dreth ar gyfer 2017/18. | Mae hyn yn fater dirprwyiedig i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn dod o fewn fframwaith y Cyngor ar gyfer gosod y Gyllideb a'r Dreth Gyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adain 151<br><br>Cyng Hywel Eifion Jones | | Pwyllgor Gwaith<br><br>28 Tachwedd 2016 | |

* *Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG – Er gwybodaeth*

**BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH**
Cyfnod: Hydref 2016 – Mai 2017

Diweddarwyd 09.09.16

| | **Y pwnc a'i *gategori a** beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 9 | **Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor ar gyfer 2017/18**<br><br>Argymell i'r Cyngor llawn y cynllun arfaethedig ar gyfer 2017/18. | Mae angen penderfyniad cyfunol er mwyn gwneud argymhelliad i'r Cyngor llawn fel rhan o Fframwaith Gosod y Dreth Gyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adain 151<br><br>Cyng Hywel Eifion Jones | | Pwyllgor Gwaith<br><br>28 Tachwedd 2016 | 15 Rhagfyr 2016 |
| 10 | **Trawsnewid y Gwasanaeth Llyfrgelloedd**<br><br>Diweddariad i'w gyflwyno am y cynigion partneriaeth cymunedol posib gyda'r gwasanaeth o Ebrill 2017 ymlaen. | Gofynnwyd am ddiweddariad ar y sefyllfa i'r Pwyllgor Gwaith gan nad oedd yn bosib cynnal ymgynghoriad a derbyn penderfyniad y Pwyllgor Gwaith Llawn ynglyn â'r model gweithredu ffafredig i'r gwasanaeth llyfrgelloedd o Ebrill 2017. | Dysgu | Delyth Molyneux<br>Pennaeth Dysgu<br><br>Cyng Kenneth P Hughes | | Pwyllgor Gwaith<br><br>28 Tachwedd 2016 | |
| 11 | **Trawsnewid y Gwasanaeth Ieuenctid** | Gofynnir am benderfyniad y Pwyllgor Gwaith Llawn ynglyn a'r model gweithredu ffafredig i'r gwasanaeth ieuenctid o Ebrill 2017. | Dysgu | Delyth Molyneux<br>Pennaeth Dysgu<br><br>Cyng Kenneth P Hughes | 22 Tachwedd | Pwyllgor Gwaith<br><br>28 Tachwedd 2016 | |

Tudalen 25

* *Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG – Er gwybodaeth*

# BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Hydref 2016 – Mai 2017

Diweddarwyd 09.09.16

| | Y pwnc a'i *gategori **a** beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 12 | **Trawsnewid y Gwasanaeth Diwylliant**<br><br>Diweddariad ar y cynigion sydd wedi dod i law cyn penderfynu ar yr opsiynau i weithredu arnynt yn dilyn datganiadau diddordeb gan grwpiau/unigolion. | Gofynnwyd i'r gwasanaeth gynnig diweddariad i'r Pwyllgor Gwaith gan nad yw'n bosib derbyn penderfyniad gan y Pwyllgor Gwaith am yr opsiynau ffafredig i weithredu arnynyt yn Cam 2 y rhaglen trawsnewid (o Ebrill 2016). | Dysgu | Delyth Molyneux<br>Pennaeth Dysgu<br><br>Cyng Kenneth P Hughes | | Pwyllgor Gwaith<br><br>28 Tachwedd 2016 | |
| 13 | **Polisi Ymddygiad Gwrthgymdeithasol Tai**<br><br>Cymeradwyo'r polisi. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith gan ei fod yn ymwneud â materion sydd yn berthnasol i'r Cyfrif Refeniw Tai. | Tai | Shan Lloyd Williams<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai<br><br>Cyng Aled Morris Jones | | Pwyllgor Gwaith<br><br>28 Tachwedd 2016 | |
| | | | | **Rhagfyr 2016** | | | |
| 14 | **Dileu Dyledion sydd dros £5,000 mewn gwerth**<br><br>Cymeradwyo dileu dyledion. | Deilydd Portffolio Cyllid a'r Swyddog Adain 151. | Adnoddau | Marc Jones<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adain 151<br><br>Cyng Hywel Eifion Jones | | Penderfyniad dirprwyiedig<br><br>Rhagfyr 2016 | |

**  Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG – Er gwybodaeth*

# BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Hydref 2016 – Mai 2017

Diweddarwyd 09.09.16

| | **Y pwnc a'i *gategori a** beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 15 | **Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Ieuan Williams | | Pwyllgor Gwaith<br><br>19 Rhagfyr 2016 | |
| 16 | **Modurdai Tai Cyngor**<br><br>Cymeradwyo argymhellion. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith ar argymhellion ynglyn â'r cyfeiriad strategol a chynllun gweithredu modurdai sy'n rhan o stoc dai'r Cyngor. | Tai | Shan Lloyd Williams<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai<br><br>Cyng Aled Morris Jones | | Pwyllgor Gwaith<br><br>19 Rhagfyr 2016 | |
| | | | | **Ionawr 2017** | | | |
| 17 | **Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Ieuan Williams | | Pwyllgor Gwaith<br><br>23 Ionawr 2017 | |
| 18 | **Achos Busnes Llawn ar gyfer Ysgol newydd Bro Rhosyr/Bro Aberffraw**<br><br>Cymeradwyo'r achos busnes. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn cyn cyflwyno'r Achos Busnes Llawn i Lywodraeth Cymru. | Dysgu | Delyth Molyneux<br>Pennaeth Dysgu<br><br>Cyng Kenneth P Hughes | | Pwyllgor Gwaith<br><br>23 Ionawr 2017 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG – Er gwybodaeth*

# BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Hydref 2016 – Mai 2017

Diweddarwyd 09.09.16

| | **Y pwnc a'i *gategori a** beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 19 | **Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant**<br><br>Cymeradwyaeth. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn cyn cyflwyno'r Asesiad i Lywodraeth Cymru. | Dysgu | Delyth Molyneux<br>Pennaeth Dysgu<br><br>Cyng Kenneth P Hughes | | Pwyllgor Gwaith<br><br>23 Ionawr 2017 | |
| | | | | **Chwefror 2017** | | | |
| 20 | **Dileu Dyledion sydd dros £5,000 mewn gwerth**<br><br>Cymeradwyo dileu dyledion. | Deilydd Portffolio Cyllid a'r Swyddog Adain 151. | Adnoddau | Marc Jones<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adain 151<br><br>Cyng Hywel Eifion Jones | | Penderfyniad dirprwyiedig<br><br>Chwefror 2017 | |
| 21 | **Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Ieuan Williams | | Pwyllgor Gwaith<br><br>13 Chwefror 2017 | |
| 22 | **Cyllideb 2017/18 (S)**<br><br>Mabwysiadu cynigion terfynol i'w hargymell il'r Cyngor Sir. | Mae hyn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith gan ei fod yn dod o fewn Fframwaith Gyllideb y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Hywel Eifion Jones | 6 Chwefror 2017 | Pwyllgor Gwaith<br><br>13 Chwefror 2017 | 28 Chwefror 2017 |
| 23 | **Strategaeth Rheoli Trysorlys 2017/18**<br><br>Mabwysiadu strategaeth ar gyfer y flwyddyn ariannol newydd. | Mae hyn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith gan ei fod yn dod o fewn Fframwaith Gyllideb y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Hywel Eifion Jones | | Pwyllgor Gwaith<br><br>13 Chwefror 2017 | 28 Chwefror 2017 |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG – Er gwybodaeth*

# BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Hydref 2016 – Mai 2017

Diweddarwyd 09.09.16

| | **Y pwnc a'i *gategori a** beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 24 | **Arian Wrth Gefn**<br><br>Diweddariad o'r sefyllfa mewn perthynas ag Arian Wrth Gefn. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol. | Adnoddau | Marc Jones<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Hywel Eifion Jones | | Pwyllgor Gwaith<br><br>13 Chwefror 2017 | |
| 25 | **Polisi Rhyddhad Dewisol rhag y Dreth Fusnes ar gyfer 2017/18**<br><br>Cymeradwyo polisi ar gyfer 2017/18. | Mae angen penderfyniad cyfunol gan y Pwyllgor Gwaith o ran manylu ar y rhyddhad ychwanegol rhag y dreth fusnes i'w ddyrannu i elusennau a sefydliadau sydd ddim yn gwneud elw. | Adnoddau | Marc Jones<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adain 151<br><br>Cyng Hywel Eifion Jones | | Pwyllgor Gwaith<br><br>13 Chwefror 2017 | |
| 26 | **Taliadau am Wasanaethau Di-Breswyl**<br><br>Cymeradwyaeth. | Mae angen penderfyniad cyfunol gan for y mater yn ymwneud ag ystyriaethau ariannol materol berthnasol. | Gwasanaethau Oedolion | Alwyn Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Oedolion<br><br>Cyng Aled Morris Jones | | Pwyllgor Gwaith<br><br>13 Chwefror 2017 | |
| 27 | **Ffi Safonol ar gyfer Cartrefi Preswyl y Cyngor Sir yn ystod 2017/18**<br><br>Cymeradwyaeth. | Mae angen penderfyniad cyfunol gan for y mater yn ymwneud ag ystyriaethau ariannol materol berthnasol. | Gwasanaethau Oedolion | Alwyn Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Oedolion<br><br>Cyng Aled Morris Jones | | Pwyllgor Gwaith<br><br>13 Chwefror 2017 | |

* *Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG – Er gwybodaeth*

# BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Hydref 2016 – Mai 2017

Diweddarwyd 09.09.16

| | **Y pwnc a'i *gategori a** beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 28 | **Graddfeydd Talu am wasanaethau Gofal Cartref annibynnol yn ystod 2017/18**<br><br>Cymeradwyaeth. | Mae angen penderfyniad cyfunol gan for y mater yn ymwneud ag ystyriaethau ariannol materol berthnasol. | Gwasanaethau Oedolion | Alwyn Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Oedolion<br><br>Cyng Aled Morris Jones | | Pwyllgor Gwaith<br><br>13 Chwefror 2017 | |
| 29 | **Graddfeydd Talu am wasanaethau Gofal Cartref annibynnol yn ystod 2017/18**<br><br>Cymeradwyaeth. | Mae angen penderfyniad cyfunol gan for y mater yn ymwneud ag ystyriaethau ariannol materol berthnasol. | Gwasanaethau Oedolion | Alwyn Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Oedolion<br><br>Cyng Aled Morris Jones | | Pwyllgor Gwaith<br><br>13 Chwefror 2017 | |
| 30 | **Cynllun Busnes a Chyllideb Drafft Cyfrif Refeniw Tai 2017-2018**<br><br>Cymeradwyaeth. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith ar y Cynllun Busnes a'r cyllidebau cyfalaf a refeniw. | Tai | Shan Lloyd Williams<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai<br><br>Cyng Aled Morris Jones | | Pwyllgor Gwaith<br><br>13 Chwefror 2017 | |
| 31 | **Asesiad o Anghenion - Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant**<br><br>Cymeradwyaeth statudol o'r asesiad rhanbarthol. | Côd ymarfer statudol: "Mae'n ofynnol i'r awdurdod lleol a'r Bwrdd Iechyd Lleol gymeradwyo'r adroddiad asesiad poblogaeth yn ffurfiol. Bydd angen i hyn gael ei wneud gan Fwrdd y Bwrdd Iechyd Lleol ac, yn achos yr awdurdod lleol, bydd angen iddo | Gwasanaethau Oedolion | Alwyn Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Oedolion<br><br>Cyng Aled Morris Jones | | Pwyllgor Gwaith<br><br>13 Chwefror 2017 | 28 Chwefror 2017 |

Tudalen 30

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG – Er gwybodaeth*

# BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Hydref 2016 – Mai 2017

Diweddarwyd 09.09.16

| | **Y pwnc a'i *gategori a** beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | gael ei gymeradwyo gan y Cyngor llawn pan fydd awdurdod gweithredol neu fwrdd y cyngor yn ei gyflwyno. Bydd hyn yn sicrhau bod y wybodaeth yn yr adroddiad yn cael ei hystyried ar y lefelau uchaf o fewn y sefydliadau hyn." | | | | | |
| | | | **Mawrth 2017** | | | | |
| 32 | **Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Ieuan Williams | | Pwyllgor Gwaith<br><br>20 Mawrth 2017 | |
| 33 | **Polisi Rhyddhad Dewisol rhag Taliadau Tai 2017/18**<br><br>Adroddiad ar weithredu'r polisi yn 2016/17 ac unrhyw newidiadau i'w hargymell – pennu polisi. | Mae angen penderfyniad cyfunol gan y Pwyllgor Gwaith er mwyn manylu'r gefnogaeth ychwanegol at gostau tai i rai hawlwyr budd-dal. | Adnoddau | Marc Jones<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adain 151<br><br>Cyng Hywel Eifion Jones | | Pwyllgor Gwaith<br><br>20 Mawrth 2017 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG – Er gwybodaeth*

## BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Hydref 2016 – Mai 2017

Diweddarwyd 09.09.16

| | **Y pwnc a'i *gategori a** beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | **Ebrill 2017** | | | |
| 34 | **Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Ieuan Williams | | Pwyllgor Gwaith<br><br>24 Ebrill 2017 | |
| | | | | **Mai 2017** | | | |
| 35 | **Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Ieuan Williams | | Pwyllgor Gwaith<br><br>…Mai 2017 | |



**  Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG – Er gwybodaeth*

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Gwaith / Cyngor Sir** |
| **Dyddiad:** | **19 Medi, 2016 / 27 Medi, 2016** |
| **Pwnc:** | **Strategaeth Iaith Gymraeg 2016-2021 (drafft)** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Cyng Ieuan Williams** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Annwen Morgan**<br>**Prif Weithredwr Cynorthwyol** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | **Carol Wyn Owen, Rheolwr Polisi a Strategaeth**<br>**01248 752561**<br>**CarolWynOwen@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Amherthnasol** |

## A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau

**Argymhelliad -** Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith:

Argymell i'r Cyngor Sir y dylid cymeradwyo'r Strategaeth Iaith Gymraeg 2016-2021 (drafft) ac awdurdodi'r swyddogion perthnasol, mewn ymgynghoriad â'r Deilydd Portffolio, i gwblhau unrhyw waith golygu pellach i'r strategaeth ddrafft.

**Rhesymau**

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn galluogi gweinidogion i bennu safonau ymddygiad sy'n ymwneud â'r Gymraeg. Yn yr Hysbysiad Cydymffurfio â'r Safonau Terfynol, pennwyd Safonau 145 a 146 mewn perthynas â chreu Strategaeth Iaith Gymraeg. Er mwyn sicrhau cymymffuriaeth, rhaid i'r Cyngor Sir fabwysiadu Strategaeth Iaith Gymraeg pum mlynedd a'i chyhoeddi ar ei wefan erbyn 30 Medi, 2016.

Mae'r Strategaeth hon yn amlinellu sut y bwriedir mynd ati i hybu'r Gymraeg ac i hwyluso defnyddio'r Gymraeg yn ehangach o fewn yr ardal ac yn gosod targed ar gyfer cynyddu neu gynnal nifer y siaradwyr Cymraeg erbyn diwedd y cyfnod o bum mlynedd o dan sylw. Bum mlynedd ar ôl cyhoeddi'r Strategaeth, bydd angen cyhoeddi fersiwn diwygiedig ohoni yn ogystal ag asesiad o'i chyflawniad.

Mae Fforwm Iaith Strategol Ynys Môn wedi bod yn gweithio'n fwriadus dros y misoedd diwethaf i gynhyrchu'r Strategaeth Iaith Gymraeg bartneriaethol (ddrafft) hon sy'n gosod y weledigaeth a'r cynllun gweithedu ar gyfer y flwyddyn gyntaf. Y bwriad ydi cynhyrchu cynllun gweithredu ar gyfer yr ail flwyddyn cyn diwedd blwyddyn gyntaf y Strategaeth. Cyfrifoldeb y Fforwm Iaith Strategol fydd monitro cynnydd yn erbyn targedau'r Strategaeth.

| **B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?** |
|---|
| Ni ystyriwyd unrhyw opsiynau eraill am y rheswm a nodir isod. |

| **C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** |
|---|
| Mae cyhoeddi'r Strategaeth Iaith Gymraeg 2016-2021 yn ofyniad statudol a hon yw'r ddogfen allweddol sy'n gosod y cyfeiriad strategol sirol a'r camau gweithredu yn y maes iaith gogyfer y bum mlynedd nesaf. |

| **D – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
|---|
| Polisi Iaith Gymraeg. |

| **DD – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
|---|
| Amherthnasol. |

| **E – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | Fe gylchredwyd yn fewnol y Strategaeth Iaith Gymraeg (drafft) i'r swyddogion perthnasol fu'n cyfrannu at y cynnwys. Yn ogystal, fe'i cylchredwyd i Aelodau'r Grŵp Tasg Iaith (28-7-16), y Penaethiaid (28-7-16), aelodau'r Fforwm Iaith Strategol Sirol (1-8-16) ac fe'i cyflwynwyd i'r UDA yn ei gyfarfod ar 25 Gorffennaf, 2016. |
| **2** | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | |
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | |
| **5** | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| **6** | **Eiddo** | |
| **7** | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| **8** | **Sgriwtini** | Cyflwynwyd y Strategaeth (drafft) i gyfarfod o'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio a gynhaliwyd ar 19 Gorffennaf, 2016. Cafwyd trafodaeth adeiladol a chefnogol a gwnaethpwyd nifer o sylwadau ac awgrymiadau (gweler |

| | | |
|---|---|---|
| | | Atodiad 3). Penderfynwyd cymeradwyo'r Strategaeth Iaith Gymraeg 2016-2021 (drafft) gan argymell i'r Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor Llawn ei chymeradwyo. |
| **9** | **Aelodau Lleol** | |
| **10** | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | Partneriaid y Fforwm Iaith Strategol Sirol |

| **F – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | | |
|---|---|---|
| **1** | **Economaidd** | |
| **2** | **Gwrthdlodi** | |
| **3** | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| **4** | **Amgylcheddol** | |
| **5** | **Cydraddoldebau** | |
| **6** | **Cytundebau Canlyniad** | |
| **7** | **Arall** | |

| **FF - Atodiadau:** |
|---|
| Atodiad 1 – Strategaeth Iaith Gymraeg 2016-2021<br>Atodiad 2 – Cynllun Gweithredu Blwyddyn 1<br>Atodiad 3 – Dyfyniad perthnasol o Gofnodion drafft Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio 19 Gorffennaf, 2016 |

| **G - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** |
|---|
| |

# Strategaeth Iaith Gymraeg
# 2016 - 2021

## DRAFFT

DRAFFT

## Fforwm Strategol Iaith Ynys Môn




**Dyddiad Cyhoeddi: Medi 2016**

## Y Fforwm Strategol Iaith

Mae Fforwm Iaith bartneriaethol yn bodoli ar lefel sirol er mwyn rhoi ffocws strategol i'r Iaith Gymraeg ar yr Ynys. Y Fforwm sy'n gyfrifol am adnabod blaenoriaethau a llunio'r Strategaeth hon. Aelodaeth y Fforwm Strategol Iaith:

Derec Llwyd Morgan - Cadeirydd annibynnol

Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr
Consortiwm Addysg ôl-16 Gwynedd ac Ynys Môn
Cymdeithas yr Iaith
Cyngor Sir Ynys Môn
Ffermwyr Ifanc
Grŵp Llandrillo Menai
Heddlu Gogledd Cymru
Medrwn Môn
Menter Iaith Môn
Menter Môn
Môn CF
Mudiad Meithrin
Prifysgol Bangor
Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd (Gwynedd a Môn)
Unllais Cymru
Llys Eisteddfod Môn
Llywodraeth Cymru
Y Ganolfan Cymraeg i Oedolion
Yr Urdd

**Manylion cyswllt:**

Carol Wyn Owen
Swyddog Iaith
Gwasanaethau Democrataidd
Cyngor Sir Ynys Môn
Swyddfa'r Sir
Llangefni
Ynys Môn
LL77 7TW

| | | |
|---|---|---|
| Rhif Ffôn | : | 01248 752561 |
| Rhif Ffacs | : | 01248 752132 |
| E-bost | : | CarolWyn@ynysmon.gov.uk |


Rydym yn hapus i ddarparu’r wybodaeth hon mewn fformatau eraill ar gais – defnyddiwch y manylion cyswllt uchod os gwelwch yn dda.

Mae’r ddogfen hon ar gael yn y Saesneg / This document is available in English.

DRAFT

| **Cynnwys** | **Tudalen** |
|---|---|


**Rhagarweiniad** ………………………………………………………… 5

**Deddfwriaeth a Chyd-destun Polisi** …………………………… 6

Iaith Fyw: Iaith Byw 2012-2017 ………………………………………… 6
Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg 2010 ………………………… 7
Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ……………… 7
Datganiad Polisi Cenedlaethol Cyffredinol ar Ynni – EN-1 (2011) ……….. 8
Datganiad Polisi Cenedlaethol ynglŷn â Chynhyrchu Pŵer Niwclear – EN-6 (2011) …………………………………………………………… 8

**Darlun o sefyllfa'r Gymraeg yn Ynys Môn** 9

Trosolwg o'r ardal leol ……………………………………………… 9
Prif ganlyniadau Cyfrifiad 2011 …………………………………… 9
Gwlad geni ………………………………………………………….. 11
Wardiau Etholiadol ……………………………………………… 11
Siaradwyr Cymraeg fesul oedran ………………………………… 14
Mudo ……………………………………………………………… 16

**Ffocws y Strategaeth** ……………………………………………… 17

**Maes Blaenoriaeth 1 – Plant a Phobl Ifanc / Y Teulu**

Y nod, y canlyniad a ddymunir a'r dangosyddion perthnasol ……………….. 18
Trosglwyddiad Iaith ……………………………………………… 19
Cynllun Addysg Gymraeg Ynys Môn……………………………… 20
Addysg Bellach ……………………………………………………… 21
Defnydd Cymdeithasol Plant a Phobl Ifanc o'r Gymraeg…………………….. 23

**Maes Blaenoriaeth 2 – Y Gweithle, Gwasanaethau Cymraeg, Y Seilwaith**

Y nod, y canlyniad a ddymunir a'r dangosyddion perthnasol ……………….. 25
Y Gymraeg yn y gweithle ………………………………………….. 25
Argaeledd gwasanaethau Cymraeg ……………………………… 27

**Maes Blaenoriaeth 3 – Y Gymuned**

Y nod, y canlyniad a ddymunir a'r dangosyddion perthnasol ………………. 28
Defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg ar lefel gymunedol ……………………. 29
Y Cynllun Datblygu Lleol …………………………………………….. 29
Tai ………………………………………………………………… 31
Twristiaeth ………………………………………………………… 32
Rhaglen Ynys Ynni ………………………………………………… 32

**Atodiad: Cynllun Gweithredu – Blwyddyn 1**


DRAFT

## Rhagarweiniad

Cyflwynir y Strategaeth Iaith Sirol ger eich bron.  Croesewir y ffaith ei bod hi'n ofynnol i Gyngor Sir Ynys Môn baratoi strategaeth o'r fath.

Mae'r strategaeth gynhwysol hon yn ffrwyth llafur y Cyngor ynghyd â nifer o'i bartneriaethau sydd wedi cyfarfod yn gyson dan yr enw Fforwm Iaith Ynys Môn.  Ar gyfer y strategaeth gyntaf hon, cytunodd y fforwm i ganolbwyntio ar dair thema sef:

- **Plant, Pobl Ifanc a'r Teulu**
- **Y Gweithlu, Gwasanaethau Cymraeg, Y Seilwaith**
- **Y Gymuned**

Yn ystod y blynyddoedd nesaf, bydd Ynys Môn yn wynebu llawer o heriau, gan gynnwys heriau ieithyddol.  Yn yr un modd, bydd cyfleoedd i gryfhau'r Gymraeg ac mae'n hynod o bwysig ein bod yn gwneud y mwyaf o'r cyfleoedd drwy gydweithio gyda'n gilydd ym Môn.  Rhaid bod yn realistig gan ymdrechu i fod mor rhagweithiol â phosib.

Yn ogystal â'r Strategaeth, paratowyd Cynllun Gweithredu blynyddol sy'n canolbwyntio i gychwyn ar y camau ymarferol pwysicaf a gwneud hynny o fewn yr adnoddau sydd ar gael. Y Cynllun hwn sy'n rhoi ein Strategaeth ar waith a'r bwriad yn ystod 2016-17 yw monitro cynnydd o ran y camau gweithredu yng nghyfarfodydd y Fforwm Iaith yn ystod 2016-17.

Heb os, gall pob un ohonom sy'n darllen y Strategaeth a'r Cynllun nodi yn ddidrafferth sawl peth arall y mae angen ei wneud i sicrhau fod y Gymraeg yn ffynnu yn Ynys Môn.  Ein nod ydyw canolbwyntio ar lai a sicrhau y gwneir gwahaniaeth.

Ein gweledigaeth ar gyfer Cyfrifiad 2021 yw gweld cynnydd yn y nifer sy'n siarad y Gymraeg a bod y ganran yn codi i o leiaf 60.1% fel ag yr oedd yn 2001.   O gydweithio a chymryd camau ymarferol, y mae hynny'n gyraeddadwy.

## Deddfwriaeth a chyd-destun polisi

Yn ôl yn 1993, pasiwyd Deddf yr Iaith Gymraeg oedd yn gosod yr egwyddor y dylid trin y Gymraeg yn gyfartal â'r Saesneg wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru. Prif ofynion y ddeddf oedd:

- gorfodi cyrff cyhoeddus yng Nghymru i ddarparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg ac i baratoi cynllun i ddangos sut y maent yn bwriadu defnyddio'r iaith
- rhoi hawl i ddefnyddio'r Gymraeg mewn llys barn yng Nghymru
- creu Bwrdd yr Iaith i oruchwylio defnydd o'r iaith gan gyrff cyhoeddus ac i gymeradwyo cynlluniau iaith cyrff cyhoeddus.

Ar sail y ddeddf, mabwysiadodd Cyngor Sir Ynys Môn yr egwyddor o drin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal ac fe gymeradwywyd pedwerydd argraffiad Cynllun Iaith Gymraeg y Cyngor gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg o dan Adran 14(1) y Ddeddf ar 26 Mawrth, 2012.

Ddeunaw mlynedd yn ddiweddarach, crëwyd fframwaith deddfwriaethol newydd ar gyfer y Gymraeg gyda phasio Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Mae'r Mesur yn cynnwys:

- sicrhau statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru
- sefydlu swydd Comisiynydd y Gymraeg
- creu trefn o gyflwyno dyletswyddau ar ffurf safonau iaith
- creu darpariaeth ar gyfer hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg

Nod y Mesur Iaith newydd yw cynnig mwy o eglurder a chysondeb i siaradwyr Cymraeg o ran y gwasanaethau y gallant ddisgwyl eu derbyn yn y Gymraeg. Mae'r Mesur yn seiliedig ar yr egwyddorion a ganlyn:

- ni ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru
- dylai pobl yng Nghymru allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

**Iaith Fyw: Iaith Byw 2012-2017**

Yn 2003, fe gyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ei fframwaith strategol ar gyfer hyrwyddo'r Gymraeg sef 'Iaith Pawb: *Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Cymru Ddwyieithog'.*

Yn ystod 2014, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddatganiad polisi drafft, *'Iaith fyw: iaith byw - Bwrw mlaen'* yn amlinellu'r modd yr oeddynt yn bwriadu canolbwyntio ar weithredu'r strategaeth *'Iaith fyw: Iaith byw'* dros y tair blynedd nesaf. Y nod strategol yw cynyddu nifer y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg ac ehangu'r defnydd cyffredinol a wneir o'r Gymraeg.

Er mwyn cyflawni hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi gosod chwe nod, sef:

- annog a chefnogi'r defnydd o'r Gymraeg o fewn teuluoedd
- cynyddu'r ddarpariaeth o weithgareddau Cymraeg ar gyfer plant a  phobl ifanc a chynyddu eu hymwybyddiaeth o werth yr iaith
- cryfhau safle'r Gymraeg o fewn y gymuned
- cynyddu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle
- cynyddu a gwella gwasanaethau Cymraeg i ddinasyddion
- cryfhau'r seilwaith ar gyfer yr iaith, gan gynnwys technoleg ddigidol.

Er mwyn gwireddu'r nodau hyn yn llwyddiannus, cydnabyddir gan y Llywodraeth bod angen mewnbwn gan nifer o sefydliadau ledled Cymru.  Mae'r egwyddorion gogyfer gwireddu'r weledigaeth yn seiliedig ar ddau faes sef '**caffael yr iaith'** a '**defnyddio'r iaith'.**  Er mwyn annog plant a phobl i gaffael yr iaith, anogir trosglwyddo'r iaith ar yr aelwyd a chynyddu'r ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg.  I gynyddu'r defnydd o'r iaith, rhoddir pwyslais ar gynyddu cyfleoedd i'w defnyddio ar lefel cymdeithasol, yn gymunedol, yn y gweithle a thrwy gyfrwng gwasanaethau cyfrwng Cymraeg.  Byddai hyn yn ei dro yn cynyddu hyder pobl a'u rhuglder yn yr iaith ac yn cryfhau sefyllfa'r Gymraeg o fewn ein cymunedau.

### Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg 2010

Roedd cyhoeddi'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg ym mis Ebrill 2010 yn garreg filltir bwysig yn hanes datblygiad addysg cyfrwng Cymraeg yng Nghymru. Am y tro cyntaf gosododd Llywodraeth Cymru ei gweledigaeth i gael '*system addysg a hyfforddiant sy'n ymateb mewn ffordd wedi'i chynllunio i'r galw cynyddol am addysg cyfrwng Cymraeg … ac sy'n sicrhau cynnydd yn nifer y bobl o bob oedran a chefndir sy'n rhugl yn y Gymraeg ac sy'n gallu defnyddio'r iaith gyda'u teuluoedd, yn eu cymunedau ac yn y gweithle.'*  Mae'r Strategaeth hefyd yn nodi'r cyfeiriad ar gyfer gwella safonau addysgu a dysgu'r Gymraeg fel iaith, ac yn benodol, Cymraeg fel ail iaith.

Mae'r cyfnod cychwynnol pum mlynedd o weithredu bellach wedi dod i ben ac mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi datganiad polisi, sef '*Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg: y camau nesaf*' sy'n amlinellu'r ffordd ymlaen ar gyfer datblygu addysg cyfrwng Cymraeg a'r iaith Gymraeg rhwng 1 Ebrill 2016 a 31 Mawrth 2017.

Mae hefyd yn bwysig cofio bod y Strategaeth yn eistedd ochr yn ochr â Strategaeth Iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru- *Iaith fyw: iaith byw* (2012).  Mae rhyngddibyniaeth clir rhwng y ddwy strategaeth gan fod gan y sector addysg a sgiliau gyfraniad pwysig i'w wneud i gefnogi'r nod ehangach o weld yr iaith yn ffynnu ac i gynyddu caffaeliad a defnydd o'r Gymraeg.

### Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ymwneud â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru.  Bydd yn helpu'r cyrff cyhoeddus perthnasol i feddwl mwy am y tymor hir, gweithio'n well gyda phobl a chymunedau a chyda'i gilydd, ceisio atal problemau a dilyn dull gweithredu cyson.  Mae'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus sicrhau eu bod yn ystyried yr

effaith a gaiff eu penderfyniadau ar bobl sy'n byw eu bywydau yng Nghymru yn y dyfodol.

Mae ‘Cymru â diwylliant bywiog lle mae’r Gymraeg yn ffynnu’ yn un o’r saith nod llesiant o fewn y Ddeddf y disgwylir i gyrff cyhoeddus eu gwireddu a chyfrannu orau tuag atynt.  Disgrifir y nod yma fel:

*‘Cymdeithas sy’n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a’r Gymraeg ac sy’n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden’.*

**Datganiad Polisi Cenedlaethol Cyffredinol am Ynni: EN-1 (2011)**

Mae'r Datganiad Polisi Cenedlaethol hwn yn rhestru'r meini prawf a ddefnyddir wrth benderfynu ynghylch ceisiadau sy'n ymwneud â phrosiectau seilwaith cenedlaethol eu harwyddocâd. Mae GNN Wylfa yn brosiect o'r fath. Mae'r Datganiad yn argymell yr hyn y dylid canolbwyntio arno yn y Datganiad Amgylcheddol a gyflwynir gyda'r cais. Mae'r Datganiad Polisi Cenedlaethol (ym mhara 5.12.3) yn dweud y dylai Datganiadau Amgylcheddol ystyried pob effaith gymdeithasol-economaidd, a allai gynnwys:

- Creu cyfleoedd am swyddi a hyfforddiant;
- Darparu gwasanaethau lleol ychwanegol a gwella'r seilwaith lleol, gan gynnwys darparu cyfleusterau addysgol a chyfleusterau i ymwelwyr;
- Effeithiau ar dwristiaeth;
- Effaith y nifer amrywiol o weithwyr sy'n llifo i mewn i'r ardal yn ystod gwahanol gamau'r gwaith adeiladu, gweithredu a digomisiynu'r seilwaith ynni. Gallai hyn newid deinameg y boblogaeth leol ac fe allai newid y galw am wasanaethau a chyfleusterau yn yr aneddiadau sydd agosaf at y gwaith adeiladu (gan gynnwys cyfleusterau cymunedol a seilwaith ffisegol megis ynni, dŵr, trafnidiaeth a gwastraff). Fe allai hyn hefyd effeithio ar gydlyniant cymdeithasol a dibynnu ar sut y bydd poblogaethau a'r gwasanaethau a ddarperir yn newid yn sgil y datblygiad;
- Effeithiau cronnus - petai caniatâd datblygu yn cael ei roi ar gyfer nifer o brosiectau mewn rhanbarth a'r rhain yn cael eu datblygu fwy neu lai o fewn yr un cyfnod, fe allai hynny greu nifer o effeithiau negyddol tymor byr, er enghraifft, diffyg gweithwyr adeiladu o bosibl i ddiwallu anghenion diwydiannau eraill a phrosiectau mawr yn y rhanbarth.
- Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg

**Datganiad Polisi Cenedlaethol ynglŷn â Chynhyrchu Pŵer Niwclear: EN-6 (2011)**

Gyda golwg yn benodol ar Orsaf Niwclear Newydd Wylfa, mae Cyfrol II o'r Datganiad Polisi Cenedlaethol yn dweud bod pryder am ddylanwad mewnlif o weithwyr i'r ardal ar yr iaith, ar ddiwylliant ac ar les.

# Darlun o sefyllfa'r Gymraeg yn Ynys Môn

**Trosolwg o'r ardal leol**

Mae Ynys Môn yn cael ei chyfrif yn un o gadarnleoedd y Gymraeg ac mae'r iaith Gymraeg yn elfen naturiol o fywyd pob dydd yr ynys ac mae'n adlewyrchiad o'i thraddodiadau a'i diwylliant. Ynghlwm â hyn, mae hanes a diwylliant Cymreig cyfoethog yn diffinio'r ardal a'i thrigolion. Mae cynaliadwyedd yr iaith Gymraeg yn ddibynnol ar y broses o wella cymunedau Cymraeg trwy ddarparu digon o gyfleoedd addysgol, diwylliannol a chymdeithasol i ddefnyddio'r iaith o ddydd i ddydd. Ceir y cyfleoedd hyn trwy'r dulliau ffurfiol megis y gyfundrefn addysg a dosbarthiadau iaith ar gyfer dysgwyr a thrwy ddulliau anffurfiol megis cymdeithasau, mudiadau a chlybiau.

**Prif ganlyniadau Cyfrifiad 2011**

Y ffynhonnell bwysicaf o ganfod ystadegau am sefyllfa'r Gymraeg yw'r Cyfrifiad a dengys ffigyrau Cyfrifiad 2011 bod gostyngiad yn nifer y siaradwyr Cymraeg yn Ynys Môn o 38,893 (60.1%) yn 2001 i 38,568 (57.2%) yn 2011. Mae'r gostyngiad hwn o 325 o unigolion yn gyfystyr â gostyngiad o 0.8% yn nifer siaradwyr Cymraeg y Sir. Yn 2011, roedd 45.6% yn gallu siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg a 10.7% yn deall Cymraeg yn unig[1]. Doedd dim sgiliau gan 30.4%. Serch hynny, mae gan Ynys Môn yr ail gyfradd uchaf o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru.

| Nifer y siaradwyr Cymraeg yn Ynys Môn 2011 | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Poblogaeth dros dair blwydd oed** | **Siarad Cymraeg ond nid yn ei darllen na'i hysgrifennu** | **Siarad a darllen Cymraeg ond nid yn ei hysgrifennu** | **Siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg** | **Cyfuniad arall o sgiliau** | **Dim gwybodaeth o'r Gymraeg** |
| | | % | % | % | % | % |
| Ynys Môn | 67,403 | 7 | 4.3 | 45.6 | 1.9 | 30.4 |
| Cymru | 2,955,841 | 2.7 | 1.5 | 14.6 | 2.5 | 73.3 |
| Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011 | | | | | | |

Dengys yr arolwg ar y cyd rhwng Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg, '*Defnydd y Gymraeg yng Nghymru, 2013-15'* isod niferoedd a chanrannau'r bobl sydd yn siarad Cymraeg bob dydd ym Môn o'i gymharu â Chymru gyfan. Gwelwn o'r tabl isod y newid ers Arolygon Defnydd Iaith 2004-06.

[1] Llywodraeth Cymru, Cyflwyniad i Fforwm Strategol Ynys Môn 24/09/13

| Siaradwyr Cymraeg sy’n siarad yr iaith bob dydd | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2004-06 | | 2013-15 | | Gwahaniaeth | |
| | Nifer | Canran | Nifer | Canran | Nifer | Pwynt Canrannol |
| **Ynys Môn** | 31,500 | 87 | 29,500 | 77 | -2000 | -9 |
| **Cymru** | 342,300 | 63 | 360,900 | 53 | 18,600 | -9 |

Mae’r arolwg *‘Defnydd y Gymraeg yng Nghymru, 2013-15’* yn nodi bod cyswllt clir rhwng rhuglder ac amlder defnydd y Gymraeg. Mae mwy o gyfleoedd i siarad yr iaith yn yr ardaloedd lle ceir y crynodiadau uchaf o siaradwyr Cymraeg, megis Ynys Môn ac mae’n hynod bwysig bod y strategaeth hon yn adnabod cyfleoedd pellach i drigolion ddefnyddio’r Gymraeg.

Dengys y tabl isod fod nifer y bobl yn Ynys Môn sydd yn gallu siarad Cymraeg wedi gostwng o 80% yn 1951 i 57% erbyn 2011.

| Newidiadau yn y nifer a’r % o Siaradwyr Cymraeg ers 1951 | | |
|---|---|---|
| **Blwyddyn** | **Ynys Môn** | **Cymru** |
| 1951 | 38,443 (80.0%) | 714,700 (28.9%) |
| 1961 | 37,101 (75.0%) | 656,000 (26.0%) |
| 1971 | 37,135 (66.0%) | 542,400 (20.8%) |
| 1981 | 39,229 (61.0%) | 508,200 (18.9%) |
| 1991 | 41,240 (61.9%) | 500,000 (18.5%) |
| 2001 | 38,893 (60.1%) | 582,368 (20.7%) |
| 2011 | 38,568 (57.2%) | 562,016 (19%) |

Er y bu dirywiad sylweddol yn y canran o siaradwyr Cymraeg, mae’n ddiddorol nodi bod y nifer o siaradwyr Cymraeg yn 2011 (38,568) ychydig yn uwch na’r nifer yn 1951 (38,443). Mae’n debyg bod hyn yn adlewyrchu’r twf cyffredinol yn y boblogaeth yn sgil datblygiadau gweithfeydd mawr yn y 1960au megis Gorsaf Ynni Niwclear Wylfa a gwaith mwyndoddi Alwminiwm Môn.

Mae Arolwg *Defnydd y Gymraeg yng Nghymru 2013-2015* ar y cyd rhwng Lywodraeth Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg yn dangos mwy o ostyngiad yn nifer y siaradwyr Cymraeg rhugl yn Ynys Môn yn 2013-15 nag oedd yn 2004-06. Roedd y gostyngiad hwn yn 2,600 ac yn cyd-fynd â’r patrwm cenedlaethol lle gwelwyd y gostyngiadau mwyaf o siaradwyr Cymraeg rhugl mewn ardaloedd awdurdodau lleol gyda’r canrannau uchaf o siaradwyr Cymraeg.

Mae nifer o ffactorau demograffig yn gyfrifol am y gostyngiad hwn megis effaith mewnfudo ar y boblogaeth, lleihad yn y niferoedd o gartrefi pobl hŷn lle siaredir y Gymraeg ac allfudiad pobl ifanc sy’n siarad Cymraeg i ddilyn cyrsiau addysgol ac i ddilyn gyrfaoedd. Yn ogystal, mae’r economi wan a’r orddibyniaeth ar y sector cyhoeddus a darparu a rhai diwydiannau penodol ynghyd â’r farchnad dai ansefydlog yn cyfrannu at yr heriadau sy’n wynebu siaradwyr Cymraeg i aros yn eu cymunedau.

DRAFT

Gall y lleihad mewn trosglwyddiad iaith o fewn y teulu fod yn rheswm arall am y dirywiad ac mae'n allweddol bod yr elfen hon yn derbyn sylw dyledus. Yn ogystal, mae angen cymryd camau rhagweithiol i gynyddu nifer y disgyblion sy'n derbyn asesiad drwy gyfrwng y Gymraeg erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen gan fod hyn yn greiddiol i feithrin hyder i ddefnyddio'r Gymraeg o'r cychwyn cyntaf. Bydd y strategaeth hon yn ymdrin yn rhagweithiol â'r elfen hon.

**Gwlad geni**

Cynyddodd canran y boblogaeth a anwyd tu allan i Gymru o 32.4% yn 2001 i 33.6% yn 2011. Yn 2011, o'r rhai a anwyd yng Nghymru, gallai 78.2% siarad Cymraeg o'i gymharu â 80.8% yn 2001. Yn 2011, o'r rhai anwyd y tu allan i Gymru, gallai 17.6% siarad Cymraeg o'i gymharu â 18.7% yn 2001.

**Wardiau Etholiadol**

Mae'r gyfran o siaradwyr Cymraeg yn amrywio ar Ynys Môn fesul ward etholiadol. Gwelir y cyfraddau uchaf o siaradwyr Cymraeg yn yr ardaloedd mwyaf canolog, tra bod y gyfradd yn dueddol o ostwng tua gorllewin yr ynys, yn enwedig o amgylch ardal Caergybi.

Mae'r tablau isod yn dangos y deg ward uchaf a'r deg ward isaf yn ôl cyfran y bobl 3 oed a throsodd oedd yn gallu siarad Cymraeg yn 2001 a 2011:

**Cyfran y bobl (3 oed a throsodd) sy'n gallu siarad Cymraeg, fesul ward, 2001 a 2011 – y deg uchaf:**

| **Enw Ward** | **2001** | | **2011** | | **Newid** |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Safle** | **Canran** | **Safle** | **Canran** | |
| Cyngar | 1 | 84.7% | 1 | 80.8% | -3.9% |
| Tudur | 2 | 83.6% | 2 | 80.7% | -2.9% |
| Cefni | 3 | 83.1% | 3 | 80.5% | -2.6% |
| Llanfihangel Ysgeifiog | 4 | 78.3% | 4 | 75.8% | -2.5% |
| Bodffordd | 5 | 77.9% | 5 | 73.3% | -4.6% |
| Braint | 6 | 77.1% | 6 | 73.2% | -3.9% |
| Bryngwran | 7 | 76.1% | 7 | 71.2% | -4.9% |
| Gwyngyll | 8 | 73.9% | 8 | 70.5% | -3.4% |
| Bodorgan | 9 | 72.7% | 10 | 68.3% | -4.4% |
| Llannerch-y-medd | 10 | 72.3% | 9 | 69.9% | -2.4% |

*Ffynhonnell: Cyfrifiad 2001 a Chyfrifiad 2011*

| **Cyfran y bobl (3 oed a throsodd) sy'n gallu siarad Cymraeg, fesul ward, 2001 a 2011 – y deg isaf:** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Enw Ward** | **2001** | | **2011** | | **Newid** |
| | **Safle** | **Canran** | **Safle** | **Canran** | |
| Biwmares | 1 | 39.7% | 4 | 39.5% | -0.2% |
| Rhosneigr | 2 (cydradd) | 42.6% | 1 | 36.0% | -6.6% |
| Trearddur | 2 (cydradd) | 42.6% | 2 | 38.1% | -4.5% |
| Caergybi – ward y Dref | 4 | 43.2% | 3 | 39.1% | -4.1% |
| Maeshyfryd | 5 | 43.7% | 7 | 40.6% | -3.1% |
| Morawelon | 6 | 45.3% | 6 | 40.4% | -4.9% |
| Llanbedrgoch | 7 | 45.5% | 9 | 43.9% | -1.6% |
| Porthyfelin | 8 | 45.7% | 5 | 39.7% | -6.0% |
| Kingsland | 9 | 48.0% | 8 | 42.9% | -5.1% |
| Moelfre | 10 | 51.4% | 10 | 52.3% | 0.9% |
| *Ffynhonnell: Cyfrifiad 2001 a Chyfrifiad 2011* | | | | | |

Yn 2001 roedd 10 o wardiau Ynys Môn gyda dros 70% o'u poblogaeth yn siarad Cymraeg ond, erbyn 2011 roedd y nifer wedi gostwng i 8 ward. Cafodd pwysigrwydd cymunedau sydd â 70% a mwy o'r boblogaeth dros 3 oed yn siarad Cymraeg ei nodi yn *Iaith Pawb,* sef Cynllun Gweithredu Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer creu Cymru Ddwyieithog a gyhoeddwyd yn 2003. Roedd atal y dirywiad yn y cymunedau hynny sy'n cynnal lefel cymharol uchel o hyfywedd ieithyddol yn un o dargedau allweddol y strategaeth. Pwysleisir yn *Iaith Pawb* mai'r nod erbyn 2011 oedd:-

- Bod y lleihad yn nifer y cymunedau lle mae'r Gymraeg yn cael ei siarad gan dros 70% o'r boblogaeth yn cael ei atal

Cyfeiriwyd yn y ddogfen bolisi at y ffaith bod nifer y cymunedau â dros 70% yn siarad Cymraeg wedi gostwng dros y degawdau diwethaf a bod perygl y gallai'r lleihad fygwth dyfodol y Gymraeg fel iaith gymunedol, fyw:-

'Gellid dadlau pe bai'r dirywiad yn parhau, y gallai fygwth bodolaeth yr iaith Gymraeg gan na fyddai ganddi fwyach amgylchedd naturiol lle câi'r iaith ei siarad yn arferol mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd cymdeithasol.'

Gan fod sefyllfa'r Gymraeg yn fwy bregus erbyn hyn mae 70% wedi cael ei dderbyn fel 'pwynt tipio'. Fel mae'r term yn ei awgrymu mae arbenigwyr yn y maes cymdeithaseg iaith o'r farn bod y broses o encilio yn cyflymu wrth i ganran y siaradwyr ostwng dan y lefel hon. Mae'r dirywiad wedyn yn sydyn ac yn digwydd am lawer o resymau gwahanol - yn bennaf oherwydd cynnydd mewn priodasau cymysg eu hiaith, lleihad yn amlder y defnydd, diffyg hyder, ymlediad cynyddol y Saesneg i beuoedd cymdeithasol y Gymraeg a chanfyddiad o ddiffyg gwerth yr iaith mewn byd sydd yn raddol ddatblygu'n fwyfwy unffurf ac Eingl-Americanaidd.



DRAFT


Yn 2011, roedd tair ward gyda dros 80% o'r boblogaeth yn gallu siarad Cymraeg a lleolir y tair ward yma yn Llangefni.  Ward Cyngar oedd y ward gyda'r gyfran uchaf o siaradwyr Cymraeg (80.8%), ac yna wardiau Tudur (80.7%) a Chefni (80.5%).

Roedd y gyfran isaf o siaradwyr Cymraeg yn 2011 yn ward Rhosneigr, gydag ond 36.0% o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg.  Gwelwyd y dirywiad mwyaf yn y gyfran o siaradwyr Cymraeg yn Aberffraw, lle bu gostyngiad o 69.4% yn 2001 i 60.4% yn 2011.

Wrth edrych ar ddosbarthiad holl wardiau'r ynys yn ôl cyfran y bobl 3 oed a throsodd oedd yn gallu siarad Cymraeg, yn 2001 roedd 27 o wardiau lle'r oedd dros hanner y boblogaeth yn gallu siarad Cymraeg ond mae'r niferoedd yn gostwng wrth i ni edrych ar ardaloedd o gwmpas y glannau a threfi glan y môr.  Mae'r 27 o wardiau (67.5%) lle'r oedd dros hanner y boblogaeth yn gallu siarad Cymraeg yn Ynys Môn yn 2011 yn is na'r 31 o wardiau (77.5%) yn 2001.

DRAFFT

**Canran y Siaradwyr –Rhanbarthau Etholiadol**
**Proportion of Speakers – Electoral Divisions**




## Siaradwyr Cymraeg fesul oedran

Mae canran y siaradwyr Cymraeg ar Ynys Môn yn amrywio fesul categori oedran ac mae Ffigwr 1 yn dangos cyfran y boblogaeth sy'n gallu siarad Cymraeg, yn ôl grwpiau oedran, yn 2001 a 2011. Mae Tabl 1 ar y dudalen nesaf hefyd yn cynnwys gwybodaeth am y niferoedd o siaradwyr Cymraeg fesul grŵp oedran ar gyfer y ddau gyfnod.

Fel y gwelir yn Ffigwr 1, yn 2011 gallai cyfrannau cymharol uwch o'r boblogaeth yn y grwpiau oedran iau siarad Cymraeg, gyda'r gyfran uchaf yn y grŵp oedran 5-15 oed. Mae cynnydd yng nghyfran y plant 5-15 mlwydd oed sy'n gallu siarad Cymraeg o 77.8% yn 2001 i 80.1% yn 2011, sef cynnydd o 2.3 pwynt canran. Mae'n debyg y

gellir priodoli'r cynnydd bychan yn y grŵp oedran hwn i lwyddiant Polisi Addysg y Sir. Er y cynnydd yma yn y gyfran sy'n gallu siarad Cymraeg, gwelwyd gostyngiad o 924 o unigolion (12.6%) yn nifer y siaradwyr Cymraeg 5-15 mlwydd oed. Dyma'r dirywiad mwyaf o ran nifer y siaradwyr Cymraeg o blith pob grŵp oedran. Mae'n debyg bod y ffaith fod 1,426 yn llai o blant 5-15 oed yn 2011 nag yn 2001 yn cyfrannu'n sylweddol at y sefyllfa.


Gwelwyd cynnydd o 1.3 pwynt canran yng nghyfran y siaradwyr Cymraeg ymysg y grŵp oedran 25-39, gan newid o 59.0% yn 2001 i 60.3% yn 2011. Unwaith eto, nid yw'r cynnydd yma o ran cyfran y siaradwyr Cymraeg yr un sefyllfa o ran y nifer o siaradwyr Cymraeg. Gwelwyd gostyngiad o 496 o unigolion (7.0%) yn nifer y siaradwyr Cymraeg 25-39 mlwydd oed dros gyfnod o ddeg mlynedd. Mae hyn yn arwyddocaol iawn o safbwynt cynllunio iaith gan mai dyma'r grŵp oedran sydd fwyaf tebygol o fagu teuluoedd dros y blynyddoedd nesaf. Mae allfudo'r ifanc i ddilyn gyrfaoedd ynghyd â cholli sgiliau iaith ar ôl gadael y gyfundrefn addysg yn ffactorau tebygol dros y gostyngiad hwn.

O'r grŵp oedran yma ymlaen, mae'r gyfran sy'n gallu siarad Cymraeg yn gostwng yn barhaus gan gyrraedd isafswm o 46.8% ymysg y boblogaeth 60-64 mlwydd oed. Awgryma hyn bod mewnfudiad o bobl hŷn di-Gymraeg wedi digwydd yn y grŵp oedran hwn. Mae nifer o'r canolfannau arfordirol ar yr ynys yn denu pobl i ymddeol iddynt.

Mae'r gyfran yn cynyddu'n raddol, gan gyrraedd 51.8% ar gyfer y boblogaeth 75 oed a throsodd.

Oni bai am y ddau grŵp oedran 5-15 a 25-39 mlwydd oed, mae pob grŵp oedran arall wedi gweld lleihad yn y gyfran o siaradwyr, fel y gwelir yn Nhabl 1 (colofn 'Mewn pwynt canran').

**Ffigwr 1: Cyfran y bobl (3 oed a throsodd) sy'n gallu siarad Cymraeg, yn ôl grŵp oedran, 2001 & 2011**




*Ffynhonnell: Cyfrifiad 2001 - Tabl CS146; Cyfrifiad 2011 - Tabl DC2203WA*

**Tabl 1: Nifer a chyfran y bobl (3 oed a throsodd) sy'n gallu siarad Cymraeg, yn ôl grŵp oedran, 2001 & 2011**

| Grŵp Oedran | 2001 | | 2011 | | Newid 2001-2011 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % | Mewn nifer | Mewn nifer (%) | Mewn Pwynt Canran |
| 3-4 | 797 | 54.5% | 827 | 54.1% | 30 | 3.8% | -0.4% |
| 5-15 | 7,318 | 77.8% | 6,394 | 80.1% | -924 | -12.6% | 2.3% |
| 16-19 | 2,371 | 76.8% | 2,196 | 71.3% | -175 | -7.4% | -5.5% |
| 20-24 | 2,306 | 69.8% | 2,467 | 63.9% | 161 | 7.0% | -5.9% |
| 25- 39 | 7,131 | 59.0% | 6,635 | 60.3% | -496 | -7.0% | 1.3% |
| 40- 49 | 4,854 | 55.6% | 4,992 | 53.2% | 138 | 2.8% | -2.4% |
| 50- 59 | 5,105 | 51.4% | 4,755 | 50.4% | -350 | -6.9% | -1.0% |
| 60- 64 | 2,144 | 52.8% | 2,557 | 46.8% | 413 | 19.3% | -6.0% |
| 65- 74 | 3,693 | 54.6% | 4,080 | 47.6% | 387 | 10.5% | -7.0% |
| 75+ | 3,174 | 54.4% | 3,665 | 51.8% | 491 | 15.5% | -2.6% |
| Pob oedran (3+) | 38,893 | 60.1% | 38,568 | 57.2% | -325 | -0.8% | -2.9% |

*Ffynhonnell: Cyfrifiad 2001 - Tabl CS146; Cyfrifiad 2011 - Tabl DC2203WA*

Mae **Atodiad** 1 ac **Atodiad** 2 yn dangos yn sydyn y prif dueddiadau ar gyfer Ynys Môn a Chymru gyfan.

## Mudo

Bu cynnydd o 2,922 ym mhoblogaeth Ynys Môn yn ystod y cyfnod rhwng 2001 a 2011. Nid oedd y cynnydd yn seiliedig ar dwf naturiol yn unig (h.y. genedigaethau a marwolaethau). Roedd y newid i'w briodoli'n bennaf i effaith mewnfudo. Dros y ddegawd ddiwethaf (canol 2001 i ganol 2011) mae 2,350 o bobl ar gyfartaledd bob blwyddyn wedi mewnfudo i Ynys Môn o weddill y DU. Mae hyn yn cyfateb i boblogaeth Y Fali. Mae pobl wedi bod yn allfudo hefyd, ond gan fod nifer y rhain yn llai bob blwyddyn na'r nifer sy'n mewnfudo, yn gyffredinol bu mudo net positif oddeutu 150 o bobl bob blwyddyn.

Ym Môn, mae'r allfudo ar ei uchaf ymysg y grŵp oedran 15-29 gydag oddeutu 180 mwy o bobl o'r grŵp oedran yma ar gyfartaledd yn symud allan o'r sir nag yn symud i mewn iddi.[2] Ymysg y rhesymau tebygol am hyn yw bod myfyrwyr llawn amser yn symud i astudio a phobl ifanc sydd newydd raddio a phobl ifanc yn symud o Fôn i ddilyn gyrfaoedd.

Mae mewnfudo ar ei uchaf ymysg y grŵp oedran 45-59 gydag 130 yn fwy o bobl o'r grŵp oedran hwn ar gyfartaledd yn symud i'r sir nac yn symud allan. Mae'n debyg mai'r prif reswm am hyn yw bod pobl yn dewis symud i Fôn i ymddeol[3].

[2] Llywodraeth Cymru, Cyflwyniad i Fforwm Iaith Strategol Ynys Môn 24/09/13

[3] Cyngor Gwynedd ar ran Cyngor Sir Ynys Môn (2014), *Darlun o sefyllfa'r Gymraeg yn Ynys Môn* (tudalen 25)

Nod y Cyngor yw ceisio denu'n ôl y siaradwyr Cymraeg sydd wedi allfudo, efallai i astudio neu i ddilyn gyrfaoedd ac i fagu teuluoedd. Er mwyn llwyddo, rhaid sicrhau cyfleon gwaith cadarnhaol, cyfleoedd cymdeithasol amrywiol a safonau addysg uchel gyda'r Gymraeg yn elfen hanfodol o'r ffordd hon o ddysgu, gweithio a byw.

Mae cynlluniau blaenorol sydd wedi'u cynnal gan y Fenter Iaith a phartneriaid eraill yn dangos effaith bositif cynlluniau sy'n helpu newydd ddyfodiaid a mewnfudwyr i gymhathu yn llawn i'w cymunedau newydd. Drwy gynlluniau arloesol sy'n cyflwyno cyd-destun a hanes y Gymraeg, traddodiadau a diwylliant lleol a sicrhau cefnogaeth Cymry Cymraeg lleol i arddel eu Cymraeg a'u Cymreictod, gellir dylanwadu a chefnogi ymdrechion newydd ddyfodiaid i ddysgu Cymraeg a bod yn rhan o'r ardal y maent yn ymgartrefu ynddi.

## Ffocws y Strategaeth

Mae meysydd blaenoriaeth y strategaeth hon wedi'u llunio fel eu bod yn cyd-fynd gyda meysydd strategol 'Iaith fyw: iaith byw - Strategaeth y Gymraeg 2012-2017' sef strategaeth Llywodraeth Cymru. Fe wnaed hyn er mwyn sicrhau bod rhaeadru strategol a chysondeb o'r lefel uchaf i'r lefel lleol. Mae rhai o feysydd blaenoriaeth strategaeth y Llywodraeth wedi'u cyplysu yn y strategaeth hon, er hwylustod, ac fe adnabyddir tri maes blaenoriaeth:

Maes Blaenoriaeth 1 - **Plant a Phobl Ifanc / Y Teulu**

Maes Blaenoriaeth 2 - **Y Gweithle, Gwasanaethau Cymraeg, Y Seilwaith**

Maes Blaenoriaeth 3 - **Y Gymuned**

DRAFT

## Maes Blaenoriaeth 1 - Plant a Phobl Ifanc / Y Teulu

Mae maes blaenoriaeth cyntaf y Strategaeth Iaith yn canolbwyntio ar blant a phobl ifanc a'r teulu gan fod trosglwyddiad iaith o un genhedlaeth i'r llall, ynghyd ag addysg yn cael eu hystyried yn ddau o'r meysydd pwysicaf o ran cynllunio ieithyddol. Mae ffocws y strategaeth yn ogystal ar sicrhau cyfleon i blant a phobl ifanc ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol.

**Nod:**

**Cynnydd yn nifer y teuluoedd lle defnyddir y Gymraeg fel prif iaith gyda'r plant gyda chynnydd yn y cyfleon a'r gefnogaeth i'w defnyddio'n gymdeithasol a sicrhau cynnydd**

**Sicrhau fod pob plentyn yn cael yr hawl i fod yn gwbl ddwyieithog erbyn cyrraedd 16 oed**

**Cynyddu'r capasiti a'r defnydd o'r Gymraeg fel cyfrwng cyfathrebu a dysgu ymysg plant a phobl ifanc mewn addysg a thrwy weithgareddau cymdeithasol**

**Y canlyniad a ddymunir:**

Cynnydd yn nifer y plant a phobl ifanc sy'n defnyddio'r iaith bob dydd yn yr ysgol ac yn gymdeithasol

Cynnydd yn nifer y teuluoedd sy'n defnyddio'r Gymraeg fel prif iaith gyda'u plant

**Dangosyddion**

100% Ysgolion wedi nodi yn eu Cynlluniau Datblygu eu bod yn rhoi blaenoriaeth i'r Gymraeg a'r Siarter Iaith ac yn gwneud cynnydd

% isaf sy'n derbyn asesiad Cymraeg iaith gyntaf ym mis Mai 2017:

| Cyfnod Sylfaen | CA2 | CA3 | CA4 |
|---|---|---|---|
| 76% | 76% | 68% | 66% |

Sicrhau cynnydd o 10% (ar sail cohort y flwyddyn) mewn 3 blynedd o ran y disgyblion sy'n astudio Cymraeg iaith gyntaf, a chynnydd pellach o 5% erbyn 2022

Sicrhau cynnydd o 5% yn nifer y dysgwyr sy'n astudio o leiaf 5 pwnc arall heblaw'r Gymraeg trwy gyfrwng y Gymraeg ar lefel TGAU erbyn 2020, a chynydd pellach o 5% erbyn 2022

Cynnydd o 5% yn nifer y dysgwyr 16-19 oed sy'n astudio cyrsiau addysg bellach trwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog erbyn 2020

Cynnydd yn nifer y plant sy'n cymryd rhan yn y gwersi nofio cyfrwng Cymraeg

Nifer o weithgareddau chwaraeon a hamdden sy'n prif lifo'r Gymraeg

**Gweler y cynllun gweithredu ar gyfer blwyddyn 1. Bydd y cynllun yn cael ei ddiweddaru'n flynyddol.**

**Trosglwyddiad iaith**

Mae strategaeth Llywodraeth Cymru Iaith *Fyw: iaith byw 2012-2017* yn nodi pwysigrwydd trosglwyddiad iaith o un genhedlaeth i'r llall fel elfen greiddiol yn y broses o gynnal iaith. Mae cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg o fewn teuluoedd yn un o flaenoriaethau allweddol Llywodraeth Cymru ar gyfer diogelu dyfodol y Gymraeg. "*Nid yw'r Gymraeg yn debygol o ffynnu fel iaith gymunedol a chymdeithasol os yw'n dibynnu ar y system addysg yn unig fel ffordd o alluogi siaradwyr newydd i ddysgu'r iaith. Mae angen iddi fod yn iaith y cartref i gynifer o blant â phosibl, ac yn ddiamau, mae caffael yr iaith yn y modd hwn yn ffordd naturiol ac effeithiol o ddatblygu'n siaradwr Cymraeg rhugl*"[4]

Nodir yn adroddiad *Cynyddu nifer y cymunedau lle defnyddir y Gymraeg fel prif iaith* (Llywodraeth Cymru, Rhagfyr, 2013) y gall proffil a statws iaith o fewn cymuned fod yn ffactorau pwysig yng nghyd-destun trosglwyddo iaith. Ategir hyn gan adroddiad *Asesiad Effaith: Twf ac Ymlaen (Prifysgol Bangor, 2008)* sy'n awgrymu fod cysylltiad rhwng y ffactorau hyn ac awydd rhieni i drosglwyddo'r iaith i'w plant.

Dengys ffigyrau Cyfrifiad 2011 yn Nhabl 11 isod bod 80.1% o blant 3-4 oed yn Ynys Môn yn siarad Cymraeg pan fo 2 riant yn siarad Cymraeg ar yr aelwyd. Mae'r canran hwn yn gostwng i 47.5% pan mai dim ond un o'r ddau riant sy'n siarad Cymraeg. Gwelir gostyngiad pellach i 20% mewn cartrefi lle nad oes unrhyw un o'r ddau riant yn siarad Cymraeg.

Mae ffigyrau'r Cyfrifiad yn Nhabl 11 hefyd yn dangos bod gostyniad rhwng 2001 a 2011 o 49.1% i 47.5% o blant 3-4 oed yn siarad Cymraeg ar aelwydydd 2 riant sy'n siarad Cymraeg a gostyngiad o 69.8% i 60.8% ar aelwydydd un rhiant sy'n siarad Cymraeg. I'r gwrthwyneb, ac yn unol â'r duedd genedlaethol, dengys y ffigyrau bod cynnydd o 15.5% i 20.6% yn y nifer o blant 3-5 oed sy'n siarad Cymraeg ar aelwydydd dau riant lle nad yw'r naill riant na'r llall yn siarad Cymraeg.

Dengys y ffigyrau hyn ei bod yn bwysig argyhoeddi rhieni sy'n siarad Cymraeg o werth trosglwyddo'r iaith i'w plant a bod angen cefnogaeth arnynt i'w galluogi i sicrhau bod eu plant yn cael y profiadau angenrheidiol i ddatblygu eu sgiliau iaith o oedran cynnar. Ar nodyn cadarnhaol, gellir dod i gasgliad bod dylanwad y gyfundrefn addysg ym Môn wedi llwyddo i gynyddu sgiliau cyfrwng Cymraeg plant 3-4 oed ar aelwydydd dau riant sydd ddim yn gallu siarad Cymraeg o 5% dros y ddegawd rhwng y ddau Gyfrifiad. Dyma un o feysydd blaenoriaeth gwaith y Fenter Iaith. Drwy weithio gyda darpar rieni, teuluoedd a phlant ifanc, crëir cyswllt â'r gymuned, teuluoedd a phartneriaid yn yr ardal gan gyd-lynu a chynnal gweithgareddau Cymraeg i deuluoedd yn lleol fel rhan o weledigaeth ehangach Menter Iaith Môn. Fel rhan o'r flaenoriaeth hon, ac er mwyn sicrhau dilyniant i brosiect TWF (sydd bellach wedi'i ddiddymu), mae perthynas wedi ei chreu gyda'r Mudiad Meithrin ar yr Ynys gydag ymdrechion i sefydlu darpariaethau fel cylchoedd Ti a Fi newydd.

[4] Llywodraeth Cymru (2012), Iaith fyw: iaith byw – Strategaeth y Gymraeg 2012 -2017 (tudalen 25)

**Tabl 11: Cyfraddau trosglwyddo'r Gymraeg, 2001 & 2011**

| Aelwydydd un teulu â phlant 3-4 oed | Ynys Môn | | Cymru | |
|---|---|---|---|---|
| | **2001** | **2011** | **2001** | **2011** |
| Pâr – Dau oedolyn yn gallu siarad Cymraeg | 79.0% | 80.1% | 82.0% | 82.2% |
| Pâr - Un oedolyn yn gallu siarad Cymraeg | 49.1% | 47.5% | 39.9% | 45.4% |
| Pâr - Dim oedolyn yn gallu siarad Cymraeg | 15.5% | 20.6% | 8.6% | 13.2% |
| Un rhiant – Oedolyn yn gallu siarad Cymraeg | 69.8% | 60.8% | 55.3% | 53.3% |
| Un rhiant - Oedolyn ddim yn gallu siarad | 25.2% | 25.4% | 9.8% | 14.4% |

*Ffynhonnell: Cyfrifiad 2001 –C0156; Cyfrifiad 2011 - Tabl DC2601WA*

### Cynllun Addysg Gymraeg Ynys Môn

Yn ôl Cyfrifiad 2011, mae 11,861 o blant a phobl ifanc dan 16 oed yn byw yn Ynys Môn sy'n cyfateb i 17% o'r boblogaeth. O'r rhain, mae 54.1% o blant 3-4 oed yn siarad Cymraeg ac 80.1% o blant rhwng 5-15 oed yn siarad Cymraeg. Mae cynnydd o 2.3% yn y grŵp oedran 5-15 oed ers Cyfrifiad 2001 sy'n adlewyrchiad o ddylanwad positif Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg y Sir i ddatblygu sgiliau iaith.

Ers mis Medi, 2004 mae pob plentyn 3 oed wedi cael y cynnig o addysg hanner amser am ddim. Gall yr addysg honno gael ei darparu un ai mewn ysgol a gynhelir neu mewn lleoliadau a gyllidir (Jones, 2012, tud 64). Mae'r lleoliadau a gyllidir yn cynnwys oddeutu 50 o gylchoedd Mudiad Ysgolion Meithrin ar yr ynys. Amcan penodol addysg feithrin Cyngor Sir Ynys Môn yw sicrhau y rhoddir i bob plentyn sylfaen gadarn yn y Gymraeg er mwyn ei alluogi i gyrraedd y nod o ddwyieithrwydd llawn maes o law.

Mae Polisi Iaith Addysg y Sir yn gosod y nod uchelgeisiol o "sicrhau bod holl ddisgyblion y Sir yn meddu ar y sgiliau ieithyddol priodol yn y Gymraeg a'r Saesneg i fod yn aelodau cyflawn o'r gymdeithas ddwyieithog y maent yn rhan ohoni". Er mwyn sicrhau y gall yr holl ysgolion gyflawni'r nod, byddwn yn adolygu'r polisi yn ystod 2016-2017. Ceir 47 ysgol gynradd, pum ysgol uwchradd ac un ysgol arbennig ym Môn.

Mae'r mwyafrif o blant sy'n dysgu Cymraeg fel iaith gyntaf yn yr ysgol yn cael eu hasesu mewn Cymraeg ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 1 neu'r Cyfnod Sylfaen ers 2011 (sef diwedd blwyddyn 2). [5]

Dangosir isod nifer disgyblion yng ngharfan CA1 (CS o 2012 a'r nifer a aseswyd yn y Gymraeg fel Iaith Gyntaf:

DRAFT

[5] Cyngor Gwynedd ar ran Cyngor Sir Ynys Môn (2014), Darlun o sefyllfa'r Gymraeg yn Ynys Môn (tudalen 35)

| | 2010 | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| CA1 | 456/650 | 469/682 | 510/678 | 468/671 | 520/721 | 539/755 |
| | **70%** | **69%** | **75.2%** | **69.7%** | **72.1%** | **71.4%** |
| */nifer a asesir/nifer yn y garfan | | | | | | |

Dengys ystadegau 2015 bod 539 o ddisgyblion saith oed Ynys Môn wedi derbyn asesiad Cymraeg. Llwyddodd 89.8% o’r disgyblion hynny gyrraedd Deilliant 5 neu well yn eu hasesiad:

| | | |
|---|---|---|
| Deilliant 5+ | 484 / 539 | 89.8% |

Mae amrywiaeth o ran lefel yr her mewn dalgylchoedd ac mae hyn yn cyfrannu at lwyddiant hybu dwyieithrwydd ymysg disgyblion ac mae data cyfrifiad CYBLD yn dangos faint o ddisgyblion sy’n siarad Cymraeg adref yn rhoi syniad da o’r dasg sy’n wynebu ysgolion.

Mae’r Gwasanaeth Addysg yn adnabod yr angen o fewn y strategaeth hon i gefnogi ysgolion cynradd ble mae’r her yn uchel i gynyddu’r nifer o ddisgyblion sy’n derbyn asesiad Cymraeg megis ardal Caergybi a chynyddu’r canrannau’n sy’n cael eu hadrodd i’r Llywodraeth.

Mae targed wedi’i osod erbyn 2017 i sicrhau bod 76% o blant saith oed yn derbyn asesiad Cymraeg (iaith gyntaf). Wrth gydweithio i newid sefyllfa ysgolion ble mae’r her ieithyddol uchaf, anelir at gynyddu’r nifer o ddysgwyr a adnabyddir fel dysgwyr iaith gyntaf Cymraeg fel a ganlyn:

| | 2017 | 2019 | 2021 |
|---|---|---|---|
| CS | 76% | 84.8% | 89.5% |
| CA2 | 76% | 89.5% | 89.5% |
| CA3 | 68% | 76% | 89.7% |

**Addysg Bellach**

Sefydlwyd Grŵp Llandrillo Menai yn Ebrill 2012 pan unwyd Coleg Llandrillo a Choleg Menai. Mae'r Grŵp yn gweithredu fel darparwr addysg bellach bennaf o fewn pedair sir yn y gogledd, sef Ynys Môn, Conwy, Sir Ddinbych a Gwynedd.

Mae’r sefydliad yn wynebu nifer o heriadau mewn perthynas â darpariaeth addysgol cyfrwng Cymraeg megis:

- cryfhau canfyddiadau positif myfyrwyr o’r sefydliad fel darparwr dwyieithog; codi hyder myfyrwyr i astudio trwy gyfrwng y Gymraeg;
- Grymuso capasiti a sgiliau staff i ddarparu trwy gyfrwng y Gymraeg;
- Pwyso ar fyrddau dyfarnu i gynnig cymwysterau yn y Gymraeg;
- Cynyddu ymwybyddiaeth am fanteision y Gymraeg fel sgil cyflogaeth.

Isod, ceir manylion am nifer a chanran y myfyrwyr llawn amser sy'n astudio a'u hasesu ar gyfer o leiaf un modiwl o'u cyrsiau trwy gyfrwng y Gymraeg ar draws y tri choleg sy'n rhan o Grŵp Llandrillo Menai (Coleg Meirion-Dwyfor (CMD), Coleg Menai (CM), Coleg Llandrillo (CLl):

| | 2014-2015 Rh/N | 2014-2015 % |
|---|---|---|
| Nifer o fyfyrwyr llawn-amser yn y coleg | Grŵp 6137 | Grŵp 100% |
| | C Ll 3199 | C Ll 52% |
| | CMD 1207 | CMD 20% |
| | CM 1731 | CM 28% |
| Nifer a chanran o fyfyrwyr llawn-amser sy'n astudio o leiaf un modiwl o'u cyrsiau trwy gyfrwng y Gymraeg | Grŵp 2503 | Grŵp 41% |
| | C Ll 15 | C Ll 0.5% |
| | CMD 1154 | CMD 95.6% |
| | CM 1334 | CM 77.07% |

| | 2014-2015 Rh/N | 2014-2015 % |
|---|---|---|
| Nifer a chanran o fyfyrwyr sy'n cael eu hasesu mewn o leiaf un modiwl o'u cyrsiau trwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog | Grŵp 26 | Grŵp 0.42% |
| | C Ll 1 | C Ll 0.03% |
| | CMD 814 | CMD 67.4% |
| | CM 206 | CM 11.9% |

Mae Grŵp Llandrillo Menai wedi sefydlu trefn mesur a thracio dysgwyr yn y cyfnod ôl-16 sy'n parhau i astudio trwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog er mwyn cynyddu a chynnal defnydd o'r Gymraeg ymysg dysgwyr ôl-16 yn y sector Addysg Bellach. Mae'r drefn yma'n golygu mai ar lefel Coleg a maes rhaglen mae'r tracio'n digwydd sy'n golygu nad oes modd rhannu data ar fyfyrwyr sy'n byw yn Ynys Môn yn unig. Fodd bynnag, mae'n berthnasol edrych ar ddata'r tri choleg ac yn enwedig Coleg Menai gan mai dyma ble mae'r rhan fwyaf o fyfyrwyr sy'n byw ar yr ynys yn astudio'u cyrsiau Addysg Bellach.

Bwriedir gosod targedau ar gyfer cynnydd yn y ddarpariaeth ddwyieithog ar lefel pob maes rhaglen erbyn Medi 2016 gyda hynny'n arwain at gynnydd yn y ddarpariaeth ddwyieithog.

**Defnydd cymdeithasol plant a phobl ifanc o'r Gymraeg**

Er llwyddiant Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg y Sir i ddatblygu sgiliau iaith ymhlith plant a phobl ifanc, cydnabyddir ei bod yn anodd bob amser i fesur defnydd o'r Gymraeg y tu allan i awyrgylch ystafell ddosbarth ac mewn sefyllfaoedd cymdeithasol.

Mae'r Siarter Iaith, sydd wedi'i mabwysiadu yn ysgolion Môn, yn darparu strwythur i arwain at gynnydd yn nefnydd cymdeithasol plant o'r Gymraeg. Mae'r Siarter yn gofyn am gyfranogiad gan bob aelod o gymuned yr ysgol sef y cyngor ysgol, y disgyblion, y gweithlu, rhieni, llywodraethwyr a'r gymuned ehangach er mwyn sicrhau perchenogaeth lawn ohoni. Mae'r ysgolion yn gweithio tuag at wobrau efydd, arian ac aur gan anelu am y wobr aur dros gyfnod o dair blynedd. Ar gychwyn y broses, sefydlir gwaelodlin gyda thystiolaeth bendant o'r sefyllfa ieithyddol yng nghymuned yr ysgol dan sylw fel bod modd datblygu gweledigaeth unigol ar gyfer yr ysgol honno maes o law. Mae gosod targedau a mesur cynnydd yn angenrheidiol wrth weithredu'r Siarter Iaith a bydd pob ysgol yn gallu llunio camau gweithredu sy'n addas ar eu cyfer nhw. Ceir 5 cam tua'r 'copa' sef y nod y mae'r ysgol yn ei hadnabod o fewn ei gweledigaeth bersonol. Yn ddibynnol ar gefndir ieithyddol y disgyblion, gall y targedau amrywio o sefydlu'r arfer o siarad Cymraeg, newid agweddau, codi hyder ieithyddol i ddylanwadu ar niferoedd siaradwyr Cymraeg tu hwnt i furiau'r ysgol a'r buarth i loywi a sicrhau cywirdeb ieithyddol. Mae'r Siarter Iaith hefyd yn annog rhieni i ddysgu Cymraeg oherwydd y manteision amlwg a geir, nid yn unig o fedru cynorthwyo eu plant a gwerthfawrogi eu cynnydd, ond hefyd er mwyn cymhathu'n gymunedol, gwella cyfleoedd gyrfaol ac o ran agweddau hunaniaeth. Yn hynny o beth, bydd yn cydweithio'n agos gyda Chonsortiwm Dysgu Cymraeg y gogledd-orllewin er mwyn cynllunio a chynnig hyfforddiant pwrpasol i rieni.

DRAFT

Mae nifer o fudiadau yn darparu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ar yr ynys a nod y strategaeth iaith yw cynllunio'n fwriadus i normaleiddio a phrif lifo'r Gymraeg i weithgareddau cymdeithasol sy'n digwydd eisoes ac i rai o'r newydd. Mae'r Cyngor Sir yn gyfrifol am gynnal 26 Clwb Ieuenctid, pum Canolfan Wobr Agored yn nalgylch pob ysgol uwchradd a Chlwb Achredu Amser Cinio yn Ysgol Uwchradd Caergybi.

Mae gan yr Urdd 58 o ganghennau ar yr ynys gyda 11 adran gymunedol yn darparu ystod o gyfleoedd cymdeithasol i blant a phobl ifanc yr ynys. Nodir yn Adroddiad Blynyddol Urdd Gobaith Cymru ar gyfer Ynys Môn am 2015-2016 bod 4801 o unigolion wedi cofrestru ar gyfer cystadlaethau eisteddfodol a 1477 o unigolion wedi cymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon dros y cyfnod adrodd dan sylw. Mae'n nod gan y mudiad yn lleol i gynyddu ei gyrhaeddiad trwy'r defnydd o gyfryngau cymdeithasol.

Ceir chwe chlwb Ffermwyr Ifanc mewn mannau daearyddol amrywiol ar yr ynys sef, Bodedern, Dwyran, Llangefni, Llangoed, Penmynydd a Rhosybol.

Mae'r Ffermwyr Ifanc yn fudiad ieuenctid gwledig i bobl Ifanc 10-26 oed sy'n gweithredu ledled y wlad, er mwyn diwallu anghenion pobl ifanc cefn gwlad. Mae'r Ffermwyr Ifanc yn cynnig amrywiaeth o raglenni addysgol, hyfforddiant a chymdeithasol, sy'n annog datblygiad personol, gweithgarwch cymunedol, pryder am yr amgylchedd a rhyngweithiadau cymdeithasol. Prif bwrpas y mudiad yw creu cyfleoedd i alluogi'r aelodau i ddisgleirio.

Ceir staff ieuenctid arbenigol o fewn Menter Iaith Ynys Môn sy'n gweithio mewn gwahanol feysydd i ddatblygu gweithgareddau, cynnal gweithdai a sesiynau a darparu cyfleoedd cymdeithasol amrywiol. Mae'r rhain yn cynnwys gweithdai wythnosol o dan arweiniad tiwtoriaid drama proffesiynol o fewn Theatr Ieuenctid Môn, prosiect creu cerddoriaeth *'Bocsŵn'*, y '*Rhwydwaith Perfformwyr Ifanc'* sy'n cynnig cyfle i bobl ifanc drefnu gigs eu hunain a'r '*Prosiect Radio'* sydd wedi lleoli offer radio ymhob un o'r pum ysgol uwchradd ar yr ynys ar gyfer darlledu rhaglenni. Ceir hefyd y prosiect *'Cyfle:Creu=Cofio'* sy'n brosiect digidol lle gall pobl ifanc greu eitemau ffilm a radio eu hunain yn olrhain ac egluro elfennau o dreftadaeth y Gymraeg ar yr ynys. Mae'r Fenter Iaith hefyd yn darparu cyflwyniadau ymwybyddiaeth iaith i annog pobl ifanc i fynegi eu barn am y Gymraeg ynghyd â dysgu am fanteision cymdeithasol ac economaidd yr iaith.

DRAFT

| Maes Blaenoriaeth 2 – Y Gweithle, Gwasanaethau Cymraeg, Y Seilwaith |
|---|
| Mae ail faes blaenoriaeth y Strategaeth Iaith yn canolbwyntio ar y gweithle, gwasanaethau Cymraeg a'r seilwaith. Yr amcan yma yw adnabod cyfleoedd i gynllunio'n fwriadus i brif-lifo'r Gymraeg yn naturiol i'r meysydd blaenoriaeth hyn. |
| **Nod**<br><br>**Hybu a chynyddu argaeledd gwasanaethau Cymraeg, cynyddu cyfleoedd/disgwyliadau i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle a chydweithio i adnabod cyfleoedd i brif-lifo'r iaith i ddatblygiadau a gweithgareddau.** |
| **Y canlyniad a ddymunir:**<br><br>Cynnydd yn y defnydd o'r Gymraeg fel iaith weinyddol y Cyngor Sir.<br><br>Cynnydd ym mhroffil y Gymraeg fel sbardun ar gyfer newid gan Gyngor Sir Ynys Môn a Chynghorau Tref a Chymuned. |
| **Dangosydd**<br><br>Cynnydd yn y defnydd o'r Gymraeg yng ngweinyddiaeth y Cyngor Sir fel iaith lafar a/neu ysgrifenedig<br><br>100% o asesiadau o'r effaith ar yr iaith yn cael eu cynnal ar gyfer unrhyw ddatblygiadau tai, economaidd/busnes<br><br>Nifer y polisïau iaith gan ddatblygwyr ac effaith gweithredu'r polisi mewn * mis<br><br>% cynnydd yn nifer y rhai sy'n dilyn cyrsiau dysgu Cymraeg<br><br>Nifer y rhai sy'n dilyn cyrsiau dysgu Cymraeg<br><br>Cynnydd yn y gwaith i bobl leol yn y datblygiadau mawr |
| **Gweler y cynllun gweithredu ar gyfer blwyddyn 1. Bydd y cynllun yn cael ei ddiweddaru'n flynyddol.** |

**Y Gymraeg yn y gweithle**

Y gweithle yw un o'r meysydd allweddol sy'n pennu pa iaith y mae pobl yn ei defnyddio. Bu i nifer sylweddol o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad gan Llywodraeth Leol ar *Iaith Fyw: Iaith Byw – Strategaeth y Gymraeg 2012-17* gytuno "bod gan y gweithle rôl allweddol o ran ennyn hyder ymhlith siaradwyr Cymraeg i ddefnyddio'r iaith mewn agweddau eraill yn eu bywydau … a bod datblygu statws yr iaith yn y gweithle yn bwysig o safbwynt pwysleisio gwerth addysg cyfrwng Cymraeg" (Llywodraeth Cymru, 2012, tud 37).[6]

[6] Cyngor Gwynedd ar ran Cyngor Sir Ynys Môn (2014), Darlun o sefyllfa'r Gymraeg yn Ynys Môn (tudalen 39)



DRAFT

Yn 2013, cynhaliwyd arolwg ymhlith dros 4,000 o gyflogwyr yng Nghymru a weithredai mewn wyth sector i ddarparu gwybodaeth fanwl gywir a dibynadwy am anghenion cyflogwyr o ran sgiliau Cymraeg. Yn ôl yr arolwg, roedd 81% o siaradwyr Cymraeg yn defnyddio'r Gymraeg gyda chydweithwyr o leiaf o bryd i'w gilydd weithiau lle mae'r cyflogwr yn gefnogol i'r defnydd o'r Gymraeg yn y rhan fwyaf o agweddau ar waith y busnes.   Roedd y ganran ychydig yn is ymhlith gweithwyr nad oedd eu cyflogwyr yn gefnogol i'r defnydd o'r Gymraeg mewn amgylchiadau anffurfiol, tra'r oedd 51% yn dweud eu bod yn siarad Cymraeg â'u cydweithwyr ond nad yw'r cyflogwr yn gefnogol i'r iaith.

Yng Ngwynedd ac Ynys Môn, dywedodd naw o bob 10 siaradwr Cymraeg sydd mewn gwaith eu bod yn siarad Cymraeg gyda chydweithwyr o leiaf weithiau.

Mae'n ymddangos hefyd bod yr unigolion hynny sydd yn gweithio i gyflogwyr sydd yn gefnogol i'r defnydd o'r Gymraeg yn y rhan fwyaf o agweddau'r busnes lawer yn fwy tebygol o ysgrifennu rhywbeth yn y Gymraeg. Roedd 64% yn ysgrifennu rhywbeth yn Gymraeg yn y gwaith o leiaf weithiau.   Er hyn, roedd bron i draean yn dweud eu bod yn ysgrifennu rhywbeth yn y Gymraeg yn eu gwaith o leiaf weithiau, er nad oeddent o'r farn bod eu cyflogwr yn gefnogol i'r iaith.  Roedd bron i dri chwarter y gweithwyr yn y sector cyhoeddus o'r farn bod eu cyflogwr yn gefnogol i ddefnydd ffurfiol ac anffurfiol o'r Gymraeg o fewn y busnes o'i gymharu â 41% yn y sector preifat.

Os am gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle, mae codi ymwybyddiaeth am y gwasanaethau Gymraeg sydd ar gael a'u hamlygrwydd yn rhan ganolog o'r defnydd a wneir ohonynt. Yn ôl yr arolwg o gyflogwyr yng Nghymru a gynhaliwyd yn 2013, roedd gweithwyr a oedd yn siarad Cymraeg yn y sector cyhoeddus bron i dair gwaith yn fwy tebygol na gweithwyr yn y sector preifat o gael cynnig rhywbeth gan eu cyflogwyr i ddangos eu bod yn gallu siarad Cymraeg.  Mae canlyniadau Adroddiad Ymchwil ar Wasanaethau Cymraeg Awdurdodau Lleol (Beaufort Research Cyf 2015), yn cefnogi'r angen i godi ymwybyddiaeth, hy bod 80% o'r siaradwyr Cymraeg rhugl yng Ngogledd Cymru yn cytuno â'r datganiad *"Os ydw i'n gwybod y gallaf ymwneud ag adran berthnasol yn yr awdurdod lleol yn Gymraeg, byddaf yn gwneud hynny bob amser".*

Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn ymrwymedig i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn ei weinyddiaeth fewnol, yn llafar ac yn ysgrifenedig,  a phenderfynodd y Cyngor Sir yn ei gyfarfod ar 12 Mai, 2016 i fonitro cynnydd yn flynyddol trwy gyhoeddi adroddiad i'w gyflwyno i'r Pwyllgor Sgriwtini ar yr un pryd â'r adroddiad blynyddol ar weithrediad y Polisi Iaith Gymraeg.  Bydd y broses yn cychwyn trwy sefydlu gwaelodlin o'r nifer sy'n gweithredu trwy gyfrwng y Gymraeg o fewn y sefydliad.  Mae'n fwriad hefyd i adolygu Polisi Iaith y Cyngor erbyn Mai, 2018.

Fel rhan o’r broses cynllunio ieithyddol, bydd y Cyngor yn dynodi pa sgiliau ieithyddol llafar ac ysgrifenedig sydd eu hangen ar gyfer pob swydd ac fe asesir sgiliau iaith y gweithlu er mwyn monitro nifer y siaradwyr Cymraeg. Darperir yn ogystal, cyrsiau addas, ar bob lefel, yn ystod oriau gwaith i gyflogeion y Cyngor rymuso eu sgiliau Cymraeg.

**Argaeledd gwasanaethau Cymraeg**

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 wedi creu newid sylfaenol tuag at ddarparu dewis iaith ac angen iaith gan symud y cyfrifoldeb am sicrhau gwasanaethau addas oddi ar ysgwyddau’r defnyddiwr i’r darparwr. Mae’r Safonau Iaith ddaeth yn sgîl y Mesur yn arwain at greu hawliau fel y gall siaradwyr Cymraeg dderbyn gwasanaethau yn Gymraeg. Yn ogystal, cyhoeddwyd ‘*Fframwaith Strategol ar gyfer Gwasanaethau Cymraeg mewn Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol - Mwy na Geiriau’* yng nghyd-destun gofynion cyfreithiol y Mesur. Mae’r Safonau Iaith a Mwy na Geiriau ynghlwm i’r egwyddor o ddarparu’r ‘cynnig rhagweithiol’ o ddewis iaith i’r defnyddiwr.

Mae’r Cyngor Sir bellach yn ddarostyngedig i’r Safonau Iaith a bydd nifer o gyrff partneriaethol yn derbyn hysbysiadau cydymffurfio gan Gomisiynydd y Gymraeg maes o law. Bydd y strategaeth hon yn nodi’r camau gweithredu gogyfer gweithredu egwyddorion *Mwy na Geiriau*.

DRAFT

## Maes Blaenoriaeth 3 – Y Gymuned

Mae trydydd maes blaenoriaeth y Strategaeth Iaith yn canolbwyntio ar hyrwyddo'r Gymraeg ar lefel cymunedol.

Mae *Strategaeth Llywodraeth Cymru Iaith Fyw:Iaith Byw 2012-2017* yn nodi fod heriau penodol yn amrywio o ardal i ardal ond maent yn debygol o gynnwys rhai materion cyffredin. Mae'r farchnad dai yn ansefydlog ar yr ynys gyda phrinder tai fforddiadwy ar gyfer y boblogaeth leol. Yn ogystal, mae diffyg swyddi sefydlog sy'n talu'n dda a gorddibyniaeth ar y sector gyhoeddus/darparu ynghyd â rhai diwydiannau penodol megis twristiaeth ac amaeth. Mae'r rhain yn heriau gwirioneddol o ran cadw pobl ifanc a theuluoedd ar yr ynys.

Mae cyfraddau trosglwyddiad iaith hefyd yn her o fewn y gymuned gyda nifer isel o rieni/gofalwyr yn trosglwyddo'r Gymraeg i'w plant, statws isel yr iaith o fewn y gymuned, diffyg cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ar lefel cymunedol ac effaith lefelau mewnfudo ac allfudo ar ddemograffeg yr ynys. Er mwyn i gymunedau ffynnu, mae'n bwysig hefyd bod cyfleoedd i drigolion yr ynys a mewnfudwyr ddefnyddio'r Gymraeg a'i defnyddio'n gymdeithasol.

Cydnabyddir bod yn rhaid i'r gwaith adnewyddu ieithyddol fynd law yn llaw â'r gwaith o wella'r seilwaith cymdeithasol ac economaidd.

**Nod**

**Hyrwyddo a marchnata gwerth a phwysigrwydd y Gymraeg**

**Hyrwyddo ac adnabod cyfleoedd i gryfhau'r Gymraeg o fewn y cymunedau ac adnabod bylchau mewn darpariaeth.**

**Y canlyniad a ddymunir**
Cynnal y wardiau lle mae 70% o'r boblogaeth sy'n siarad Cymraeg a chynyddu canrannau gweddill y wardiau eraill.

**Dangosydd**
Cynnydd yn y wardiau sydd â dros 70% yn siarad Cymraeg
Cynnydd yn y wardiau sydd â dros 50% yn siarad Cymraeg
Nifer y gweithgareddau a gynhelir i gymhathu dysgwyr y Gymraeg
Nifer y dosbarthiadau Cymraeg yn y gymuned neu Gymraeg i'r teulu
Cynnydd yn y nifer sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau gwirfoddoli cyfrwng Cymraeg
Cynnydd yn y defnydd o'r ap cyfieithu
Cynnydd yn nifer y cyfarfodydd o fewn y Cyngor Sir a gynhelir trwy gyfrwng y Gymraeg
Nifer yr ymweliadau i'r safle we sy'n hysbysebu gweithgareddau cyfrwng Cymraeg
Nifer datblygiadau sy'n cyd-fynd gyda pholisiau'r Cynllun Datblygu Lleol
Nifer o dai gwag ar yr ynys sy'n dod yn ôl i ddefnydd fel tai parhaol
Nifer pecynnau croeso a ddosbarthwyd i fewnfudwyr/a lawrlwythwyd

**Gweler y cynllun gweithredu ar gyfer blwyddyn 1. Bydd yn cael ei ddiweddaru'n flynyddol.**



DRAFT

## Defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg ar lefel gymunedol

Mae Menter Iaith Môn yn weithredol ar hyd a lled yr ynys gan sicrhau bod dewis amrywiol o weithgareddau a digwyddiadau cyfrwng Cymraeg cadarnhaol yn cael eu cynnig i bob oedran fel bod cydnabyddiaeth o werth cymdeithasol ac economaidd i'r Gymraeg. Mae'r Fenter Iaith yn gweithio yn yr ardaloedd hynny sydd â niferoedd uchel o siaradwyr Cymraeg er mwyn sicrhau bod yr ardaloedd hyn sydd o bwys strategol i'r Gymraeg yn cael eu cynnal ac yn ffynnu.

Mae'r Fenter Iaith hefyd yn cydnabod er mwyn i'r Gymraeg barhau i ffynnu, bod hefyd angen adnabod cyfleoedd i godi hyder trigolion i ddefnyddio'r Gymraeg yn hyderus yn yr ardaloedd sydd â niferoedd is o siaradwyr Cymraeg. Yn ôl canlyniadau Cyfrifiad 2011, mae bron i 20% o drigolion Caergybi yn nodi eu bod nhw'n deall Cymraeg llafar yn unig a 60% o bobl yn nodi eu bod yn deall Cymraeg ond yn peidio â'i defnyddio. I ymateb i'r her hon, mae'r Fenter wedi cychwyn gweithio'n ddwys yn ardal Caergybi gan leoli swyddog yn y dref er mwyn cydweithio gyda theuluoedd, plant a phobl ifanc a'r gymuned i adnabod cyfleoedd i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ar lefel cymdeithasol.

Er mwyn cynllunio'n fwriadus i'r dyfodol, adnabyddir yr angen i greu proffiliau ieithyddol o holl ardaloedd Ynys Môn. Byddai proffiliau o'r fath yn adnabod y bylchau mewn darpariaeth, yr awydd ymysg cymunedau i geisio sicrhau gwasanaethau Cymraeg yn lleol a chryfhau'r ddarpariaeth yn gymdeithasol i blant a phobl ifanc ddefnyddio'r iaith. Byddai'r ymarferiad hefyd yn gyfle i hyrwyddo'r Gymraeg gyda'r sector fusnes a phwysigrwydd trosglwyddiad iaith o fewn y teulu. O gydweithio i adnabod cyfleoedd i godi hyder trigolion i siarad Cymraeg, ac adnabod a dylanwadu ar gyfleoedd er mwyn creu bwrlwm cymdeithasol Cymraeg a Chymreig, gallwn weithio tuag at yr amcan fod y Gymraeg yn cael ei harddel fel rhan o wead ac isadeiledd y gymuned gan greu cymunedau byw, a chreu cyswllt pwerus rhwng iaith-tai-gwaith.

Mae ymweliad yr Eisteddfod Genedlaethol yn 2017 yn cynnig cyfle euraidd i hyrwyddo gweithgareddau Cymraeg sy'n codi arian tuag at ei chynnal, a thrwy gyfnod y strategaeth hon, byddwn am sicrhau bod effaith a gwaddol yr Eisteddfod yn bellgyrhaeddol.

## Y Cynllun Datblygu Lleol

Mae'r Canllaw Cynllunio Atodol ar gyfer Cynllunio a'r Iaith Gymraeg (Medi 2007) yn amlinellu bod sefydlogrwydd neu dwf cymedrol y boblogaeth, wedi'i gyfuno ag ansawdd bywyd da, economi gref, seilwaith o safon uchel a bywyd cymdeithasol a diwylliannol byrlymus, i gyd yn greiddiol i gynaladwyedd a chydlyniant y gymuned. Lle mae'r iaith Gymraeg yn rhan o wead cymdeithas yn y gymuned, mae ei thynged a'i lles yn anochel yn annatod wrth ffyniant ehangach y gymuned honno. Os yw datblygiad yn debygol o fod yn andwyol i unrhyw un o'r agweddau hyn, gall gael effaith niweidiol ar yr iaith Gymraeg hefyd. Fodd bynnag, os yw'n sensitif i'r cyd-destun lleol, e.e. yn cynnal yr economi leol, yna mae'r effaith yn llawer mwy tebygol o fod yn gadarnhaol. Mae adeiladu a gweithredu prosiectau a datblygiadau mawr yn waith sylweddol a allai sicrhau buddsoddi a buddion ehangach i'r ynys a'i chymunedau.

Fel yr amlinellir yng Nghynllun Datblygu Lleol Gwynedd a Môn (sydd yn y cyfnod Adneuo), i sicrhau bod cymunedau’n datblygu mewn ffordd gynaliadwy, mae’n hanfodol, wrth ystyried unrhyw newidiadau, i ystyried yr holl ffactorau sy’n dylanwadu ar y sefyllfa a bod y datblygiad newydd sy’n cael ei gynllunio yn briodol a pherthnasol.

Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn cydweithio efo Cyngor Gwynedd i lunio Cynllun Datblygu Lleol (CDLl). Mae’r CDLl yn canolbwyntio ar faterion ac amcanion lleol, gan wneud hynny yn unol â strategaethau lleol a sylfaen o dystiolaeth. Mae'n ofynnol o dan Adran 61 Deddf Cynllunio Pryniant Gorfodol bod Awdurdodau Cynllunio Lleol yn cadw tystiolaeth ar y lefel gyfredol o’r defnydd o’r Gymraeg yn yr ardal. Casglwyd a dadansoddwyd gwybodaeth o sawl ffynhonnell, gan gynnwys Cyfrifiad 2011. Mae’r diagram canlynol yn rhoi trosolwg o’r prif negeseuon:




Ar sail dadansoddiad o’r dystiolaeth, un o’r pynciau a ystyrir wrth baratoi’r CDLl yw sut y bydd y strategaeth a’r polisïau’n debygol o effeithio ar y defnydd o’r Gymraeg a chynaliadwyedd cymunedau. Bydd dyfodol yr iaith yn dibynnu ar nifer fawr o ffactorau, yn enwedig addysg, newid demograffig, gweithgareddau cymunedol a sylfaen economaidd gadarn i gynnal cymunedau ffyniannus, cynaliadwy. Heb anghofio nad all y CDLl wahaniaethau ar sail gallu ieithyddol unigolion, gall y system cynllunio defnydd tir gyfrannu at les y Gymraeg yn y dyfodol trwy greu’r amodau fyddai’n caniatáu i gymunedau cynaliadwy ffynnu. Felly, mae’n bwysig bod y CDLl yn atgyfnerthu strategaethau fel y Strategaeth Iaith i hyrwyddo’r isadeiledd (tai, llefydd gwaith a chyfleusterau allweddol) i gynnal cymunedau’r Sir.

Mae Adran 70 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn ei gwneud yn glir y gellid ystyried effeithiau ar ddefnyddio'r Gymraeg, lle bo'n berthnasol i gais cynllunio, wrth benderfynu ar gais am ganiatâd cynllunio. Nid yw'r ddarpariaeth hon yn rhoi mwy o bwys ar yr iaith Gymraeg nag ar unrhyw ystyriaeth berthnasol arall ar adeg cyflwyno'r cais cynllunio. Bydd Canllawiau Cynllunio Atodol yn rhoi arweiniad i sicrhau datblygiad sy'n ddigon da i'w caniatáu, gan gynnwys defnyddio mesurau lliniaru effeithiau andwyol a mesurau i hyrwyddo effeithiau cadarnhaol. Gellir defnyddio amodau cynllunio a chytundebau Adran 106, lle mae'n briodol ar gyfer darparu seilwaith sy'n cefnogi'r iaith Gymraeg.

**Tai**

Un o'r prif heriau ym Môn yw sicrhau cyflenwad digonol o dai fforddiadwy ar gyfer ein trigolion, tai o ansawdd a fydd yn gosod sylfaen gadarn iddynt i'w galluogi i weithio yma ym Môn a chynnal y defnydd o'r iaith Gymraeg.

Yn 2011, roedd poblogaeth Ynys Môn yn 69,751 gyda'r boblogaeth hon yn cael eu cartrefu mewn 34,183 o anheddau. Y prif ffactor sy'n diffinio fforddiadwyaeth cartref yw incwm. Yn ystod 2015, yr incwm canolrifol i drigolion Môn oedd mewn swyddi llawn amser oedd £24,721 sydd yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol o £29,016 yn ôl y Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol.

Mae pris canolrifol eiddo yma ym Môn yn £186,229 sydd yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol o £162,904. Mae prisiau tai wedi cynyddu 21.7% yn ystod y cyfnod rhwng 2011 - 2015 o'i gymharu ag ychydig dan 10% fel cyfartaledd cenedlaethol. Golyga hyn bod prisiau tai ar y farchnad agored yma ym Môn 7.5 gwaith yr incwm canolrifol o gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol o 5.6 gwaith yr incwm.

Wrth edrych ar yr ystadegau uchod gwelir yn glir iawn bod rhaid cynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy yma ar yr ynys er mwyn sicrhau bod ein pobl ifanc sy'n cychwyn eu gyrfaoedd a bywyd gweithio yn gallu fforddio i gael cartref fforddiadwy o fewn eu cynefin ar yr ynys fel bod cyflogwyr yn gallu cyflogi siaradwyr Cymraeg o fewn eu gweithlu a bod hyn yn cynyddu'r defnydd o Gymraeg o fewn busnes a masnach. Dengys y rhagolygon demograffig ar gyfer y cyfnod 2015 - 2026 y bydd angen 2420 o dai ychwanegol sy'n cyfateb i 220 y flwyddyn.

Fel rhan o'r datrysiad ar gyfer cyflenwi'r angen ychwanegol am dai, byddwn yn cymryd camau pellach i sicrhau ein bod yn dychwelyd cymaint ag y gallwn o dai gwag yn ôl i ddefnydd yn ogystal ag adeiladu tai newydd a rheoli tai a rhent sy'n eiddo i berchnogion preifat.

Wrth adeiladu tai newydd y tu allan i ardaloedd mwyaf trefol y sir, byddwn yn cynnal arolwg o anghenion tai fforddiadwy yn ardaloedd mwyaf gwledig y sir ac yn rhoi ystyriaeth i ddefnyddio tir eithriedig ar gyfer datblygu tai fforddiadwy a fyddai ar gael gyda nifer o wahanol ddeiliadaethau i fodloni'r galw, fel tai rhent cymdeithasol, rhent canolraddol yn ogystal â darpariaeth o dai fforddiadwy i bobl a fyddai'n dymuno bod yn berchen ar eu tai eu hunain.

I’r pwrpas o sicrhau bod trigolion Môn yn ymwybodol o’r ardaloedd lle bydd tai fforddiadwy ar gael, byddwn yn defnyddio gwefan Tai Teg i’w marchnata.

**Twristiaeth**

Mae twristiaeth yn sector sy’n gallu ac sydd wedi cyfrannu at ffyniant lleol ac ansawdd bywyd ym Môn. Yn dilyn Strategaeth Croeso Cymru, ‘*Partneriaeth ar gyfer TWF 2013-2020’*, bydd llwyddiant yn dibynnu ar weithio mewn ffordd sy’n arwain at greu partneriaethau cryf a chynhyrchiol. Bydd Croeso Cymru yn gweithio gyda’r diwydiant er mwyn cynorthwyo i ddatblygu a chyflwyno cynnyrch yn unol ag anghenion y farchnad a chreu llwyfannau i fusnesau hyrwyddo eu hunain.

Mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi cymeradwyo Cynllun Rheoli Cyrchfan 2016-2020, sydd yn ddatganiad o fwriad ar y cyd i reoli cyrchfan dros gyfnod penodol o amser gan ddiffinio rolau’r gwahanol randdeiliaid a nodi’r camau gweithredu. Bydd y cynllun, mewn rhannau yn canolbwyntio ar hyrwyddo’r iaith, diwylliant a hanes.

Trwy gydweithio, gellir datblygu diwydiant twristiaeth llwyddiannus a chynaliadwy sy’n creu cyfoeth i’r ynys ac sy’n defnyddio ac yn cynnal ei hamgylchedd a’r diwylliant arbennig.

Mae twristiaeth yn cyfrannu £260.45 miliwn (blwyddyn 2014) tuag at yr economi, arian y mae angen dybryd amdano, ac yn cefnogi dros 4,000 o swyddi ar yr Ynys. Yn ogystal, mae’r sector dwristiaeth yn:

- denu 330,000 o gerddwyr ar y Llwybr Arfordirol gan gynhyrchu £14 miliwn
- denu 1.58 miliwn o ymwelwyr yn flynyddol
- yn cofrestru 2.0 miliwn o ymwelwyr sy’n teithio drwy borthladd Caergybi yn flynyddol
- cefnogi gwasanaethau ac isadeiledd sy’n rhedeg ar draws ffiniau ac o fudd i bobl leol e.e. cysylltiadau cludiant, yr amrediad o siopau a gwasanaethau a chyfleusterau diwylliannol
- helpu i hyrwyddo delwedd gadarnhaol o’r Ynys i’r byd ehangach sydd, yn ei dro, yn gallu denu buddsoddiad a gwneud i bobl deimlo’n well am y lle y maent yn byw ynddo
- disgwyl targed twf cronnus o 10% erbyn 2020

**Rhaglen Ynys Ynni**

Dros y 10-15 mlynedd nesaf mae Ynys Môn yn mynd i elwa’n fawr o fuddsoddiadau posibl a fydd yn werth hyd at £12 biliwn, drwy fuddsoddiadau megis:

- Adeiladu Gorsaf Niwclear Newydd yn Wylfa a fydd yn creu 9,200 o swyddi yn ystod y cyfnod adeiladu a nifer o gyfleoedd o ran y gadwyn gyflenwi leol;
- Seilwaith newydd cysylltiad Grid Cenedlaethol i gysylltu'r datblygiadau carbon isel a gynigir ar Ynys Môn i rwydwaith tir mawr;
- Datblygu Pentref Twristiaeth a Chyfleusterau Hamdden gan Land and Lakes.



DRAFT

Er mwyn manteisio ar y cyfleoedd na welwyd mo’u tebyg o’r blaen ac sy'n gysylltiedig â'r datblygiadau posibl, sefydlodd Cyngor Sir Ynys Môn Raglen Ynys Ynni yn 2010. Mae'r Rhaglen Ynys Ynni yn bartneriaeth rhwng sefydliadau cyhoeddus a’r sector breifat, gan gynnwys DECC, Llywodraeth Cymru a datblygwyr mawr, gyda'r bwriad o roi Ynys Môn ar flaen y gad o ran ymchwil a datblygu ynni, cynhyrchu a gwasanaethu, gan ddod â manteision economaidd a allai fod yn enfawr.

Nod Rhaglen Ynys Ynni yw:

- Rhoi cymorth i leihau risgiau buddsoddiadau sylweddol yn y sector breifat;
- Gwneud pobl yn fwy cystadleuol o ran addysg a sgiliau i sicrhau cyfleoedd swyddi;
- Datblygu busnesau cystadleuol i allu cystadlu am gytundebau cadwyni cyflenwi;
- Datblygu isadeiledd cystadleuol (safleoedd, adeiladau, cyfleusterau, cludiant ac ati);
- Ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol i hysbysu a diweddaru, sicrhau adborth ac ymateb i faterion a chyfleoedd.

Cydnabyddir bod angen cefnogi cymunedau Cymraeg i ffynnu. Yn sgil hyn, dylid hyrwyddo datblygiadau economaidd priodol a darparu cyfleoedd economaidd, gan gynnwys ardaloedd gwledig, i sicrhau eu bod yn ddeniadol i’r boblogaeth bresennol a’r rhai a fyddai’n dymuno dychwelyd i’r ardal.

Wrth ystyried sefyllfa’r iaith i’r dyfodol, mae ffactorau economaidd, addysgol a diwylliannol a phenderfyniadau cynllunio ar ddefnydd tir i gyd yn chwarae rhan allweddol. Er mwyn gwella’r sefyllfa mae angen manteisio ar y cyfleoedd gwaith i wrth-droi allfudo, ac felly cryfhau’r defnydd o’r iaith. Gall pobl o holl gefndiroedd ieithyddol gyfrannu at ateb yr her economaidd hon.

Mae angen agwedd gadarnhaol at alluogi datblygu economaidd cynaliadwy mewn cymunedau ar draws yr Ynys. Y nod yw sicrhau cydbwysedd rhwng ffyniant economaidd cynaliadwy a chryfhau’r nifer o siaradwyr Cymraeg ymysg y cenedlaethau i ddod.

Trwy’r Rhaglen Ynys Ynni, mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi ymrwymo i:

- Sicrhau fod gan bobl leol y sgiliau a’r cyfleoedd angenrheidiol i gymryd mantais o’r cyfleoedd gwaith a ragwelir (yn ystod y gwaith adeiladu a gweithredu)
- Darparu addysg, hyfforddiant a sgiliau gwell er mwyn sicrhau y gall pobl leol gymryd mantais o’r holl gyfleoedd i’r dyfodol
- Denu pobl yn ôl i Ynys Môn sydd wedi gadael yr ynys i chwilio am addysg a/neu gyflogaeth
- Sicrhau nad yw lleoliad a math o lety’r adeiladwyr, a nifer y gweithwyr, yn cael effaith andwyol ar yr Iaith Gymraeg
- Sicrhau fod gan gwmnïau lleol y dystysgrif/ cymwysterau angenrheidiol fel bod modd iddynt gystadlu am gyfleoedd cadwyni cyflenwi a chymryd mantais ohonynt
- Sicrhau fod gan Ynys Môn safleoedd ac eiddo digonol (yn y lleoliadau mwyaf priodol) i ddenu buddsoddiad mewnol a chaniatáu i gwmnïau lleol dyfu.

# Datblygiadau Arfaethedig Cysylltiedig â Ynys Ynni

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

YNYS YNNI MÔN
ANGLESEY ENERGY ISLAND



**Stena Line**

Porthladd Caergybi –
Porth Rhyngwladol Strategol

**LAND & LAKES** Environments for life

1100 Uned Arfaethedig ar gyfer defnydd cymysg Pentref Twristieth Preswyl a Cyfleusterau Hamdden. Cam 1 – Llety Gweithwyr Wylfa

**morlais** / **Minesto**

DATBLYGIADAU AR Y MÔR - Parth Arddangos Cerrynt Llanw Gogledd Môn 38km2 o wely'r môr

**orthios**

Parc Biomas / Eco Arfaethedig 299 MW yn darparu ynni a stêm ar gyfer Hydroponic a mentrau dyframaethu

**Magnox**

Gorsaf Pwer Bresenol Wylfa – 460 MW o Ynni Carbon Isel Diwedd cynhyrchu 2015

**PŴER NIWCLEAR HORIZON NUCLEAR POWER**

Gorsaf Ynni Niwclear Newydd Arfaethedig gyda'r gallu i gynhyrchu oddeutu 2.7 GW o Ynni Carbon Isel

**SP ENERGY NETWORKS**

Gweithredwr Rhwydwaith Dosbarthu Trydan yng Ngogledd Cymru - Cysylltu Cynhyrchwyr Trydan Llai

**M-SPARC**

Parc Gyddoniaeth Arfaethedig yn dennu ymchwilwyr academaidd ac arbenigwyr masnachol at eu gilydd 7.8 Hectar

**Coleg Menai**

hangu y campws i gynnwys
styniad y Ganolfan Ynni

**nationalgrid**

Cysylltu Ynni Carbon Isel newydd Arfaethedig ar Ynys Môn

Mae’r Gymraeg yn rhan annatod o hunaniaeth a threftadaeth ddiwylliannol yr ynys ac uchelgais clir Cyngor Sir Ynys Môn yw annog a chefnogi mwy o gymunedau a thrigolion yr ynys i ddefnyddio’r iaith yn rhan o’u bywyd beunyddiol.

Rhydd y prosiectau mawr arfaethedig gyfle unigryw na welwyd mo’i debyg o’r blaen i gyfrannu’n gadarnhaol i drawsffurfiad economaidd-gymdeithasol yr ynys (a rhanbarth ehangach Gogledd Cymru). Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn gweld gwaith datblygu, gweithredu'r prosiectau mawr hyn a’u gwaddol (a’u datblygiadau cysylltiedig) yn allweddol i drawsnewid cynaliadwyedd, llesiant ac ‘ymdeimlad o le’ tymor hir yr ynys a’i chymunedau.

Mae’r cyfleoedd a’r manteision economaidd-gymdeithasol a ddangosir yn sgil y prosiectau mawr arfaethedig o bwys tyngedfennol i adfywiad, bywiogrwydd ac amrywiaeth Ynys Môn, ei thrigolion, ei heconomi a’i diwylliant. Mae’n hanfodol fod y prosiectau’n cael eu datblygu, eu hadeiladu a’u gweithredu’n gydlynol, yn integredig ac yn gytbwys er mwyn dylanwadu orau ar ddyfodol tymor hir Ynys Môn, a’i lunio a’i gefnogi. Cred y Cyngor Sir yn gryf fod cyflawni ‘gwaddol’ cadarnhaol a holl gynhwysol yn sylfaenol/hanfodol i lwyddiant a derbynioldeb y prosiectau mawr arfaethedig.

Bydd cael ‘gwaddol’ cadarnhaol o’r datblygiadau arfaethedig yn ddibynnol ar:

- Darparu cyfleoedd i bobl ifanc leol aros ar yr ynys i fyw a gweithio
- Nifer, math a graddfa cyfleoedd cadwyni cyflenwi i fusnesau lleol gymryd mantais ohonynt
- Darparu addysg, hyfforddiant a sgiliau gwell o ansawdd uchel i bobl leol gymryd mantais o’r cyfleoedd gwaith
- Denu pobl sydd wedi gadael yr ynys i chwilio am waith yn rhywle arall yn ôl i Ynys Môn
- Denu buddsoddiad fel bod modd i gwmnïau newydd weithio o Ynys Môn/ Gogledd-orllewin Cymru er mwyn darparu cyfleoedd gwaith ychwanegol i bobl leol
- Sicrhau y cymerir mantais o’r holl gyfleoedd i gofleidio, hyrwyddo a chefnogi treftadaeth ddiwylliannol gyfoethog a’r iaith Gymraeg ar yr ynys.

**Strategaeth Iaith Ynys Môn –** Amcanion i'w cyflawni erbyn diwedd Blwyddyn 1



| | Blwyddyn 1 | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes Blaenoriaeth** | **Nod Cyffredinol** | **Amcan i'w gyflawni erbyn diwedd blwyddyn 1** | **Cyfrifoldeb** | **Ffynhonnell Gyllidol** | **Dangosydd Perfformiad** | **Statws RAG** |
| | Plant a Phobl Ifanc/Y Teulu<br>(e.e. Cymraeg yn y blynyddoedd cynnar, cyfnod statudol addysg, cymdeithasol) | | | | | |
| Siarter Iaith | Codi statws y Siarter Iaith ar draws gwasanaethau Cyngor Sir Ynys Môn nid yn unig o fewn yr Ysgolion ond ymysg rhieni a'r gymuned ehangach | Codi ymwybyddiaeth yr holl aelodau etholedig a darparu gwybodaeth i'r gwasanaethau perthnasol | - Swyddog Siarter Iaith, Cyngor Sir Ynys Môn<br><br>- (Uwch Reolwr Safonau Ysgol a Chynhwysiad) Cyngor Sir Ynys Môn | - Dysgu Gydol Oes Cyngor Sir Ynys Môn<br><br>- Grant y Gymraeg mewn Addysg<br>-Grant uniongyrchol LlC 2016-17- hyrwyddo'r Siarter Iaith | 100% o aelodau etholedig yn derbyn gwybodaeth ysgrifenedig neu ar lafar o'r gofynion<br><br>90% ysgolion yn derbyn achrediad gwobr efydd erbyn Medi, 2016 | |
| | Sicrhau bod pob ysgol yn cynnwys blaenoriaeth ar gyfer datblygu'r Gymraeg a'r Siarter Iaith yn eu Cynllun Gwella Ysgol | Polisi Iaith pob ysgol yn datgan 'Cymraeg yw iaith gymdeithasol yr ysgol hon'<br><br>Ysgolion wedi gwneud arfarniad trylwyr o berfformiad yn erbyn y We Iaith ac wedi gweithredu arno | - Swyddog Siarter Iaith, Cyngor Sir Ynys Môn<br>- (Uwch Reolwr Safonau Ysgol a Chynhwysiad) Cyngor Sir Ynys Môn<br>- Penaethiaid ysgolion<br>- Gwasanaeth GwE<br>- Cydlynwyr Iaith dalgylchoedd<br>- Fforwm Iaith Strategol<br><br>- Fforwm Iaith Addysg | - Cyllidebau ysgolion | - GwE yn monitro Cynlluniau Gwella Ysgolion<br><br>- 100% Ysgolion wedi adnabod blaenoriaethau ac yn gwneud cynnydd erbyn Mai, 2017<br><br>-90% o ysgolion yn symud ymlaen i'r wobr arian yn 2016/17<br><br>-Fframwaith arolygu Estyn yn cynnwys y defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg | |

**Strategaeth Iaith Ynys Môn –** Amcanion i’w cyflawni erbyn diwedd Blwyddyn 1



| | Blwyddyn 1 | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes Blaenoriaeth** | **Nod Cyffredinol** | **Amcan i’w gyflawni erbyn diwedd blwyddyn 1** | **Cyfrifoldeb** | **Ffynhonnell Gyllidol** | **Dangosydd Perfformiad** | **Statws RAG** |
| | Sicrhau cefnogaeth i’r ysgolion fel y gallant ddatblygu sgiliau Cymraeg cymorthyddion a staff ategol | Hyfforddiant uwchsgilio, 18 diwrnod, i grŵp o 15 o gymorthyddion yn nhymor y Pasg 2017.<br>Cyrsiau iaith, mewn dalgylchoedd ysgolion, i gymorthyddion | -Cyngor Sir Ynys Môn/Fforwm Iaith Strategol Ynys Môn/Canolfan Bedwyr/Prifysgol Bangor | Cyllid Llywodraeth Cymru trwy grant i Ganolfan Bedwyr. Cyllid grant ar gyfer hyrwyddo’r Siarter Iaith, Llywodraeth Cymru | 15 cymhorthydd wedi derbyn hyfforddiant dwys (Ionawr, 2017). Sesiynau gwyll ar gael i gymhorthyddion eraill | |
| | Sicrhau bod y ffordd yn cael ei pharatoi ar gyfer y Gymraeg yn Ysgol Cybi | Ysgolion y dalgylch yn cydweithio ar flaenoriaethu’r Gymraeg a blaenoriaethu’r Siarter Iaith yn y Cynllun Gwella Ysgol | - Swyddog Siarter Iaith, Cyngor Sir Ynys Môn<br><br>- (Uwch Reolwr Safonau Ysgol a Chynhwysiad) Cyngor Sir Ynys Môn<br><br>- Gwasanaeth GwE<br><br>- Yr holl bartneriaid allweddol<br><br>- Pennaeth Ysgol Cybi | - Cyllidebau ysgolion<br><br>- Grant Y Gymraeg mewn Addysg | - 76% o ddisgyblion Cyfnod Sylfaen yn derbyn asesiad Cymraeg ym mis Mai 2017 | |
| | Sicrhau cyfleoedd i rieni ddysgu Cymraeg er mwyn cefnogi eu plant ond hefyd er mwyn hwyluso cymhathu cymdeithasol a chyfleoedd gyrfaol | Rhaglen hyfforddiant ar gael a fydd yn cael ei hyrwyddo’n glir ac effeithiol ymysg rhieni | -Consortiwm Dysgu Cymraeg y Gogledd-Orllewin | Consortiwm Dysgu Cymraeg y Gogledd-Orllewin a’r rhieni eu hunain | Dangosyddion cydnabyddedig y Consortiwm a fydd yn cynnwys agweddau meintiol ac ansoddol | |

**Strategaeth Iaith Ynys Môn –** Amcanion i'w cyflawni erbyn diwedd Blwyddyn 1

| | Blwyddyn 1 | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes Blaenoriaeth** | **Nod Cyffredinol** | **Amcan i'w gyflawni erbyn diwedd blwyddyn 1** | **Cyfrifoldeb** | **Ffynhonnell Gyllidol** | **Dangosydd Perfformiad** | **Statws RAG** |
| Trosglwyddo iaith o fewn y teulu | Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ymhlith teuluoedd cymysg eu hiaith a rhai di-Gymraeg | Cynyddu nifer y rhieni sy'n siarad Cymraeg efo'u plant, ac a ddaw o gartrefi ble mae un rhiant yn medru siarad Cymraeg | - Menter Iaith Môn<br><br>- Mudiad Meithrin | - Llywodraeth Cymru | 250 o rieni yn nodi eu bod yn gweithio ar newid eu harferion iaith yn y cartref (dewis un ardal i ganolbwyntio arni yn y flwyddyn gyntaf) | |
| | Gwella gwybodaeth i deuluoedd am fanteision y Gymraeg gan brif ffrydio'r negeseuon drwy wasanaethau statudol a phreifat (gan gynnwys meithrinfeydd) | Sicrhau bod swyddogion maes, Gofalwyr plant ac ymwelwyr iechyd yn hyrwyddo pwysigrwydd trosglwyddiad iaith o fewn y teulu. Adnabod anghenion hyfforddiant priodol | - Llywodraeth Cymru<br><br>- Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr<br><br>- Mudiad Meithrin<br><br>- Dechrau'n Deg<br><br>- Cyngor Sir Ynys Môn | | Sicrhau targedu 500 o deuluoedd | |
| | Codi ymwybyddiaeth rhieni/gofalwyr am fanteision y Gymraeg | Dosbarthu taflen i bob darpar riant/gofalwr erbyn Mawrth, 2017 | -Menter Iaith Môn<br><br>- Mudiad Meithrin | | Cynnydd yn nifer y mynychwyr ysgolion meithrin | |
| | Sicrhau bod arweinydd pob cylch yn ddwyieithog | Rhesymoli cylchoedd ardal Caergybi erbyn Medi, 2017 | - Mudiad Meithrin | | 100% o arweinyddion cylchoedd y Cymdeithas yr Ysgolion Meithrin yn ddwyieithog | |

**Strategaeth Iaith Ynys Môn –** Amcanion i'w cyflawni erbyn diwedd Blwyddyn 1

| | Blwyddyn 1 | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes Blaenoriaeth** | **Nod Cyffredinol** | **Amcan i'w gyflawni erbyn diwedd blwyddyn 1** | **Cyfrifoldeb** | **Ffynhonnell Gyllidol** | **Dangosydd Perfformiad** | **Statws RAG** |
| | Cydweithio gyda phartneriaid sy'n denu unigolion yn ôl i Fôn i weithio | Adnewyddu gwefan Ynys Ynni a chynnwys gwybodaeth yn rheolaidd am gyfleon gwaith yn sgîl datblygiadau mawr | -Swyddogion Rhaglen Ynys Ynni | | Sefydlu gwaelodlin am y nifer o bobl sy'n gweithio y tu allan i Fôn | |
| Addysg | Adolygu'r Polisi Iaith Gymraeg mewn Ysgolion, Cyngor Sir Ynys Môn | Polisi cadarn y Cyngor Sir yn gosod disgwyliadau pendant ar yr holl Ysgolion a'u cyrff llywodraethol ac yn sicrhau cysondeb gweithredu rhwng Ysgolion. | - Cyngor Sir Ynys Môn<br><br>- Aelodau Etholedig<br><br>- Dysgu Gydol Oes Cyngor Sir Ynys Môn | Cyllid i hyrwyddo/ lansio | - Cyrff Llywodraethu'r holl Ysgolion yn gweithredu'r Polisi Iaith<br>- 100% o rieni'n derbyn yr un neges am statws yr Iaith Gymraeg yn yr ysgol, a hynny ym mob ysgol | |
| | Sicrhau bod pob agwedd ar y Gymraeg yn cael ei phrif lifo yn y Cyfnod Sylfaen ac ar ganran gyfartal neu uwch yng Nghyfnod Allweddol 2 ym mhob ysgol | Cynnydd yn y nifer o ddisgyblion sy'n dilyn trac Cymraeg iaith gyntaf drwy eu cyfnod yn ysgolion uwchradd y Sir | - Cyngor Sir Ynys Môn<br><br>- Dysgu Gydol Oes Cyngor Sir Ynys Môn | - Grant y Gymraeg mewn Addysg | - 76% o ddisgyblion Cyfnod Sylfaen yn cael eu hadnabod fel disgyblion Cymraeg yn y Cyfrifiad CYBLD yn Ionawr, 2017<br><br>-76% o ddisgyblion pob ysgol yn derbyn asesiad Cymraeg ym Mai, 2017 | |
| | Cryfhau'r gefnogaeth i'r ysgolion gyflwyno addysg Gymraeg i ddisgyblion yn yr ardaloedd ble mae'r her i'r iaith yn uchel | Gwneud achos i sefydlu tîm o Athrawon Cefnogi Iaith , CS, CA2 a CA3, dan oruchwyliaeth y | - Dysgu Gydol Oes Cyngor Sir Ynys Môn | - Grant y Gymraeg mewn Addysg<br><br>- Wedi cyflwyno cais i Horizon i | -Ymateb cadarnhaol gan Gwmni Horizon | |

**Strategaeth Iaith Ynys Môn –** Amcanion i'w cyflawni erbyn diwedd Blwyddyn 1

| | Blwyddyn 1 | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes Blaenoriaeth** | **Nod Cyffredinol** | **Amcan i'w gyflawni erbyn diwedd blwyddyn 1** | **Cyfrifoldeb** | **Ffynhonnell Gyllidol** | **Dangosydd Perfformiad** | **Statws RAG** |
| | | Canolfannau Iaith, i gefnogi disgyblion 3 – 14 oed ac i hyfforddi athrawon a chymorthyddion mewn dulliau trochi iaith | | gyflogi cyfwerth â 6 athro llawn amser | | |
| | Cynyddu a chynnal y defnydd o'r Gymraeg ymysg dysgwyr ôl 16 yn y sector Addysg Bellach | Sefydlu trefn ar gyfer mesur a thracio dysgwyr ôl-16 yn y sector addysg bellach sy'n parhau i astudio trwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog<br><br>Rhannu gwaelodlin darpariaeth ddwyieithog Coleg Menai gyda'r Fforwm Iaith<br><br>Cynnydd o 4% mewn darpariaeth ddwyieithog yng Ngholeg Menai | -Cyfarwyddwr Dwyieithrwydd a Chydraddoldeb - Grŵp Llandrillo Menai | | Trefn wedi'i sefydlu<br><br>Gwaelodlin wedi'i rhannu erbyn Rhagfyr, 2016<br><br>Cynnydd o 4% yn y ddarpariaeth ddwyieithog yng Ngholeg Menai yn ystod y flwyddyn gyntaf (erbyn Gorffennaf, 2017) | |
| | Cysoni a ffurfioli categorïau ieithyddol holl ysgolion Ynys Môn â diffiniadau cenedlaethol | Adolygu a chytuno ar ddiffiniadau darpariaeth ieithyddol ysgolion Môn | - Dysgu Gydol Oes Cyngor Sir Ynys Môn<br><br>- GwE | | - Y Cyngor ac Ysgolion yn arddel diffiniadau cyson a chywir ynghylch y ddarpariaeth ieithyddol, yn unol â thudalennau 12-14 dogfen *Diffinio ysgolion yn ôl y* | |

Tudalen 75

**Strategaeth Iaith Ynys Môn –** Amcanion i'w cyflawni erbyn diwedd Blwyddyn 1

| | Blwyddyn 1 | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Maes Blaenoriaeth | Nod Cyffredinol | Amcan i'w gyflawni erbyn diwedd blwyddyn 1 | Cyfrifoldeb | Ffynhonnell Gyllidol | Dangosydd Perfformiad | Statws RAG |
| | | Diweddaru 'Llawlyfr Mynediad Ysgolion' y Cyngor, o safbwynt cyfrwng iaith ysgolion | | | *ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg (Llywodraeth Cymru, 2007)*<br><br>- Llawlyfr Mynediad Ysgolion Cyngor Sir Ynys Môn a diffiniadau'r ysgolion eu hunain yn cydymffurfio | |
| | Cefnogi ysgolion i symud ar hyd y continwwm ieithyddol, gan adeiladau ar Ddeilliannau, *Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2014-17 CSYM* | Cytuno ar amserlen 5 mlynedd i gryfhau pob un o ysgolion Môn, ar sail blaenoriaeth gan gychwyn gyda dalgylch Caergybi<br><br>Adolygu Deilliannau *Cynllun Strategol y Gymraeg Addysg 2014-17* i gael darlun o'r sefyllfa bresennol, e.e. Faint o ddisgyblion sy'n sefyll arholiadau TGAU trwy gyfrwng y Gymraeg | - Dysgu Gydol Oes Cyngor Sir Ynys Môn | | - 98% o ysgolion cynradd Môn yn rhai dynodedig cyfrwng Cymraeg (mewn 5 mlynedd drwy symud y rhai TR yn gyfrwng Cymraeg a symud 1 ysgol o EW)<br><br>- Cynnal trafodaeth gychwynnol gydag 1 ysgol uwchradd Môn I symud tuag at fod yn ddynodedig ddwyieithog (gan fod y 4 arall eisoes yn gyfrwng dwyieithog)<br><br>- 2 ysgol newydd y Cyngor 2016-2017 yn rhai 'cyfrwng Cymraeg'/asesu'r Gymraeg fel iaith gyntaf | |

Tudalen 76

**Strategaeth Iaith Ynys Môn –** Amcanion i'w cyflawni erbyn diwedd Blwyddyn 1

| | Blwyddyn 1 | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes Blaenoriaeth** | **Nod Cyffredinol** | **Amcan i'w gyflawni erbyn diwedd blwyddyn 1** | **Cyfrifoldeb** | **Ffynhonnell Gyllidol** | **Dangosydd Perfformiad** | **Statws RAG** |
| Y Gymraeg yn gymdeithasol | Cynyddu'r defnydd a phrif lifo'r Gymraeg mewn gweithgareddau chwaraeon | - Darparu mwy o wersi nofio yn y Gymraeg. 70% ar hyn o bryd.<br><br>- Canolbwyntio mwy ar gefnogi a chynyddu'r defnydd o'r iaith Gymraeg yng Nghanolfan Hamdden Caergybi<br><br>- Ymchwilio i'r posibiliadau o ddarparu cyrsiau eraill drwy gyfrwng y Gymraeg e.e. ffitrwydd<br><br>- Sicrhau bod yr holl hysbysiadau cyhoeddus a llenyddiaeth o fewn y canolfannau hamdden yn ddwyieithog | -Rheolwr Masnachol Hamdden, Cyngor Sir Ynys Môn | | - Lleihad o 50% yn nifer y cwynion<br><br>-Sefydlu gwaelodlin ar gyfer y flwyddyn gyntaf | |
| | Cynyddu'r defnydd a phrif lifo'r Gymraeg yng ngweithgareddau Clybiau Ieuenctid | Datblygu sgiliau'r staff i ddefnyddio'r Gymraeg trwy ddarparu sesiynau penodol yn y Clybiau Ieuenctid | - Prif Swyddog Ieuenctid (Cyngor Sir Ynys Môn) | Grant Strategaeth Gwaith Ieuenctid | Cynyddu nifer y staff sy'n defnyddio'r Gymraeg wrth ddarparu gweithgareddau | |

**Strategaeth Iaith Ynys Môn –** Amcanion i'w cyflawni erbyn diwedd Blwyddyn 1

| | Blwyddyn 1 | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes Blaenoriaeth** | **Nod Cyffredinol** | **Amcan i'w gyflawni erbyn diwedd blwyddyn 1** | **Cyfrifoldeb** | **Ffynhonnell Gyllidol** | **Dangosydd Perfformiad** | **Statws RAG** |
| | Cynyddu cwmpas y cyfryngau cymdeithasol i godi ymwybyddiaeth am weithgareddau'r Urdd yn lleol | Cynyddu ymwybyddiaeth am ddigwyddiadau'n lleol | -Swyddogion yr Urdd | Cyllideb yr Urdd | Nifer o 'hoffwyr' a dilynwyr | |
| | Sefydlu clwb i ddysgwyr yn Ysgol Uwchradd Caergybi | Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ymhlith disgyblion uwchradd yn nalgylch Caergybi | -Urdd/Menter Iaith Môn/Gwasanaeth Ieuenctid/Ffermwyr Ifanc | Cyllideb Clybiau Ieuenctid | Nifer y mynychwyr | |
| | Y Gweithle<br>Gwasanaethau Cymraeg<br>Y Seilwaith (e.e. datblygiadau mawr, Cymraeg mewn busnesau, twristiaeth, technoleg) | | | | | |
| Codi hyder staff i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle/codi ymwybyddiaeth am botensial technoleg | Sicrhau cyfleoedd i staff ddysgu Cymraeg er mwyn hwyluso eu gallu i weithio'n ddwyieithog, ond hefyd er mwyn hwyluso cymhathiad cymdeithasol a chefnogaeth i deuluoedd | Rhaglen hyfforddiant ar gael a fydd yn cael ei hyrwyddo'n glir ac yn effeithiol yn y gweithleoedd ynghyd â gwasanaeth ymgynghorol a fydd ar gael yn rhad ac am ddim i weithleoedd er mwyn cynllunio hyfforddiant effeithiol yn y gweithle | -Consortiwm Dysgu Cymraeg y Gogledd-Orllewin | Consortiwm Dysgu Cymraeg y Gogledd-Orllewin a'r rhieni eu hunain | Dangosyddion cydnabyddedig y Consortiwm a fydd yn cynnwys agweddau meintiol ac ansoddol | |

Tudalen 78

**Strategaeth Iaith Ynys Môn –** Amcanion i'w cyflawni erbyn diwedd Blwyddyn 1

| | Blwyddyn 1 | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes Blaenoriaeth** | **Nod Cyffredinol** | **Amcan i'w gyflawni erbyn diwedd blwyddyn 1** | **Cyfrifoldeb** | **Ffynhonnell Gyllidol** | **Dangosydd Perfformiad** | **Statws RAG** |
| Sicrhau bod y Gymraeg yn cael proffil uchel a'i bod yn yrrwr gan gyflogwyr a busnesau | Sicrhau bod y Gymraeg yn cael sylw priodol mewn unrhyw:<br>(a) ddatblygiad mawr ble mae mesurau lliniaru drwy brosesau cynllunio a chydsynio<br>(b) unrhyw ddatblygiadau llai yn y gymuned | Cynnal ymwybyddiaeth o faterion iaith wrth weithredu polisïau cynllunio lleol a chenedlaethol e.e. hyfforddiant ar y Bil Cynllunio newydd | -Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu'r Economi, Cyngor Sir Ynys Môn<br><br>-Cynrychiolwyr lleol e.e. Aelodau Etholedig, cynrychiolwyr Cynghorau Tref a Chymuned | | Bydd pob cais cynllunio am ddatblygiadau manwerthu, diwydiannol neu fasnachol lle mae adroddiad i'r Pwyllgor Cynllunio yn rhoi sylw llawn i effaith y datblygiad ar les yr iaith Gymraeg | |
| | Ymroddiad datblygwyr mawr tuag at Bolisïau Iaith | Sicrhau bod datblygwyr yn mabwysiadu polisïau a chynlluniau iaith er mwyn sicrhau statws gyfartal rhwng y Gymraeg a'r Saesneg yn y gweithle | -Datblygwyr mawr<br><br>-Cyngor Sir Ynys Môn | | Nifer y polisïau iaith gan ddatblygwyr ac effaith gweithredu'r polisi mewn *o fisoedd | |
| | Cynyddu cyfleon gwaith i bobl leol | Pwyso ar ddatblygwyr mawr i roi sicrwydd y bydd canran o weithwyr Wylfa Newydd yn bobl leol (lleihau allfudo a sicrhau plant ar gyfer yr ysgolion lleol) | -Horizon<br><br>-Cyngor Sir Ynys Môn | | -ymateb Cwmni Horizon yn eu cais DCO, Mai, 2017 | |

Tudalen 79

**Strategaeth Iaith Ynys Môn –** Amcanion i'w cyflawni erbyn diwedd Blwyddyn 1

| | Blwyddyn 1 | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes Blaenoriaeth** | **Nod Cyffredinol** | **Amcan i'w gyflawni erbyn diwedd blwyddyn 1** | **Cyfrifoldeb** | **Ffynhonnell Gyllidol** | **Dangosydd Perfformiad** | **Statws RAG** |
| | Datblygu 'pecyn manteision y Gymraeg mewn busnes' i gwmnïau sydd yn buddsoddi ar yr Ynys (i gynnwys deunydd marchnata manteision dwyieithrwydd yn y sector preifat ac yn adeiladu ar waith Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg), gan gynnwys cwmnïau twristiaeth | Dosbarthu pecynnau i bob busnes sy'n cysylltu â'r Cyngor (busnesau sy'n rhentu unedau busnes) | - Llywodraeth Cymru<br><br>- Busnes Cymru<br><br>- Uned Datblygu Economaidd Cyngor Sir Ynys Môn | | Nifer y pecynnau sy'n cael eu dosbarthu yn y flwyddyn gyntaf | |
| | Gweithredu Polisi Iaith y Cyngor Sir (Mai, 2016) a'i adolygu yn 2018 | Gweithio tuag at sicrhau mai Cymraeg fydd prif iaith weinyddol y Cyngor trwy, yn y lle cyntaf, sefydlu gwaelodlin o'r nifer sy'n gweithredu trwy gyfrwng y Gymraeg, yn llafar/neu yn ysgrifenedig trwy ddatblygu holiadur ar gyfer ei gylchredeg<br><br>Sefydlu diffiniad o 'weinyddu mewnol' | -Cyngor Sir Ynys Môn | | Gwybodaeth gyfredol o anghenion hyfforddi staff y Cyngor er mwyn targedu<br><br>Nifer o ddogfennau sy'n cael eu drafftio trwy gyfrwng y Gymraeg<br><br>Nifer o benodiadau 'Cymraeg hanfodol' | |

Tudalen 80

**Strategaeth Iaith Ynys Môn –** Amcanion i'w cyflawni erbyn diwedd Blwyddyn 1

| | Blwyddyn 1 | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes Blaenoriaeth** | **Nod Cyffredinol** | **Amcan i'w gyflawni erbyn diwedd blwyddyn 1** | **Cyfrifoldeb** | **Ffynhonnell Gyllidol** | **Dangosydd Perfformiad** | **Statws RAG** |
| | | Cytuno ar raglen dreigl 5 mlynedd gan dargedu lle mae angen cefnogaeth a chanolbwyntio ar gefnogaeth ddwys i un gwasanaeth<br><br>Parhau i gynnal pecyn hyfforddiant cynhwysfawr ar gyfer staff i wella ac ymestyn eu sgiliau yn y Gymraeg (boed hynny ar lafar neu'n ysgrifenedig)<br><br>Gwneud cais i Lywodraeth Cymru am adnoddau ychwanegol i gefnogi'r nod | | | | |
| | Hyrwyddo egwyddorion 'Mwy na Geiriau' | Darparu hyfforddiant ar y 'Cynnig Rhagweithiol' i staff Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Sir Ynys Môn | - Cyngor Sir Ynys Môn | Cyllideb y gwasanaeth | 50% o staff y Gwasanaethau Cymdeithasol yn derbyn hyfforddiant ar y 'Cynnig Rhagweithiol' | |

Tudalen 81

**Strategaeth Iaith Ynys Môn –** Amcanion i'w cyflawni erbyn diwedd Blwyddyn 1



| | Blwyddyn 1 | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes Blaenoriaeth** | **Nod Cyffredinol** | **Amcan i'w gyflawni erbyn diwedd blwyddyn 1** | **Cyfrifoldeb** | **Ffynhonnell Gyllidol** | **Dangosydd Perfformiad** | **Statws RAG** |
| Hyrwyddo'r Gymraeg yn weledol yn gymunedol | Cynhyrchu gwefan a phecynnau croeso ar gyfer mewnfudwyr am hanes a diwylliant/addysg ddwyieithog/manteision y Gymraeg/cyfleon i'w dysgu ac i'w defnyddio<br><br>Addasu gwefan y Cyngor Sir i gyfleu'r weledigaeth am y Gymraeg i fewnfudwyr | Sicrhau bod gwybodaeth ar gael i gynorthwyo mewnfudwyr mewn ffordd bositif | - Llywodraeth Cymru<br><br>- Gwasanaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd Cyngor Sir Ynys Môn<br><br>-Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd. Cyngor Sir Ynys Môn | | Nifer sy'n ymweld â'r wefan yn y flwyddyn gyntaf<br><br>Y weledigaeth ar wefan y Cyngor erbyn mis Hydref, 2016 | |
| | Adnabod pencampwyr iaith mewn Cynghorau Tref a Chymuned | Sefydlu'r egwyddor | -Fforwm Cynghorau Tref a Chymuned | | Sefydlu gwaelodin yn y flwyddyn gyntaf | |
| | Cynnal ymgyrch farchnata ar y cyd gyda'r Eisteddfod Genedlaethol a sicrhau gwaddol cymunedol | Cynnal deialog rhwng y Fforwm Iaith Strategol a Phwyllgor Gwaith Eisteddfod 2017 er mwyn adnabod blaenoriaethau ar gyfer cynllun gweithredu | -Asiantaethau perthnasol | | I'w llunio ar sail blaenoriaethau sy'n datblygu a chynllun gweithredu | |

**Strategaeth Iaith Ynys Môn –** Amcanion i'w cyflawni erbyn diwedd Blwyddyn 1

| | Blwyddyn 1 | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes Blaenoriaeth** | **Nod Cyffredinol** | **Amcan i'w gyflawni erbyn diwedd blwyddyn 1** | **Cyfrifoldeb** | **Ffynhonnell Gyllidol** | **Dangosydd Perfformiad** | **Statws RAG** |
| | Y Gymuned<br>(e.e. tai, broses cynllunio, diwylliant) | | | | | |
| Hyrwyddo a hwyluso dysgu Cymraeg ymysg oedolion | Sicrhau bod cyfleoedd i ddysgu Cymraeg ar gael yn eang ar draws y Sir | Rhaglen o gyrsiau cymunedol a fydd yn cael ei hyrwyddo'n eang ledled y sir | -Consortiwm Dysgu Cymraeg y Gogledd-Orllewin | Consortiwm Dysgu Cymraeg y Gogledd-Orllewin a'r dysgwyr eu hunain | Dangosyddion cydnabyddedig y Consortiwm a fydd yn cynnwys agweddau meintiol ac ansoddol | |
| Pecyn codi ymwybyddiaeth am y cyfleon gwirfoddoli trwy gyfrwng y Gymraeg | Creu pecyn gwybodaeth am gyfleon i wirfoddoli trwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer siaradwyr Cymraeg a dysgwyr | Cwblhau'r pecyn yn ystod blwyddyn 1 | -Medrwn Môn | | Cynnydd yn nifer y pecynnau a'r defnydd ohonynt | |
| Hwyluso'r defnydd o offer cyfieithu ar gyfer mudiadau gwirfoddol a chynghorau tref a chymuned | Codi ymwybyddiaeth am yr ap ffôn i gyfieithu ar y pryd | Hyrwyddo a pharhau i dreialu'r ap cyfieithu, "O Glust i Glust ", gyda'r nod y bydd yn cael ei fabwysiadu'n ehangach ymysg sefydliadau, grwpiau ac unigolion | -Cyfarwyddwr Busnes - Menter Môn | | Sefydlu gwaelodlin yn y flwyddyn gyntaf | |
| | Codi ymwybyddiaeth o'r posibiliadau/dulliau amrywiol i gwrdd â'r galw am wasanaeth gyfieithu ar y pryd mewn Cynghorau Tref a Chymuned | Adnabod iaith Cynghorau Tref a Chymuned/cyrff llywodraethu ysgolion a sefydlu gwaelodlin o'r angen | -Unllais Cymru<br><br>Dysgu Gydol Oes Cyngor Sir Ynys Môn | | Nifer y sefydliadau sy'n ei ddefnyddio | |

Tudalen 83

**Strategaeth Iaith Ynys Môn –** Amcanion i'w cyflawni erbyn diwedd Blwyddyn 1



| | Blwyddyn 1 | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes Blaenoriaeth** | **Nod Cyffredinol** | **Amcan i'w gyflawni erbyn diwedd blwyddyn 1** | **Cyfrifoldeb** | **Ffynhonnell Gyllidol** | **Dangosydd Perfformiad** | **Statws RAG** |
| Hyrwyddo Technoleg i normaleiddio'r Gymraeg yn gymunedol | Codi ymwybyddiaeth am waith a gweithgareddau Cymraeg ymysg trigolion Môn drwy sefydlu cyfrif trydar a Facebook, a defnyddio gwefan y Fenter Iaith | Partneriaid allweddol i adnabod pwynt cyswllt ym mhob sefydliad.<br><br>Creu cyswllt gyda darparwyr cymunedol | -Menter Iaith Môn i gydlynu â'r holl bartneriaid eraill i fwydo gwybodaeth | | - Nifer o bobl yn ymweld â'r wefan<br><br>- Nifer o bobl yn defnyddio cyfrif trydar<br><br>- Nifer o bobl yn defnyddio cyfrif Facebook | |
| Sicrhau bod y Gymraeg yn ystyriaeth mewn materion cynllunio a defnydd tir perthnasol | Mabwysiadu Cynllun Datblygu Lleol sy'n parhau i gynnal polisïau er lles yr iaith Gymraeg, gan gynnwys asesu'r effaith a gaiff cynigion datblygu ar yr iaith ar adeg cyflwyno ceisiadau cynllunio | Cynllun Datblygu Lleol wedi cael ei fabwysiadu | - Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu'r Economi, Cyngor Sir Ynys Môn | | Cynllun Datblygu Lleol wedi cael ei fabwysiadu gan y Cyngor 2016/2017 | |
| | Hyrwyddo datblygiadau sydd o fudd i ddyfodol cymunedau a rhwydweithiau<br><br>• Y farchnad dai leol<br>• Tai fforddiadwy<br>• Cyfleoedd gwaith | - Mabwysiadu Canllaw Cynllunio Atodol ar gyfer Cynnal Cymunedau Cynaliadwy<br><br>- Cynnal ymwybyddiaeth o faterion iaith wrth weithredu polisïau'r Cynllun Datblygu Lleol | -Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu'r Economi, Cyngor Sir Ynys Môn | | Canllaw Cynllunio Atodol ar gyfer Cynnal Cymunedau Cynaliadwy wedi cael ei fabwysiadu gan y Cyngor | |

**Strategaeth Iaith Ynys Môn –** Amcanion i'w cyflawni erbyn diwedd Blwyddyn 1

| | Blwyddyn 1 | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes Blaenoriaeth** | **Nod Cyffredinol** | **Amcan i'w gyflawni erbyn diwedd blwyddyn 1** | **Cyfrifoldeb** | **Ffynhonnell Gyllidol** | **Dangosydd Perfformiad** | **Statws RAG** |
| Cyfleusterau Cymunedol | Creu proffiliau ieithyddol o holl ardaloedd Ynys Môn i adnabod y bylchau mewn darpariaeth o'r cyfleon yn y cymunedau | Creu proffil ieithyddol o'r ynys | -Menter Iaith Môn/swyddogion ymgysylltu cymunedol | Horizon yn cyllido'r swyddogion ymgysylltu cymunedol | Trosolwg cyffredinol yn ei le | |
| | Sicrhau cyflenwad digonol o dai fforddiadwy i drigolion yr Ynys<br><br>Cymryd camau pellach i fynd i'r afael â'r nifer o dai gwag ar yr ynys er mwyn eu dychwelyd i ddefnydd lleol<br><br>Sicrhau cyflenwad ychwanegol o dai cyngor ar yr ynys | Sicrhau bod yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol yn datgan beth yw'r angen am dai fforddiadwy ac ym mha ardaloedd o'r Ynys<br><br>Sicrhau bod y data ar nifer y tai gwag ar yr ynys yn gywir<br><br>30 o dai dros 3 blynedd | -Rheolwr Strategol Tai - Cyngor Sir Ynys Môn<br><br>-Gwasanaeth Tai | Dyletswydd Statudol yn cael ei ariannu drwy Gronfa Cyffredinol y Cyngor<br><br>Cyllid y Gwasanaeth Tai | Cyflawni targedau'r Cytundeb Canlyniadau<br><br>Lleoliad 10 tŷ wedi'i adnabod yn y flwyddyn gyntaf | |
| | Marchnata tai fforddiadwy ar yr ynys i drigolion lleol drwy ddefnyddio gwefan Tai Teg | Ein bod yn marchnata 10 o dai fforddiadwy ar safle Tai Teg | -Swyddog Datblygu Strategol Tai,<br>Cyngor Sir Ynys Môn | Dim angen cyllidol, y system eisoes wedi ei sefydlu | Mesur yn erbyn y targed sydd wedi ei bennu fel yr amcan (adnabod ffigwr penodol) | |

# PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO

Dyfyniad ar gyfer eitem 6–Cofnodion Drafft y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Gorffennaf 2016

6 **STRATEGAETH IAITH GYMRAEG 2016 - 2021 (DRAFFT)**

Cyflwynwyd - adroddiad y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Partneriaethau, y Gymuned a Gwella Gwasanaethau) mewn perthynas â'r uchod.

Amlinellodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Partneriaethau, y Gymuned a Gwella Gwasanaethau) y cefndir i'r Mesur Iaith Gymraeg (Cymru) 2011 mewn perthynas â'r Strategaeth Iaith Gymraeg. Dywedwyd bod y Strategaeth yn amlinellu'r dull y bwriedir ei ddefnyddio i hyrwyddo'r iaith Gymraeg a hwyluso defnydd ehangach o'r iaith o fewn yr ardal a chynnal / cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg erbyn diwedd 2021. Mae Fforwm Iaith Strategol Ynys Môn- y crybwyllir ei haelodaeth o fewn yr adroddiad- wedi cael ei sefydlu i nodi blaenoriaethau a llunio Strategaeth Iaith Gymraeg. Bwriedir creu cynllun gweithredu ar gyfer yr ail flwyddyn cyn diwedd blwyddyn gyntaf y Strategaeth. Cyfrifoldeb y Fforwm Iaith Strategol fydd monitro cynnydd yn erbyn targedau a osodwyd. Dywedodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol fod Cyfrifiad 2011 yn dangos y bu gostyngiad yn nifer y siaradwyr Cymraeg ar yr Ynys a gweledigaeth y Cyngor yw cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg i o leiaf 60.1% erbyn Cyfrifiad 2021.

Dywedwyd ymhellach fod yna gynnig i gynnig 'pecynnau croeso' i newydd-ddyfodiaid i'r Ynys i esbonio iaith a diwylliant Cymru. 'Roedd y Cadeirydd yn dymuno cofnodi llwyddiant tîm pêl-droed Cymru yn ystod Pencampwriaeth Ewrop yn ddiweddar a sut mae Cymru wedi cael proffil uwch oherwydd ei diwylliant a'i iaith.

Adroddodd y Rheolwr Polisi a Strategaeth fod Fforwm Iaith Ynys Môn wedi cytuno i ganolbwyntio ar dair thema: -

- **Plant, Pobl Ifanc a'r Teulu**

**Nod:**

- Cynnydd yn nifer y teuluoedd lle defnyddir y Gymraeg fel prif iaith gyda phlant, gyda chynnydd yn y cyfleoedd a'r cymorth i'r iaith gael defnyddio'n gymdeithasol;
- Sicrhau bod gan bob plentyn yr hawl i fod yn gwbl ddwyieithog erbyn iddynt gyrraedd 16 oed;
- Cynyddu capasiti a'r defnydd o'r iaith Gymraeg fel cyfrwng cyfathrebu a dysgu ymhlith plant a phobl ifanc mewn gweithgareddau addysg a chymdeithasol.

- **Y Gweithlu, Gwasanaethau Iaith Gymraeg, y Seilwaith**

**Nod:**

- Hyrwyddo a chynyddu argaeledd gwasanaethau iaith Gymraeg, cynyddu'r cyfleoedd / disgwyliadau i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle a gweithio gyda'n gilydd i nodi cyfleoedd i brif ffrydio'r iaith o fewn datblygiadau a gweithgareddau.

Er bod yr Awdurdod yn anelu at gynyddu datblygiad yr iaith Gymraeg yn y gweithle, dywedodd y Swyddog y gobeithir codi proffil yr iaith Gymraeg yn y Cynghorau Tref / Cymuned ar Ynys Môn. Mae'r Cynllun Strategol wedi nodi bod angen Hyrwyddwr yr Iaith Gymraeg o fewn y Cynghorau Tref / Cymuned.

- **Y Gymuned**

**Nod:**

- Hyrwyddo a marchnata gwerth a phwysigrwydd y Gymraeg;
- Hyrwyddo a nodi cyfleoedd i gryfhau'r iaith Gymraeg o fewn y cymunedau a nodi bylchau yn y ddarpariaeth.

Adroddodd y Swyddog ei bod yn bwysig bod y Cynllun Strategol yn cydymffurfio â'r polisïau yn y Cynllun Datblygu Lleol i gael nifer ddigonol o dai ar gyfer trigolion lleol er mwyn gwella ffyniant ieithyddol yr Ynys. Nodwyd hefyd bod angen i gartrefi gwag a thai fforddiadwy fod ar gael.

Ystyriodd y Pwyllgor yr adroddiad a chodwyd y prif faterion a ganlyn: -

- Yr angen i gryfhau cyfleoedd o fewn y cymunedau lleol i alluogi pobl sy'n dymuno dysgu'r iaith Gymraeg;
- Dylid rhoi rhagor o adnoddau i Gynghorau Tref / Cymuned i ganiatáu ar gyfer defnyddio Cyfieithydd, os oes angen, yn eu cyfarfodydd. Dylai adnoddau fod ar gael hefyd i alluogi rhaglenni a chofnodion dwyieithog ar gyfer cyfarfodydd. Er yn cytuno â'r sylwadau a wnaed, ymatebodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Partneriaethau, y Gymuned a Gwella Gwasanaethau ) nad oes unrhyw adnoddau pellach ar gael ar hyn o bryd. Nododd efallai y bydd rhaid i Gynghorau Tref / Cymuned ystyried codi'r praesept yn y Dreth Gyngor i fynd i'r afael â'r mater a godwyd. Dywedodd hefyd fod Unllais Cymru wedi nodi eu bod yn barod i roi cyflwyniad i Gynghorau Cymuned / Tref ynglŷn â sut i gynnal eu cyfarfodydd a gweinyddu'n ddwyieithog;
- Bydd y mewnlifiad o weithwyr Wylfa Newydd posib a fydd yn byw ar yr Ynys yn effeithio ar yr ystadegau o ran yr iaith Gymraeg. Ymatebodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Partneriaethau, y Gymuned a Gwella Gwasanaethau) y cynhaliwyd trafodaeth gyda pherchnogion Wylfa Newydd i sefydlu sut maent yn bwriadu amddiffyn yr iaith Gymraeg ar yr Ynys pan fydd y gweithwyr yn cyrraedd i adeiladu'r orsaf bŵer yn y dyfodol. Dywedodd hefyd yr awgrymwyd iddynt eu bod yn ystyried ariannu 5 Swyddog pwrpasol o fewn dalgylchoedd yr Ynys i hyrwyddo diwylliant, chwaraeon a'r iaith Gymraeg;
- Mynegwyd pryderon mewn perthynas â rhai plant yn dewis peidio â siarad Cymraeg pan fyddant yn gadael yr ysgol gynradd i fynd i'r ysgol uwchradd. Ymatebodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Partneriaethau, y Gymuned a Gwella Gwasanaethau) fod yr Adran Addysg wedi bod yn gweithio gyda Phennaeth newydd Ysgol Cybi yng Nghaergybi a bod Penaethiaid y tair ysgol a fydd yn cyfuno i greu'r ysgol newydd wedi cytuno ar flaenoriaethau o fewn eu cynllun gwella sy'n cynnwys gwella llythrennedd y plant sy'n mynychu'r ysgol. Mae Ysgol Uwchradd Caergybi hefyd wedi bod yn rhan o'r cynllun gwella o ran y gwaith y mae angen ei wneud i wella'r Gymraeg o fewn yr ysgol.

Dywedodd hefyd y dylid annog Llywodraethwyr Ysgol i flaenoriaethau'r defnydd o'r iaith Gymraeg o fewn eu hysgolion;

- Bod pobl ifanc yn ysgolion uwchradd yr Awdurdod yn gallu cael eu tywys i'r cyfleoedd a ddaw yn sgil prosiectau mawr dan y Rhaglen Ynys Ynni mewn perthynas â swyddi gweinyddol a chyfleon peirianneg. Ymatebodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Partneriaethau, y Gymuned a Gwella Gwasanaethau) fod yr Awdurdod wedi datgan y byddai'n hoffi gweld 90% o'r prentisiaid a fydd yn cael cyfleoedd o fewn y prosiectau Ynys Ynni yn ddwyieithog;
- Tra'n croesawu bwriadau'r Cyngor Sir i wella'r defnydd o'r Gymraeg yn y gwaith o redeg yr awdurdod o ddydd i ddydd, awgrymwyd bod angen mynd gam ymhellach o ran cynnal cyfarfodydd o'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth, y Penaethiaid ac Uwch Reolwyr drwy gyfrwng y Gymraeg. Dylid targedu adrannau penodol i wneud mwy o ddefnydd o'r iaith Gymraeg. Ymatebodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Partneriaethau, y Gymuned a Gwella Gwasanaethau) fod y rhan fwyaf o gyfarfodydd yn cael eu cynnal drwy gyfrwng y Gymraeg ond roedd yn cytuno bod angen i rai adrannau wneud mwy o ddefnydd o'r iaith Gymraeg. Dywedodd fod y Rheolwr Polisi a Strategaeth wedi bod yn allweddol o ran cynorthwyo staff i allu mynychu cyrsiau a gweithgareddau i ddysgu a gwella sgiliau iaith Gymraeg;
- Byddai gwneud mwy o ddefnydd o'r iaith Gymraeg yng ngweinyddiaeth yr Awdurdod yn goleuo pobl ifanc yr Ynys i werthfawrogi bod cyfleoedd o fewn yr awdurdod lleol i ddefnyddio'r iaith Gymraeg ac yn eu cadw ar yr Ynys;
- Yr angen i wella cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg mewn gweithgareddau Cymunedol ar yr Ynys. Dylai sefydliadau o fewn cymunedau ystyried gwneud ceisiadau i Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn i gynyddu'r defnydd o'r iaith Gymraeg yn ystod gweithgareddau y maent yn gyfrifol amdanynt.

Yn dilyn trafodaethau pellach, **PENDERFYNWYD cymeradwyo'r Strategaeth Iaith Gymraeg am 2016-2021 (Drafft) i'w chymeradwyo gan y Pwyllgor Gwaith ac wedi hynny gan y Cyngor llawn.**

**GWEITHREDU: Fel y nodir uchod.**

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL A'R PWYLLGOR GWAITH** |
| **Dyddiad:** | **12 A 19 MEDI 2016** |
| **Pwnc:** | **ADRODDIAD MONITRO'R CERDYN SGORIO – CHWARTER 1 (2016/17)** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Y CYNGHORYDD ALWYN ROWLANDS** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **SCOTT ROWLEY** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | GETHIN MORGAN<br>01248 752111<br>GethinMorgan@ynysmon.gov.uk |
| **Aelodau Lleol:** | **d/b** |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

**1.1** Hwn yw cerdyn sgorio cyntaf blwyddyn ariannol 2016/17.

**1.2** Mae'n dangos sefyllfa'r Cyngor yn erbyn ei amcanion gweithredol fel y cawsant eu hamlinellu a'u cytuno rhwng yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth/y Pwyllgor Gwaith a'r Pwyllgor Gwaith Cysgodol.

**1.3** Gofynnir i'r Pwyllgor sgriwtineiddio'r cerdyn sgorio a nodi'r meysydd y mae'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn eu rheoli i sicrhau gwelliannau i'r dyfodol. Gellir crynhoi'r rhain fel a ganlyn:

***1.3.1*** *Caiff targedau cyffredinol eu hailasesu yn ystod Ch2 yn dilyn cyhoeddi data cymharol gyda phwyslais ar wella dangosyddion yn y chwarteli canolrifol is.*

***1.3.2*** *Derbyn targedau salwch cyraeddadwy ar gyfer yr holl Wasanaethau yn seiliedig ar ddata/patrymau hanesyddol i gwrdd â'r targed corfforaethol o 10 niwrnod fesul gweithiwr Amser Llawn Cyfatebol a gwneud ymdrech sylweddol i fynd i'r afael ag achosion salwch tymor hir penodol.*

***1.3.3*** *Parhau gyda'r panelau a gynhelir yn rheolaidd i herio gwasanaethau mewn perthynas â chyfraddau salwch er mwyn cadw'r ffocws ar wella ein ffigyrau rheoli salwch.*

***1.3.4*** *Y cyflwynir adroddiad ar waith Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas â salwch i'r Pwyllgor Gwaith yn Ch3 ar ôl edrych ar ein gweithdrefnau a mabwysiadu gwelliannau pellach yn seiliedig ar yr arferion gorau yn genedlaethol.*

| | |
|---|---|
| ***1.3.5*** | *Bod trosolwg cyffredinol a gwerthfawrogiad manwl o'r dangosyddion ar gyfer Plant a Dysgu yn cael eu dadansoddi ymhellach ac y ceir sicrwydd eu bod yn glynu wrth bolisïau corfforaethol a bod perfformiad yn gwella.* |
| **1.4** | Gofynnir i'r Pwyllgor dderbyn y camau lliniaru a amlinellir uchod. |

| **B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?** |
|---|
| d/b |

| **C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** |
|---|
| Mae'r mater hwn wedi ei ddirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith. |

| **CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
|---|
| Ydi. |

| **D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
|---|
| Ydi |

| **DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | Ystyriwyd y mater gan yr UDA yn ei gyfarfod ar 1 Medi ac mae eu sylwadau wedi eu hadlewyrchu yn yr adroddiad. |
| **2** | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | Dim sylwadau |
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | Dim sylwadau. |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| **5** | **Eiddo** | |

| | | |
|---|---|---|
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| **7** | **Sgriwtini** | |
| **8** | **Aelodau Lleol** | |
| **9** | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | |

| **E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | | |
|---|---|---|
| **1** | **Economaidd** | |
| **2** | **Gwrthdlodi** | |
| **3** | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| **4** | **Amgylcheddol** | |
| **5** | **Cydraddoldebau** | |
| **6** | **Cytundebau Canlyniad** | |
| **7** | **Arall** | |

| **F - Atodiadau:** |
|---|
| Atodiad A – Adroddiad Monitro’r Cerdyn Sgorio – Chwarter 1, 2016/17 a’r Cerdyn Sgorio. |

| **FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** |
|---|
| • Adroddiad monitro Cerdyn Sgorio 2015/16 – Chwarter 4 (fel y cafodd ei gyflwyno i’r Pwyllgor Gwaith ym mis Mai 2016 a’i dderbyn ganddo). |

## ADRODDIAD MONITRO'R CERDYN SGORIO – CHWARTER 1 (2016/17)

### 1. RHAGARWEINIAD

**1.1** Un o amcanion y Cyngor dan Raglen Cymru ar gyfer Gwella yw sicrhau bod gennym ddull o dystiolaethu a chyflwyno gwelliant parhaus ar draws y sefydliad. I'r perwyl hwn, llunnir adroddiad ar berfformiad bob blwyddyn i'w gyhoeddi erbyn diwedd mis Hydref sy'n dangos y cynnydd a wnaed neu'r diffyg cynnydd (fel sy'n berthnasol).

**1.2** Datblygwyd y cerdyn sgorio hwn i roi gwybod i arweinwyr y Cyngor am y cynnydd a wnaed yn erbyn dangosyddion sy'n dangos yn eglur weithrediad llwyddiannus gwaith dydd i ddydd y Cyngor ac sy'n cynorthwyo i ddarparu sail dystiolaeth ar gyfer drafftio'r adroddiad ar berfformiad.

**1.3** Mae'r cerdyn sgorio yn parhau i ddatblygu a gwreiddio gan adlewyrchu'r newidiadau hynny a wnaed i systemau ac arferion traddodiadol yn y Cyngor. Penderfynwyd ar y dangosyddion a gafodd eu cynnwys yn y cerdyn sgorio eleni (fel y llynedd) mewn gweithdy a gynhaliwyd ar 28 Gorffennaf 2016 gyda'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth, y Pwyllgor Gwaith a'r Pwyllgor Gwaith Cysgodol.

**1.4** Mae'r cerdyn sgorio (Atodiad 1) yn dangos y sefyllfa ar ddiwedd Ch1 a bydd yn cael sylw pellach gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a'r Pwyllgor Gwaith yn ystod mis Medi.

### 2. YSTYRIAETHAU

**2.1** Dyma'r bedwaredd flwyddyn o gasglu ac adrodd ar ddangosyddion perfformiad mewn dull cydlynol. Mae'r Cyngor yn awr yn gweld tueddiadau yn sefydlu eu hunain mewn perthynas â nifer o'r dangosyddion hynny ac mae sylwadau'r UDA/Pwyllgor Sgriwtini a'r Pwyllgor Gwaith yn cael effaith ar gyflawniad gweithredol.

**2.2** Mae'n bwysig nodi y gofynnwyd am i'r cerdyn sgorio ar gyfer eleni gynnwys:

- Dadansoddiad pellach o'r tueddiadau
- Trem yn ôl ar berfformiad y llynedd
- Cydnabyddiaeth o ddangosyddion penodol o fewn chwarteli
- Statws CAG newydd i gynnwys melyn (Coch – mwy na 10% ar ei hôl hi o gymharu â'r targed, Ambr – 5 i 10% ar ei hôl hi o gymharu â'r targed, Melyn – 0 i 5% ar ei hôl hi, Gwyrdd – ar darged)

Mae hyn yn cynorthwyo'r dadansoddiad chwarterol ac yn golygu y gellir ystyried perfformiad gan ddefnyddio nifer o gymaryddion gwahanol.

### 2.3 PERFFORMIAD

**2.3.1** Mae'r cerdyn sgorio ar gyfer Rheoli Perfformiad yn dangos perfformiad yn erbyn dangosyddion y gofynnwyd amdanynt gan yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth, y Pwyllgor Gwaith a'r Pwyllgor Gwaith Cysgodol. Fodd bynnag, cafodd y targedau hyn eu gosod cyn cyhoeddi'r data cymharol cenedlaethol ar 7 Medi.

**2.3.2** Ar ddiwedd Ch1, mae'n galonogol nodi bod y mwyafrif o'r dangosyddion yn perfformio'n dda yn erbyn eu targedau ond nodwn fod 3 o ddangosyddion yn tanberfformio ac yn Goch neu'n Ambr yn erbyn eu targed am y flwyddyn.

**2.3.3** Mae dau o'r dangosyddion hyn yn y Gwasanaethau Plant ac yn tanberfformio fel a ganlyn –

(i) SCC/025 - *y % o ymweliadau statudol â phlant sy'n derbyn gofal yr oedd angen eu cynnal yn ystod y flwyddyn ac a gynhaliwyd yn unol â rheoliadau yn Ch1* – 82.69% Targed - 100 **COCH**. Mae hyn yn cymharu gyda pherfformiad o 89.97% yn yr un cyfnod y llynedd. Trafodwyd y dangosydd hwn hefyd yn yr adroddiad ar gerdyn sgorio Ch4 2015/16.

O lefel ragorol 12 mis yn ôl, mae'r DP hwn wedi dirywio'n raddol oherwydd cynnydd sylweddol yn nifer y plant sy'n derbyn gofal. Cynhaliwyd nifer o ymweliadau yn hwyr oherwydd y cynnydd hwn yn y galw. Yn anffodus, mae'r adnoddau o fewn y gwasanaeth wedi ei chael hi'n anodd cwrdd â'r targedau.

***Y Camau lliniaru*** – er mwyn gwella'r safonau hyn ar gyfer Ch2, gweithredir ar yr isod :

- Mae'r gwasanaeth yn canolbwyntio ar wella ei berfformiad oherwydd, yn ddiweddar, mae wedi cyflogi mwy o weithwyr cymdeithasol.
- Parhau i ddefnyddio'r system dracio bob wythnos a sefydlu system i sicrhau bod ymweliadau'n parhau i gael eu cynnal pan fo staff ar eu gwyliau neu'n absennol oherwydd salwch.

(ii) PM32 - Canran y plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth a chanddynt brofiad o symud ysgol unwaith neu ragor, yn ystod cyfnod neu gyfnodau o dderbyn gofal, ac nad oedd y symud hwnnw oherwydd trefniadau trosiannol, yn y 12 mis hyd at 31 Mawrth, Ch1 – 6.1% - AMBR.

Er bod y rhif hwn yn uchel am un chwarter, mae'r rhesymau dros symud ysgol yn rhan o'r cynllun tymor hir ar gyfer y plant, e.e. mabwysiadu, lleoliadau therapiwtig; neu ddymuniad plentyn unigol i symud ysgol ac o'r herwydd, nid oes angen unrhyw gamau lliniaru.

**2.3.4** Mae un o'r dangosyddion yn y Gwasanaeth Dysgu yn tanberfformio:-

(i) 18 – LCL/004: Nifer y deunyddiau llyfrgell a ddosbarthwyd yn ystod y flwyddyn yn AMBR ar y cerdyn sgorio gyda 69k o ddeunyddiau wedi eu dosbarthu o gymharu â'r targed o 75k.

Mae'r deunyddiau llyfrgell a ddosbarthwyd yn is na'r targed ac ychydig yn is na ffigyrau 2015/16 (72.5k yn yr un cyfnod llynedd) ond mae'r gwasanaeth llyfrgell wedi gosod targed blynyddol uchel (16k yn uwch na pherfformiad 2015/16) fel cyfrwng ar gyfer sicrhau gwelliant. Mae hyn yn heriol yn wyneb y realiti economaidd a'r sefyllfa staffio.

Nid yw'r ffigyrau hyn yn cynnwys e-adnoddau sydd ar gynnydd.

***Y Camau Lliniaru*** - Er mwyn ychwanegu at nifer y deunyddiau a ddosberthir yn Ch2 16/17, bydd y gwasanaeth yn –

- Parhau i hyrwyddo darllen a benthyca drwy ymgysylltu mewn Gweithgareddau Datblygu Darllenwyr. Mae'r gweithgareddau hyn yn cynnwys grwpiau darllen ar gyfer siaradwyr Cymraeg a dysgwyr, grwpiau gwrando ar lyfrau i bobl a chanddynt nam ar eu golwg, grŵp gwau a sgwrsio ym Miwmares, her darllen dros yr haf i blant a mynd allan i weld grwpiau eraill mewn ysgolion a grwpiau cymdeithasol (e.e. Merched y Wawr ac ati).
- Dylai Lansio System Rheoli Llyfrgelloedd Gogledd Cymru yn Ch2 hefyd arwain at gynnydd mewn ymweliadau a nifer y deunyddiau llyfrgell a ddosberthir. Bydd y system yn caniatáu i ddefnyddwyr fenthyca a dychwelyd llyfrau i unrhyw lyfrgell yng Ngogledd Cymru.

**2.3.5** Cafwyd cytundeb yn y gweithdy a nodir uchod yn 1.3 bod swyddogion yn ailasesu'r dangosyddion perfformiad Addysg y gellir eu cynnwys ar y Cerdyn Sgorio eleni er mwyn cynnwys DP y gellir eu monitro'n rheolaidd drwy'r flwyddyn. Bydd y darn hwn o waith yn cael ei wneud yn Ch2 a byddant yn cael eu cynnwys yn yr adroddiadau dilynol ar y Cerdyn Sgorio.

**2.3.6** Er bod y gweddill o'r dangosyddion yr adroddwyd arnynt yn y rhan ar reoli perfformiad yn Ch1 â statws **GWYRDD** neu **FELYN**, dylid nodi nad yw hynny'n golygu bod ein sefyllfa o safbwynt cenedlaethol wedi gwella ar draws pob maes.

**2.3.7** Yn seiliedig ar ganlyniadau cychwynnol 15/16 mewn perthynas â'r chwarteli, ymddengys y bu gwelliant o ran 52% o'n gwaith sy'n gysylltiedig â dangosyddion NSI / PAM ac rydym wedi symud o safle 18 fel yr oedd yn 2014/15 i safle 12 yn 2015/16.

**2.3.8** Gellir gweld dadansoddiad pellach o'r perfformiad cyffredinol drwy'r Adroddiad Perfformiad Blynyddol a gyhoeddir cyn diwedd Hydref ac yr adroddir arno i'r Pwyllgor Sgriwtini a'r Pwyllgor Gwaith yn ystod mis Medi 2016.

**2.3.9** Fel y trafodwyd yn yr Adroddiad ar y Cerdyn Sgorio ar gyfer Ch4 2015/16, tarodd nifer fawr o ddangosyddion eu targedau ar gyfer 2015/16 a oedd yn galonogol ac sydd wedi ei adlewyrchu yn y gwelliant o ran ein sefyllfa yn genedlaethol. Os ydym am barhau i wneud cynnydd a gwella ein sefyllfa yn genedlaethol fel Cyngor sy'n cyflawni, mae'r UDA yn argymell –

- Caiff targedau cyffredinol eu hail-asesu yn ystod Ch2 yn dilyn cyhoeddi data cymharol gyda phwyslais ar wella dangosyddion yn y chwarteli canolrifol is.

**2.3.10** Yn ystod y flwyddyn ariannol hon, bydd yr adroddiad ar y cerdyn sgorio yn awr yn cynnwys diweddariad ar y cynnydd mewn perthynas â rhaglenni/prosiectau yn yr Awdurdod. Mae'r wybodaeth ynghylch hyn ar gael yn atodiad 2. Dyma ddiweddariad cryno ar rai rhaglenni/prosiectau:

**2.3.10.1** *Moderneiddio ysgolion* - Mae gwaith wedi cychwyn ar adeiladu Ysgol Cybi a thybir ar hyn o bryd y bydd y gwaith wedi'i gwblhau erbyn Ebrill 2017. Cychwynnodd gwaith ar adeiladu Ysgol Rhyd y Llan yn Ch1 ac fel y mae pethau ar hyn o bryd, tybir y bydd yn agor ym Mehefin 2017. Mae gwaith wedi bod yn mynd rhagddo i nodi safleoedd ar gyfer ysgol newydd yn ardal Bro Rhosyr / Bro Aberffraw, tynnir rhestr fer a bydd penderfyniad yn cael ei wneud yn Ch2 am y safle terfynol gyda'r disgwyliad y bydd gwaith archwilio'n cael ei wneud ar y safle a ddewisir cyn symud ymlaen i'w brynu'n derfynol.

**2.3.10.2** *Rhaglen Gofal Cymdeithasol i Oedolion* – Mae'r rhaglen wedi cael ei diwygio yn awr er mwyn adlewyrchu'r newidiadau yn y strategaeth ac mae trefniadau'n cael eu sefydlu i yrru'r ddarpariaeth o wasanaeth. Bydd Cymdeithas Dai Tŷ Glas, mewn cydweithrediad gyda'r Cyngor, yn cychwyn gwaith ar glirio safle Ysgol Y Bont yn Ch2 yn barod ar gyfer adeiladu'r cyfleuster Tai Gofal Ychwanegol, Hafan Cefni.

**2.3.10.3** *Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Llyfrgelloedd, Diwylliant ac Ieuenctid* – Mae'r gwasanaeth Llyfrgelloedd wedi bod yn ymgynghori i gytuno ar y defnydd a wneir yn y dyfodol o'r gwasanaeth llyfrgelloedd ar gyfer yr Ynys. Mae'r Gwasanaeth Ieuenctid hefyd wedi bod yn ymgynghori ynghylch dyfodol y gwasanaeth a bydd yn cwblhau opsiynau o'r ymgynghoriad cychwynnol ar gyfer eu trafod ymhellach gyda defnyddwyr gwasanaeth yn ystod Ch2. Rhoes y gwasanaeth Diwylliant wahoddiad yn Ch1 i sefydliadau, busnesau ac unigolion gyflwyno syniadau ynghylch rhedeg rhai o'n safleoedd treftadaeth yn y dyfodol. Bydd y syniadau hyn yn cael eu trafod a'u hystyried ymhellach yn ystod Ch2.


**2.3.10.4** *Prosiect Trawsnewid Hamdden* - Er mwyn gwneud ein gwasanaeth hamdden yn fwy masnachol, sefydlwyd brand newydd o'r enw MônActif yn ystod y flwyddyn. Mae'r gwaith o ailstrwythuro'r gwasanaeth hamdden wedi'i gwblhau. Mae WiFi ar gael erbyn hyn ym mhob un canolfan hamdden ac mae dosbarthiadau newydd (gan gynnwys nofio) ac opsiynau i dalu drwy ddebyd uniongyrchol ar gael i gwsmeriaid. Fel rhan o'r datblygiadau, mae'n bosibl yn awr i rieni dracio ar-lein gynnydd eu plant mewn gwersi nofio. Sefydlwyd Fforwm Pobl Ifanc.

**2.3.10.5** *Prosiect Gweithio'n Gallach* – Mae'r prosiect yn mynd rhagddo'n unol â'r amserlen ar hyn o bryd a dylai fod wedi ei gwblhau erbyn Ch3. Symudodd y cyfan o'r staff o Barc Mownt i'r Pencadlys yn ystod Ch1 ac mae Parc Mownt bellach ar werth. Disgwylir y bydd staff y Rovacabin wedi symud i'r Pencadlys erbyn diwedd Ch2. Disgwylir y bydd y gwaith o ailfodelu'r dderbynfa wedi cael ei gwblhau erbyn mis Hydref ac y bydd Cyswllt Môn wedi ei sefydlu ac yn weithredol erbyn diwedd Ch2.

## 2.4 RHEOLI POBL

**2.4.1** O ran Rheoli Pobl, nodir bod perfformiad y Cyngor o safbwynt cyfraddau salwch (*dangosydd 3 ar y cerdyn sgorio dan 'rheoli pobl')* yn dangos gwelliant bychan ar ddiwedd Ch1 o gymharu â'r llynedd a'r targed salwch corfforaethol o 10 niwrnod fesul aelod o staff amser llawn. Mae hyn yn awgrymu y rhagwelir y bydd y cyfraddau salwch

erbyn diwedd y flwyddyn (os bydd y tueddiadau yn parhau fel yn y ddwy flynedd diwethaf) yn 11.47 o ddyddiau salwch ar gyfer pob gweithiwr llawn amser.




Tabl 1

**2.4.2** Cyfrifwyd targedau absenoldeb salwch gwahanol ar gyfer gwasanaethau ar draws yr Awdurdod ac fe gytunwyd gyda'r UDA/Penaethiaid fel a ganlyn:


- Gwasanaethau Oedolion 13 o ddyddiau
- Gwasanaethau Plant 10.5 o ddyddiau
- Busnes y Cyngor 8.5 o ddyddiau
- Adfywio Economaidd a Chymunedol 8 o ddyddiau
- Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo 9.5 o ddyddiau
- Tai 11.5 o ddyddiau
- Dysgu 10 o ddyddiau
- Adnoddau 7.0 o ddyddiau
- Trawsnewid 7.0 o ddyddiau

**2.4.3** **Pwynt i'w Nodi** – Os llwyddir i gyrraedd yr holl dargedau a grybwyllir uchod ar gyfer gwasanaethau, bydd y Cyngor yn cwrdd â'i darged absenoldeb salwch o 10 niwrnod am bob gweithiwr llawn amser. Yn seiliedig ar ffigyrau 15/16, byddai hynny'n golygu bod y Cyngor ychydig o dan y canolrif drwy Gymru, sef 10.2 o ddyddiau o salwch fesul pob gweithiwr amser llawn.

2.4.4 Mae perfformiad y Gwasanaethau yn erbyn y targedau hyn yn ystod Ch1 yn dangos bod 3 o wasanaethau'n GOCH o gymharu â'u targedau am y chwarter:

- Gwasanaethau Plant – 5.17 o ddyddiau o salwch fesul gweithiwr amser llawn (y targed oedd 2.63)
- Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo – 2.77 o ddyddiau o salwch fesul gweithiwr amser llawn (y targed oedd 2.38)
- Dysgu – 2.83 o ddyddiau o salwch fesul gweithiwr amser llawn (y targed oedd 2.5)


**2.4.5** Un o'r prif resymau am beidio â chyrraedd ein targed corfforaethol ar gyfer Ch1 2015/16 oedd y cynnydd yn yr achosion Salwch Tymor Hir a oedd yn cyfateb i 58% o'r cyfanswm o'r dyddiau a gollwyd oherwydd salwch. O ran hyn, gwelwyd gwelliant sylweddol o gymharu â Ch1 2015/16, pryd collwyd 3000 o ddyddiau oherwydd salwch o gymharu â 4000 (gweler tabl 2 isod).




Tabl 2

**2.4.6** Roedd salwch tymor hir yn cyfateb i 49% o'n cyfraddau salwch ar gyfer Ch1 o gymharu â 60% am yr un cyfnod yn 2015/16. Ystyrir bod ymgyrch barhaus ac angen i ostwng y ffigyrau ar gyfer salwch tymor hir yn hanfodol er mwyn gwella ein rhagolygon o flwyddyn i flwyddyn.

**2.4.7** Nid yw ein cyfraddau salwch tymor byr o gymharu â'r flwyddyn ddiwethaf yn dangos yr un gwelliant. Yn wir, gwelwyd cynnydd o 412 yn nifer y diwrnodau o salwch fesul gweithiwr amser llawn o gymharu â'r un cyfnod y llynedd. Dangosir hyn yn Nhabl 3 isod.




***Tabl 3***


**2.4.8** Mae 'rheoli' salwch yn gysylltiedig â chyfraddau salwch. Mae cydymffurfiaeth y staff gyda pholisïau salwch corfforaethol yn rhan annatod o'r broses reoli o fewn y Cyngor ac mae hynny'n cynnwys y cyfweliadau dychwelyd i'r gwaith a'r Cyfarfodydd Adolygu Presenoldeb *(dangosyddion 7 ac 8 ar y cerdyn sgorio).*

**2.4.9** Mae'r Cyngor yn parhau i wreiddio'r arferion gweithio hyn ar draws ei wasanaethau ond yn ystod Ch1, gwelwyd nifer y cyfweliadau dychwelyd i'r gwaith a gynhaliwyd o fewn yr amser penodedig (77%) yn gostwng rywfaint yn is na'r targed o 80% am y tro cyntaf ers Ch4 yn 2013/14 (Tabl 4).

**2.4.10** Eleni, am y tro cyntaf ar y cerdyn sgorio, mae canran gyfan y cyfweliadau dychwelyd i'r gwaith a gynhaliwyd wedi'i chynnwys ac yn dangos y rhai a gynhaliwyd o fewn yr amserlen yn ogystal â'r rhai a gwblhawyd yn hwyr. Mae perfformiad Ch1 yn 93% sy'n ganlyniad iach, fodd bynnag, rydym wedi gosod targed heriol o 95% ar gyfer y dangosydd hwn.

**2.4.11** Yn ystod Ch1, y gwasanaethau a fethodd gyrraedd y Targed Corfforaethol o 80% o fewn yr amserlen oedd Trawsnewid 50%, Adnoddau 67%, Gwasanaethau Plant 63% a Phriffyrdd, Gwastraff ac Eiddo 73%. Mae canran gyfan y cyfweliadau dychwelyd i'r gwaith a gynhaliwyd (o fewn yr amserlen ac yn hwyr) yn dangos stori debyg i'r rheini a gynhaliwyd o

fewn yr amserlen (Trawsnewid 50%, Gwasanaethau Plant 83% a Rheoleiddio a Datblygu Economaidd 86%). Mae'r gwasanaethau eraill o fewn 5% o'u targedau.




Tabl 4

**2.4.12** Argymhellodd yr UDA yn 2015/16, y dylid rhoi rhagor o sylw i reoli'r achosion hynny o absenoldebau salwch tymor byr ailadroddus sy'n cyrraedd pwyntiau sbardun a lle mae'n rhaid cynnal cyfarfodydd adolygu presenoldeb (CAP). Mae DP ychwanegol yn y cerdyn sgorio newydd ar gyfer 2016/17 sy'n cymryd i ystyriaeth yr holl CAP a gynhaliwyd (ar amser ac yn hwyr) er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu cynnal, er yn hwyr efallai.

**2.4.13** Ar ddiwedd Ch1, roedd 75% o'r CAP wedi eu cwblhau gan y gwasanaethau (ac eithrio CAP yn yr Ysgolion – nid oedd y ffigyrau ar gael oherwydd gwyliau ysgol). Y gwasanaethau a fethodd gwrdd â'r targed yn ystod y cyfnod hwn oedd Adnoddau (36%), Tai (65%), Trawsnewid (67%) a Rheoleiddio a Datblygu Economaidd (70%).

**2.4.14** ***Mae'r UDA yn argymell felly:***

- *Derbyn targedau salwch cyraeddadwy ar gyfer yr holl Wasanaethau yn seiliedig ar ddata/patrymau hanesyddol i gwrdd â'r targed corfforaethol o 10 niwrnod fesul gweithiwr Amser Llawn Cyfatebol a gwneud ymdrech sylweddol i fynd i'r afael ag achosion salwch tymor hir penodol.*

- *Parhau gyda'r panelau a gynhelir yn rheolaidd i herio gwasanaethau mewn perthynas â chyfraddau salwch er mwyn cadw'r ffocws ar wella ein ffigyrau rheoli salwch.*

- *Y cyflwynir adroddiad ar waith Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas â salwch i'r Pwyllgor Gwaith yn Ch3 ar ôl edrych ar ein gweithdrefnau a mabwysiadu'gwelliannau pellach yn seiliedig ar yr arferion gorau yn genedlaethol.*

**2.5 GWASANAETH CWSMER**

**2.5.1** Eleni, cyflynir 5 o Ddangosyddion Perfformiad newydd (Eitem 11-15) sy'n edrych yn benodol ar y newid sianelau o ran cyfathrebu yn y Cyngor. Nid oes targedau ar gyfer hyn eleni er ein bod yn disgwyl i'r holl ddangosyddion hyn fod ar i fyny yn ystod y flwyddyn.

**2.5.2** Mae dau o'r dangosyddion newydd yn edrych ar lansio AppMôn yn llwyddiannus lle mae 429 o ddefnyddwyr wedi gosod yr App ar eu ffonau symudol. Mae'r defnyddwyr wedi defnyddio'r dechnoleg i gyflwyno 70 o adroddiadau i ni yn ystod Ch1 (ynghylch, er enghraifft, gadael gwastraff yn anghyfreithlon, goleuadau stryd diffygiol, canmoliaethau neu gwynion, pafinau wedi torri, ffurflenni data-bas clybiau chwaraeon ac archebu biniau ailgylchu).

**2.5.3** Mae'r dangosyddion gweddilliol yn canolbwyntio ar y wefan a'n presenoldeb ar y cyfryngau cyhoeddus. Cafwyd 134k o ymweliadau unigol i'r wefan yn ystod Ch1. Mae ein presenoldeb ar y cyfryngau cyhoeddus wedi arwain at 18k o gyfrifon cyfryngau cyhoeddus yn ein dilyn ar Facebook (8k o ddilynwyr) a Twitter (10k o ddilynwyr).

**2.5.4** O ran Rheoli Cwynion gan Gwsmeriaid, roedd 15 o gwynion wedi dod i law erbyn diwedd Ch1 a dim cwynion Cam 2 yn y Gwasanaethau Cymdeithasol. Ymatebwyd i'r holl gwynion ac o'r rhain, cadarnhawyd 3 ohonynt yn llawn (Rheoleiddo a Datblygu Economaidd [1]), Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo [1] ac Adnoddau [1], cadarnhawyd 3 yn rhannol (Rheoleiddio a Datblygu Economaidd [1], Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo [1] a Tai [1]) ac ni chadarnhawyd yr 8 arall.

**2.5.5** Ymatebwyd i 78% o'r cwynion o fewn yr amserlen gyda 6 o ymatebion hwyr (Gwasanaethau Oedolion [2], Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo [1], Tai [1] a Gwasanaethau Plant [1]. Mae hyn yn gynnydd sylweddol o'r 64% a gafwyd ar ddiwedd 2015/16, fodd bynnag, mae rhywfaint yn is na'r targed o 80%.

**2.5.6** Ymatebwyd i 76% o'r ceisiadau am wybodaeth dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth erbyn diwedd Ch1 o gymharu â 67% ar ddiwedd 2015/16. Cafwyd 209 o geisiadau DRhG i gyd yn Ch1 gyda 50 o ymatebion hwyr. Daeth y rhan fwyaf o'r ymatebion hwyr o Adnoddau gyda hynny'n cyfateb i 52% o'r ymatebion hwyr (74% o'r 35 a dderbyniwyd gan y gwasanaeth), Rheoleiddio a Datblygu Economaidd gyda 16% (29% o'r 28 a dderbyniodd y gwasanaeth), a Gwasanaethau Cymdeithasol gyda 12% (13% o'r 45 a dderbyniwyd gan y gwasanaeth).

**2.5.7** Mae'r ymarfer Siopwr Cudd (eitemau 16-19 ar y cerdyn sgorio) i'w gynnal yn Ch3. Unwaith eto, y Grŵp Ymgynghorol Tenantiaid fydd yn cynnal yr ymarfer. Adroddir ar gasgliadau ac argymhellion eu hadroddiad yma yn Ch3.

**2.6 RHEOLAETH ARIANNOL**

**2.6.1** Rhagwelir y bydd cyfanswm y gorwariant ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2017 yn 366k. Bydd £125k o'r swm hwn ar gyllidebau gwasanaethau er rhaid pwysleisio ei fod yn cynnwys nifer o orwariannau a thanwariannau. Mae'r Gwasanaethau sy'n parhau i fod dan bwysau cyllidebol yn debyg i 2015/16 (Gwasanaethau Plant, Gwastraff ac Adnoddau) ond mae'r Penaethiaid Gwasanaeth yn ymwybodol o'r problemau ac yn

gweithio i ostwng lefel y gorwariant ar ddiwedd y flwyddyn. Rhagwelir y bydd lefel y gorwariant oddeutu 0.3% ac mae gan y Cyngor gronfeydd wrth gefn digonol i gyllido'r lefel hon o orwario petai raid ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

**2.6.2** Dylid nodi bod chwarter 1 yn fuan yn y flwyddyn ariannol ac nad yw eitemau megis effaith gwaith cynnal a chadw dros y gaeaf wedi cael eu cynnwys yn y rhagamcan oherwydd nid oes unrhyw wybodaeth ar gael. Gall rhagamcanion newid wrth i wybodaeth newydd ddod i'r fei. Fodd bynnag, bydd sgriwtini rheolaidd yr UDA a chamau unioni gan Benaethiaid Gwasanaetht yn helpu rheolwyr gwasanaethau i reoli'r cyllidebau y maent yn gyfrifol amdanynt.

**2.6.3** Mae mwy o wybodaeth am reolaeth ariannol i'w weld yn yr 'Adroddiad Monitro'r Gyllideb Refeniw ar gyfer Ch1' sydd yn eitem ar yr agenda yn y cyfarfod hwn.

## 3. ARGYMHELLION

**3.1** Gofynnir i'r Pwyllgor sgriwtineiddio'r cerdyn sgorio a nodi'r meysydd y mae'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn eu rheoli i sicrhau gwelliannau i'r dyfodol. Gellir crynhoi'r rhain fel a ganlyn:

**3.1.1** Caiff targedau cyffredinol eu hail-asesu yn ystod Ch2 yn dilyn cyhoeddi data cymharol gyda phwyslais ar wella dangosyddion yn y chwarteli canolrifol is.

**3.1.2** Derbyn targedau salwch cyraeddadwy ar gyfer yr holl Wasanaethau yn seiliedig ar ddata/patrymau hanesyddol i gwrdd â'r targed corfforaethol o 10 niwrnod fesul gweithiwr Amser Llawn Cyfatebol a gwneud ymdrech sylweddol i fynd i'r afael ag achosion salwch tymor hir penodol.

**3.1.3** Parhau gyda'r panelau a gynhelir yn rheolaidd i herio gwasanaethau mewn perthynas â chyfraddau salwch er mwyn cadw'r ffocws ar wella ein ffigyrau rheoli salwch.

**3.1.4** Y cyflwynir adroddiad ar waith Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas â salwch i'r Pwyllgor Gwaith yn Ch3 ar ôl edrych ar ein gweithdrefnau a mabwysiadu'gwelliannau pellach yn seiliedig ar yr arferion gorau yn genedlaethol.

**3.1.5** Bod trosolwg cyffredinol a gwerthfawrogiad manwl o'r dangosyddion ar gyfer Plant a Dysgu ynn cael eu dadansoddi ymhellach ac y ceir sicrwydd eu bod yn glynu wrth bolisïau corfforaethol a bod perfformiad yn gwella.

**3.2** Gofynnir i'r Pwyllgor dderbyn y camau lliniaru a amlinellir uchod.

# Corfforaethol - Corporate Scorecard Ch-Q1 2016/17

| Gofal Cwsmer / Customer Service | CAG / RAG | Tuedd / Trend | Canlyniad / Actual | Targed / Target | Canlyniad 15/16 Result | Canlyniad 14/15 Result |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 01) Nifer y cwynion a dderbyniwyd (ac eithrio Gwasanaethau Cymdeithasol) | Gwyrdd / Green | - | 15 | 15 | 59 | 65 |
| 02) Nifer y cwynion Cam 2 a dderbynnwyd ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol | - | - | 0 | - | 5 | |
| 03) Nifer y Cwynion a gadarnhawyd / gadarnhawyd yn rhannol | - | - | 6 | - | 21 | |
| 04) % o ymatebion ysgrifenedig o fewn 20 diwrnod | Melyn / Yellow | - | 78% | 80% | 64% | |
| 05) Nifer o bryderon (ac eithrio Gwasanaethau Cymdeithasol) | - | - | 44 | - | 261 | 71 |
| 06) Nifer y cwynion Cam 1 ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol | - | - | 13 | - | 53 | |
| 07) Nifer o ganmoliaethau | - | - | 189 | - | 712 | 521 |
| 08) % o Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth a Ymatebwyd o fewn yr Amserlen | Ambr / Amber | ↑ | 76% | 80% | 67% | 65% |
| 09) Nifer o Geisiadau Rhyddid Gwybodaeth a dderbyniwyd | - | - | 209 | - | 854 | 894 |
| 10) % o'r galwadau ffôn heb ei ateb | Gwyrdd / Green | ↓ | 14% | 15% | 12% | |
| 11) Nifer o ddefnyddwyr AppMôn | - | - | 429 | - | - | |
| 12) Nifer o adroddiadau a dderbyniwyd gan AppMôn | - | - | 70 | - | - | |
| 13) Nifer o daliadau dros y we | - | - | - | - | - | |
| 14) Nifer o 'ddilynwyr' CSYM ar Cyfryngau Cymdeithasol | - | - | 18k | - | - | |
| 15) Nifer o ymwelwyr i wefan y Cyngor | - | - | 134k | - | - | |
| 16) % o gyfathrebu ysgrifenedig a atebwyd o fewn 15 diwrnod gwaith o'u derbyn (Siopwr Cudd) (Ch3/Q3) | - | - | - | - | 67% | |
| 17) % o ymatebion ysgrifenedig mewn dewis iaith y cwsmer (Siopwr Cudd) (Ch3/Q3) | - | - | - | - | 100% | |
| 18) % o alwadau ffôn a atebwyd yn ddwyieithog (Siopwr Cudd) (Ch3/Q3) | - | - | - | - | 77% | |
| 19) % y staff a gymerodd y cyfrifoldeb am ymholiad y cwsmer (Siopwr Cudd) (Ch3/Q3) | - | - | - | - | 90% | |

| People Management | CAG / RAG | Tuedd / Trend | Canlyniad / Actual | Targed / Target | Canlyniad 15/16 Result | Canlyniad 14/15 Result |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 01) Nifer y staff yr awdurdod cyfan, gan gynnwys athrawon a staff mewn ysgolion (FTE) | - | - | 2262 | - | 2310 | 2336 |
| 02) Nifer y staff yr awdurdod cyfan, ac eithrio athrawon a staff mewn ysgolion (FTE) | - | - | 1262 | - | 1303 | 1362 |
| 03) Absenoldeb Salwch - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE | Ambr / Amber | - | 2.69 | 2.5 | 11.68 | 11.53 |
| 04) Salwch Tymor Byr - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE | - | - | 1.37 | - | 4.89 | 5.49 |
| 05) Salwch Tymor Hir - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE | - | - | 1.32 | - | 6.79 | 6.04 |
| 06) % o salwch sy'n gysylltiedig â straen | Gwyrdd / Green | ↑ | 5% | 9% | 7% | 5% |
| 07) % o Cyfweliadau DIG a gynhalwyd o fewn yr amserlen | Melyn / Yellow | ↓ | 77% | 80% | 84% | 85% |
| 08) % o Cyfweliadau DIG a gynhalwyd | Melyn / Yellow | - | 93% | 95% | - | |
| 09) % o Gyfarfodydd Adolygu Phresenoldeb (CAP) a gynhaliwyd | Melyn / Yellow | - | 75% | 80% | - | |
| 10) Gweithwyr yr Awdurdod Lleol yn gadael (%) (Trosiant) (Blynddol) | - | - | 6% | - | - | |
| 11) % o ADP a'i cwblhawyd o fewn yr amserlen | Gwyrdd / Green | ↑ | 85.5% | 80% | - | |
| 12) % y staff sydd a Thystysgrif DBS (os oes angen o fewn eu rôl) | - | - | - | - | 98% | |
| 13) Nifer o staff Asiantaeth | - | ↑ | 22 | - | 26 | 21 |
| 14) Arolwg Staff (Bodlonrwydd Staff) - i'w gadarnhau | | | | | | |
| 15) Arolwg Staff (Bodlonrwydd Staff) - i'w gadarnhau | | | | | | |
| 16) Arolwg Staff (Bodlonrwydd Staff) - i'w gadarnhau | | | | | | |

| Rheolaeth Ariannol / Financial Management | CAG / RAG | Tuedd / Trend | Cyllideb / Budget | Canlyniad / Actual | Amrywiant / Variance (%) | Rhagolygon o'r Gwariant / Forcasted Actual | Amrywiant a Ragwelir / Forcasted Variance (%) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 01) Alldro diwedd blwyddyn a ragwelir (Refeniw) | Gwyrdd / Green | - | £114,742,000 | - | - | £114,867,000 | 0.11% |
| 02) Alldro diwedd blwyddyn a ragwelir (Cyfalaf) | - | - | £36,742,668 | - | - | £31,607,007 | -13.98% |
| 03) Amrywiad yn y Gyllideb ar gyfer Talu Cyflogau hyd yma yn y Flwyddyn | Coch / Red | - | £20,446,160 | £20,038,976 | -2.03% | - | - |
| 04) % y Gyllideb a wariwyd ar Gyflogau | - | - | - | 57.09% | - | - | - |
| 05) Cost staff asiantaeth | Coch / Red | - | £39,101 | £307,314 | 87.28% | - | - |
| 06) Y gyllideb o gymharu â Ffigyrau Gwirioneddol | Coch / Red | - | £30,253,939 | £28,780,711 | -5.12% | - | - |
| 07) Cyflawniad yn erbyn targedau effeithlonrwydd | - | - | £2,980,000 | £2,411,189 | -23.59% | - | - |
| 08) Incwm o gymharu â Thargedau (ac eithrio grantiau) | Coch / Red | - | -£6,574,582 | -£6,314,157 | -4.12% | - | - |
| 09) Swm a fenthycwyd | - | - | - | £110M | - | - | - |
| 10) Chost benthyca | - | - | - | - | - | £8,189,681 | - |
| 11) % o'r anfondebau a dalwyd o fewn 30 diwrnod | - | - | - | 84.90% | - | - | - |
| 12) % of y Dreth Gyngor a gasglwyd (am y 3 blynedd ddiwethaf) | - | - | - | 98.46% | - | - | - |
| 13) % y Trethi Busnes a gasglwyd (am y 3 blynedd ddiwethaf) | - | - | - | 98.66% | - | - | - |
| 14) % yr Amrywiol Ddyledion a gasglwyd (am y 3 blynedd ddiwethaf) | - | - | - | 93.28% | - | - | - |
| 15) % y Rhent Tai a gasglwyd (am y 3 blynedd ddiwethaf) | - | - | - | - | - | - | - |
| 16) % y Rhent Tai a gasglwyd heb gynnwys taliadau budd-dal (am y 3 blynedd ddiwethaf) | - | - | - | - | - | - | - |

| Rheoli Perfformiad / Performance Management | CAG / RAG | Tuedd / Trend | Canlyniad / Actual | Targed / Target | Canlyniad 15/16 Result | Canlyniad 14/15 Result | Chwartel 15/16 Quartile |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 01) SCA/002b: Cyfradd y bobl hŷn (65 mlwydd oed neu hŷn) y mae'r awdurdod yn eu cefnogi mewn cartrefi gofal fesul 1,000 o'r boblogaeth 65 oed neu hŷn ar 31 Mawrth | Gwyrdd / Green | ↑ | 19.57 | 22 | 20.3 | 22 | Isaf / Lower |
| 02) Ll/18b Canran y rhai sy'n ofalwyr i oedolion a ofynnodd am asesiad neu adolygiad ac a gafodd asesiad neu adolygiad iddyn nhw eu hunain yn ystod y flwyddyn | - | ↓ | 81.6 | - | 90.8 | 93 | - |
| 03) PM18 - Canran yr ymholiadau ynghylch amddiffyn oedolion a gwblhawyd o fewn terfynau amser statudol | - | - | 76.92 | - | - | - | - |
| 04) PM19 - Cyfradd oedi wrth drosglwyddo gofal am resymau gofal cymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth 75 oed neu drosodd | - | ↓ | 2.24 | - | - | - | - |
| 05) PM20a - Canran yr oedolion a gwblhaodd gyfnod ailalluogi ac sydd â phecyn gofal a chymorth llai o faint chwe mis yn ddiweddarach (Ch3/Q3) | - | - | - | - | - | - | - |
| 06) PM20b - The percentage of adults who completed a period of reablement and have no package of care and support 6 months later (Ch3/Q3) | - | - | - | - | - | - | - |
| 07) SCC/025: % yr ymweliadau statudol â phlant mewn gofal oedd i fod i ddigwydd yn ystod y flwyddyn, a gynhaliwyd yn unol â'r rheoliadau | Coch / Red | ↓ | 82.69 | 100 | 82.79 | 100 | Canolrif Isaf / Lower Median |
| 08) PM24 - Canran yr asesiadau a gwblhawyd ar gyfer plant o fewn terfynau statudol (42 diwrnod gwaith) | Gwyrdd / Green | - | 100 | 100 | - | - | - |
| 09) PM32 - Canran y plant sy'n derbyn gofal sydd wedi profi (1) neu ragor o achosion o symud ysgol, yn ystod cyfnod neu gyfnodau o dderbyn gofal, nad oeddent yn drefniadau dros dro, yn y flwyddyn hyd at 31 Mawrth | Ambr / Amber | - | 6.1 | 15 | - | - | - |
| 10) PM33 - Canran y plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth a oedd wedi cael tri lleoliad neu fwy yn ystod y flwyddyn | Gwyrdd / Green | - | 1.61 | 8 | - | - | - |
| 11) Presenoldeb – Cynradd (%) | Dangosyddion Perfformiad Addysg i'w gytuno yn ystod Chwarter 2<br>Education Performance Indicators to be agreed during Quarter 2 | | | | | | |
| 12) Presenoldeb – Uwchradd (%) | | | | | | | |
| 13) Nifer y dyddiau a gollwyd oherwydd gwaharddiadau dros dro – Cynradd | | | | | | | |
| 14) Nifer y dyddiau a gollwyd oherwydd gwaharddiadau dros dro – Uwchradd | | | | | | | |
| 15) CA4 – % y disgyblion 15 oed sy'n cyflawni L2+ | | | | | | | |
| 16) EDU/015a: Canran y datganiadau terfynol o anghenion addysgol arbennig a ryddhawyd o fewn 26 wythnos yn cynnwys eithriadau | | | | | | | |
| 17) EDU/015b: Canran y datganiadau terfynol o anghenion addysgol arbennig a ryddhawyd o fewn 26 wythnos heb gynnwys eithriadau | | | | | | | |
| 18) LCL/001b: Nifer yr ymweliadau â llyfrgelloedd cyhoeddus yn ystod y flwyddyn | Melyn / Yellow | - | 68k | 70k | 289k | 285k | - |
| 19) LCL/004: Nifer y deunyddiau llyfrgell a roddwyd allan yn ystod y flwyddyn | Ambr / Amber | - | 69k | 75k | 284k | 305k | - |
| 20) Nifer yr ymgeiswyr gyda phlant sy'n ddibynyddion iddynt y mae'r Cyngor wedi sicrhau llety gwely a brecwast iddynt (llety nad yw'n hunangynhaliol) | Gwyrdd / Green | → | 0 | - | 0 | - | - |
| 21) % y tenantiaid sy'n fodlon gyda gwaith atgyweirio ymatebol | Gwyrdd / Green | ↑ | 93.8 | 92 | 89.5 | 92 | - |
| 22) Cynhyrchiant y gweithlu – % yr amser sy'n cael ei gategoreiddio fel amser cynhyrchiol | Gwyrdd / Green | ↑ | 81.5 | 75 | 74.6 | - | - |
| 23) Nifer cyfartalog y dyddiau calendr a gymerwyd i osod unedau llety sy'n rhai y mae modd eu gosod (ac eithrio Eiddo Anodd eu Gosod) | Melyn / Yellow | ↓ | 26.3 | 25 | 33.7 | 25 | - |
| 24) STS/005b: Canran y priffyrdd a archwiliwyd sydd o safon uchel neu dderbyniol o ran glanweithdra | Gwyrdd / Green | - | 91.7 | 94 | 95.1 | 95 | Canolrif Isaf / Lower Median |
| 25) STS/006: Canran yr achosion o adael gwastraff yn anghyfreithlon a gliriwyd o fewn 5 diwrnod gwaith, ar ôl i rywun adrodd amdanynt | Gwyrdd / Green | - | 97 | 94 | - | 95 | Uchaf / Upper |
| 26) WMT/009b: Canran y gwastraff sirol a gasglwyd gan awdurdodau lleol ac a baratowyd i'w ailddefnyddio a/neu ei ailgylchu | Gwyrdd / Green | - | 66.82 | 59.5 | - | 58 | Canolrif Isaf / Lower Median |
| 27) WMT/004b: Canran y gwastraff sirol a anfonwyd i'w dirlenwi | Gwyrdd / Green | - | 1.4 | 16.9 | - | 41 | Canolrif Isaf / Lower Median |
| 28) THS/011c: % y ffyrdd nad ydynt yn brif ffyrdd (C) sydd mewn cyflwr gwael ar y cyfan (blynyddol) | - | - | - | 13.5 | 13.5 | 15 | Canolrif Isaf / Lower Median |
| 29) Nifer y bobl ifanc sydd wedi mynychu rhaglenni gweithgareddau datblygu chwaraeon / gweithgareddau allgymorth | Gwyrdd / Green | - | 24.5k | 20k | 132k | 85k | - |
| 30) LCS/002b: Nifer yr ymweliadau â chanolfannau chwaraeon a hamdden yr awdurdod lleol yn ystod y flwyddyn lle bydd yr ymwelydd yn cymryd rhan mewn gweithgaredd corfforol | Gwyrdd / Green | - | 104k | 101k | 458k | 540k | Canolrif Isaf / Lower Median |

Diweddariad Mai 2016

ALLWEDD LLIW (RAG): Cwblhawyd Ar y gweill Ar ei hôl hi – angen penderfyniadau allweddol/cefnogaeth Hwyr (gwyn= heb ddechrau)

| Rhaglenni | Prosiectau Unigol | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Moderneiddio Ysgolion** | Ardal y Llannau | Ardal Caergybi | Bro Rhosyr a Bro Aberffraw | Seiriol De Ddwyrain – Biwmares |
| **Gofal Cymdeithasol Oedolion Hŷn – Prosiect Opsiynau Gwella Llety** | Gofal Ychwanegol Llangefni | Gofal Ychwanegol Amlwch | Gofal Ychwanegol De'r Ynys | Gofal Ychwanegol Garreglwyd |
| | Byw â Chymorth | Allanoli gofal cartref mewnol | Allanoli Gwasanaethau wardeniaid | |
| **Trawsnewid llyfrgelloedd, gwasanaeth ieuenctid, amgueddfeydd a diwylliant** | Trawsnewid Amgueddfeydd a Diwylliant | Ailfodelu'r Gwasanaeth Llyfrgelloedd | Adolygiad Gwasanaeth Ieuenctid | |
| **Hamdden** | | | | |
| **Ynys Ynni** | | | | |
| **Lleoedd Llewyrchus, Llawn Addewid** | | | | |
| **Un Pwynt Mynediad** | | | | |
| **Tai Fforddiadwy** | | | | |
| **Cynllun Datblygu Lleol (CDLl)** | | | | |
| **Cynllun Rheoli Cyrchfan (CRhC)** | | | | |
| **Gweithio'n Gallach** | Asedau | TGCh | Datblygu Gweithlu | Cyswllt Môn |
| **Gwerthuso Swyddi a Statws Sengl** | | | | |
| **Cyswllt Adnoddau - Northgate (AD)** | | | | |

Diweddariad Mai 2016

ALLWEDD LLIW (RAG): Cwblhawyd Ar y gweill Ar ei hôl hi – angen penderfyniadau allweddol/cefnogaeth Hwyr (gwyn= heb ddechrau)

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Rhagoriaeth Gwasanaethau Cwsmeriaid** | | | |
| **Caffael** | | | |
| **Effeithlonrwydd Ynni** | | | |
| **Gwelliannau Civica** | | | |
| **Rheoli Polisi** | | | |
| **Parhad Busnes** | | | |
| **Prosesau Busnes** | | | |
| **Strategaeth TGCh** | | | |
| **Moderneiddio a Chydlynu Cyngor am Fudd-daliadau** | Diwygio Lles | Trechu Tlodi | Adolygu Gwasanaeth |

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MON | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **Dyddiad:** | **19/9/16** |
| **Pwnc:** | **ADRODDIAD PERFFORMIAD BLYNYDDOL 2014/15 (Drafft)** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **CYNGHORYDD ALWYN ROWLANDS** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **SCOTT A ROWLEY** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | **GETHIN MORGAN**<br>01248 752111<br>GethinMorgan@anglesey.gov.uk |
| **Aelodau Lleol:** | **n/a** |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

**1.1** Mae angen i'r Cyngor gyhoeddi Dogfen Cyflawni Blynyddol cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl 1 Ebrill bob blwyddyn, dogfen sy'n cynnwys prif flaenoriaethau ac Amcanion Gwella yr Awdurdod ar gyfer y flwyddyn fel amlinellwyd yn y Cynllun Corfforaethol pedair blynedd.

**1.2** Yn ogystal, mae'n ofynnol hefyd i'r cyngor lunio a chyhoeddi ei Adroddiad Perfformiad Blynyddol erbyn 31 Hydref bob blwyddyn - dogfen statudol sydd yn dadansoddi perfformiad dros y flwyddyn ariannol flaenorol yn erbyn y gwellianau a'r blaenoriaethau amlinellwyd yn y Dogfen Cyflawni Blynyddol 2015/16 a'r Cynllun Corfforaethol 2013/17.

**1.3** Mae'r papur hwn yn amlinellu drafft ein Adroddiad Perfformiad sy'n edrych yn ôl dros berfformiad y Cyngor ar gyfer 2015/16.

**1.4** Mae'r Adroddiad yn edrych ar gynnydd y cyngor yn erbyn ein Amcanion Gwella ar gyfer 2015/16 fel amlinellwyd drwy ein 7 maes allweddol yn y Ddogfen Cyflawni Blynyddol 2015/16:-

1. Ein bod yn Transform Hŷn Gofal Cymdeithasol i Oedolion
2. Adfywio ein Cymunedau a Datblygu'r Economi
3. Gwella Addysg, Sgiliau a Moderneiddio ein Hysgolion
4. Rydym yn cynyddu ein Opsiynau Tai a Lleihau Tlodi
5. Trawsnewid ein Darpariaeth Hamdden a Llyfrgell
6. Dod Cwsmeriaid, Dinasyddion a Bro
7. Trawsnewid ein Technolegau Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)

**1.5** Mae'r drafft hwn yn edrych ar yr allbynnau a'r canlyniadau yn erbyn yr hyn y ddywedasom y byddem yn ei gyflawni yn ystod 2015/16 yn erbyn y 7 thema allweddol uchod

**1.6** Rhan allweddol o'r Adroddiad Perfformiad yw asesiad o berfformiad y Cyngor yn erbyn ei ddangosyddion perfformiad allweddol, sy'n edrych ar berfformiad blwyddyn ar flwyddyn yn ogystal ac wedi'w feincnodi yn erbyn awdurdodau lleol eraill yng Nghymru. Bydd yr adroddiad terfynol yn tynnu sylw at ein llwyddiannau a meysydd lle mae angen gwella fel nodwyd drwy y Dangosyddion Strategol Cenedlaethol (DSC) a Mesurau Atebolrwydd Perfformiad (MACau).

**1.7** Gofynir i'r Pwyllgor felly :

- **Gytuno bod fersiwn terfynol yr Adroddiad Perfformiad 2014/15 sydd i'w gyhoeddi erbyn y dyddiad statudol yn mis Hydref yn cael ei gwblhau i bwrpas cyhoeddi ar ein gwefan gan Swyddogion mewn ymgynghoriad a'r Aelod Portffolio**

**B - B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?**

n/a

**C - Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith??**

Dirprwywyd y mater hwn i'r Pwyllgor Gwaith.

**CH - A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?**

Ydi

**D - A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?**

Ydi

| DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? | | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| 1 | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | |
| 2 | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | |
| 3 | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| 5 | **Eiddo** | |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| 7 | **Sgriwtini** | |
| 8 | **Aelodau Lleol** | |

| | | |
|---|---|---|
| **9** | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | |
| **E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | | |
| **1** | **Economaidd** | |
| **2** | **Gwrthdlodi** | |
| **3** | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| **4** | **Amgylcheddol** | |
| **5** | **Cydraddoldebau** | |
| **6** | **Cytundebau Canlyniad** | |
| **7** | **Arall** | |

| | |
|---|---|
| **F -** | **Atodiadau:** |
| | Atodiad A – Adroddiad Perfformiad Blynyddol 2015/16 (Drafft) |
| **FF -** | **FF – Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** |

- Dogfen Cyflawni Blynyddol 2015/16
- Cynllun Corfforaethol 2013/17

Drafft

# Cyngor Sir Ynys Môn

# ADRODDIAD PERFFORMIAD BLYNYDDOL 2015/16

## Drafft Cyntaf

Cyngor Sir Ynys Môn
Llangefni
Ynys Môn
LL77 7TW
Ffon: (01248) 752111

# Mynegai

| Pennawd | Tudalen |
|---|---|
| Gair gan yr Arweinydd | 3 |
| Adroddiad Perfformiad Blynyddol 2015-16 – Cyflwyniad | 4 |
| Trawsnewid Gofal Cymdeithasol i Oedolion Hŷn | 5 |
| Adfywio ein Cymunedau a Datblygu'r Economi | 10 |
| Gwella Addysg, Sgiliau a Moderneiddio ein Hysgolion | 16 |
| Cynyddu Ein Dewisiadau Tai a Lleihau Tlodi | 23 |
| Trawsnewid ein Darpariaeth Hamdden a Llyfrgelloedd | 30 |
| Canolbwyntio ar Gwsmeriaid, Dinasyddion a Chymunedau | 34 |
| Trawsnewid ein Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) | 37 |
| Perfformiad Ariannol 2015/16 | 41 |
| Gwybodaeth Bellach | 42 |
| Atodiad 1 – Dangosyddion Perfformiad 2015/16 | 43 |

Drafft

# Gair gan yr Arweinydd

I'w gwblhau ar ôl cwblhau'r dadansoddiad o'r Adroddiad Perfformiad

Drafft

Y Cynghorydd Ieuan Williams
**Arweinydd**

# ADRODDIAD PERFFORMIAD BLYNYDDOL 2014-2015

# CYFLWYNIAD

Y nod ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn fel y nodwyd yn ein Cynllun Corfforaethol 2013-2017 yw erbyn 2017-

**"Y byddwn yn gyngor proffesiynol sy'n cael ei redeg yn dda, yn arloesol yn ein hymagwedd ac yn edrych tuag allan, yn ymrwymedig i ddatblygu ein pobl a phartneriaethau er mwyn darparu gwasanaethau effeithlon ac effeithiol o ansawdd da, sy'n cael eu gwerthfawrogi'n fawr gan ein dinasyddion"**

Amlinellwyd sut y byddem yn cyflawni blaenoriaethau ein Cynllun Corfforaethol yn ein Dogfen Gyflawni Flynyddol ar gyfer 2015-16. Bydd y ddogfen hon felly yn amlinellu sut y gwnaethom gyflawni ar ein haddewidion dros y deuddeg mis diwethaf (2015/16) ac yn dangos ein parodrwydd i yrru a chyflawni ein dyletswydd o sicrhau gwelliant parhaus, sef yr hyn a ddisgwylir o bob Awdurdod Lleol yn unol â Mesur Llywodraeth Cymru 2009.

Dyma oedd y 7 maes allweddol yr oeddem yn canolbwyntio ar eu gwella yn ystod 2015-16, fel yr amlinellwyd yn ein Cynllun Corfforaethol 4 blynedd (2013-2017) ac yn ein Dogfen Gyflawni Flynyddol (2015/16): -

1. Trawsnewid Gofal Cymdeithasol i Oedolion Hŷn
2. Adfywio ein Cymunedau a Datblygu'r Economi
3. Gwella Addysg, Sgiliau a Moderneiddio ein Hysgolion
4. Cynyddu ein Hopsiynau Tai a Lleihau Tlodi
5. Trawsnewid ein Darpariaeth Hamdden a Llyfrgelloedd
7. Trawsnewid ein Technolegau Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)

Yn yr adroddiad hwn, byddwn yn edrych yn ôl ar ein hamcanion dan y saith maes thematig allweddol hyn a mesur pa mor dda wnaethom ni mewn gwirionedd, yn ogystal â dadansoddi'r data perfformiad sy'n dangos ac sy'n cefnogi'r hyn a wnaed gennym i gyflawni ein canlyniadau yn lleol a chenedlaethol.

Draft

# Trawsnewid Gofal Cymdeithasol i Oedolion Hŷn

Mae pobl yn byw'n hirach ac o'r herwydd, rydym yn disgwyl gweld cynnydd o tua 70 % yn nifer y bobl dros 85 sy'n byw yn Ynys Môn dros y 10 mlynedd nesaf. Mae gan Ynys Môn un o'r poblogaethau pobl hŷn mwyaf yng Nghymru. Mae niferoedd y bobl sydd â chyflyrau cymhleth tymor hir gan gynnwys dementia hefyd yn cynyddu. Er mwyn darparu'r lefel angenrheidiol o gefnogaeth sydd ei hangen i gwrdd â'r cymhlethdodau cynyddol yn y galw (yn nhermau cyllid a gweithlu), mae'r Cyngor wedi cydnabod bod angen iddo newid y ffordd y mae'n darparu gofal cymdeithasol i oedolion er mwyn sicrhau bod gwasanaethau yn gynaliadwy yn awr ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

**Sut gwnaethom ni hyn yn 2015/16?**

**Ein Haddewid: Byddwn yn datblygu ac yn sefydlu ar y cyd â phartneriaid 2 gynllun tai gofal ychwanegol yng Ngogledd a chanol yr Ynys ac yn cynllunio ar gyfer cynllun tai gofal ychwanegol pellach yn Ne'r Ynys drwy:**

**Yr hyn y dywedom y byddem yn ei wneud**

Byddwn yn datblygu ac yn sefydlu ar y cyd â phartneriaid 2 gynllun tai gofal ychwanegol yng Ngogledd a chanol yr Ynys ac yn cynllunio ar gyfer cynllun tai gofal ychwanegol pellach yn Ne'r Ynys drwy:

- Gweithredu fesul cam yn Llangefni trwy sicrhau partneriaid adeiladu, cymeradwyo dyluniadau terfynol a chychwyn gwaith adeiladu ar y safle, yn ogystal â chwblhau gwaith paratoadol yn Gogledd yr ynys
- Bwrw ymlaen gyda'r rhaglen yn Ne'r Ynys trwy wneud penderfyniad ar y cynigion terfynol ynghylch: safleoedd tir, llunio achos busnes i'w gymeradwyo cyn cychwyn gwaith, nodi partneriaid Adeiladu cyn cymeradwyo'r dyluniadau terfynol a chychwyn gwaith adeiladu.

**Yr hyn a wnaethom**

- Cytunwyd ar bartner i ddatblygu Gofal Ychwanegol yn Llangefni. Bydd Pennaf yn cychwyn gwaith ar y safle yn ystod Chwarter 1 2016/17 a disgwylir y bydd y cyfleuster yn agor ym mis Mai 2018
- Cwblhawyd asesiad o safleoedd tir posibl yn ne'r Ynys. Cytunir yn derfynol ar safle tir yn 2016/17.
- Mae'r Cyngor yn cydnabod nad yw cystal cynnydd â'r disgwyl wedi cael ei wneud yng ngogledd yr Ynys ond yn cyfarch y mater.

| Ein Haddewid: Gwella'r amrediad o wasanaethau sydd ar gael yn y gymuned ar gyfer pobl hŷn a'u hargaeledd gan leihau'r ddibyniaeth ar gartrefi gofal preswyl drwy a'r galw amdanynt: |
|---|
| **Yr hyn y dywedom y byddem yn ei wneud** |
| • Bydd rhoi ar waith y Cynllun Gweithredu ar gyfer "Lle i'w Alw'n Gartref" yn golygu ail-ganolbwyntio ar yr unigolyn a rhoi eiriolaeth annibynnol i bobl hŷn a sicrhau gofal neu gymorth o ansawdd gwell o ganlyniad i faterion diogelu pan fyddant yn symud yn uniongyrchol o ysbyty i gartref gofal neu o gartref gofal arall. Mae hyn yn cynnwys hyfforddiant i staff i godi ymwybyddiaeth o ddementia a mynediad i Gofal Uwch Môn.<br>• Datblygu, cytuno a dechrau gweithredu model 'Hyb Cymunedol' erbyn Rhagfyr 2014, lle bydd ystod eang o gefnogaeth a gwasanaethau sy'n cael eu darparu gan gymunedau lleol (ac yn aml yn anffurfiol) yn cael eu gwella a'u "cyd-gysylltu" fel bod gwell cefnogaeth a gofal yn cael ei darparu i'r person hŷn mewn angen gan a thrwy'r gymuned leol.<br>• Sefydlu'n gadarn model Un Pwynt Mynediad a fydd yn cefnogi mynediad mwy effeithiol i wybodaeth, cyngor a chymorth ac integreiddio unigolion gydag adnoddau lleol eraill. |
| **Yr hyn a wnaethom** |
| • Gwnaed cynnydd drwy ddarparu hyfforddiant i ddarparwyr gwasanaeth ar egwyddorion cyfeillio. Mae mynediad estynedig i wasanaeth eiriolaeth annibynnol wedi bod ar gael ar gyfer ymgynghoriadau. Mae cryn dipyn o hyfforddiant i staff ar Ymwybyddiaeth o Ddementia wedi cael ei gynnal ar draws pob sector.<br>• Cytunwyd ar y Strategaeth i Bobl Hŷn ac mae model yr Hyb Cymunedol yn elfen ganolog o'r strategaeth honno. Mae Cynllun Gweithredu ar gyfer gwireddu hyn wrthi'n cael ei ddatblygu gyda chynlluniau ar gyfer 2 hyb arall yn 2016/17.<br>• Mae'r Un Pwynt Mynediad yn parhau i fod yn fodel sefydledig. Bydd mynediad at feddygon teulu drwy gyfeiriadau ar lein ar gael yn gynnar yn 2016/17. Mae system wybodaeth ar-lein DEWIS wrthi'n cael ei phoblogi'n lleol. |

| Ein Haddewid: Ailddatblygu ein gwasanaeth ailalluogi i gefnogi a helpu pobl i wella ac adennill annibyniaeth trwy ddefnyddio cynlluniau cymorth sy'n seiliedig ar ganlyniadau trwy: |
|---|
| **Yr hyn y dywedom y byddem yn ei wneud** |
| • Cryfhau'r farchnad a gweithredu rhaglen i allanoli gofal cartref ymhellach tra'n datblygu model arbenigol o ddarpariaeth fewnol.<br>• Sefydlu model cytunedig o ddarpariaeth gofal cartref gan yr Awdurdod Lleol a fydd yn darparu gwasanaeth ail-alluogi a chymorth dementia arbennig |
| **Yr hyn a wnaethom** |

- Cwblhawyd y gwaith ymgynghori gyda darparwyr ynghylch model ar gyfer gofal cartref yn y dyfodol.
- Mae model gofal cartref yr Awdurdod Lleol yn parhau i gael ei gryfhau gyda gofal 24 awr ar gael yn awr drwy'r gwasanaeth 'Night Owls'.

**Ein Haddewid: Mewn partneriaeth â'r Bwrdd Iechyd, datblygu trefniadau i reoli a darparu gwasanaethau ar y cyd, yn enwedig mewn perthynas â dementia, gwasanaethau i bobl hŷn yn gyffredinol a chymorth i ofalwyr trwy:**

**Yr hyn y dywedom y byddem yn ei wneud**

- Cyflwyno manyleb Gogledd Cymru ar gyfer darparu gofal preswyl wedi ei gyfoethogi ar gyfer pobl â dementia.
- Sefydlu'n gadarn gweithio amlddisgyblaethol o fewn y timau a gyd-leolwyd yn Llanfairpwll, Amlwch a Chaergybi i sicrhau ein bod yn ymateb i anghenion defnyddwyr gwasanaeth yn y gymuned mewn dull amserol ac effeithlon.
- Datblygu integreiddiad gwell o wasanaethau Anabledd Dysgu gan gynnwys ystyried comisiynu ar y cyd a rhannu cyllidebau .

**Yr hyn a wnaethom**

- Ni chafwyd cytundeb i gyflwyno'r fanyleb ar sail ranbarthol hyd yma
- Timau amlddisgyblaethol wedi cael eu sefydlu. Modelau ar gyfer cydweithio wrthi'n cael eu cryfhau.
- Dim cynnydd mewn perthynas â chyd-gomisiynu a sefydlu cyllidebau ar y cyd ar gyfer AD.

## Gwybodaeth Perfformiad ar gyfer Gwasanaethau Oedolion

Caiff canlyniadau'r Dangosyddion Perfformiad (DP) perthnasol ar gyfer Gwasanaethau Oedolion eu hamlinellu yn Nhabl 1 (isod) a cheir dadansoddiad o'r canlyniadau ar gyfer 2015/16 yn erbyn y flwyddyn flaenorol a safle pob DP yn y chwarteli. Yn ychwanegl eleni, mae'r ffigwr mewn cronfachau yn nodi safle pob dangosydd wedi ei gymharu yn erbyn 21 awdurdodau lleol  Cymry.

Draft

| **Tabl 1**<br><br>Disgrifiad DP | 2013/ 14 | 2014/ 15 | Tuedd<br><br>Bl ar fl | Chwartel 14/15 |
|---|---|---|---|---|
| SCA/001: Cyfradd yr oedi wrth drosglwyddo gofal am resymau gofal cymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 75 oed neu drosodd | 1.8 | 6.63 | ⇩ | (18) |
| SCA/002a: Cyfradd pobl hŷn (sy'n 65 oed neu drosodd) y rhoddir cymorth iddynt yn y gymuned fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 65 oed neu drosodd ar 31 Mawrth | 49.5 | 43.5 | ⇩ | (N/A) |
| SCA/002b: Cyfradd pobl hŷn (sy'n 65 oed neu drosodd) y mae'r awdurdod yn rhoi cymorth iddynt mewn cartrefi gofal fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 65 oed neu drosodd ar 31 Mawrth | 23.28 | 20.63 | ⇧ | (18) |
| SCA/007: Canran y cleientiaid â chynllun gofal ar 31 Mawrth, y dylai eu cynlluniau gofal fod wedi'u hadolygu ac a gafodd eu hadolygu yn ystod y flwyddyn | 92.2 | 93.6 | ⇧ | (2) |
| SCA/018a: Canran y gofalwyr sy'n gofalu ar ôl oedolion a gafodd gynnig asesiad neu adolygiad o'u hanghenion eu hunain yn ystod y flwyddyn | 92.9 | 95.3 | ⇧ | (9) |
| SCA/019: Canran y cyfeiriadau diogelu oedolion a gwblhawyd lle rheolwyd y risg | 91.92 | 93.18 | ⇧ | (19) |
| SCA/020: Canran y cleientiaid (oedolion) sy'n cael cefnogaeth yn y gymuned yn ystod y flwyddyn | 79.1 | | | Dim yn cael eu casglu mwyach |


Mae Dangosyddion Perfformiad ar gyfer Gwasanaethau Oedolion dangos newid bach iawn rhwng 2014/15 a 2015/16. Nid yw'r DP ar gyfer nifer yr oedolion a gefnogir yn y gymuned (SCA/020) yn cael ei gasglu yn genedlaethol bellach ac mae ansicrwydd cenedlaethol o ran SCA/002a: Cyfradd pobl hŷn (sy'n 65 oed neu drosodd) y rhoddir cymorth iddynt yn y gymuned fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 65 oed neu drosodd ar 31 Mawrth) sydd yn golygu na ellir ei ddefnyddio i gymharu . O'r 5 DP sy'n weddill, mae un yn y chwartel uchaf ac un arall yn y chwartel canolig uwch - yr unig newid yw dirywiad mewn SCA / 001: Cyfradd yr oedi wrth drosglwyddo gofal am resymau gofal cymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth 75 oed neu drosodd, lle rydym wedi symud o'r chwartel canolig uchaf i'r chwartel isaf (o 9fed yng Nghymru yn 2014/15 i safle 18 yn 2015/16, gweler Tabl 2). O'r 3 DP sydd yn y chwartel isaf - yn safle 18, 18 a 19 ar lefel Cymru – mae dau wedi gwella mewn perfformiad sef SCA/002b: Cyfradd pobl hŷn (sy'n 65 oed neu drosodd) y mae'r awdurdod yn rhoi cymorth iddynt mewn cartrefi gofal



Draft

fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 65 oed neu drosodd ar 31 Mawrth ac (SCA/ 019: canran yr atgyfeiriadau amddiffyn oedolion a gwblhawyd lle mae'r risg wedi ei reoli).

**Tabl 2**




Mae'r DP yn y chwartel uchaf (SCA/007: Canran y cleientiaid â chynllun gofal ar 31 Mawrth, y dylai eu cynlluniau gofal fod wedi'u hadolygu ac a gafodd eu hadolygu yn ystod y flwyddyn) yn 2il yng Nghymru o ran perfformiad, ac hefyd wedi cynyddu o 92.2 i 93.6 rhwng 2014/15 a 2015/16 ..

# Adfywio ein Cymunedau a Datblygu'r Economi

Mae'r Cyngor yn gweithio i ddod â chymunedau lleol, mentrau cymdeithasol, busnesau a'r sector cyhoeddus at ei gilydd i gytuno a rhoi sylw i flaenoriaethau adfywio. Yn ogystal, anelwn at weithio mewn partneriaeth i ddefnyddio'r buddsoddiad economaidd arfaethedig i wella ansawdd bywyd. Er mwyn gwneud hyn, bydd angen i ni feddwl yn greadigol, rhannu adnoddau a chydweithio i wella bywydau a chyfleoedd i bobl leol.

Mae'r economi yn fater o bwys i lawer ac mae ein dinasyddion yn ystyried bod creu swyddi yn hollbwysig i ddarparu sylfaen gadarn ar gyfer gwella ansawdd bywyd. Er y cydnabyddir mai'r sector preifat yw prif yrrwr economaidd a chrëwr cyfoeth ar yr Ynys, mae gan y Cyngor rôl o ran sefydlu amgylchedd ar gyfer twf lle gall busnesau lleol dyfu ac ehangu a lle gall mwy o fusnesau newydd sefydlu eu hunain a ffynnu.

Mae'r Rhaglen Ynys Ynni a'r statws Parth Menter a ddynodwyd yn ddiweddarach yn gyfle unwaith mewn cenhedlaeth i greu swyddi newydd sylweddol yn sgil y buddsoddiad arfaethedig a photensial y sector ynni carbon isel i dyfu. Fe ddywedom y buasem yn edrych ar ddatblygu cynlluniau sy'n cynyddu cyfleoedd cyflogaeth i bobl ifanc, gwella seilwaith a chefnogi'r gadwyn gyflenwi. Yn ogystal, gwnaethom ddatgan y byddai'r Cyngor hefyd yn parhau i gefnogi a datblygu sectorau allweddol eraill, megis twristiaeth, sy'n gyrru economi'r Ynys.

**Sut gwnaethom ni hyn yn 2015/16?**

| |
|---|
| **Ein Haddewid: Gweithio gyda Llywodraeth Cymru a phartneriaid eraill i gryfhau pa mor gystadleuol yw economi'r ynys drwy wella seilwaith, argaeledd sgiliau a chefnogi cwmnïau lleol drwy:** |
| **Yr hyn y dywedom y byddem yn ei wneud** |
| • Datblygu 10 prosiect i fanteisio i'r eithaf ar gyfleon adfywio rhanbarthol a lleol<br>• Creu 5 o swyddi newydd, diogelu 10 swydd a chynorthwyo 10 o fusnesau Yng Nghaergybi (newydd neu gyfredol) trwy Gronfa Fuddsoddi Caergybi<br>• Cydweithio gyda'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector i wella cyfleon am swyddi, twf a ffyniant<br>• Manteisio ar gyfleon i ddenu cyllid Ewropeaidd a domestig trwy gyflwyno ceisiadau am gyllid allanol (gan gynnwys Cronfeydd Strwythurol UE 2014-2020 a'r Cynllun Datblygu Gwledig)<br>• Rhoi cymorth, arweiniad a chyngor i 50 o fusnesau ar yr ynys |
| **Yr hyn a wnaethom** |
| • Datblygwyd 15 achos busnes / astudiaeth ddichonoldeb er mwyn manteisio ar gyfleon lleol |



Draft

a rhanbarthol

- Crëwyd 6 o swyddi newydd, diogelwch 46 o swyddi a chefnogwyd 12 o fusnesau
- Mae cydweithio'n mynd rhagddo drwy Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (BUEGC), rhannu gwybodaeth berthnasol i Gydranddeiliaid yng Ngogledd Cymru, defnyddio System newydd ar gyfer Rheoli Cleientiaid er mwyn sicrhau bod busnesau'n ymwybodol o'r cyfleon ac, yn ogystal, rhannu gwybodaeth drwy'r data-bas Datblygu Economaidd
- Cafodd 5 o brosiectau eu cau'n effeithiol yn ystod blwyddyn ariannol 2015/16 (CDG, Safleoedd ac Eiddo, Amgylchedd Arfordirol Ynys Môn, Cronfa Fuddsoddi Leol, SETS). Cyflwynwyd 7 o geisiadau am gyllid i ddarparu prosiectau / ymyriadau yr oedd y gwasanaeth wedi eu blaenoriaethu. Parhau i gefnogi datblygiad prosiectau megis Parc Gwyddoniaeth Menai. Cafodd prosiect Cymdeithasol-Economaidd yr NDA ei reoli a'i weithredu'n effeithiol.
- 186 o fusnesau ar yr Ynys wedi derbyn cymorth, arweiniad neu gyngor yn ystod blwyddyn ariannol 2015/16.

**Ein Haddewid: Gweithio gyda phartneriaid i hyrwyddo delwedd a chryfderau arbennig Ynys Môn ar gyfer ymwelwyr i hyrwyddo delwedd a chryfderau hynod Ynys Môn;**

**Yr hyn y dywedom y byddem yn ei wneud**

- Sicrhau cynnydd o 2% (oddeutu 30,000) yn nifer yr ymweliadau gan dwristiaid drwy ymgyrch marchnata ac hysbysebu wedi'i dargedu
- Sefydlu 6 o bwyntiau gwybodaeth newydd i dwristiaid mewn aneddiadau allweddol ar yr Ynys
- Cynnal Taith Prydain Aviva 'Grand Depart' ar 6 Medi 7 D2/15-16/28.4
- Datblygu economi Mordeithiau'r ynys trwy groesawu llongau mordeithio i Borthladd Caergybi
- Gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu a hyrwyddo delwedd a chryfderau hynod Ynys Môn
- Cynorthwyo a chefnogi pump o ddigwyddiadau twristiaeth lleol
- Rheolaeth effeithiol o waith adran forwrol y cyngor

**Yr hyn a wnaethom**

- Er na fu modd cyflawni'r targed o 2% (0.7%), dylid nodi fod nifer yr ymwelwyr wedi cynyddu o 1,568M yn 2013 i 1,579M yn 2014. Yn ychwanegol at hyn, mae 88 o swyddi ychwanegol wedi cael eu creu yn y sector twristiaeth rhwng 2013 a 2014. Yn ychwanegol at hyn, gwelwyd gostyngiad mawr yn yr ymgyrch farchnata fyd-eang ar gyfer Gogledd Cymru wedi i'r holl frandiau lleol ddod i ben (cerdded, beicio, golff, ac ati).



Draft

- Sefydlwyd 6 o bwyntiau gwybodaeth newydd i Dwristiaid
- Llwyddwyd i gynnal 'Grand Depart' Taith Aviva o gwmpas Prydain o Fiwmares ar 6 Medi 2015
- Glaniodd 24 o longau mordeithio ym Mhorthladd Caergybi yn ystod 2015-16, yn cario cyfanswm o 11,912 o deithwyr
- Trwy'r Cynllun Rheoli Cyrchfan, llwyddwyd i gydweithio gyda sefydliadau megis Cymdeithas Dwristiaeth Ynys Môn, a Phartneriaeth Cyrchfan Môn i hyrwyddo delwedd a nodweddion hynod Ynys Môn
- Rhoddwyd cefnogaeth / cymorth i ddigwyddiadau twristiaeth lleol megis yr Ŵyl Gopr, Gŵyl Bwyd Môr Porthaethwy a Gŵyl Fwyd Biwmares
- Sicrhawyd ein bod yn cydymffurfio gyda gofynion y Côd Diogelwch Arforol ar gyfer Porthladdoedd

**Ein Haddewid: Gweithio gyda phartneriaid i oresgyn cyfyngiadau seilwaith (er enghraifft, lled band eang a thechnolegau symudol) i alluogi datblygiad a buddsoddiad ac i greu swyddi;**

**Yr hyn y dywedom y byddem yn ei wneud**

- Cynorthwyo Superfast Cymru yn ôl y gofyn gyda marchnata a hyrwyddo y Cynllun Band Eang ar Ynys Môn
- Adeiladu 3 uned busnes newydd yn Llangefni
- Clirio 0.54 hectar o dir yn Llangefni ar gyfer ail-ddatblygu unedau busnes newydd
- Cydweithio gyda Rhwydwaith Ynni Scottish Power i wella isadeiledd trydanol Ynys Môn
- Gweithio gyda Dŵr Cymru i nodi gwelliannau posibl i'r isadeiledd dŵr a charthffosiaeth yn Ynys Môn
- Cydweithio gyda datblygwyr sector preifat i sicrhau bod trigolion yr ynys yn gallu manteisio ar gyfleon lleol a rhanbarthol ar gyfer swyddi, twf a ffyniant
- Rheoli rhaglen cadwyn gyflenwi ar ran Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru i sicrhau bod y rhanbarth yn medru manteisio ar gyfleon sy'n codi o'r sector ynni carbon isel

**Yr hyn a wnaethom**

- Buwyd yn cydweithio gyda thîm marchnata Cyflymu Cymru i hyrwyddo manteisio Band Eang Cyflym i drigolion a busnesau Ynys Môn. Roedd y gweithgareddau'n cynnwys dosbarthu a rhannu gwybodaeth am ddigwyddiadau perthnasol
- Codwyd tair uned fusnes newydd ar safle Pen-yr-Orsedd ar Stad Ddiwydiannol Llangefni



Draft

- Cafodd 0.54 hectar o dir yn Llangefni ei glirio ar gyfer ailddatblygu (sef hen safle Hyfforddiant Môn ym Mharc Busnes Bryn Cefni)
- Cynhaliwyd cyfarfodydd yn rheolaidd gyda'r prif gyflenwyr cyfleustodau i nodi / lliniaru / atal cyfyngiadau neu rwystrau i fuddsoddiad yn y dyfodol
- Mae gwaith yn parhau ar yr ymgysylltiad a gychwynnwyd eisoes gyda datblygwyr allweddol yn y sector preifat gan gynnwys Hitachi / Horizon er mwyn sicrhau y defnyddir llafur lleol lle bynnag y mae hynny'n bosibl er budd i drigolion Ynys Môn
- Penodwyd Rheolwr Rhaglen Ranbarthol ar gyfer BUEGC. Cychwynnodd gweithgareddau mewn perthynas â'r 7 Prosiect Rhanbarthol Trawsnewidiol gan gynnwys seilwaith, cymorth i fusnesau a data-basau.

**Ein Haddewid: Ymgymryd â'n cyfrifoldebau cynllunio yn effeithiol mewn perthynas â'r holl brosiectau mawr ar Ynys Môn, gan sicrhau bod yr effeithiau negyddol posibl yn cael eu lleihau i'r eithaf a sicrhau'r budd cymunedol mwyaf posib trwy:**

**Yr hyn y dywedom y byddem yn ei wneud**

- Sicrhau cyllid digonol ac amserol trwy Gytundebau Perfformiad Cynllunio fel bod datblygwyr yn cyfrannu at brosesau caniatâd cynllunio statudol a weithredir gan y Cyngor
- Sicrhau'r buddiannau economaidd-gymdeithasol mwyaf posib yn sgil datblygiadau mawr trwy'r broses gynllunio statudol
- Cydlynu a gweithredu gweithgareddau Rhaglen Ynys Ynni i gynorthwyo i sicrhau datblygiadau ynni mawr a dad-risgio prosiectau
- Nodi, diffinio a datblygu dyheadau Cyngor Sir Ynys Môn o ran sicrhau gwaddol yn sgil prosiectau ynni mawr (statudol ac anstatudol)
- Parhau i gydweithio gyda'r Adran ar gyfer Ynni a Newid Hinsawdd a Llywodraeth Cymru

**Yr hyn a wnaethom**

- Sicrhau dros £1.4M drwy Gytundebau Perfformiad Cynllunio yn ystod 2015/16 fel y gall datblygwyr gyfrannu tuag at y prosesau statudol yr ymgymerir â hwy mewn perthynas â chaniatâd cynllunio
- Sicrhawyd cyllid digonol ac amser drwy'r Cytundebau Perfformiad Cynllunio. Sicrhawyd cyllid ac adnoddau ar gyfer y Swyddfa Rheoli Prosiect. Casglwyd data gwaelodlin cynhwysfawr i gefnogi asesiadau o effeithiau Gorsaf Bŵer Niwclear Newydd Horizon a'r cynnydd a wnaed mewn perthynas â strwythur yr Adroddiad ar yr Effaith yn Lleol. Mae'r datganiad o'r sefyllfa o ran Llety ar gyfer Gweithwyr Adeiladu wrthi'n cael ei adolygu. Wrthi'n cynnal trafodaethau cyn cyflwyno cais gyda datblygwyr ar yr holl faterion cymdeithasol ac economaidd sy'n berthnasol i ddatblygiadau mawr.
- Ymgysylltwyd gyda datblygwyr a chydranddeiliaid allweddol i ddarparu cyngor a

chefnogaeth annigynnol drwy Fforwm Strategol y Rhaglen Ynys Ynni a'r Bwrdd Ymgynghorol. Sefydlwyd Grŵp Tasg a Gorffen STEM mewnol i hyrwyddo'r rhaglen STEM ar Ynys Môn. Cefnogwyd y gwaith o briflifo'n effeithiol ffyrdiau gwaith y Rhaglen Ynys Ynni sy'n ymwneud ag Iechyd, Cydlyniant a Diogelwch Cymunedol.

- Symudwyd ymlaen gyda'r prosiect ynni adnewyddadwy yng Nghanolfan Hamdden Amlwch.
- Ymgysylltu'n parhau gyda datblygwyr mawr ynghylch Cyfraniadau Budd Cymunedol Gwirfoddol a pharhawyd i gydweithio gyda'r Adran Ynni a Newid Hinsawdd a chyda Llywodraeth Cymru.

**Ein Haddewid: Gyrru adfywiad cymunedol gan ddatblygu cynlluniau tref a chymuned cyfannol ar gyfer y prif aneddiadau ar yr ynys gan roddi blaenoriaeth i Gaergybi, Llangefni ac Amlwch drwy;**

**Yr hyn y dywedom y byddem yn ei wneud**

- Sicrhau'r buddiannau lleol mwyaf posib yn sgil prosiectau mawr arfaethedig trwy brosesau a gweithdrefnau anstatudol (gan gynnwys cyfraniadau budd cymunedol gwirfoddol)
- Sicrhau bod Caergybi'n manteisio'n llawn ar yr holl gyfleon Adfywio Economaidd mawr (yn unol â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru) drwy reoli a chydlynu'r Rhaglen Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid
- Denu £150,000 o fuddsoddiad sector preifat i mewn i Gaergybi
- Cefnogi menter Canol Tref Llangefni / Adfywio er mwyn gwella bywiogrwydd a bywiogrwydd economaidd-gymdeithasol y dref yn llwyddiannus; enghreifftiau o fentrau yn cynnwys:
- Datblygu Cynllun Cludiant Gwyrdd ar gyfer Llangefni (gan gynnwys cerdded a beicio);
- Symud ymlaen â phrosiect Ffordd Gyswllt Llangefni – disgwylir penderfyniad ar gais cynllunio yn y Gwanwyn / Haf 2015

**Yr hyn a wnaethom**

- Parhau i ymgysylltu gyda datblygwyr mawr ar Gyfraniadau Budd Cymunedol Gwirfoddol gyda Dogfen Ymagwedd Gyffredin ddrafft yn cael ei pharatoi gyda Pŵer Niwclear Horizon
- Cydlynwyd Rhaglenni Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid (VVP) Caergybi a chynhyrchwyd adroddiadau a cheisiadau chwarterol. Goruchwyliwyd y cynnydd a wnaed o ran y themâu Pobl, Lleoedd a Chartrefi.
- Cafodd £169,421 o fuddsoddiad sector preifat ei ddenu i mewn i Gaergybi drwy Gronfa Fuddsoddi Caergybi.
- Mae gwaith yn parhau ar brosiect Adfywio Canol Tref Llangefni gyda nifer o weithgareddau wedi eu cynnal yng Nghanol y Dref. Mae cynllun Cludiant Gwyrdd yn anelu at wella mynediad i'r dref i gerddwyr a beicwyr gyda golwg ar sicrhau cyllid. Cymeradwywyd y cais cynllunio ar gyfer y ffordd gyswllt, cafwyd y cyllid ac mae'r contractwyr ar y safle.



Draft

Nid oes unrhyw Ddangosyddion Perfformiad Cenedlaethol ar gyfer Adfywio Economaidd a Chymunedol

Drafft

# Gwella Addysg, Sgiliau a Moderneiddio ein Hysgolion

Mae'r Cyngor eisiau i bob plentyn, pob person ifanc, pob dysgwr, lle bynnag y maent, waeth beth fo'u cefndir a'u hamgylchiadau gyflawni eu potensial llawn a bod yn barod i chwarae rôl weithredol fel dinasyddion cyfrifol ac eiriolwyr cymunedol yn y dyfodol. Er mwyn gwireddu hyn, ac i gyfrannu at weledigaeth uchelgeisiol Llywodraeth Cymru ar gyfer addysg yng Nghymru, mae angen i ni godi safon addysg yn Ynys Môn. Yn hyn o beth, derbynnir mai un o'r blaenoriaethau i'r Cyngor yw herio syniadau cyfredol, annog arloesed a datblygu seilwaith ysgolion a fydd yn codi safonau addysgu a chyrhaeddiad, lleihau lleoedd gwag, gwella canlyniadau addysgol i blant a phobl ifanc a bod yn ymatebol yn gymdeithasol-economaidd i'n rhaglen gwella cymunedol. Wrth wneud hyn rydym wedi parhau i ymgynghori ac ymgysylltu'n eang â rhieni a'r gymuned ehangach.

**Sut gwnaethom ni hyn yn 2015/16?**

| **Ein Haddewid: Parhau i godi safonau o ran cyrhaeddiad addysgol a phresenoldeb drwy** |
|---|
| **Yr hyn y dywedom y byddem yn ei wneud** |
| • Gwneud defnydd priodol o'r holl ddata sydd ar gael i gytuno targedau heriol ar gyfer yr holl ysgolion cynradd ac uwchradd mewn perthynas â chyrhaeddiad yn y Cyfnod Sylfaen, lefelau disgwyliedig a lefelau disgwyliedig + 1 yn y Cyfnod Sylfaen, CA2, CA3 a CA4;<br>• Defnyddio setiau data craidd a'r model categoreiddio cenedlaethol i herio perfformiad ysgolion unigol;<br>• Gweithredu'r Cytundeb Partneriaeth diwygiedig i dargedu ysgolion sydd angen cymorth. Parhau i ddatblygu rôl Aelodau Etholedig o ran adolygu cynnydd;<br>• Defnyddio proses uwchgyfeirio gadarn i herio ysgolion nad ydynt yn gwneud cynnydd digonol, a defnydd o ymarferwyr ardderchog (lleol a rhanbarthol) i wneud gwelliannau trwy'r fenter hunanwella (ysgol i ysgol) a chymorth gan Ymgynghorwyr Her i herio staff a llywodraethwyr ysgol;<br>• Gwreiddio disgwyliadau'r Awdurdodau Lleol fod ysgolion yn gweithredu cynlluniau sydd wedi eu targedu i gefnogi'r holl ddisgyblion i gyrraedd eu potensial a sicrhau trefniadau cadarn ar gyfer safoni a chymedroli asesiadau yn y Cyfnod Sylfaen a CA2 a CA3. |
| **Yr hyn a wnaethom** |
| • Gweithio mewn partneriaeth gyda GwE i herio'r holl ysgolion i sichrau bod gweithdrefnau cadarn ar gyfer gosod targedau wedi eu sefydlu er mwyn lleihau'r bwlch rhwng targedau a pherfformiad.<br>• Sicrhau gwelliant o ran y cydweithio rhwng yr ALl a GwE i dargedu ysgolion a oedd yn peri pryder.<br>• Cefnogaeth benodol gan yr Ymgynghorydd Her, a gwell cyfathrebu a chydweithio rhwng yr |

awdurdod lleol a GwE wedi arwain at broses effeithiol i sgriwtineiddio ysgolion ar bob lefel a'u dal i gyfrif.

- Disgwyliad yr ALl i'r ysgolion wella perfformiad pob disgybl yn golygu bod yr ysgolion yn fwy cadarn wrth nodi a rhoi darpariaeth wedi'i thargedu er mwyn cefnogi cyrhaeddiad unigolion.

| **Ein Haddewid: Datblygu a chytuno ar strategaeth moderneiddio ysgolion i arwain penderfyniadau tymor hir a fydd yn cynnwys agor ein hysgol anghenion arbennig - Canolfan y Bont a darparu 2 ysgol gynradd ardal newydd drwy:** |
|---|
| **Yr hyn y dywedom y byddem yn ei wneud** |
| • Cychwyn gwaith adeiladu ar ysgol newydd yn ardal y Llannau ac un yng Nghaergybi ar yr amod y ceir y caniatadau a'r gymeradwyaeth angenrheidiol<br>• Sicrhau caniatâd a chymeradwyaeth ar gyfer rhaglen moderneiddio ardal Rhosyr erbyn Ebrill 2016 (Brynsiencyn / Parc y Bont / Dwyran / Niwbwrch / Llangaffo / Bodorgan)<br>• Cychwyn yr ymgynghoriad ar gyfer ardal Seiriol (ysgolion Biwmares a Llangoed, gan gynnwys pentrefi Llanfaes a Llanddona). |
| **Yr hyn a wnaethom** |
| • Cychwynnodd y gwaith adeiladu yng Nghaergybi yn Ionawr 2016 a disgwylir y bydd yr ysgol yn agor ym mis Medi 2017.<br>• Oherwydd yr olion archeolegol a ganfuwyd ar y safle, ni fu modd cychwyn ar y gwaith adeiladu ar Ysgol y Llannau hyd fis mai 2016 ond serch hynny, dylai'r ysgol agor ym mis Medi 2017.<br>• Cafwyd caniatâd y Pwyllgor Gwaith ym mis Hydref 2015 i adeiladu un ysgol newydd ac adnewyddu 2 arall.<br>• Penderfynodd y Pwyllgor Gwaith ym mis Mehefin 2016 i ddal y broses ymgynghori ar gyfer ardal Seiriol yn ôl tan ar ôl mis Ebrill 2019 a bydd proses ymgynghori yn cychwyn yn Llangefni yn lle hynny. |

| **Ein Haddewid: Mabwysiadu a chyflwyno strategaeth sgiliau rhanbarthol sy'n fodd i Ynys Môn a Gogledd Cymru wella sgiliau'r gweithlu ac alinio eu hunain gyda chyfleoedd yn y dyfodol drwy:** |
|---|
| **Yr hyn y dywedom y byddem yn ei wneud** |
| • Datblygu cydweithrediad pellach rhwng ysgolion Môn a rhaglen Ynys Ynni i sicrhau'r amgylchedd gorau posib ar gyfer dysgu ac addysgu o safon uchel ar gyfer pynciau STEM (Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg), a sgiliau cysylltiedig eraill ar gyfer cyflogaeth yng nghyd-destun datblygiadau yn y dyfodol gyda'r rhaglen Ynys Ynni a'r Bwrdd |

| |
|---|
| Uchelgais Sgiliau Rhanbarthol<br><br>• Datblygu Consortiwm Dysgu Ôl-16 Gwynedd a Môn ymhellach<br><br>• Datblygu'r defnydd o ddata perfformiad a thracio ôl-16 effeithiol i nodi arferion gorau a gwella perfformiad ar lefel Uwch a lefel Uwch Gyfranol.<br><br>• Datblygu defnydd mwy effeithiol o drefniadau e-ddysgu ar lefel Uwch a lefel UwchGyfrannol o fewn y Bartneriaeth Ddysgu<br><br>• Parhau i gydweithio gyda Chwmni Prentis Menai i sicrhau bod gan bobl ifanc Ynys Môn gyfleon i gael mynediad i hyfforddiant ardderchog sy'n ymwneud â gwaith a phrentisiaethau<br><br>• Cynnal adolygiad o'r Gwasanaeth Ieuenctid i gwrdd â galwadau'r fframwaith Ymgysylltu â Phobl Ifanc a sicrhau gwasanaeth ieuenctid cynaliadwy ac effeithlon ar gyfer Ynys Môn. |
| **Yr hyn a wnaethom** |
| • Cynhaliwyd cyfarfodydd o'r grŵp strategol i nodi Cylch Gorchwyl a meysydd i'w datblygu a chyfarfu Is-grŵp i nodi swyddogaeth allweddol ar gyfer y swydd sector uwchradd a chynradd i hyrwyddo blaenoriaethau STEM ac Ynys Ynni.<br><br>• Mae Consortiwm Ôl-16 Ynys Môn a Gwynedd yn parhau i ddatblygu meysydd astudiaeth cydweithredol.<br><br>• Mae data perfformiad yn cael ei ddatblygu'n unol â newidiadau cenedlaethol i ddangosyddion perfformiad ar lefel TGAU a mireinio'r dangosyddion ar gyfer lefel A ac AS.<br><br>• Ychydig iawn o waith datblygu pellach fu modd ei wneud mewn perthynas ag e-ddysgu yn 2015-2016 (un cwrs).<br><br>• Parhau i gydweithio gyda CLlM a Chwmni Prentis Menai i hyrwyddo cyfleoedd i ddisgyblion Ynys Môn.<br><br>• Mae'r opsiynau ar gyfer yr adolygiad o'r Gwasanaeth Ieuenctid yn mynd rhagddynt yn unol â'r amserlen a byddant yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith ym mis Tachwedd 2016 fel y gall wneud penderfyniad ar yr opsiwn a ffefrir a bydd yn weithredol erbyn Ebrill 2017. |

## Gwybodaeth Perfformiad ar gyfer Addysg

Caiff canlyniadau'r Dangosyddion Perfformiad (DP) perthnasol ar gyfer Addysg eu hamlinellu yn Nhabl 5 (isod) a dadansoddir y canlyniadau ar gyfer 2014/15 (Blwyddyn Academaidd 2013/14) yn erbyn y flwyddyn flaenorol a safle pob DP yn y chwarteli.



Draft

| **Tabl 5**<br><br>Disgrifiad DP | 2014/15 | 2015/16 | Tueddiad Blwyddyn ar ôl Blwyddyn | Chwartel 15/16<br><br>(Safle ar lefel Cymru gyfan) |
|---|---|---|---|---|
| EDU/002i: Canran yr holl ddisgyblion (gan gynnwys y rhai sydd yng ngofal awdurdod lleol); ac sydd mewn unrhyw ysgol a gynhelir gan awdurdod lleol, a hwythau'n 15 oed ar y 31 Awst blaenorol ac sy'n gadael addysg orfodol, hyfforddiant neu ddysgu seiliedig ar waith heb fod ganddynt gymhwyster allanol a gymeradwywyd | 0.3 | 0.0 | ⇧ | (1) |
| EDU/002ii: Canran y disgyblion sydd yng ngofal awdurdodau lleol sydd mewn unrhyw ysgol a gynhelir gan awdurdod lleol, a hwythau'n 15 oed ar y 31 Awst blaenorol ac sy'n gadael addysg orfodol, hyfforddiant neu ddysgu seiliedig ar waith heb fod ganddynt gymhwyster allanol a gymeradwywyd | 14.3 | 0.0 | ⇧ | (1) |
| EDU/003: Canran y disgyblion a aseswyd ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2, mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol, ac sy'n cyrraedd y Dangosydd Pynciau Craidd, fel y penderfynir gan Asesiadau Athrawon | 87.8 | 91.8 | ⇧ | (3) |
| EDU/004: Canran y disgyblion a aseswyd ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3, mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol, ac sy'n cyrraedd y Dangosydd Pynciau Craidd, fel y penderfynir gan Asesiadau Athrawon | 83.6 | 84.5 | ⇧ | (9) |
| EDU/006ii: Canran y disgyblion a aseswyd mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol, ac sy'n cael Asesiad Athrawon yn y Gymraeg (iaith gyntaf) ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3 | 67.2 | 64.8 | ⇩ | (3) |
| EDU/011: Cyfartaledd y sgôr pwyntiau ar gyfer disgyblion sy'n 15 oed ar y 31 Awst blaenorol mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol | 598.3 | 571.7 | ⇩ | |


Draft

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| EDU/015a: Canran y datganiadau terfynol o anghenion addysgol arbennig a ddyroddir o fewn 26 o wythnosau gan gynnwys eithriadau | 38.5 | 32.5 | ⇩ | (21) |
| EDU/015b: Canran y datganiadau terfynol o anghenion addysgol arbennig a ddyroddir o fewn 26 o wythnosau b) heb gynnwys eithriadau | 84.6 | 75.0 | ⇩ | (21) |
| EDU/016a: Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion cynradd | 94.6 | 94.7 | ⇧ | (17) |
| EDU/016b: Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion uwchradd | 93.4 | 93.5 | ⇧ | (16) |
| EDU/017: Canran y disgyblion 15 oed ar y 31ain Awst blaenorol, mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol a gyflawnodd y trothwy Lefel 2 gan gynnwys gradd A*-C TGAU mewn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf a Mathemateg | 53.8 | 56.9 | ⇧ | (12) |


O ran Dangosyddion Perfformiad Addysg, mae'r darlun cyffredinol yn gadarnhaol iawn ac yn dangos gwelliant cyffredinol mewn 7 allan o'r 11 DP perthnasol rhwng 2014/15 a 2015/16. Yn ogystal, mae 5 o'r DP yn awr yn y chwartel uchaf, sy'n welliant arwyddocaol rhwng 2014/15 a 2015/16. Er enghraifft, EDU/002i: Canran yr holl ddisgyblion (gan gynnwys y rhai sydd yng ngofal awdurdod lleol); ac sydd mewn unrhyw ysgol a gynhelir gan awdurdod lleol, a hwythau'n 15 oed ar y 31 Awst blaenorol ac sy'n gadael addysg orfodol, hyfforddiant neu ddysgu seiliedig ar waith heb fod ganddynt gymhwyster allanol a gymeradwywyd, sydd symud o'r chwartel isaf i'r chwartel uchaf i fod y gorau yng Nghymru yn 2015/16 (Tabl 4). Rydym hefyd yn falch bod EDU / 011: Cyfartaledd y sgôr pwyntiau ar gyfer disgyblion 15 oed ar y 31 Awst blaenorol, mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol yn gweld ni gadw ein safle o fewn y chwe awdurdod uchaf yng Nghymru (Tabl 5)

Draft

**Tabl 4**





**Tabl 5**




Fel Awdurdod Lleol fach o ran poblogaeth yn gyffredinol (o gymharu â rhan fwyaf o ardaloedd awdurdodau lleol eraill yng Nghymru), rydym yn ymwybodol y gall ffigurau sylfaenol a chraidd bach ar gyfer rhai o'n Dangosyddion Perfformiad fel arfer rwain at amrywiadau eithaf anwadal.

Bu gostyngiad pellach yn y DP sy'n dangos canran y datganiadau terfynol o angen addysgol arbennig a ddyroddir o fewn 26 wythnos ac eithrio eithriadau (Tabl 6), o 84.6% yn 2014/15 i 75% yn 2015/16

**Tabl 6**




Mae enghraifft arall lle gall amrywiadau bychain arwain at newidiadau chwartel eithaf dramatig i'w gweld yn presenoldeb disgyblion mewn ysgolion cynradd - ble mae symud o 94.6% yn 2014/15 i 94.7% yn 2015/16 yn golygu symud o’r chwartel canolig isaf i'r chwartel isaf er gwaethaf cynnydd bychan mewn perfformiad yn y DP ei hun (EDU / 016a ac EDU / 16b).

# Cynyddu ein Opsiynau Tai a Lleihau Tlodi

Mae cael lle fforddiadwy safonol i fyw yn bwysig i sicrhau bod ein holl ddinasyddion yn byw mewn cartref diogel ac addas sy'n eu galluogi i gael y budd mwyaf ar gyfer mynediad i swyddi, cyfleusterau hamdden ac addysg a'u galluogi i gael y manteision cymdeithasol ac economaidd y maent yn dyheu amdanynt ac yn eu haeddu. Gyda chwmnïau ynni mawr byd-eang yn gweithio tuag at fuddsoddi'n sylweddol yn Ynys Môn, byddwn yn parhau i weithio gyda landlordiaid yn y sector cymdeithasol / preifat i sicrhau'r nifer uchaf posib o gartrefi o safon ar gyfer contractwyr. Dywedwyd y byddwn hefyd yn parhau â'n hymdrechion i ddatblygu'r farchnad dai ar gyfer pobl leol gyda phwyslais arbennig yn cael ei roi ar weithio gyda phartneriaid i gynllunio, datblygu a sefydlu mwy o opsiynau tai fforddiadwy ar gyfer ein dinasyddion.

**Sut y byddwn yn gwneud hyn yn 2015/16?**

| **Ein Haddewid: Gweithio gyda phartneriaid i foderneiddio a chydlynu'r gwasanaeth cyngor budd-daliadau er mwyn gwella annibyniaeth a gweithio tuag at ein strategaeth gwrthdlodi a lliniaru effeithiau diwygio lles drwy** |
|---|
| **Yr hyn y dywedom y byddem yn ei wneud** |
| • Sefydlu cysylltiadau cryfach rhwng rhaglenni gwrthdlodi, er enghraifft Cymunedau'n Gyntaf Môn, Teuluoedd yn Gyntaf, a Dechrau'n Deg) trwy Gynllun Peilot ar gyfer Fframwaith Canlyniadau Cyffredin a sicrhau'r cyfleon mwyaf posib ar gyfer buddion cymunedol rhwng Cymunedau'n Gyntaf Môn, Lifft a'r Rhaglen Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid<br>• Rhoi gwasanaethau cynghori a chymorth i gynorthwyo aelwydydd i ddiogelu ac uchafu incwm<br>• Rhoi taliadau tai dewisol i aelwydydd a effeithir gan fesurau Diwygio Lles<br>• Arwain a chefnogi gweithrediad y Cynllun Gweithredu Corfforaethol ar gyfer Diwygio Lles gyda'r nod o ostwng y tebygolrwydd y bydd trigolion yr Ynys yn dioddef tlodi a digartrefedd<br>• Cefnogi a gweithredu'r trefniadau Credyd Cynhwysol trwy gynnig cymorth i hawlwyr newydd<br>• Dod o hyd i ffyrdd o oresgyn pryderon landlordiaid ynghylch materion Diwygio Lles yn arbennig mewn perthynas â Budd-dal Tai. |
| **Yr hyn a wnaethom** |
| • Parhau i gefnogi gwaith rhaglenni ymyrraeth ataliol megis Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg a hyrwyddo cyswllt agosach gyda rhaglenni eraill i fynd i'r afael â thlodi, sef Cymunedau'n Gyntaf a Chefnogi Pobl. Cymerodd yr Awdurdod ran – yr unig un yng Ngogledd Cymru – mewn |

cynllun peilot Fframwaith Canlyniadau Cyffredin dan gyfarwyddyd Llywodraeth Cymru a bydd y gwersi a ddysgwyd o hyn o gymorth i yrru'r cynllun gwaith ar gyfer 2016-17 er mwyn gweithio'n agosach, mynd i'r afael â thlodi a thargedu adnoddau'n well mewn rhaglenni ymyrraeth ataliol gyda phlant a theuluoedd.

- Cafwydd llwyddiant mawr o ran cael pobl i mewn i waith, lleoliadau hyfforddi a gwirfoddoli drwy gyfuniad o LIFT, Communities 4 Work, Trac a gwaith craidd Cymunedau'n Gyntaf.

- Mae newidiadau yn sgil Diwygio Lles yn golygu bod raid i bobl ar incwm isel ac / neu fudd-daliadau reoli eu harian eu hunain yn well er mwyn sicrhau eu bod yn gallu talu eu biliau a chwrdd â'u hymrwymiadau ac mae Swyddogion wedi cael eu hyfforddi i ddarparu'r cyngor cychwynnol i gynorthwyo'r rheini sy'n cael anhawster i gynnal eu tenantiaethau a thalu biliau pwysig a'u cyfeirio at asiantaethau mwy arbenigol os oes angen. Aethom ati i wahodd tendrau er mwyn dod o hyd i asiantaeth bartner a fedrai ddarparu cefnogaeth gan weithiwr achos arbenigol yn y maes dyledion i'r Cyngor a chychwynnodd y swyddog prosiect yn y swydd yn Ebrill 2016.

- Cefnogwyd mentrau banciau bwyd gan gynnwys gosod biniau casglu ym mhrif adeilad y Cyngor er mwyn annog staff ac ymwelwyr i gyfrannu. Rydym wedi gweithio gyda'r Undeb Credyd i annog pobl na fedr agor cyfrifon banc i ymuno a chyda Uned Benthyca Arian yn Anghyfreithlon Cymru sy'n annog pobl i ddweud wrthynt am fenthycwyr diegwyddor ('loan sharks').

- Rydym wedi cydlynu ymgyrch i annog pobl i fanteisio ar ginio am ddim yn yr ysgolion drwy weithio gydag ysgolion a rhieni i ddwyn sylw nid yn unig at y buddion ariannol i deuluoedd ond hefyd y gwerth maethol.

- Rydym wedi parhau i ddelio gyda nifer sylweddol o geisiadau am Daliadau Tai Dewisol (TTD) gan Denantiaid sy'n wynebu gostyngiad yn eu Budd-dal Tai, yn enwedig yn sgil y Dreth Ystafell Wely. Gyda'r gostyngiad yn y gyllideb TTD, bydd llai o arian ar gyfer argyfyngau, felly bydd raid cyfeirio pobl a rheoli arian yn well er mwyn sicrhau cynaliadwyedd ariannol. Mae ein huned fudd-daliadau mewnol wedi helpu mwy o bobl nag erioed eleni i gael yr arian sy'n ddyledus iddynt - a bydd y rhan fwyaf ohono'n cael ei wario yn yr economi leol.

- Wedi lansio gwefan newydd ar fudd-daliadau ac wedi prynu 8 o gabanau gwybodaeth sydd wedi eu lleoli ar hyd a lled yr Ynys.

- Bydd polisi a chynllun gweithredu newydd ar gyfer mynd i'r afael â thlodi'n cael ei ddatblygu yn ystod 2016-17.

- Rydym wedi codi ymwybyddiaeth o Ddiwygio Lles, yn arbennig lledaeniad Credyd Cynhwysol sy'n cael effaith ar bobl sy'n hawlio Budd-dal Tai ac wedi ymgysylltu gyda phartneriaid er mwyn sicrhau bod hawlwyr a landlordiaid yn cael eu cefnogi drwy'r broses ymgeisio. Daeth Credyd Cynhwysol yn 'fyw' yn Ynys Môn ym mis Medi 2015 ac ar hyn o bryd, mae 17 o bobl yn ei hawlio. Bydd y galw am gymorth ac arweiniad yn cynyddu yn ystod y cyfnod nesaf pan fydd Credyd Cynhwysol yn cael ei ymestyn i bawb sy'n derbyn 6 o fudd-daliadau allweddol.

- Rydym wedi hyfforddi staff i helpu dinasyddion sydd angen cymorth i chwilio am waith,

cyflwyno ceisiadau am fudd-daliadau ar-lein, cefnogaeth i reoli eu harian a chymorthfeydd cynhwysiad digidol fel rhan o gytundeb a ariennir gan yr Adran Gwaith a Phensiynau. Rydym hefyd wedi gweithio gyda phartneriaid megis CAB a Nyth ar amrediad o fentrau tlodi tanwydd mewn cymunedau gwledig.

- Gan weithio gyda Landlordiaid y Sector Rhentu Preifat a Thenantiaid, sefydlwyd partneriaeth gyda Chydweithredfa Cymru fel rhan o'r Prosiect, *Eich Arian, Eich Cartref* i'w cefnogi a chodi ymwybyddiaeth o'r cynlluniau anogaeth sydd ar gael (e.e. talu Budd-dal Tai yn uniongyrchol i Landlordiaid tenantiaid bregus). Rhoddwyd cyflwyniad hefyd gan y Swyddog Cynhwysiad Ariannol i Fforwm Landlordiaid Ynys Môn a fynychwyd gan fwy na 150 o landlordiaid. Arweiniodd hyn at nifer o gyfeiriadau ychwanegol.

**Ein Haddewid:Cynyddu'r opsiynau o ran tai fforddiadwy sydd ar gael ar hyd a lled yr ynys a dod â chartrefi gwag yn ôl i ddefnydd**

**Yr hyn y dywedom y byddem yn ei wneud**

- Cwblhau 24 o unedau un/dwy ystafell wely yn cael ei ariannu drwy'r grant Cartrefi Bychan
- Cwblhau 34 o Unedau Tai drwy Gynllun Grant Tai Cymdeithasol a Grant Cyllid Tai
- Prynu 10 o unedau tai Cyngor ychwanegol
- Dod â 60 eiddo a fu'n wag yn y tymor hir yn ôl i ddefnydd

**Yr hyn a wnaethom**

- Gyda'n partneriaid, bu modd darparu 40 o gartrefi fforddiadwy ychwanegol a hynny drwy gyfyniad o grantiau gan Lywodraeth Cymru [Grant Tai Cymdeithasol, Grant Cartrefi Bychan, Grant Cyllido Tai a chyllid o'r Rhaglen Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid] a chyllid a drefnwyd gan Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig.
- Am y tro cyntaf mewn 30 o flynyddoedd, prynodd y Cyngor 9 o Dai Cyngor a brynwyd dan y Cynllun Hawl i Brynu ac a oedd wedi bod yn wag am gyfnod hir.
- Drwy gyfuniad o gyngor, anogaeth a chymorth ariannol a gwaith gorfodaeth, daeth y Cyngor ag 86 o eiddo ychwanegol yn ôl i ddefnydd fel cartrefi yr oedd angen dybryd amdanynt ar gyfer teuluoedd.

**Ein Haddewid: Archwilio opsiynau i gefnogi pobl ifanc i gael i mewn i'r farchnad dai trwy**

**Yr hyn y dywedom y byddem yn ei wneud**

- Cynorthwyo 8 o aelwydydd drwy gynllun Prynu Cartref Ynys Môn

Draft

| Yr hyn a wnaethom |
|---|
| • Cynorthwywyd 6 o aelwydydd i brynu eu cartrefi cyntaf drwy ein cynllun Prynu Cartref Ynys Môn a weinyddir gan Grŵp Cynefin. Hefyd, fe welsom gynnydd yn nifer y ceisiadau ar y gofrestr tai fforddiadwy, Tai Teg. |

| **Ein Haddewid: Gweithio gyda phartneriaid i gefnogi cyfleoedd prentisiaeth i bobl ifanc drwy** |
|---|
| **Yr hyn y dywedom y byddem yn ei wneud** |
| • Creu 10 o gyfleon ar gyfer swyddi / prentisiaethau trwy adeiladu cynlluniau tai fforddiadwy<br>• Creu cyfleon ar gyfer swyddi / prentisiaethau drwy ein cynllun cyfalaf tai Cyngor, yn buddsoddi dros £9.8 miliwn yn ystod 2015-2016 ar gynnal a chadw cynlluniedig, rheoli perygl tân, gwaith gwres canolog, gwaith amgylcheddol ac ailfodelu eiddo presennol. |
| **Yr hyn a wnaethom** |
| • Parhawyd i wella a moderneiddio cartrefi Tenantiaid y Cyngor drwy fuddsoddi dros £6.5m mewn gwaith cyfalaf. Dengys tystiolaeth fod buddsoddiad o'r fath yn gwella iechyd, sefyllfa economaidd, cyrhaeddiad addysgol, rhagolygon cyflogaeth, rhagolygon cymdeithasol ac economaidd yr aelwydydd a'r cymunedau fel ei gilydd. Ni fyddai hyn wedi bod yn bosibl heb y berthynas weithio agos sydd gennym gyda Thenantiaid, Llais Tenantiaid a Swyddogion Môn, darpar Denantiaid o gofrestr dai gyffredin y Cyngor ar gyfer tai cymdeithasol, Aelodau Etholedig Lleol, partneriaid a Gwasanaethau eraill ar draws y Cyngor.<br>• Drwy adeiladu cynlluniau tai fforddiadwy, crëwyd 3 o gyfleon hyfforddiant a 4 swydd. Drwy waith ar y cynllun cyfalaf ar gyfer Tai Cyngor, crewyd 6 o brentisiaethau ac 8 swydd. |

| **Ein Haddewid: Cefnogi'r rhai sydd mewn perygl o fod yn ddigartref ac sydd yn ddigartref i ddod o hyd i gartrefi parhaol drwy:** |
|---|
| **Yr hyn y dywedom y byddem yn ei wneud** |
| • Cael 10 eiddo ychwanegol gan landlordiaid Preifat bob chwarter drwy ddefnyddio pecyn cymhelliant Landlord Ynys Môn a sefydlu data-bas cynhwysfawr o landlordiaid sy'n gweithredu ar yr ynys.<br>• Cynyddu'r nifer o landlordiaid sydd ar ddata-bas Gwasanaethau Tai Ynys Môn gan o leiaf 20 y chwarter<br>• Rhoi Caniatâd Cynllunio ar gyfer 20 o gartrefi fforddiadwy newydd |
| **Yr hyn a wnaethom** |
| • Mae atal digartrefedd yn parhau i fod yn flaenoriaeth i'r Cyngor ac mae Tîm Opsiynau Tai |

newydd wedi cael ei sefydlu sy'n darparu gwasanaeth mwy effeithlon ac eisoes, mae wedi cael llwyddiant mawr o ran atal digartrefedd. Mae'r Tîm wedi bod wrthi'n datblygu mwy o gynlluniau anogaeth i bobl leol gael mynediad i dai fforddiadwy i'w rhentu yn y sector rhent preifat - gyda'r posibilrwydd y bydd hyn yn atal aelwydydd a all fod yn ddigartref rhag bod yn ddigartref yn dilyn Deddf Tai (Cymru) 2014. Mae nifer o gynlluniau anogaeth i landlordiaid wedi cael eu datblygu megis cynlluniau rhent ymlaen llawn a bondiau di-arian a chyflwyno cymorth tai ar lefel isel i denantiaid bregus.

- Erbyn diwedd chwarter 2, 2015-16, roedd cyfanswm o 45 o landlordiaid ychwanegol wedi cael eu recriwtio i'r data-bas a byddwn yn parhau i weithio gyda'r Landlordiaid yn y Sector Preifat drwy'r Fforwm Landlordiaid Sector Preifat a thrwy'r gofyniad statudol i gofrestr gyda Rhentu Doeth Cymru

Draft

## Gwybodaeth Perfformiad ar gyfer Tai


Gweler y canlyniadau ar gyfer y Dangosyddion Perfformiad (DP) perthnasol ar gyfer Tai yn Nhabl 7 (isod) a cheir dadansoddiad o'r canlyniad ar gyfer 2015/16 yn erbyn y flwyddyn flaenorol a safle pob DP yn y chwarteli.

| **Tabl 7**<br><br>Disgrifiad o'r DP | 2014/15 | | Tuedd bl ar fl | Chwartel 15/16<br><br>('Ranc' Cymru Gyfan) |
|---|---|---|---|---|
| PSR/002: Y nifer o ddiwrnodau calendr ar gyfartaledd a gymerwyd i roi Grant Cyfleusterau i'r Anabl | 229 | 239 | ⇩ | (12) |
| PSR/004: Canran yr anheddau sector preifat a oedd wedi bod yn wag am fwy na 6 mis ar 1 Ebrill ac a feddiannwyd eto yn ystod y flwyddyn o ganlyniad i weithredu uniongyrchol gan yr awdurdod lleol | 13.15 | 10.98 | ⇩ | (8) |
| PLA/006b: Nifer yr unedau tai fforddiadwy ychwanegol a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn fel canran yr holl unedau tai ychwanegol a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn | 39 | 46 | ⇧ | **(8)** |


Erbyn hyn dim ond dau DP gellir eu cymharu'n uniongyrchol o ran tai, ac mae'r ddau yn gysylltiedig â Adnewyddu'r Sector Preifat. Rydym o fewn y chwartel canol uwch ac o gwmpas cyfartaledd Cymru ar gyfer un o'r DP hyn (PSR / 004) ac wedi llithro oddi wrth y chwartel canol uchaf i'r chwartel canol isaf

ar gyfer y llall (PSR / 002), ac mae'r ddau wedi gostwng ychydig yn eu perfformiad o 2014/15 (Tabl 8 a 9)

**Tabl 8**





**Tabl 9**




Er nad yn DP Tai ond yn hytrach Cynllunio (Tabl 10) mae hwn yn dal yn ymwneud â'r amcan y cynllun corfforaethol o gyflenwi tai fforddiadwy ac yn dangos ein bod yn y chwartel uchaf ac wedi symud o sefyllfa 11eg i 8fed rhwng 2014/15 a 2015/16.

**Tabl 10**



PLA/006(b): Nifer yr unedau tai fforddiadwy ychwanegol a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn fel canran yr holl unedau tai ychwanegol a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn, 2015-16
120
100
80
60
40
20
0
Gwynedd
Caerdydd
Sir Ddinbych
Bro Morgannwg
Sir Benfro
Caerffili
Torfaen
Ynys Môn
Conwy
Abertawe
Gogledd Cymru
De-Ddwyrain Cymru
Merthyr Tudful
Cymru
Castell-nedd Port Talbot
Blaenau Gwent
Pen-y-bont ar Ogwr
Wrecsam
De-Orllewin Cymru
Rhondda Cynon Taf
Casnewydd
Sir Fynwy
Powys
Sir y Fflint
Sir Ceredigion
Sir Gaerfyrddin
Chwarter uchaf
Chwarter uwch-ganolig
Chwarter is-ganolig
Chwarter isaf
Cymru
Gogledd Cymru
De-Orllewin Cymru
De-Ddwyrain Cymru
Ynys Môn

# Trawsnewid ein Darpariaeth Hamdden a Llyfrgelloedd

Rydym wedi cydnabod fod cyfleusterau chwaraeon a hamdden yn chwarae rhan sylweddol yn iechyd y gymuned ac o ran gwneud pobl yn fwy hunan-hyderus. Rydym yn gweithio tuag at fabwysiadu ymagwedd fwy integredig o ran materion lles yn y dyfodol a fydd yn fodd i adolygu ac ailddiffinio rôl chwaraeon a hamdden. Wrth i rôl y gymuned a grwpiau eraill gynyddu o ran darpariaeth, byddwn yn sicrhau bod yr hyn yr ydym yn ei gynnig o ran hamdden yn addas i'r pwrpas ac yn sicrhau'r gwerth gorau posibl am arian wrth i ni geisio gwella iechyd a lles ein dinasyddion.

Nodwyd ein bod yn awyddus i gadw ein lle a'n presenoldeb yng nghalon ein cymunedau drwy sicrhau bod ein llyfrgelloedd yn gweithio mewn partneriaeth a rhannu adeiladau, er mwyn sicrhau mynediad symlach, gwell a di-dor i bobl leol i'r wybodaeth a'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt.

**Sut gwnaethom ni hyn yn 2015/16?**

| **Ein Haddewid: Datblygu a gweithredu strategaeth hamdden ar gyfer y tymor canol i arwain penderfyniadau a lleihau'r angen i'r Cyngor fuddsoddi yn ystod oes y cynllun hwn drwy** |
|---|
| **Yr hyn y dywedom y byddem yn ei wneud** |
| • Weithredu'r prosiectau allweddol a amlinellir yn y Cynllun Hamdden ar gyfer 2014- 2017<br>• Cynyddu'r niferoedd sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau yn ein Canolfannau Hamdden<br>• Buddsoddi mewn cyfleusterau mwy hyblyg ac addas i'r pwrpas ar gyfer y dyfodol mewn ymateb i anghenion y cwsmer sy'n newid<br>• Trosglwyddo cyfleusterau awyr agored yng Nghaergybi i sefydliadau rheoli eraill<br>• Datblygu a gweithredu Rhaglen Wella ar gyfer Gofal Cwsmer yn y maes Hamdden<br>• Darparu cymysgedd o weithgareddau allgyrraedd i gynyddu presenoldeb a gwella cyfranogiad |
| **Yr hyn a wnaethom** |
| • Sefydlu swydd Rheolwr Hamdden Masnachol sydd wedi'i benodi ers 1 Gorffennaf 2015<br>• Gosod Meddalwedd 'Chip and Pin' a Dadansoddiad Ystadegol yn 2015-16. Mae Porth i Rieni wedi cael ei sefydlu ers mis Ionawr 2016 sy'n golygu y gall rhieni yn awr dracio ar-lein, gynnydd eu plant mewn gwersi nofio<br>• Defnyddiwyd buddsoddiad cyfalaf i atgyweirio a moderneiddio cyfleusterau (neuadd chwaraeon, ystafelloedd newid y pyllau nofio a'r ystafell ffitrwydd) er mwyn mynd i'r afael â'r canfyddiadau negyddol a chwrdd â disgwyliadau a galwadau cwsmeriaid<br>• Rhaglen Gwella Gofal Cwsmer wedi ei sefydlu ac yn cysylltu i mewn i'r cynllun Marchnata newydd<br>• Cynhaliwyd adolygiad pellach o'r gwasanaeth Datblygu Chwaraeon yn dilyn cadarnhad o flaenoriaethau cyllido Chwaraeon Cymru ar gyfer 2016-17 |



Draft

- Gwaith wedi mynd rhagddo ar allanoli'r pum cyfleuster awyr agored yn ardal Caergybi a throsglwyddwyd Cwrs Golff a Llain Ymarfer Llangefni i'r trydydd sector yn 2015/16
- Llwyddo i ddenu 457,835 o ddefnyddwyr yng Nghanolfannau Hamdden Ynys Môn yn ystod 2015/2016.
- Gwnaed gwaith gwella cyfalaf yng Nghanolfannau Hamdden Caergybi, Llangefni ac Amlwch a oedd yn cynnwys estyniad i'r ystafell ffitrwydd ym Mhlas Arthur, datblygu caffi yng Nghanolfan Hamdden Amlwch, datblygu'r ystafell amlbwrpas yn ystafell codi pwysau yn Amlwch, gwella cyfleusterau newid y pwll nofio ac arwynebedd y brif neuadd yng Nghanolfan Hamdden Caergybi
- Symudwyd ymlaen gyda'r gwaith o allanoli'r pum cyfleuster awyr agored yn ardal Caergybi
- Mabwysiadwyd a gweithredwyd Rhaglen newydd ar gyfer Gwella Gofal Cwsmer yn y Gwasanaeth Hamdden a oedd yn cynyddu'r ffocws ar foddhad cwsmer ac ansawdd y profiad pan yn ymweld â Chanolfannau Hamdden Ynys Môn neu'n cymryd rhan mewn gweithgareddau ynddynt. Mae staff Hamdden hefyd wedi derbyn hyfforddiant ar faterion Gofal Cwsmer ac mae'r agwedd cyfryngau cymdeithasol wedi cael ei datblygu ymhellach er mwyn cynyddu ymgysylltiad gyda chwsmeriaid
- Cymerodd 132,000 o bobl ifanc ran mewn rhaglenni datblygu chwaraeon / gweithgareddau allgymorth yn ystod 2015/16. Mae gwaith ardderchog yn parhau mewn ysgolion ac mae'r cynllun Llysgenhadon Ifanc yn ffynnu. Dangosodd canlyniadau'r Arolwg Chwaraeon Ysgolion a ryddhawyd yn ystod haf 2015 fod ffigyrau cyfranogiad ar gyfer pobl ifanc wedi codi o 38% yn 2011 i 50% yn 2015

**Ein Haddewid: Cydgysylltu ein cyfleusterau neuaddau chwaraeon dan do gyda'n darpariaeth yn yr ysgolion uwchradd a thrafod gyda darparwyr allanol cymunedol i redeg y cyfleusterau gyda'r nos, ar benwythnosau ac yn ystod gwyliau Ysgol drwy**

**Yr hyn y dywedom y byddem yn ei wneud**

- Mabwysiadu ymagwedd fwy masnachol tuag at reoli cyfleusterau a darparu gweithgareddau yng Nghanolfannau Hamdden Amlwch, Caergybi, Llangefni a Phorthaethwy

**Yr hyn a wnaethom**

- Wedi cyflwyno opsiynau Debyd Uniongyrchol newydd ac ychwanegol i gwsmeriaid. Wedi gwella cyfleusterau yn y Canolfannau Hamdden gan gynnig pecynnau debyd uniongyrchol 'gwerth am arian'. Mae newidiadau o ran oriau agor a mwy o opsiynau o ran dosbarthiadau ffitrwydd yn golygu bod y Canolfannau Hamdden yn awr yn ymateb i ofynion aelodau gyda chynnydd sylweddol rhwng Ebrill 2015 a Mawrth 2016 yn yr incwm a gafwyd o Ddebyd Uniongyrchol

Draft

| **Ein Haddewid: Annog datblygu a chefnogi’r ddarpariaeth o weithgareddau chwaraeon a hamdden yn y cymunedau, gan y cymunedau** |
|---|
| **Yr hyn y dywedom y byddem yn ei wneud** |
| • Llwyddo i drosglwyddo Cwrs Golff a Llain Ymarfer Llangefni i sefydliad rheoli arall (tan Ebrill 2017) |
| **Yr hyn a wnaethom** |
| • Trosglwyddwyd Cwrs Golff a Llain Ymarfer Llangefni i’r trydydd sector yn 2015 |

| **Ein Haddewid: Ymchwilio i opsiynau a gweithredu model diwygiedig ar gyfer darparu gwasanaeth Llyfrgelloedd** |
|---|
| **Yr hyn y dywedom y byddem yn ei wneud** |
| • Cael cymeradwyaeth ar gyfer y modelau cychwynnol i drawsnewid y gwasanaeth Llyfrgelloedd, gan ymgynghori gyda’r cyhoedd a chytuno ar y model a ffefrir o Ebrill 2017 |
| **Yr hyn a wnaethom** |
| • Cwblhawyd un rownd o ymgynghori cyhoeddus eleni yn ychwanegol at ymgynghori gyda’r cynghorau tref a chymuned a grwpiau cymunedol eraill a thrydydd partïon<br>• Cael cymeradwyaeth y Pwyllgor gwaith i’r modelau (wedi eu costio) a ffefrir yn fuan yn 2017 os bydd trafodaethau gyda phartïon sydd â diddordeb ynghylch gweithio mewn partneriaeth wedi’u cwblhau |

| **Ein Haddewid: Ymchwilio i opsiynau sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaeth yn ein safleoedd treftadaeth ddiwylliannol a gweithredu trefniadau rheoli newydd (os yw'n berthnasol)** |
|---|
| **Yr hyn y dywedom y byddem yn ei wneud** |
| • Cael cymeradwyaeth ar gyfer y modelau cychwynnol i drawsnewid y gwasanaeth Treftadaeth gan ymgynghori gyda’r cyhoedd a chytuno ar y model a ffefrir o Ebrill 2017 |
| **Yr hyn a wnaethom** |
| • Cyflwynwyd cyfleon i sefydliadau fynegi diddordeb a chyflwynwyd cynigion busnes i gynghorau tref a chymuned a thrydydd partïon eraill. Cynhelir trafodaethau pellach gyda grwpiau cymunedol i annog gweithio partneriaethaol er mwyn sicrhau cynaliadwyedd y safleoedd hyn yn y dyfodol. Rhoddir prawf ar unrhyw opsiynau posibl a’u cyflwyno i’r Pwyllgor Gwaith yn gynnar yn 2017 os bydd trafodaethau gyda phartïon sydd â diddordeb ynghylch gweithio mewn partneriaeth wedi’u cwblhau |


## GWYBODAETH PERFFORMIAD HAMDDEN A LLYFRGELLOEDD

Mae’r unig DP ar gyfer Hamdden, a Llyfrgelloedd yn ymddangos yn Nhabl 12 (isod) ac yn dangos ein bod yn 16eg safle yng Nghymru – i lawr o 12fed safle llynedd gyda gostyngiad bychan mewn perfformiad o 8434 yn 20914/15 i 7457 yn 2015/16.

| **Tabl 11**<br><br>Disgrifiad DP | 2014/15 | | Tuedd Bl ar Fl | Chwartel 14/15<br><br>(‘Ranc’ ar lefel Cymru Gyfan) |
|---|---|---|---|---|
| LCS/002b: Nifer yr ymweliadau â chanolfannau chwaraeon a hamdden awdurdodau lleol yn ystod y flwyddyn fesul 1,000 o'r boblogaeth, pan fydd yr ymwelydd yn cymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol | 8434 | 7457 | | (19) |
| LCL/001b: Nifer yr ymweliadau â llyfrgelloedd cyhoeddus yn ystod y flwyddyn fesul 1,000 o'r boblogaeth | 4166 | 4053 | | (16) |

Drafft

**Tabl 12**




Mae'r unig DP ar gyfer Llyfrgelloedd yn dangos gostyngiad yn nifer yr ymweliadau â llyfrgelloedd cyhoeddus o 4166 i 4053 fesul 1,000 o'r boblogaeth, ac yn gweld ni aros yn safle 19 ar sail Cymru gyfan.

# Canolbwyntio ar Gwsmeriaid, Dinasyddion a Chymunedau

Fe wnaethom ddatgan fod  gennym lawer i'w wneud eto i safoni a symleiddio prosesau a thrwy ein gwaith gyda Chynghorau eraill, rydym yn rhagweld y byddwn yn sicrhau effeithlonrwydd pellach yn ein swyddogaethau cefnogi a gwell gwydnwch o ran gwasanaethau arbenigol a sgiliau prin. Dywedasom mai rhan hanfodol o drawsnewid ein Cyngor yw gwrando ar yr hyn y mae ein dinasyddion, defnyddwyr gwasanaethau a busnesau yn ei ddweud - a gweithredu ar hynny.  Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, rydym wedi dangos ymrwymiad gwirioneddol tuag at ddarparu gwasanaethau'n well  a bydd hyn ond yn gwella eto. Fe ddywedasom hefyd  y byddwn yn gwneud y mwyaf o'n technegau cyfathrebu dwyieithog trwy ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol fel 'Facebook' a Trydar yn ogystal â grwpiau traddodiadol wyneb yn wyneb, grwpiau ffocws, paneli dinasyddion a sioeau teithiol cyhoeddus.

**Sut gwnaethom ni hyn yn 2014/15?**

<table>
<tr><th>Datblygu , cytuno a llofnodi siarter cwsmer gadarn a dilys sydd yn gosod  disgwyliadau penodol ar ein staff wrth ddelio â chwsmeriaid</th></tr>
<tr><td>Yr hyn y dywedom y byddem yn ei wneud</td></tr>
<tr><td>
<ul>
<li>Darparu prosiect i gyfrannu tuag at y nod corfforaethol o sefydlu ffocws ardderchog ar y cwsmer, y dinesydd a'r gymuned. Drwy adeiladu ar fabwysiadu'r siarter gwasanaeth cwsmer ar gyfer y cyngor, byddwn yn sicrhau y bydd yr holl wasanaethau yn cyflawni'r safonau siarter gwasanaeth ac y bydd trefniadau monitro yn eu lle i sicrhau parhad ymarfer da. Y safonau hynny fydd –
<ul>
<li>Eich croesawu wrth i chi gyrraedd y Cyngor</li>
<li>Ceisio gweld y rhai hynny ohonoch gydag apwyntiadau o fewn 10 munud</li>
<li>Anelu i ddarparu'r gwasanaeth gorau posib o fewn yr adnoddau sydd ar gael</li>
<li>Ceisio datrys problemau a bod ag agwedd 'gallaf wneud'</li>
<li>Ateb galwadau ffôn o fewn 5 caniad pan fydd ein cyfleusterau ar agor</li>
<li>Ateb yr alwad yn ddwyieithog ac yna ymateb yn eich dewis iaith</li>
<li>Anelu i ateb eich llythyrau, ffacsys neu e-byst o fewn 15 diwrnod gwaith</li>
<li>Annog cyfathrebu drwy e-bost</li>
</ul>
</li>
<li>Datblygu pecyn cymorth i ddenu a chadw gweithlu hyblyg i gyfarfod â'n disgwyliadau a'n gwerthoedd i'n sefydliad i'r dyfodol. Recriwtio'r bobl iawn a moderneiddio agweddau'r staff presennol trwy gwestiynau alinio gwerth ar gyfer staff presennol a staff newydd</li>
<li>Datblygu a chryfhau ein hymgysylltiad a'n hymwneud â dinasyddion Ynys Môn o fewn prosesau gwneud penderfyniadau ac atebolrwydd y Cyngor drwy gefnogi'r bartneriaeth Prosiect Lleisiau Cymunedol "Gwrandewch/Listen" er mwyn cynyddu ymgysylltiad unigolion a chymunedau sydd â diddordeb mewn dylunio a darparu gwasanaethau cyhoeddus ym Môn.</li>
</ul>
</td></tr>
</table>

Draft

| Yr hyn a wnaethom |
|---|
| • Cynhaliodd y Cyngor ymarfer siopwr cudd ar thema gwasanaeth cwsmer yn ystod chwarter 3 2015/16. Roedd casgliadau'r ymarfer hwn yn gadarnhaol ar y cyfan a sefydlwyd cynllun gweithredu er mwyn rhoi sylw i rai diffygion. Bwriedir ailadrodd yr ymarfer yn ystod 2016/17<br>• Yn ystod y flwyddyn, gwnaed gwaith mewn cydweithrediad gyda grŵp o reolwyr i baratoi a mireinio cyfres o gwestiynau a fydd yn sylfaen i'r pecyn cymorth alinio gwerth "Rhoi Pobl yn Gyntaf". Cynhelir ymarfer arbrofol yn ystod 2016/17 |

| **Ein Haddewid: Archwilio ansawdd yr adeiladau y mae cwsmeriaid yn derbyn gwasanaethau ynddynt, gan anelu at gyrraedd safon gyson ar draws y Cyngor sy'n cyflwyno'r ddelwedd gywir ar gyfer y gwasanaethau sydd ar gael** |
|---|
| **Yr hyn y dywedom y byddem yn ei wneud** |
| • Bydd y rhaglen gweithio'n gallach yn atgyfnerthu ein prif dderbynfeydd a rhai allanol i ddarparu agwedd siop un stop i wasanaethu anghenion y cwsmer yn y pwynt cyswllt. |
| **Yr hyn a wnaethom** |
| • Mae'r Rhaglen Gweithio'n Gallach wrthi'n ailfodelu prif dderbynfa'r Cyngor ar hyn o bryd er mwyn sefydlu'r Siop Un Stop o'r enw "Cyswllt/Contact Môn"<br>• Bydd yr holl dderbynfeydd mewnol yn cau a "Cyswllt Môn" fydd y pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer yr Awdurdod<br>• Mae Ymgynghorwyr Generig wedi cael eu cyflogi er mwyn cefnogi, cynghori a chyfeirio o fewn Cyswllt Môn a fydd yn agor yn yr hydref 2016<br>• Y Gwasanaeth Dysgu (Addysg) wedi symud i mewn i Bencadlys y Cyngor sy'n golygu ei fod yn fwy hwylus i'n cwsmeriaid mewn amgylchedd swyddfa modern |

| **Sicrhau hyrwyddo'r iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig drwy greu a gweithredu ar strategaeth iaith Gymraeg ddatblygedig** |
|---|
| **Yr hyn y dywedom y byddem yn ei wneud** |
| • Nodi'r  prif flaenoriaethau ar gyfer y Strategaeth Iaith Gymraeg trwy gyfarfodydd rheolaidd o'r Fforwm Iaith Gymraeg |
| **Yr hyn a wnaethom** |
| • Mae Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011 yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu safonau ymddygiad mewn perthynas â'r Iaith Gymraeg. Yn y Rhybudd Cydymffurfiaeth ar y Safonau Terfynol, pennwyd Safonau 145 a 146 sy'n ymwneud â chreu Strategaeth Iaith Gymraeg. Er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth, rhaid i'r Cyngor Sir fabwysiadu Strategaeth Iaith Gymraeg a'i |



Draft

chyhoeddi ar ei wefan erbyn 30 Medi, 2016.

- Bydd y Strategaeth yn amlinellu'r ymagwedd y bwriedir ei mabwysiadu mewn perthynas â hyrwyddo'r Iaith Gymraeg a hwyluso defnydd ehangach ohoni yn yr ardal. Bydd yn cynnwys targed ar gyfer cynyddu a chynnal nifer y siaradwyr Cymraeg erbyn diwedd y bum mlynedd dan sylw.
- Mae Fforwm Strategol Iaith Gymraeg Ynys Môn wedi bod yn gweithio'n fwriadus dros yr ychydig fisoedd diwethaf i greu Strategaeth Iaith Gymraeg bartneriaethol (drafft) sy'n gosod y weledigaeth a'r cynllun gweithredu ar gyfer y flwyddyn gyntaf. Y bwriad yw creu cynllun gweithredu ar gyfer yr ail flwyddyn cyn diwedd blwyddyn gyntaf y Strategaeth. Pum mlynedd ar ôl cyhoeddi'r Strategaeth, bydd angen cyhoeddi fersiwn ddiwygiedig ac asesu'r hyn y llwyddwyd i'w gyflawni. Cyfrifoldeb y Fforwm Strategol Iaith fydd monitro cynnydd yn erbyn y targedau.

**Nid oes Dangosyddion Perfformiad Cenedlaethol ar gyfer y rhan hon**

Drafft

# Trawsnewid ein Technolegau Gwybodaeth a Chyfathrebu ( TGCh )

Wrth drawsnewid ein gwasanaethau, bydd adnoddau'r Cyngor yn cael eu defnyddio'n fwy effeithlon ac effeithiol i gyflawni targedau a nodir a chynllunio'n unol â hynny. Bydd y Cyngor yn dod yn sefydliad 24/7 drwy ddefnyddio sianeli megis gwefannau a chyfryngau cymdeithasol, dulliau sydd eisoes yn cael eu defnyddio gan ein cwsmeriaid i ddiwallu llawer o'u hanghenion personol neu fusnes fel bancio neu siopa. Fel hyn, gall ein cwsmeriaid gael mynediad at yr hyn y maent ei angen, pan fyddant ei angen, ble bynnag y maent ac yn eu dewis iaith.

Gellir rhyngweithio yn electronig, yn fewnol ac yn allanol ac ar bob lefel. Bydd cyfathrebu wyneb yn wyneb a ffyrdd eraill ar gael ar gyfer y rhai sydd eu hangen. Drwy newid systemau, byddwn yn rhyddhau staff i 'wneud eu gwaith' o fewn ffiniau clir gan ddefnyddio prosesau sy'n gadarn eto'n ystwyth. Bydd ein systemau yn cefnogi ein blaenoriaethau a byddir yn rhesymoli'n drylwyr i sicrhau nad yw'r systemau hynny nad ydynt yn cefnogi'n blaenoriaethau yn cael eu defnyddio mwyach.

**Sut gwnaethom ni hyn yn 2015/16?**

| |
|---|
| **Ein Haddewid: Galluogi staff i gael mynediad at y systemau cyfrifiadurol sydd eu hangen arnynt yn ddiogel o unrhyw leoliad :** |
| **Yr hyn y dywedom y byddem yn ei wneud** |
| • Gweithredu'r Rhaglen Gweithio'n Gallach fydd yn cynnwys datblygu datrysiadau cadarn a chynaliadwy i alluogi mynediad o bell fydd yn golygu y bydd staff yn gallu gweithio'n fwy hyblyg i gyfarfod ag anghenion a galwadau ein cwsmeriaid. |
| **Yr hyn a wnaethom** |
| • Mae cyfres o dechnolegau newydd wedi cael eu gweithredu'n llwyddiannus er mwyn cwrdd â dyheadau'r Cyngor o safbwynt Gweithio'n Gallach. Rhoddwyd pwyslais ar sicrhau bod y dechnoleg yn ymateb i gofynion y gwasanaethau a'r cwsmeriaid sy'n newid yn gyson ac y gellir cael at y dechnoleg, a'i defnyddio, o unrhyw leoliad.<br><br>Dyma rai o'r technolegau a ddarparwyd dros y 12 mis diwethaf:<br><br>➢ Wi-Fi wedi ei osod ar draws adeiladau'r Cyngor<br>➢ Mynediad rhwydd i'r cyhoedd ac ymwelwyr drwy NetMON<br>➢ Cyfleuster 'Argraffu Dilynwch Fi' diogel<br>➢ Microsoft Lync (Skype)<br>➢ Citrix a Mynediad Diogel o Bell<br>➢ Etarmis ar gyfer clocio i mewn / allan o bell<br>➢ Gweithio Symudol a 'Dewch â'ch Dyfais Eich Hun' (BYOD)<br>➢ Haearn Symudol / contract EE<br>➢ System Rheoli Dogfennau'n Electronig<br>➢ Strategaeth wedi ei sefydlu |

**Ein Haddewid: Galluogi cwsmeriaid a dinasyddion i gyfathrebu gyda'r Cyngor yn electronig dros y we ar amser ac mewn lleoliad sy'n gyfleus iddynt:**

**Yr hyn y dywedom y byddem yn ei wneud**

- Ddatblygu a gwella’r gwasanaeth asesiad ariannol sengl
- Sefydlu system e-ffurflenni ar gyfer defnydd Gofal Cymdeithasol a Chorfforaethol
- Sefydlu systemau e-ffurflenni ar gyfer Refeniw a Budd-daliadau a’u hadolygu ar gyfer defnydd Corfforaethol
- Datblygu ymhellach y defnydd o e-ffurflenni i Aelodau gofrestru diddordebau, e-ffurflenni ar gyfer cofrestru etholiadol a gweinyddu etholiadau.

Rydym yn disgwyl y bydd hyn yn grymuso ein cwsmeriaid i gael at wasanaethau pan maent fwyaf eu hangen yn y modd y maent eisiau eu derbyn

**Yr hyn a wnaethom**

- Mae AppMôn wedi cael ei weithredu er mwyn darparu ar gyfer dinasyddion, gymhwysiad hunanwasanaeth symudol cynhwysfawr a dwyieithog y gellir ei ddefnyddio i gysylltu gyda’r Cyngor, adrodd ar faterion, cael at y wybodaeth a’r newyddion diweddaraf a chyflwyno ceisiadau
- Mae technoleg E-ffurflenni dwyieithog wedi cael ei weithredu er mwyn cwrdd â dyheadau’r Cyngor o ran Newid Sianel a Rhagoriaeth Cwsmer a ffurflenni Gofal Cymdeithasol dwyieithog y gall y cyhoedd a’r swyddogion proffesiynol eu defnyddio mewn cydweithrediad gydag Iechyd a Medrwn Môn
- Wedi cychwyn prosiect i logi a thalu am Wasanaethau Hamdden ar-lein
- Prosiect wedi cychwyn ar gyfer talu ar-lein am ginio ysgol

Draft

**Ein Haddewid: Sicrhau bod gwasanaethau yn defnyddio technoleg yn fwy eang i ddarparu gwasanaeth mwy effeithlon ac effeithiol drwy:**

**Yr hyn y dywedom y byddem yn ei wneud**

- Gyrru’r mentrau canlynol yn eu blaenau :-
    - System Rheolaeth Ariannol
    - System Adnoddau Dynol deinamig ar y We
    - System Rheoli Perfformiad a Phrosiectau
    - System Rheoli Cofnodiadau
    - Systemau sy’n hwyluso Mynediad o Bell
    - Pecyn cymorth recriwtio a chadw (RRT)
    -

**Yr hyn a wnaethom**

- Mae’r Adran TG wedi cefnogi ail-lansio’r System Rheolaeth Ariannol
- Yn dilyn yr adolygiad o’r system AD/Cyflogres, mae TGCh wedi cydlynu’r broses o symud ymlaen gyda’r prosiect hwn gyda’r cyflenwr a chydranddeiliaid mewnol er mwyn sicrhau bod gennym fanyleb o’r gofynion a oedd yn dderbyniol i’r cyflenwr ac yn cwrdd ag anghenion y sefydliad. Mae contract newydd wedi cael ei ffurfio a bydd y prosiect yn cychwyn yn ffurfiol yn ystod 2016/17
- Mae Strategaeth Rheoli Dogfennau a Chofnodiadau’n Electronig wedi cael ei sefydlu er mwyn symud ymlaen gyda EDRMS yn y sefydliad ac mae ymagwedd bragmataidd i hyn er mwyn sicrhau ei fod yn cwrdd ag anghenion busnes ac yn gost-effeithiol ar yr un pryd
- Mae datrysiad soffistigedig ar gyfer sicrhau mynediad diogel o bell wedi cael ei weithredu a bydd yn cael ei ymestyn yn ystod 2016/17
- Gwaith wedi cychwyn i sicrhau bod y System Gwybodaeth Ddaearyddol (GIS) ar gael yn gorfforaethol gan ddefnyddio’r dechnoleg orau. Mae hyn yn rhan o strategaeth ehangach i sicrhau bod gwybodaeth GIS ar gael yn ehangach drwy’r sefydliad.
- Mae gwaith yn mynd rhagddo i integreiddio’r Cyfeirlyfr Tir ac Eiddo Lleol gyda system busnes cefn swyddfa sy’n rhan o strategaeth ehangach o sicrhau bod y Cyfeirlyfr yn ased corfforaethol gyda’r nod o sicrhau un data-bas cyson ar hyd a lled yr awdurdod

Draft

**Ein Haddewid: Chwilio am dechnolegau TGCh newydd i gwrdd ag anghenion y Cyngor a dinasyddion yr Ynys rŵan ac yn y dyfodol drwy:**

**Yr hyn y dywedom y byddem yn ei wneud**

- Adolygu, ailddrafftio a mabwysiadu dogfen Strategaeth TGCh gynhwysfawr fydd yn amlinellu agwedd yr awdurdod tuag at dechnoleg a’i ddefnydd ohono i sicrhau y darperir gwasanaeth ac i sicrhau gwelliannau busnes
- Datblygu a darparu datrysiad wrth gefn cadarn i gefnogi'r systemau TG sy’n hanfodol ar gyfer busnes ac a fydd yn cefnogi trawsnewid yr Awdurdod

**Yr hyn a wnaethom**

- Mae TG wrthi’n datblygu a darparu datrysiad cadarn ar gyfer Adfer ar ôl Trychineb er mwyn cefnogi’r systemau TG sy’n hanfodol i’r busnes ac a fydd yn sylfaen i drawsnewidiad yr Awdurdod. Rydym hefyd yn cyflwyno datrysiad mwy cynhwysfawr na’r datrysiad wrth gefn corfforaethol
- Mae’r awdurdod wedi caffael darparwr ffonau symudol newydd sy’n rhoi gwell gwasanaeth (signal) ar draws yr Ynys ac yn gostwng ein costau data a theleffoni

- Mae’r gwasanaethau tai ar hyn o bryd yn defnyddio technoleg symudol a ddefnyddiwyd yn llwyddiannus yn ystod y cyfnod hwn ac sy’n galluogi staff i fynd yn uniongyrchol at gwsmeriaid neu i gyflawni tasgau heb orfod ymweld â lleoliadau’r Cyngor yn barhaus i gasglu gwybodaeth / cardiau tasgau newydd

- Mae technolegau modern, arloesol wedi cael eu sefydlu yn lle isadeiledd craidd y Cyngor a sydd wedi mynd yn hen, eu caffael yn effeithlon a sicrhau y bydd y manteision cost yn sylfaen cadarn i’r isadeiledd i gefnogi’r rhaglen flaengar o wasanaethau digidol y mae’r Cyngor wrthi’n eu cynllunio

**Nid oes Dangosyddion Perfformiad Cenedlaethol ar gyfer y rhan hwn**

Drafft

# Perfformiad Ariannol

**Cyllideb Refeniw**

Cafodd cyllideb refeniw o £124m (£126m yn 2014/15) ei gosod ar gyfer y Cyngor am 2015/16. Cafodd y gyllideb ei gosod yn erbyn setliad ariannol heriol gan Lywodraeth Cymru a gosodwyd targed heriol o £4.3 ar gyfer arbedion er mwyn gosod y gyllideb yn unol â'r adnoddau a oedd ar gael.

Cafodd y gyllideb ei monitro a'i rheoli'n ofalus drwy'r flwyddyn ac fe adroddwyd arni i'r Pwyllgor Gwaith yn unol â gweithdrefnau cydnabyddedig y Cyngor. Rhoddwyd gwybod yn gynnar yn y flwyddyn ariannol (Chwarter 2) bod gorwariant oddeutu £980k. Roedd y cyllidebau ar gyfer 2015/16 yn cynnwys gofyniad i sicrhau arbedion o £4.3 ac, yn gyffredinol, bu modd cyflawni hynny. Rhyddhawyd £500k o'r balansau cyffredinol yn ystod y flwyddyn er mwyn cwrdd â phwysau ariannol yn y Gwasanaeth Plant ac mae hynny, ynghyd ag arbedion pellach mewn cyllidebau corfforaethol, galw isel am gyllidebau wrth gefn ac addasiadau cyfrifo unwaith ac am byth wedi arwain at danwariant o £1.8m.

**Gwariant Cyfalaf**

Mae gwariant cyfalaf yn golygu'r gost o ddarparu neu wella asedau neu wariant arall ble mae'r manteision yn ymestyn y du draw i'r flwyddyn ariannol dan sylw. Ym mis Chwefror 2015, cymeradwyodd y Cyngor raglen gyfalaf o £23.7m ar gyfer 2015/16. Hefyd, dygwyd ymrwymiad o £4.0m ymlaen i 2014/15 ynghyd â chynlluniau ychwanegol gan gynnwys prynu allan o'r system gymhorthdal CRT a ychwanegwyd yn 2015/16 ac a oedd werth £30.5m, gan ddod â chyfanswm Cyllideb Gyfalaf 2015/16 i £58.2m. Y prosiectau neu'r cynlluniau mawr a oedd i gychwyn yn ystod y flwyddyn oedd Ffordd Gyswllt Llangefni a Phrynu Eiddo Cyfredol ar gyfer y CRT. Yr unig broseict mawr a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn oedd Cam Un y cynllun Safleoedd ac Eiddo.

Rhoes y Pwyllgor Gwaith sylw i adroddiad alldro cyfalaf yn ei gyfarfod ar 31 Mai 2016 a oedd yn dangos bod y Cyngor, mewn gwirionedd, wedi gwario £44.0m ar brosiectau cyfalaf yn 2015/16 gyda'r rhan fwyaf o'r llithriad yn cael ei drosglwyddo i 2016/17.

# Gwybodaeth Bellach

I gael mwy o wybodaeth am unrhyw beth yn y ddogfen hon neu i wneud unrhyw sylwadau, cysylltwch os gwelwch yn dda gyda:

**Swyddfa'r Prif Weithredwr**
**Cyngor Sir Ynys Môn**
**Swyddfeydd y Cyngor**
**Llangefni Ynys Môn**
**LL77 7TWF**
**fôn - 01248 752111E**
**-bost – ScopttRowley@ynysmon.gov.uk neu GethinMorgan@ynysmon.gov.uk**

**Mae'r ddogfen hon ar gael ar dâp, mewn braille ac ar wefan y Cyngor:**
**www.ynysmon.gov.uk/cynlluncorfforaethol**

**Gellwch gael mwy o wybodaeth hefyd fel a ganlyn:**
**Gellir gweld polisïau, cynlluniau a strategaethau a gyhoeddir gan y Cyngor ar:**
**www.ynysmon.gov.uk**

**Mae'r Cynllun Gwella Blynyddol ar gael ar wefan y Cyngor trwy glicio ar y ddolen a ganlyn:**
**www.ynysmon.gov.uk/AGBSAC**

**Mae Adroddiadau Archwilio ac Arolygu a gynhyrchwyd gan Reoleiddwyr y Cyngor ar gael ar eu gwefannau unigol fel a ganlyn:**
- **Swyddfa Archwilio Cymru:**
  **www.wao.gov.uk**
- **Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru:**
  **www.cssiw.org.uk**
- **Estyn:**
  **www.estyn.gov.uk**

**Os had oes gennych fynediad i'r rhyngrwyd, neu os hoffech gael dogfen nad yw wedi ei rhestru uchod, cysylltwch gyda'r Cyngor os gwelwch yn dda gan ddefnyddio'r manylion cyswllt a nodir ar frig y dudalen hon.**

Draft

**Atodiad 1** **Noder: Mae Ranc (mewn cromfachau) yn dynodi sefyllfa DP yn erbyn 22 Awdurdodau Lleol yng Nghymru**

| DP | Disgrifiad | Gwasanaeth | Cyfeiriad | 2013/14 | 2015/15 | 2015/16 | Tuedd | Chwartel a Ranc 15/16 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| MAC | CAM/037: Y newid canrannol yn y sgôr arddangos Tystysgrif Ynni (ATY) ar gyfartaledd yn adeiladau'r awdurdod lleol dros 1,000 metr sgwâr | Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo | < | - | 2 | 7.8 | ↑ | **(3)** |
| MAC | CHR/002: Nifer y diwrnodau/sifftiau gwaith wedi colli oherwydd salwch, fesul gweithiwr awdurdod lleol cyfwerth ag amser llawn | Adnoddau Dynol | < | 12.48 | 11.5 | 12 | ↓ | (19) |
| DCS/MAC | EDU/002i: Canran yr holl ddisgyblion (gan gynnwys y rhai sydd yng ngofal awdurdod lleol); a sydd mewn unrhyw ysgol a gynhelir gan awdurdod lleol, a hwythau'n 15 oed ar y 31 Awst blaenorol ac sy'n gadael addysg orfodol, hyfforddiant neu ddysgu seiliedig ar waith heb fod ganddynt gymhwyster allanol a gymeradwywyd | Addysg | < | 0.00 | 0.3 | 0.0 | ↑ | (1) |
| DCS | EDU/002ii: Canran y disgyblion sydd yng ngofal awdurdodau lleolsydd mewn unrhyw ysgol a gynhelir gan awdurdod lleol, a hwythau'n 15 oed ar y 31 Awst blaenorol ac sy'n gadael addysg orfodol, hyfforddiant neu ddysgu seiliedig ar waith heb fod ganddynt gymhwyster allanol a gymeradwywyd | Addysg | < | 0.00 | 14.3 | 0.0 | ↑ | (1) |
| DCS/MAC | EDU/003: Canran y disgyblion a aseswyd ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2, mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol, ac sy'n cyrraedd y Dangosydd Pynciau Craidd, fel y penderfynir gan Asesiadau Athrawon | Addysg | > | 87.98 | 87.8 | 91.8 | ↑ | (1) |

Draft

| DP | Disgrifiad | Gwasanaeth | Cyfeiriad | 2013/14 | 2015/15 | 2015/16 | Tuedd | Chwartel a Ranc 15/16 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| MAC | EDU/004: Canran y disgyblion a aseswyd ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3, mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol, ac sy'n cyrraedd y Dangosydd Pynciau Craidd, fel y penderfynir gan Asesiadau Athrawon | Addysg | > | 81.46 | 83.6 | 84.5 | ↑ | (9) |
| DCS | EDU/006ii: Canran y disgyblion a aseswyd mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol, ac sy'n cael Asesiad Athrawon yn y Gymraeg (iaith gyntaf) ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3 | Addysg | > | 61.75 | 67.2 | 64.8 | ↓ | (3) |
| DCS/MAC | EDU/011: Cyfartaledd y sgôr pwyntiau ar gyfer disgyblion sy'n 15 oed ar y 31 Awst blaenorol mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol | Addysg | > | 593.55 | 598.3 | 571.7 | ↓ | (6) |
| DCS | EDU/015a: Canran y datganiadau terfynol o anghenion addysgol arbennig a ddyroddir o fewn 26 o wythnosau gan gynnwys eithriadau | Addysg | > | 59.09 | 38.5 | 32.5 | ↓ | (21) |
| DCS | EDU/015b: Canran y datganiadau terfynol o anghenion addysgol arbennig a ddyroddir o fewn 26 o wythnosau b) heb gynnwys eithriadau | Addysg | > | 100.00 | 84.6 | 75.0 | ↓ | (21) |
| MAC | EDU/016a: Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion cynradd | Addysg | > | 94.41 | 94.6 | 94.7 | ↑ | (17) |

Draft

Drafft

| DP | Disgrifiad | Gwasanaeth | Cyfeiriad | 2013/14 | 2015/15 | 2015/16 | Tuedd | Chwartel a Ranc 15/16 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| MAC | EDU/016b: Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion uwchradd | Addysg | > | 93.24 | 93.4 | 93.5 | ↑ | (16) |
| DCS | EDU/017: Canran y disgyblion 15 oed ar y 31ain Awst blaenorol, mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol a gyflawnodd y trothwy Lefel 2 gan gynnwys gradd A*-C TGAU mewn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf a Mathemateg | Addysg | > | 54.20 | 53.8 | 56.9 | ↑ | (12) |
| DCS | LCL/001b: Nifer yr ymweliadau â llyfrgelloedd cyhoeddus yn ystod y flwyddyn fesul 1,000 o'r boblogaeth | Llyfrgelloedd | > | 4024.47 | 4,166.4 | 4,053 | ↓ | (19) |
| DCS | LCS/002b: Nifer yr ymweliadau â chanolfannau chwaraeon a hamdden awdurdodau lleol yn ystod y flwyddyn fesul 1,000 o'r boblogaeth, pan fydd yr ymwelydd yn cymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol | Datblygu Economi a Adfywio Cymunedau | > | 8767.29 | 8,434.0 | 7457.0 | ↓ | (16) |
| DCS/MAC | PLA/006b: Nifer yr unedau tai fforddiadwy ychwanegol a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn fel canran yr holl unedau tai ychwanegol a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn | Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd | > | 83.97 | 39.2 | 46 | ↑ | (8) |
| MAC | PPN/009: Canran y sefydliadau bwyd sy'n 'cydymffurfio'n fras' â safonau hylendid bwyd | Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd | > | 93.38 | 97.0 | 98.67 | ↑ | (1) |
| DCS/MAC | PSR/002: Y nifer o ddiwrnodau calendr ar gyfartaledd a gymerwyd i roi Grant Cyfleusterau i'r Anabl | Tai | < | 213.11 | 229.5 | 239.00 | ↓ | (12) |

| DP | Disgrifiad | Gwasanaeth | Cyfeiriad | 2013/14 | 2015/15 | 2015/16 | Tuedd | Chwartel a Ranc 15/16 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| DCS | PSR/004: Canran yr anheddau sector preifat a oedd wedi bod yn wag am fwy na 6 mis ar 1 Ebrill ac a feddiannwyd eto yn ystod y flwyddyn o ganlyniad i weithredu uniongyrchol gan yr awdurdod lleol | Tai | > | 11.98 | 13.1 | 10.98 | ↓ | (8) |
| DCS | SCA/001: Cyfradd yr oedi wrth drosglwyddo gofal am resymau gofal cymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 75 oed neu drosodd | Gwasanaethau Oedolion | < | 0.55 | 1.8 | 6.63 | ↓ | (18) |
| DCS | SCA/002a: Cyfradd pobl hŷn (sy'n 65 oed neu drosodd) y rhoddir cymorth iddynt yn y gymuned fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 65 oed neu drosodd ar 31 Mawrth | Gwasanaethau Oedolion | > | 54.41 | 49.5 | 43.51 | ↓ | (N/A) |
| DCS | SCA/002b: Cyfardd pobl hŷn (sy'n 65 oed neu drosodd) y mae'r awdurdod yn rhoi cymorth iddynt mewn cartrefi gofal fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 65 oed neu drosodd ar 31 Mawrth | Gwasanaethau Oedolion | < | 25.30 | 23.3 | 20.63 | ↑ | (18) |
| MAC | SCA/007: Canran y cleientiaid a chynllun gofal ar 31 Mawrth, y dylai eu cynlluniau gofal fod wedi'u hadolygu a gafodd eu hadolygu yn ystod y flwyddyn | Gwasanaethau Oedolion | > | 87.86 | 92.2 | 93.6 | ↑ | (2) |
| MAC | SCA/018a: Canran y gofalwyr sy'n gofalu ar ôl oedolion a gafodd cynnig asesiad neu adolygiad o'u hanghenion eu hunain yn ystod y flwyddyn | Gwasanaethau Oedolion | > | 91.28 | 92.9 | 95.3 | ↑ | (9) |
| DCS/MAC | SCA/019: Canran y cyfeiriadau diogelu oedolion wedi eu cwblhau yn ystod y flwyddyn lle'r mae'r risg wedi ei reoli | Gwasanaethau Oedolion | > | 88.89 | 91.9 | 93.18 | ↑ | (19) |

Draft

| DP | Disgrifiad | Gwasanaeth | Cyfeiriad | 2013/14 | 2015/15 | 2015/16 | Tuedd | Chwartel a Ranc 15/16 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| DCS | SCC/002: Canran y plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth a chanddynt brofiad o symud ysgol unwaith neu ragor, yn ystod cyfnod neu gyfnodau o dderbyn gofal, ac nad oedd y symud hwnnw oherwydd trefniadau trosiannol, yn y 12 mis hyd at 31 Mawrth. | Gwasanaethau Plant | < | 20.00 | 18.5 | 17.40 | ↑ | (18) |
| DCS/MAC | SCC/004: Canran y plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth sydd wedi cael eu lleoli o leiaf dair gwaith yn ystod y flwyddyn | Gwasanaethau Plant | < | 7.79 | 3.4 | 9.3 | ↓ | (10) |
| DCS | SCC/011b: Canran yr asesiadau dechreuol a ddigwyddodd yn ystod y flwyddyn lle bo tystiolaeth bod Gweithiwr Cymdeithasol wedi gweld y plentyn ar ben ei hun | Gwasanaethau Plant | > | 55.06 | 63.9 | 74.1 | ↑ | (2) |
| MAC | SCC/025: Canran yr ymweliadau statudol â phlant sy'n derbyn gofal oedd i fod i gael eu cynnal yn ystod y flwyddyn a'u cynhaliwyd yn unol â'r rheoliadau | Gwasanaethau Plant | > | 90.54 | 93.5 | 82.8 | ↓ | (16) |
| DCS | SCC/033d: d) y bobl ifanc a oedd yn derbyn gofal y flaenorol ac y mae'r awdurdod mewn cysylltiad â hwy a hwythau'n 19 oed; | Gwasanaethau Plant | > | 100.00 | 50.0 | 57.10 | ↑ | (22) |
| DCS | SCC/033e: y bobl ifanc a oedd yn derbyn gofal yn flaenorol ac y mae'r awdurdod mewn cysylltiad â hwy, ac y gwyddys eu bod mewn llety addas, nad yw'n llety argyfwng a hwythau'n 19 oed | Gwasanaethau Plant | > | 85.71 | 100.0 | 100.0 | ↔ | (1) |

Draft

| DP | Disgrifiad | Gwasanaeth | Cyfeiriad | 2013/14 | 2015/15 | 2015/16 | Tuedd | Chwartel a Ranc 15/16 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| DCS | SCC/033f: y bobl ifanc a oedd yn derbyn gofal yn flaenorol ac y mae'r awdurdod mewn cysylltiad â hwy, ac y gwyddys eu bod yn ymgymryd ag addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth a hwythau'n 19 oed | Gwasanaethau Plant | > | 42.86 | 100.0 | 75.00 | ↓ | (6) |
| DCS | SCC/037: Cyfartaledd y sgôr pwyntiau mewn cysylltiad â chymwysterau allanol plant 16 oed sy'n derbyn gofal mewn unrhyw sefyllfa ddysgu a gynhelir gan awdurdod lleol | Gwasanaethau Plant | > | 135.80 | 288.6 | 269.00 | ↓ | (9) |
| DCS | SCC/041a: Canran y plant cymwys, perthnasol a phlant a fu'n berthnasol a chanddynt gynlluniau llwybr yn ôl yr angen | Gwasanaethau Plant | > | 77.78 | 78.3 | 68.2 | ↓ | (22) |
| MAC | SCC/045: Canran yr adolygiadau plant sy'n derbyn gofal, adolygiadau plant sydd ar y Cofrestr Amddiffyn Plant ac adolygiadau plant mewn angen a gafodd eu cynnal yn unol â'r amserlenni statudol | Gwasanaethau Plant | > | 95.68 | 94.5 | 91.6 | ↓ | (13) |
| MAC | STS/005b: Canran y priffyrdd a'r tir perthnasol a adolygwyd sydd o safon glendid uchel neu dderbyniol | Priffyrdd, Rheoli Gwastraff ac Eiddo | > | 96.34 | 96.3 | 95.1 | ↓ | (12) |
| DCS | STS/006: Canran yr achosion o dipio gwastraff yn anghyfreithlon y rhoddwyd gwybod amdanynt ac y cliriwyd y gwastraff o fewn 5 niwrnod gwaith | Priffyrdd, Rheoli Gwastraff ac Eiddo | > | 95.55 | 95.9 | 98.49 | ↑ | (2) |
| DCS | THS/007: Canran yr oedolion sy'n 60 oed neu drosodd sy'n ddeiliaid tocynnau teithio rhatach ar y bws | Priffyrdd, Rheoli Gwastraff ac Eiddo | > | 70.73 | 72.5 | 73.20 | ↑ | (21) |
| MAC | THS/012: Canran y prif ffyrdd (dosbarth A),ffyrdd nad ydynt yn brif ffyrdd (B) a ffyrdd nad ydynt yn brif ffyrdd (C) sydd mewn cyflwr gwael yn gyffredinol. | Priffyrdd, Rheoli Gwastraff ac Eiddo | < | 11.71 | 10.9 | 8.9 | ↑ | (14) |

Draft

| DP | Disgrifiad | Gwasanaeth | Cyfeiriad | 2013/14 | 2015/15 | 2015/16 | Tuedd | Chwartel a Ranc 15/16 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| DCS/MAC | WMT/004b: Canran y gwastraff trefol a gesglir gan awdurdodau lleol ac a anfonir i safle tirlenwi | Priffyrdd, Rheoli Gwastraff ac Eiddo | < | 44.11 | 43.2 | 16.87 | ↑ | (13) |
| DCS/MAC | WMT/009b: Canran y gwastraff trefol a gesglir gan awdurdodau lleol ac a gaiff ei baratoi ar gyfer ei ailddefnyddio a'i ailgylchu/neu ei ailgylchu, gan gynnwys deunyddiau biowastraff wedi eu gwahanu yn eu tarddle ac a gompostir neu a drinnir yn fiolegol mewn ffordd arall | Priffyrdd, Rheoli Gwastraff ac Eiddo | > | 54.37 | 55.2 | 59.50 | ↑ | (13) |

Draft

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I'R:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **DYDDIAD:** | **19 MEDI 2016** |
| **PWNC:** | **CYNLLUN ARIANNOL AR GYFER Y TYMOR CANOL 2017/18 - 2019/20** |
| **DEILYDD (ION) PORTFFOLIO:** | **Y CYNGHORYDD H E JONES** |
| **PENNAETH Y GWASANAETH:** | **MARC JONES - PENNAETH SWYDDOGAETH (ADNODDAU)** |
| **AWDUR YR ADRODDIAD:**<br>FFÔN:<br>E-BOST: | **MARC JONES**<br>**2601**<br>**rmjfi@ynysmon.gov.uk** |
| **AELODAU LLEOL:** | **Amherthnasol** |

**A - Argymhelliad / Argymhellion a Rheswm / Rhesymau**

Mae gofyn i'r Cyngor sefydlu system gadarn i fonitro a rheoli ei gyllideb refeniw ac elfen allweddol o'r system honno yw Cynllun Ariannol ar gyfer y Tymor Canol. Mae'r cynllun yn nodi strategaeth cyllideb y Cyngor dros y tair blynedd nesaf ac yn nodi'r rhagdybiaethau a fydd yn cael eu cynnwys yn y broses o bennu'r gyllideb flynyddol.

Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith nodi cynnwys y cynllun a chymeradwyo'r rhagdybiaethau a wnaed.

**B - Pa opsiynau eraill wnaethoch chi ystyried a pham wnaethoch chi eu gwrthod a / neu ddewis yr opsiwn hwn?**

Amherthnasol

**C - Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?**

Mae'r cyfrifoldeb am bennu strategaeth cyllideb y Cyngor wedi cael ei ddirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith

**CH - A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â pholisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?**

Ydi

**D - A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?**

Amherthnasol

| | **DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| 1 | **Prif Weithredwr / Tîm Strategol Arweinyddiaeth (UDA)** (gorfodol) | I'w gadarnhau |
| 2 | **Cyllid / Adran 151** (gorfodol) | Amherthnasol - y Swyddog Adran 151 yw awdur yr adroddiad |
| 3 | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (gorfodol) | I'w gadarnhau |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| 5 | **Eiddo** | |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)** | |
| 7 | **Sgriwtini** | |
| 8 | **Aelodau lleol** | |
| 9 | **Unrhyw gyrff allanol / arall / eraill** | |

| | **E - Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | |
|---|---|---|
| 1 | **Economaidd** | |
| 2 | **Gwrth-dlodi** | |
| 3 | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| 4 | **Amgylcheddol** | |
| 5 | **Cydraddoldebau** | |
| 6 | **Cytundebau Canlyniadau** | |
| 7 | **Arall** | |

| **F - Atodiadau:** |
|---|
| Atodiad 1 - Cynllun Ariannol ar gyfer y Tymor Canol<br>Atodiad 2 - Amcangyfrif 3 blynedd manwl<br>Atodiad 3 – Rhagdybiaethau'r Cynllun |
| **FF - Papurau cefndir (cysylltwch â'r awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** |
| |

**ATODIAD 1**

**CYNLLUN ARIANNOL AR GYFER Y TYMOR CANOL 2017/18 - 2019/20**

## 1. CYFLWYNIAD

**1.1.** Mae'r Cynllun Ariannol ar gyfer y Tymor Canol yn nodi lefel yr adnoddau y mae'r Cyngor yn debygol o fod eu hangen am y tair blynedd ariannol nesaf ac yn nodi sut mae'r Cyngor yn bwriadu cydbwyso'r angen am adnoddau gyda'r arian sydd ar gael.

**1.2.** Mae rhagweld y dyfodol yn anodd mewn unrhyw amgylchiadau, ond ar hyn o bryd mae'n anodd iawn oherwydd yr ansicrwydd ynglŷn â'r economi, goblygiadau'r penderfyniad i adael yr Undeb Ewropeaidd yn dilyn y refferendwm a'r newid diweddar ym mholisi'r Llywodraeth i sicrhau cyllideb gyda gwarged erbyn 2020.

**1.3.** Mae'r cynllun yn cymryd i ystyriaeth y newidiadau y gwyddys amdanynt ac yn gwneud rhagdybiaethau o ran y prif ffactorau sy'n effeithio ar gyllideb refeniw'r Cyngor (costau, pensiynau, chwyddiant cyffredinol, cyllid Llywodraeth Cymru, pwysau demograffig a'r galw am wasanaethau).

## 2. STRATEGAETH CYLLIDEB Y CYNGOR HYD YMA

**2.1** Dechreuodd economi Prydain ddirywio yn dilyn yr argyfwng bancio yn 2008 a dechreuodd y Llywodraeth bresennol ei rhaglen o lymder ariannol yn 2010. Er bod hyn wedi golygu gostyngiad yn lefel y cynyddiadau yng nghyllid a rydd y llywodraeth ganolog i awdurdodau lleol yng Nghymru, parhaodd y cyfraniad a gafwyd i dyfu hyd 2013/14, er bod y twf yn annigonol i gwrdd â'r holl bwysau cost ac roedd yn cynrychioli toriad gwirioneddol mewn cyllid.

**2.2.** O 2014/15 ymlaen, mae'r Cyngor wedi gweld gostyngiadau ariannol yn y grant y mae'n ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru. Dangosir hyn yn Nhabl 1 isod:-

**Tabl 1**
**Y Newid yng Nghyllid Allanol Cyfun y Cyngor 2014/15 - 2016/17**

| Blwyddyn | GCR £ 'm | TCA £ 'm | Cyfanswm CAC £ 'm | % y Newid |
|---|---|---|---|---|
| 2013/14 | 78.74 | 22.03 | 100.77 | - |
| 2014/15 | 75.11 | 22.04 | 97.15 | -3.6% |
| 2015/16 | 71.70 | 21.99 | 93.69 | -3.6% |
| 2016/17 | 70.62 | 21.31 | 91.93 | -1.9% |

**2.3.** Mae hyn yn cynrychioli gostyngiad cyffredinol yn y CAC o 8.8% rhwng lefel 2013/14 a lefel 2016/17.

**2.4.** Er mwyn lliniaru effaith y golled hon, mae'r Cyngor wedi cynyddu'r Dreth Gyngor ar gyfradd uwch na chwyddiant dros yr un cyfnod. Fodd bynnag, oherwydd bod cyfran y CAC i'r Dreth Gyngor oddeutu 3: 1, mae pob gostyngiad o 1% yn CAC yn golygu bod angen cynnydd o 3% yn y Dreth Gyngor er mwyn sicrhau'r un lefel o gyllid. Mae lefelau'r Dreth Gyngor wedi cynyddu fel a ganlyn ers 2013/14:-

**Tabl 2**
**Cynnydd yn y Dreth Gyngor ers 2013/14**

| Blwyddyn | Cyfanswm Debyd y Dreth Gyngor £ 'm | Band D Cyfwerth £ | % y Newid |
|---|---|---|---|
| 2013/14 | 28.48 | 939.15 | - |
| 2014/15 | 29.47 | 981.41 | + 4.5% |
| 2015/16 | 30.96 | 1,025.57 | + 4.5% |
| 2016/17 | 32.11 | 1,061.46 | + 3.5% |

**2.5.** Mae'r gostyngiad yn y CAC a'r cynnydd yn y Dreth Gyngor wedi newid y cydbwysedd rhwng swm yr arian a dderbynnir mewn grant gan y Llywodraeth a'r swm a gynhyrchir drwy drethi lleol. Mae'r arian a gynhyrchwyd trwy'r Dreth Gyngor yn 2016/17 yn 26% o'i gymharu â 22% yn 2013/14. Dangosir hyn yn Nhabl 3 isod: -

**Tabl 3**
**Cyllid y Cyngor ers 2013/14**

| Blwyddyn | Cyfanswm CAC £ 'm | Cyfanswm Debyd y Dreth Gyngor £ 'm | Cyfanswm Cyllid £ 'm | % Y Dreth Gyngor i Gyfanswm y Cyllid |
|---|---|---|---|---|
| 2013/14 | 100.77 | 28.48 | 129.25 | 22.0% |
| 2014/15 | 97.15 | 29.47 | 126.62 | 23.2% |
| 2015/16 | 93.69 | 30.96 | 124.65 | 24.8% |
| 2016/17 | 91.93 | 32.11 | 124.04 | 25.9% |

**2.6.** Am nifer o flynyddoedd cyn 2013/14, bu'n rhaid i Wasanaethau wneud arbedion. Yn wreiddiol, roedd y rhain yn seiliedig ar ganran o'r gyllideb net ac, o ganlyniad, cafodd nifer y cyllidebau a oedd heb eu defnyddio ac oedd â thanwariant yn eu herbyn eu gostwng. Roedd hynny'n ddigon i sicrhau'r arbedion gofynnol ond, gydag amser, mae wedi mynd yn fwy ac yn fwy anodd i wasanaethau gyflawni'r lefel angenrheidiol o arbedion drwy'r dull hwn. Bellach, mae wedi cyrraedd pwynt lle bydd rhaid trosglwyddo gwasanaethau i ddarparwyr eraill neu roi'r gorau i ddarparu rhai gwasanaethau er mwyn gwneud unrhyw arbedion ychwanegol.

**2.7.** Mae lefel yr arbedion a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Gwaith fel rhan o'r gyllideb refeniw flynyddol ers 2013/14 yn Nhabl 4 isod:-

**Tabl 4**
**Dadansoddiad o Arbedion fesul Gwasanaeth 2013/14 - 2016/17**

| Gwasanaeth | 2013/14 £ '000 | 2014/15 £ '000 | 2015/16 £ '000 | 2016/17 £ '000 | Cyfanswm £ '000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Ysgolion | 0 | 0 | 0 | 988 | 988 |
| Addysg a Diwylliant | 356 | 811 | 670 | 320 | 2,157 |
| Gwasanaethau Oedolion | 500 | 1,261 | 407 | 335 | 2,503 |
| Gwasanaethau Plant | 312 | 352 | 184 | 143 | 991 |
| Adfywio Cymunedol | 175 | 414 | 394 | 147 | 1,130 |
| Tai | 66 | 117 | 137 | 74 | 394 |
| Amgylcheddol a Thechnegol | 1,014 | 2,216 | 1,492 | 730 | 5,452 |
| Rheoleiddio | 200 | 308 | 80 | 111 | 699 |
| Busnes y Cyngor | 70 | 152 | 31 | 56 | 309 |
| Adnoddau | 50 | 212 | 104 | 72 | 438 |
| Trawsnewid | 49 | 183 | 226 | 84 | 542 |
| Cyllidebau Corfforaethol | 70 | 237 | 600 | 400 | 1,307 |
| **Cyfanswm** | **2,862** | **6,263** | **4,325** | **3,450** | **16,910** |

**2.8.** Dylid nodi bod y pwysau chwyddiannol arferol a'r cynigion twf unigol wedi'u hariannu o'r arbedion a wnaed i roi'r gostyngiad net o £5.21m rhwng 2013/14 a 2016/17 (gostyngiad ariannol o 4%).

**2.9.** Yn ychwanegol at y gostyngiad yng nghyllideb graidd y Cyngor, cafwyd hefyd doriadau i grantiau refeniw dros yr un cyfnod. Er bod nifer y grantiau wedi lleihau dros y blynyddoedd gyda grantiau naill ai'n cael eu sugno i mewn i'r Grant Cymorth Refeniw neu grantiau llai yn cael eu cyfuno, mae'r Cyngor yn dal i ddibynnu ar 5 o grantiau mawr, ac mae'r manylion i'w gweld yn Nhabl 5 isod:-

**Tabl 5**
**Y Prif Grantiau Refeniw a Dderbyniwyd 2013/14 - 2016/17**

| Grant | 2013/14 £ | 2014/15 £ | 2015/16 £ | 2016/17 £ | % Newid ers 2013/14 |
|---|---|---|---|---|---|
| Cefnogi Pobl | 3,052,211 | 2,899,599 | 2,643,866 | 2,643,866 | -13.4% |
| Grant Amgylcheddol Sengl | 1,728,290 | 1,712,884 | 1,808,988 | 1,734,760 | + 0.4% |
| Grant Addysg Ôl-16 | 3,028,523 | 2,723,166 | 2,625,911 | 2,564,687 | -15.3% |
| Grant Gwella Addysg | 3,811,147 | 3,558,975 | 3,259,357 | 3,098,283 | -18.7% |
| Grant Cymorth Gwasanaethau Bysiau | 465,677 | 490,512 | 490,512 | 490,512 | + 5.3% |

## 3. PWYSAU CENEDLAETHOL A LLEOL AR Y GYLLIDEB

**3.1.** Mae pwysau cenedlaethol ar y gyllideb yn codi oherwydd amgylchiadau sydd y tu allan i reolaeth y Cyngor ond sy'n effeithio ar y costau a wynebir ganddo. Mae enghreifftiau diweddar o newidiadau sydd wedi cael effaith sylweddol ar gyllideb refeniw'r Cyngor yn cynnwys: -

i. **Cyfraniadau Yswiriant Gwladol**
Ym mis Ebrill 2016, newidiodd y Llywodraeth y rheoliadau sy'n ymwneud â phensiynau'r wladwriaeth a dileu'r categori 'contractio allan' o gyfraniadau yswiriant gwladol. Yn sgil hynny, gwelwyd cynnydd o £1.3m yng nghyfraniadau yswiriant gwladol y Cyngor yn 2016/17.

ii. **Cynllun Gostyngiadau' Dreth Gyngor**
Cyflwynwyd y Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor gan Lywodraeth Cymru yn 2013/14 i ddarparu cymorth ariannol i helpu trigolion dalu eu Treth Gyngor. Roedd y system hon yn disodli'r hen system Budd-daliadau'r Dreth Gyngor. Nid yw'r cymorth y mae'r Cyngor yn ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru yn cynyddu o flwyddyn i flwyddyn ac wrth i Dreth Gyngor yr Awdurdod gynyddu, mae'r baich ariannol sy'n disgyn ar y Cyngor yn cynyddu yn yr un modd. Mae'r newid hwn wedi golygu cynnydd o £600k yng nghostau'r Cyngor yn 2016/17 o gymharu â 2013/14.

iii . **Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2015**
Mae'r Ddeddf yn cyfyngu ar y swm y gall y Cyngor ei godi ar gleientiaid sydd angen aros am gyfnod byr mewn cartref gofal. Amcangyfrifir y bydd y newid hwn yn golygu gostyngiad o tua £300k yn incwm y Cyngor yn 2016/17.

iv. **Cyflog Byw cenedlaethol**
Er nad oedd cyflwyno'r cyflog byw cenedlaethol yn Ebrill 2016 yn golygu cynnydd uniongyrchol yng nghostau'r Cyngor, a hynny oherwydd bod staff y Cyngor yn cael eu talu ar lefel uwch na hon eisoes, mae'r newid wedi golygu cynnydd yn y costau i'n prif gontractwyr, yn arbennig yn y maes gofal preswyl a gofal cartref. Mae hyn wedi arwain at gynnydd uwch na chwyddiant yn y contractau hyn yn Ebrill 2016. Mae hwn yn fater sy'n effeithio pob un o'r 6 awdurdod ar draws Gogledd Cymru.

v. **Gostyngiad mewn Grantiau Penodol**
Fel y nodwyd uchod, mae'r Cyngor yn dal i ddibynnu ar 5 grant mawr. Wrth i'r grantiau hyn ostwng, mae'n anodd i'r Cyngor leihau lefel y gwasanaethau a gynigiwyd pan ddechreuodd y grant. O ganlyniad, rhaid i'r Cyngor wneud y gwahaniaeth i fyny er mwyn parhau i ddarparu'r gwasanaeth ar yr un lefel.

vi. **Costau pensiwn**
Mae'r Cyngor, fel cyflogwr, yn cyfrannu at ddau brif gynllun pensiwn, sef y Cynllun Pensiwn Athrawon, sydd yn gynllun cenedlaethol, a'r cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, a weinyddir gan Gyngor Gwynedd ar ran y Cyngor. Er bod gennym rywfaint o ddylanwad dros y cynllun Llywodraeth Leol, caiff cyfradd cyfraniadau'r cyflogwr ei rheoli gan ganlyniadau prisiadau a gynhelir pob tair blynedd a gall arwain at gynnydd mewn cyfraniadau pensiwn sydd y tu hwnt i reolaeth y Cyngor.

vii. **Ardoll Prentisiaeth**
Mae'r Llywodraeth yn bwriadu cyflwyno Ardoll Prentisiaeth o Ebrill 2017 i ariannu prentisiaethau yng Nghymru a Lloegr. Bydd yr Ardoll yn cael ei godi ar bob cyflogwr sydd â bil cyflogau o dros £3 miliwn y flwyddyn. Bydd yr ardoll yn cael ei gyfrifo fel 0.5% o'r bil cyflog, llai lwfans o £15,000. Yn achos Ynys Môn, byddai hyn yn arwain at ardoll o £275,000 yn 2017/18. Mae'r ardoll yn cael ei chynnwys ym Mesur Cyllid 2016 sydd, ar hyn o bryd, yn mynd drwy'r camau seneddol terfynol. Nid yw'n glir sut y bydd yr arian a godir gan yr ardoll yn cael ei ddyrannu i Gymru a'r modd y bydd cyflogwyr yn cael mynediad i'r cyllid.

**3.2.** Mae pwysau lleol yn codi yn sgil penderfyniadau a wneir gan y Cyngor neu newidiadau yn y galw am wasanaethau'r Cyngor. Mae'r pwysau lleol sydd wedi effeithio ar gyllideb 2016/17 ac a fydd yn dylanwadu ar gyllidebau yn y dyfodol yn cynnwys y canlynol: -

**i. Cynnydd yn y galw am Wasanaethau Plant**

Yn ystod 2015/16, mae'r llwyth achosion yn y Gwasanaethau Plant wedi cynyddu'n sylweddol. O'r herwydd, bu'n rhaid i'r Cyngor gynyddu cyllideb y Gwasanaethau Plant gan £500k yn 2016/17. Hefyd, cytunodd y Pwyllgor Gwaith i ariannu Tîm Trothwy Gofal i gefnogi rhieni er mwyn gostwng nifer y plant sydd angen ymyrraeth gostus. Mae cyllid ar gyfer 2016/17, 2017/18 a 2018/19 wedi cael ei ddyrannu, er fe eglurwyd y bydd raid i'r Gwasanaeth sicrhau'r gostyngiad mewn costau gofal yn y dyfodol – sef bwriad y buddsoddiad hwn.

**ii . Gostyngiad yn y Gweithlu**

Mae'r Cyngor wedi cychwyn ar broses o leihau'r gweithlu ac, er bod hyn yn cynhyrchu arbedion tymor hir i'r Cyngor, mae angen ariannu costau diswyddiadau yn y tymor byr. Clustnodwyd £500k yng nghyllideb 2016/17 i gwrdd â'r costau ychwanegol unwaith ac am byth hyn.

**iii. Moderneiddio Prosesau Busnes**

Er mwyn sicrhau effeithlonrwydd a lleihau costau gweinyddol, mae angen i'r Cyngor fuddsoddi mewn technoleg i wella ei brosesau busnes. Mae'r Cyngor wedi dyrannu £1m o'i gronfeydd wrth gefn cyffredinol yn 2016/17 i ariannu prosiectau a fydd yn lleihau costau gweinyddol ac yn cynhyrchu arbedion yn y dyfodol neu'n gwella gwasanaethau i gwsmeriaid. Mae'r buddsoddiad hwn wedi cael ei wneud gyda'r disgwyliad clir y bydd y buddsoddiad yn arwain at ostyngiad mewn costau gweinyddol ac y bydd hynny'n cael ei adlewyrchu yng nghyllidebau'r gwasanaethau yn y dyfodol. Hefyd, mae £50k wedi'i ddyrannu i'r gwasanaeth TG er mwyn sicrhau bod gan y gwasanaeth ddigon o gapasiti i ddelio â'r llwyth gwaith ychwanegol.

**iv. Effaith Arfarnu Swyddi**

Cyllidwyd canlyniad y broses arfarnu swyddi yn 2016/17 o'r gyllideb craidd a thrwy ddefnyddio arian wrth gefn clustnodedig. Fodd bynnag, fe wnaeth greu pwysau a fydd yn bwydo drwodd i 2017/18. Roedd nifer o staff a oedd wedi bod yn eu swyddi ers nifer o flynyddoedd wedi cyrraedd brig eu hen raddfa ac o'r herwydd, ni chawsant increment blynyddol. Fodd bynnag, roedd y staff hynny a oedd wedi cael eu hailraddio i fyny wedi cael eu rhoi ar waelod y raddfa newydd sydd â 3 phwynt cyflog. I bwrpas yr incrementau, byddai'r aelodau o staff wedi cael eu rhoi ar y raddfa newydd o 1 Ebrill 2015 ac wedi derbyn incrementau ym mis Ebrill 2016 ac Ebrill 2017. Felly, bydd lefel yr incrementau ar gyfer 2017/18 yn uwch nag a fyddent mewn blwyddyn arferol. Yn seiliedig ar y nifer o staff a oedd yn rhan o'r broses arfarnu swyddi a'r rhagdybiaeth bod traean ohonynt yn cael eu gosod ar raddfa uwch, bydd hyn yn golygu cost incrementol ychwanegol oddeutu £900,000 yn 2017/18, ond bydd y lefel wedyn yn disgyn i lefel llawer iawn is o 2018/19 ymlaen.

**v. Etholiad Cyngor Sir**

Cynhelir etholiadau'r Cyngor Sir yn 2017/18. Gan nad yw hon yn gost flynyddol, caiff ei chynnwys yn y gyllideb fel a phan fydd etholiad yn cael ei gynnal. Mae swm o £150,000 wedi'i glustnodi i gwrdd â chost etholiad mis Mai 2017.

## 4. CHWYDDIANT

**4.1.** Chwyddiant yw cyfradd y cynnydd disgwyliedig ym mhrisiau nwyddau a gwasanaethau. Y ddau brif fesur o chwyddiant yw'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) a'r Mynegai Prisiau Manwerthu (RPI). Er bod cysylltiad rhwng y mesurau chwyddiant hyn a'r chwyddiant gwirioneddol y mae'r Cyngor yn ei wynebu, e.e. maent yn cael eu cynnwys mewn rhai o brif gontractau'r Cyngor fel dull o gynyddu'r prisiau blynyddol, mae yna feysydd arwyddocaol eraill o wariant sydd â lefelau uwch o chwyddiant.

**4.2.** Mae proses y gyllideb, felly, yn edrych ar y chwyddiant a amcangyfrifir dros nifer o wahanol feysydd o wariant ac mae'r ffactorau chwyddiant hyn yn cael eu hadeiladu i mewn i'r gyllideb flynyddol. Dylid nodi bod y setliad gan Lywodraeth Cymru yn ffigwr arian parod nad yw'n cael ei fynegeio mewn unrhyw fodd o'r naill flwyddyn i'r llall.

**4.3. Mathau o Chwyddiant**

**4.3.1. Chwyddiant Cyflogau**

Caiff cyflog staff y Cyngor ei reoli'n bennaf gan ddau gytundeb cyflog cenedlaethol sy'n cynnwys staff llywodraeth leol ac athrawon. Mae'r Llywodraeth wedi cyfyngu codiadau cyflog i 1% dros y 3 blynedd diwethaf ac mae gwybodaeth gyfredol yn awgrymu y bydd y polisi hwn yn parhau am oes y cynllun hwn, fodd bynnag, efallai y bydd pwysau i gynyddu'r dyfarniad cyflog yn 2019/20 oherwydd rhagwelir y bydd lefel chwyddiant cyffredinol yn codi. O ganlyniad, caniatawyd cyfradd o 1.5% fel y dyfarniad cyflog ar gyfer blwyddyn olaf y cynllun.

**4.3.2. Prisiau**

Mae dau brif fesur cydnabyddedig ar hyn o bryd o chwyddiant prisiau cyffredinol sef y Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) a'r Mynegai Prisiau Manwerthu (RPI). Er bod y ddau yn mesur chwyddiant, cant eu clandro drwy ddefnyddio gwahanol ddulliau a chydnabyddir bellach mai CPI yw'r dull cywiraf a mwyaf dibynadwy. Mae CPI rhyw 1% yn is na'r RPI. Mewn cyfnod pan mae chwyddiant yn uchel, gall amrywio'n sylweddol rhwng gwahanol nwyddau, ond pan mae'n isel, mae'r gwahaniaethau'n fychan ac mae'r dangosydd cyffredinol hwn yn darparu rhagdybiaeth resymol ar gyfer chwyddiant. At ddibenion y cynllun hwn, defnyddiwyd y CPI fel y rhagdybiaeth gyffredinol.

**4.3.3. Ynni**

Mae'r chwyddiant mewn perthynas â chostau ynni (trydan, nwy ac olew) wedi bod yn fwy cyfnewidiol yn y blynyddoedd diwethaf gyda phrisiau'n cynyddu ac yn gostwng yn gyflym, hyd yn oed pan fydd y CPI a'r RPI yn parhau i godi. O ystyried lefel y gwariant ar ynni, mae'n rhesymol i gynnwys rhagdybiaeth ar wahân ar ei gyfer. Fodd bynnag, mae prisiau wedi sefydlogi ar hyn o bryd a thybir y bydd chwyddiant yn unol â'r CPI.

**4.3.4. Chwyddiant ar gontractau**

Mae gan y Cyngor nifer o gontractau gwasanaeth mawr (Prydau Ysgol, Cynnal a Chadw Priffyrdd, Casglu Gwastraff, Cludiant Ysgolion ac ati) lle mae'r addasiad ar gyfer chwyddiant yn cael ei nodi yn nhelerau ac amodau'r contractau a gallant amrywio o gymharu â'r prisiau chwyddiant cyffredinol. Mae rhagdybiaeth ar wahân wedi cael ei ganiatáu ar gyfer pob un o'r prif gontractau gwasanaeth yn seiliedig ar y diffiniad yn y contract.

## 5. NEWIDIADAU MEWN GALW

**5.1** Yn ychwanegol at gynnydd mewn prisiau, gall costau newid wrth i'r galw am wasanaethau newid a gall hyn amrywio o newidiadau mewn niferoedd disgyblion, i'r galw am wasanaethau gofal i'r henoed, newid yn nifer y plant sy'n dod i mewn i'r broses gofal statudol, achosion digartrefedd, faint o wastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi ac yn y blaen.

**5.2.** Mae'r tybiaethau mewn perthynas â newidiadau yn y galw yn seiliedig ar: -

**(i)** y data sydd ar gael e.e. niferoedd disgyblion yn y dyfodol, nifer y tunelli o wastraff y rhagwelir y byddir yn cael gwared arnynt;

**(ii)** newidiadau sydd wedi eu cynllunio ar gyfer gwasanaethau - cyflwyno tîm Trothwy Gofal yn y Gwasanaethau Plant;

**(iii)** tueddiadau presennol - achosion digartrefedd a lleoliadau ysgol all-sirol lle mae'r galw am wasanaethau wedi lefelu allan yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf.

## 6. INCWM

**6.1.** Mae cyllideb incwm gyfredol y Cyngor (ac eithrio'r Grant Cynnal Refeniw, Trethi Annomestig Cenedlaethol a'r Dreth Gyngor) yn cyfateb i £36m, sy'n cynnwys £21.5m o grantiau ac ad-daliadau gan gyrff cyhoeddus, £2.2m o ffioedd a thaliadau a osodir gan statud neu a reoleiddir gan y Llywodraeth a £12.4m o ffioedd a thaliadau lle mae gan y Cyngor yr hawl i osod y ffî neu'r tâl.

**6.2.** Mae wedi bod yn bolisi gan y Cyngor dros y blynyddoedd diwethaf i godi ffioedd a thaliadau gan 5% bob blwyddyn. Gyda chwyddiant yn llawer is na 5%, mae'n dod yn fwyfwy anodd i barhau â'r polisi hwn, ac yn enwedig o ran y gwasanaethau hynny lle mae'r Cyngor yn cystadlu â'r sector preifat, e.e. Hamdden. O 2017/18, mae'r rhagdybiaeth wedi newid a bydd y cynnydd mewn incwm anstatudol yn cael ei alinio gyda'r rhagdybiaeth o'r cynnydd yn y Dreth Gyngor.

## 7. CYLLIDEBAU WRTH GEFN AR GYFER DIGWYDDIADAU ANNISGWYL AC ARDOLLAU

**7.1.** Mae cyllideb 2016/17 yn cynnwys cyllidebau wrth gefn ar gyfer digwyddiadau annisgwyl sydd yn werth cyfanswm o ychydig dros £2m ac sy'n cwmpasu nifer o feysydd, gan gynnwys cyllideb i gwrdd â chostau diswyddo yn y dyfodol, cyllidebau i ariannu swyddi a phrosiectau penodol ar gyfer Adnoddau Dynol, Caffael a TGCh, cyllidebau i gwrdd â'r ansicrwydd mewn perthynas â chostau gofal cartref ac arian wrth gefn cyffredinol. O gofio bod y rhan fwyaf o'r arian wrth gefn ar gyfer sefyllfaoedd annisgwyl mewn perthynas â phrosiectau penodol, mae'n bosibl penderfynu pryd bydd y costau hyn yn disgyn allan o'r gyllideb.

**7.2.** Mae Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn gosod ardoll sy'n cael ei gynnwys yng Nghyllideb Refeniw y Cyngor. Mater i'r Awdurdod Tân ac Achub yw penderfynu ar y cynnydd yn yr ardoll bob blwyddyn a gall penderfyniad terfynol yr Awdurdod Tân fod yn wahanol i ragdybiaethau'r Cyngor. Mae'r ardoll wedi gostwng ychydig bob blwyddyn ers 2011/12 ac, yn 2016/17, roedd tua'r un lefel ag yr oedd yn 2009/10. Yn seiliedig ar wybodaeth gyfredol, tybir y bydd cynnydd uwch na chwyddiant yn 2017/18 (yn ôl yr arwyddion presennol, gallai'r cynnydd fod yn 4%) gyda chynnydd yn unol â chwyddiant yn 2018/19 a 2019/20.

## 8. Y GYLLIDEB DDISYMYD A RAGDYBIR AR GYFER 2017/18 - 2019/20

**8.1.** Gan gymryd i ystyriaeth yr holl bwysau cyllidebol y gwyddys amdanynt a'r rhagdybiaethau ynghylch chwyddiant a ffactorau eraill, mae'n bosibl penderfynu ar gyllideb ddisymyd ar gyfer y cyfnod 2017/18 i 2019/20. Y gyllideb ddisymyd yw'r costau diwygiedig o barhau i ddarparu gwasanaethau i'r un lefel ac yn yr un modd ag y cawsant eu darparu yn 2016/17. Mae'r gyllideb ddisymyd a amcangyfrifir ar gyfer y cyfnod tair blynedd nesaf yn Nhabl 6 isod:-

**Tabl 6**
**Y Gyllideb Ddisymyd a Ragamcenir ar gyfer 2017/18 i 2019/20**

| | **2017/18 £ 'm** | **2018/19 £ 'm** | **2019/20 £ 'm** |
|---|---|---|---|
| **Cyllideb Derfynol y Flwyddyn Flaenorol** | **124.04** | **127.94** | **128.78** |
| Wedi ei gyllido o'r Cronfeydd wrth Gefn yn y Flwyddyn Flaenorol | 3.31 | - | - |
| Costau Unwaith ac am Byth ac arian wrth gefn ar gyfer digwyddiadau annisgwyl yn syrthio allan o'r gyllideb | (2.12) | (0.64) | (0.34) |
| Pwysau Cyllidebol Newydd | 0.66 | - | - |
| Drifft Incrementaidd ac Addasiadau Cyflog | 0.32 | 0.07 | 0.07 |
| Chwyddiant Cyflogau | 0.74 | 0.76 | 1.15 |
| Prif Gontractau'r Cyngor - Chwyddiant a Newid o ran Cyfaint | 0.38 | 0.63 | 0.73 |
| Newidiadau mewn Gwasanaethau sy'n cael eu harwain gan y galw amdanynt | 0.14 | 0.09 | 0.05 |
| Chwyddiant heb fod yn Gyflog | 0.58 | 0.94 | 1.26 |
| Codiadau Incwm | (0.61) | (0.99) | (1.12) |
| Costau Ariannu Cyfalaf | 0.50 | (0.02) | (0.08) |
| **Amcangyfrif o'r Gyllideb Ddisymud** | **127.94** | **128.78** | **130.50** |

**8.2.** Mae'r gyllideb ddisymyd a amcangyfrifwyd yn cynrychioli cynnydd arian parod o 5.2% dros y cyfnod 3 blynedd.

**8.3.** Mae mwy o fanylion am y gyllideb ddisymyd a'r rhagdybiaethau sy'n cefnogi'r cynllun ynghlwm yn Atodiad 1 a 2.

## 9. CYLLID ALLANOL CYFUN A'R DRETH GYNGOR

**9.1.** Mae'r gyllideb ddisymyd a ragdybir yn cael ei hariannu o'r cyllid allanol cyfun a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru (y Grant Cynnal Refeniw a'r Gronfa ar gyfer Trethi Annomestig Cenedlaethol) ac o'r Dreth Gyngor a godir yn lleol.

**9.2.** Cafwyd rhai arwyddion canologol yn Adolygiad Gwariant Cynhwysfawr y Llywodraeth ym mis Tachwedd na fyddai lefel y cyllid y byddai Cymru yn ei dderbyn yn gostwng mor gyflym ag yn y blynyddoedd blaenorol. Ni chafwyd manylion yn setliad 2016/17 ynghylch sut y byddai hynny'n trosi i'r setliad i Lywodraeth Leol a bennir gan Lywodraeth Cymru a bydd llawer yn dibynnu ar y cyllid a gaiff y GIG yng Nghymru.

**9.3.** Ers mis Tachwedd, cafwyd 2 o newidiadau mawr a fydd yn effeithio ar gynlluniau gwariant Llywodraeth y DU. Yn gyntaf, mae'r y ffigurau twf a amcangyfrifwyd ar gyfer yr economi yn annhebygol o gael eu cyflawni ac mae canlyniadau'r refferendwm UE wedi ychwanegu at yr ansicrwydd ynghylch perfformiad yr economi yn y dyfodol. Mae'r ansicrwydd hwn wedi arwain at yr ail newid h.y. mae Llywodraeth y DU bellach wedi gwneud i ffwrdd â'r bwriad i gael gwarged yn y gyllideb erbyn 2020. Gall hyn olygu y bydd y llywodraeth yn gwario mwy trwy fenthyca mwy. Mae'n debyg mai dim ond pontio'r bwlch ariannu a achosir gan dwf economaidd wnaiff hyn ond gallai olygu bod y llywodraeth yn gwario mwy gyda hynny'n golygu setliad gwell i Gymru. Bydd y sefyllfa yn dod yn gliriach unwaith y bydd y setliad dros dro ar gyfer 2017/18 yn cael ei gyhoeddi ym mis Hydref 2016.

**9.4.** Cynhaliodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) rywfaint o waith modelu ar yr effaith debygol ar y setliad i Lywodraeth Leol dros y tair blynedd nesaf yn seiliedig ar lefel y warchodaeth a rydd Llywodraeth Cymru i'r gyllideb Iechyd. Gweler canlyniad yr ymarfer modelu yn Nhabl 7 isod:-

**Tabl 7**
**Newidiadau posibl mewn yn y CAC - 2017/18 i 2019/20**

| | Diogelwch Gwan i'r Gyllideb Iechyd | Diogelwch Cymedrol i'r Gyllideb Iechyd | Diogelwch cryf i'r Gyllideb Iechyd |
|---|---|---|---|
| **2017/18** | + 0.2% | - 0.6% | - 2.0% |
| **2018/19** | + 1.5% | - 1.0% | - 2.6% |
| **2019/20** | + 1.5% | - 0.9% | - 2.7% |

**9.5.** At ddibenion y Cynllun Ariannol ar gyfer y Tymor Canolig, cymerwyd yn ganiataol y byddai 0.6% o ostyngiad yn y CAC yn 2017/18 ac yna ostyngiad o 2.6% a 2.7% yn 2018/19 a 2019/20 yn y drefn honno. Mae newid o 1% yn y CAC yn cyfateb i tua £900,000 mewn termau ariannol.

**9.6.** Dros y 3 blynedd diwethaf, mae lefel y cynnydd yn y Dreth Gyngor wedi amrywio rhwng 3.5% a 4.5%, sydd yn uwch na chwyddiant ond bu'n rhaid gwneud hynny er mwyn gwneud i fyny'n rhannol am y gostyngiad yn y CAC. Er bod hwn yn benderfyniad i'r Aelodau, bydd angen parhau gyda'r polisi o gynnydd uwch na chwyddiant yn y Dreth Gyngor oherwydd y posibilrwydd y bydd y CAC yn gostwng. At ddibenion y cynllun, caniatawyd ar gyfer cynnydd tybiedig o 3% yn 2017/18 gyda chynnydd pellach o 4% yn y ddwy flynedd ddilynol.

**9.7.** Yn seiliedig ar y rhagdybiaethau hyn, dangosir yr amcangyfrif o gyfanswm y cyllid yn Nhabl 8 isod:-

**Tabl 8**
**Amcangyfrif o Gyllid y Cyngor - 2017/18 i 2019/20**

| | 2017/18<br>£ m | 2018/19<br>£ m | 2019/20<br>£ m |
|---|---|---|---|
| CAC a ddygwyd ymlaen | 91.928 | 91.376 | 89.000 |
| Y Dreth Gyngor a ddygwyd ymlaen | 32.109 | 33.072 | 34.395 |
| **Cyfanswm y Cyllid a ddygwyd Ymlaen** | **124.037** | **124.448** | **123.395** |
| Newid yn y CAC yn ystod y flwyddyn | (0.552) | (2.376) | (2.403) |
| Newid yn y Dreth Gyngor yn ystod y flwyddyn | 0.963 | 1.323 | 1.376 |
| **Cyfanswm y Cyllid a Gariwyd Drosodd** | **124.448** | **123.395** | **122.368** |

## 10. PONTIO'R BWLCH CYLLIDO

**10.1.** Y bwlch cyllido yw'r gwahaniaeth rhwng y gyllideb ddisymyd a amcangyfrifwyd (Tabl 6) a'r amcangyfrif o'r cyllid sydd ar gael (Tabl 8). Ceir crynodeb o hyn yn Nhabl 9 isod: -

**Tabl 9**
**Amcangyfrif o’r bwlch cyllido**

| | 2017/18<br>£ m | 2018/19<br>£ m | 2019/20<br>£ m |
|---|---|---|---|
| Amcangyfrif o’r Gyllideb Ddisymyd | 127.94 | 128.78 | 130.50 |
| Arbedion a Ddygwyd Ymlaen | - | (3.49) | (5.38) |
| **Y Gyllideb Ddisymyd Ddiwygiedig** | **127.94** | **125.29** | **125.12** |
| Amcangyfrif o’r Cyllid | (124.45) | (123.40) | 122.37 |
| **Arbedion Blynyddol Angenrheidiol** | **3.49** | **1.89** | **2.75** |
| **% yr Arbedion Angenrheidiol** | **2.7%** | **1.5%** | **2.2%** |

Noder - Mae'r arbedion a ddygwyd ymlaen yn ffigwr cronnus o arbedion angenrheidiol y flwyddyn (blynyddoedd) blaenorol

**10.2.** Mewn gwirionedd, mae nifer o gyllidebau yn y gyllideb ddisymyd yn rhai na fedrir eu lleihau neu sy’n anodd iawn i’w lleihau, gan gynnwys: -

Ardoll Awdurdod Tân - £3.19m yn 2016/17;
Costau Ariannu Cyfalaf - £8.45m yn 2016/17;
Cynllun Gostyngiadau’r Dreth Gyngor - £5.80m yn 2016/17;
Arian wrth Gefn ar gyfer Digwyddiadau Annisgwyl - £2.04m yn 2016/17 (mae gostyngiadau eisoes wedi eu cytuno yn y cynllun).

Felly, bydd angen dod o hyd i'r arbedion gofynnol o £8.13m dros 3 blynedd o gyllidebau gwasanaethau - cyfanswm o £104.5m (cyllideb 2016/17). Mae hyn yn cyfateb i arbedion o 7.8% dros 3 blynedd.

**10.3.** Roedd strategaeth effeithlonrwydd y Cyngor yn y blynyddoedd diwethaf yn ymwneud â lleihau cyllidebau gwasanaeth drwy ofyn i’r gwasanaethau adolygu eu cyllidebau presennol ac i leihau'r gyllideb net gyffredinol drwy: -

Ddileu penawdau cyllidebol a oedd heb eu defnyddio;
Lleihau costau staffio drwy ailstrwythuro a diswyddiadau gwirfoddol;
Cynyddu ffioedd a thaliadau yn uwch na'r gyfradd chwyddiant;
Nodi ffynonellau newydd o incwm;
Lleihau costau gweinyddu drwy fuddsoddi mewn technoleg gwybodaeth;
Lleihau costau drwy gaffael nwyddau a gwasanaethau’n fwy effeithiol;
Rhoi'r gorau i roi grantiau i'r trydydd sector / sector gwirfoddol;
Gostwng yr arian a fuddsoddwyd yn y gwaith o gynnal a chadw asedau;
Rhesymoli Swyddfeydd a, thrwy hynny, leihau costau swyddfa.

**10.4.** Mae'r strategaeth wedi bod yn llwyddiannus ac mae’r Cyngor wedi gallu gosod cyllideb gytbwys bob blwyddyn heb orfod dibynnu ar y defnydd o falansau cyffredinol ac, yn ogystal, mae wedi llwyddo i sicrhau'r arbedion arfaethedig ac mae’r ffaith bod y Cyngor bron yn ddieithriad wedi tanwario ar ei gyllideb refeniw bob blwyddyn yn tystio i hynny. Llwyddwyd i wneud hyn tra'n parhau i warchod y cyllidebau ar gyfer Ysgolion a Gwasanaethau Cymdeithasol.

**10.5.** Fodd bynnag, wrth i ni symud i’r tair blynedd nesaf, mae’r sgôp i sicrhau lefel angenrheidiol o arbedion drwy'r dulliau hyn yn unig llawer llai ac mae'r Cyngor bellach yn newid ei strategaeth er mwyn parhau i gyflawni'r arbedion gofynnol. Mae'r dulliau sy'n cael eu hystyried yn cynnwys: -

Defnyddio balansau cyffredinol y Cyngor i ganiatáu ar gyfer buddsoddiad pellach mewn prosesau busnes a thechnoleg gwybodaeth. Bydd y buddsoddiad yn cynhyrchu arbedion refeniw yn y dyfodol;

Ceisio trosglwyddo’r ddarpariaeth o rai gwasanaethau i gyrff ac eithrio’r Cyngor, megis Cynghorau Tref a Chymuned, y trydydd sector, grwpiau cymunedol gwirfoddol neu unigolion preifat;
Ymchwilio i ddulliau amgen o ddarparu'r gwasanaeth, gan gynnwys creu cyrff eraill a reolir gan y Cyngor i ddarparu gwasanaethau - ymddiriedolaethau, cwmnïau masnachol awdurdodau lleol;
Rhoi'r gorau i ddarparu rhai gwasanaethau anstatudol.

**10.6.** Erbyn hyn, mae nifer o'r gwasanaethau corfforaethol llai wedi cael eu gostwng i bwynt lle nad oes modd torri mwy ar eu cyllidebau oherwydd na fydd modd iddynt gyflawni'r lefel ofynnol o wasanaeth. O ganlyniad, bydd disgwyl yn awr i’r gwasanaethau hynny sydd wedi cael eu gwarchod rhag toriadau yn y blynyddoedd diwethaf, gyfrannu tuag at y targedau arbedion.

**10.7.** Mae cyllideb refeniw pob gwasanaeth wedi cael ei hadolygu gan Aelodau ac Uwch Swyddogion ac, o ganlyniad, nodwyd tua £1.9m orbedion pellach yn 2017/18 a £2.7m dros y tair blynedd nesaf. Fodd bynnag, mae hyn yn is o dipyn na’r arbedion y gofynnwyd amdanynt a bydd gwaith pellach yn cael ei wneud dros y misoedd nesaf i sicrhau’r lefel o arbedion sydd eu hangen.

**10.8.** Mae gwaith eisoes wedi cychwyn i adolygu'r ffordd y mae rhai gwasanaethau’n cael eu darparu (Gwasanaethau Ieuenctid, Llyfrgelloedd, Gofal Cymdeithasol Oedolion) ac mae angen gwaith pellach i drosi’r argymhellion a wnaed yn newidiadau o fewn yr amserlen ofynnol.

## 11. CASGLIADAU

**11.1.** Mae ariannu Llywodraeth Leol Cymru yn y dyfodol yn ansicr iawn ar hyn o bryd ac mae rhagamcanu yn gywir y lefelau cyllido yn y dyfodol yn anodd.

**11.2.** Er mwyn sicrhau’r lefel ofynnol o arbedion yn y fydol, bydd angen i’r Cyngor wneud penderfyniadau mwy anodd, gan gynnwys ystyried rhoi'r gorau i ddarparu gwasanaethau anstatudol, cau cyfleusterau (ysgolion, cartrefi preswyl, llyfrgelloedd) a pharhau i gynyddu’r cyfraniad y mae'n rhaid i drigolion Ynys Môn ei wneud tuag at y gwasanaethau y maent yn eu derbyn, a hynny drwy ffioedd a thaliadau uwch a biliau’r Dreth Gyngor uwch. Efallai na fydd y penderfyniadau yn cael eu cefnogi'n llawn gan yr Aelodau, ac efallai y byddant yn amhoblogaidd gyda threthdalwyr Ynys Môn, ond mae angen gwneud y penderfyniadau hyn er mwyn sicrhau hyfywedd ariannol y Cyngor yn y dyfodol.

# STRATEGAETH ARIANNOL TYMOR CANOL - TERFYNOL

**ATODIAD 2**

| Gwariant Refeniw | 2016/17 £'000 | 2017/18 £'000 | 2018/19 £'000 | 2019/20 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| **Cyllidebau a Ddirprwyir i Ysgolion** | | | | |
| Tâl Athrawon | 20,407,410 | 20,611,484 | 20,817,599 | 21,129,863 |
| Tâl heb fod yn Athrawon | 3,522,095 | 3,304,816 | 3,337,864 | 3,387,932 |
| Yswiriant Gwladol | 2,571,580 | 2,597,296 | 2,623,269 | 2,662,618 |
| Pensiynau Athrawon | 3,271,500 | 3,304,215 | 3,337,257 | 3,387,316 |
| Pensiynau heb fod yn Athrawon | 608,200 | 614,282 | 620,425 | 629,731 |
| Glanhau | 1,327,210 | 936,482 | 955,212 | 978,137 |
| Ynni | 1,181,200 | 1,133,952 | 1,090,862 | 1,051,591 |
| TAC | 742,730 | 750,157 | 765,160 | 783,524 |
| Gwariant arall heb fod ar staff | 4,789,670 | 4,837,567 | 4,934,318 | 5,052,742 |
| Addasiad Rhifau Disgyblion | - | 182,700 | 245,000 | 263,900 |
| Ariennir gan Arian Wrth Gefn Addysg | - 400,000 | - | - | - |
| **Cyfanswm Cyllidebau a Ddirprwyir i Ysgolion** | **38,021,595** | **38,272,951** | **38,726,966** | **39,327,354** |
| **Costau Staff heb fod yn rhai Ysgolion** | | | | |
| Tâl Athrawon | 1,042,660 | 1,053,087 | 1,063,617 | 1,079,572 |
| Tâl heb fod yn Athrawon | 32,859,960 | 33,024,031 | 33,404,772 | 33,956,593 |
| Yswiriant Gwladol | 2,914,300 | 2,973,021 | 3,007,802 | 3,057,994 |
| Pensiynau Athrawon | 143,470 | 144,905 | 146,354 | 148,549 |
| Cyfraniadau Blwydd-dal Pensiwn | 6,573,890 | 6,698,554 | 6,776,397 | 6,888,954 |
| Lwfans Car | 677,080 | 677,080 | 677,080 | 683,851 |
| Costau Haensyddol Pensiwn | 1,128,370 | 1,139,654 | 1,151,050 | 1,168,316 |
| Costau Staffio Arall | 850,230 | 858,732 | 875,907 | 896,929 |
| Ardoll Prentisiaeth | - | 274,967 | 278,119 | 282,770 |
| Ariennir gan Arian Wrth Gefn Arfarnu Swyddi | - 2,916,390 | - | - | - |
| **Cyfanswm Costau Staffio** | **43,273,570** | **46,844,031** | **47,381,098** | **48,163,527** |
| **Costau Unwaith-ac-am-byth** | | | | |
| Etholiadau'r Cyngor Sir | - | 150,000 | - | - |
| Tîm Trothwy Gofal | | 240,000 | 240,000 | - |
| **Cyfanswm Costau Unwaith-ac-am-byth** | **-** | **390,000** | **240,000** | **-** |
| **Prif Gontractau'r Cyngor** | | | | |
| Casglu Gwastraff | 3,077,540 | 3,139,091 | 3,233,264 | 3,343,194 |
| Gwaredu Gwastraff | 949,980 | 959,480 | 969,075 | 972,951 |
| Treth Tirlenwi | 1,397,050 | 1,397,050 | 1,397,050 | 1,388,668 |
| Cynnal a Chadw Priffyrdd | 4,191,890 | 4,275,728 | 4,404,000 | 4,553,736 |
| Prydau Ysgol | 2,044,280 | 2,085,166 | 2,147,721 | 2,220,743 |
| Cludiant Ysgol | 2,304,330 | 2,350,417 | 2,420,929 | 2,503,241 |
| Contractau Bws Gwasanaeth Cyhoeddus | 1,908,750 | 1,946,925 | 2,005,333 | 2,073,514 |
| Lleoliadau Preswyl | 6,851,150 | 6,919,662 | 7,058,055 | 7,227,448 |
| Contractau Gofal Cartref | 3,301,850 | 3,334,869 | 3,401,566 | 3,483,203 |
| **Cyfanswm Costau Prif Gontractau'r Cyngor** | **26,026,820** | **26,408,386** | **27,036,991** | **27,766,698** |
| **Gwasanaethau Arall a Arweinir gan y Galw** | | | | |
| Lleoliadau Plant | 2,310,860 | 2,253,089 | 2,253,089 | 2,250,835 |
| Lleoliadau Ysgol All-Sirol | 1,047,760 | 1,058,238 | 1,079,402 | 1,105,308 |
| Digartrefedd | 259,580 | 262,176 | 267,419 | 273,837 |
| **Cyfanswm Gwasanaethau a Arweinir gan y Galw** | **3,618,200** | **3,573,502** | **3,599,910** | **3,629,981** |
| **Gwariant Arall y Cyngor** | | | | |
| TAC | 946,130 | 955,591 | 974,703 | 998,096 |
| Ynni | 1,265,730 | 1,215,101 | 1,168,927 | 1,126,846 |
| Costau Safleoedd heb fod yn Ysgolion | 3,166,810 | 3,198,478 | 3,262,448 | 3,340,746 |
| Costau Trafnidiaeth | 290,010 | 292,910 | 298,768 | 305,939 |
| Cyflenwadau a Gwasanaethau | 24,173,575 | 24,415,311 | 24,903,617 | 25,501,304 |
| Lwfansau Aelodau | 682,200 | 689,022 | 695,912 | 706,351 |
| Ardoll Gwasanaeth Tân | 3,190,810 | 3,318,442 | 3,384,811 | 3,466,047 |
| Ardollau Arall | 3,370 | 3,370 | 3,370 | 3,370 |
| Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor | 5,800,370 | 5,974,381 | 6,213,356 | 6,586,158 |
| Ad-daliad CRT | - 621,950 | - 628,170 | - 640,733 | - 656,110 |
| Cronfeydd wrth gefn ar gyfer digwyddiadau annisgwyl | 2,038,927 | 974,576 | 497,328 | 406,864 |
| Costau Cyllido Cyfalaf - DRI | 3,843,422 | 4,265,859 | 4,180,017 | 4,178,857 |
| Costau Cyllido Cyfalaf - Llog | 4,608,535 | 4,683,850 | 4,750,025 | 4,667,991 |
| **Cyfanswm Gwariant Arall y Cyngor** | **49,387,939** | **49,358,723** | **49,692,550** | **50,632,457** |
| **CYFANSWM GWARIANT GROS** | **160,328,124** | **164,847,592** | **166,677,514** | **169,520,016** |
| **Incwm** | | | | |
| Grantiau/ad-daliadau Cyrff Cyhoeddus | - 21,594,520 | - 21,810,465 | - 22,246,675 | - 22,780,595 |
| Incwm Statudol | - 2,251,710 | - 2,274,227 | - 2,319,712 | - 2,375,385 |
| Incwm nad yw'n Statudol | - 12,444,440 | - 12,817,773 | - 13,330,484 | - 13,863,703 |
| **Cyfanswm Incwm** | **- 36,290,670** | **- 36,902,466** | **- 37,896,870** | **- 39,019,683** |
| **CYFANSWM GWARIANT NET DIWYGIEDIG** | **124,037,454** | **127,945,127** | **128,780,644** | **130,500,333** |
| Arbedion Ddygwyd ymlaen o'r Flwyddyn Flaenorol | - | - | - 3,495,959 | - 5,384,357 |
| **CYFANSWM GWARIANT NET DIWYGIEDIG** | **124,037,454** | **127,945,127** | **125,284,685** | **125,115,976** |

| Gwariant Refeniw | 2016/17 £'000 | 2017/18 £'000 | | 2018/19 £'000 | 2019/20 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ariennir gan :** | | | | | |
| Grant Cynnal Refeniw | - 70,619,353 | - 70,195,637 | - | 68,370,550 | - 66,524,545 |
| Trethi Annomestic | - 21,308,694 | - 21,180,842 | - | 20,630,140 | - 20,073,126 |
| Y Dreth Gyngor | - 32,109,407 | - 33,072,689 | - | 34,395,597 | - 35,771,421 |
| **CYFANSWM CYLLIDEB** | **- 124,037,454** | **- 124,449,168** | **-** | **123,396,287** | **- 122,369,092** |
| **Arbedion eu Hangen** | **-** | **3,495,959** | | **1,888,398** | **2,746,884** |

**ATODIAD 3**

| | Rhagdybiaethau Terfynol | | |
|---|---|---|---|
| | **2017/18** | **2018/19** | **2019/20** |
| Dyfarniad Tâl Athrawon | 1.0% | 1.0% | 1.5% |
| Pensiwn Athrawon | 0.0% | 0.0% | 0.0% |
| Cyfraddau Yswiriant Gwladol | 0.0% | 0.0% | 0.0% |
| Dyfarniad Tâl heb fod yn Athrawon | 1.0% | 1.0% | 1.5% |
| Pensiwn heb fod yn Athrawon | 0.0% | 0.0% | 0.0% |
| Addasiad Trosiant Staff | -1.5% | 0.0% | 0.0% |
| Chwyddiant Lwfans Car | 0.0% | 0.0% | 1.0% |
| Mynegai Prisiau Defnyddwyr | 1.0% | 2.0% | 2.2% |
| Mynegai Prisiau Manwerthu | 2.0% | 3.0% | 3.2% |
| Chwyddiant Ynni | 1.0% | 1.2% | 1.4% |
| Defnydd Ynni | -5.0% | -5.0% | -5.0% |
| Incwm nad yw'n statudol | 3.0% | 4.0% | 4.0% |
| Llwyth Achosion Lleoliadau Plant | -3.5% | -2.0% | -2.5% |
| Lleoliadau Ysgol All-sirol | 0.0% | 0.0% | 0.0% |
| Llwyth Achosion Digartrefedd | 0.0% | 0.0% | 0.0% |
| Tunelledd Gwaredu Gwastraff | -1.0% | -2.0% | -3.0% |
| Llwyth Achosion Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor | 0.0% | 0.0% | 2.0% |
| Cynnydd Cyfraddau Llog | 0.0% | 0.5% | 1.0% |
| Ardoll Tân | 4.0% | 1.2% | 1.4% |
| Ardollau Eraill | 0.0% | 0.0% | 0.0% |
| Rhagamcanion Cyllid Allanol Cyfun | -0.6% | -2.6% | -2.7% |
| Cynnydd yn y Dreth Gyngor | 3.0% | 4.0% | 4.0% |
| Casglu Gwastraff | 2.0% | 3.0% | 3.2% |
| Gwaredu Gwastraff | 2.0% | 3.0% | 3.2% |
| Treth Tirlenwi | 1.0% | 2.0% | 2.2% |
| Cynnal a Chadw Priffyrdd | 2.0% | 3.0% | 3.2% |
| Prydau Ysgol | 2.0% | 3.0% | 3.2% |
| Cludiant Ysgol | 2.0% | 3.0% | 3.2% |
| Contractau Bws Gwasanaeth Cyhoeddus | 2.0% | 3.0% | 3.2% |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **Dyddiad:** | **19 MEDI 2016** |
| **Pwnc:** | **MONITRO'R GYLLIDEB REFENIW, CHWARTER 1 2016/17** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Y CYNGHORYDD H E JONES** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **MARC JONES** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | **BETHAN HUGHES OWEN/CLARIE KILMASZEWSKI**<br>02148 752663<br>BethanOwen@ynysmon.gov.uk |
| **Aelodau Lleol:** | **d/b** |

**A - Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

**1.** Ym mis Mawrth 2016, gosododd y Cyngor gyllideb net ar gyfer 2016/17 gyda gwariant net y gwasanaethau, swm o £124.037m i gael ei gyllido o incwm o'r Dreth Gyngor, Trethi Cenedlaethol Annomestig a grantiau cyffredinol.

**2.** Roedd angen arbedion o £3.46m ar gyfer y gyllideb am 2016/17. Mae'r rhain wedi cael eu hymgorffori yng nghyllidebau unigol y gwasanaethau a chaiff llwyddiant neu fethiant i'w cyflawni eu hadlewyrchu yn y tan/gorwariant a ddangosir.

**3.** Mae'r adroddiad hwn yn nodi perfformiad ariannol Gwasanaethau'r Cyngor am y chwarter cyntaf o'r flwyddyn ariannol sy'n cynnwys y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2016 a 30 Mehefin 2016. Ceir crynodeb hefyd o'r sefyllfa a ragamcenir am y flwyddyn gyfan.

**4.** Y sefyllfa ariannol gyffredinol a ragamcenir ar gyfer 2016/17, gan gynnwys cyllid corfforaethol a chronfa'r Dreth Gyngor, yw gorwariant o £366k. Mae hyn cyfateb i 0.3% o gyllideb net y Cyngor ar gyfer 2016/17.

**5.** Argymhellir y dylid:-

**(i)** Nodi'r sefyllfa yng nghyswllt y perfformiad ariannol hyd yma;
**(ii)** Bod unrhyw incwm gweddilliol o Ddatblygiadau Cynllunio Mawr yn cael ei drosglwyddo i gronfa wrth gefn glustnodedig ar ddiwedd y flwyddyn er mwyn cyllido cefnogaeth yr Awdurdod i ddatblygiadau mawr yn y dyfodol.

**B - Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?**

d/b

**C - Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?**

Mae'r mater wedi'i ddirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith.

**CH - A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?**

Ydyw

**D - A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?**

Ydyw

| **DD - Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | 1 Medi 2016 |
| **2** | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | d/b – Swyddog Adran 151 yw awdur yr adroddiad hwn |
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | I'w gadarnhau |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| **5** | **Eiddo** | |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| **7** | **Sgriwtini** | |
| **8** | **Aelodau Lleol** | |
| **9** | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | |
| **E - Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | | |
| **1** | **Economaidd** | |
| **2** | **Gwrthdlodi** | |
| **3** | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| **4** | **Amgylcheddol** | |
| **5** | **Cydraddoldebau** | |
| **6** | **Cytundebau Canlyniad** | |
| **7** | **Arall** | |

**F - Atodiadau:**

- Atodiad A – Adroddiad Monitro'r Gyllideb Refeniw – Chwarter 1, 2016/17
- Atodiad B – Tabl o'r Alldro Refeniw a ragamcenir ar gyfer 2016/17
- Atodiad C – Crynodeb o'r Cyllidebau Wrth Gefn 2016/17

**FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):**

- Cyllideb Refeniw 2016/17 (fel y cafodd ei hargymell gan y Pwyllgor hwn ar 1 Mawrth 2016 a'i mabwysiadu gan y Cyngor Sir ar 9 Mawrth 2016).

**ATODIAD A**

**MONITRO'R GYLLIDEB REFENIW – CHWARTER 1 2016/17**

## 1. Balans Cyffredinol – Sefyllfa Gychwynnol

**1.1** Roedd yr alldro dros dro ar gyfer 2015/16 wedi arwain at falansau cyffredinol o £8.212m ar ddechrau'r flwyddyn ariannol bresennol, sefyllfa iachach na'r disgwyl. Mae £1m o hwn wedi'i glustnodi i gronfa wrth gefn ar gyfer prosiect gwella a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Gwaith ar 1 Mawrth 2016. Mae hyn yn gadael balans o £7.412m. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi nad yw'r ffigwr hwn wedi'i archwilio ac y gallai newid yn dilyn yr archwiliad allanol. Disgwylir y bydd yr adroddiad archwilio terfynol wedi'i gwblhau erbyn 30 Medi 2016.

## 2. Rhagamcan o Berfformiad Ariannol yn ôl Gwasanaeth

**2.1** Mae manylion am berfformiad ariannol yn ôl gwasanaeth am y cyfnod a'r sefyllfa alldro a ragamcenir i bob gwasanaeth i'w gweld yn yr Atodiad hwn. Rhagwelir gorwariant o £125k ar wasanaethau ar 31 Mawrth 2017. Yn ychwanegol, rhagwelir gorwariant o £110k ar Gyllid Corfforaethol a rhagwelir diffyg o £131k ar gasglu'r Dreth Gyngor. Cyfanswm y rhagamcanion refeniw ar gyfer 2016/17 yw gorwariant o £366k. Mae'r tabl isod yn crynhoi'r amrywiadau sylweddol (£100k neu uwch).

| **Crynodeb o Amrywiadau a Ragamcenir ar 31 Mawrth 2017 yn seiliedig ar wybodaeth ariannol fel yr oedd ar 30 Mehefin 2016** | |
|---|---|
| | **(Tan) / Gorwariant £000** |
| Gofal Cymdeithasol i Blant | 270 |
| Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd | (110) |
| Gwastraff | 145 |
| Corfforaethol – Gwasanaethau Eraill | (167) |
| Adnoddau – ac eithrio budd-daliadau a ganiatawyd | 131 |
| Adnoddau – budd-daliadau a ganiatawyd | (228) |
| Cyllid Corfforaethol | 110 |
| Casglu'r Dreth Cyngor | 131 |
| Arall (cyfanswm yr amrywiaethau'n llai na £100k) | 84 |
| **Gor / (Tan)wariant net ar wasanaethau** | **366** |

## 3. Eglurhad o'r Prif Amrywiadau

### 3.1 Dysgu Gydol Oes

#### 3.1.1 Addysg Ganolog

**3.1.1.1** Cafwyd tanwariant o £20k (1.9%) ar ddiwedd chwarter 1. Y rhagolygon ar gyfer diwedd y flwyddyn yw tanwariant o £62k (llai na 1%). Mae'r tanwariant a ragwelir i'w briodoli'n bennaf i nifer o fân achosion o orwariant a thanwariant.

**3.1.1.2** Mae cyllidebau unigol lle rhagwelir y bydd gorwariant erbyn diwedd y flwyddyn ariannol yn cynnwys: gorwariant o £60k ar y cyfraniad i Cynnal a £60k ar gludiant ysgol. Mae cyllidebau lle rhagwelir tanwariant sylweddol yn cynnwys tanwariant o £80k ar wasanaethau ieuenctid a £125k ar gyfer codi am gostau gweinyddu a staffio mewn perthynas â grantiau. Bydd Swyddogion yn parhau i fonitro'r cyllidebau a'r gweithgareddau yn rheolaidd er mwyn sicrhau y bydd unrhyw amrywiad sylweddol o'r rhagamcan hwn yn cael ei nodi ac y tynnir sylw at y risgiau neu'r cyfleoedd perthnasol cyn gynted â phosibl.

**3.1.2 Diwylliant**

**3.1.2.1** Cafwyd tanwariant o £30k (8.8%) yn y gwasanaeth hwn yn ystod y cyfnod, gyda'r alldro a ragwelir ar gyfer y flwyddyn yn danwariant o £46k. Disgwylir y bydd Amgueddfeydd ac Orielau yn tanwario £10k a disgwylir y bydd Gwasanaethau Llyfrgelloedd yn tanwario £30k.

**3.2 Gofal Cymdeithasol i Oedolion**

**3.2.1** Cafwyd tanwariant o £77k (1.4%) yn y gwasanaeth am y cyfnod, gyda'r alldro a ragwelir ar gyfer y flwyddyn gyfan yn orwariant o £16k (llai na 1%).

**3.2.2** Mae'r elfennau o amrywiad yn yr alldro a ragwelir fel a ganlyn:-

- Gwasanaethau ar gyfer yr Henoed: rhagwelir gorwariant o £15k;
- Anableddau Corfforol (AC): rhagwelir gorwariant o £31k;
- Anableddau Dysgu (AD): rhagwelir gorwariant o £275k;
- Iechyd Meddwl (IM): rhagwelir gorwariant o £206k;
- Yr Uned Ddarparu: rhagwelir tanwariant o £473k; a
- Rheolaeth a Chefnogaeth: rhagwelir tanwariant o £38k.

**3.2.3** Mae'r pwysau cyllidebol mwyaf sylweddol i'w gweld yn gwasanaethau anableddau dysgu ac iechyd meddwl.

**3.2.4** Gan fod 59% o gyllideb y Gwasanaeth yn dibynnu ar y galw amdano, mae gwaith yn mynd rhagddo'n barhaus er mwyn ceisio rhagweld beth fydd costau'r gyllideb hon yn y dyfodol. Mae'r rhagamcan ar gyfer diwedd y flwyddyn a wneir ar ddiwedd bob mis yn seiliedig ar y wybodaeth ddiweddaraf am bob lleoliad i oedolion. Yn wir, gall yr amgylchiadau newid o un wythnos i'r llall. Mae'r ansefydlogrwydd hwn yn ei gwneud hi'n anodd iawn rhagweld beth fydd y sefyllfa ar ddiwedd blwyddyn a gall olygu newidiadau mawr o un cyfnod i'r llall.

**3.2.5** Er mwyn ceisio rheoli gorwariant, mae dyraniad lleoliadau'n cael ei reoli'n ofalus drwy banelau lleoli wythnosol. Bydd uwch aelodau o staff yn sgriwtineiddio lleoliadau arfaethedig, yn dylanwadu ar ofal ac yn ceisio sicrhau bod y canlyniadau ar gyfer y defnyddwyr gwasanaeth yn cael eu cyflawni a bod y gwasanaeth mwyaf effeithiol posibl yn cael ei argymell ar gyfer unigolion. Lle mae cyfleoedd i gynnig opsiynau gwasanaeth mwy cost effeithiol, fe wneir hynny. Yn gyffredinol, ychydig iawn o wasanaeth lefel isel a gynigir. Mae'n bosibl y byddai ceisio cyfyngu mynediad defnyddwyr gwasaneth cymwys i wasanaethau gofal preswyl, nyrsio neu ofal dydd yn golygu bod yr adran yn torri ei dyletswyddau statudol. Pan mae meysydd nad ydynt yn darparu gwasanaethau statudol yn uniongyrchol yn gofyn am lenwi swyddi, bydd y ceisiadau hyn yn cael eu hystyried yn ofalus. Mae'n werth nodi fod y mwyafrif o swyddi yn swyddi darparu gwasanaeth mewn cartrefi gofal, canolfannau dydd neu rai sy'n darparu asesiadau neu'n trefnu mynediad at wasanaethau ar ffurf gwaith cymdeithasol, therapi galwedigaethol a swyddi derbynfa.

### 3.3 Gwasanaethau Plant

**3.3.1** Gwelwyd gorwariant o £14k yn y gwasanaeth (llai na 1%) yn ystod y cyfnod a rhagwelir y bydd gorwariant o £270k (3.6%) ar gyfer y flwyddyn gyfan. Mae hyn yn cynnwys rhagamcan o £297k o orwariant ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal.

**3.3.2** Mae'r rhagamcanion yn seiliedig ar: -

- rhagdybiaeth sefyllfa waethaf o'r galw/costau ar gyfer Plant Sy'n Derbyn Gofal yn seiliedig ar y costau gwasanaeth/galw/galw tebygol ar gyfer y dyfodol.
- rhagdybiaethau yn ymwneud â phenderfyniadau/datblygiadau mewn perthynas ag achosion. Nid yw'r rhain yn bethau y gellir eu rhagweld ac mae amgylchiadau unigol yn gallu, ac yn, newid.

Yn seiliedig ar y wybodaeth sydd ar gael ar hyn o bryd, a rhagdybiaethau'n ymwneud â phenderfyniadau/datblygiadau ynghylch achosion, mae rhagdybiaeth o'r sefyllfa orau bosibl wedi'i wneud.

Mae costau Plant Sy'n Derbyn Gofal yn dibynnu ar y galw ac yn gallu amrywio rhwng £3k a £10k yr wythnos ar gyfer gofal arbenigol.

**3.3.3** Mae'n rhaid i'r Awdurdod Lleol gwrdd â'r gost o ymyriadau Llys e.e. asesiadau preswyl llety â chymorth i rieni a phlant, cyswllt a oruchwylir ac asesiadau arbenigol eraill sydd hefyd yn rhai na ellir eu rhagweld ac a arweinir gan alw. Mae'r amlinell cyfraith cyhoeddus yn nodi bod angen i'r asesiadau hyn gael eu cynnal cyn yr achos sydd hefyd yn rhoi pwysau ar gyllidebau'r tîm.

**3.3.4** Yng Nghyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar 25 Gorffennaf 2016, cymeradwywyd rhyddhau cyllid ychwanegol i'r Gwasanaethau Plant er mwyn ariannu'r tîm Trothwy Gofal. Bydd y tîm hwn yn darparu ymagwedd ataliol tuag at sicrhau lles plant a lleihau nifer y plant sy'n derbyn gofal yn Ynys Môn. Mae £100k wedi'i glustnodi ar gyfer 2016/17 o'r arian wrth gefn a bydd £241k yn cael ei ychwanegu at gyllideb y gwasanaeth ar gyfer 2017/18 a 2018/19. Mae'r gwasanaeth yn disgwyl gweld mantais y prosiect hwn gydag osgoi costau o Chwarter 4 2016/17 ymlaen.

### 3.4 Tai (Cronfa'r Cyngor)

**3.4.1** Cafwyd tanwariant o £106k (24%) yn y gwasanaeth hwn yn ystod y cyfnod. Disgwylir y bydd gwariant y gwasanaeth o fewn y gyllideb ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Mae'r prif amrywiadau yn ymwneud â'r grantiau Cefnogi Pobl a'r gyllideb Digartrefedd. Bydd y gwariant Cefnogi Pobl yn cyd-fynd â'r gyllideb erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Mae'r gyllideb Digartrefedd yn cael ei harwain gan alw ac rydym ar hyn o bryd yn rhagweld y bydd gwariant yn unol â'r gyllideb erbyn diwedd y flwyddyn ariannol ond mae'n anodd rhagweld y gwariant yn fanwl gywir mor fuan â hyn.

### 3.5 Rheoleiddio a Datblygiad Economaidd

#### 3.5.1 Economaidd a Chymunedol (yn cynnwys Morwrol a Hamdden)

**3.5.1.1** Roedd y Gwasanaeth yn gyffredinol wedi tanwario £21k ar ddiwedd chwarter 1 (2.8%). Rhagwelir y bydd y gwasanaeth wedi gorwario £50k (2.5%) erbyn 31 Mawrth 2017.

**3.5.1.2** Rhagwelir y bydd elfen Datblygiad Economaidd y Gwasanaeth o fewn y gyllideb ar ddiwedd y flwyddyn.

**3.5.1.3** Disgwylir y bydd y gwasanaeth Morwrol wedi gwario o fewn ei gyllideb ar ddiwedd y flwyddyn. Ni ddisgwylir y bydd modd cyflawni targedau incwm ond gwneir yn iawn am hyn drwy danwario ar gyflenwadau a gwasanaethau.

**3.5.1.4** Rhagwelir gorwariant o £50k yn y gwasanaeth Hamdden ar gyfer diwedd y flwyddyn. Mae hyn yn cymryd i ystyriaeth y ffaith y bu'n rhaid cau Canolfan Hamdden Caergybi yn ystod cyfnod yr haf ar gyfer gwaith cynnal a chadw a gwaith atgyweirio hanfodol yn dilyn difrod storm yn ystod y flwyddyn ariannol diwethaf. Nid yw'n cynnwys unrhyw elfen o risg pellach sy'n gysylltiedig â thanwariant incwm.

**3.5.2 Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd**

**3.5.2.1** Roedd tanwariant o £120k (18.0%) yn y gwasanaeth hwn yn ystod y cyfnod a rhagwelir y bydd tanwariant o £110k (4.4%) erbyn diwedd y flwyddyn.

**3.5.2.2** Mae tanwariant yn y rhan fwyaf o'r cyllidebau yn Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd ac eithrio Planning Delivery Wales, Iechyd yr Amgylchedd a Safonau Masnach a fydd, fe dybir, yn gorwario rhyw ychydig. Rhagwelir y bydd y tanwariant mawr yn y gwasanaeth Rheoli Cynllunio (£100k). Mae'r tanwariant yn y maes hwn i'w briodoli i gynnydd yn yr incwm, tueddiad sy'n parhau o 2015/16. The Mae'r adain Datblygiadau Mawr hefyd â thanwariant o £100k oherwydd gwarged o ran incwm. Fodd bynnag, gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith drosglwyddo'r swm hwn i gronfa wrth gefn wedi ei chlustnodi er mwyn cefnogi gweithrediad datblygiadau mawr yn y dyfodol.

**3.5.2.3** Yn ystod y chwarter nesaf, bwriedir rhannu'r gyllideb Rheoli Cynllunio'n ddwy gyllideb ar wahân, y naill ar gyfer y gwaith rheoli cynllunio dydd i ddydd a'r llall ar gyfer y gwaith ar ddatblygiadau mawr. Bydd hyn yn rhoi gwell amcangyfrif o sefyllfa gyllidebol Rheoli Cynllunio ac yn golygu y bydd modd llunio cyllideb gywirach ar gyfer 2017/18.

**3.6 Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo**

**3.6.1 Priffyrdd**

**3.6.1.1** Cafwyd £152k (7.8%) o orwariant yn ystod y cyfnod hwn a rhagwelir y bydd £80k (1.3%) o orwariant erbyn diwedd y flwyddyn. Nid yw'r alldro a ragwelir yn cynnwys unrhyw ragamcan ar y Gyllideb Waith gan fod y gyllideb hon yn cael ei heffeithio gan ofynion cynnal a chadw dros y gaeaf ac unrhyw ddifrod gan stormydd.

**3.6.1.2** Mae'r gorwariant a ragwelir i'w briodoli'n bennaf i'r diffygion a ragamcenir mewn cyllidebau incwm yn y gwasanaeth Rheoli Cynnal a Chadw (£50k), incwm meysydd parcio (£25k) a gorwariant o £5k mewn perthynas â Rheoli Goleuadau.

**3.6.1.3** Mae'r gwasaneth yn parhau i i geisio lleihau'r gorwariant hwn a bydd diweddariad am y camau adferol a gymerwyd yn cael eu hadrodd yn ôl arnynt yn ystod Chwarter 2.

**3.6.2 Gwastraff**

**3.6.2.1** Roedd gorwariant o £317k (19.4%) yn y gwasanaeth gwastraff ar ddiwedd y Chwarter yma. Rhagwelir y bydd y gorwariant yn £145k ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Nid yw'r rhagamcan hwn yn cynnwys yr effaith a gaiff newid i wasanaethau casglu gwastraff pob tair wythnos o 1 Hydref 2016 a hynny oherwydd yr ansicrwydd ynghylch nifer y tunelli o wastraff fydd yn cael eu casglu. Bydd effaith hyn ar y gyllideb yn cael ei hasesu a'i hadrodd arni yn ystod y broses o fonitro'r gyllideb yn ystod Chwarter 3.

**3.6.2.2** Mae'r costau'n uwch na'r gyllideb ar gyfer Gorsaf Trosglwyddo Penhesgyn a hynny oherwydd costau asiantaeth a chostau trwsio a chynnal a chadw. Rhagwelir y bydd gorwariant o £60k erbyn diwedd y flwyddyn. Mae diffyg o ran yr incwm a gasglwyd o Safle Cynhyrchu Trydan Penhesgyn a rhagamcenir y bydd y swm £85k yn is na'r targed ar gyfer y flwyddyn ariannol.

**3.6.3 Eiddo**

**3.6.3.1** Cafwyd gorwariant o £22k (14.3%) yn y Gwasanaethau Eiddo yn ystod y chwarter a rhesymoli swyddfeydd, costau trydanwyr, plymwyr, gwaith trwsio a chynnal a chadw roes y pwysau mwyaf ar y gyllideb. Fodd bynnag, mae'r gwasanaeth yn cymryd camau i leihau'r gorwariant a rhagamcenir y bydd â chyllideb gytbwys erbyn 31 Mawrth 2017.

**3.7 Trawsnewid**

**3.7.1** Cafwyd gorwariant o £267k (34%) yn y swyddogaeth Trawsnewid yn ystod y cyfnod a bydd cyfran fawr ohono'n cael ei gyllido'n ddiweddarach yn y flwyddyn o gronfeydd wrth gefn clustnodedig ac o grantiau a ddaw â'r gorwariant yn ôl i gyllideb gytbwys. Bydd gorwariant o £100k yn TGCh yn cael ei wrthbwyso gan y tanwariant a ragwelir yn y Tîm Trawsnewid Corfforaethol (£50k) a Phartneriaeth Ynys Môn a Gwynedd (£50k).

**3.7.1.1** Mae cyllidebau'r swyddogaeth TGCh dan bwysau oherwydd y gweithgaredd sylweddol sy'n gysylltiedig â phrosiectau gweithio'n gallach. Yn ychwanegol at hyn, mae ailstrwythuriad o'r swyddogaeth yn rhoi pwysau ar y gyllideb oherwydd mae'r swyddogaeth angen strwythur ac adnoddau a fydd yn cwrdd ag anghenion y Cyngor a'r agenda gweithio'n gallach. O'r herwydd, mae'r swyddogaeth yn rhagweld gorwariant o £100k fel y crybwyllir uchod.

**3.7.1.2** Mae'r swyddogaeth AD yn rhagweld cyllideb gytbwys ar gyfer y flwyddyn ariannol.

**3.7.1.3** Mae'r swyddogaeth Trawsnewid Corfforaethol yn rhagweld tanwariant o £100k oherwydd tanwariant o £50k yn y Tîm Trawsnewid Corfforaethol oherwydd swyddi gweigion a rhagwelir y bydd tanwariant o £50k ym Mhartneriaeth Ynys Môn a Gwynedd.

**3.8 Adnoddau**

**3.8.1** Cafwyd gorwariant o £12k yn ystod y cyfnod o ran y budd-daliadau a ganiatawyd, gan gynnwys y Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor, fodd bynnag, rhagwelir y bydd tanwariant o £226k yn y swyddogaeth hon erbyn diwedd y flwyddyn ariannol oherwydd mae'r baich achosion cyfredol yn is na'r amcangyfrif gwreiddiol ar adeg gosod y gyllideb.

**3.8.2** Roedd gorwariant o £254k yng ngweddill cyllideb y Swyddogaeth Adnoddau erbyn diwedd y cyfnod. Rhagwelir y bydd gorwariant o £131k erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Mae'r prif bwysau cyllidebol yn ymwneud ag ymgynghoriaeth gyfrifo (£30k); ffioedd banc (£30k); gorwariant ar staffio yn yr adain Refeniw a Budd-daliadau (£25k); cefnogi meddalwedd, system arian parod a phwysau newydd (£40k) ac arbedion yn erbyn tendro (£61k) na fu modd eu cyflawni o'r ymarfer ail-dendro banc.

**3.9 Busnes y Cyngor**

**3.9.1** Roedd tanwariant o £70k (21%) yn y swyddogaeth ar 30 Mehefin 2016 a rhagwelir tanwariant o £62k (4.1%) ar gyfer y flwyddyn ariannol. Y rhesymau mwyaf am hyn yw tanwariant disgwyliedig yn y Gwasanaethau Pwyllgorau (£30k) a bod yr adain pridiannau tir wedi derbyn mwy o incwm na'r disgwyl.

### 3.10 Costau Corfforaethol a Democrataidd

**3.10.1** Roedd tanwariant o £10k yn y swyddogaeth yn ystod y cyfnod. Rhagwelir tanwariant o £5k ar ddiwedd y flwyddyn.

### 3.11 Rheolaeth Gorfforaethol

**3.11.1** Roedd tanwariant o £18k yn y swyddogaeth ar ddiwedd y Chwarter yma. Fodd bynnag, rhagwelir tanwariant o £100k ar gyfer y flwyddyn ariannol oherwydd arbedion yn codi o ailstrwythuro Rheolaeth Strategol.

## 4. Cyllid corfforaethol

**4.1** Disgwylir gorwariant o £110k ar ddiwedd y flwyddyn mewn perthynas â Chyllid Corfforaethol. Mae hyn oherwydd diffyg o gymharu â'r targed arbedion corfforaethol o £200k ar y prosiect Gweithio'n Gallach. Gosodwyd targed gwreiddiol o £300k ar gyfer arbedion ac, er bod rhai arbedion â chysylltiad amlwg â'r prosiect – gellir rhoi cau swyddfeydd yn erbyn y gyllideb hon - mae arbedion eraill o ran gweinyddu staff a chostau gweinyddu cyffredinol yn cael eu cyflawni yng nghyllidebau'r gwasanaethau ac nid ydynt wedi eu cyfrif yn erbyn y targed hwn. Nid yw hyn yn dweud na fydd y prosiect Gweithio'n Gallach yn cyflawni'r arbedion o £300k a ragwelwyd ar y cychwyn.

**4.2** Mae yna ddiffyg sylweddol hefyd ar y llog sy'n daladwy ar adneuon banc yr Awdurdod (£100k), sydd wedi gwaethygu oherwydd y gostyngiad yng nghyfraddau swyddogol y banciau o 0.50% i 0.25%. Argymhellir bod y gyllideb hon yn cael ei hadolygu ar gyfer 2017/18 fel y gellir gosod cyllideb sy'n fwy realistig. Mae'r gorwariant hwn yn cael ei wrthbwyso'n rhannol gyda'r costau benthyca gostyngol oherwydd bod yr Awdurdod yn defnyddio ei falansau yn hytrach na chymryd benthyciadau allanol ar gyfer y rhaglen gyfalaf. Fodd bynnag, mae'n bosibl na fydd modd benthyca'n fewnol yn y dyfodol oherwydd y prosiectau cyfalaf sylweddol, yn enwedig y rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif.

**4.3** Yn Atodiad C, ceir crynodeb o'r sefyllfa ariannol mewn perthynas â'r cyllidebau wrth gefn ar ddiwedd y Chwarter yma. Cymeradwywyd cyllideb wrth gefn gwerth £2.038m fel rhan o gyllideb 2016/17. Mae £60k net wedi cael ei drosglwyddo i wasanaethau i gyllido prosiectau penodol neu faterion cyllidebol a gymeradwywyd gan y Swyddog Adran 151. Mewn adolygiad o'r cyllidebau yn ystod chwarter 1, nodwyd bod 3 swydd mewn un gwasanaeth wedi cael eu cyllido ddwy waith, mae'r gor-gyllido wedi cael ei dynnu o gyllideb y gwasanaeth ac mae'n cael ei gadw yn y gronfa wrth gefn gyffredinol. Mae £795k wedi cael ei ymrwymo o gyllidebau wrth gefn a disgwylir y bydd y £1.304m sy'n weddill wedi cael ei wario'n llawn erbyn diwedd y flwyddyn gyda'r caniatâd angenrheidiol ar gyfer defnyddio arian wrth gefn. Fodd bynnag, dylid nodi mai cronfa i gwrdd â chostau annisgwyl yn ystod y flwyddyn yw'r gronfa wrth gefn gyffredinol ac mae'n anodd rhagweld beth fydd y pwysau ar y gyllideb hon. I bwrpas yr adroddiad hwn, rydym wedi rhagamcan y bydd y gyllideb wrth gefn gyffredinol yn cael ei gwario'n llawn er y bydd hyn yn cael ei adolygu yn ystod gweddill y flwyddyn ariannol.

## 5. Casglu'r Dreth Gyngor

**5.1** Caiff y gyllideb ar gyfer Cronfa'r Dreth Gyngor ei phennu gan ddefnyddio amcangyfrif o'r ddyled y gellir ei chasglu yn y flwyddyn gyfredol yn unig yn seiliedig ar y ffigwr a osodwyd fel sail y dreth ym mis Tachwedd 2015. Nid yw'n darparu ar gyfer dyledion a gasglwyd o flynyddoedd blaenorol, addasiadau i ymrwymiadau yn codi o flynyddoedd blaenorol (eithriadau, disgowntiau i bobl sengl ac ati), newidiadau i sail dreth y flwyddyn gyfredol neu'r ddarpariaeth ar gyfer dyledion drwg neu amheus. Nid oes modd amcangyfrif y newidiadau hyn ac yn anorfod, byddant yn arwain at wahaniaeth rhwng balans terfynol y Gronfa Casglu'r Dreth Gyngor a'r gyllideb wreiddiol. Y sefyllfa gyfredol yw y bydd Cronfa'r Dreth Gyngor £131k yn is na'r ffigwr targed. Er yr amcangyfrifir y bydd swm gwirioneddol y Dreth Gyngor a gesglir £252k yn uwch na'r gyllideb, ni fydd yn ddigon i dalu am y cynnydd yn y ddarpariaeth ar gyfer dyledion drwg neu amheus, sydd, yn ôl y rhagolygon presennol, yn £383k.

## 6. Arbedion Cyllidebol 2016/17

**6.1** Cafodd arbedion cyllidebol o £3.06m eu tynnu o gyllidebau gwasanaethau ar gyfer 2016/17 a £400k ychwanegol o arbedion o ddiswyddiadau gwirfoddol eu cadw mewn cronfa wrth gefn. Mae'n anodd asesu'n gywir mor fuan â hyn a fydd modd cyflawni'r holl arbedion ond, yn ôl yr arwyddion cynnar, nid oes unrhyw broblemau sylweddol i atal gwasanaethau rhag eu cyflawni. Dylid nodi nad oes cynlluniau i gychwyn ar rai prosiectau hyd yn ddiweddarach yn y flwyddyn a gall oedi gyda chychwyn y prosiectau hyn arwain at ddiffyg o ran yr arbedion y bydd modd eu cyflawni.

**6.2** Mae rhai staff y caniatwyd iddynt fynd dan y rhaglen ymddiswyddiad gwirfoddol eto i gael eu rhyddhau oherwydd bu'n rhaid ailstrwythuro rhai timau ac nid oes modd rhyddhau staff hyd oni fydd y gwaith hwnnw wedi'i gwblhau.

## 7. Casgliad

**7.1** Rhagwelir y bydd cyfanswm y gorwariant ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2017 yn £366k. Bydd £125k o'r swm hwn ar gyllidebau gwasanaethau, er rhaid pwysleisio ei fod yn cynnwys nifer o orwariannau a thanwariannau. Mae'r Gwasanaethau sy'n parhau i fod dan bwysau cyllidebol yn debyg i 2015/16 (Gwasanaethau Plant, Gwastraff ac Adnoddau) ond mae'r Penaethiaid Gwasanaeth yn ymwybodol o'r problemau ac yn gweithio i ostwng lefel y gorwariant ar ddiwedd y flwyddyn. Rhagwelir y bydd lefel y gorwariant oddeutu 0.3% ac mae gan y Cyngor gronfeydd wrth gefn digonol i gyllido'r lefel hon o orwario petai raid ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

**7.2** Dylid nodi bod chwarter 1 yn fuan yn y flwyddyn ariannol ac nad yw eitemau megis effaith gwaith cynnal a chadw dros y gaeaf wedi cael eu cynnwys yn y rhagamcan oherwydd nid oes unrhyw wybodaeth ar gael. Gall rhagamcanion newid wrth i wybodaeth newydd ddod i'r fei. Fodd bynnag, bydd sgriwtini rheolaidd yr UDA a chamau unioni gan Benaethiaid Gwasanaetht yn helpu rheolwyr gwasanaethau i reoli'r cyllidebau y maent yn gyfrifol amdanynt.

**ATODIAD B**

## YR ALLDRO REFENIW A RAGAMCENIR AR GYFER Y FLWYDDYN ARIANNOL A DDAW I BEN AR 31 MAWRTH 2016 – CHWARTER 1

| Gwasanaeth /Swyddogaeth | Cyllideb Flynyddol 2016/17 | Ch1 Cyllideb 2016/17 | Gwariant Gwirioneddol ac Ymrwymedig Ch1 | Amrywiad Ch1 2016/17 | Rhagamcan o'r Gwariant yn Ch1 hyd at 31 Mawrth 2017 | Rhagamcan Ch1 o Alldro 31 Mawrth 2017 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| | | | | | | |
| Cyllideb sydd wedi ei datganoli i'r Ysgolion | 38,422 | 9,231 | 9,231 | 0 | 38,422 | 0 |
| | | | | | | |
| Dysgu Gydol Oes (ac eithrio Ysgolion, Hamdden) | 10,494 | 2,920 | 2,870 | (50) | 10,432 | (62) |
| | | | | | | |
| Gwasanaethau Oedolion | 22,343 | 5,400 | 5,323 | (77) | 22,359 | 16 |
| | | | | | | |
| Gwasanaethau Plant | 7,443 | 1,851 | 1,865 | 14 | 7,713 | 270 |
| | | | | | | |
| Tai | 869 | 444 | 338 | (106) | 869 | 0 |
| | | | | | | |
| **Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo** | | | | | | |
| Priffyrdd | 6,618 | 1,935 | 2,087 | 152 | 6,698 | 80 |
| Eiddo | 1,230 | (154) | (132) | 22 | 1,230 | 0 |
| Gwastraff | 6,296 | 1,637 | 1,955 | 317 | 6,441 | 145 |
| | | | | | | |
| **Rheoleiddio a Datblygu Economaidd** | | | | | | |
| Economaidd | 2,001 | 746 | 725 | (21) | 2,051 | 50 |
| Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd | 2,555 | 665 | 545 | (120) | 2,445 | (110) |
| | | | | | | |
| Trawsnewid Corfforaethol | 3,532 | 787 | 1,054 | 267 | 3,532 | 0 |
| | | | | | | |
| Budd-daliadau a Ganiatawyd | 5,913 | 1,915 | 1,927 | 12 | 5,685 | (228) |
| | | | | | | |
| Adnoddau | 3,843 | 1,227 | 1,481 | 254 | 3,974 | 131 |
| | | | | | | |
| Busnes y Cyngor | 1,512 | 331 | 261 | (70) | 1,450 | (62) |
| | | | | | | |
| Costau Corfforaethol a Democrataidd | 948 | 236 | 226 | (10) | 943 | (5) |
| | | | | | | |
| Rheolaeth Gorfforaethol | 722 | 180 | 161 | (18) | 622 | (100) |
| **Cyfanswm y Cyllidebau Gwasanaeth** | **114,741** | **29,351** | **29,916** | **566** | **114,866** | **125** |
| | | | | | | |

| Gwasanaeth /Swyddogaeth | Cyllideb Flynyddol 2016/17 | Ch1 Cyllideb 2016/17 | Gwariant Gwirioneddol ac Ymrwymedig Ch1 | Amrywiad Ch1 2016/17 | Rhagamcan o'r Gwariant yn Ch1 hyd at 31 Mawrth 2017 | Rhagamcan Ch1 o Alldro 31 Mawrth 2017 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Ardollau | 3,194 | 796 | 2,996 | 2,200 | 3,194 | 0 |
| Cyllido Cyfalaf | 8,302 | 0 | 236 | 236 | 8,214 | (88) |
| Rhyddhad Ardrethi Dewisol | 60 | 0 | 0 | 0 | 58 | (2) |
| Arian Wrth Gefn Cyffredinol ac Arall | 1,979 | 0 | 0 | 0 | 1,979 | 0 |
| Cyllido a defnydd o Arian Wrth Gefn | (4,238) | 0 | 0 | 0 | (4,038) | 200 |
| | | | | | | |
| **Cyfanswm Cyllid Corfforaethol** | **9,297** | **796** | **3,232** | **2,436** | **9,407** | **110** |
| | | | | | | |
| **Cyfanswm y Gyllideb ar gyfer 2016/17** | **124,037** | **30,146** | **33,148** | **3,003** | **124,172** | **235** |
| | | | | | | |
| **Ariannu 2016/17** | | | | | | |
| Trethi Cenedlaethol Annomestig | (21,309) | | | | (21,309) | 0 |
| Y Dreth Gyngor | (32,109) | | | | (31,978) | 131 |
| Grant Cymorth Refeniw | (70,619) | | | | (70,619) | 0 |
| **Cyfanswm y Cyllid ar gyfer 2016/17** | **(124,037)** | | | | **(123,906)** | **131** |
| | | | | | | |
| **Cyfanswm yr alldro gan gynnwys effaith cyllido** | | | | | **366** | **366** |

**ATODIAD C**

**Crynodeb o Sefyllfa Ariannol y Cronfeydd wrth Gefn ar gyfer 2016/17 fel yr oedd yn Chwarter 1**

| | Cyllideb Wreiddiol £ | Trosglwyddiadau £ | Cyllideb Ddiwygiedig £ | Ymrwymwyd hyd yma £ | Y gweddill nad yw wedi ei ymrwymo ar hyn o bryd |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwella | 400,000.00 | 29,190.00 | 429,190.00 | 0.00 | 429,190.00 |
| Cronfa Wrth Gefn Gyffredinol | 317,927.00 | 123,050.00 | 440,977.00 | 155,000.00 | 285,977.00 |
| Tâl a Graddfeydd | 500,000.00 | -11,205.00 | 488,795.00 | 0.00 | 488,795.00 |
| Cost Newid | 136,000.00 | -80,570.00 | 55,430.00 | 15,000.00 | 40,430.00 |
| TAC (gan ganiatáu ar gyfer disgownt) | 60,000.00 | 0.00 | 60,000.00 | 0.00 | 60,000.00 |
| Cronfeydd wrth Gefn wedi eu Clustnodi | 625,000.00 | 0.00 | 625,000.00 | 625,000.00 | 0.00 |
| **Cyfanswm y Cyllidebau Wrth Gefn** | **2,038,927.00** | **60,465.00** | **2,099,392.00** | **795,000.00** | **1,304,392.00** |

# CYNGOR SIR YNYS MÔN

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **DYDDIAD:** | **19 MEDI 2016** |
| **PWNC:** | **ADRODDIAD MONITRO'R GYLLIDEB – CHWARTER CYNTAF 2016/17 – CYFALAF** |
| **AELOD(AU) PORTFFOLIO:** | **Y CYNGHORYDD H E JONES** |
| **PENNAETH GWASANAETH:** | **MARC JONES (EST. 2601)** |
| **AWDUR YR ADRODDIAD:**<br>**RHIF FFÔN:**<br>**E-BOST:** | **GARETH ROBERTS**<br>**01248 752675**<br>**GarethJRoberts@ynysmon.gov.uk** |
| **AELODAU LLEOL:** | **d/b** |

**A - Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

- Argymhellir y dylid nodi'r cynnydd o ran gwariant a derbyniadau yn erbyn y gyllideb gyfalaf.
- Argymhellir cymeradwyo'r newid yn y prosiect cyfalaf ar gyfer y cynllun rheoli gwastraff er mwyn prynu 'telehandler' a phont bwyso newydd (Adran 6).

**B - Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?**

d/b

**C - Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?**

- Mae'r adroddiad hwn yn nodi perfformiad ariannol y Gyllideb Gyfalaf am chwarter cyntaf y flwyddyn ariannol.
- Mae monitro'r gyllideb yn swyddogaeth i'r Pwyllgor Gwaith.

**CH - A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?**

Ydi

**D - A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?**

Gosod y Gyllideb Gyfalaf flynyddol.

| DD - | Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| 1 | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | |
| 2 | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | d/b – hwn yw adroddiad y Swyddog Adran 151 |
| 3 | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| 5 | **Eiddo** | |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| 7 | **Sgriwtini** | |
| 8 | **Aelodau Lleol** | |
| 9 | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | |

| E – | Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol) | |
|---|---|---|
| 1 | **Economaidd** | |
| 2 | **Gwrthdlodi** | |
| 3 | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| 4 | **Amgylcheddol** | |
| 5 | **Cydraddoldebau** | |
| 6 | **Cytundebau Canlyniad** | |
| 7 | **Arall** | |

| **F - Atodiadau:** |
|---|
| Atodiad A - Adroddiad Monitro'r Gyllideb Gyfalaf – Chwarter 1 2016/17<br>Atodiad B - Crynodeb o Wariant y Prosiect Cyfalaf hyd yma yn erbyn y Gyllideb Cyfalaf a'r Gwariant Rhagamcanedig ar ddiwedd y flwyddyn. |
| **FF - Papurau cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** |
| • Cyllideb Gyfalaf 2016/17 fel yr argymhellwyd gan y Pwyllgor hwn ar 1 Mawrth 2016;<br>• Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2016/17 a gymeragwywyd gan y Cyngor llawn ar 10 Mawrth 2016; a<br>• Adroddiad Canlyniad Cyfalaf 2015/16 a aeth i'r Pwyllgor yma ar 31 Mai, 2016. |

**ATODIAD A**

## 1. CYFLWYNIAD

**1.1** Dyma'r adroddiad monitro'r gyllideb Gyfalaf ar gyfer chwarter cyntaf y flwyddyn ariannol, ac mae’n caniatáu i Aelodau nodi'r cynnydd a wnaed o ran Gwariant Cyfalaf a Derbyniadau Cyfalaf yn erbyn y Gyllideb Gyfalaf.

**1.2** Ym mis Mawrth 2016, cymeradwyodd y Cyngor Rhaglen Gyfalaf o £26.933m am 2016/17 ar gyfer gwasanaethau nad ydynt yn ymwneud â thai a Rhaglen Gyfalaf o £11.636m ar gyfer y CRT, ac ym mis Mai 2016, caniataodd y Cyngor i Lithriad Cyfalaf o £7.792m gael ei ddwyn ymlaen o 2015/16. Ers gosod y gyllideb, mae cynlluniau eraill wedi cael eu hychwanegu at y rhaglen, y rhan fwyaf ohonynt yn cael eu hariannu gan grantiau ac yn werth £4.551m i gyd. Yn gynwysedig yn hyn, mae cynlluniau grant megis y grant cyfalaf Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid o £3.148m, y Grant Diogelwch ar y Ffyrdd o £0.105m a’r grant Llwybrau Diogelach mewn Cymunedau £0.108m. Mae hyn yn dod â chyfanswm y gyllideb Gyfalaf ar gyfer 2016/17 i £ 50.912m.

## 2. CYNNYDD AR WARIANT 2016/17

**2.1** Isod, mae tabl sy’n crynhoi’r gwariant cyfalaf hyd at 30 Mehefin 2016, y gyllideb a broffiliwyd hyd at 30 Mehefin 2016 a’r modd y bwriedir cyllido’r Rhaglen Gyfalaf yn 2016/17.

| Gwasanaeth | Cyllideb Flynyddol £'000 | Cyllideb a Broffilwyd £'000 | Gwariant Gwirioneddol £'000 | Gwariant a Ymrwymwyd £'000 | Cyfanswm Gwariant £'000 | % y Gwariant o'r Gyllideb a broffiliwyd | % y Gwariant o'r Gyllideb Flynyddol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cronfa Dai Gyffredinol | 2,000 | 487 | 315 | 6 | 321 | 66 | 16 |
| CRT Tai | 14,169 | 2,125 | 1,224 | 227 | 1,451 | 68 | 10 |
| Dysgu Gydol Oes | 12,776 | 1,087 | 1,089 | 42 | 1,131 | 104 | 9 |
| Economaidd ac Adfywio | 5,696 | 96 | 63 | 5 | 68 | 71 | 1 |
| Priffyrdd | 10,973 | 1,457 | 1,183 | 248 | 1,431 | 98 | 13 |
| Rheoli Gwastraff | 628 | 350 | 13 | 344 | 357 | 102 | 57 |
| Eiddo | 1,128 | 200 | 272 | 13 | 285 | 143 | 25 |
| Trawsnewid | 1,653 | 210 | 224 | 30 | 254 | 121 | 15 |
| Cynllunio | 975 | 6 | 3 | - | 3 | 55 | 0 |
| Gwasanaethau Oedolion | 914 | 25 | 30 | - | 30 | 121 | 3 |
| **Cyfanswm** | **50,912** | **6,044** | **4,417** | **916** | **5,333** | **88** | **10** |

| **Ariannwyd gan:** | |
|---|---|
| Grant Cyfalaf | 24,611 |
| Derbynebiadau Cyfalaf | 6,575 |
| Benthyca gyda Chefnogaeth | 2,189 |
| Benthyca Digefnogaeth | 6,030 |
| Cyfraniad Refeniw | 10,666 |
| Arian Wrth Gefn | 500 |
| Yswiriant | 340 |
| **Cyfanswm Cyllid** | **50,912** |

**2.2** Roedd 88% o’r gyllideb a broffiliwyd wedi ei wario hyd at ddiwedd y chwarter cyntaf, fodd bynnag, dim ond 10% o'r gyllideb flynyddol sydd wedi cael ei gwario hyd yma. Y rheswm am hyn yw bod yr arian ar gyfer nifer o'r cynlluniau cyfalaf yn cael ei wario yn chwarter olaf y flwyddyn ariannol. Mae risgiau gyda rhai prosiectau cyfalaf, ac mae'r rhain yn cael eu hamlygu yn Adran 3.1.2 yr adroddiad hwn. Mae rhai cynlluniau cyfalaf wedi cychwyn ers tro gyda'r mwyafrif o'r gyllideb a broffiliwyd ar gyfer chwarter 1 wedi cael ei gwario. Mae rhai Cynlluniau Cyfalaf eto i gychwyn, ond mae cyllidebau’r rheini wedi’u proffilio ar gyfer rhan olaf y flwyddyn ariannol. Gweler y cynlluniau hyn a’u proffiliau yn Atodiad B.

**2.3** Mae 68% o'r gyllideb a broffiliwyd ar gyfer y Cyfrif Refeniw Tai wedi cael ei wario, a dim ond 10% o'r gyllideb flynyddol. Fodd bynnag, amcangyfrifir ar hyn o bryd y bydd y gyllideb gyfan wedi cael ei gwario erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Mae'r rhan fwyaf o'r gwariant yn Ch1 wedi bod yn gysylltiedig â chontractau a gaffaelwyd yn ystod 2015/16, h.y. ymrwymiad a oedd yn cario drosodd. Rhagwelir y bydd contractau cynnal a chadw cynlluniedig newydd a gaffaelir yn ystod Ch1 a chanlyniadau tendro a ddisgwylir yn ystod Ch2 yn golygu y bydd y gyllideb ar gyfer 2016/17 wedi'i hymrwymo'n llawn.

**2.4** Mae'r rhaglen ar gyfer gwella'r mân-ddaliadau, a ariennir o'r derbyniadau cyfalaf o a geir yn sgil gwerthu mân-ddaliadau ac incwm o'r rhenti, wedi cael ei hymestyn am flwyddyn ychwanegol. Mae gwariant ar y rhaglen hon yn parhau i fod yn fwy na'r cyllid sydd ar gael o ganlyniad i werthu mân-ddaliadau ac incwm rhent. Cafodd diffyg o £1.281m ei ddwyn ymlaen o 2015/16, roedd cyfanswm y derbyniadau cyfalaf hyd at ddiwedd y chwarter cyntaf yn £0.260m, gyda £0.277m wedi ei wario hyd yn hyn. O ganlyniad, mae'r diffyg bellach yn £1.298m. Rhagwelir y bydd ychwaneg o fân-ddaliadau'n cael eu gwerthu yn 2016/17 ac, os bydd y gwerthiannau hyn yn cael eu cwblhau, bydd digon o arian i gwrdd â'r diffyg presennol.

## 3. CYLLID

### 3.1 Grantiau cyfalaf

**3.1.1** Mae yna nifer o gynlluniau Grant Cyfalaf yn y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2016/17. Mae rhai cynlluniau eto i gychwyn, megis y Grant Diogelwch ar y Ffyrdd gyda chyllideb o £0.105m a'r Llwybrau Diogelach mewn Cymunedau gyda chyllideb o £0.108m, ond disgwylir y bydd y dyraniad grant hwn yn cael ei wario yn llawn erbyn diwedd y flwyddyn.

**3.1.2** Mae yna 5 o gynlluniau sy'n cario risg sylweddol o ran cyllid Grant Cyfalaf, sef: -

- Prosiect Ysgolion yr 21ain Ganrif - Ar ddiwedd y chwarter cyntaf, roedd y Grant Cyfalaf ar gyfer y prosiect hwn wedi ei hawlio'n llawn heb unrhyw faterion i'w hadrodd. Fodd bynnag, oherwydd bod hwn yn gynllun mor fawr gyda chyllideb o £12.274m ar gyfer eleni, mae'n cario risg sylweddol. Petaem yn cael tywydd garw dros fisoedd y gaeaf neu broblemau annisgwyl gyda'r safleoedd, gallai arwain at oedi gyda'r cynlluniau hyn. Gallai unrhyw broblemau arwain olygu nad yw'r gwariant a broffiliwyd yn cwrdd â'r targedau yn ystod chwarteri'r dyfodol, gyda hynny'n arwain at golli arian o bosib.

- Grant Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid (VVP) - y gyllideb gyfalaf ar gyfer 2016/17 yw £3.148m. Ar ddiwedd y chwarter cyntaf, dim ond £0.238m sydd wedi cael ei wario, er fod rhan fawr o'r gyllideb ar gyfer y cynllun wedi cael ei broffilio tuag at ail hanner y flwyddyn ariannol. Disgwylir y bydd y grant yn cael ei wario'n llawn erbyn diwedd y flwyddyn ond, o ystyried lefel y gwariant sy'n ofynnol yn ail hanner y flwyddyn ariannol, mae perygl na fydd y swm gofynnol yn cael ei wario ac y bydd arian grant yn cael ei golli.

- Cynllun Ffordd Gyswllt Llangefni - Y gyllideb bresennol ar gyfer cynllun Ffordd Gyswllt Llangefni yw £3.732m. Cafwyd o hyd i olion archeolegol ar y safle sydd wedi arwain at oedi gyda'r cynllun. Yn ogystal, mae tir ar ôl i'w brynu, sydd yn risg ynddo'i hun. Ar ddiwedd y chwarter cyntaf, cyfanswm y gwariant oedd £1.066m, a disgwylir ar hyn o bryd y bydd y gyllideb yn cael ei gwario'n llawn.

- Llifogydd Biwmares - Ar ôl cwblhau'r Elfen Arfordirol ym mis Chwefror, mae ail gam Cynllun Atal Llifogydd Biwmares yn cynnwys elfen afonol y gwaith. Mae'r gwaith hwn wedi cael ei ohirio oherwydd bod preswylwyr wedi gwrthwynebu a methiant i ddod i gytundeb gyda pherchennog tir. Mae Llywodraeth Cymru wedi dyfarnu'n ddiweddar (o'n plaid) mewn perthynas â'r gwrthwynebiad ac rydym ar hyn o bryd yn disgwyl am gyngor cyfreithiol ar y ffordd ymlaen yng ngoleuni hyn. Mae trafodaethau yn parhau gyda'r perchennog tir; fodd bynnag, mae'r rhain yn araf a 'does dim wedi ei ddatrys hyd yma. Mae Llywodraeth Cymru wedi dweud eu bod wedi neilltuo cyllid ar gyfer y gwaith hwn ond hyd yma, oherwydd yr anawsterau a ddisgrifir uchod, nid oes Grant wedi cael ei ddyfarnu. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wrthi'n ystyried yr adolygiad o'r dyluniad a wnaed yn dilyn y llifogydd afonol ym mis Rhagfyr y llynedd. Yn amodol ar gyngor cyfreithiol ar y gwrthwynebiad ac ystyriaeth ffafriol gan Lywodraeth Cymru ar yr adolygiad o'r dyluniad, mae'n bosibl y gallai rhywfaint o waith ar ran o'r cynllun (nad oes angen caniatâd y Tirfeddiannwr ar ei gyfer) gychwyn yn ddiweddarach yn y flwyddyn ariannol hon a chroesi drosodd i'r flwyddyn ariannol nesaf.

- Seilwaith Strategol Caergybi a Llangefni - Yn dilyn oedi sylweddol dros y 12 mis diwethaf, mae prosiectau Safleoedd ac Eiddo Caergybi a Llangefni wedi cael eu cymeradwyo gan Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru ym mis Gorffennaf fel cynlluniau blaenoriaeth ar gyfer y rhanbarth. O'r herwydd, mae CSYM bellach wedi cael gwahoddiad gan SCEC i fod yn rhan o'r broses ymgeisio ffurfiol ac i gyflwyno cynlluniau busnes llawn o dan P4.4 ERDF ar gyfer y ddau gynllun. Mae'r gwaith yn mynd rhagddo ac mae'n debygol y bydd cynlluniau busnes terfynol yn cael eu cyflwyno yn gynnar ym mis Medi. Mae risgiau cyfredol ar gyfer y cynlluniau yn cynnwys sicrhau pecyn ariannol llawn a goblygiadau posibl o ran amseru yn sgil Brexit. Mae trafodaethau'n parhau gydag adrannau perthnasol Llywodraeth Cymru i sicrhau'r arian cyfatebol sy'n weddill - bydd adroddiad cynnydd pellach yn cael ei gyflwyno ym mis Medi. Mae cyhoeddiadau diweddar gan LIC yn dweud y bydd unrhyw gynlluniau a gymeradwywyd cyn Datganiadau'r Hydref eleni yn cael eu gwarantu gan y Llywodraeth hyd yn oed os bydd y DU yn gadael yr UE cyn i'r prosiect gael ei gwblhau.

## 3.2 Derbyniadau Cyfalaf

**3.2.1** Dyma'r Derbyniadau Cyfalaf ar gyfer y flwyddyn hyd yma a'r Derbyniadau Cyfalaf y cyllidebwyd ar eu cyfer: -

| | Cyllideb 2016/17 £'000 | Derbyniwyd hyd at 30 Mehefin 2016 £'000 | Rhagamcan hyd at 31 Mawrth 2017 £'000 |
|---|---|---|---|
| **CRT Tai:** | | | |
| Hawl i Brynu | 565 | 102 | 565 |
| Gwerthu Tir | 0 | 0 | 0 |
| **Tai Sector Preifat:** | | | |
| Gwerthu Plotiau | 0 | 0 | 0 |
| Taliadau a Ad-dalwyd | 0 | 0 | 0 |
| Grantiau a Ad-dalwyd | 0 | 0 | 0 |
| **Cronfa'r Cyngor:** | | | |
| Mân-ddaliadau | 2,285 | 260 | 2,285 |
| Cyffredinol | 1,480 | 136 | 1,480 |
| Diwydiannol | 380 | 0 | 380 |
| Ysgolion | 1,865 | 0 | 1,865 |
| **Cyfanswm** | **6,575** | **497** | **6,575** |

**3.2.2** Rhagwelir y bydd y Derbyniadau Cyfalaf ar 31 Mawrth 2017 yn £6.575m, a dim ond £0.497m oedd wedi dod i law ar 30 Mehefin 2016 (7.6%). Roedd hyn yn bennaf o werthu un mân-ddaliad (£0.260m), un eiddo yng Nghaergybi (£0.115m) ac un Hawl i Brynu (£0.102m). Mae’r Derbyniadau Cyfalaf a ragwelir yn cynnwys £1.675m o werthu safleoedd hen ysgolion, £0.320m o werthu Parc Mownt a £2.025m o werthu gwahanol Mân-ddaliadau.

**3.2.3** Mae'r gyllideb Derbyniadau Cyfalaf ar gyfer y Cyfrif Refeniw Tai – Hawl i Brynu - yn seiliedig ar y cynllun CRT 30 mlynedd a rhagwelir y bydd 8 eiddo yn cael eu gwerthu yn y flwyddyn ariannol hon.

**3.2.4** Ers diwedd y chwarter, mae'r Awdurdod wedi derbyn Derbyniadau Cyfalaf sylweddol, gyda gwerthu’r tir yng Nghefn Du, Y Gaerwen yn dod â derbyniadau o £0.600m a dau eiddo hawl i brynu yn dod â £0.146m mewn derbyniadau cyfalaf.

## 4. Y GWARIANT GWIRIONEDDOL A RAGAMCENIR AR GYFER 2016/17

**4.1** Isod, ceir tabl yn dangos y Gwariant a ragamcenir ar 31 Mawrth 2017, a'r cyllid diwygiedig:-

| Gwasanaeth | Cyllideb Flynyddol £'000 | Gwariant a Ragamcenir £'000 | (Tan) Gorwariant a Ragamcenir £'000 | % Amrywiad |
|---|---|---|---|---|
| Cronfa Gyffredinol Tai | 2,000 | 2,000 | - | - |
| CRT Tai | 14,169 | 14,288 | 119 | 1 |
| Dysgu Gydol Oes | 12,776 | 13,482 | 706 | 6 |
| Adfywio ac Economaidd | 5,696 | 3,492 | - 2,204 | - 39 |
| Priffyrdd | 10,973 | 8,627 | - 2,346 | - 21 |
| Rheoli Gwastraff | 628 | 579 | - 49 | - 8 |
| Eiddo | 1,128 | 962 | - 166 | - 15 |
| Trawsnewid | 1,653 | 1,246 | - 408 | - 25 |
| Cynllunio | 975 | 690 | - 285 | - 29 |
| Gwasanaethau Oedolion | 914 | 529 | - 385 | - 42 |
| **Cyfanswm** | **50,912** | **45,895** | **- 5,016** | **- 10** |
| **Ariannwyd gan:** | **Cyllideb Flynyddol £'000** | **Cyllid a Ragamcenir £'000** | **Amrywiad** | **% Amrywiad** |
| Grant Cyfalaf | 24,611 | 19,504 | - 5,107 | - 21 |
| Derbynebiadau Cyfalaf | 6,575 | 6,575 | - | - |
| Benthyca gyda Chefnogaeth | 2,189 | 2,189 | - | - |
| Benthyca Digefnogaeth | 6,030 | 6,001 | - 29 | - 0 |
| Cyfraniad Refeniw | 10,666 | 10,786 | 120 | 1 |
| Arian Wrth Gefn | 500 | 500 | - | - |
| Yswiriant | 340 | 340 | - | - |
| **Cyfanswm Cyllid** | **50,912** | **45,895** | **- 5,016** | **- 10** |

**4.2** Fel y gwelir o dabl 4.1 (uchod), rhagwelir y bydd tanwariant o £5.016m ar y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2016/17 ac mae’n bosibl bydd hyn yn llithriad i Raglen Gyfalaf 2017/18. Bydd y cyllid ar gyfer y llithriad hwn hefyd yn llithro i 2017/18, a bydd yn cael ei ystyried wrth lunio'r Datganiad ar y Strategaeth Rheoli’r Trysorlys ar gyfer 2017/18. Rhagwelir mai’r prif brosiectau a fydd, fe dybir, yn tanwario yw Seilwaith Strategol Caergybi, Seilwaith Strategol Llangefni a'r Priffyrdd Newydd i Wylfa Newydd, fel y gwelir yn Atodiad B. Manylir ar y rhesymau am y tanwariant mewn perthynas â Chynlluniau Seilwaith Strategol Caergybi a Seilwaith Strategol Llangefni yn rhan 3.1.2 yr adroddiad hwn. Rhagwelir y bydd tanwariant ar y cynllun Priffyrdd Newydd i Wylfa Newydd oherwydd bod Prosiect Ffordd Nanner wedi bod yn rhatach na’r disgwyl ac oherwydd nad yw’r gwaith ar-lein mor ddatblygedig ag a feddyliwyd yn wreiddiol.

**4.3** Rhagwelir y bydd y Gofyniad Cyllid Cyfalaf ar 31 Mawrth 2017 yn £131.395m, sef angen sylfaenol yr Awdurdod i fenthyca fel y gall ariannu ei Raglen Gyfalaf. Ar hyn o bryd, mae'r Awdurdod yn benthyca £110.741m yn allanol sydd, yn ei hanfod, yn golygu bod angen i'r Awdurdod fenthyca £20.651m, naill ai'n fewnol neu'n allanol, i ariannu'r Rhaglen Gyfalaf gyfredol. Os bydd yr arian hwn yn cael ei fenthyca'n allanol, bydd yr Awdurdod yn parhau i fod o fewn ei derfynau benthyca awdurdodedig yn unol â'r Datganiad ar y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys am 2016/17 (Atodiad 11).

## 5. Y DYFODOL

**5.1** Ar 10 Mawrth 2016, cymeradwyodd y Cyngor Llawn Raglen Gyfalaf am 2016/17 ar gyfer y gwasanaethau nad ydynt yn rhai tai a'r Cyfrif Refeniw Tai. Mae'r rhagamcanion o'r gwariant yn 2017/18 ymlaen ar gyfer y cynlluniau a gymeradwywyd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad hwn. Yn 2017/18, roedd hyn yn gyfanswm o £17.822m ar gyfer y gwasanaethau nad ydynt yn rhai tai gan gynnwys £5.568m ar gyfer Ysgolion yr 21ain Ganrif a £4.918m ar gyfer Priffyrdd Newydd mewn perthynas â Wylfa Newydd. Y rhagamcan ar gyfer y Cyfrif Refeniw Tai oedd £7.676m. Yn 2018/19, roedd y cynlluniau hyn a gymeradwywyd yn dod i gyfanswm o £30.382m ar gyfer y gwasanaethau nad ydynt yn rhai tai a'r Cyfrif Refeniw Tai. Roedd hyn yn cynnwys £7.150m ar gyfer Cartref Gofal Ychwanegol yn Llangefni, £5.876m ar gyfer y Priffyrdd Newydd mewn perthynas â Wylfa Newydd a £4.718m ar gyfer Ysgolion yr 21ain Ganrif. Mae'r rhagolygon yn seiliedig ar y bidiau cyfalaf a gyflwynwyd ym mis Medi 2015, felly bydd angen diwygio a diweddaru'r ffigyrau rhagamcanedig hyn ar gyfer y broses o gyflwyno bidiau am arian cyfalaf yn 2017/18 a fydd yn cychwyn yn o fuan. Yn ystod y broses hon, gwahoddir Bidiau Cyfalaf newydd hefyd ar gyfer cynlluniau cyfalaf newydd a fydd yn cychwyn yn ystod 2017/18.

## 6. NEWID YN Y CYNLLUN CYFALAF I'W GYMERADWYO

Nid oes gan Adain Rheoli Gwastraff y Cyngor ei safle ei hun i storio cynwysyddion gwastraff. Ar hyn o bryd, mae biniau du a gwyrdd ar olwynion, blychau ailgylchu, biniau a bagiau gwastraff bwyd ac offer cysylltiedig yn cael eu cadw ar safle yn Y Gaerwen, sef Brynsunsur. Mae'r safle hwn yn cael ei rentu ar hyn o bryd ar gost sylweddol i'r Cyngor. Beth amser yn ôl, gwnaed ymchwiliadau i geisio dod o hyd i safle arall ar gyfer storio cynwysyddion gwastraff ond heb unrhyw lwyddiant. Cododd cyfle i ddatblygu uned storio ar dir y Cyngor ym Mona a dyrannwyd £0.118m o arian cyfalaf i'r pwrpas hwnnw. Yn anffodus, roedd y tendrau a dderbyniwyd i adeiladu cyfleuster storio newydd yn ddrud iawn a bu'n rhaid gadael y prosiect. Hoffai Adain Rheoli Gwastraff y Cyngor yn awr ail-ddyrannu £0.09 7m o'r cyllid hwn i brynu dwy eitem hanfodol o gyfarpar a ddefnyddir yn y Cyfleuster Gwastraff ym Mhenhesgyn; 'Telehandler' newydd gwerth £0.070m a system pont bwyso newydd gwerth £0.027m.

1. **'Telehandler'**
   Peiriant hanfodol yw hwn a ddefnyddir i symud deunyddiau gwastraff o gwmpas y safle, e.e. gwagio sgipiau bach a llwytho pren i drelars mawr. Mae'r peiriant hwn wedi rhoi miloedd o oriau o wasanaeth ac yn dod at ddiwedd ei oes waith. Eleni, ni fu modd defnyddio'r peiriant hwn ar sawl achlysur oherwydd diffygion sy'n golygu bod y Gwasanaeth wedi gorfod llogi peiriant arall am gost sylweddol. Mae'r cais yn un i ailddyrannu £0.070m o'r cyllid cyfalaf a grybwyllwyd uchod i brynu 'telehandler' newydd ar gyfer Penhesgyn.

2. **Pont Bwyso Newydd**
   Yn ddiweddar, cynhaliwyd archwiliad ar y brif bont bwyso ym Mhenhesgyn ac, yn yr adroddiad ar ei chyflwr, daethpwyd i'r casgliad "bod y bont bwyso yn methu yn strwythurol ac, yn ychwanegol at y craciau, mae arwyddion bod y strwythur yn dynesu at ddiwedd ei oes waith, lamineiddiad ac yn y blaen". Mae hon yn eitem allweddol o offer i sicrhau bod pob categori o wastraff yn cael eu cofnodi'n briodol ac mae'n gysylltiedig â chodi anfonebau. Mae'r Cyngor wedi derbyn pris i ddarparu pont bwyso newydd, sef oddeutu £0.017m ond, yn ogystal, byddai angen gwneud gwaith peirianyddol strwythurol sylweddol i ffurfio sylfeini newydd i ddal y bont bwyso newydd a byddai hynny'n costio oddeutu £0.010m. Mae'r cais yn un i ailddyrannu hyd at £0.027m o gyllid i brynu a gosod pont bwyso ym Mhenhesgyn.

**ATODIAD B**

## Crynodeb o Wariant Prosiectau Cyfalaf hyd yma yn erbyn y Gyllideb Cyfalaf a'r Gwariant Rhagamcanedig ar ddiwedd y flwyddyn

| Gwasanaeth | Cyllideb Flynyddol (£) | Cyllideb a Broffiliwyd (£) | Gwariant Gwirioneddol (£) | Gwariant a Ymrwymwyd (£) | Cyfanswm Gwariant (£) | Amrywiad o gymharu â'r proffil (£) | % Gwariant o gymharu â'r Gyllideb a Broffiliwyd | % o'r Gyllideb Flynyddol a Wariwyd | Gwariant Rhagamcanedig (£) | Tan / Gorwariant Rhagamcanedig (£) | % Amrywiad |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cronfa Dai Gyffredinol** | | | | | | | | | | | |
| Troi Tai'n Gartrefi i'w gosod | 14,745 | 14,745 | 12,321 | 0 | 12,321 | -2,424 | 84 | 84 | 14,745 | 0 | 0 |
| Troi Tai'n Gartrefi 2 | 50,000 | 50,000 | 47,400 | 0 | 47,400 | -2,600 | 95 | 95 | 50,000 | 0 | 0 |
| Grantiau Tai Ll Ll Ll A 1 | 20,000 | 2,915 | 2,915 | 0 | 2,915 | 0 | 0 | 15 | 20,000 | 0 | 0 |
| Pryniant Gorfodol - Cynllun Peilot | 458,550 | 114,638 | 94,760 | 0 | 94,760 | -19,878 | 83 | 21 | 458,550 | 0 | 0 |
| Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl | 900,564 | 225,141 | 133,115 | 211 | 133,326 | -91,815 | 59 | 15 | 900,564 | 0 | 0 |
| Safle Preswyl i Sipsiwn a Theithwyr | 247,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 247,000 | 0 | 0 |
| GrantLl Ll Ll A - Porth Fictoria | 20,000 | 7,204 | 7,204 | 5,506 | 12,710 | 5,506 | 176 | 64 | 20,000 | 0 | 0 |
| Tai fforddiadwy a ddygwyd ymlaen 2015/16 | 288,703 | 72,176 | 17,572 | 481 | 18,053 | -54,123 | 25 | 6 | 288,703 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **1,999,562** | **486,818** | **315,287** | **6,198** | **321,485** | **-165,333** | **66** | **16** | **1,999,562** | **0** | **0** |
| **CRT Tai** | | | | | | | | | | | |
| Contract Gwres Canolog | 158,239 | 23,736 | 0 | 8,640 | 8,640 | -15,096 | 36 | 5 | 158,239 | 0 | 0 |
| Contract Gwaith Cynnal a Gynlluniwyd | 6,382,439 | 957,366 | 705,318 | 117,229 | 822,547 | -134,819 | 86 | 13 | 6,382,439 | 0 | 0 |
| Cerbydau'r UCA 16/17 | 80,000 | 12,000 | 0 | 92,173 | 92,173 | 80,173 | 768 | 115 | 92,173 | 12,173 | 15 |
| Gwaith Amgylcheddol | 362,496 | 54,374 | 81,625 | 0 | 81,625 | 27,251 | 150 | 23 | 362,496 | 0 | 0 |
| Ailfodelu'r Stoc Bresennol | 450,000 | 67,500 | 0 | 0 | 0 | -67,500 | 0 | 0 | 450,000 | 0 | 0 |
| Prynu Eiddo Cyfredol | 6,452,826 | 967,924 | 329,845 | 1,386 | 331,231 | -636,693 | 34 | 5 | 6,452,826 | 0 | 0 |
| Addasiadau Sector Preifat | 0 | 0 | 107,217 | 7,605 | 114,822 | 114,822 | 0 | 0 | 107,217 | 107,217 | 100 |
| Risg Tân | 250,000 | 37,500 | 0 | 0 | 0 | -37,500 | 0 | 0 | 250,000 | 0 | 0 |
| Cyfarparu Trawsnewid UCA | 33,000 | 4,950 | 0 | 0 | 0 | -4,950 | 0 | 0 | 33,000 | 0 | 0 |
| **Cyfansymiau ar gyfer: CRT Tai** | **14,169,000** | **2,125,350** | **1,224,005** | **227,033** | **1,451,038** | **-674,312** | **68** | **10** | **14,288,390** | **119,390** | **1** |
| **Dysgu Gydol Oes** | | | | | | | | | | | |
| Ailweirio Adeiladau Addysg | 37,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 37,000 | 0 | 0 |
| Mynediad i'r Anabl i Adeiladau Addysgol | 300,000 | 0 | 1,980 | 0 | 1,980 | 1,980 | 0 | 1 | 300,000 | 0 | 0 |
| Cyfleusterau Arlwyo mewn Ysgolion | 165,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 165,000 | 0 | 0 |
| Ysgolion 21ain Ganrif - Caergybi | 7,297,000 | 688,133 | 688,163 | 9,800 | 697,963 | 9,830 | 101 | 10 | 8,171,702 | 874,702 | 12 |
| Ysgolion 21ain Ganrif - Caergybi Ll Ll Ll A | 270,000 | 200,000 | 200,000 | 0 | 200,000 | 0 | 100 | 74 | 270,000 | 0 | 0 |
| Ysgolion 21ain Ganrif - Y Llannau | 3,960,000 | 193,746 | 193,746 | 31,564 | 225,310 | 31,564 | 116 | 6 | 3,791,484 | -168,516 | -4 |
| Ysgolion 21ain Ganrif - Parc y Bont | 150,000 | 725 | 725 | 725 | 1,450 | 725 | 200 | 1 | 150,000 | 0 | 0 |
| Ysgolion 21ain Ganrif - Aberffraw/Bro Rhosyr | 390,000 | 4,365 | 4,365 | 25 | 4,390 | 25 | 101 | 1 | 390,000 | 0 | 0 |
| Ysgolion 21ain Ganrif - Bro Seiriol | 207,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 207,000 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **12,776,000** | **1,086,969** | **1,088,979** | **42,114** | **1,131,093** | **44,124** | **104** | **9** | **13,482,186** | **706,186** | **6** |

| Gwasanaeth | Cyllideb Flynyddol (£) | Cyllideb a Broffiliwyd (£) | Gwariant Gwirioneddol (£) | Gwariant a Ymrwymwyd (£) | Cyfanswm Gwariant (£) | Amrywiad o gymharu â'r proffil (£) | % Gwariant o gymharu â'r Gyllideb a Broffiliwyd | % o'r Gyllideb Flynyddol a Wariwyd | Gwariant Rhagamcanedig (£) | Tan / Gorwariant Rhagamcanedig (£) | % Amrywiad |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Economaidd ac Adfywio** | | | | | | | | | | | |
| Grant Buddsoddi Busnes Caergybi / Ll Ll Ll A | 156,000 | 23,579 | 23,579 | 0 | 23,579 | 0 | 100 | 15 | 156,000 | 0 | 0 |
| Isadeiledd Strategol Caergybi | 1,257,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 105,000 | -1,152,000 | -92 |
| Isadeiledd Strategol Llangefni | 1,157,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 105,000 | -1,052,000 | -91 |
| Arian Partneriaeth heb ei ddyrannu | 58,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 58,000 | 0 | 0 |
| Toiledau Cyhoeddus | 44,772 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 44,772 | 0 | 0 |
| Uwchraddio Unedau Penrhos - Grant Ll Ll Ll A | 12,641 | 1,029 | 934 | 4,104 | 5,038 | 4,009 | 490 | 40 | 12,641 | 0 | 0 |
| Datblygu Cymunedau Actif - Grant Ll Ll Ll A | 40,000 | 0 | 0 | 900 | 900 | 900 | 100 | 2 | 40,000 | 0 | 0 |
| Grantiau Ll Ll Ll A heb eu dyrannu | 2,624,843 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 2,624,843 | 0 | 0 |
| Uwchraddio Canolfan Hamdden Plas Arthur | 3,245 | 900 | 832 | 461 | 1,293 | 393 | 144 | 40 | 3,245 | 0 | 0 |
| Uwchraddio Canolfan Hamdden Amlwch | 2,809 | 900 | 475 | 0 | 475 | -425 | 53 | 17 | 2,809 | 0 | 0 |
| Ail-doi Canolfan Hamdden | 340,000 | 70,000 | 36,850 | 0 | 36,850 | -33,150 | 53 | 11 | 340,000 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **5,696,310** | **96,408** | **62,670** | **5,465** | **68,135** | **-28,273** | **71** | **1** | **3,492,310** | **-2,204,000** | **-39** |
| **Priffyrdd a Thrafnidiaeth** | | | | | | | | | | | |
| Meysydd Parcio | 41,388 | 0 | 0 | 4,717 | 4,717 | 4,717 | 100 | 11 | 41,388 | 0 | 0 |
| Cerbydau | 374,401 | 62,160 | 62,610 | 158,900 | 221,510 | 159,350 | 356 | 59 | 374,401 | 0 | 0 |
| Menter Benthyca Darbodus Sirol | 2,229,120 | 196,000 | 114,216 | 0 | 114,216 | -81,784 | 58 | 5 | 2,242,120 | 13,000 | 1 |
| Gwaith Lliniaru Llifogydd Biwmares (LIC) | 600,000 | 25,000 | 23,897 | 0 | 23,897 | -1,103 | 96 | 4 | 325,000 | -275,000 | -46 |
| Priffyrdd Newydd i Wylfa Newydd | 3,784,000 | 174,000 | 0 | 0 | 0 | -174,000 | 0 | 0 | 1,700,000 | -2,084,000 | -55 |
| Ffordd Gyswllt Llangefni | 3,731,575 | 1,000,000 | 981,977 | 84,480 | 1,066,457 | 66,457 | 107 | 29 | 3,731,575 | 0 | 0 |
| SRIC 2016/17 | 108,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 108,000 | 0 | 0 |
| Grant Diogelwch Ffyrdd | 105,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 105,000 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **10,973,484** | **1,457,160** | **1,182,700** | **248,097** | **1,430,797** | **-26,363** | **98** | **13** | **8,627,484** | **-2,346,000** | **-21** |
| **Rheoli Gwastraff** | | | | | | | | | | | |
| System newydd ar gyfer casglu gwastraff | 509,000 | 350,000 | 13,200 | 344,233 | 357,433 | 7,433 | 102 | 70 | 509,000 | 0 | 0 |
| Compownd Cynwysyddion Gwastraff | 118,520 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 70,000 | -48,520 | -41 |
| **Cyfanswm** | **627,520** | **350,000** | **13,200** | **344,233** | **357,433** | **7,433** | **102** | **57** | **579,000** | **-48,520** | **-8** |
| **Eiddo** | | | | | | | | | | | |
| DDA | 100,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 100,000 | 0 | 0 |
| Doc Pysgod Caergygi | 96,340 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | -96,340 | -100 |
| Mynwent Llanbedrgoch | 85,683 | 0 | 0 | 415 | 415 | 415 | 100 | 0 | 2,000 | -83,683 | -98 |
| Mynwent Llanddona | 45,588 | 0 | 0 | 8,000 | 8,000 | 8,000 | 100 | 18 | 60,000 | 14,412 | 32 |
| Mân-ddaliadau | 800,000 | 200,000 | 272,028 | 5,000 | 277,028 | 77,028 | 139 | 35 | 800,000 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **1,127,611** | **200,000** | **272,028** | **13,415** | **285,443** | **85,443** | **143** | **25** | **962,000** | **-165,611** | **-15** |

| Gwasanaeth | Cyllideb Flynyddol (£) | Cyllideb a Broffiliwyd (£) | Gwariant Gwirioneddol (£) | Gwariant a Ymrwymwyd (£) | Cyfanswm Gwariant (£) | Amrywiad o gymharu â'r proffil (£) | % Gwariant o gymharu â'r Gyllideb a Broffiliwyd | % o'r Gyllideb Flynyddol a Wariwyd | Gwariant Rhagamcanedig (£) | Tan / Gorwariant Rhagamcanedig (£) | % Amrywiad |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Trawsnewid** | | | | | | | | | | | |
| Gweithio'n Gallach - Cyfalaf | 953,057 | 65,000 | 53,432 | 29,539 | 82,971 | 17,971 | 128 | 9 | 534,000 | -419,057 | -44 |
| Goleuadau LED | 118,270 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 118,270 | 0 | 0 |
| TG - Citrix | 190,000 | 110,000 | 109,505 | 0 | 109,505 | -495 | 100 | 58 | 190,000 | 0 | 0 |
| System TG wrth gefn | 35,096 | 35,096 | 61,463 | 0 | 61,463 | 26,367 | 175 | 175 | 61,463 | 26,367 | 75 |
| System Cynnwys y Wefan Gorfforaethol | 75,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 60,000 | -15,000 | -20 |
| Trwyddedu Meddalwedd | 72,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 72,000 | 0 | 0 |
| Uwchraddio Rhwydwaith | 60,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 60,000 | 0 | 0 |
| Adnewyddu Serfwyr | 150,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 150,000 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **1,653,423** | **210,096** | **224,400** | **29,539** | **253,939** | **43,843** | **121** | **15** | **1,245,733** | **-407,690** | **-25** |
| **Cynllunio** | | | | | | | | | | | |
| Prosiect Hyb Neuadd y Farchnad Caergybi | 970,000 | 6,246 | 0 | 0 | 0 | -6,246 | 0 | 0 | 684,674 | -285,326 | -29 |
| Datblygu Tirlun Ynys Gybi - VVP | 5,000 | 0 | 3,406 | 0 | 3,406 | 3,406 | 100 | 68 | 5,000 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **975,000** | **6,246** | **3,406** | **0** | **3,406** | **-2,840** | **55** | **0** | **689,674** | **-285,326** | **-29** |
| **Gwasanaethau Oedolion** | | | | | | | | | | | |
| Gweithredu CCIS | 459,000 | 0 | 6,916 | 0 | 6,916 | 6,916 | 100 | 2 | 74,300 | -384,700 | -84 |
| Canolfan Byron | 150,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 150,000 | 0 | 0 |
| Adnewyddu Haulfre | 206,758 | 25,000 | 23,322 | 0 | 23,322 | -1,678 | 93 | 11 | 206,758 | 0 | 0 |
| Cartref Gofal Preswyl Plas Crigyll | 98,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 98,000 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **913,758** | **25,000** | **30,238** | **0** | **30,238** | **5,238** | **121** | **3** | **529,058** | **-384,700** | **-42** |
| | | | | | | | | | | | |
| **Cyfanswm** | **50,911,668** | **6,044,047** | **4,416,913** | **916,094** | **5,333,007** | **-711,040** | **88** | **10** | **45,895,397** | **-5,016,271** | **-10** |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ADRODDIAD:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **DYDDIAD:** | **19 MEDI 2016** |
| **PWNC:** | **ADOLYGIAD BLYNYDDOL AR REOLI TRYSORLYS AM 2015/16** |
| **DEILYDD(ION) PORTFFOLIO:** | **CYNGHORYDD H E JONES** |
| **SWYDDOG(ION) ARWEINIOL:** | **R MARC JONES** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | **CLAIRE KLIMASZEWSKI/ELFED ROBERTS (EST. 1865/2608)** |
| **Natur a rheswm am adrodd**<br><br>Cydymffurfio â'r rheoliadau a gyflwynwyd dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 a chyda Cynllun Dirprwyo'r Cyngor ar gyfer Materion Rheoli Trysorlys am y cyfnod 2015/16 (Atodiad 8 o Ddatganiad Rheoli Trysorlys 2015/16). Yn unol â'r Cynllun Dirprwyo, caiff yr adroddiad hwn ei sgriwtineiddio gan y Pwyllgor Archwilio ar 25 Gorffennaf 2016, a penderfynodd y Pwyllgor i nodi a dderbyn yr adroddiad yma, a'i anfon ymlaen i'r Pwyllgor Gwaith heb unrhyw sylw pellach. Caiff yr adroddiad ei gyflwyno i'r Cyngor llawn ar ol bod i'r Pwyllgor hwn. | |

**Crynodeb**

Mae'n rhaid i'r Cyngor hwn, yn unol â rheoliadau dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003, gynhyrchu adolygiad blynyddol ar reoli trysorlys yn adlewyrchu gweithgareddau Rheoli Trysorlys a'r dangosyddion pwyllog a thrysorlys gwirioneddol am 2015/16. Mae'r adroddiad hwn yn bodloni gofynion côd ymarfer CIPFA ar Reoli Trysorlys (y Côd) a Chôd Pwyllog CIPFA ar gyfer Cyllid Cyfalaf mewn Awdurdodau Lleol (Y Côd Pwyllog).

Yn ystod 2015/16, y gofynion lleiaf ynglŷn ag adrodd yn ôl oedd bod y Cyngor llawn yn derbyn yr adroddiadau canlynol:-

- Strategaeth flynyddol y trysorlys o flaen y flwyddyn (a dderbyniwyd ar 26 Chwefror 2016);
- Adroddiad diweddaru canol y flwyddyn ar y trysorlys a dderbyniwyd ar 10 Mawrth 2016);
- Adroddiad blynyddol ar ôl y flwyddyn ac yn disgrifio'r gweithgaredd o'i gymharu â'r strategaeth (yr adroddiad hwn).

Mae'r amgylchedd rheoleiddiol yn rhoi'r cyfrifoldeb i Aelodau i adolygu a sgriwtineiddio polisi a gweithgareddau rheoli trysorlys. O'r herwydd, mae'r adroddiad hwn yn bwysig gan ei fod yn darparu manylion am y sefyllfa alldro ar gyfer gweithgareddau trysorlys ac mae'n tynnu sylw at gydymffurfiaeth â pholisïau'r Cyngor a gymeradwywyd yn flaenorol gan Aelodau.

Mae'r Cyngor hwn yn cadarnhau ei fod wedi cydymffurfio gyda'r gofynion o dan y Côd i'r Pwyllgor Archwilio sgriwtineiddio'r holl adroddiadau rheoli trysorlys uchod cyn eu cyflwyno i'r Cyngor llawn.

Er mwyn cefnogi rôl sgriwtini aelodau'r Pwyllgor Archwilio cafwyd hyfforddiant i aelodau ar faterion rheoli trysorlys yn ystod mis Gorffennaf 2014 a bydd cwrs gloywi'n cael ei gynnal yn ystod 2016.

Yn ystod 2015/16, cydymffurfiodd y Cyngor â'r anghenion deddfwriaethol a rheoleiddiol. Mae'r dangosyddion pwyllog a thrysorlys gwirioneddol allweddol sy'n manylu ar effaith gweithgareddau cyfalaf yn ystod y flwyddyn gyda chymaryddion, fel a ganlyn:-

| Data ar gyfer **Dangosyddion darbodus a thrysorlys gwirioneddol** | **2014/15 Gwirioneddol £000** | **2015/16 Gwreiddiol £000** | **2015/16 Gwirioneddol £000** |
|---|---|---|---|
| Gwariant Cyfalaf<br>• Dim-CRT<br>• CRT<br>• Cyfanswm | <br>15,769<br>5,518<br>21,287 | <br>15,520<br>8,590<br>24,110 | <br>16,369<br>27,607<br>43,976 |
| Cyfanswm Gofyniad Cyllido Cyfalaf<br>• Dim-CRT<br>• CRT<br>• Cyfanswm | <br>85,926<br>22,650<br>108,576 | <br>92,787<br>43,836<br>136,623 | <br>84,297<br>43,360<br>127,657 |
| Benthyca Gros | 89,590 | 126,000 | 110,744 |
| Dyled Allanol | 89,590 | 165,000 | 110,744 |
| Buddsoddiadau *<br>• Mwy na blwyddyn<br>• O dan flwyddyn<br>• Cyfanswm | <br><br>10,983<br>10,983 | | <br>-<br>16,210<br>16,210 |

Gellir gweld dangosyddion pwyllog a thrysorlys eraill ym mhrif gorff yr adroddiad hwn. Mae'r Swyddog Adran 151 hefyd yn cadarnhau y benthycwyd arian i bwrpas cyfalaf yn unig ac na chafodd y terfynau benthyca statudol (y terfyn awdurdodedig), eu torri.

Gwelwyd yr un amgylchedd heriol yn ystod blwyddyn ariannol 2015/16 â'r blynyddoedd cynt, sef dychweliadau isel ar fuddsoddiadau.

**Argymhellion**

Argymhellir bod y Pwyllgor yn:-

**(i)** Nodi bod y ffigyrau canlyniad yn yr adroddiad hwn yn parhau dros dro hyd nes bydd archwiliad y Datganiad Cyfrifon 2015/16 wedi ei gwblhau a'i lofnodi; bydd unrhyw addasiadau arwyddocaol i'r ffigyrau sy'n gynwysiedig yn yr adroddiad hwn yn cael eu hadrodd fel yn briodol;

**(ii)** Nodi'r dangosyddion pwyllog a thrysorlys dros dro ar gyfer 2015/16 yn yr adroddiad hwn;

**(iii)** Ystyried yr adroddiad rheoli trysorlys blynyddol am 2015/16 a'i gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith nesaf gydag unrhyw sylwadau.

**Atodiadau:**

Atodiad 1 - Crynodeb o Werth y Portffolio ar 31 Mawrth 2016
Atodiad 2 - Graddfeydd Credyd Gwrthbartion buddsoddi a'r adneuon a ddelir gyda phob un ar 31 Mawrth 2016
Atodiad 3 - Graddfeydd Credyd Gwrthbartion buddsoddi a'r adneuon a ddelir gyda phob un ar 15 Gorffennaf 2016
Atodiad 4 - Yr Economi a Graddfeydd Llog – Sylwebaeth gan Capita Asset Services

**Papurau Cefndirol:**

Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys 2015/16
Dangosyddion Darbodus a Thrysorlys am 2015/16
Adroddiad ar yr Adolygiad Canol Blwyddyn o Reoli Trysorlys 2015/16

## 1. CYFLWYNIAD

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys ac yn crynhoi'r swyddogaethau/gweithgareddau/ canlyniadau canlynol ym mlwyddyn ariannol 2015/16:-

- Gweithgaredd Cyfalaf;
- Effaith y gweithgaredd hwn ar ddyled waelodol y Cyngor (y Gofyniad Cyllido Cyfalaf);
- Y dangosyddion pwyllog a thrysorlys gwirioneddol;
- Sefyllfa gyffredinol y trysorlys gan nodi sut y mae'r Cyngor wedi benthyca mewn perthynas â'r ddyled hon a'r effaith ar falansau buddsoddi;
- Crynodeb o symudiadau'r gyfradd log am y flwyddyn;
- Gweithgareddau manwl o ran dyledion; a
- Gweithgareddau buddsoddi manwl.

## 2. GWARIANT AC ARIANNU CYFALAF Y CYNGOR 2015/16

**2.1** Mae'r Cyngor yn ymgymryd â gwariant cyfalaf ar asedau tymor hir. Fe all y gweithgareddau hyn fod naill ai:-

- Wedi eu cyllido ar unwaith trwy ddefnyddio adnoddau cyfalaf neu refeniw (derbyniadau cyfalaf, grantiau cyfalaf, cyfraniadau refeniw ac ati) nad ydynt yn cael effaith ar angen y Cyngor i fenthyca; neu

- Wedi eu cyllido trwy fenthyca: gallai hynny fod trwy fenthyca wedi ei gynllunio neu fel arall. Os nad oes digon o gyllid ar gael, neu os gwneir penderfyniad i beidio defnyddio adnoddau, bydd y gwariant cyfalaf yn creu'r angen i fenthyca.

**2.2** Mae'r gwariant cyfalaf gwirioneddol yn ffurfio un o'r dangosyddion pwyllog sydd eu hangen. Mae'r tabl isod yn dangos gwariant cyfalaf gwirioneddol a sut y cafodd ei ariannu.

| | 2014/15 Gwirioneddol (£m) | 2015/16 Amcangyfrif (£m) | 2015/16 Gwirioneddol (£m) |
|---|---|---|---|
| Gwariant Cyfalaf heb fod yn CRT | 16 | 15 | 16 |
| Gwariant Cyfalaf CRT | 5 | 9 | 28 |
| **Cyfanswm Gwariant Cyfalaf** | **21** | **24** | **44** |
| Wedi ei gyllido yn y flwyddyn y tu allan i'r CRT: | 11 | 8 | 18 |
| Wedi ei gyllido gan y CRT yn y flwyddyn | 5 | 6 | 3 |
| Gwariant Cyfalaf heb ei gyllido – tu allan i'r CRT | **5** | **10** | **2** |
| **Gwariant Cyfalaf CRT a gafodd ei gyllido drwy fenthyciad** | **0** | **0** | **21** |

## 3. ANGEN CYFFREDINOL Y CYNGOR I FENTHYCA

**3.1** Mae angen sylfaenol y Cyngor i fenthyca ar gyfer gwariant cyfalaf yn cael ei alw yn Ofyniad Ariannu Cyfalaf (CFR). Mae'r ffigwr hwn yn fesur o sefyllfa'r Cyngor o ran dyledion. Mae'r CFR yn deillio o weithgaredd cyfalaf y Cyngor a pha adnoddau a ddefnyddiwyd i dalu am y gwariant cyfalaf. Mae'n cynrychioli gwariant cyfalaf 2015/16 a ariannwyd drwy fenthyca (gweler y tabl uchod), a gwariant cyfalaf a ariannwyd drwy fenthyciad ac yn y blynyddoedd blaenorol nad ydyw eto wedi cael ei dalu trwy refeniw neu adnoddau eraill.

**3.2** Rhan o weithgareddau trysorlys y Cyngor yw mynd i'r afael â'r gofynion cyllido o ran yr angen hwn i fenthyca. Gan ddibynnu ar y rhaglen gwariant cyfalaf, mae gwasanaeth y trysorlys yn trefnu sefyllfa ariannol y Cyngor er mwyn sicrhau bod digon o arian ar gael i gyfarfod â'r cynlluniau cyfalaf a'r gofynion mewn perthynas â llif arian. Gellir cael yr arian hwn trwy fenthyca gan gyrff allanol (fel y Llywodraeth, trwy'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLB) neu'r marchnadoedd arian), neu trwy ddefnyddio adnoddau arian dros dro o fewn y Cyngor.

## 3.3 Gostwng y CFR

**3.3.1** Ni chaniateir i anghenion benthyca'r Cyngor (CFR) godi am byth. Mae yna reoliadau statudol yn eu lle i sicrhau bod asedau cyfalaf yn gyffredinol yn cael eu codi ar refeniw dros fywyd yr ased. Mae'n rhaid i'r Cyngor godi tâl refeniw blynyddol a elwir yn isafswm darpariaeth refeniw - MRP er mwyn gostwng y CFR. I bob pwrpas, ad-daliad yw hwn o'r angen i fenthyca. Mae hyn yn wahanol i'r trefniadau rheoli trysorlys sy'n sicrhau bod arian ar gael i gwrdd ag ymrwymiadau cyfalaf. Yn ogystal, gellir benthyca dyled allanol neu ei thalu'n ôl ar unrhyw adeg, ond nid yw hyn yn newid y CFR.

**3.3.2** Gellir gostwng cyfanswm y CFR hefyd drwy:-

- ddefnyddio adnoddau cyllido cyfalaf ychwanegol (megis derbyniadau cyfalaf sydd heb eu defnyddio); neu
- godi mwy na'r tâl refeniw statudol (MRP) ym mhob blwyddyn trwy Ddarpariaeth Refeniw Wirfoddol (VRP).

**3.3.3** Cafodd Polisi MRP 2015/16 y Cyngor (fel sy'n ofynnol dan gyfarwyddyd LICC) ei gymeradwyo fel rhan o adroddiad strategaeth rheoli trysorlys 2015/16 ar 26 Chwefror 2014.

**3.3.4** Dangosir isod CFR y Cyngor ar gyfer y flwyddyn ac mae'n cynrychioli dangosydd pwyllog allweddol. Mae hyn yn cynnwys unrhyw PFI a chynlluniau prydlesu ar y fantolen a fyddai'n cynyddu anghenion benthyca'r Cyngor, y CFR. Nid oedd cynlluniau o'r fath yn ystod y flwyddyn.

| CFR Cronfa'r Cygnor | 2014/15 Gwirioneddol (£m) | 2015/16 Cyllideb (£m) | 2015/16 Gwirioneddol (£m) |
|---|---|---|---|
| Balans agoriadol | 85 | 93 | 86 |
| Ychwanegu gwariant cyfalaf heb ei gyllido (fel uchod) | 5 | | 2 |
| Llai MRP/VRP* | (4) | (4) | (4) |
| Balans Cau | 86 | 92 | 84 |

| CFR CRT | 2013/14 Gwirioneddol (£m) | 2014/15 Cyllideb (£m) | 2014/15 Gwirioneddol (£m) |
|---|---|---|---|
| Balans agoriadol | 24 | 44 | 23 |
| Ychwanegu gwariant cyfalaf heb ei gyllido (fel uchod) | - | - | 21 |
| Llai MRP/VRP* | (1) | (1) | (1) |
| Balans Cau | 23 | 43 | 43 |

**Yn cynnwys defnydd gwirfoddol o dderbyniadau cyfalaf*

**3.3.5** Mae'r gweithgaredd benthyca yn cael ei gyfyngu gan ddangosyddion pwyllog ar gyfer benthyca gros a'r CFR, a chan y trothwy a awdurdodwyd.

### 3.4 Benthyca gros a'r CFR

Er mwyn sicrhau bod lefelau benthyca yn ddarbodus dros y tymor canolog a dim ond ar gyfer dibenion cyfalaf, dylai'r Cyngor sicrhau nad yw ei fenthyca allanol gros, ac eithrio yn y tymor byr, yn uwch na chyfanswm y gofyniad cyllido cyfalaf yn y flwyddyn flaenorol ynghyd â'r amcangyfrifon o unrhyw ofyniad cyfalaf ychwanegol ar gyfer y flwyddyn ariannol hon a'r ddwy flynedd ariannol nesaf. Mae hynny'n golygu nad yw'r Cyngor yn benthyca i gefnogi gwariant refeniw. Mae'r dangosydd hwn yn caniatáu peth hyblygrwydd i'r Cyngor fenthyca ymlaen llaw i'w anghenion cyfalaf. Mae'r tabl isod yn nodi sefyllfa fenthyca gros y Cyngor yn erbyn y CFR. Mae'r Cyngor wedi cydymffurfio gyda'r dangosydd pwyllog hwn.

| | 31 Mawrth 2015 Gwirioneddol (£m) | 31 Mawrth 2016 Cyllideb (£m) | 31 Mawrth 2016 Gwirioneddol (£m) |
|---|---|---|---|
| Sefyllfa Benthyca Gros | 89.6 | 110.7 | 110.7 |
| CFR | 108.6 | 136.6 | 127.7 |

**3.4.1** Fel rhan o'r broses o gyllido gwariant cyfalaf ar gyfer 2015/16, defnyddiwyd benthyciadau i gyllido'r bwlch rhwng yr adnoddau a oedd ar gael (derbyniadau cyfalaf, grantiau cyfalaf, cyfraniadau cyfalaf a chyfraniadau refeniw) a'r gwariant cyfalaf. Yn wyneb cyfraddau llog ar y farchnad ar hyn o bryd a'r rheini a ragwelir, ynghyd â risgiau credyd gwrthbartïon, penderfynwyd parhau i fewnoli benthyciadau o leiaf yn y tymor byr. Mae hyn yn golygu bod y Cyngor, yn lle benthyca'n allanol gan PWLB, yn defnyddio ei arian wrth gefn ei hun. Mae'r strategaeth hon wedi ei gweithredu yn awr drwy gydol pob un o'r bum mlynedd ddiwethaf. O ganlyniad i barhau â'r Strategaeth yma, cynyddodd y bwlch rhwng CFR a benthyca allanol yn ystod 2015/16 gan £19m. Mae'r benthyca gros ar 31 Mawrth 2016 yn llai na'r CFR a ragwelwyd am y 2 flynedd ddilynol. Mae'r sefyllfa hon o ran benthyciadau gros wedi cynyddu yn ystod 2015/16 oherwydd y benthyciad a gafwyd gan PWLB i brynu allan o'r Cyfrif Refeniw Tai sy'n disodli'r hen daliadau cymhorthdal i Lywodraeth Cymru. Mae hyn hefyd wedi cael effaith sylweddol ar y gofyniad benthyca cyfalaf.

**3.5** Y dangosyddion eraill yn ymwneud â dyled yw:

**3.5.1** **Y trothwy awdurdodedig** - y trothwy awdurdodedig yw'r "cyfyngiad benthyca fforddiadwy" sy'n angenrheidiol yn unol ag adran 3 Deddf Llywodraeth Leol 2003. Unwaith y mae hwn wedi ei bennu, nid oes gan y Cyngor rym i fenthyca uwchlaw'r lefel hon. Mae'r tabl isod yn dangos bod y Cyngor wedi llwyddo i gadw o fewn y trothwy awdurdodedig o ran benthyciadau gros yn ystod 2015/16.

**3.5.2** **Y terfyn gweithredol** - y terfyn gweithredol yw'r sefyllfa fenthyca a ddisgwylir ar gyfer y Cyngor yn ystod y flwyddyn. Mae cyfnodau lle mae'r sefyllfa wirioneddol naill ai yn is neu'n uwch na'r terfyn yn dderbyniol ar yr amod nad yw'n mynd dros y trothwy awdurdodedig.

**3.5.3** **Costau ariannu gwirioneddol fel cyfran o'r ffrwd refeniw net** - mae'r dangosydd hwn yn nodi'r patrwm o ran cost cyfalaf (benthyca a chostau ymrwymiadau tymor hir arall llai incwm buddsoddi) yn erbyn y ffrwd refeniw net.

| | 2015/16 |
|---|---|
| Cyfyngiad awdurdodedig | £165.0m |
| Sefyllfa o ran uchafswm benthyciadau gros | £110.7m |
| Terfyn Gweithredol | £126.0m |
| Sefyllfa benthyca gros ar gyfartaledd | £110.7m |
| Costau ariannu fel cyfran o ffrwd refeniw net - CF | 6.06% |
| Costau ariannu fel cyfran o ffrwd refeniw net – CRT | 13.83% |

Y rheswm pam fod y costau ar gyfer cyllido Cronfa'r Cyngor ychydig yn is na chanran y ffrwd refeniw na'r hyn a amcangyfiwyd yn y datganiad ar Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2015/16 (6.53%) net oedd oherwydd costau cyllido a oedd yn is na'r disgwyl, ynghyd â llai o incwm na'r disgwyl o fuddsoddiadau a ffrwd refeniw net a oedd yn uwch na'r disgwyl.

## 4. SEFYLLFA TRYSORLYS AR 31 MAWRTH 2014

**4.1** Caiff sefyllfa dyledion a buddsoddiad y Cyngor ei drefnu gan y gwasanaeth rheoli trysorlys er mwyn sicrhau hylifedd digonol ar gyfer gweithgareddau refeniw a chyfalaf, diogelwch ar gyfer buddsoddiadau ac i reoli'r risgiau yn yr holl weithgareddau rheoli trysorlys. Mae gweithdrefnau a rheoliadau i sicrhau'r amcanion hyn wedi eu hen sefydlu drwy'r adroddiadau i aelodau y manylir arnynt yn y crynodeb a thrwy weithgareddau swyddogion yn unol â'r Strategaeth Rheoli Trysorlys ar gyfer 2015/16. Roedd ffigyrau buddsoddi a benthyca'r Cyngor ar ddiwedd blynyddoedd ariannol 2014/15 a 2015/16 fel a ganlyn:-

| | 31 MAWRTH 2015 | | | 31 MAWRTH 2016 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | Graddfa Cyfartalog (%) | Aeddfedrwydd Cyfartalog (bl) | £000 | Graddfa Cyfartalog (%) | Aeddfedr-wydd Cyfartalog (bl) |
| Dyled: Holl Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus | 89,585 | 5.72 | 25.4 | 110,741 | 5.72 | 24.9 |
| CFR | 108,582 | | | 127,657 | | |
| Gor/(tan) fenthyca | (18,997) | | | (16,916) | | |
| Buddsoddiadau tymor sefydlog (y cyfan < l flwyddyn a reolir yn fewnol ac ar gyfradd sefydlog | Nil | | | 5,000 | 0.50 | |
| Buddsoddiadau dim rhybudd (yr holl wedi ei reoli'n fewnol) | 10.983 | 0.36 | | 11,209 | 0.35 | |
| Cyfanswm y Buddsoddiadau | 10,983 | 0.36 | | 16,209 | 0.40 | |

Gweler dadansoddiad manylach yn Atodiad 1. Ni ddaethpwyd dros ben y trothwyon ar gyfer cyfraddau sefydlog a chyfraddau amrywiadwy yn ystod y flwyddyn.

**4.2** Dadansoddir benthyca ymhellach drwy gyfnodau aeddfedu:-

| | 31 MAWRTH 2015 | | 31 MAWRTH 2016 | | Cyfyngiadau 2014/15 a 2015/16 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £m | % o'r cyfanswm | £m | % o'r cyfanswm | % o'r cyfanswm (Uchel) | % o'r cyfanswm (Isaf) |
| Cyfanswm benthyciadau | 89.6 | 100 | 110.7 | 100 | | |
| Llai na 12 mis | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 20 | 0 |
| 12 mis ac o fewn 24 mis | 0.0 | 0.0 | 5.5 | 4.97 | 20 | 0 |
| 24 mis ac o fewn 5 mlynedd | 15.5 | 17.3 | 14.5 | 13.10 | 50 | 0 |
| 5 mlynedd ac o fewn 10 mlynedd | 8.8 | 9.8 | 4.2 | 3.79 | 75 | 0 |
| 10 mlynedd a mwy | 65.3 | 72.9 | 86.5 | 78.14 | 100 | 0 |

**4.3** Ni aildrefnwyd unrhyw ddyled yn ystod y flwyddyn oherwydd roedd y 1% gwahaniaethol cyfartalog rhwng graddfeydd benthyca newydd PWLB a graddfeydd ad-dalu'n fuan yn gwneud aildrefnu'n anhyfyw. Benthyciad newydd allanol – cymerwyd £21.169m yn ystod y flwyddyn i gyllido Prynu Allan o system gymhorthdal CRT Llywodraeth Cymru.

**4.4** Mae rhan o adneuon y Cyngor yn cael eu dal mewn cyfrifon adneuon dim rhybudd sy'n talu llog ar raddfeydd sy'n agos ar y gyfradd sylfaenol bresennol, £11.0m ar 0.35% (31 Mawrth 2015 11m ar 0.36%). Roedd un swm yn cael ei adneuo am gyfnod o lai na blwyddyn sef £5m ar gyfradd log o 0.50% (31 Mawrth 2015 Dim).

## 5. STRATEGAETH TRYSORLYS AM 2015/16

**5.1** Roedd y strategaeth ar gyfer 2015/16 yn cynnwys disgwyliad y byddai'r Cyfradd Banc yn aros yn isel ond yn codi (cychwyn yn Chwarter 1 2015) ac y byddai cyfraddau benthyca sefydlog tymor canol a thymor hir yn codi'n raddol yn ystod 2015/16. Roedd disgwyl i gyfraddau tymor byr neu amrywiadwy fod yn ffordd ratach o fenthyca yn ystod y cyfnod. Yn sgil parhad yr ansicrwydd ar ôl argyfwng ariannol 2008 parhawyd i fod yn wyliadwrus ac roedd buddsoddiadau yn parhau i gael eu dominyddu gan ystyriaethau'r risg gwrthbartïon isel gan arwain at ddychweliadau gweddol isel o gymharu â'r cyfraddau benthyca.

**5.2** Yn y sefyllfa hon, y strategaeth ar gyfer y trysorlys oedd gohirio benthyca i osgoi costau cadw lefelau uwch o fuddsoddiadau a gostwng risg gwrthbartïon.

**5.3** Roedd y symudiad gwirioneddol yn yr elw o giltiau yn golygu ychydig o newid yn ystod pedwar mis cyntaf y flwyddyn yng nghyfraddau PWLB ond yna roedd y tueddiad yn mynd at i lawr am weddill y flwyddyn gyda gwrthdroad rhannol ym mis Chwefror.

**5.4** Roedd y sefyllfa economaidd a'r PWLB a'r cyfraddau buddsoddi fel y gwelir nhw yn Atodiad 4.

## 6. CANLYNIADAU BUDDSODDI AR GYFER 2015/16

**6.1** Parhaodd y Gyfradd Banc ar raddfa hanesyddol isel o 0.5% drwy gydol y flwyddyn; bellach mae wedi aros yr un fath ers saith mlynedd. Prin iawn fu unrhyw newid yn nisgwyliadau'r farchnad am gychwyn y tynhau ariannol yn chwarter 1 2016 ond yna symudodd yn ôl i o gwmpas chwarter 2, 2018 erbyn diwedd y flwyddyn. Roedd cyfraddau adneuon yn parhau i fod yn isel drwy gydol y flwyddyn a hynny'n bennaf oherwydd effeithiau'r Cynllun Cyllido i Fenthyca.

**6.2** Y strategaeth fuddsoddi ddisgwyliedig oedd cadw at adneuon tymor byrrach (hyd at 364 diwrnod) er cadwyd y gallu i fuddsoddi hyd at gyfnodau hwy (er ni ddefnyddiwyd). Roedd disgwyl i falansau arian parod o £30m fod ar gael yn amrywio rhwng £15m a £35m. Gosodwyd y gyllideb ar 0.75% neu £225k ar ôl addasu ar gyfer graddfeydd uwch ar fuddsoddiadau presennol. Fel y mae'n digwydd, cafwyd dychweliad o £88k (0.36%) ar falansau a oedd ar gyfartaledd, yn £20.4m. Roedd y balans arian parod yn is na'r disgwyl yn rhannol oherwydd parhau i fewnoli benthyca. Roedd y dychweliad is nag a gyllidebwyd i'w briodoli i gyfraddau gwaeth na'r disgwyl ar fuddsoddiadau, gyda chyfraddau'n parhau i ddisgyn yn ystod y flwyddyn.

## 7. DIOGELWCH AC ANSAWDD CREDYD

**7.1** Ni chafodd unrhyw un o'r sefydliadau yr oedd gennym fuddsoddiadau ynddynt unrhyw anhawster i ad-dalu buddsoddiadau a llog ar amser ac yn llawn yn ystod y flwyddyn.

**7.2** Yn ystod 2015/16, parhaodd graddfeydd credyd i fod yn wael ar draws amrediad o'n gwrthbartïon arferol. Ers diwedd 2008, mae wedi bod yn heriol adneuo gyda gwrthbartïon priodol. Ym mis Rhagfyr 2008, cafwyd caniatâd gan y Cyngor i ymestyn yr hyblygrwydd gyda gwrthbartïon i ddelio gyda newidiadau yn y farchnad; roedd hyn yn cynnwys y gallu i fuddsoddi'r cyfan o'n gwarged gyda'r llywodraeth ganolog os bydd angen. Lledaenwyd y rhestr ymhellach yn Ebrill 2010 i gynnwys sefydliadau gwladol a sefydliadau rhannol wladol ac eglurwyd y rhestr honno ym Mawrth 2013 mewn perthynas â banciau yn y DU sydd wedi eu gwladoli neu eu gwladoli'n rhannol a meini prawf 2014/15. Roedd penderfyniadau blaenorol wedi ymestyn hyblygrwydd i fuddsoddi gydag awdurdodau lleol. Mae Atodiad 2 yn dangos ym mha sefydliadau yr oedd y Cyngor wedi adneuo arian ar 31 Mawrth 2015 a chyfraddau'r cwmnïau hynny.

**7.3** Effaith ymarferol y polisïau hyn oedd fel a ganlyn: Yn ystod y flwyddyn parhawyd i ddefnyddio cyfrifon dim rhybudd gyda sefydliadau blaenllaw ar y stryd fawr (Santander, HSBC, RBS a Bank of Scotland) ar gyfer llif arian o ddydd i ddydd. Yn ychwanegol at hyn, rhoddwyd £5m mewn cyfrifon adnau 3 mis gyda Nationwide ar gyfradd uwch o 0.50%.

## 8. GWEITHGAREDD YN YSTOD 2015/16

**8.1** Adroddwyd eisoes fod yr Awdurdod hwn yn paratoi i dynnu allan o'r system cymhorthdal CRT ar 2 Ebrill 2015. Ar adeg adrodd ar weithgareddau trysorlys ar gyfer chwarter 3 2014/15, roedd hi'n hysbys y byddai'r 'prynu allan' yn cael ei gyllido gan PWLB ond roedd swm y setliad a'r cyfraddau llog ar y benthyciad yn parhau i fod dan ystyriaeth. Cafodd effaith bosibl y prynu allan ei hadlewyrchu yn y papurau ar bennu'r gyllideb a gyflwynwyd i'r Aelodau ar gyfer 2015/16 gan gynnwys y Datganiad ar Strategaeth Rheoli Trysorlys 2015/16 a gyflwynwyd i'r Pwyllgor hwn ei sgriwtinieiddio ar 9 Chwefror 2015). Gellir cadarnhau fod y prynu allan wedi digwydd a bod y CRT bellach yn hunan-gyllido. Roedd union strwythur y benthyciadau a drefnwyd gan y Cyngor i gyllido ei hunan-gyllido o'r CRT yn adlewyrchu gofynion y cynllun busnes CRT, gofynion cyffredinol y Cyngor a rhai cyfyngiadau (e.e. cyfnod isaf unrhyw fenthyciad ar gyfartaledd) a osodwyd gan Lywodraeth Cymru. Cafodd y benthyciadau felly eu trefnu fel cyfres o gyfraddau llog uwch gan PWLB a oedd yn berthnasol yn unig i awdurdodau hunan-gyllido CRT yng Nghymru ac efallai bod hynny'n golygu bod y benthyciadau hyn, o bersbectif ailstrwythuro, yn llai hyblyg nag arfer.

## 9. GWEITHGAREDD ERS 2015/16

**9.1** Mae canlyniad refferendwm yr UE ar 23 Mehefin 2016 i adael yr Undeb Ewropeaidd a'r ansefydlogrwydd gwleidyddol ar ôl y canlyniad wedi creu sioc economaidd a welodd gwerth y bunt yn gostwng; cafodd effaith ar brisiau ar y farchnad stoc ac arweiniodd at ostwng rhagolygon tymor hir banciau'r DU o sefydlog i negyddol. Mae holl adneuon y Cyngor mewn banciau y mae eu rhagolygon wedi gostwng. Fodd bynnag, mae eu cyfraddau tymor byr i'r tymor canolig yn parhau i fod o fewn y cyfraddau a gymeradwywyd yn y Strategaeth Rheoli Trysorlys ar gyfer 2015/16. Mae statws y banciau ac adneuon y Cyngor yn cael eu hadolygu'n gyson er mwyn sicrhau'r risg leiaf bosib i'r Cyngor. Mae cyfraddau sylfaenol y banciau wedi cael ei chadw ar yr un gyfradd, sef 0.50%, fodd bynnag, rhagwelir y bydd y gyfradd yn cael ei thorri yn y dyfodol er mwyn cefnogi'r UE yn ystod y cyfnod ansicr yn dilyn refferendwm yr UE. Er y byddai hyn yn tanseilio ymhellach y llog a geir ar adneuon, byddai'n gostwng y gost o fenthyca gan PWLB gan wneud benthyca allanol ar gyfer gwariant cyfalaf yn fwy deniadol. Mae Atodiad 3 yn dangos adneuon presennol y Cyngor a chyfraddau'r sefydliadau ariannol y mae'r adneuon wedi eu buddsoddi ynddynt (fel yr oeddynt ar 15 Gorffennaf 2016). Er bod cyfraddau banciau'r DU yn gyffredinol wedi cael eu gostwng ers y refferendwm, ychydig iawn o newid fu yng nghyfraddau'r sefydliadau y mae'r awdurdod yn adneuo arian ynddynt.

## 10. CASGLIAD

**10.1** Mae adolygiad o'r Perfformiad Rheoli Trysorlys ar gyfer 2015/16 wedi ei ddarparu. Roedd y flwyddyn yn weddol sefydlog a'r gweithgaredd mwyaf arwyddocaol oedd benthyciad o £21.169m gan PWLB ar gyfer prynu allan o'r cymhorthdal blynyddol CRT i Lywodraeth Cymru. Bydd hyn yn arbed arian i'r Cyngor ac, yn ychwanegol yn cynnig mwy o hyblygrwydd gyda'r CRT iddo reoli ei stoc ei hun. Roedd gan y cyngor falansau ariannol priodol bob amser er bod y graddfeydd llog isel yn golygu nad oedd fawr o ddychweliad. Fodd bynnag, mae hyn yn gyson â Strategaeth Rheoli Trysorlys 2016 a'i amcanion allweddol sef risg isel a sicrhau bod digon o arian i dalu credydwyr y Cyngor ac ati. Ceir manylion yn atodiad 1 am sefyllfa ariannol offerynnau ariannol y Cyngor ar 31 Mawrth 2016.

**R MARC JONES**
**PENNAETH SWYDDOGAETH (ADNODDAU) A**
**SWYDDOG ADRAN 151** **25 GORFFENNAF 2016**

**ATODIAD 1**

## Crynodeb o Werth y Portffolio
## Ar 31 Mawrth 2016

| **ASEDAU ARIANNOL** | **Enwebol / Prif (£)** | **Gwerth Teg (£)** |
|---|---|---|
| Arian (cyfrifon llog) (1) | 11,209,812 | 11,239,940 |
| Adneuon Cyfnod Sefydlog | 5,000,000 | 5,004,184 |
| **FINANCIAL LIABILITIES** | | |
| Benthyciad PWLB – Aeddfedu | 110,484,478 | 181,198,276 |
| Benthyciad PWLB – Blwydd-dal | 347,664 | 450,712 |



**Gwrthbartïon**

| | | |
|---|---|---|
| **(1)** | Arian (cyfrifon llog) | |
| | Santander | 6,783,222 |
| | Bank of Scotland | 707,475 |
| | HSBC | 3,718,240 |
| | RBS | 875 |
| | | 11,209,812 |
| **(2)** | Adneuon Cyfnod Sefydlog | |
| | Cymdeithas Adeiladu Nationwaide | 5,000,000 |

**ATODIAD / APPENDIX 2**

.

**Graddfeydd Credyd Gwrthbartion buddsoddi a'r adneuon a ddelir gyda phob un ar 31 Mawrth 2016 ***
**Credit ratings of investment counterparties and deposits held with each as at 31 March 2016***

| Grŵp Bancio/ Banking Group | Sefydliad/ Institution | Adneuon / Deposit £'000 | Hyd (Galw tymor sefydlog) / Duration (Call / Fixed Term**) | Cyfnod (O/I)/ Period (From - To) | Graddfa Dychweliad/ Rate of Return % | Graddfa Tymor Hir Fitch Long Term Rating *** | Graddfa Tymor Byr Fitch Short Term Rating *** | Graddfa Tymor Hir Moody's Long Term Rating *** | Graddfa Tymor Byr Moody's Short Term Rating *** | Graddfa Tymor Hir Standard & Poor's (S&P) Long Term Rating *** | Graddfa Tymor Byr Standard & Poor's (S&P) Short Term Rating *** | Lliw Sector/Hyd Awgrymiedig/ Sector Colour / Suggested Duration |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Lloyds Banking Group plc | Bank of Scotland plc | **707** | **Galw/ Call** | **d/b** | **0.40** | **A+** | **F1** | **A1** | **P-1** | **A** | **A-1** | **Coch – 6 mis/ Red - 6 months** |
| HSBC Holdings plc | HSBC Bank plc | **3,718** | **Galw/ Call** | **d/b** | **0.25** | **AA-** | **F1+** | **Aa2** | **P-1** | **AA-** | **A-1+** | **Oren – 12 mis / Orange – 12months** |
| Santander Group plc | Santander UK plc | **6,783** | **Galw/ Call** | **d/b** | **0.40** | **A** | **F1** | **A1** | **P-1** | **A** | **A-1** | **Coch - 6 mis / Red – 6 months** |
| The Royal Bank of Scotland Group plc | The Royal Bank of Scotland plc | **1** | **Galw/ Call** | **d/b** | **0.25** | **BBB+** | **F2** | **A3** | **P-2** | **BBB+** | **A-2** | **Glas - 12 mis / Blue - 12 months** |
| Dim yn berthnasol | Cymdeithas Adeiladu Nationwide | **5,000** | **Adneuon am 3 mis** | | **0.50** | **A** | **F1** | **A1** | **P-1** | **A** | **A-3** | **Coch - 6 mis / Red – 6 months** |

* Ceir y Rhestr Meini Prawf Gwrthbartion yn Atodiad 6 o'r Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys 2014/15 / The Counterpart Criteria can be found at Appendix 6 of the 2014/15 Treasury Management Strategy Statement.

** Sef tymor ar pwynt y buddsoddi/Being term at the point of investment.

**ATODIAD / APPENDIX 3**

**Graddfeydd Credyd Gwrthbartion buddsoddi a'r adneuon a ddelir gyda phob un ar 15 Gorffennaf 2016 ***
**Credit ratings of investment counterparties and deposits held with each as at 31 July 2016***

| Grŵp Bancio/ Banking Group | Sefydliad/ Institution | Adneuon / Deposit £'000 | Hyd (Galw tymor sefydlog) / Duration (Call / Fixed Term**) | Cyfnod (O/I)/ Period (From - To) | Graddfa Dychweliad/ Rate of Return % | Graddfa Tymor Hir Fitch Long Term Rating *** | Graddfa Tymor Byr Fitch Short Term Rating *** | Graddfa Tymor Hir Moody's Long Term Rating *** | Graddfa Tymor Byr Moody's Short Term Rating *** | Graddfa Tymor Hir Standard & Poor's (S&P) Long Term Rating *** | Graddfa Tymor Byr Standard & Poor's (S&P) Short Term Rating *** | Lliw Sector/Hyd Awgrymiedig/ Sector Colour / Suggested Duration |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Lloyds Banking Group plc | Bank of Scotland plc | **7,411** | **Galw/ Call** | **d/b** | **0.40** | **A+** | **F1** | **A1** | **P-1** | **A** | **A-1** | **Coch – 6 mis/ Red - 6 months** |
| HSBC Holdings plc | HSBC Bank plc | **2,423** | **Galw/ Call** | **d/b** | **0.25** | **AA-** | **F1+** | **Aa2** | **P-1** | **AA-** | **A-1+** | **Oren – 12 mis / Orange – 12months** |
| Santander Group plc | Santander UK plc | **7,499** | **Galw/ Call** | **d/b** | **0.40** | **A** | **F1** | **A1** | **P-1** | **A** | **A-1** | **Coch - 6 mis / Red – 6 months** |
| The Royal Bank of Scotland Group plc | The Royal Bank of Scotland plc | **2** | **Galw/ Call** | **d/b** | **0.25** | **BBB+** | **F2** | **A3** | **P-2** | **BBB+** | **A-2** | **Glas - 12 mis / Blue - 12 months** |
| Dim yn berthnasol | Cymdeithas Adeiladu Nationwide | **5,000** | **Adneuon am 3 mis** | | **0.50** | **A** | **F1** | **A1** | **P-1** | **A** | **A-3** | **Coch - 6 mis / Red – 6 months** |
| Cyfanswm Adneuon | | **22,736** | | | | | | | | | | |

* Ceir y Rhestr Meini Prawf Gwrthbartion yn Atodiad 6 o'r Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys 2014/15 / The Counterpart Criteria can be found at Appendix 6 of the 2014/15 Treasury Management Strategy Statement.

** Sef tymor ar pwynt y buddsoddi/Being term at the point of investment.

# The Economy and Interest Rates

Market expectations for the first increase in Bank Rate moved considerably during 2015/16, starting at quarter 3 2015 but soon moving back to quarter 1 2016. However, by the end of the year, market expectations had moved back radically to quarter 2 2018 due to many fears including concerns that China's economic growth could be heading towards a hard landing; the potential destabilisation of some emerging market countries particularly exposed to the Chinese economic slowdown; and the continuation of the collapse in oil prices during 2015 together with continuing Eurozone growth uncertainties.

These concerns have caused sharp market volatility in equity prices during the year with corresponding impacts on bond prices and bond yields due to safe haven flows. Bank Rate, therefore, remained unchanged at 0.5% for the seventh successive year. Economic growth (GDP) in the UK surged strongly during both 2013/14 and 2014/15 to make the UK the top performing advanced economy in 2014. However, 2015 has been disappointing with growth falling steadily from an annual rate of 2.9% in quarter 1 2015 to 2.1% in quarter 4.

The Funding for Lending Scheme, announced in July 2012, resulted in a flood of cheap credit being made available to banks which then resulted in money market investment rates falling materially. These rates continued at very low levels during 2015/16.

The sharp volatility in equity markets during the year was reflected in sharp volatility in bond yields. However, the overall dominant trend in bond yields since July 2015 has been for yields to fall to historically low levels as forecasts for inflation have repeatedly been revised downwards and expectations of increases in central rates have been pushed back. In addition, a notable trend in the year was that several central banks introduced negative interest rates as a measure to stimulate the creation of credit and hence economic growth.


The ECB had announced in January 2015 that it would undertake a full blown quantitative easing programme of purchases of Eurozone government and other bonds starting in March at €60bn per month. This put downward pressure on Eurozone bond yields. There was a further increase in this programme of QE in December 2015. The anti-austerity government in Greece, elected in January 2015 eventually agreed to implement an acceptable programme of cuts to meet EU demands after causing major fears of a breakup of the Eurozone. Nevertheless, there are continuing concerns that a Greek exit has only been delayed.

As for America, the economy has continued to grow healthily on the back of resilient consumer demand. The first increase in the central rate occurred in December 2015 since when there has been a return to caution as to the speed of further increases due to concerns around the risks to world growth.


On the international scene, concerns have increased about the slowing of the Chinese economy and also its potential vulnerability to both the bursting of a property bubble and major exposure of its banking system to bad debts. The Japanese economy has also suffered disappointing growth in this financial year despite a huge programme of quantitative easing, while two of the major emerging market economies, Russia and Brazil, are in recession. The situations in Ukraine, and in the Middle East with ISIS, have also contributed to volatility.

The UK elected a majority Conservative Government in May 2015, removing one potential concern but introducing another due to the promise of a referendum on the UK remaining part of the EU. The government maintained its tight fiscal policy stance but the more recent downturn in expectations for economic growth has made it more difficult to return the public sector net borrowing to a balanced annual position within the period of this parliament.


**Gross Domestic Product Analysis (GDP)**



Inflation Rate Forecasts




**Public Works Loans Board Rates 2015-16**




| | 1 | 1-1.5 | 2.5-3 | 3.5-4 | 4.5-5 | 9.5-10 | 24.5-25 | 49.5-50 | 1 month variable |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1/4/15 | 1.130% | 1.210% | 1.510% | 1.710% | 1.900% | 2.490% | 3.150% | 3.110% | 1.320% |
| 31/3/16 | 1.130% | 1.160% | 1.330% | 1.470% | 1.610% | 2.280% | 3.110% | 2.920% | 1.310% |
| High | 1.350% | 1.470% | 1.860% | 2.120% | 2.350% | 3.060% | 3.660% | 3.580% | 1.370% |
| Low | 1.010% | 1.040% | 1.190% | 1.330% | 1.470% | 2.100% | 2.980% | 2.810% | 1.310% |
| Average | 1.212% | 1.302% | 1.608% | 1.814% | 2.004% | 2.653% | 3.348% | 3.216% | 1.336% |
| Spread | 0.340% | 0.430% | 0.670% | 0.790% | 0.880% | 0.960% | 0.680% | 0.770% | 0.060% |
| High date | 05/08/2015 | 06/08/2015 | 02/07/2015 | 15/07/2015 | 14/07/2015 | 14/07/2015 | 02/07/2015 | 14/07/2015 | 30/10/2015 |
| Low date | 11/02/2016 | 11/02/2016 | 11/02/2016 | 11/02/2016 | 11/02/2016 | 11/02/2016 | 11/02/2016 | 11/02/2016 | 21/03/2016 |

| | 1 Year | 5 Year | 10 Year | 25 Year | 50 Year |
|---|---|---|---|---|---|
| 1/4/15 | 1.13% | 1.90% | 2.49% | 3.15% | 3.11% |
| 31/3/16 | 1.13% | 1.61% | 2.28% | 3.11% | 2.92% |
| Low | 1.01% | 1.47% | 2.10% | 2.98% | 2.81% |
| Date | 11/02/2016 | 11/02/2016 | 11/02/2016 | 11/02/2016 | 11/02/2016 |
| High | 1.35% | 2.35% | 3.06% | 3.66% | 3.58% |
| Date | 05/08/2015 | 14/07/2015 | 14/07/2015 | 02/07/2015 | 14/07/2015 |
| Average | 1.21% | 2.00% | 2.65% | 3.35% | 3.22% |


Apr 2015 - Mar 2016 PWLB maturity certainty rates
4.00%
3.50%
3.00%
2.50%
2.00%
1.50%
1.00%
0.50%
1-Apr-15
1-May-15
1-Jun-15
1-Jul-15
1-Aug-15
1-Sep-15
1-Oct-15
1-Nov-15
1-Dec-15
1-Jan-16
1-Feb-16
1-Mar-16
1 Year
5 Year
10 Year
50 Year
50 year target %

Investment Rates 2015-16

Bank Rate remained at its historic low of 0.5% throughout the year; it has now remained unchanged for seven years. Deposit rates remained depressed during the whole of the year, primarily due to the effects of the Funding for Lending Scheme.




***Allan gan / From: CAPITA ASSET SERVICES – TREASURY SOLUTIONS***

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **Dyddiad:** | **19 MEDI 2016** |
| **Pwnc:** | **PANEL CANLYNIAD SGRIWTINI – RHEOLI DYLEDION** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Y CYNGHORYDD H E JONES** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **MARC JONES (EST 2601)** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | Marc Jones / Geraint Jones<br>2601 / 2651<br>rmjfi@ynysmon.gov.uk / ghjfi@ynysmon.gov.uk |
| **Aelodau Lleol:** | **Amherthnasol** |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

Yn dilyn cyflwyno adroddiad gan y Panel Canlyniad Sgriwtini i'r Pwyllgor Gwaith ar 25 Ebrill 2016, gofynnodd y Pwyllgor Gwaith am adroddiad dilyn-i-fyny ar y cynnydd a wnaed i weithredu'r argymhellion a gyflwynwyd.

Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith nodi cynnwys yr adroddiad.

**B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?**

Amherthnasol

**C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?**

Hwn yw'r diweddariad y gofynnwyd amdano gan y Pwyllgor Gwaith.

**CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?**

Amherthnasol

**D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?**

Amherthnasol

| | **DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| 1 | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)**(mandadol) | |
| 2 | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | Amherthnasol – y Swyddog Adran 151 yw awdur yr adroddiad hwn |
| 3 | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| 5 | **Eiddo** | |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| 7 | **Sgriwtini** | |
| 8 | **Aelodau Lleol** | |
| 9 | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | |

| **E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | | |
|---|---|---|
| **1** | **Economaidd** | |
| **2** | **Gwrthdlodi** | |
| **3** | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| **4** | **Amgylcheddol** | |
| **5** | **Cydraddoldebau** | |
| **6** | **Cytundebau Canlyniad** | |
| **7** | **Arall** | |

**F - Atodiadau:**

Atodiad 1 – Adroddiad diweddaru manwl ar weithrediad yr argymhellion a wnaed gan y Panel Canlyniad Sgriwtini

**FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):**

Panel Canlyniad Sgriwtini – Adroddiad ar Reoli Dyledion – Rhaglen y Pwyllgor Gwaith 25 Ebrill 2016

## 1. CYFLWYNIAD

**1.1.** Yn sgil pryderon a gafwyd ynghylch lefel y dyledion a ddilëwyd, sefydlodd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol Banel o Aelodau i adolygu'r modd y mae dyledion yn cael eu rheoli yn yr Awdurdod. Adolygodd y Panel y prosesau sy'n ymwneud â'r canlynol: -

i. Y modd y mae dyledion yn cael eu codi a'r taliadau'n cael eu derbyn;
ii. Y broses dalu a phryd yr oedd y Cyngor yn derbyn taliad cyn darparu'r gwasanaeth;
iii. Camau gorfodaeth mewn perthynas â dyledion sydd heb eu talu;
iv. Polisi corfforaethol y Cyngor ar reoli dyled.

**1.2.** Cwblhaodd y Panel ei adolygiad ym mis Ebrill 2016 a chyflwynwyd ei adroddiad terfynol i'r Pwyllgor Gwaith ar 25 Ebrill 2016. Daeth y Panel i'r 3 prif gasgliad isod gan wneud 8 o argymhellion: -

**Casgliadau**

**Casgliad 1** – Mae'r prosesau ac arferion mewn perthynas â bilio a chasglu incwm wedi gwella yn ddiweddar, ond mae angen gwneud mwy er mwyn cynyddu canran y taliadau ymlaen llaw a dderbynnir ar gyfer gwasanaethau;

**Casgliad 2 –** Mae'r Ddogfen Bolisi ddrafft ar reoli dyled yn fan cychwyn da, ond roedd angen mwy o waith er mwyn sicrhau aliniad strategol gyda nodau a blaenoriaethau'r Cyngor;

**Casgliad 3** – Roedd yr ymarfer meincnodi a gynhaliwyd gan y Panel ar arferion rheoli dyledion wedi ychwanegu gwerth at yr adolygiad Sgriwtini.

**Argymhellion**

**1.1** Dylai'r Pwyllgor Gwaith sefydlu polisi o godi tâl ymlaen llaw am nwyddau a gwasanaethau, lle mae hynny'n bosibl.

**1.2** Dylai'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth gefnogi Gwasanaethau unigol i weithredu'r polisi o godi tâl ymlaen llaw am nwyddau a gwasanaethau.

**1.3** Ar yr adeg briodol, dylai'r Pennaeth Adnoddau sicrhau bod strategaeth ar waith i wella lefelau casglu incwm drwy gyflwyno newidiadau i'r dulliau casglu cyfredol

**1.4** Dylai'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth ystyried gwneud defnydd llawn o'r gronfa arfaethedig ar gyfer newid er mwyn cyflwyno newid i'n diwylliant, systemau, prosesau a gweithdrefnau casglu incwm ar lefel gorfforaethol ac ar lefel gwasanaethau (a chan sicrhau aliniad gyda'r Prosiect Gweithio'n Gallach).

**2.1** Dylai'r Pwyllgor Gwaith egluro polisi'r Cyngor ar yr agweddau canlynol o'n trefniadau rheoli dyledion: - Sut y dylai'r Cyngor ymdrin ag unigolion sy'n gwrthod talu am wasanaethau gofal a sut y dylai'r Cyngor ymdrin ag eiddo unigolion o dan y cynllun taliadau gohiriedig.

**2.2** Bod y Pwyllgor Gwaith yn cymeradwyo'r ddogfen bolisi gorfforaethol ar reoli dyledion yn dilyn datblygu strategaeth gwrthdlodi ac asesiadau o'r effaith o ran cydraddoldeb a'r Iaith Gymraeg.

**2.3** Dylai'r Pennaeth Adnoddau gyflwyno'r ddogfen bolisi gorfforaethol ar reoli dyled i'r Pwyllgor Gwaith i'w chymeradwyo o fewn amserlen i'w chytuno gan y Pwyllgor Gwaith.

**3.1** Dylai'r Pennaeth Adnoddau ddefnyddio canlyniadau gwaith meincnodi'r Panel ar arferion da yn y maes rheoli dyled mewn awdurdodau eraill er mwyn ychwanegu gwerth at y ddogfen bolisi ddrafft ar reoli dyled.

**1.3.** Penderfynodd y Pwyllgor Gwaith fel a ganlyn: -

- Cymeradwyo'r adroddiad terfynol ynghyd â'r 3 prif gasgliad a'r 8 argymhelliad ynddo;
- Bod y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Gwaith ym Medi 2016 ar gynnydd, yn benodol o ran ymateb i argymhellion 1.3 a 2.2 o'r adroddiad terfynol.

## 2. YSTADEGAU CYFREDOL AR ÔL-DDYLEDION AC ANFONEBAU A GODWYD

**2.1.** Cododd yr angen am yr adolygiad o ganlyniad i bryder a fynegwyd gan y Pwyllgor Sgriwtini am lefel yr ôl-ddyledion a nifer yr anfonebau a godwyd am wasanaethau a ddarparwyd mewn amgylchiadau lle dylai'r Cyngor fod yn gofyn am daliad ymlaen llaw am ddarparu'r gwasanaeth.

Mae'n amser da i ddiweddaru Aelodau am y sefyllfa bresennol mewn perthynas ag ôl-ddyledion ac anfonebau. Mae'r prif ddyledion sy'n ymwneud â Chronfa'r Cyngor yn codi o anfonebau'r Dreth Gyngor a Mân Ddyledwyr. Er bod ôl-ddyledion ar gyfer Trethi Annomestig Cenedlaethol a Rhenti Tai, nid yw'r rhain yn cael effaith uniongyrchol ar Gronfa'r Cyngor ac, felly, nid ydynt wedi eu cynnwys yn y dadansoddiad hwn.

| | **Tabl 1<br>Balansau Ôl-ddyledion ar 31 Mawrth** | | |
|---|---|---|---|
| | **31 Mawrth, 2014<br>£** | **31 Mawrth, 2015<br>£** | **31 Mawrth, 2016<br>£** |
| Y Dreth Gyngor① | 2,673,000 | 2,851,000 | 2,501,000 |
| Mân Ddyledwyr ② | 3,568,000 | 4,347,000 | 5,620,000 |
| Cyfanswm | 6,241,000 | 7,198,000 | 8,121,000 |

① Yn unol â'r Dychweliadau Blynyddol i Lywodraeth Gymru mewn perthynas â Chasglu'r Dreth Gyngor
② Yn unol â Civica Financials - Adroddiadau Diwedd Blwyddyn ar hen ddyledion

**2.2.** Fodd bynnag, nid yw'r balans gwirioneddol ar 31 Mawrth bob blwyddyn ond yn darparu rhan o'r dadansoddiad ac mae'n bwysig hefyd ystyried oed y dyledion oherwydd maent yn fwy anodd i'w casglu wrth i amser fynd heibio. Hefyd, mae angen cadw mewn cof y symiau sy'n cael eu dileu oherwydd mae hyn yn lleihau balans yr ôl-ddyledion ac i bob pwrpas yn fesur o ba mor llwyddiannus neu aflwyddiannus yw prosesau casglu'r Cyngor. Caiff dadansoddiad o'r hen ddyledion a'r symiau a ddilëwyd eu dangos yn Nhablau 2 a 3 isod:-

| | **Tabl 2a<br>Dadansoddiad o Oed y Dyledion – Y Dreth Gyngor** | | |
|---|---|---|---|
| | **Mawrth 2014<br>£** | **Mawrth 2015<br>£** | **Mawrth 2016<br>£** |
| Blwyddyn y Dreth Gyngor | 905,000 | 1,029,000 | 828,000 |
| Blwyddyn +1 | 465,700 | 482,100 | 466,900 |
| Blwyddyn +2 | 317,100 | 286,100 | 310,800 |
| Blwyddyn +3 | 235,400 | 238,400 | 226,600 |
| Blwyddyn +4 | 223,600 | 193,000 | 206,900 |
| Blwyddyn +5 | 194,900 | 192,600 | 161,900 |
| Blwyddyn +6 a drosodd | 331,300 | 429,800 | 299,900 |
| Cyfanswm | 2,673,000 | 2,851,000 | 2,501,000 |

| | Tabl 2b<br>**Dadansoddiad o Oed y Dyledion – Mân-Ddyledwyr** | | |
|---|---|---|---|
| | **Mawrth 2014**<br>**£** | **Mawrth 2015**<br>**£** | **Mawrth 2016**<br>**£** |
| Balansau Credyd | (38,000) | (41,400) | (9,200) |
| Tâl dim yn ddyledus eto | 13,600 | 12,500 | 37,100 |
| Llai na 6 mis | 1,219,700 | 2,888,900 | 3,953,200 |
| Rhwng 6 a 12 mis | 432,300 | 204,200 | 317,000 |
| Rhwng 1 a 2 flynedd | 864,600 | 433,300 | 353,300 |
| Dros 2 flynedd | 1,409,800 | 916,000 | 1,109,400 |
| Taliadau heb eu cyfatebu | (334,000) | (66,500) | (140,800) |
| Cyfanswm | 3,568,000 | 4,347,000 | 5,620,000 |

| | **Tabl 3**<br>**Dyledion a Ddilëwyd yn y Flwyddyn** | | |
|---|---|---|---|
| | **Mawrth 2014**<br>**£** | **Mawrth 2015**<br>**£** | **Mawrth 2016**<br>**£** |
| Y Dreth Gyngor | 182,200 | 53,900 | 428,200 |
| Mân-Ddyledwyr | 0 | 188,400 | 56,800 |
| Cyfanswm | 182,200 | 242,300 | 485,000 |

**2.3.** Mae'r dadansoddiad yn Nhablau 1 i 3 yn cadarnhau'r canlynol :-

- Y Dreth Gyngor - mae'r cyfraddau casglu yn gwella ac ôl-ddyledion yn gostwng. Gwelwyd gwelliant yn y gyfradd gasglu yn ystod y flwyddyn, ond mae'r lleihad mewn ôl-ddyledion i'w briodoli'n bennaf i ddileu dyledion yn ystod 2015/16. Er bod proffil oed y dyledion yn gwella, mae casglu ôl-ddyledion yn faes sy'n parhau i fod angen ei dargedu;
- Mân ddyledwyr - mae dyledion ar ddiwedd y flwyddyn yn parhau i godi. Fodd bynnag, bu gwelliant ym mhroffil oed y dyledion gyda thaliadau'n cael eu sicrhau ar gyfer cyfrifon hŷn. Bydd y rhan fwyaf o'r dyledion sy'n hŷn na 2 flynedd yn cael eu codi fel pridiant ar eiddo er mwyn diogelu budd yr Awdurdod, ond pery risg y bydd dyledion sylweddol o bosib yn cael eu dileu. Mae yna hefyd adolygiad parhaus o daliadau sydd heb eu cyfatebu er mwyn dyrannu taliadau o'r fath yn erbyn y ddyled gywir.

**2.4.** Mae nifer yr anfonebau a godwyd ar gyfer gwasanaethau lle gellid derbyn incwm cyn darparu'r gwasanaeth i'w gweld yn Nhabl 4 isod:-

| **Tabl 4**<br>**Nifer o Anfonebau a Godwyd Yn Flynyddol** | | |
|---|---|---|
| **Mawrth 2014** | **Mawrth 2015** | **Mawrth 2016** |
| 16,471 | 13,487 | 12,576 |

**2.5.** Mae'r wybodaeth yn Nhabl 4 yn cadarnhau bod cynnydd wedi ei wneud i leihau nifer yr anfonebau a godwyd ar ôl i'r gwasanaeth gael ei ddarparu. Wrth i'r ddyled a godwyd leihau mae'r posibilrwydd na fydd dyledion yn cael eu talu a'u casglu hefyd yn lleihau, sy'n gwella'r ffordd y mae'r Cyngor yn rheoli dyledion.

## 3. NEWID Y DULLIAU CASGLU INCWM

**3.1.** Yn draddodiadol, nid yw'r Cyngor wedi bod yn cynnig llawer o ddewis i gwsmeriaid o ran y modd y gallant dalu arian sy'n ddyledus i'r Cyngor. Dangosir y gwahanol opsiynau yn Nhabl 5 isod: -

| Tabl 5<br>Dulliau Amgen Talu Incwm | | |
|---|---|---|
| **Dull Casglu** | **Mathau o Incwm a Gasglwyd** | **sylwadau** |
| Debyd Uniongyrchol | Y Dreth Gyngor<br>Trethi Annomestic Cenedlaethol<br>Rhenti Tai<br>Gofal Cartref<br>Gofal Môn<br>Aelodau Hamdden | Casglu drwy DU yn gyfyngedig i'r gwasanaethau hynny lle gellir dyfynnu rhif cyfrif |
| Cardiau Credyd / Debyd dros y ffôn (Dyledwr ddim yn bresennol) | Y Dreth Gyngor<br>Trethi Annomestic Cenedlaethol<br>Rhenti Tai<br>Anfonebau Mân-Dyledwyr | Mae galwadau yn cael eu cymryd gan y Swyddfa Arian, Incwm, Rhenti neu staff y Dreth Gyngor. Unwaith eto, rhaid i'r incwm a delir ymwneud â chyfrif neu anfoneb benodol. |
| Arian / Sieciau yn Swyddfa'r Post | Y Dreth Gyngor<br>Trethi Annomestic Cenedlaethol<br>Rhenti Tai<br>Gofal Cartref | Gall y sawl sy'n talu nail ai ddefnyddio cerdyn sweip neu'r côd bar ar y bil |
| Pay Point mewn Siopau | Y Dreth Gyngor<br>Trethi Annomestic Cenedlaethol<br>Rhenti Tai<br>Gofal Cartref | Yr un fath â system y Swyddfa Bost, ond ni fedr Pay Point ond derbyn arian parod. |
| System ffôn Touchtone | Yr un fath â'r system talu hefo cerdyn credyd / debyd dros y ffôn | Mae hwn yn wasanaeth 24 awr, ond dim ond yn derbyn taliadau ar gyfer cyfrifon gyda chyfeirnodau rhifol. |
| Rhyngrwyd | Y Dreth Gyngor<br>Trethi Annomestic Cenedlaethol<br>Rhenti Tai<br>Gofal Cartref | Mae hwn yn wasanaeth 24 awr, ond dim ond yn derbyn taliadau ar gyfer cyfrifon gyda chyfeirnodau rhifol. |
| Chip a Pin | Canolfannau Hamdden | Mae hyn yn golygu y gellir talu am wasanaethau mewn pwyntiau unigol ar hyd a lled y Cyngor e.e. derbynfeydd mewn adrannau, cofrestryddion, ysgolion. Unwaith eto, angen ehangu'r system hon. |
| Bancio ar y Rhyngrwyd | Yr un modd â Bancio ar y Rhyngrwyd | Unwaith eto, rhaid cael rhif cyfeirnod i'w ddyfynnu gyda'r taliad |
| Trosglwyddiad Banc / Giro | Yr un modd â Bancio ar y Rhyngrwyd | Unwaith eto, rhaid cael rhif cyfeirnod i'w ddyfynnu gyda'r taliad. |
| Arian parod neu siec | Unrhyw fath o incwm | Mae taliadau yn dal i gael eu derbyn drwy arian parod neu siec yn swyddfa'r Cyngor er bod y brif Swyddfa Arian wedi cau. Nid yw talu yn y modd yma'n cael ei annog, ond ni fyddwn yn gwrthod unrhyw daliadau a gynigir. |

**3.2.** Wrth i'r dechnoleg ddatblygu, mae mwy a mwy o gwsmeriaid yn dod yn fwy cyfarwydd â bancio digidol ac yn defnyddio'r rhyngrwyd a ffonau clyfar i dalu am nwyddau a gwasanaethau. Mae'r Cyngor wedi bod ar ei hôl hi o ran buddsoddi yn y dechnoleg angenrheidiol i alluogi cwsmeriaid i ryngweithio â'r Cyngor mewn ffordd fwy modern. Fodd bynnag, mae hyn yn newid ac eisoes mae wedi buddsoddi, neu bydd yn buddsoddi'n fuan mewn technolegau a fydd yn caniatáu i'r canlynol ddigwydd: -

1. Sefydlu ffurflenni ar wefan y Cyngor a fydd yn caniatáu i gwsmeriaid ofyn am wasanaethau a thalu amdanynt o flaen llaw gan ddefnyddio'r rhyngrwyd. Wrth i'r cyfleon gynyddu i gwsmeriaid dalu am wahanol wasanaethau dros y Rhyngrwyd, gall y Cyngor fynnu bod cwsmeriaid yn talu ymlaen llaw am fwy o'i wasanaethau.
2. Fel 1 uchod, ond ar gyfer AppMon. Bydd hyn yn caniatáu i gwsmeriaid dalu am nwyddau a gwasanaethau gyda'u ffonau clyfar.
3. Caniatáu i drethdalwyr / talwyr rhent dalu'r Dreth Gyngor / Trethi Annomestig Cenedlaethol neu Renti Tai drwy gyfrwng AppMon ar eu ffonau clyfar.
4. Bydd cyfleusterau terfynellau hunanwasanaeth ar gael yn y dderbynfa newydd, Cyswllt Môn. Bydd hyn yn annog cwsmeriaid i gymryd mwy o gyfrifoldeb am dalu'r symiau sy'n ddyledus trwy ddulliau digidol.
5. Cyflwyno peiriannau chip & pin i dderbynfa Cyswllt Môn a'r Gwasanaeth Cofrestru, gyda hynny eto'n caniatáu i daliadau gael eu gwneud yn electronig.
6. Cyflwyno debyd uniongyrchol fel dull o dalu am fwy o wasanaethau e.e. gwasanaethau Gofal Môn a rhenti unedau diwydiannol.
7. Buddsoddi mewn system newydd ar gyfer rheoli arian parod a fydd yn gwella prosesau casglu incwm. Bydd hyn yn lleihau'r amser a'r adnoddau sydd eu hangen i gyfrifo incwm a rhyddhau adnoddau i fonitro ac adennill dyledion.

**3.3.** Bydd y newidiadau hyn yn cymryd amser i'w gweithredu (rhwng 6 i 12 mis pellach i weithredu'r holl newidiadau) a bydd y ffordd y mae cwsmeriaid yn rhyngweithio gyda'r Cyngor hefyd yn cymryd amser. Felly, fe welir manteision y newidiadau hyn yn raddol dros y blynyddoedd sydd i ddod.

## 4. POLISI RHEOLI DYLED

**4.1.** Fel y dywedwyd wrth y Panel Sgriwtini, mae drafft o'r polisi rheoli dyled wedi bod ar gael ers nifer o flynyddoedd, ond nid yw wedi cael ei fabwysiadu'n ffurfiol. Mae'r rhan fwyaf o'r polisi yn sail i drefniadau presennol y Cyngor ar gyfer rheoli dyled. Fodd bynnag, mae cyswllt rhwng y polisi rheoli dyledion a Strategaeth Gwrthdlodi'r Cyngor ac mae angen sicrhau nad yw gofynion y polisi rheoli dyledion yn gweithio yn erbyn Strategaeth Gwrthdlodi'r Cyngor.

**4.2.** Mae drafftio Strategaeth Gwrthdlodi yn rhan o gylch gorchwyl y Rheolwr Prosiect Taclo Tlodi a Diwygio Lles. Cychwynnodd y swyddog cyfredol ei ddyletswyddau ym mis Mai 2016 ac mae wedi dechrau ar y gwaith o lunio'r polisi. Cynhaliwyd gweithdy yn ddiweddar i edrych ar un rhan allweddol o'r Strategaeth Gwrthdlodi, sef cefnogi teuluoedd bregus ar yr Ynys. Bwriedir cynnal dau weithdy arall cyn y Nadolig. Bydd trafodaethau pellach hefyd yn cael eu cynnal gyda'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth ac Aelodau ar egwyddorion allweddol y strategaeth. Y nod yw cael cymeradwyo'r Strategaeth Gwrthdlodi erbyn mis Chwefror y flwyddyn nesaf.

**4.3.** Unwaith y bydd y gwaith hwn wedi'i gwblhau, cynhelir adolygiad terfynol o'r polisi rheoli dyledion corfforaethol a fydd yn cymryd i ystyriaeth ganfyddiadau'r ymarferiad meincnodi yn unol ag argymhelliad 3.1 y Panel Sgriwtini.

## 5. GWEITHREDU ARGYMHELLION ERAILL

**5.1.** Argymhelliad 1.1 & 1.2 - Bellach, mae’n bolisi a dderbynnir yn gyffredinol yn y Cyngor bod cwsmeriaid yn gorfod talu ymlaen llaw am y gwasanaethau y maent yn gofyn amdanynt lle bynnag mae hynny'n bosibl. Fel y gellir ymestyn y polisi hwn er mwyn sicrhau ei fod yn cael yr effaith fwyaf bosibl, bydd raid gweithredu rhai o'r newidiadau a nodir ym mharagraff 3.2 a bydd hyn yn galluogi'r Cyngor i orfodi'r newid sianel sy'n ofynnol lle mae cwsmeriaid yn archebu ac yn talu am y gwasanaethau trwy gyfrwng y Rhyngrwyd a'r App ac yn llai aml dros y ffôn a thrwy ymweld yn bersonol â Swyddfeydd y Cyngor.

**5.2.** Argymhelliad 1.4 - Wrth asesu ceisiadau am gyllid, rhoes yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth flaenoriaeth i fidiau sy'n gwella prosesau busnes y Cyngor er mwyn newid y diwylliant casglu incwm. Mae’r bidiau a gefnogwyd yn cynnwys prynu system Rheoli Perthynas â Chwsmeriaid (CRM), prynu meddalwedd porth talu a fydd yn darparu cyswllt rhwng yr App / Rhyngrwyd a systemau swyddfa gefn a phrynu system rheoli arian parod newydd.

**5.3.** Argymhelliad 2.1 - Nid oes unrhyw gynnydd wedi’i wneud gyda’r argymhelliad hwn a byddid yn croesawu sylwadau'r Pwyllgor Gwaith ynghylch sut i benderfynu ar bolisi'r Cyngor, e.e. a yw’r Pwyllgor Gwaith yn dymuno penderfynu ar y polisi neu a ydynt yn dymuno cael trafodaeth ehangach gydag Aelodau eraill drwy'r broses Sgriwtini.

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a Pwyllgor Gwaith |
| **Dyddiad:** | 12fed o Fedi, 2016 a 19eg o Fedi, 2016 |
| **Pwnc:** | Tendro Gofal Cartref ar Ynys Môn |
| **Aelod(au) Portffolio:** | Cynghorydd Aled Morris Jones |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Alwyn Jones, Pennaeth Gwasanaethau Oedolion |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | Elin Williams, Rheolwr Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Oedolion Hŷn<br>01248 751813 / ElinWilliams@ynysmon.gov.uk |
| **Aelodau Lleol:** | Dim yn Berthnasol |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

**Sefyllfa Bresennol**

Mae yna tua 7 darparwr allanol yn darparu gofal ar Ynys Môn. Ar hyn o bryd gall darparwyr, ac mi fyddant yn gwneud hynny, wrthod pecynnau a allai fod yn anneniadol sy'n cynnwys pecynnau mewn ardaloedd hynod wledig neu becynnau anghenion cymhleth. Rhaid i unrhyw becynnau sy'n cael eu gwrthod gael eu darparu'n fewnol. Ar hyn o bryd, mae'n anodd yn aml iawn dod o hyd i ddarparwr sy'n fodlon darparu pecynnau gofal mewn rhai rhannau penodol o'r Ynys, sy'n arwain at wasanaeth anghyson yn cael ei gynnig ar draws yr Ynys.

Nid yw'r model hwn yn addas i'r awdurdod lleol bellach ac nid yw'n cynnig cymorth cyson o safon ar gyfer defnyddwyr sydd angen gofal a chymorth. Mae'r problemau yr ydym yn eu cael ar hyn o bryd hefyd yn arwain at oedi o ran pobl yn cael dod adref o'r ysbyty.
Mae hefyd yn hanfodol ein bod yn cysylltu â'r farchnad gofal cartref er mwyn sicrhau ein bod yn cydymffurfio â gofynion rheolau sefydlog caffael yr awdurdod lleol.

**Ymgynghori ac Ymgysylltu**

Ymgynghorwyd ac ymgysylltwyd yn barhaus â defnyddwyr gwasanaeth a budd-ddeiliaid am y prosiect hwn, sydd wedi cyfrannu at ysgrifennu'r fanyleb ar gyfer y gwasanaeth hwn. Mae adborth a sylwadau am faterion megis TUPE, gofynion Iaith Gymraeg; pris ac ansawdd; monitro a rheoli contractau'n gadarn a hyfforddiant staff i gyd wedi eu hystyried a'u cynnwys o fewn y fanyleb.

**Opsiwn a ffefrir ar gyfer Darpariaeth Gofal Cartref a Buddion yn y dyfodol.**

Dros y flwyddyn ddiwethaf mae'r Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Pobl Hŷn wedi bod yn edrych ar opsiynau ar gyfer cryfhau'r ddarpariaeth bresennol. Cytunwyd mai comisiynu ar

sail ardal yw’r ffordd ymlaen er mwyn cryfhau’r ddarpariaeth bresennol.

Argymhellir hyn gan:-

- Nad yw agweddau amgen yn ateb y diffyg darpariaeth bresennol yn y farchnad.
- Cylch cymharol fach o ddarparwyr sydd gan Ynys Môn. Mae risg y byddai proses dendro nad yw hi’n sicrhau darpariaeth yn achosi’r un problemau a wynebir ar hyn o bryd.
- Nod y dull hwn yw cryfhau’r ddarpariaeth yn y tymor byr a’r tymor hir drwy ddatblygu gofynion cytundebol clir a pherthnasau hir dymor gyda darparwyr.

Mae cynrychiolwyr o Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr hefyd yn rhan o’r grŵp, ac maent wedi ymrwymo mewn egwyddor i gomisiynu gofal cartref ar y cyd yn y dyfodol, sy’n cynnwys Pecynnau Gofal CHC. Maent yn disgwyl cymeradwyaeth gweithredol terfynol i hyn ar hyn o bryd.

Wrth fabwysiadu’r agwedd hon, mae Ynys Môn yn parhau yn gysylltiedig â Phrosiect Gofal Cartref Gogledd Cymru, ac wedi ymwneud â’r gwahanol ffrydiau gwaith ac wedi'i ymrwymo i fod yn rhan o’r Fframwaith Gogledd Cymru newydd yn y man.

Rydym yn bwriadu rhoi tri chytundeb allan i dendr. Bydd y cytundebau hyn yn cael eu rhannu’n ardaloedd daearyddol sef Gogledd, Canol a De'r Ynys (bydd yr ardaloedd yn cael eu penderfynu’n derfynol yn seiliedig ar oriau gofal cartref eithaf cyfartal). Bydd ardaloedd hefyd yn cynnwys y ddarpariaeth gofal cartref o fewn y datblygiadau Tai Gofal Ychwanegol. Mae gennym un adnodd Gofal Ychwanegol ym Mhenucheldre ar hyn o bryd a fydd yn yr ardal sy’n cynnwys Caergybi ac wrth i eraill gael eu cwblhau, bydd yn rhaid i’r darparwr lleol ddarparu gofal cartref o fewn yr uned.

Er mwyn sicrhau trosglwyddiad mesuredig i’r contractau newydd bydd y contractau yn cael eu rhoi ar waith yn raddol, a bydd y defnyddwyr gwasanaeth lleiaf agored i niwed yn trosglwyddo gyntaf, yna’r rhai hynny â’r pecynnau gofal canolig ac yn olaf, y rheini â phecynnau gofal uchel. Bydd hyn yn digwydd dros gyfnod o 12 mis.

Mae darparwyr wedi eu hysbysu am y manylion sylfaenol a’r amserlen ar gyfer y tendr yn y Fforwm Darparwyr Gofal Cartref Annibynnol a gynhaliwyd ar 26 Gorffennaf. Ni fydd unrhyw fanylion ychwanegol yn cael eu rhyddhau tan y digwyddiadau ‘Cwrdd â’r Prynwr’ a gynhelir ychydig wythnosau cyn dechrau’r broses dendro.

Bydd y fanyleb a’r dogfennau tendro yn barod ar gyfer dechrau’r broses dendro ym mis Hydref/Tachwedd 2016. Bydd y tendr yn mynd ar GwerthwchiGymru gyda’r bwriad y bydd y darparwyr newydd yn cael eu cymeradwyo a’r contractau newydd yn dechrau ym Mai 2017.

I Grynhoi:

- Mae cael tri darparwr yn lleihau’r risg o ddarparwyr yn methu â darparu gwasanaeth.

- Mae llai o ddarparwyr contract yn golygu y gellir rheoli'r contract yn well.
- Mae agwedd fesul cam yn diogelu'r defnyddwyr gwasanaeth a hefyd yn caniatáu amser i'r darparwyr allu addasu i'r strwythur newydd. Bydd darparwyr nad ydynt yn llwyddiannus yn gallu dod â'u gwasanaeth i ben fesul dipyn, a bydd hyn yn lleihau'r heriau cysylltiedig ac yn lliniaru unrhyw risgiau a allai godi yn ystod y cyfnod trawsnewid.

Os nad yw defnyddwyr gwasanaeth yn dymuno derbyn gwasanaeth gan ddarparwr gwahanol, gallant ddefnyddio Taliadau Uniongyrchol i brynu gofal eu hunain. Darperir gwybodaeth glir er mwyn cefnogi defnyddwyr sy'n dymuno dewis yr opsiwn hwn.

**B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?**

**Opsiynau**

Mae'r opsiynau canlynol wedi cael eu hystyried ac mae pob opsiwn wedi cael ei werthuso, ei drafod ac wedi ei ymchwilio i adnabod pa opsiwn ydi'r un mwyaf buddiol ac effeithiol ar gyfer pob budd-ddeiliaid:

**Opsiwn 1- Gwneud dim**

Hwn yw'r model broceriaeth sydd mewn lle yn bresennol. Mae'r model broceriaeth yn cynnig dewis i'r person sydd yn cael ei gefnogi. Mae darparwyr gofal yn cael eu clustnodi yn seiliedig ar ddewis y defnyddiwyr gwasanaeth ac ar argaeledd.

**Opsiwn 2- Cytundeb Partneriaeth**

Mae model cytundeb partneriaeth yn fodel ble mae'r Cyngor yn mynd allan i Tendr Agored ar gyfer darparwr i ddarparu pob pecyn gofal ar draws yr Ynys. Bydd y Cyngor yn gweithio yn agos gyda'r darparwr er mwyn sicrhau eu bod yn gweithio mewn ffordd cydweithrediadol, a bod prosesau yn cael eu rhoi mewn lle er mwyn sicrhau rheolaeth cytundeb a pherthynas dda. Gyda'r opsiwn yma mae yna risg o'r darparwr yn methu ac felly mae'n bosib bod angen tendro ar gyfer mwy nag un darparwr.

**Opsiwn 3- Comisiynu ar sail Ardaloedd**

Mae'r ymagwedd yma yn golygu mynd allan i dendr am dri cytundeb. Bydd y cytundebau hyn yn cael eu rhannu i ardaloedd daearyddol sef yn fras bydd yn Gogledd, Canol a De'r Ynys. Fel yr amlygir uchod, dyma'r opsiwn â ffafrir.

**C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?**

Mae angen penderfyniad gan y Pwyllgor Gwaith fel ein bod yn gallu mynd allan i dendr.

| CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn? |
|---|
| Ddim yn berthnasol. |

| D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? |
|---|
| Ddim yn berthnasol gan bod y gyllideb wedi ei gymeradwyo yn barod. |

| DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? | | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| 1 | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | Yn cytuno gyda'r argymhelliad. |
| 2 | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | |
| 3 | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| 5 | **Eiddo** | Dim yn berthnasol. |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | Dim yn berthnasol. |
| 7 | **Caffael** | |
| 8 | **Sgriwtini** | |
| 9 | **Aelodau Lleol** | |
| 10 | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | |

| E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol) | | |
|---|---|---|
| 1 | **Economaidd** | |
| 2 | **Gwrthdlodi** | |
| 3 | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| 4 | **Amgylcheddol** | |
| 5 | **Cydraddoldebau** | |
| 6 | **Cytundebau Canlyniad** | |
| 7 | **Arall** | |

| F - Atodiadau: |
|---|
| Dim atodiadau. |

| FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach): |
| --- |
| Dim papurau ychwanegol. |

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Gwaith** |
| **Dyddiad:** | **Medi 19 2016** |
| **Pwnc:** | **Moderneiddio Ysgolion ar Ynys Môn – Adroddiad yn dilyn cyhoeddi'r rhybuddion statudol ar gyfer:**<br>• **Ysgol gynradd newydd ym Mro Aberffraw**<br>• **Ysgol Parc y Bont i fynd yn ysgol gymunedol a ffedereiddio Ysgol Brynsiencyn** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Y Cynghorydd Kenneth Hughes** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Delyth Molyneux** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | **Emrys Bebb** |
| **Aelodau Lleol:** | **Y Cynghorydd Ann Griffith**<br>**Y Cynghorydd Peter Rogers** |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

**Rhesymau:**
Er mwyn cydymffurfio â'r Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'r Cod Trefniadaeth Ysgolion, cyhoeddodd yr Awdurdod ar y cyd gyda'r Eglwys yng Nghymru, **Rybuddion Statudol** o'u bwriad i:

a. Gyfuno pedair ysgol - Ysgol Bodorgan, Ysgol Dwyran, Ysgol Niwbwrch ac Ysgol Llangaffo - mewn un ysgol newydd ar safle yn Niwbwrch ac y bydd yr ysgol gynradd newydd dan reolaeth wirfoddol yr Eglwys yng Nghymru.
b. Beidio â chefnogi Ysgol Parc y Bont sydd ar hyn o bryd yn cael ei chynnal gan Gyngor Sir Ynys Môn fel ysgol dan reolaeth wirfoddol yr Eglwys yng Nghymru ac i sefydlu ysgol gynradd gymunedol cyfrwng Cymraeg newydd i'w chynnal gan Gyngor Sir Ynys Môn ar safle Ysgol Parc y Bont ar gyfer bechgyn a merched 3-11 oed. Bydd Ysgol Brynsiencyn yn cael ei ffedereiddio gydag ysgol arall.

Cyhoeddwyd y **Rhybuddion Statudol** ar Fehefin 17 2016 ac roedd cyfnod o 28 diwrnod i wrthwynebu'r cynnig yn dilyn. Felly, daeth y cyfnod gwrthwynebu i ben ar Orffennaf 15, 2016. **Derbyniwyd un gwrthwynebiad i gynnig (a) uchod ond ni dderbyniwyd gwrthwynebiad i Rybudd Statudol (b) uchod.**

Yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion 2013 a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, mae angen i'r cynigydd neu'r cynigwyr, sef yr Awdurdod ar y cyd gyda'r Eglwys yng Nghymru yn yr achos hwn, gyhoeddi adroddiad yn disgrifio unrhyw wrthwynebiad a gafwyd h.y. adroddiad gwrthwynebu. Gweler yr adroddiad gwrthwynebu yn **Atodiad 1**.

Daeth newidiadau yn y Côd Trefniadaeth Ysgolion i rym ar 1 Hydref 2013. Newidiwyd y ffordd yr oedd y Cyngor yn delio gyda gwrthwynebiad i rybudd statudol. Penderfynodd y

Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 4 Tachwedd 2013 os derbynnir gwrthwynebiad i benderfyniad gan Bwyllgor Gwaith Cyngor Sir Ynys Môn i gyhoeddi rhybudd statudol i gau ysgol gynradd dan y Côd Trefniadaeth Ysgolion newydd ddaeth i rym ar 1 Hydref 2013, y dylid cyfeirio'r mater i'r Pwyllgor Gwaith.

Felly, yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion 2013, rhan 5.3, mae angen i'r Pwyllgor Gwaith **"**benderfynu a ddylid cymeradwyo'r cynigion, eu gwrthod neu eu cymeradwyo ag addasiadau."

**Argymhellir fod y Pwyllgor Gwaith:**

i. Yn penderfynu cymeradwyo'r cynigion gwreiddiol sef:
- Cynnig peidio â chefnogi Ysgol Bodorgan (Bodorgan, Ynys Môn LL62 5AB), Ysgol Dwyran (Dwyran, Ynys Môn LL61 6AQ), Ysgol Niwbwrch (Niwbwrch, Ynys Môn LL61 6TE) ac Ysgol Llangaffo (Llangaffo, Ynys Môn LL60 6LT) sydd ar hyn o bryd yn cael eu cynnal gan Gyngor Sir Ynys Môn ac i sefydlu ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd dan reolaeth wirfoddol yr Eglwys yng Nghymru i'w chynnal gan Gyngor Sir Ynys Môn ar safle yn Niwbwrch ar dir ger Morawelon, Niwbwrch, LL61 6TH ar gyfer bechgyn a merched 3-11 oed.
- i beidio â chefnogi Ysgol Parc y Bont (Llanddaniel, Ynys Môn LL60 6HB), sydd ar hyn o bryd yn cael ei chynnal gan Gyngor Sir Ynys Môn fel ysgol dan reolaeth wirfoddol yr Eglwys yng Nghymru ac i sefydlu ysgol gynradd gymunedol cyfrwng Cymraeg newydd i'w chynnal gan Gyngor Sir Ynys Môn ar safle Ysgol Parc y Bont ar gyfer bechgyn a merched 3-11 oed. Bydd Ysgol Brynsiencyn yn cael ei ffedereiddio gydag ysgol arall.

ii. Yn awdurdodi swyddogion i barhau gyda'r broses i
(a) adeiladu ysgol gynradd newydd yn Niwbwrch (yn amodol ar fod y safle'n addas);
(b) addasu Ysgol Parc y Bont a newid ei statws ac
(c) addasu Ysgol Brynsiencyn ac i'w ffedereiddio hi gydag ysgol gynradd arall.

**Cefndir:**

Yn ei gyfarfod ar Fedi 8, 2014, penderfynodd Pwyllgor Gwaith Cyngor Sir Ynys Môn:
- Awdurdodi swyddogion o'r Adran Dysgu Gydol Oes i'w galluogi i gynnal proses ymgynghori anffurfiol neu anstatudol ar y ddarpariaeth addysg gynradd yn Ne Orllewin Ynys Môn.
- Paratoi'n ddilynol nifer o opsiynau posibl ar y ffordd ymlaen erbyn rhan gyntaf 2015.

Mae'r Cyngor wedi ymgynghori â rhieni, llywodraethwyr a staff yn y chwe ysgol yn yr ardal a hefyd gyda'r cymunedau lleol, cynghorwyr lleol a chyda llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill. Rhedai'r cyfnod ymgynghori o Dachwedd 17eg 2014 hyd at Ragfyr 21ain 2014.

Trefnwyd cyfarfodydd ymgynghori gyda staff, llywodraethwyr a rhieni'r 6 ysgol gysylltiedig dros y cyfnod hwn. Cynhaliwyd cyfarfodydd ymgynghori gyda chynghorau cymuned yn ardaloedd Bro Rhosyr a Bro Aberffraw.

Ystyriwyd nifer o opsiynau posibl ar y ffordd ymlaen ar gyfer y ddarpariaeth addysg gynradd yn ardaloedd Bro Rhosyr a Bro Aberffraw yn y broses ymgynghori anstatudol neu anffurfiol. Cododd dau bosibilrwydd o'r dadansoddiad manwl a gynhaliwyd:

**Opsiwn A**
Byddai hwn yn seiliedig ar Opsiwn 2, sef *ysgol newydd ar gyfer Bodorgan, Brynsiencyn, Niwbwrch, Dwyran ac un ysgol newydd ar gyfer Llangaffo a Pharc Y Bont*.

Yn y cyd-destun hwn, byddai lleoli un o'r ysgolion newydd yn ardal Niwbwrch yn golygu y byddai oddeutu traean o'r plant yn gallu cerdded i'r ysgol.

Byddai ar unrhyw ailfodelu Parc y Bont angen mynd i'r afael â'r problemau trafnidiaeth a adnabuwyd ar ddechrau a diwedd y diwrnod ysgol.

<u>Gallai'r</u> opsiwn hwn hefyd gynnwys ffedereiddio Ysgol Brynsiencyn gydag ysgol arall h.y. cynnal yr ysgol ar y safle presennol ond o dan drefniant rheoli gwahanol.

**Opsiwn B**
Byddai hwn yn seiliedig ar Opsiwn 4, sef *ysgol newydd ar gyfer Bodorgan, Niwbwrch, Dwyran a Llangaffo ac un ysgol newydd ar gyfer Parc y Bont a Brynsiencyn.*

Byddai angen i unrhyw ailfodelu ym Mharc y Bont fynd i'r afael â'r problemau trafnidiaeth a adnabuwyd ar ddechrau a diwedd y diwrnod ysgol.

<u>Gallai'r opsiwn hwn hefyd</u> gynnwys ffedereiddio Ysgol Brynsiencyn gydag ysgol arall h.y. cynnal yr ysgol ar y safle presennol ond o dan wahanol gytundeb rheolaethol.

Yn yr opsiwn hwn, <u>**NAILL AI**</u> byddai'r Ysgol Parc y Bont bresennol, ynghyd â Brynsiencyn, yn parhau'n ysgol yr Eglwys yng Nghymru <u>**NEU**</u> byddai'r ysgol newydd yn ardal Niwbwrch (ysgol newydd ar gyfer Bodorgan, Niwbwrch, Dwyran a Llangaffo) yn gallu dod yn ysgol dan Reolaeth Wirfoddol yr Eglwys yng Nghymru .

Yn ei gyfarfod ar **Fawrth 16, 2015**, penderfynodd y Pwyllgor Gwaith:
Awdurdodi swyddogion i fynd rhagddynt i'r broses ymgynghori ffurfiol neu statudol lle byddant yn ymgynghori ar Opsiynau A a B uchod.

Yn ei gyfarfod ar **Hydref 19 2015**, penderfynodd y Pwyllgor Gwaith:
"Gymeradwyo opsiwn B4a fel yr opsiwn a ffefrir ar gyfer darparu addysg gynradd yn ardaloedd Bro Rhosyr a Bro Aberffraw fel y caiff ei amlinellu yn yr adroddiad, sef
- Ysgol newydd dan RW yr Eglwys yng Nghymru ar gyfer Bodorgan, Niwbwrch, Dwyran, Llangaffo
- Parc y Bont i ddod yn ysgol gymunedol a
- Ffedereiddio Ysgol Brynsiencyn gydag ysgol arall.

| **B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?** |
|---|
| Ystyriwyd 9 opsiwn gan y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar Fawrth 16, 2015 ar gyfer cyfluniad posib o'r ddarpariaeth addysg gynradd yn ardaloedd Bro Rhosyr a Bro Aberffraw. Yn y cyfarfod hwnnw, penderfynodd y Pwyllgor Gwaith gefnogi Opsiwn B4a sef<br>▪ Ysgol newydd dan RW yr Eglwys yng Nghymru ar gyfer Bodorgan, Niwbwrch, Dwyran, Llangaffo<br>▪ Parc y Bont i ddod yn ysgol gymunedol a<br>▪ Ffedereiddio Ysgol Brynsiencyn gydag ysgol arall.<br>fel opsiwn dewisol y Pwyllgor Gwaith. Gellir gweld yr opsiynau yn yr adroddiad i'r Pwyllgor Gwaith ar gyfer y cyfarfod ar y dyddiad uchod ac yn y ddogfen ymgynghori anffurfiol.<br>Ystyriwyd 12 safle ar gyfer yr ysgol gynradd newydd arfaethedig. Gweler y dadansoddiad o'r safleoedd posib yn y ddogfen Gwerthuso Opsiynau Safleoedd |

| **C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** |
|---|
| Mae'r Pwyllgor Gwaith yn gyfrifol am faterion trefniadaeth ysgolion. |

| **D – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
|---|
| Ydyw |

| **DD – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
|---|
| Ydyw - Mae'r cynlluniau yn y Rhaglen Amlinellol Strategol a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Gwaith ar Ionawr 13, 2014. Bydd Achos Busnes Llawn am y cynlluniau uchod ym Mröydd Rhosyr ac Aberffraw i gyd yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith yn Ionawr 2017. |

| **E – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | Dim sylw penodol |
| **2** | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | Dim sylw penodol |
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | Dim sylw penodol |
| **5** | **Adnoddau Dynol (AD)** | Dylid ymdrin ag unrhyw faterion staffio sy'n codi o'r argymhellion yn unol â phrosesau ymgynghori ac adnoddau dynol eraill cydnabyddedig. |
| **6** | **Eiddo** | Ni dderbyniwyd unrhyw sylwad |
| **7** | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | Ni dderbyniwyd unrhyw sylwad |
| **8** | **Sgriwtini** | Ni dderbyniwyd unrhyw sylwad |
| **9** | **Aelodau Lleol** | Ni dderbyniwyd unrhyw sylwad |
| **10** | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | Mae'r Eglwys yng Nghymru yn fodlon fod swyddogion Cyngor Sir Ynys Môn wedi dilyn y broses statudol ar gyfer sefydlu'r ysgol gynradd. Mae'r Eglwys yn parhau i fod yn gefnogol i'r cysyniad o ysgol gynradd newydd dan RW yr Eglwys yng Nghymru ac yn edrych ymlaen at wasanaethu plant ardal Bro Aberffraw. |

| F – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol) | | |
|---|---|---|
| **1** | **Economaidd** | Ddim yn berthnasol |
| **2** | **Gwrthdlodi** | Ddim yn berthnasol |
| **3** | **Trosedd ac Anhrefn** | Ddim yn berthnasol |
| **4** | **Amgylcheddol** | Bydd camau lliniaru yn rhan o’r cais cynllunio |
| **5** | **Cydraddoldebau** | Ddim yn berthnasol |
| **6** | **Cytundebau Canlyniad** | Ddim yn berthnasol |
| **7** | **Arall** | Ddim yn berthnasol |

| **FF - Atodiadau:** |
|---|
| Atodiad 1 – Adroddiad Gwrthwynebiad<br>Atodiad 2 – Llythyr yn Gwrthwynebu |

**G - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):**

1. Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar gyfer Mawrth 16, 2015.
2. Dogfen Ymgynghori Anstatudol a’r Ddogfen Ymgynghori Statudol a’r Adroddiad Ymgynghori
3. Rhaglen Amlinellol Strategol (SOP/RhAS) a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru yn Rhagfyr 2013.
4. Llythyr gan Lywodraeth Cymru ddyddiedig Ionawr 31 2014.
5. Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar Hydref 19, 2015.
6. Adroddiad i’r Pwyllgor Gwaith dyddiedig Tachwedd 4 2013.
7. Cod Trefniadaeth Ysgolion 2013, rhannau 1.2 i 1.14 a rhan 5.
8. Cofnodion y cyfarfodydd ymgynghori gyda staff, llywodraethwyr a rhieni a gynhaliwyd ym Mehefin a Gorffennaf 2015.
9. Dogfen Gwerthuso Opsiynau Safleoedd
10. Rhybuddion statudol dyddiedig Mehefin 15 2016

30 Awst 2016 | Atodiad 1

**Adroddiad Gwrthwynebu**

## 1. Cefndir

Er mwyn cydymffurfio â'r Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'r Cod Trefniadaeth Ysgolion 2013, cyhoeddodd yr Awdurdod ar y cyd gyda'r Eglwys yng Nghymru, **Rybuddion Statudol** o'u bwriad i:

a. Gyfuno pedair ysgol - Ysgol Bodorgan, Ysgol Dwyran, Ysgol Niwbwrch ac Ysgol Llangaffo - mewn un ysgol newydd ar safle yn Niwbwrch ac y bydd yr ysgol newydd dan reolaeth wirfoddol yr Eglwys yng Nghymru.
b. Beidio â chefnogi Ysgol Parc y Bont sydd ar hyn o bryd yn cael ei chynnal gan Gyngor Sir Ynys Môn fel ysgol dan reolaeth wirfoddol yr Eglwys yng Nghymru ac i sefydlu ysgol gynradd gymunedol cyfrwng Cymraeg newydd i'w chynnal gan Gyngor Sir Ynys Môn ar safle Ysgol Parc y Bont ar gyfer bechgyn a merched 3-11 oed. Bydd Ysgol Brynsiencyn yn cael ei ffedereiddio gydag ysgol arall.

Cyhoeddwyd y **Rhybuddion Statudol** ar Fehefin 17 2016 ac roedd cyfnod o 28 diwrnod i wrthwynebu'r cynnig yn dilyn. Felly, daeth y cyfnod gwrthwynebu i ben ar Orffennaf 15, 2016. **Derbyniwyd un gwrthwynebiad i gynnig (a) uchod ond ni dderbyniwyd gwrthwynebiad i Rybudd Statudol (b) uchod.**

O dan adran 49 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, rhaid i gynigwyr gyhoeddi crynodeb o'r gwrthwynebiadau statudol ac ymateb i'r gwrthwynebiadau hynny ("yr adroddiad gwrthwynebu") – dyma yw'r ddogfen hon. Rhaid gwneud hyn ymhen 28 diwrnod o ddiwedd y cyfnod gwrthwynebu sef erbyn Awst 12 2016.

## 2. Gwrthwynebiadau

Gweler y llythyr (yn Saesneg) sy'n datgan gwrthwynebiad rhieni i'r ysgol gynradd newydd arfaethedig dan reolaeth wirfoddol yr Eglwys yng Nghymru yn Atodiad 2.

Yn y bôn, mae'r rhieni yn dweud:

i. nad yw'r cynigwyr wedi ymgynghori gyda phawb y dylent wedi ymgynghori â hwy
ii. na soniwyd yn y cyfarfod ymgynghori gyda rhieni disgyblion Ysgol Bodorgan am y posibilrwydd y byddai'r ysgol gynradd newydd ym Mro Aberffraw yn ysgol gynradd dan reolaeth wirfoddol yr Eglwys yng Nghymru ac
iii. nad oes gan y rhieni ysgol amgen i ddanfon eu plentyn iddi.

30 Awst 2016 Atodiad 1

**Adroddiad Gwrthwynebu**

Amlinellir isod ymateb yr Awdurdod i'r pwyntiau hyn:

**i. Heb ymgynghori gyda phawb**

Trefnwyd pum set o gyfarfodydd ymgynghori gyda staff a llywodraethwyr. Er bod 6 ysgol gynradd yn rhan o'r ymgynghoriad, mae Ysgol Dwyran ac Ysgol Niwbwrch wedi eu ffedereiddio ac felly cynhaliwyd un cyfarfod ar gyfer staff y ddwy ysgol a cyfarfod arall i 'r Llywodraethwyr gan mai un Corff Llywodraethu sydd i'r ddwy ysgol.

Ar gyfer rhieni'r plant yn y 6 ysgol, cynhaliwyd cyfarfod ym mhob ysgol iddynt. Gweler y tabl isod sy'n cadarnhau'r amseroedd cynhaliwyd y cyfarfodydd ymgynghori:

| | | | Cyfarfod gyda | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ysgol** | **Dyddiad (yn 2015)** | | **Staff** | **Llywodraethwyr** | **Rhieni** |
| **Brynsiencyn** | **Dydd Llun** | **29 Mehefin** | **3.45** | **5.00** | **6.00** |
| **Parc y Bont** | **Dydd Mawrth** | **30 Mehefin** | **3.45** | **5.00** | **6.30** |
| **Llangaffo** | **Dydd Mercher** | **1 Gorffennaf** | **3.30** | **4.30** | **5.30** |
| **Bodorgan** | **Dydd Iau** | **2 Gorffennaf** | **3.30** | **5.00** | **6.30** |
| **Dwyran** | **Dydd Mercher** | **8 Gorffennaf** | | | **7.00** |
| **Niwbwrch** | **Dydd Iau** | **9 Gorffennaf** | **4.00** | **6.00** | **7.00** |

Anfonwyd llythyrau i'r rhieni drwy'r ysgolion i'w hysbysu o'r cyfarfodydd hyn ac mae cofnodion o'r cyfarfodydd yn dangos fod y cyfarfodydd ymgynghori wedi digwydd.

**ii. Dim awgrym mai ysgol gynradd dan reolaeth wirfoddol yr Eglwys yng Nghymru fyddai'r ysgol gynradd newydd**

Dywedwyd yn y ddogfen ymgynghori statudol:

"Ystyriwyd nifer o opsiynau posibl ar y ffordd ymlaen ar gyfer y ddarpariaeth addysg gynradd yn ardaloedd Bro Rhosyr a Bro Aberffraw yn y broses ymgynghori anstatudol neu anffurfiol. Cododd dau bosibilrwydd o'r dadansoddiad manwl a gynhaliwyd:

## Adroddiad Gwrthwynebu

**Opsiwn A**

Byddai hwn yn seiliedig ar Opsiwn 2, sef *ysgol newydd ar gyfer Bodorgan, Brynsiencyn, Niwbwrch, Dwyran ac un ysgol newydd ar gyfer Llangaffo a Pharc Y Bont*.

Yn y cyd-destun hwn, byddai lleoli un o'r ysgolion newydd yn ardal Niwbwrch yn golygu y byddai oddeutu traean o'r plant yn gallu cerdded i'r ysgol.

Byddai ar unrhyw ailfodelu Parc y Bont angen mynd i'r afael â'r problemau trafnidiaeth a adnabuwyd ar ddechrau a diwedd y diwrnod ysgol.

Gallai'r opsiwn hwn hefyd gynnwys ffedereiddio Ysgol Brynsiencyn gydag ysgol arall h.y. cynnal yr ysgol ar y safle presennol ond o dan drefniant rheoli gwahanol.

**Opsiwn B**

Byddai hwn yn seiliedig ar Opsiwn 4, sef *ysgol newydd ar gyfer Bodorgan, Niwbwrch, Dwyran a Llangaffo ac un ysgol newydd ar gyfer Parc y Bont a Brynsiencyn.*

Byddai angen i unrhyw ailfodelu ym Mharc y Bont fynd i'r afael â'r problemau trafnidiaeth a adnabuwyd ar ddechrau a diwedd y diwrnod ysgol.

Gallai'r opsiwn hwn hefyd gynnwys ffedereiddio Ysgol Brynsiencyn gydag ysgol arall h.y. cynnal yr ysgol ar y safle presennol ond o dan wahanol gytundeb rheolaethol.

Yn yr opsiwn hwn, **NAILL AI** byddai'r Ysgol Parc y Bont bresennol, ynghyd â Brynsiencyn, yn parhau'n ysgol yr Eglwys yng Nghymru **NEU** *byddai'r ysgol newydd yn ardal Niwbwrch (ysgol newydd ar gyfer Bodorgan, Niwbwrch, Dwyran a Llangaffo) yn gallu dod yn ysgol dan Reolaeth Wirfoddol yr Eglwys yng Nghymru*.

Yn ei gyfarfod ar Fawrth 16, 2015, penderfynodd y Pwyllgor Gwaith:

Awdurdodi swyddogion i fynd rhagddynt i'r broses ymgynghori ffurfiol neu statudol lle byddant yn ymgynghori ar Opsiynau A a B uchod.

Mae'r ddogfen hon yn sail ar gyfer **yr ymgynghori ffurfiol neu statudol i adolygu'r ddarpariaeth addysg gynradd yn ardal De Orllewin Môn**. Pwrpas yr ymgynghoriad ffurfiol neu statudol yw ymgynghori â rhanddeiliaid e.e. rhieni, plant, staff, llywodraethwyr ac aelodau etholedig ar yr opsiynau y penderfynwyd arnynt uchod gan Bwyllgor Gwaith y Cyngor."

**Adroddiad Gwrthwynebu**

Gweler fod y posibilrwydd byddai'r ysgol gynradd newydd dan reolaeth wirfoddol yr Eglwys yng Nghymru yn eglur yn y ddogfen ymgynghori oedd yn sail i'r ymgynghori statudol.

Yn ogystal, dengys cofnodion y cyfarfod ymgynghori gyda rhieni disgyblion Ysgol Bodorgan fod y Swyddog Addysg oedd yn cadeirio'r cyfarfod gyda'r rhieni yn Ysgol Bodorgan wedi codi'r mater gan ofyn beth oedd barn rhieni am "ysgol eglwysig". Nid yw'r cofnodion yn manylu ar y drafodaeth ddilynol ond fe drafodwyd y mater.

**Dim ysgol amgen i ddanfon eu plentyn iddi**

Cymerir fod y rheini yn golygu nad oes dim ysgol gymunedol amgen iddynt ddanfon eu plentyn iddi. Yr ysgol gymunedol amgen agosaf yw Ysgol Henblas yn Llangristiolus sydd tua 3 milltir o'u cartref ar hyd y B4422. Mae hyn yn debyg i'r pellter i'r ysgol gynradd newydd yn Niwbwrch a fyddai'n ysgol ddalgylch iddynt petaen' nhw'n danfon eu plentyn yno.

ATODIAD 2 / APPENDIX 2

Cyngor Sir Ynys Môn
Isle of Anglesey County Council

18 JUL 2016

Adran Dysgu Gydol Oes
Derbyniwyd / Received

Programme Manager
Lifelong learning Department
Council Offices
Llangefni
Anglesey
LL77 7TW

14th July 2016

**Re: Statutory notice of Bro Rhosyr/Bro Aberffraw school restucturing.**

**Objection letter.**

Dear Sir/Madam

Having perused the Statutory Notice regarding the closures of Ysgol Bodorgan, Ysgol Dwyran, Ysgol Niwbwrch and Ysgol Llangaffo and the building of a new Church in Wales school in Newborough, **we firmly object to these proposals.**

The Statutory Notice states that this joint consultation was carried out by Anglesey County Council and Church in Wales. It also states that all required persons were consulted. We take this to mean parents, teachers and governors. This is not the case.

We as parents of a child at Ysgol Bodorgan attended all the consultation meetings held at the school and not once was it suggested that the proposed new school would be a Church in Wales voluntary controlled primary school, essentially a faith school. We can produce several witnesses who can verify that this was never mentioned during the consultations held at Ysgol Bodorgan.

As atheists we strongly disagree with sending our child to a faith school and by closing all the schools in our area to build this new school, it would leave us with no alternative school.

Yours sincerely

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Gwaith** |
| **Dyddiad:** | **19/09/16** |
| **Pwnc:** | **Trefniadau newydd y Gwasanaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad Gwynedd ac Ynys Môn** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Cynghorydd Ken Hughes** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Delyth Wyn Molyneux** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | **Delyth Molyneux**<br>**01248 752916**<br>**delythmolyneux@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Ddim yn berthnasol** |

| A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau |
|---|

Argymhellion:

1. Mabwysiadu un Strategaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad Gyffredin ar gyfer Gwynedd ac Ynys Môn a fydd yn cyfarch anghenion y disgyblion a'r bobl ifanc mewn modd effeithiol ac effeithlon i fod yn weithredol erbyn Medi 2017.

2. Ymuno mewn partneriaeth ffurfiol efo Cyngor Gwynedd i weithredu'r Strategaeth a mabwysiadu trefn llywodraethu newydd y cyfeirir ato yn yr adroddiad hwn, a fydd yn disodli'r Cydbwyllgor Anghenion Addysgol Arbennig (CBAAA).

3. Dirprwyo'r hawl i'r Pennaeth Addysg mewn ymgynghoriad efo'r Pennaeth Cyfreithiol a Phennaeth Cyllid i gytuno a chwblhau Cytundeb Ffurfiol gyda Chyngor Sir Gwynedd ar gyfer y bartneriaeth.

4. Dirprwyo'r hawl i'r Pennaeth Addysg mewn ymgynghoriad efo'r Pennaeth Cyfreithiol a Phennaeth Cyllid i gwblhau Cytundeb/ memorandwm o ddealltwriaeth ar gyfer y cyfnod interim cyn arwyddo'r Cytundeb ffurfiol, fydd yn datgan ymrwymiad y ddau awdurdod i weithredu'r drefn newydd, ac yn caniatáu gwneud y gwaith sydd ei angen er mwyn cyrraedd y pwynt hynny.

Cyflwynwyd adroddiad i Gabinet Cyngor Gwynedd 19 Ionawr, 2016 ymhle cytunwyd i :

I. Barhau i gynnal trafodaethau gyda Chyngor Sir Ynys Môn er mwyn ymchwilio'r cyfle i lunio Strategaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol Gyffredin a fydd yn cyfarch anghenion y disgyblion a'r bobl ifanc mewn modd effeithiol ac effeithlon.
II. Cymeradwyaeth y Cabinet o Strategaeth Cyngor Gwynedd ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad; gan ddal sylw i'r bwriad yn 1.
III. Cymeradwyaeth o'r Achos Busnes - sef buddsoddiad unwaith ac am byth o hyd at

£1,380,131 er mwyn dangos arbediad blynyddol parhaol o leiaf £808,461.

Cyflwynwyd a derbyniwyd caniatad Pwyllgor Gwaith Cyngor Sir Ynys Môn ar yr 14 Mawrth 2016 i:

- Gydweithio efo swyddogion Gwynedd a'r CBAAA i ail-fodleu'r gweithlu sy'n bresennol o fewn y CBAAA, gan fabwysiadu cynllun staffio newydd rhwng Medi 2016- Ebrill 2017.
- Gydweithio efo swyddogion Gwynedd a'r CBAAA i ail-fodelu'r gweithlu sy'n bresennol o fewn y gwasanaeth cynhwysiad yn llawn erbyn Medi 2017.
- Gynllunio strwythur llywodraethiant ac atebolrwydd diwygiedig ar y cyd rhwng y ddau awdurdod.
- Gynllunio cyfnod trosiannol o lywodraethiant ddeuol rhwng y CBAAA a'r Bartneriaeth ADY Môn/Gwynedd ddiwygiedig.
- Rannu gwybodaeth gydag ysgolion, rhieni a rhan - ddeiliaid ar y model arfaethedig, yn ystod tymor yr haf 2016.
- Weithredu'r comisiwn a'r drefn llywodraethu ddiwygiedig ar gyfer y CBAAA erbyn Medi 2017.

Mae'n bwysig nodi y paratowyd Strategaeth hon yng nghyd-destun newid arwyddocaol yn y maes, yn cynnwys:

- Cynigion y ddeddfwriaeth arfaethedig, Bil Anghenion Dysgu ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) ar gyfer diwygio'r fframwaith ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol;
- y dystiolaeth sy'n cefnogi bod angen hoelio sylw ar ymyrraeth gynnar ac ataliol;
- y cyd-destun ariannol.

Mae'r canlyniadau yr ydym yn ceisio eu cyflawni drwy'r Strategaeth newydd yn cynnwys:

- darpariaeth sy'n rhoi llawer mwy o bwyslais ar ymyrraeth gynnar yn enwedig yn y blynyddoedd cynnar, gan geisio adnabod cyflyrau yn gynnar iawn ym mywydau plant fel y gall hynny gael effaith ar eu haddysg a'u bywydau yn gyffredinol;
- cynyddu'r arbenigeddau yn ein hysgolion trwy raglenni hyfforddi i ddatblygu mwy o arbenigedd;
- trefniadau amlasiantaethol cadarn o gyd-weithio a fydd yn arwain at rannu gwybodaeth, a sicrhau cydgynllunio effeithiol ar gyfer addysg a datblygiad plant a phobl ifanc sydd angen cefnogaeth ychwanegol;
- cynnig gwasanaeth sy'n sicrhau bod ansawdd uchel yn perthyn i'r profiadau addysgol;
- plant a phobl ifanc yn derbyn y cymorth ychwanegol yn gynt; yn gwneud cynnydd addysgol ar gyflymder priodol, ac yn cyfrannu at hyrwyddo eu hannibyniaeth;
- amgylchedd ddysgu o'r ansawdd uchaf posib ar gyfer plant sydd efo'r anghenion mwyaf dwys;
- sicrhau cyfundrefn effeithiol ac effeithlon.

**YR YMATEB I'R STRATEGAETH YN SGIL CYNNAL TRAFODAETHAU EFO CYNGOR GWYNEDD**

2.1. Yn ystod Ionawr - Gorffennaf 2016 mae Swyddogion a Phenaethiaid Addysg y ddau awdurdod wedi cynnal cyfres faith o gyfarfodydd i fynd drwy'r Strategaeth yn fanwl.

2.2. Dyma rai o'r prif addasiadau yn deillio o'r cyd weithio:

I. Y meysydd arbenigol canlynol oedd yn cael eu cynnwys yn yr Adolygiad gwreiddiol oedd:
   Ymddygiad, Cyfathrebu a Rhyngweithio, ADY Penodol ac Amhenodol, Nam Synhwyraidd, Meddygol a corfforol a Seicolegwyr Addysgol.

II. Bellach mae'r holl feysydd Cynhwysiad wedi'u cynnwys - felly mae'r gwasanaethau canlynol wedi'u hychwanegu:
   Lles, Cwnsela, Saesneg fel Iaith Ychwanegol, Diogelu, Addysg Gartref i blant sâl a Phlant mewn gofal.

III. Adnabod cyfleoedd i rannu adnoddau rheolaethol, sydd yn fodd o sicrhau buddion effeithlonrwydd i'r gwasanaeth.

IV. Bwriedir dod a'r CBAAA i ben drwy sefydlu trefniadau llywodraethinat newydd ar y cyd.
   - Cytunwyd ar fodel newydd lle bydd Cyngor Gwynedd yn cymryd rôl yr Awdurdod Arweiniol o ran cyflogi a rheoli'r gwasanaeth o ddydd i ddydd. Yn gyffredinol mae'r model yma yn golygu : Bydd y ddau awdurdod gyda'i gilydd (yr 'Awdurdodau Comisiynu') yn comisiynu Cyngor Gwynedd fel Awdurdod Arweiniol i ddarparu gwasanaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad ar gyfer Gwynedd a Môn yn unol â'r Strategaeth ar y Cyd fydd wedi ei fabwysiadu ganddynt.
   - Bydd yr Awdurdodau Comisiynu yn cytuno ar ac yn gosod gofynion y gwasanaeth, drwy'r strategaeth, ac yn darparu'r adnoddau i'w gyflawni.
   - Bydd yr Awdurdod Arweiniol yn darparu'r gwasanaeth i'r awdurdodau comisiynu yn unol â thargedau a safonau perfformiad.
   - Bydd y ddau awdurdod yn monitro sut bydd y gwasanaeth yn cael ei ddarparu yn erbyn y deilliannau fydd wedi eu cytuno rhyngddynt yn y Strategaeth ar y Cyd

V. Cytunwyd hefyd ar fodel llywodraethiant newydd yn lle'r model cydbwyllgor presennol gyda llwybrau atebolrwydd cadarn ar gyfer adrodd rheolaidd i bwyllgorau sgrwteni/ craffu'r ddwy sir (Gweler Atodiad 1).

VI. 'Rydym yn parhau i roi sylw pellach i'r materion isod:
   - **rôl y Cydlynwyr ADY** yn yr ysgolion;
   - **<u>strwythur ar gyfer Cymorthyddion ADYaCh</u>**;
   - **codi ymwybyddiaeth** ynglŷn â'r newidiadau gyda staff yr ysgol gyfan;
   - sefydlu **is dimau i fanylu ar y ddarpariaeth 0-3 oed, y ddarpariaeth 16 - 25 oed, materion data a systemau electroneg a'r ddarpariaeth Iechyd**.

**STRATEGAETH AR GYFER Y MAES ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL A CHYNHWYSIAD YNG NGWYNEDD AC YNYS MÔN.**

Cyflwynir Crynodeb Weithredol o'r Strategaeth ddiwygiedig ar gyfer y Maes Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad yn **Atodiad 2.**

Mae egwyddorion y Strategaeth yn cynnwys y bwriad i roi mwy o sylw i'r canlynol:

- Blynyddoedd Cynnar ac ymyrraeth gynnar;
- Sefydlu tîm canolog, Integredig o arbenigeddau penodol i hwyluso cyd-weithio a chyd-gynllunio;
- Rhaglen Hyfforddiant i uwchraddio sgiliau'r gweithlu;
- Cyflwyno'r defnydd o Gynlluniau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

Prif bwrpas y Strategaeth yw sicrhau bod pecyn o brosiectau yn eu lle er mwyn gwella'r gwasanaeth i blant a phobl ifanc sydd gydag anghenion dysgu ychwanegol. Wrth lunio'r strategaeth, mae pob ymdrech wedi'i wneud i symud tuag at drefn newydd sy'n canolbwyntio ar y plentyn/ person ifanc a'u hanghenion/ dyheadau.

Fel nodwyd uchod, mae'r Strategaeth wedi ei pharatoi yng nghyd-destun y cynigion deddfwriaethol ar gyfer diwygio'r fframwaith ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol. Cyhoeddwyd Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol Drafft Llywodraeth Cymru ar 6 Gorffennaf 2015 a chadarnhawyd bod disgwyl i'r Bil gael ei gyflwyno i i'r Cynulliad cyn y Nadolig. Golyga hyn na fydd unrhyw gynigion yn dod i rym cyn y flwyddyn academaidd 2017/18.
Wedi ystyriaeth lawn o gynigion y Bil drafft, rydym yn hyderus fod y Strategaeth yn cyfarch y newidiadau deddfwriaethol a gynigir. Bydd angen adolygu'r sefyllfa i sicrhau fod y Strategaeth yn cydymffurfio â newidiadau'r ddeddfwriaeth unwaith caiff y bil terfynol ei mabwysiadu. Bydd gweithredu'n gynnar ar ein Strategaeth yn ein rhoi mewn sefyllfa gref i ymateb i ofynion y ddeddfwriaeth newydd pan ddaw i rym.

Dyma'r deilliannau ar gyfer plant a phobl ifanc Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol:


- Cynlluniau mwy personol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn;
- Mynediad cynt a mwy penodol at wasanaethau ADYaCh a fydd yn cael eu hadolygu'n rheolaidd;
- Gwasanaeth a safonau mwy arbenigol;
- Atebolrwydd fesul ardal yn y Fforymau Ardal ADYaCh.

Mae'r deilliannau i gynghorau sir Ynys Môn a Gwynedd hefyd yn cynnig:

- Cwrdd â gofynion statudol y ddeddf newydd
- Rheolaeth well ar y gyllideb ADY;
- Adolygu a Monitro rheolaidd.

**RHAGLEN WAITH**
Mewn ymateb i'r trafodaethau diweddar 'rydym wedi addasu'r amserlen ar gyfer gwireddu'r newidiadau.

Y cynnig yw ein bod yn rhoi sylw penodol i ffurfio'r Tîm Integredig ADY Craidd yn ystod blwyddyn academaidd 2016/17 er mwyn sicrhau digon o amser ar gyfer addasiadau angenrheidiol yn yr ysgolion.
Bydd hyn yn cael ei weithredu drwy gychwyn efo cyfnod o ymgynghori ffurfiol efo staff yn ystod Medi - Tachwedd 2016. Gweler yr amserlen isod.




| **B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?** |
| --- |
| Ystyriwyd peidio gweithio mewn partneriaeth gyda Cyngor Sir Gwynedd.Mae'r hanes o drafferthion ricriwtio arbenigwyr yn y maes ADY wedi amlygu nad yw'n bosib cynnig gwasanaeth dwyieithog arbenigol o answadd ac yn gost-effeithiolyn y maes ADY a Chynhwysiad, heb wneud hynny mewn partneriaeth. Gan fod Gwynedd a Mon wedi gweithredu mewn partneriaeth yn y maes yn llwyddiannus ers 1996, penderfynwyd ar yr opsiwn a gyflwynir heddiw fel y ffordd orau o sichrau gwasanaeth cynaladwy a gwydn. |

| **C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** |
| --- |
| Yn ehangu sgôp y natur y bartneriaeth ADY a Cynhwysiad rhwng Ynys Môn a Gwynedd, gan arwain at ddiddymu'r Cydbwyllgor AAA Gwynedd a Môn yn y dyfodol a sefydlu trefniadau |

| |
|---|
| llywodraethiant newydd ar y cyd. |

| **CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
|---|
| Ydyw. |

| **D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
|---|
| Ydyw, er bod rhai costau posib ynghlwm a diswyddo oherwydd gormodedd, a goblygiadau posib yn sgil newidiadau i bensiynau. |

| **DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | |
| **2** | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | |
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| **5** | **Eiddo** | |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| **7** | **Sgriwtini** | |
| **8** | **Aelodau Lleol** | |
| **9** | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | |

| **E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | | |
|---|---|---|
| **1** | **Economaidd** | |
| **2** | **Gwrthdlodi** | |
| **3** | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| **4** | **Amgylcheddol** | |
| **5** | **Cydraddoldebau** | Mae'r strategaeth yn cydfynd a gofynion y ddeddfwriaeth ADY arfaethedig ac yn cynnwys cyfleoedd ehangach i blant a phobl ifanc gyfranogi i'w llwybr addysgol a chefnogol |
| **6** | **Cytundebau Canlyniad** | |
| **7** | **Arall** | **RISGIAU y dylid eu hystyried wrth lunio'r memorandwm o ddealltwriaeth:** Mae'n greiddiol fod plant, pobl ifanc a'u rhieni yn ymwybodol o'r newidiadau, ac yn cael dealltwriaeth gref o'r trefniadau newydd. Byddwn yn datblygu Strategaeth |

| | | |
|---|---|---|
| | | Gyfathrebu glir er mwyn hwyluso'r newid.<br><br>O weithredu'r ail strwythuro (Gweler y Strwythur Staffio yn Atodiad 2) ni fydd lleihad yn y nifer o swyddi sydd yn y model staffio, yn ddarostynedig i ganlyniad yr ymgynghoriad a phenderfyniad terfynol y penaethiaid. Fodd bynnag gall fod newid pwyslais o ran y gwasanaethau olygu y bydd rhai staff yn gorfod ymgeisio am swyddi amgen/newydd. Byddwn yn parhau i roi sylw pellach i strwythur Cymorthyddion ADYaCh.<br><br>Yn y cyfnod interim cyn i Gytundeb ffurfiol gael ei gadarnhau mae angen i "Memorandwm o Ddealltwriaeth" (MoDd) gael ei arwyddo gan y ddau awdurdod. Bydd rhaid sicrhau fod hyn yn digwydd cyn i unrhyw ymgynghori ffurfiol ar sail yr ail strwythuro fod yn weithredol.<br><br>Bydd y ddau awdurdod yn gweithio tuag at sefydlu'r trefniadau newydd ar sail yr egwyddorion isod :<br><br>**Cyfraniadau Ariannol** - ar hyn o bryd mae Gwynedd a Môn wedi bod yn cyfrannu i'r CBAAA a'r sail 60:40. Yn y trefniadau newydd bydd y Strwythur staff yn datgan y cyfraniadau ariannol fesul swydd ar sail un ai cyfrifoldebau rheolaethol/ niferoedd poblogaeth neu ofynion penodol yr awdurdodau.<br><br>**Trefniadau digolledu** – Bydd unrhyw ddiffygion pensiwn sy'n gysylltiedig efo'r staff sydd yn trosglwyddo yn aros efo'r cyngor blaenorol. Pe bai unrhyw un awdurdod yn tynnu allan o'r bartneriaeth bydd yr awdurdod sydd yn tynnu allan yn gyfrifol am ddigolledu'r awdurdod arall am unrhyw golledion a achosir drwy'r weithred. Yn y cyfnod interim bydd cytundeb gyffelyb yn ystod y broses o benodi a diswyddo staff.<br><br>**Trefniadau datrys anghydfod** – eglurder o ran y camau i'w dilyn<br><br>**Trefniadau Ail strwythuro/ Ymgynghori** – gweler yr amserlen uchod<br><br>**Trefniadau Rheoli Prosiect** – yn y cyfnod interim y ddau Bennaeth Gwasanaeth (Addysg) fydd yn gyfrifol am reolaeth o'r Adolygiad nes i'r Uwch Dim Rheoli ADYaCh newydd gael ei gadarnhau. Bydd Byrddau Monitro a Craffu cysgodol (Gweler Strwythur Llywodraethiant arfaethedig) yn weithredol yng Ngwynedd a Mon yn dilyn penodi'r Uwch Dim Rheoli. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Bydd trafodaethau yn parhau efo'r Adran Iechyd â'r Gwasanaethau Cymdeithasol. |

| **F - Atodiadau:** |
|---|
| Atodiad 1: Model Llywodraethiant<br>Atodiad 2: Crynodeb Weithredol o Strategaeth Cyngor Gwynedd ac Ynys Môn ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad |
| |


| **FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** |
|---|
| |

**Atodiad 1**

| | Statws | Cyfrifoldebau | Aelodaeth | Cylch gorchwyl |
|---|---|---|---|---|
| Bwrdd Monitro a Chraffu ADYaCh (2 Fwrdd yn cyfarfod - Gwynedd a Môn ar wahân) | newydd | • Monitro Ansawdd y ddarpariaeth<br>• Adrodd i Dimau Rheoli, Cabinet, Pwyllgorau Craffu'r ddau awdurdod a'r Bwrdd Gweithredol Partneriaethau Addysg Gwynedd a Môn | • Uwch Reolwr ADY<br>• Uwch Reolwr Cynhwysiad<br>• Prif Seicolegydd<br>• Ymgynghorydd Her GwE<br>• Person dynodedig Gwasanaeth Iechyd<br>• SNAP<br>• Swyddog Cyllid (fesul awdurdod) | • Cyfarfod pob tymor<br>• Sicrhau fod ansawdd y Gwasanaethau ADY a Chynhwysiad yn cydymffurfio efo'r Strategaeth a gofynion y Cod Ymarfer a'r ddeddfwriaeth<br>• Monitro a thracio pob gwasanaeth unigol yn erbyn mesuryddion |
| Bwrdd Gweithredol Partneriaethau Addysg Gwynedd ac Ynys Môn | newydd | • Monitro ansawdd y gwasanaethau a ddarperir gan - GwE/ ADYaCh y Bartneriaeth Ôl 16 oed a Cynnal<br>• Adrodd i'r Cabinet a Phwyllgorau Craffu'r ddau awdurdod | • Aelod Cabinet Addysg Gwynedd ac Ynys Môn<br>• Aelod Cabinet Plant Gwynedd ac Ynys Môn<br>• Pennaeth Addysg Gwynedd ac Ynys Môn | • Cyfarfod yn dymhorol<br>• Sicrhau ansawdd, gwerth am arian<br>• Cymryd trosolwg o'r materion ADYaCh darpariaeth ac ansawdd sydd wedi'u hamlygu ac sy'n cael effaith ar y ddau awdurdod |
| Tîm Rheoli Addysg (Gwynedd a Môn - ar wahân) | bodoli | • Monitro ansawdd holl wasanaethau addysg<br>• Penderfyniadau rheolaethol<br>• Adrodd i Gabinet/ Pwyllgor Craffu'r awdurdod penodol a'r Bwrdd Strategol Partneriaethau Addysg Gwynedd a Môn | • Aelod Cabinet Addysg<br>• Pennaeth Addysg<br>• Uwch Dim Rheoli Addysg (yn cynnwys y ddau Uwch Reolwr ADY a Chynhwysiad) | • Cyfarfod yn rheolaidd<br>• Sicrhau ansawdd yr holl wasanaethau addysgol<br>• Datrys problemau/ materion sydd wedi'u hamlygu yn y Byrddau Monitro ADYaCh / Awdurdod Arweiniol<br>• Uchafu materion i'r cyfarfod rhwng y ddau bennaeth addysg/ Bwrdd Gweithredol Partneriaethau Addysg/ Cabinet yn ôl yr angen |
| Cyfarfod rhwng Pennaeth Addysg Gwynedd a Phennaeth Dysgu Ynys Môn | newydd | • Gwneud penderfyniadau dirprwyedig gan y Cabinet yn unol â'r Cytundeb ffurfiol rhwng y ddau awdurdod.<br>• Ymateb i geisiadau/ cyfarwyddiadau'r ddau Dîm Rheoli Addysg | • Pennaeth Addysg Gwynedd<br>• Pennaeth Dysgu Ynys Môn | • Cyfarfod yn dymhorol ac yn ôl yr angen<br>• Cytuno ar unrhyw newid/ datrys anghydfod gweithredol a gaiff eu hamlygu gan un neu'r ddau Dîm Rheoli Addysg/ Bwrdd Gweithredol Partneriaethau Addysg Gwynedd ac Ynys Môn<br>• Uchafu penderfyniadau i Gabinet / Pwyllgor Gwaith y ddau awdurdod os tu allan i'w pwerau dirprwyedig |
| Cabinet Gwynedd a Phwyllgor Gwaith Ynys Môn | bodoli | • Penderfyniadau gwleidyddol a chyllidol yr awdurdodau<br>• Unrhyw addasiadau i'r Strategaeth ADYaCh | • Arweinydd y Cyngor<br>• Aelodau Cabinet/ Deilydd Portffolio | • Cyfarfod o leiaf bob mis<br>• Dirprwyo cyfrifoldebau penodol yn y maes ADYaCh i'r ddau Bennaeth Addysg Gwynedd ac Ynys Môn |

**Atodiad 1**

Trefniant Llywodraethiant Gwasanaeth ADYaCh i'w ddarparu gan Gyngor Gwynedd ar ran Cynghorau Gwynedd ac Ynys Môn



# Crynodeb Weithredol

ADY

## Strategaeth

# Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad

## Gwynedd ac Ynys Môn



CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# Cyflwyniad

Nod ein Strategaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad newydd yw:

> ***'Sicrhau bod plant a phobol ifanc (rhwng 0 a 25 oed) sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn manteisio ar gyfleoedd ac yn ennill profiadau sydd wedi eu cynllunio'n effeithiol ar eu cyfer, er mwyn eu galluogi i wneud cynnydd yn unol â'u gallu.'***

Mae'r canlyniadau yr ydym yn ceisio eu cyflawni drwy'r Strategaeth yn cynnwys:

- darpariaeth sy'n rhoi llawer mwy o bwyslais ar ymyrraeth gynnar yn enwedig yn y blynyddoedd cynnar, gan geisio adnabod cyflyrau yn gynnar iawn ym mywydau plant fel y gall hynny gael effaith ar eu haddysg a'u bywydau yn gyffredinol;
- cynyddu'r arbenigeddau yn ein hysgolion trwy raglenni hyfforddi i ddatblygu mwy o arbenigedd;
- trefniadau amlasiantaethol cadarn o gyd-weithio a fydd yn arwain at rannu gwybodaeth, a sicrhau cydgynllunio effeithiol ar gyfer addysg a datblygiad plant a phobl ifanc sydd angen cefnogaeth ychwanegol;
- cynnig gwasanaeth sy'n sicrhau bod ansawdd uchel yn perthyn i'r profiadau addysgol;
- plant a phobl ifanc yn derbyn y cymorth ychwanegol yn gynt; yn gwneud cynnydd addysgol ar gyflymder priodol, ac yn cyfrannu at hyrwyddo eu hannibyniaeth;
- amgylchedd ddysgu o'r ansawdd uchaf posib ar gyfer plant sydd efo'r anghenion mwyaf dwys;
- sicrhau cyfundrefn effeithiol ac effeithlon.

# Y Rhesymwaith/Rationale

Mae Gwasanaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad Gwynedd a Môn yn darparu gwasanaeth integredig cynhwysfawr ar draws lleoliadau addysgol y ddwy sir er mwyn:

- Hybu datblygiad ysgolion i fod yn lleoliadau cynhwysol.
- Lleihau effaith ADY ar ddeilliannau plant a phobl ifanc trwy wella sgiliau a chyraeddiadau.
- Darparu addysg addas ac o safon uchel i blant a phobl ifanc gyda ADY.
- Lleoli gwasanaethau o safon uchel yn lleol.
- Ystyried dyheadau ac anghenion unigol a bod pob plentyn a pherson ifanc yn ganolog i'r gwasanaeth ac ymyrraeth sydd yn cael ei ddarparu ar ei gyfer/chyfer.
- Sicrhau sgiliau o ansawdd uchel o fewn gweithlu canolog a gweithlu ysgolion er mwyn gwella perchnogaeth lawn a chynhwysedd ADY o fewn ysgolion y ddwy sir.
- Cyfrannu at wella ansawdd bywyd a lles trwy gyfoethogi'r ddarpariaeth addysgol sydd yn cael ei ddarparu.
- Lleihau'r garfan o blant sydd angen ymyrraeth ychwanegol oherwydd ADY trwy wella cynhwysedd o fewn darpariaethau addysgol.
- Cryfhau cysylltiadau ac atebolrwydd am ADY ar draws haenau'r model darparu.

# Gweithredu Ysgol Gyfan

Mae darparu ar gyfer plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn flaenoriaeth i gymuned gyfan pob ysgol yng Ngwynedd ac Ynys Môn. Nid cyfrifoldeb y cydlynydd, cymorthyddion a'r uwch dîm rheoli'n unig yw diwallu anghenion dysgu ychwanegol disgyblion, mae cymuned lawn yr ysgol yn cynllunio a darparu'n addas ar eu cyfer.

Cyn chwilio am gymorth ychwanegol dylai pob ysgol geisio strategaethau amrywiol sydd wedi ei amlygu'n glir o fewn y meini prawf. Dim ond wedi dilyn y camau yma y gall ysgol dderbyn cymorth ychwanegol o'r tu allan.

# Disgwyliadau Ysgol Gyfan

Mae Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad yn gyfrifoldeb ymhob agwedd a swyddogaeth o fewn yr ysgol.

### 1. Llywodraethwr Cyswllt ADY a Chynhwysiad

Mae rôl y Llywodraethwr Cyswllt ADY a Chynhwysiad yn werthfawr iawn i roi cefnogaeth i'r Pennaeth a'r staff mewn datblygu awyrgylch ddysgu sydd yn hybu cynnydd plant gyda ADY a Chynhwysiad.

### 2. Pennaeth (Person Cyswllt ADYaCh ym mhob ysgol)

Mae arweinyddiaeth Pennaeth yr ysgol (neu aelod o'r Uwch Dîm Rheoli) yn y maes ADY a Chynhwysiad yn hanfodol i readru meddylfryd, perchnogaeth a chyfathrebu ynglŷn â ADY a Chynhwysiad i weddill staff yr ysgol.

### 3. Cydlynydd Ysgol/Clwstwr ADY a Chynhwysiad

Mae'r Cydlynydd Ysgol/Clwstwr ADY a Chynhwysiad yn rôl allweddol o fewn yr ysgol, gyda mewnbwn strategol. Maent yn atebol i Gyrff Llywodraethol a Phenaethiaid yr ysgol, ac yn derbyn arweiniad pellach gan y Gwasanaeth Ansawdd Ardal ADY a Chynhwysiad.

### 4. Athrawon Dosbarth/Pwnc

Mae pob athro/awes yn cydnabod fod y cyfrifoldeb am ymateb i ADY a Chynhwysiad yn gyfrifoldeb iddynt hwy. Maent hefyd yn allweddol o ran adnabod ADY a Chynhwysiad o'r newydd.

### 5. Cymorthyddion ac Anogwyr Dysgu

Mae gwaith cymorthyddion yn cyfoethogi'r ddarpariaeth sydd ar gael ar draws yr ysgol. Mae gan bob cymhorthydd ac anogwr dysgu, ymhob rôl o fewn ysgol, gyfrifoldeb i ddiwallu ADY a Chynhwysiad disgyblion.

### 6. Cyfathrebu â Chartrefi / Partneriaeth Rhieni

Mae gweithio gyda chartrefi a sicrhau cydweithrediad rhieni yn allweddol ar gyfer perthynas lwyddiannus ag unrhyw ddisgybl.



# Y Tîm Integredig

Mae'r strategaeth hon yn seiliedig ar un Tîm Integredig sgilgar sydd yn cynnwys timau penodol o arbenigeddau yn ôl cyflwr/anhwylder a lleoliad. Mae'r timau yma yn cynghori a chefnogi'r ysgolion ac yn sicrhau cysondeb wrth ddarparu ymyraethau a chefnogaeth briodol i'r unigolion.

'Rydym yn rhoi mwy o sylw i anhwylderau iaith, awtistiaeth a chynnal ymddygiad ar sail fod angen ymyrraeth fwy arbenigol ar y cyflyrau yma. Mae newid sylweddol yn y gefnogaeth ar gyfer anghenion dysgu penodol ac amhenodol gyda mwy o bwyslais ar i'r ysgolion gyflwyno'r ddarpariaeth yma eu hunain gyda chefnogaeth ymgynghorol y Tîm Integredig.

## 1. Defnyddio dulliau sydd yn Canolbwyntio ar yr Unigolyn i greu Cynlluniau Datblygu Unigol

Bydd y Cynlluniau Datblygu Unigol (CDU) o fabwysiadu'r ddeddfwriaeth newydd yn disodli datganiadau AAA (Statudol) a Chynlluniau Addysg Unigol (CAU) anstatudol. Bydd pob plentyn neu berson ifanc gydag ADY efo'r hawl i dderbyn yr un cynllun statudol - sef y CDU.

## 2. Meini Prawf

Mae cael Meini Prawf clir ar gyfer Mynediad a Gadael gwasanaethau o fewn y maes ADY a Chynhwysiad yn hybu cysondeb ar draws ysgolion o ran gofynion a disgwyliadau. Mae Meini Prawf penodol yn bodoli o fewn pob maes angen. Pan fo disgybl yn profi anawsterau sydd yn croesi rhwng meysydd fe fydd angen cyfeirio at y Meini Prawf yn y meysydd hynny, ond gyda phenderfyniad o ran adnabyddiaeth o'r plentyn/person ifanc o ba faes ydy'r prif anhawster ar unrhyw bryd.

## ~~3.~~ Mynediad at Wasanaethau

Mae ymyrraeth gynnar a graddoledig yn hanfodol i leihau anawsterau disgyblion ymhellach ymlaen yn eu gyrfa ysgol. Oherwydd hyn mae perthynas agos gyda gweithwyr cymunedol ac addysg yn y sector blynyddoedd cynnar angen bod yn gryf. Mae system gyfeirio yn bodoli ble mae gweithwyr cymunedol iechyd (e.e. Pediatrydd, Ymwelydd Iechyd, Therapydd Iaith a Lleferydd) a sefydliadau addysg blynyddoedd cynnar sydd wedi eu cofrestru gyda'r Awdurdodau fel darparwyr addysg (e.e. Cylchoedd Meithrin) yn gallu cyfeirio plant ifanc i Fforwm Blynyddoedd Cynnar. Mae plant yn cael eu cyfeirio yn unol â'r Meini Prawf Blynyddoedd Cynnar, a chaiff y Cynllun Datblygu Unigol ei ddefnyddio. Gall hyn arwain i drafod y plentyn o fewn maes penodol yn y Fforymau Ardal (e.e. plentyn sydd angen mewnbwn y Tîm Cyfathrebu a Rhyngweithio).

## 4. Fforymau ADY a Chynhwysiad, a Phanel Traws Sirol (Cymedroli)

Mae gwaith y Timau Arbenigol, ac eithrio agweddau o waith y Seicolegwyr Addysgol a'r Swyddogion Ansawdd ADY a Chynhwysiad, Gwasanaeth Lles a Chwnselwyr, yn cael ei drefnu trwy Fforymau ADY a Chynhwysiad fel man cychwyn. Mae posib i unrhyw ysgol wneud cais am fewnbwn i'r Fforwm yn unol â'r Meini Prawf drwy ddefnyddio Cynllun Datblygu Unigol y plentyn. Mae'r Fforymau Ardal ADYaCh yn cyfarfod bob hanner tymor.

Gyda phlant sydd ag anghenion dwys a chymhleth, mae trafodaeth ynglŷn ag anghenion yn cael ei weithredu trwy Banel Cymedroli Sirol. Mae'r Fforymau a'r Panel yn gweithredu yn unol â Meini Prawf mynediad at a gadael gwasanaeth yr A.Ll. Mae'n rhan allweddol o rôl y Fforymau a'r Paneli i dderbyn gwybodaeth ynglŷn â sut mae ysgolion yn defnyddio'r gwasanaethau arbenigol y maent yn ei dderbyn, ac os ydynt yn rhoi'r argymhellion a gynigir ar waith ar lawr y dosbarth.

# Llwybr Cefnogaeth

Pennaeth/ **Person Cyswllt ADYaCH** yr ysgol yn sicrhau gweithredu strategaethau lefel ysgol i gefnogi'r disgybl

**CAM 1 -** os oes **anghenion ychwanegol** yn cael eu hadnabod

- Defnyddio Proffil Un Tudalen a Chynllun Gweithredu
- Penderfyniad gan yr ysgol yn unol â'r Meini Prawf
- Cefnogaeth ychwanegol yn cael ei gynnig gan yr ysgol

**CAM 2 -** os yw'r plentyn/person ifanc yn cwrdd â'r meini prawf am **gefnogaeth arbenigol**

- Defnyddio Cynllun Datblygu Unigol a Chynllun Gweithredu
- Cyfeirio i'r **Fforwm Ardal ADYaCh** yn unol â'r Meini Prawf i wneud penderfyniad o ran y gefnogaeth orau.
- Cefnogaeth arbenigol gan yr ysgol a gan y Tîm Canolog Integredig am gyfnod penodedig yn ol yr angen

**Cydlynwyr Clwstwr ADYaCh** yn rhoi cefnogaeth i'r disgybl, y rhieni a chlwstwr o ysgolion

**CAM 3 -** os yw'r plentyn/person ifanc efo **anghenion mwy dwys a chymleth**

- Defnyddio Cynllun Datblygu Unigol a Chynllun Gweithredu
- Penderfyniadau o ran y ddarpariaeth orau yn y **Panel Traws Sirol Gwynedd a Môn** yn unol â'r Meini Prawf
- Cefnogaeth arbenigol gan y Tîm Canolog Integredig a Chymorthyddion penodol

**Swyddogion Ansawdd ADYaCh Ardal** yn cynnig cefnogaeth i'r disgybl, y rhieni a'r ysgolion o fewn eu hardal



# Llywodraethiant:

Mae'r Gwasanaeth arbenigol wedi cael ei rannu'n ddwy adran sef:

- Y Gwasanaethau Anghenion Dysgu Ychwanegol
- Y Gwasanaethau Cynhwysiad




Mae'r Uwch Dîm Rheoli yn gweithredu ar draws y ddau awdurdod ac yn cynnwys **Uwch Reolwr Cynhwysiad** ac **Uwch Reolwr Anghenion Dysgu Ychwanegol** sydd yn gyfrifol am arwain y datblygiadau arfaethedig cenedlaethol (Deddfwriaeth ADY) yn ogystal â gweithredu'n llawn ddeilliannau'r Adolygiad Strategol ADY a Chynhwysiad Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn.

Maent yn gyfrifol am:

- Reoli a gweithredu gweledigaeth strategol yn y maes Cynhwysiad ac Anghenion Dysgu Ychwanegol yn ei gyfanrwydd.
- Rheoli'r gyllideb Cynhwysiad/Anghenion Dysgu Ychwanegol.
- Herio ysgolion yn y ddau faes gan sicrhau cysondeb a'r safon uchelaf o ymarfer gan yr ysgolion a gwasanaethau canolog.
- Ymweld yn rheolaidd ag ysgolion fel rhan o drefn ragweithiol gan adrodd ar gryfderau a meysydd sydd angen sylw.

Mae'r **Pennaeth Gwasanaeth Cynnal Ymddygiad** yn atebol am redeg dydd i ddydd ac ansawdd y ddarpariaeth Cynnal Ymddygiad, o'r blynyddoedd cynnar hyd at ddiwedd Cyfnod Allweddol 4.

- Sicrhau fod yr ymateb yn brydlon, grymus, cyson ac yn cyfarfod gofynion statudol ar draws yr ystod.
- Rheoli patrwm gwaith pedwar tîm cynradd, amserlen disgyblion Pecyn 25 a chydweithio â thair ysgol uwchradd i sicrhau darpariaeth bwrpasol yn CA3.

Mae'r **Prif Seicolegydd Addysgol** yn atebol am oruchwyliaeth broffesiynol y tîm o Seicolegwyr a rhoi arweiniad strategol yn y maes. Y Prif Seicolegydd fydd yn gweithredu fel Seicolegydd ar gyfer Ysgolion Arbennig ac ar gyfer Lleoliadau All Sirol.

Mae'r **Swyddogion Ansawdd ADYaCh Ardal** yn gyfrifol am sicrhau fod ysgolion yn ymateb i'r newid yn y Ddeddfwriaeth ADY drwy gefnogi a rheoli'r newid.

- Sicrhau monitro ansawdd ADY o fewn ysgol ac adrodd i'r Swyddogion Addysg/Uwch Reolwyr pan yn briodol
- Cysoni a chefnogi gwaith y Cydlynwyr ADY o ran y defnydd o adnoddau ADY ar lefel ysgol gyfan.
- Cefnogi'r disgyblion efo'r anghenion mwyaf dwys oddi fewn i'r brif ffrwd.

## Gwasanaeth Seicoleg Addysgol

Mae'r Gwasanaeth Seicoleg Addysgol yn cyd-weithio ag ysgolion Gwynedd ac Ynys Môn i hwyluso ymateb addas a rhesymol pobl ifanc sydd yn profi anawsterau dysgu ychwanegol, yn rhan o Dîm Integredig ADY, lle bo'r anghenion yma yn effeithio ar fynediad yr unigolion i'r cwricwlwm. Maent yn gwneud hyn er mwyn:

- Sicrhau'r deilliannau addysgol gorau posibl ar gyfer unigolion rhwng 0 a 25 oed.
- Darparu Gwasanaeth sydd o safon uchel ac yn cyd-fynd gyda safonau Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal (HCPC).
- Gweithio mewn modd strategol effeithiol i hybu datblygiad ysgol gyfan yn y modd y mae ADY a Chynhwysiad yn cael ei dargedu.

## Polisi a Chanllawiau Diogelu

Mae'r Swyddog Diogelu yn gweithredu fel pwynt cyswllt am arweiniad, hyfforddiant a chyngor arbenigol yn y maes amddiffyn plant. Maent yn gweithio'n agos â'r Gwasanaethau Plant i sicrhau fod ein disgyblion yn cael eu diogelu'n llawn o fewn y gyfundrefn addysg. Maent yn cynrychioli addysg mewn cyfarfodydd amddiffyn plant lle bo honiad yn erbyn aelod o staff.

## Strategaeth Hyfforddiant

Mae'n rhaid sicrhau fod gweithlu'r Tîm Integredig yn cynnwys arbenigeddau penodol fesul maes a bod yr arbenigedd yma'n cael ei ddiweddaru'n rheolaidd gan sicrhau fod yr ymyraethau cywir ar sail tystiolaeth yn cael eu hymarfer. Mae pob tîm arbenigol yn cynllunio Rhaglen Hyfforddiant cynhwysfawr ar gyfer y gweithlu a'r rhieni o dan arweiniad yr Uwch Seicolegwyr Addysg penodol.

## Data a Systemau Electroneg

Mae'n greiddiol ein bod yn gallu symleiddio'r dulliau o ddal gwybodaeth yn electroneg a thrwy hyn leihau dyblygu gwaith. Mae'r drefn yn rhoi mynediad at yr holl wybodaeth am ADY a Chynhwysiad disgybl oddi fewn i un ffeil electroneg.

# Y Gwasanaethau Anghenion Dysgu Ychwanegol

## Gwasanaeth Cyfathrebu a Rhyngweithio

Mae'r Gwasanaeth Cyfathrebu a Rhyngweithio yn ceisio cyfoethogi sgiliau iaith, cyfathrebu a rhyngweithio ac ymateb yn raddoledig pan fo anawsterau oherwydd Oediad, Anhwylder neu Awtistiaeth yn amharu ar ddatblygiad yn y meysydd hyn.

Mae'r tîm yn cynnig arweiniad a hyfforddiant i athrawon a chymorthyddion ar lawr dosbarth er mwyn sicrhau fod y strategaethau cywir yn cael eu defnyddio.

Mae Canolfannau (rhan amser) yn rhan annatod o'r gwasanaeth, gyda ffocws clir ar gynyddu sgiliau'r disgyblion wrth ddychwelyd i'r prif lif. Mae 5 Canolfan Anhwylder Iaith Penodol, a 3 Canolfan Gynradd a 2 Ganolfan Uwchradd ar gyfer Cyfathrebu Cymdeithasol (i rai ac anawsterau ar y sbectrwm awtistiaeth).

Mae cyswllt agosach, a gwaith wedi cael ei dargedu yn llawer mwy cydlynol efo'r gwasanaeth therapyddion iaith. Mae rôl y therapyddion hyn yn benodol ar gyfer cefnogi'r disgyblion sydd yn derbyn mewnbwn ymestyn allan, ac o fewn y canolfannau.

## Gwasanaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol Penodol ac Amhenodol

Mae'r Gwasanaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol Penodol ac Amhenodol yn cyfeirio yn benodol at:

- Anawsterau sylweddol mewn datblygiad sgiliau llythrennedd a/neu rifedd dros gyfnod o amser. Hyn yn cyfeirio at Anawsterau sydd y tu allan i'r amrediad cyfartalog ar gyfer oedran y plentyn.
- Mewn rhai achosion mae'r anawsterau llythrennedd yma yn cael ei disgrifio fel Dyslecsia yn unol â diffiniad y Gymdeithas Seicoleg Brydeinig.

Mae'r Gwasanaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol Penodol ac Amhenodol yn ceisio cyfoethogi sgiliau llythrennedd a rhifedd ac ymateb yn raddoledig pan fo anawsterau yn amharu ar ddatblygiad yn y meysydd hyn. Gwneir hyn drwy addasu modelau gweithio i dargedu yn fwy cynhwysol.

Mae'r tîm yn:

- Rhoi ffocws clir ar ddatblygu sgiliau ysgol gyfan ar gyfer amrywiaeth mewn dulliau dysgu
- Sicrhau fod prosesau a dulliau clir yn bodoli i adnabod anawsterau penodol ac amhenodol yn amserol
- Sicrhau fod y rhieni yn rhan allweddol o unrhyw ymyrraeth sydd yn cael ei gynnig

## Gwasanaeth Nam Synhwyraidd

Mae'r Gwasanaeth Nam Synhwyraidd yn sicrhau fod plant a phobl ifanc gydag anawsterau nam golwg a nam clyw yn cael mynediad llawn i'r cwricwlwm a'r amgylchedd dysgu er mwyn lleihau effaith y Nam ar gynnydd holistaidd ac academaidd y disgyblion.

Mae'r tîm yn:

- Darparu gwasanaeth strwythuredig sydd yn diwallu anghenion disgyblion Nam Synhwyraidd o 0 i 25 oed mewn darpariaeth blynyddoedd cynnar, ysgolion cynradd, uwchradd ac ysgolion arbennig, gan sicrhau eu bod yn cyrraedd eu llawn botensial.

- Cynnig amrywiaeth o gymorth, darpariaeth ac adnoddau addas i ddiwallu'r anghenion unigol, sydd yn cyd-fynd â gofynion National Sensory Impairment Partnership (NatSIP).

# Gwasanaeth Meddygol a Corfforol

Mae'r Gwasanaeth Meddygol Corfforol yn hwyluso ymateb addas a rhesymol ar gyfer plant a phobl ifanc sydd yn profi anawsterau meddygol a/neu gorfforol lle bo'r anghenion yma yn effeithio yn sylweddol ar fynediad yr unigolion i'r cwricwlwm.

Mae'r tim yn darparu:

- arweiniad arbenigol i ysgolion ar sut i ddiwallu anghenion meddygol o fewn awyrgylch ysgol
- arweiniad ar addasu cwricwlaidd, cydlynu gwybodaeth a datblygu agweddau cynhwysol
- llunio asesiadau risg yn y maes codi a thrin ac yn y maes ymddygiad heriol

# Y Gwasanaethau Cynhwysiad

## Gwasanaeth Cynnal Ymddygiad

Mae'r Gwasanaeth Cynnal Ymddygiad yn ceisio newid cadarnhaol mewn ymddygiad pobl ifanc sydd yn profi anawsterau ymddygiadol, emosiynol a datblygiad cymdeithasol. Y nod yw gwella ymddygiad a lleihau'r risg o waharddiad o ysgol.

Mae'r gwasanaeth addysg gartref i blant sâl yn gweithio â theuluoedd ac ysgolion prif lif i gefnogi pobl ifanc sydd â chyflyrau meddygol cymhleth i gyrraedd eu llawn botensial. Y nod yw cynnig cefnogaeth brydlon ac effeithiol i er mwyn goresgyn unrhyw broblem all godi oherwydd salwch hir dymor.

Mae'r tim yn;

- Sicrhau fod ethos yr yn sicrhau perchnogaeth yr ysgolion o'r bobl ifanc yma sydd ag anghenion ymddygiadol, emosiynol a chymdeithasol
- Pob athro/awes ymhob ysgol i dderbyn hyfforddiant priodol fydd yn arwain at athrawon sydd yn hyderus i weithio â phobl ifanc sydd ag anghenion ymddygiadol, emosiynol a chymdeithasol
- Sicrhau arweiniad arbenigol i alluogi ysgolion i deilwrio ymyraethau arbenigol o fewn adnoddau'r ysgol
- Sicrhau darpariaeth arbenigol safonol lleol ar gyfer y bobl ifanc ac anghenion ymddygiadol ac emosiynol mwyaf dwys

### Trosolwg o'r Gynhaliaeth Cynnal Ymddygiad

**Pecyn 25 (CA4)**
- 25 awr o Ddarpariaeth wedi ei deilwrio ar gyfer anghenion y disgyblion.

**Cynhaliaeth Arbenigol (CA2 a CA3)**
- Cyfnod penodol o sylw dwys mewn grŵp bychan o fewn ysgol prif lif.

**Ymyrraeth Tîm (CA2)**
- Sylw dwys i gefnogi ymddygiad unigolyn ar lefel ysgol a chartref.

**Cymorthyddion ADY**
- Cynnal gwaith yr ysgol i gefnogi cynhwysiant disgybllion.

**Hyfforddiant Ysgol Gyfan**
- Rhaglen hyfforddiant gytunedig ar gyfer cymuned lawn yr ysgol.

**Pecyn ar gyfer Plant Sâl**
- Darpariaeth wedi ei deilwra ar gyfer anghenion y disgybl

# Gwasanaeth Lles Addysg

Mae'r Gwasanaeth Lles Addysg yn darparu cymorth proffesiynol o safon i blant, pobl ifanc, teuluoedd ag ysgolion fel y gall plant a phobl ifanc elwa o'r ddarpariaeth addysgol a ddarperir ar eu cyfer. Y nod yw gwella presenoldeb a thrwy hynny cyrhaeddiad addysgol ein pobl ifanc.

Mae'r tîm yn:

- Ymchwilio i'r rhesymau dros absenoldeb o'r ysgol
- Cynnig gwybodaeth a chanllawiau
- Rhoi cyngor i deuluoedd ar wasanaethau cymorth arbenigol eraill a chyfeirio at wasanaethau priodol yn ôl y gofyn
- Rhybuddio, dirwyo ac erlyn yn unol â'r drefn gytunedig

# Gwasanaeth Cwnsela

Mae'r Gwasanaeth Cwnsela yn wasanaeth annibynnol sydd yn gweithio gydag ysgolion Gwynedd ac Ynys Môn i gefnogi pobl ifanc sydd â phryderon cymdeithasol, emosiynol i gyrraedd eu llawn botensial. Y nod yw cynnal anghenion emosiynol cymhleth y bobl ifanc yma a thrwy hynny gwella eu cyrhaeddiad addysgol.

Mae'r tim yn cynnig y canlynol:


- Lle ac amser rheolaidd er mwyn siarad a thrafod eu gofidiau neu anawsterau
- Helpu pobl ifanc i drafod eu teimladau ac edrych ar y ffordd y maen nhw efallai eisiau i bethau fod yn wahanol, trwy siarad a defnyddio amrywiaeth o fodelau cwnsela.
- Ymwneud â materion datblygiadol, datrys problemau, gwella perthnasoedd, gwneud dewisiadau, ymdopi â newidiadau, meithrin mewnwelediad a dealltwriaeth, tyfu fel unigolyn
- Cefnogi a chynnal ein plant a phobl ifanc drwy sicrhau cwnselwyr hyfforddedig cymwysedig sy'n gweithio o fewn cod moeseg a chod ymarfer cydnabyddedig y Gymdeithas Cwnsela a Seicotherapi Prydain.

# Gwasanaeth i Ddisgyblion Saesneg fel Iaith Ychwanegol

Mae'r Gwasanaeth i Ddisgyblion Saesneg fel Iaith Ychwanegol (SIY) yn cefnogi pobl ifanc sydd efo'r Saesneg fel iaith ychwanegol i gyrraedd eu llawn botensial. Y nod yw cynnig cefnogaeth brydlon ac effeithiol i ysgolion Gwynedd ac Ynys Môn er mwyn goresgyn unrhyw broblem all godi oherwydd diffyg iaith ac o ganlyniad dealltwriaeth.

Mae'r tim yn:

- Ymateb yn brydlon a chyson i geisiadau ysgolion am gefnogaeth.
- darparu'r gefnogaeth fwyaf addas ar gyfer disgyblion.
- Cynnal asesiadau cychwynnol ar 'newydd-ddyfodiaid' mewn Ysgolion Cynradd ac Uwchradd
- Sefydlu cysylltiadau positif gyda theuluoedd
- Cyflwyno ystod o strategaethau cynaliadwy ar gyfer cynnal disgyblion.
- Cefnogi athrawon i wahaniaethu ar gyfer disgyblion SIY gan gynnwys cyd ddysgu a modelu arferion da.
- Codi ymwybyddiaeth o faterion cydraddoldeb, diwylliant, iaith ac amrywiaeth mewn ysgolion.
- Gwneud atgyfeiriadau i wasanaethau priodol yn ôl y gofyn.




| | |
|---|---|
| Haen 1 | Pennaeth Addysg yn atebol am y Gwasanaeth ADYaCh |
| Haen 2 | Uwch Reolwr ADY ac Uwch Reolwr Cynhwysiad yn rheolwyr llinell i'r Timau Gwasanaethau Arbenigol (ansawdd/ gwerth am arian a monitro'r gwasanaeth) |
| Haen 3 | Pennaeth Ymddygiad yn rheolwr llinell i'r Tîm Ymddygiad a'r Prif Seicolegydd yn rheolwr Llinell i'r Tîm Seicolegwyr |
| | Swyddog Addysg Ardal (Gwynedd) ac Uwch Reolwr Addysg (Môn) yn rheolwyr llinell ar y Swyddogion Ansawdd ADYaCh (atebolrwydd am rôl yr ysgolion) |
| Haen 4 | Cydlynwyr ADYaCh yn cael eu penodi gan ysgolion unigol neu ar draws clwstwr o ysgolion (Swyddogion Ansawdd ADYaCh yn eu cefnogi a rhoi arweiniad) |

ADY

# Strategaeth

# Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad

## Gwynedd ac Ynys Môn



CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

Rhagair ........................................................................ 5
Cyflwyniad a Chyd-destun ........................................................ 7
Strategaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad ..... 7
Y Deilliannau ........................................................................ 10
Mesuryddion ........................................................................ 10
Rhesymwaith/Rationale ........................................................ 11
Gweithredu Ysgol Gyfan ........................................................ 11
Tîm Integredig ........................................................................ 11
Gwasanaeth ADY a Chynhwysiad Gwynedd ac Ynys Môn ...... 12
Llwybr Cefnogaeth ................................................................ 14
Cydlynu Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad ......... 16
Disgwyliadau Ysgol Gyfan ........................................................ 16
Strategaeth Hyfforddiant ........................................................ 19
Datrys Anghydfod a Chwynion ................................................ 22
Data a Systemau Electroneg .................................................... 24
Strwythur Staffio: ..................................................................... 26
Gwasanaeth Seicoleg Addysgol ................................................ 27
Gwasanaeth Ansawdd Anghenion Dysgu Ychwanegol ........... 32
Polisi a Chanllawiau Diogelu .................................................... 38
Cyfathrebu a Rhyngweithio ..................................................... 46
Disgwyliadau Ysgol Gyfan ........................................................ 46
Gwasanaeth Cyfathrebu a Rhyngweithio .................................. 47
Canolfannau Anhwylder Iaith Penodol ..................................... 55

Canolfannau Cyfathrebu Cymdeithasol .................................................. 57

Meini Prawf Cyfathrebu a Rhyngweithio .................................................. 59

Tîm Integredig Cyfathrebu a Rhyngweithio - Mynediad .................................................. 59

Tîm Integredig Cyfathrebu a Rhyngweithio - Gadael .................................................. 60

Anhwylder Sbectrwm Awtistiaeth (PLASC: ASD) ac Anawsterau Cyfathrebu a Rhyngweithio Cymdeithasol (PLASC: SLCD) .................................................. 61

Anawsterau Iaith, Lleferydd a Chyfathrebu .................................................. 63

Anghenion Dysgu Ychwanegol Penodol ac Amhenodol (Gwybyddiaeth a Dysgu) .................................................. 65

Disgwyliadau Ysgol Gyfan .................................................. 65

Gwasanaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol Penodol ac Amhenodol .................................................. 67

Meini Prawf Anghenion Dysgu Ychwanegol Penodol ac Amhenodol .................................................. 70

Grid Meini Prawf Mynediad Gwasanaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol Penodol ac Amhenodol .................................................. 70

Grid Meini Prawf Gadael y Gwasanaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol Penodol ac Amhenodol .................................................. 71

Anawsterau Llythrennedd a Dyslecsia (Dysl) .................................................. 72

Anawsterau Rhifedd a Dyscalculia (Dysl) .................................................. 73

Nam Synhwyraidd .................................................. 74

Disgwyliadau Ysgol Gyfan .................................................. 74

Gwasanaeth Nam Synhwyraidd .................................................. 75

Meini Prawf Synhwyraidd .................................................. 80

Nam Golwg – PLASC VI .................................................. 80

Nam Clyw .................................................. 83

Nam Clyw – PLASC HI .................................................. 84

Anghenion Meddygol a Corfforol .................................................. 86

Disgwyliadau Ysgol Gyfan .................................................. 86

Gwasanaeth Meddygol a Corfforol .................................................. 88

Meini Prawf Corfforol .................................................. 91

Meini Prawf Meddygol .................................................. 95

Cynnal Ymddygiad .................................................. 99

DRAFT

Cynnal Ymddygiad o Fewn Ysgolion ........................................................ 99

**Cefnogaeth Cynhwysiad Uwchradd .................................... 102**

Gwasanaeth Cynnal Ymddygiad ......................................................... 104

Trosolwg o'r Gynhaliaeth Cynnal Ymddygiad.......................................... 110

Pecynnau 25 ......................................................................................... 111

Cynhaliaeth Arbenigol CA2 a CA3 ........................................................ 114

Profiad Gwaith ac Estynedig.................................................................. 117

Meini Prawf Ymddygiad ......................................................................... 119

Tîm Integredig Cynnal Ymddygiad - Mynediad ........................................ 119

Tîm Integredig Cynnal Ymddygiad - Gadael ............................................ 120

Canolfan Cynnal Ymddygiad – Mynediad................................................ 121

Uned Cynnal Ymddygiad - Gadael............................................................ 122

**Gwasanaeth Lles Addysg ................................................... 123**

**Gwasanaeth Cwnsela ......................................................... 136**

**Addysg Gartref i Blant Sâl................................................... 144**

**Gwasanaeth i Ddisgyblion Saesneg fel Iaith Ychwanegol..... 147**

Atodiad 1 – Strwythur y Gwasanaethau Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad ...................................................................................... 157

Atodiad 2 – Cynllun Datblygu Unigol (CDU) ........................................... 158

DRAFT

# Rhagair

Cytunwyd i lunio un Strategaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad Gyffredin fydd yn cyfarch anghenion disgyblion a phobl ifanc **Gwynedd ac Ynys Môn** mewn ffordd effeithiol ac effeithlon. Mae hyn yn seiliedig ar ail fodelu a chryfhau'r bartneriaeth hanesyddol a chynnwys yr holl ystod o wasanaethau a darpariaethau. Y bwriad yw gwella deilliannau i blant a phobl ifanc.

Mae cynllunio o gwmpas anghenion plant a phobl ifanc a'u teuluoedd yn ganolog i'r ddarpariaeth newydd ac yn ogystal, mae'r ffactorau canlynol yn derbyn llawer o sylw:

- adnabod problemau / anghenion yn gynnar ym mywyd y plentyn / person ifanc a sicrhau ymyrraeth briodol;
- ymyrryd yn gynnar pan fo problemau yn dod i'r golwg;
- gweithio yn fwy integredig ac amlasiantaethol, gan rannu gwybodaeth a chydgynllunio'r ddarpariaeth;
- sgiliau a dealltwriaeth y gweithlu yn cael eu datblygu yn gyson;
- cyfathrebu gwell a threfnus gyda'r plant, pobl ifanc a'r teuluoedd.

Mae gweithgareddau ataliol yn digwydd o fewn y maes, yn enwedig gyda theuluoedd bregus, gan sicrhau bod gwasanaethau cyflawn ag integredig ar gael ar eu cyfer.

Mae'r trawsnewid yma yn golygu y byddwn yn trefnu ein hunain yn effeithiol ac effeithlon fel Cynghorau er mwyn ymateb i anghenion plant a phobl ifanc bregus yng Ngwynedd ac Ynys Môn.

Rhestrir isod y meysydd y sydd wedi eu trafod a'u cytuno:

- Ffurfio Gwasanaeth Integredig cyfan gwbl ar y cyd fydd yn cynnwys cefnogaeth ar gyfer yr ystod lawn o anghenion. Gwasanaeth yn cynnwys er enghraifft, Seicolegwyr Addysg, Athrawon Arbenigol ~~a~~ Chymorthyddion Arbenigol.
- Adolygu'r meini prawf ar y cyd gan sicrhau cysondeb traws sirol. Sicrhau fod y meini prawf yn eglur i bawb ar bob lefel.
- Cynnal panel traws sirol ar gyfer y plant mwyaf dwys.
- Y model darparu a chefnogi ar lefel ardal yn cael ei rannu yn Dwyrain Gwynedd, Ynys Môn, De Gwynedd a Gorllewin Gwynedd.
- Adolygu'r dull o ddatganoli arian ADY i ysgolion prif lif gan sicrhau'r defnydd mwyaf effeithiol o gyllid. Adolygu'r drefn o fonitro'r defnydd o'r cyllid yma ar y cyd.
- Ffocws clir ar ddeilliannau, ac mewn ymateb i hyn cysoni ein gweithdrefnau cywain a dadansoddi data.
- Ymestyn y drafodaeth â'r gwasanaeth iechyd.
- Llunio rhaglen hyfforddiant ar y cyd, ar gyfer pob lefel sydd yng nghyd-fynd â blaenoriaethu'r gwasanaethau.

Pwrpas y Strategaeth hon felly, yn dilyn ymgynghori eang, yw gosod cyfeiriad a chyflwyno prosiectau penodol ar gyfer trawsnewid y maes anghenion dysgu ychwanegol.

DRAFT

Rhestrir isod beth fydd yn wahanol yn sgil gweithredu'r Strategaeth hon:

1. Pwyslais ar **osod y disgybl yn ganolog** – drwy bersonoli'r gefnogaeth gan ddefnyddio dulliau penodol (sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn) wrth gynllunio'r ddarpariaeth a'r gefnogaeth ar eu cyfer.

2. **Cynnig math newydd o gefnogaeth**, gyda mwy o bwyslais ar ymgynghori, rhoi arweiniad a chefnogaeth gan gynnwys mentora. Ni fydd cymaint o ddibyniaeth ar gymorthyddion, gyda'r ddarpariaeth yn fwy hyblyg ac am gyfnodau penodol.

3. **Gwella dealltwriaeth rhieni o'r ddarpariaeth a'r opsiynau** sydd ar gael ar gyfer eu plant.

4. **Codi safonau** drwy:

    - gynyddu cyraeddiadau plant a phobl ifanc gydag anghenion dysgu ychwanegol;
    - wella ansawdd y ddarpariaeth ADY yn gyffredinol
    - gynyddu arbenigedd yr holl weithlu yn yr ysgolion

5. **Newid diwylliant** er mwyn sicrhau bod **Ysgol gyfan** yn cymryd cyfrifoldeb am y maes ADY; bydd angen arweinyddiaeth gref i hyrwyddo hyn.

6. **Newid pwyslais, fesul cyflwr** o ran y gefnogaeth arbenigol fydd ar gael. Byddwn yn rhoi mwy o sylw i anhwylderau iaith, awtistiaeth a chynnal ymddygiad ar sail fod angen ymyrraeth fwy arbenigol ar y cyflyrau yma. Bydd newid sylweddol yn y gefnogaeth ar gyfer oediad dysgu gyda mwy o bwyslais ar i'r ysgolion gyflwyno'r ddarpariaeth yma eu hunain gyda chefnogaeth ymgynghorol y Tîm Integredig. Bydd **rheolaeth yn cael ei fewnoli** ac yn gyson ar draws yr holl ddarpariaeth.

7. Darparu **Rhaglen Hyfforddiant** penodol yn cael ei gynnig i holl weithlu'r ysgolion

8. Hyrwyddo **gwell defnydd a dealltwriaeth o'r meini prawf,** gan sicrhau bod modd **cyrraedd y ddarpariaeth yn llawer cynt**

9. Sicrhau fod pobl ifanc yn gadael yr ysgolion yn fwy **hyderus ac annibynnol.**

10. **Cryfhau cyd weithio** gydag asiantaethau eraill

11. Sicrhau gwell **system data a thracio** a sicrhau trefniadau monitro rheolaidd.

DRAFT

# Cyflwyniad a Chyd-destun

## Strategaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad

Mae'n bwysig nodi y paratoir y Strategaeth yma yng nghyd-destun newid arwyddocaol yn y maes, yn cynnwys:

- y cynigion deddfwriaethol ar gyfer diwygio'r fframwaith ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol;
- y dystiolaeth sy'n awgrymu bod angen hoelio sylw ar ymyrraeth gynnar ac ataliol;
- y cyd-destun ariannol

Daeth yr angen am Strategaeth o'r fath i'r amlwg yn wyneb dadansoddiad o brofiadau plant a phobl ifanc gydag anghenion dysgu ychwanegol. Amlygwyd rhai gwendidau sylfaenol yn cynnwys:

- **Anghysondeb o fewn y gyfundrefn:**
  - o ran disgwyliadau rhieni; yn safon a lleoliad y ddarpariaeth ac yn niwylliant yr ysgolion
- **Cyfundrefn draddodiadol a chymhleth**
  - meini prawf angen eu hadolygu; y gweithredu'n adweithiol (awdurdod ac ysgolion); darpariaeth yn cael ei gomisiynu'n allanol heb ddigon o reolaeth trosto
- **Ansawdd perfformiad**
  - anghysondeb o fewn ysgolion a thimau arbenigol; diffygion mynediad at ddata cyfredol (y wybodaeth yn cael ei gadw ar wahân mewn ffurf wahanol); ac anodd profi cynnydd
- **Perthynas â gwasanaethau eraill**
  - Y strwythur ddim yn hybu cydweithio
- **Twf mewn anghenion penodol**
  - Y ddarpariaeth ddim yn adlewyrchu'r pwyslais cywir ar yr anghenion pennaf
- **Diffyg cyfathrebu**
  - diffyg ymwybyddiaeth ar gyfer derbyn gwybodaeth; y gyfundrefn bresennol yn rhy gymhleth a diffygion cyfathrebu rhwng yr holl fudd ddeiliad

Yn ychwanegol i'r ffactorau uchod, mae y **Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (ADYTA)** ar fin cael ei chyflwyno i'r gyfundrefn deddfwriaethol. Bydd y Bil yma yn trawsnewid y fframwaith cyfreithiol ac yn cael gwared ar anghysondebau a'r diffygion sydd yn y system ar hyn o bryd.

Mewn datganiad (4 Gorffennaf 2016) gan y Gweinidog Dysgu Gydol Oes – Alun Davies, nodir:

> "Mae'r fframwaith cyfreithiol presennol sy'n cynorthwyo plant a phobl ifanc ag anghenion addysgol arbennig yn seiliedig ar fodel a gyflwynwyd dros 30 o flynyddoedd yn ôl. Mae'n amlwg nad yw'n addas at y diben erbyn hyn.
>
> "Ein gobaith gyda'r bil hwn yw y bydd yn trawsnewid disgwyliadau, profiadau a deilliannau plant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol yng Nghymru."

Nodau cyffredinol y Bil yw creu:

- fframwaith deddfwriaethol unedig i gefnogi plant a phobl ifanc 0-25 oed sydd ag ADY mewn ysgolion a sefydliadau addysg bellach:
- proses integredig, gydweithredol o asesu, cynllunio a monitro sy'n hwyluso ymyriadau cynnar, amserol ac effeithiol a
- system deg a thryloyw o ddarparu gwybodaeth a chyngor ac o ddatrys pryderon ac apeliadau

Mae'r ddeddf arfaethedig yn cynnig y newidiadau sylfaenol canlynol:

- Y term Anghenion Addysg Arbennig (AAA) yn newid i Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)[i];
- Cyflwyno Cynlluniau Datblygu Unigol (CDU) drwy ddefnyddio dulliau sy'n canolbwyntio ar unigolion. Bydd y cynlluniau yma yn disodli datganiadau AAA a Chynlluniau Addysg Unigol (CAU) anstatudol a chynlluniau ôl 16. Yr awdurdodau lleol fyddai efo'r cyfrifoldeb i baratoi CDU a sicrhau ei weithrediad ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc gydag ADY rhwng 0-25 oed.
- Cyhoeddi Cod Ymarfer newydd fydd yn cynnwys gofynion gorfodol y bydd yn rhaid i gyrff perthnasol weithredu'n unol â hwy.

Yn gwbwl greiddiol i'r diwygiadau hyn mae ffocws ar gynhwysiant: rhoi plant a phobl ifanc yn y canol a sicrhau eu bod yn cael y cymorth i gyrraedd eu potensial llawn.

Nod ein Strategaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad newydd yw:

> ***'Sicrhau bod plant a phobol ifanc (rhwng 0 a 25 oed) sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn manteisio ar gyfleoedd ac yn ennill profiadau sydd wedi eu cynllunio'n effeithiol ar eu cyfer, er mwyn eu galluogi i wneud cynnydd yn unol â'u gallu.'***

Mae'r canlyniadau yr ydym yn ceisio eu cyflawni drwy'r Strategaeth yn cynnwys:

- darpariaeth sy'n rhoi llawer mwy o bwyslais ar ymyrraeth gynnar yn enwedig yn y blynyddoedd cynnar, gan geisio adnabod cyflyrau yn gynnar iawn ym mywydau plant fel y gall hynny gael effaith ar eu haddysg a'u bywydau yn gyffredinol;
- cynyddu'r arbenigeddau yn ein hysgolion trwy raglenni hyfforddi i ddatblygu mwy o arbenigedd;
- trefniadau amlasiantaethol cadarn o gyd-weithio a fydd yn arwain at rannu gwybodaeth, a sicrhau cydgynllunio effeithiol ar gyfer addysg a datblygiad plant a phobl ifanc sydd angen cefnogaeth ychwanegol;
- cynnig gwasanaeth sy'n sicrhau bod ansawdd uchel yn perthyn i'r profiadau addysgol;
- plant a phobl ifanc yn derbyn y cymorth ychwanegol yn gynt; yn gwneud cynnydd addysgol ar gyflymder priodol, ac yn cyfrannu at hyrwyddo eu hannibyniaeth;
- amgylchedd ddysgu o'r ansawdd uchaf posib ar gyfer plant sydd efo'r anghenion mwyaf dwys;
- sicrhau cyfundrefn effeithiol ac effeithlon.

Y prif hwyluswyr ar gyfer cyflawni a llwyddo i wneud gwahaniaeth positif yw'r:

- **Y gweithlu** - rhaglen hyfforddiant yn ei lle ar gyfer arfogi a datblygu'r gweithlu ar gyfer darparu'r math cywir o gefnogaeth i blant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol;

DRAFT

- **Rhieni** - pwyslais ar gyfer gwell cyfathrebu gan sicrhau bod anghenion y plentyn/person ifanc yn ganolog i'r holl broses;

- **Trefniadau a siâp y Gwasanaeth** - sylw penodol yn cael ei roi i ad-drefnu gwasanaethau o fewn yr Awdurdodau Addysg;

- **Ysgolion**;
    - Cynyddu arbenigedd yn ein hysgolion trwy raglenni hyfforddi i ddatblygu mwy o arbenigedd;
    - sicrhau gwell dealltwriaeth ac eglurder ar ran yr ysgolion, yr Awdurdod Addysg ac asiantaethau eraill o ran natur y cyfrifoldebau a'r darpariaethau.
    - Arweinyddiaeth ysgolion yn datblygu dealltwriaeth ysgol gyfan o'r diwylliant newydd yn y maes yma

DRAFT

# Y Deilliannau

Bydd gofyn sicrhau bod deilliannau clir i blant a phobl ifanc yn sgil newid i'r maes dan sylw:

**Deilliant 1:** Bod plant a phobl ifanc sydd gydag anghenion dysgu ychwanegol yn ganolog i unrhyw benderfyniad wrth gynllunio darpariaeth ar eu cyfer; a'u bod yn derbyn y math cywir o gefnogaeth ac ymyrraeth yn fuan – gyda phwyslais yn y blynyddoedd cynnar.

**Deilliant 2:** Bod plant sydd gydag anghenion dysgu ychwanegol yn derbyn gwasanaeth o ansawdd, yn yr ysgolion a gan dimau amlddisgyblaethol ac amlasiantaethol ar draws Gwynedd ac Ynys Môn.

**Deilliant 3:** Bod y ddarpariaeth ar gyfer plant sydd gydag anghenion dysgu ychwanegol, yn cael ei adolygu'n rheolaidd ac yn amserol i sicrhau fod yr ymyrraeth orau yn cael ei defnyddio.

Wrth adnabod y deilliannau rhoddwyd sylw i'r canlynol:

- Yr angen i drawsffurfio'r holl wasanaeth o fewn y maes Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad;
- Yr angen i ymateb yn llawn i'r prif bwyntiau a wnaed yn ystod y cyfnod ymgysylltu;
- Yr angen i roi ystyriaeth lawn i brofiad a dymuniad y plentyn/person ifanc wrth gynnig newid y ddarpariaeth;
- Yr angen i gynyddu capasiti yn ein hysgolion, gwneud arbedion a lleihau'r galw yn y maes yma yn y dyfodol er sicrhau bod y gwasanaeth yn gynaliadwy yn y tymor hir.
- Yr angen i baratoi ar gyfer y newidiadau deddfwriaethol

O'i gweithredu bydd y Strategaeth yn cyflawni:

- Gwasanaeth o ansawdd i blant a phobl ifanc Gwynedd ac Ynys Môn;
- Gwasanaeth sy'n llawer mwy effeithiol ac effeithlon.

# Mesuryddion

Mae'r Gwasanaeth Ansawdd ADY a Chynhwysiad yn mesur llwyddiant y ddarpariaeth drwy nifer o ddangosyddion. Nodir isod ein prif ddangosyddion;

- Data ynglŷn â chynnydd disgyblion sydd ar y rhestr ADY a Chynhwysiad yn ôl dangosyddion y meysydd penodol, er enghraifft cynnydd yn ôl mesurau cyrhaeddiad, targedau a mesurau safonedig ac asesiadau maen prawf cyfeiriol.
- Presenoldeb (canran awdurdod ac ysgolion unigol)
- Gwaharddiadau Penodol a Pharhaol

DRAFT

# Rhesymwaith/Rationale

Mae Gwasanaeth ADY Gwynedd a Môn yn darparu gwasanaeth integredig cynhwysfawr ar draws lleoliadau addysgol y ddwy sir er mwyn:

- Hybu datblygiad ysgolion i fod yn lleoliadau cynhwysol.
- Lleihau effaith ADY ar ddeilliannau plant a phobl ifanc trwy wella sgiliau a chyraeddiadau.
- Darparu addysg addas ac o safon uchel i blant a phobl ifanc gyda ADY.
- Lleoli gwasanaethau o safon uchel yn lleol.
- Ystyried dyheadau ac anghenion unigol a bod pob plentyn a pherson ifanc yn ganolog i'r gwasanaeth ac ymyrraeth sydd yn cael ei ddarparu ar ei gyfer/chyfer.
- Sicrhau sgiliau o ansawdd uchel o fewn gweithlu canolog a gweithlu ysgolion er mwyn gwella perchnogaeth lawn a chynhwysedd ADY o fewn ysgolion y ddwy sir.
- Cyfrannu at wella ansawdd bywyd a lles trwy gyfoethogi'r ddarpariaeth addysgol sydd yn cael ei ddarparu.
- Lleihau'r garfan o blant sydd angen ymyrraeth ychwanegol oherwydd ADY trwy wella cynhwysedd o fewn darpariaethau addysgol.
- Cryfhau cysylltiadau ac atebolrwydd am ADY ar draws haenau'r model darparu.

# Gweithredu Ysgol Gyfan

Mae darparu ar gyfer plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn flaenoriaeth i gymuned gyfan pob ysgol yng Ngwynedd ac Ynys Môn. Nid cyfrifoldeb y cydlynydd, cymorthyddion a'r uwch dîm rheoli'n unig yw diwallu anghenion dysgu ychwanegol disgyblion, mae cymuned lawn yr ysgol yn cynllunio a darparu'n addas ar eu cyfer.

Cyn chwilio am gymorth ychwanegol dylai pob ysgol geisio strategaethau amrywiol sydd wedi ei amlygu'n glir o fewn y meini prawf. Dim ond wedi dilyn y camau yma y gall ysgol dderbyn cymorth ychwanegol o'r tu allan.

Er mwyn hwyluso'r gweithredu yma mae pob ysgol yn derbyn cyllideb ddatganoledig ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol.

# Tîm Integredig

Mae'r strategaeth hon yn seiliedig ar un Tîm Integredig sgilgar sydd yn cynnwys timau penodol o arbenigeddau yn ôl cyflwr/anhwylder a lleoliad. Mae'r timau yma yn cynghori a chefnogi'r ysgolion ac yn sicrhau cysondeb wrth ddarparu ymyraethau a chefnogaeth briodol i'r unigolion.

Wrth gynllunio'r model darpariaeth newydd, amlygwyd yr angen i newid y pwyslais o ran strwythur a maint y ddarpariaeth ar gyfer rhai anhwylderau. Wrth i'r strategaeth hon esblygu fe fydd newidiadau pellach i'r pwyslais a roddir i gefnogi rhai cyflyrau. Mae mwy o sylw i Gyfathrebu a Rhyngweithio (Anhwylderau Iaith ac Awtistiaeth) ac i Gynnal Ymddygiad o fewn y strategaeth hon. Mae hyn ar sail fod angen ymyrraeth fwy arbenigol ar y cyflyrau yma, a bod niferoedd uwch o ddisgyblion angen y gefnogaeth. Mae newid sylweddol yn y gefnogaeth ar gyfer oediad dysgu gyda mwy o bwyslais ar i'r ysgolion gyflwyno'r ddarpariaeth yma eu hunain gyda chefnogaeth ymgynghorol y Tîm Integredig.

# Gwasanaeth ADY a Chynhwysiad Gwynedd ac Ynys Môn

## 1. Beth yw Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad?

Mae Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn yn ymfalchïo yn y modd y mae pob disgybl yn cyflawni ac yn datblygu fel person cyfan. Mae'n bwysig dathlu unigolion a'u llwyddiannau, a chydnabod fod pob disgybl â chryfderau. Mae hyn yn enwedig yn wir am ein disgyblion sydd ag anawsterau dysgu ychwanegol. Mae ein hysgolion yn draddodiadol yn rhai cynhwysol dros ben ac mae hyn yn un o brif rinweddau'r ddwy sir.
Wrth gyfeirio at Anghenion Dysgu Ychwanegol rydym yn ystyried disgyblion sydd ag anghenion mewn rhan neu rannau o'u datblygiad, sydd yn creu rhwystr mewn mynediad i'r cwricwlwm, na all gael ei ddiwallu gan wahaniaethu arferol a disgwyliedig mewn lleoliad addysgol.
Mae'r penodau amrywiol yn y ddogfen hon yn cyfeirio at anghenion mewn meysydd gwahanol o ddatblygiad ac yn rhoi disgrifiad bras o'r hyn a olygir gan ADY a Chynhwysiad ymhob un o'r meysydd yma.

## 2. Nod y Ddarpariaeth ADY a Chynhwysiad

Nod y ddarpariaeth ADY a Chynhwysiad yw sicrhau fod pob disgybl yn cael eu galluogi i wneud cynnydd yn unol â'u gallu.

## 3. Amcanion y Ddarpariaeth ADY a Chynhwysiad

Mae gan bob ysgol gyfrifoldeb i greu awyrgylch gefnogol a gofalus lle y mae'n bosib i bob disgybl ddatblygu'n hapus a hyderus. O ran ADY a Chynhwysiad yn gyffredinol mae'n rhaid sicrhau fod:

- yr ysgol yn gweithredu yn ôl Cod Ymarfer ADY Cymru.
- perthynas adeiladol, gonest a thryloyw gyda rhieni a gwarcheidwad.
- perchnogaeth glir ynglŷn ag anghenion dysgu ychwanegol y disgyblion gan staff yr ysgol.
- Cydlynnedd effeithiol o ADY a Chynhwysiad o fewn systemau'r ysgol.
- prosesau clir yn bodoli i dargedu ac adnabod anghenion dysgu ychwanegol.
- perthynas agos gyda'r darpariaethau blynyddoedd cynnar sydd yn bwydo'r ysgol.
- defnydd effeithiol o adnoddau a chyllid ADY a Chynhwysiad datganoledig yr ysgol.
- defnydd synhwyrol ac effeithiol o wasanaethau arbenigol.
- defnydd ysgol gyfan o feddylfryd sydd yn canolbwyntio ar yr unigolyn.

## 4. Defnyddio dulliau sydd yn Canolbwyntio ar yr Unigolyn i greu Cynlluniau Datblygu Unigol

Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i bob Awdurdod Lleol gyflwyno'r defnydd o ddulliau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn i gynllunio'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ysgol. Bydd y Cynlluniau Datblygu Unigol (CDU) o fabwysiadu'r ddeddfwriaeth newydd yn disodli datganiadau AAA (Statudol) a Chynlluniau Addysg Unigol (CAU) anstatudol. Bydd pob plentyn neu berson ifanc gydag ADY efo'r hawl i dderbyn yr un cynllun statudol - sef y CDU.

Mae'n allweddol ein bod yn darganfod beth sy'n bwysig i'r disgyblion wrth geisio personoli'r profiad addysgol. Byddwn yn gwneud hyn drwy siarad efo nhw a'u teuluoedd, a chytuno sut yw'r ffordd orau i flaenoriaethu a darparu'r gefnogaeth.

Mae'r adolygiadau yma yn rhoi'r plentyn neu berson ifanc yn y canol, gan edrych ar yr hyn sy'n gweithio ac nad yw'n gweithio, a'r hyn sy'n bwysig iddynt. Bydd yr holl wybodaeth a gesglir yn cael ei ddefnyddio ochr yn ochr efo'r Meini Prawf isod i greu cynllun gweithredu sy'n wirioneddol unigol ac effeithiol ar eu cyfer. Mae'r dull yma o ddeall anghenion disgybl yn berthnasol i bob plentyn/person ifanc nid yn unig y rhai efo ADY.

Er mwyn hwyluso'r gwaith o lenwi'r Cynlluniau Datblygu Unigol mae'r defnydd yn cael ei wneud o systemau casglu data'r Awdurdod trwy SIMS a ONE (Modiwlau SEN ac SEN-D).

Mae pob rhan o'r CDU yn bwysig wrth adolygu cynnydd disgyblion. Er mwyn defnydd dydd i ddydd o'r CDU mae'r rhannau 'Proffil Un Tudalen' a Chynllun Gweithredu yn hanfodol er mwyn sicrhau fod staff yn ymwybodol o anghenion unigol ac ymyraethau disgyblion gyda ADY a Chynhwysiad. Disgwylir eu bod yn ddogfennau electroneg byw sydd yn cael eu haddasu yn ôl yr angen.

Mae sgilio staff yn y defnydd o Ddulliau sydd yn Canolbwyntio ar yr Unigolyn yn rhan o strategaeth hyfforddiant y ddau Awdurdod. Mae system o Hwyluswyr yn bodoli, ac mae adnodd E-ddysgu cyfansawdd ar gael i ysgolion droi ato i gael arweiniad.

Gweler Atodiad 2 i weld enghraifft o Gynllun Datblygu Unigol (CDU)

## 5. Meini Prawf

Mae cael Meini Prawf clir ar gyfer Mynediad a Gadael gwasanaethau o fewn y maes ADY a Chynhwysiad yn hybu cysondeb ar draws ysgolion o ran gofynion a disgwyliadau. Mae Meini Prawf penodol yn bodoli o fewn pob maes angen. Pan fo disgybl yn profi anawsterau sydd yn croesi rhwng meysydd fe fydd angen cyfeirio at y Meini Prawf yn y meysydd hynny, ond gyda phenderfyniad o ran adnabyddiaeth o'r plentyn/person ifanc o ba faes ydy'r prif anhawster ar unrhyw bryd.

**Mae'r Meini Prawf yn adnodd er mwyn:**

- **Ystyried a yw disgybl angen ei gynnwys ar restr ADY a Chynhwysiad yr Ysgol ar Weithredu Ysgol**. Mae Gweithredu Ysgol yn golygu fod ysgol yn cynllunio ac yn diwallu ADY a Chynhwysiad y plentyn/person ifanc trwy ddefnydd o ddarpariaeth ddatganoledig ADY a Chynhwysiad.
- **Ystyried a yw disgybl angen ei symud i Weithredu Ysgol a Mwy**. Mae Gweithredu Ysgol a Mwy yn golygu fod Ysgol yn derbyn mewnbwn ymgynghori neu uniongyrchol gan Wasanaethau ADY a Chynhwysiad i gynllunio a diwallu ADY a Chynhwysiad y plentyn/person ifanc yn ychwanegol i'w darpariaeth ddatganoledig ADY a Chynhwysiad.
- **Ystyried yn y Fforymau Ardal ADY a Chynhwysiad (parhau ar Weithredu Ysgol a Mwy) a yw disgybl neu grŵp o ddisgyblion yn dod o fewn y Meini Prawf ar gyfer mewnbwn penodol gan Wasanaethau ADY a Chynhwysiad.**
- **Ystyried yn y Panel Cymedroli a yw disgybl yn dod o fewn y Meini Prawf ar gyfer darpariaeth o lefel uchel trwy Ddatganiad neu Gynllun Datblygu Unigol gyda Darpariaeth unigol.**

## 6. Mynediad at Wasanaethau

### System Rhybudd Cynnar

Mae ymyrraeth gynnar a graddoledig yn hanfodol i leihau anawsterau disgyblion ymhellach ymlaen yn eu gyrfa ysgol. Oherwydd hyn mae perthynas agos gyda gweithwyr cymunedol ac addysg yn y sector blynyddoedd cynnar angen bod yn gryf. Mae system gyfeirio yn bodoli ble mae gweithwyr cymunedol iechyd (e.e. Pediatrydd, Ymwelydd Iechyd, Therapydd Iaith a Lleferydd) a sefydliadau addysg blynyddoedd cynnar sydd wedi eu cofrestru gyda'r Awdurdodau fel darparwyr addysg (e.e. Cylchoedd Meithrin) yn gallu cyfeirio plant ifanc i Fforwm Blynyddoedd Cynnar. Mae plant yn cael eu cyfeirio yn unol â'r Meini Prawf Blynyddoedd Cynnar, a

chaiff y Cynllun Datblygu Unigol ei ddefnyddio. Gall hyn arwain i drafod y plentyn o fewn maes penodol yn y Fforymau Ardal (e.e. plentyn sydd angen mewnbwn y Tîm Cyfathrebu a Rhyngweithio).

**Fforymau ADY a Chynhwysiad, a Phanel Traws Sirol (Cymedroli)**

Mae gwaith y Timau Arbenigol, ac eithrio agweddau o waith y Seicolegwyr Addysgol a'r Swyddogion Ansawdd ADY a Chynhwysiad, Gwasanaeth Lles a Chwnselwyr, yn cael ei drefnu trwy Fforymau ADY a Chynhwysiad fel man cychwyn. Mae posib i unrhyw ysgol wneud cais am fewnbwn i'r Fforwm yn unol â'r Meini Prawf drwy ddefnyddio Cynllun Datblygu Unigol y plentyn. Mae'r Fforymau Ardal ADYaCh yn cyfarfod bob hanner tymor.

Gyda phlant sydd ag anghenion dwys a chymhleth, mae trafodaeth ynglŷn ag anghenion yn cael ei weithredu trwy Banel Cymedroli Sirol. Mae'r Fforymau a'r Panel yn gweithredu yn unol â Meini Prawf mynediad at a gadael gwasanaeth yr A.Ll. Mae'n rhan allweddol o rôl y Fforymau a'r Paneli i dderbyn gwybodaeth ynglŷn â sut mae ysgolion yn defnyddio'r gwasanaethau arbenigol y maent yn ei dderbyn, ac os ydynt yn rhoi'r argymhellion a gynigir ar waith ar lawr y dosbarth.

# Llwybr Cefnogaeth

Pennaeth/ **Person Cyswllt ADYaCh** yr ysgol yn sicrhau gweithredu strategaethau lefel ysgol i gefnogi'r disgybl

**CAM 1** - os oes **anghenion ychwanegol** yn cael eu hadnabod

- Defnyddio Proffil Un Tudalen a Chynllun Gweithredu
- Penderfyniad gan yr ysgol yn unol â'r Meini Prawf
- Cefnogaeth ychwanegol yn cael ei gynnig gan yr ysgol

**CAM 2** - os yw'r plentyn/person ifanc yn cwrdd â'r meini prawf am **gefnogaeth arbenigol**

- Defnyddio Cynllun Datblygu Unigol a Chynllun Gweithredu
- Cyfeirio i'r **Fforwm Ardal ADYaCh** yn unol â'r Meini Prawf i wneud penderfyniad o ran y gefnogaeth orau.
- Cefnogaeth arbenigol gan yr ysgol a gan y Tîm Canolog Integredig am gyfnod penodedig yn ol yr angen


**Cydlynwyr Clwstwr ADYaCh** yn rhoi cefnogaeth i'r disgybl, y rhieni a chlwstwr o ysgolion

**CAM 3** - os yw'r plentyn/person ifanc efo **anghenion mwy dwys a chymleth**

- Defnyddio Cynllun Datblygu Unigol a Chynllun Gweithredu
- Penderfyniadau o ran y ddarpariaeth orau yn y **Panel Traws Sirol Gwynedd a Môn** yn unol â'r Meini Prawf
- Cefnogaeth arbenigol gan y Tîm Canolog Integredig a Chymorthyddion penodol

**Swyddogion Ansawdd ADYaCh Ardal** yn cynnig cefnogaeth i'r disgybl, y rhieni a'r ysgolion o fewn eu hardal

Mae'r llifsiart sydd yn dilyn yn rhoi crynodeb o'r broses mynediad at wasanaethau Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad Gwynedd ac Ynys Môn.



# Cydlynu Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad

## Disgwyliadau Ysgol Gyfan

Mae Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad yn gyfrifoldeb ymhob agwedd a swyddogaeth o fewn yr ysgol. Mae'r wybodaeth isod yn crynhoi'r swyddogaethau hyn.

### 1. Llywodraethwr Cyswllt ADY a Chynhwysiad

Mae rôl y Llywodraethwr Cyswllt ADY a Chynhwysiad yn werthfawr iawn i roi cefnogaeth i'r Pennaeth a'r staff mewn datblygu awyrgylch ddysgu sydd yn hybu cynnydd plant gyda ADY a Chynhwysiad.

- Sicrhau fod gan yr ysgol fewnbwn gan Gydlynydd Ysgol/Clwstwr â chyfrifoldeb dros gydlynu darpariaeth ar gyfer ADY a Chynhwysiad.
- Cadarnhau bod gan yr ysgol bolisi ADY a Chynhwysiad a'i fod yn cael ei adolygu'n flynyddol.
- Bod yn gyfarwydd gyda pholisi ADY a Chynhwysiad yr ysgol, Cod Ymarfer ADY Cymru a bod yn ymwybodol o fentrau ADY yn genedlaethol ac yn lleol, gan Lywodraeth Cymru, Consortiwm Rhanbarthol a'r Awdurdod Lleol.
- Cyfarfod bob tymor, trwy apwyntiad, gyda'r Cydlynydd Ysgol/Clwstwr ADY a Chynhwysiad i drafod cynnydd ac effeithlonrwydd y polisi ADY a Chynhwysiad (yn unol â pholisi Ymweliadau Llywodraethwyr i Ysgolion).
- Gweithio gyda'r llywodraethwr cyswllt amddiffyn plant (os yn briodol).
- Deall sut y mae'r ysgol yn adnabod disgyblion ag ADY a Chynhwysiad a beth sy'n digwydd unwaith y bydd disgybl wedi'i adnabod;
- Bod yn ymwybodol o'r cynnydd y mae disgyblion unigol gydag ADY yn ei wneud.
- Bod yn ymwybodol o'r gyllideb sydd ar gael i ADY a Chynhwysiad yn yr ysgol a monitro ei ddefnydd effeithiol.
- Adrodd, yn flynyddol o leiaf, i'r corff llywodraethu ar weithrediad ac effeithlonrwydd polisi ADY a Chynhwysiad yr ysgol, heb drafod manylion disgyblion unigol.
- Ysgrifennu, neu helpu i ysgrifennu, gwybodaeth ADY a Chynhwysiad ar gyfer Adroddiad Blynyddol y Llywodraethwyr i Rieni
- Sicrhau bod adran yn llawlyfr yr ysgol ar ddarpariaeth ADY a Chynhwysiad.
- Diweddaru gwybodaeth ADY a Chynhwysiad trwy fynychu cyrsiau hyfforddi perthnasol i lywodraethwyr sy'n cael eu rhedeg gan yr Awdurdod Lleol.

### 2. Pennaeth (Person Cyswllt ADYaCh ym mhob ysgol)

Mae arweinyddiaeth Pennaeth yr ysgol (neu aelod o'r Uwch Dîm Rheoli) yn y maes ADY a Chynhwysiad yn hanfodol i readru meddylfryd, perchnogaeth a chyfathrebu ynglŷn â ADY a Chynhwysiad i weddill staff yr ysgol. I wneud hyn mewn modd effeithiol mae'r Pennaeth yn:

- Sicrhau ethos cynhwysol ar lefel ysgol gyfan.
- Sicrhau fod ethos dulliau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn cael eu rheadru drwy'r ysgol gyfan ar gyfer personoli'r profiad addysgol.
- Sicrhau fod Proffil Un Tudalen yn cael ei greu ar gyfer pob disgybl sydd ar y Gofrestr ADY
- Sicrhau fod systemau'r ysgol yn cyd-fynd â'r gofynion statudol a bod y Cydlynydd Ysgol/Clwstwr ADY a Chynhwysiad yn gweithredu yn unol â'r gofynion yma.
- Sicrhau, ar y cyd efo'r Llywodraethwr Cyswllt ADY a Chynhwysiad a'r Cydlynydd Ysgol/Clwstwr ADYaCh, fod Polisi ADY a Chynhwysiad yr ysgol yn cael ei diweddaru yn flynyddol.
- Sicrhau perchnogaeth a dealltwriaeth o ADY a Chynhwysiad ar draws yr ysgol.
- Sicrhau fod cynnydd disgyblion gyda ADY a Chynhwysiad yn cael ei fonitro a'i fesur.

- Sicrhau fod defnydd o brofion safonedig, yn unol â'r meini prawf, i asesu cyrhaeddiad disgyblion yn rheolaidd. Arfer dda fyddai gwneud hyn ddwywaith y flwyddyn.
- Sicrhau fod yna brosesau sganio clir yn bodoli er mwyn adnabod disgyblion a all fod ag ADY a Chynhwysiad yn fuan, fel bod modd ymyrryd yn gynnar.
- Sicrhau defnydd effeithiol, effeithlon a phriodol o'r cyllid datganoledig ADY a Chynhwysiad er mwyn targedu'r plant sydd angen ymyrraeth.
- Sicrhau fod systemau yn eu lle i'r Athrawon Dosbarth rannu gwybodaeth gyda'r Cydlynydd Ysgol/Clwstwr ADY a Chynhwysiad.
- Sicrhau fod ansawdd y dysgu, y gwahaniaethu a'r asesu ar draws yr ysgol yn uchel.

## 3. Cydlynydd Ysgol/Clwstwr ADY a Chynhwysiad

Mae'r Cydlynydd Ysgol/Clwstwr ADY a Chynhwysiad yn rôl allweddol o fewn yr ysgol, gyda mewnbwn strategol. Maent yn atebol i Gyrff Llywodraethol a Phenaethiaid yr ysgol, ac yn derbyn arweiniad pellach gan y Gwasanaeth Ansawdd Ardal ADY a Chynhwysiad. Mae'r unigolyn yma â chyfrifoldeb cyffredinol ar gyfer pob ysgol unigol o fewn eu clwstwr i:

- Defnyddio prosesau mapio darpariaeth er mwyn sicrhau fod darpariaeth ADY a Chynhwysiad ysgol gyfan yn cynnig y defnydd gorau o adnoddau.
- Sefydlu a gweithredu systemau o sgrinio ac adnabod ADY a Chynhwysiad, fel bod modd ymyrryd yn gynnar.
- Sicrhau fod gofynion addysgu bob disgybl efo ADY a Chynhwysiad yn cael eu cyfarch trwy fonitro gwaith y staff dysgu a'r cymorthyddion yn rheolaidd.
- Hyrwyddo cynhwysiad o fewn lleoliadau addysgol.
- Creu perthynas bositif ac agored gyda rhieni disgyblion ADY.
- Ffynhonnell o arbenigedd (ADY a Chynhwysiad) drwy ddatblygu sgiliau arbenigol a gwybodaeth.
- Hyfforddi staff ysgolion gan gynnwys athrawon a chymorthyddion.
- Cyfrannu i Gynllun Datblygu Ysgol a Hunan Arfarniadau.
- Adrodd ar ansawdd ADY a Chynhwysiad o fewn yr ysgol i'r Llywodraethwyr a'r Pennaeth/ Uwch Dîm Rheoli.
- Ymwybyddiaeth glir o Feini Prawf yr A.Ll. a'r gwasanaethau sydd ar gael i gefnogi'r ysgol.
- Cyfrannu i ddatblygiad gweithdrefnau gan gynnwys cynllunio cyllidol strategol a chasglu a dehongli data.
- Asesiad a'r defnydd o CDU gan ddefnyddio'r dulliau sy'n canolbwyntio ar unigolion.
- Sicrhau'r defnydd priodol o drefniadau'r A.Ll. wrth geisio osgoi anghydfod.
- Gwella eu dysgu proffesiynol eu hunain drwy gysylltu efo'r cydlynwyr eraill er mwyn datblygu a rhannu profiadau ac arfer da.
- Cryfhau trefniadau ar gyfer cyfnodau trosiannol.
- Yn adnabod anghenion y disgyblion ADY a Chynhwysiad yn yr ysgol yn dda gan gydlynu casglu gwybodaeth ar gyfer ffurfio CDU.
- Ymgymryd â rôl arweiniol o ran dosbarthiad cymorthyddion ar lefel clwstwr o ysgolion o ganlyniad i drafodaethau Fforymau ADY.
- Rheolwr llinell i glwstwr o Gymorthyddion Arbenigol ADYaCh penodol o fewn eu clwstwr o ysgolion – er mwyn sicrhau dyraniad cywir o'u hamser, ansawdd y gwasanaeth a chysondeb yn y ddarpariaeth.

## 4. Athrawon Dosbarth/Pwnc

Mae pob athro/awes yn cydnabod fod y cyfrifoldeb am ymateb i ADY a Chynhwysiad yn gyfrifoldeb iddynt hwy. Maent hefyd yn allweddol o ran adnabod ADY a Chynhwysiad o'r newydd. Er mwyn gwneud hyn yn effeithiol mae angen:

- Cymryd rhan allweddol yn nhrefniadau asesu, sgrinio a monitro cynnydd disgyblion gyda ADY a Chynhwysiad.
- Sicrhau fod yr awyrgylch ddysgu yn gynhwysol a chroesawgar.
- Cymryd y cyfrifoldeb am ddatblygiad proffesiynol parhaus gan fachu ar gyfleon i fynychu a defnyddio hyfforddiant sydd yn cael ei gynnig o fewn y maes ADY a Chynhwysiad.
- Cwblhau ac addasu agweddau perthnasol o’r Proffil Un Tudalen o fewn Cynllun Datblygu Unigol y disgybl.
- Gwneud defnydd effeithiol o adnoddau parod ac adnoddau dynol sydd ar gael i gefnogi’r dysgu.
- Cymryd rôl allweddol yng nghynllunio targedau’r disgyblion o fewn y Cynllun Gweithredu (Cynllun Addysg Unigol).
- Dilyn arweiniad ac argymhellion sydd yn cael eu cynnig gan wasanaethau arbenigol yr A.Ll.

## 5. Cymorthyddion ac Anogwyr Dysgu

Mae gwaith cymorthyddion yn cyfoethogi’r ddarpariaeth sydd ar gael ar draws yr ysgol. Mae gan bob cymhorthydd ac anogwr dysgu, ymhob rôl o fewn ysgol, gyfrifoldeb i ddiwallu ADY a Chynhwysiad disgyblion. Er mwyn gwneud hyn yn effeithiol mae angen:

- Dilyn arweiniad yr Athro/awes dosbarth er mwyn diwallu anghenion disgyblion.
- Bod yn ymwybodol o dargedau disgyblion o fewn y dosbarth sydd ag ADY a Chynhwysiad.
- Bod yn ymwybodol o ddatblygiad holistaidd y disgybl, er enghraifft, drwy fod yn ymwybodol o’r Proffil Un Tudalen a chyfrannu pan yn briodol.
- Ystyried anghenion disgyblion wrth gynnal gwaith grŵp neu dasgau ffocws.

## 6. Cyfathrebu â Chartrefi / Partneriaeth Rhieni

Mae gweithio gyda chartrefi a sicrhau cydweithrediad rhieni yn allweddol ar gyfer perthynas lwyddiannus ag unrhyw ddisgybl. Dylai pob ysgol yng Ngwynedd ac Ynys Môn fod yn agored i drafodaeth bob amser ac yn annog rhieni i gysylltu os oes unrhyw beth yn eu pryderu.

Dylai mewnbwn rhieni fod yn rhan annatod o fonitro ac adolygu cynnydd pob disgybl gyda ADY a Chynhwysiad er mwyn sicrhau darlun cyflawn o’r disgybl a meddylfryd sydd yn canolbwyntio ar yr unigolyn. Un ffordd o sicrhau hyn yw drwy gael mewnbwn y rhieni a’r teulu i’r Proffil Un Tudalen, y Cynllun Datblygu Unigol (CDU) ac o fod yn rhan o’r Adolygiad o ofynion ADY a Chynhwysiad y plentyn/person ifanc – boed pa mor ddwys yr anghenion.

# Strategaeth Hyfforddiant

Mae'n rhaid sicrhau fod gweithlu'r Tîm Integredig yn cynnwys arbenigeddau penodol fesul maes a bod yr arbenigedd yma'n cael ei ddiweddaru'n rheolaidd gan sicrhau fod yr ymyraethau cywir ar sail tystiolaeth yn cael eu hymarfer. Mae pob tîm arbenigol yn cynllunio Rhaglen Hyfforddiant cynhwysfawr ar gyfer y gweithlu a'r rhieni o dan arweiniad yr Uwch Seicolegwyr Addysg penodol.

Mae trosglwyddiad gwybodaeth a sgiliau yn allweddol ar gyfer datblygu gweithlu sydd yn hyderus ac yn hyddysg mewn targedu ADY a Chynhwysiad. Mae'r strwythur a rhaglen hyfforddiant yn cael ei gydlynu gan y Gwasanaeth Seicoleg Addysgol o dan arweiniad y Prif Seicolegydd Addysg. Mae'r Uwch Reolwr ADY ac Uwch Reolwr Cynhwysiad yn derbyn adroddiad tymhorol a blynyddol ynglŷn â threfniadau, defnydd a llwyddiant yr hyfforddiant sydd yn cael ei gynnig gan y Prif Seicolegydd Addysgol.

## 1. Nod

Nod Strategaeth Hyfforddiant ADY a Chynhwysiad Gwynedd ac Ynys Môn yw:

- Sicrhau ethos cynhwysol a hyderus mewn ymateb i ADY a Chynhwysiad.
- Trosglwyddo a datblygu sgiliau'r gweithlu cyfan yn barhaus.
- Creu isadeiledd cryf i gefnogi gwaith y gweithlu arbenigol.

## 2. Amcanion

Er mwyn cyrraedd at y nod hwn yr ydym yn gosod yr amcanion canlynol;

- Pob aelod o staff ysgolion Gwynedd ac Ynys Môn i dderbyn hyfforddiant ar draws y meysydd ADY a Chynhwysiad o fewn cylch 5 mlynedd.
- Creu cymunedau proffesiynol sydd yn golygu fod sgiliau yn trosglwyddo ac arfer dda yn cael ei ddathlu.

## 3. Mesuryddion


- Cynnydd yn y canran o'r gweithlu sydd wedi derbyn hyfforddiant ymhob maes.
- Gwelliant mewn dealltwriaeth ysgol gyfan o gyflyrau ac ymyraethau
- Adnabyddiaeth gynt o gyflyrau
- Tystiolaeth o ddefnydd yr hyfforddiant ar lawr y dosbarth.
- Arfarniadau o Hyfforddiant mewn Swydd sydd yn cael ei gynnig yn dangos fod y gweithlu yn gweld gwerth ac ansawdd yn yr hyfforddiant.
- Gostyngiad mewn cyfeiriadau i'r Fforymau ADY

## 4. Darpariaeth

Mae hyfforddiant yn cyfeirio at ddatblygu sgiliau a throsglwyddo'r sgiliau o un person i'r llall. Gall hyn ddigwydd mewn amryw o ddulliau ac ar lefelau gwahanol. Mesur llwyddiant hyfforddiant yw defnydd yr wybodaeth newydd i ddatblygu ymarfer y dyfodol. Ystyrir pwysigrwydd hyfforddiant parhaus ar gyfer gweithwyr y gwasanaethau canolog, gweithwyr mewn ysgolion a rhieni. Mae'n rhaid i hyfforddiant fod yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn addas i bwrpas.

## 5. Llyfrgell Adnoddau

Mae gwefan gynhwysfawr o adnoddau ac arweiniad ar gael drwy rwydwaith a fydd yn sicrhau mynediad rhwydd i staff at adnoddau parod i gefnogi'r gwaith o gynnal anghenion arbenigol o fewn ysgolion. Mae'r wefan yn ffynhonnell o adnoddau ac arweiniad i ysgolion.




Mae hyfforddiant yn digwydd yn barhaus mewn cyfuniad o hyfforddiant ffurfiol a gwaith dydd i ddydd. Mae gan bob gweithiwr yn y gwasanaeth ADY canolog rôl yn natblygiad a chyflwyniad hyfforddiant o fewn y rhaglen hyfforddiant.

| Math o Hyfforddiant: | Darparwyr: |
|---|---|
| **Hyfforddiant Mewn Swydd Cyffredinol**<br>• ***Bwydlen o hyfforddiant mandadol sirol dros 5 mlynedd ar gyfer holl weithlu'r ysgol*** | • Seicolegwyr Addysgol<br>• Athrawon Arbenigol<br>• Swyddogion Ansawdd ADY a Ch<br>• Asiantaethau allanol neu ddarparwyr preifat ar gomisiwn |
| **Hyfforddiant Mewn Swydd wedi ei dargedu**<br>• ***Hyfforddiant Penaethiaid/ Person Cyswllt ADYaCh pob ysgol***<br>• ***Fforymau Cydlynwyr ADY a Ch ar lefel sirol a dalgylch***<br>• ***Hyffoddiant i grwpiau penodol o athrawon neu ysgolion*** | • Seicolegwyr Addysgol<br>• Swyddogion Ansawdd ADY a Ch<br>• Athrawon Arbenigol<br>• Asiantaethau allanol neu ddarparwyr preifat ar gomisiwn |
| **Hyfforddiant ar lefel grŵp neu ddisgybl unigol**<br>• ***Hyfforddiant ar gais Fforwm neu Banel Ymgynghori a Modelu Strategaethau***<br>• ***Rhannu strategaethau gyda rhieni*** | • Seicolegwyr Addysgol<br>• Athrawon Arbenigol a Swyddogion<br>• Asiantaethau allanol neu ddarparwyr preifat ar gomisiwn |

DRAFT

# Datrys Anghydfod a Chwynion

## 1. Datrys Anghydfod yn Ffurfiol

Datrys Anghydfod yw'r broses ffurfiol lle mae'r Awdurdod Lleol (A.Ll.) a/neu ysgolion a rhieni'n cwrdd i geisio dod o hyd i ateb i wahaniaeth barn yn ymwneud ag Anghenion Addysgol Arbennig.

Mae Llywodraeth Cymru yn gofyn bod Awdurdodau Lleol yn darparu gwasanaeth datrys anghydfod annibynnol. SNAP Cymru sydd yn gweithio gyda rhieni Gwynedd ac Ynys Môn i ddatrys anghydfodau.

## 2. Continwwm Cymodi

Mae Gwasanaethau Partneriaethau Rhieni SNAP Cymru (GPRh) yn anelu at hyrwyddo partneriaeth rhwng plant, pobl ifanc, teuluoedd a phobl broffesiynol, a'u helpu i geisio cytundeb am ddarpariaeth cefnogaeth i blant a phobl ifanc. Trwy annog sgwrs agored a negodi, gellir osgoi gwrthdaro.

Caiff gwasanaethau cymodi eu cyflwyno drwy brosiectau lleol sy'n gweithio er mwyn sicrhau partneriaeth o ran cynllunio a gwneud penderfyniadau mor gynnar â phosib. Drwy SNAP cefnogir ysgolion ac asiantaethau i feithrin perthynas bositif â theuluoedd.

Fodd bynnag, weithiau ni fydd datrys anghydfod yn anffurfiol yn arwain at gytundeb. Os yw hyn yn digwydd, gellir trefnu mynediad i wasanaeth datrys anghydfod ffurfiol SNAP Cymru.

Mae'r gwasanaeth datrys anghydfod yn annibynnol i'r Gwasanaeth Partneriaethau Rhieni ac mae'n galw ar sgiliau arbennig carfan o hwyluswyr wedi'u hyfforddi sy'n meddu ar wybodaeth arbenigol o anghenion dysgu ychwanegol (ADY), gan gynnwys Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) ac anableddau.

Gall awdurdodau lleol, ysgolion ac asiantaethau eraill gomisiynu gwasanaeth datrys anghydfod SNAP Cymru pan fo gofyn.

## 3. Pryd mae datrys anghydfod yn ffurfiol yn briodol?

- Pan gyflwynir apêl gerbron Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru (SENTW), Tribiwnlys Anghenion Arbennig ac Anableddau (SENDIST), neu
- Pan geir anghytundeb a allai arwain at apêl, neu
- Pan geir anghytundeb rhwng rhieni, yr A.Ll. neu ysgolion, ac mae'r ddwy ochr yn cytuno i geisio dod o hyd i ateb.

## 4. Sut mae cael mynediad at y gwasanaeth?

- Bydd yr A.Ll. a SNAP Cymru yn cynnig y gwasanaeth. Gall rhieni ac ysgolion gysylltu â'u Hawdurdod Lleol, yr ysgol neu SNAP Cymru i ofyn am ddatrys anghydfod. Gall rhieni a'r A.Ll. wneud cais i gael mynediad i'r gwasanaeth. Fodd bynnag, mae angen i bob ochr gytuno i gyfranogi'n llawn mewn ymgais i ddod i gytundeb. Bydd yr A.Ll. yn cysylltu â SNAP Cymru gyda chytundeb rhieni.
- Gall rhieni gysylltu â SNAP Cymru am ragor o wybodaeth a chyngor.
- Bydd SNAP Cymru yn sefydlu'r broses o ddatrys anghydfod mor gyflym â phosib, fel arfer drwy drefnu trafodaethau a chyfarfodydd mor fuan â phosib a heb oedi fel na chaiff gweithredoedd pellach eu peryglu.
- Bydd datrys anghydfod yn ceisio dod o hyd i ateb heb fod angen tribiwnlys.

DRAFT

- Pe na bai'r cyfarfod yn llwyddo i ddod o hyd i gytundeb ar yr holl faterion sy'n cael eu trafod ac os yw apêl yn parhau, bydd modd i rieni a'r A.Ll. ddangos eu bod wedi ceisio datrys y materion ac adrodd wrth SENTW (os ydynt yn gysylltiedig) am unrhyw feysydd y cytunwyd arnynt.

## 5. Sut mae'n gweithio?

- Bydd SNAP Cymru yn darparu mynediad i hwylusydd profiadol sydd wedi'i hyfforddi, sy'n trefnu ac yn cadeirio trafodaethau a chyfarfodydd datrys anghydfod yn ffurfiol.
- Bydd yr hwylusydd yn casglu cymaint o wybodaeth â phosib am yr anghydfod cyn trefnu cyfarfod datrys anghytundebau ffurfiol.
- Yn ystod cyfarfodydd, ac yntau'n ddiduedd, bydd yr hwylusydd yn cynnal cydbwysedd grym rhwng yr awdurdod a rhieni drwy esbonio prosesau, gan roi'r cyfle cyntaf i rieni siarad a gofyn am eglurhad ynghylch materion gan ddefnyddio iaith heb jargon.
- Mae'r cyfle i'r ddwy ochr siarad a lleisio eu barn yn hollbwysig. Yma bydd yr hwylusydd yn nodi meysydd y cytunwyd arnynt ac yn gweithio gyda'r ddwy ochr i adeiladu ar dir cyffredin a magu dealltwriaeth gyffredin, gan nodi opsiynau posib ar gyfer cytundeb.
- Yn ystod y cyfarfod, bydd yr hwylusydd yn crynhoi prif faterion yr anghydfod o safbwynt pob ochr.
- Bydd yr hwylusydd yn gyfrifol am lunio nodiadau yn y cyfarfod a llunio drafft o unrhyw gytundeb a geir. Maent yn gyfrifol am gofnodi canlyniad y cyfarfod datrys anghydfod yn ysgrifenedig.
- Mae'n bwysig bod y ddwy ochr yn cyfrannu at y broses o lunio a geirio'r cytundeb er mwyn ei berchenogi. Bydd yr hwylusydd yn ysgrifennu'r cytundeb gwirfoddol ac yn esbonio'i statws gwirfoddol. Ni ddylai unrhyw un deimlo'r pwysau i ddod i gytundeb a phe bai angen, gellir trefnu rhagor o gyfarfodydd.
- Rhoddir copi o'r ddogfen ysgrifenedig i'r ddwy ochr ei llofnodi.

## 6. Pa ddeilliannau ddylen ni eu disgwyl?

- Cytundeb gwirfoddol wedi'i negodi sy'n bodloni'r ddwy ochr lle nad oes angen rhagor o weithgarwch.
- Y ddwy ochr yn teimlo bod yr holl opsiynau wedi eu harchwilio i'r eithaf.
- Na ohiriwyd ac na newidiwyd unrhyw weithgarwch pellach heb fod cyfiawnhad am wneud hynny.
- Cafwyd gwell dealltwriaeth rhwng pob ochr

DRAFT

# Data a Systemau Electroneg

Mae’n greiddiol ein bod yn gallu symleiddio’r dulliau o ddal gwybodaeth yn electroneg a thrwy hyn leihau dyblygu gwaith. Mae’r drefn yn rhoi mynediad at yr holl wybodaeth am ADY a Chynhwysiad disgybl oddi fewn i un ffeil electroneg.


Mae'n greiddiol er mwyn monitro fod disgyblion yn cael eu hasesu’n gyson yn erbyn targedau cydnabyddedig; ac o amlygu os yw perfformiad addysgol y plentyn/person ifanc yn llithro yn erbyn y targedau. Mae’n angenrheidiol ar gyfer hyrwyddo’r defnydd o CDU a’r defnydd o ddulliau sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn oddi fewn i ysgolion. Rhaid osgoi rhwystrau gweinyddol a gweithdrefnau llafurus i’w dilyn.

Er mwyn hwyluso’r gwaith o lenwi’r CDU mae defnydd yn cael ei wneud o systemau casglu data'r Awdurdod trwy SIMS a ONE (Modiwla SEN ac SEN-D). Mae hyn yn galluogi:

- Cyfraniad ysgol, rhieni, y disgybl ac asiantaethau/ gwasanaethau eraill mewn modd hwylus a threfnus
- Posibilrwydd casglu gwybodaeth a phrosesu data yn ôl anghenion ysgolion ac ar lefel awdurdod wrth adrodd ar gynnydd plant.
- Dadansoddi ymyraethau effeithiol a thueddiadau ADY a Chynhwysiad lleol.
- Sicrhau bod data yn cael ei gasglu a’i gadw mewn modd diogel.

Mae hefyd yn greiddiol ar gyfer adolygu a monitro’r gwasanaeth yn ei gyfanrwydd ac er mwyn cynllunio ar gyfer y dyfodol.

DRAFT




| | |
|---|---|
| Haen 1 | Pennaeth Addysg yn atebol am y Gwasanaeth ADYaCh |
| Haen 2 | Uwch Reolwr ADY ac Uwch Reolwr Cynhwysiad yn rheolwyr llinell i'r Timau Gwasanaethau Arbenigol (ansawdd/ gwerth am arian a monitro'r gwasanaeth) |
| Haen 3 | Pennaeth Ymddygiad yn rheolwr llinell i'r Tîm Ymddygiad a'r Prif Seicolegydd yn rheolwr Llinell i'r Tîm Seicolegwyr<br>Swyddog Addysg Ardal (Gwynedd) ac Uwch Reolwr Addysg (Môn) yn rheolwyr llinell ar y Swyddogion Ansawdd ADYaCh (atebolrwydd am rôl yr ysgolion) |
| Haen 4 | Cydlynwyr ADYaCh yn cael eu penodi gan ysgolion unigol neu ar draws clwstwr o ysgolion (Swyddogion Ansawdd ADYaCh yn eu cefnogi a rhoi arweiniad) |

Tudalen 287

# Strwythur Staffio:

Mae'r Gwasanaeth arbenigol wedi cael ei rannu'n ddwy adran sef:

- Y Gwasanaethau Anghenion Dysgu Ychwanegol
- Y Gwasanaethau Cynhwysiad




DRAFT

Mae'r Uwch Dîm Rheoli yn gweithredu ar draws y ddau awdurdod ac yn cynnwys **Uwch Reolwr Cynhwysiad** ac **Uwch Reolwr Anghenion Dysgu Ychwanegol** sydd yn gyfrifol am arwain y datblygiadau arfaethedig cenedlaethol (Deddfwriaeth ADY) yn ogystal â gweithredu'n llawn ddeilliannau'r Adolygiad Strategol ADY a Chynhwysiad Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn.

Maent yn gyfrifol am:

- Reoli a gweithredu gweledigaeth strategol yn y maes Cynhwysiad ac Anghenion Dysgu Ychwanegol yn ei gyfanrwydd.
- Rheoli'r gyllideb Cynhwysiad/Anghenion Dysgu Ychwanegol.
- Herio ysgolion yn y ddau faes gan sicrhau cysondeb a'r safon uchelaf o ymarfer gan yr ysgolion a gwasanaethau canolog.
- Ymweld yn rheolaidd ag ysgolion fel rhan o drefn ragweithiol gan adrodd ar gryfderau a meysydd sydd angen sylw.

Mae'r **Pennaeth Gwasanaeth Cynnal Ymddygiad** yn atebol am redeg dydd i ddydd ac ansawdd y ddarpariaeth Cynnal Ymddygiad, o'r blynyddoedd cynnar hyd at ddiwedd Cyfnod Allweddol 4.

- Sicrhau fod yr ymateb yn brydlon, grymus, cyson ac yn cyfarfod gofynion statudol ar draws yr ystod.
- Rheoli patrwm gwaith pedwar tîm cynradd, amserlen disgyblion Pecyn 25 a chydweithio â thair ysgol uwchradd i sicrhau darpariaeth bwrpasol yn CA3.

Mae'r **Prif Seicolegydd Addysgol** yn atebol am oruchwyliaeth broffesiynol y tîm o Seicolegwyr a rhoi arweiniad strategol yn y maes. Y Prif Seicolegydd fydd yn gweithredu fel Seicolegydd ar gyfer Ysgolion Arbennig ac ar gyfer Lleoliadau All Sirol.

Mae'r **Swyddogion Ansawdd ADYaCh Ardal** yn gyfrifol am sicrhau fod ysgolion yn ymateb i'r newid yn y Ddeddfwriaeth ADY drwy gefnogi a rheoli'r newid.

- Sicrhau monitro ansawdd ADY o fewn ysgol ac adrodd i'r Swyddogion Addysg/Uwch Reolwyr pan yn briodol
- Cysoni a chefnogi gwaith y Cydlynwyr ADY o ran y defnydd o adnoddau ADY ar lefel ysgol gyfan.
- Cefnogi'r disgyblion efo'r anghenion mwyaf dwys oddi fewn i'r brif ffrwd.

# Gwasanaeth Seicoleg Addysgol

## 1. Nod

Mae'r Gwasanaeth Seicoleg Addysgol yn cyd-weithio ag ysgolion Gwynedd ac Ynys Môn i hwyluso ymateb addas a rhesymol pobl ifanc sydd yn profi anawsterau dysgu ychwanegol, yn rhan o Dîm Integredig ADY, lle bo'r anghenion yma yn effeithio ar fynediad yr unigolion i'r cwricwlwm. Maent yn gwneud hyn er mwyn:

- Sicrhau'r deilliannau addysgol gorau posibl ar gyfer unigolion rhwng 0 a 25 oed.
- Darparu Gwasanaeth sydd o safon uchel ac yn cyd-fynd gyda safonau Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal (HCPC).
- Gweithio mewn modd strategol effeithiol i hybu datblygiad ysgol gyfan yn y modd y mae ADY a Chynhwysiad yn cael ei dargedu.

## 2. Amcanion

Amcan y gwasanaeth yw defnyddio Seicoleg i:

- Arwain yn strategol a chynghori ar faterion yn ymwneud ag ADY a Chynhwysiad ar lefel Awdurdod ac Ysgol Gyfan i gryfhau ac uwch-sgilio ysgolion a rhieni mewn ymateb i ADY.
- Hybu sgiliau datblygiadol, addysgol, ymddygiadol ac emosiynol unigolion rhwng 0-25 mlwydd oed gyda lles yr unigolyn mewn ystyriaeth.
- Ymgynghori gyda chleientiaid (plant/pobl ifanc, staff ysgolion, rhieni ac asiantaethau eraill) a chynnig ystod eang o arbenigeddau ac ymyraethau wedi ei gwreiddio'n ddwfn mewn Seicoleg.
- Gwaith prosiect ac ymchwil seicolegol ar gyfer hyrwyddo arferion da a'r deilliannau gorau yn seiliedig ar dystiolaeth gyfredol ym maes ymchwil seicoleg (a seicoleg addysgol).
- Darparu hyfforddiant ar gyfer staff ar bynciau sydd yn berthnasol iddyn nhw ac yn unol â datblygiadau cyfredol yn y maes seicoleg ac ADY a Chynhwysiad.

## 3. Mesuryddion

Mae'r Gwasanaeth Seicoleg Addysgol yn mesur llwyddiant ac ansawdd y ddarpariaeth drwy nifer o ddangosyddion. Nodir isod ein prif ddangosyddion:

- Arolwg blynyddol o ganfyddiad ysgolion yn defnyddio Holiadur.
- Arolwg o ganfyddiad pobl ifanc drwy gyfweliad neu holiadur.
- Data ynglŷn â chynnydd disgyblion sydd yn agored i'r gwasanaeth yn ôl dangosyddion y meysydd penodol, er enghraifft cynnydd yn ôl mesurau cyrhaeddiad, targedau a mesurau safonedig ac asesiadau maen prawf cyfeiriol.
- Canlyniad prosiectau ymchwiliol.
- Arolwg o ganfyddiad o ansawdd hyfforddiant a gynigir gan y tîm a sut mae'r hyfforddiant wedi cael ei ddefnyddio.

## 4. Mynediad at y Gwasanaeth Seicoleg Addysgol

Mae mynediad at wasanaethau'r Gwasanaeth Seicoleg Addysg yn bosibl ar draws y gwasanaeth integredig yn ddibynnol ar angen a maes y gwasanaeth.

- Mae gan bob ysgol Seicolegydd Addysgol Cyswllt, sydd yn gweithredu ar lefel dalgylch ysgol uwchradd ar gyfer gwneud y gwaith a ddisgrifir ar lefel dalgylch, ysgol gyfan neu ddisgyblion unigol ar Weithredu Ysgol a mwy. Bydd y gwaith yma yn cael ei gynllunio yn ofalus ar ddechrau tymor ysgol ar lefel dalgylchol er mwyn sicrhau fod y mewnbwn yn cael ei ddefnyddio yn ôl yr angen ac yn unol â'r Meini Prawf.
- Mae gan bob Gwasanaeth fynediad at wasanaeth Uwch Seicolegydd Addysgol a Seicolegydd Addysgol arall sydd yn arbenigo yn y maes hwnnw. Bydd y gwaith yma yn cael ei gynllunio trwy waith y Fforymau Ardal ADYaCh a'r Panel Traws Sirol.

## 5. Darpariaeth

Mae'r ddarpariaeth gyflwyni'r drwy'r Gwasanaeth Seicoleg Addysgol wedi ei rannu i ddau brif gydran.

## Gweithredu Ysgol

**Mae'r Gwasanaeth Seicoleg Addysgol yn cynnig gwasanaeth i hybu cynhwysiad disgyblion gyda ADY drwy:**

- Gyd-weithio ar lefel strategol gyda'r Uwch Reolwyr ADY a Chynhwysiad.
- Gefnogi gwaith yr ysgolion drwy gydlynu rhaglen hyfforddiant cytunedig i bob athro/awes a chymhorthydd dosbarth. Mae'r rhaglen hyfforddiant hon yn gyson ar draws yr ysgolion gyda ffocws clir ar ddilyniant cynradd uwchradd.
- Gynorthwyo ysgolion a'r Cydlynwyr ADYaCh i fapio eu darpariaeth ar draws yr ysgol ac adnabod meysydd sydd angen sylw/datblygu o fewn eu darpariaeth ddatganoledig.
- Gyd-weithio ar lefel strategol glinigol gydag asiantaethau eraill megis CAMHS, Therapi Iaith a Lleferydd, Nyrsys Arbenigol, Gwasanaethau Seicoleg Addysg mewn ardaloedd/siroedd eraill o fewn meysydd penodol.
- Rheoli unrhyw geisiadau am hyfforddiant sydd y tu hwnt i'r rhaglen sirol drwy Fforymau meysydd penodol.
- Ymchwilio a threialu rhaglenni hyfforddiant i athrawon, cymorthyddion a rhieni.
- Gynnal prosiectau ymchwiliol i adeiladu at wybodaeth ynglŷn â darpariaethau effeithiol.
- Baratoi strategaeth a rhaglen hyfforddiant blynyddol ar draws yr ystod anghenion.

## Gweithredu Ysgol a Mwy a thu hwnt

**Mae'r Seicolegwyr Addysgol yn darparu gwasanaeth generig ar lefel dalgylchoedd o ysgolion ar gyfer:**

- Arwain yn strategol gwaith Timau Integredig mewn maes/meysydd arbenigol.
- Ymgynghori gyda rhieni a staff allweddol o fewn ysgolion a darpariaethau blynyddoedd cynnar ynglŷn â disgyblion unigol neu grwpiau.
- Cynnal ymyraethau therapiwtig neu ymyrraeth wedi ei dargedu gyda disgyblion unigol neu grwpiau yn defnyddio Seicoleg.
- Arsylwi ac asesu unigolion/grwpiau pan fo hyn yn addas er mwyn cyfrannu at ddarganfod dulliau mwy effeithiol o addysgu.
- Cyflawni dyletswyddau Statudol yn ôl yr angen (e.e. Asesu Statudol, Adolygiadau Blynyddol).
- Hybu defnydd dulliau effeithiol o fonitro cynnydd.
- Cyd-weithio agos gydag aelodau eraill o'r Timau integredig er mwyn cynllunio ymyraethau yn effeithiol.

Bydd y gwaith generig yn cael ei bennu trwy gynllunio yn ofalus ar lefel dalgylchol ar ddechrau tymor. Bydd y math o waith sydd yn cael ei wneud gan y Gwasanaeth Seicoleg Addysgol yn cyd-fynd â Meini Prawf yr Awdurdod. Bydd y swyddogaethau arbenigol o fewn y tîm yn cael eu rhannu yn ôl anghenion sydd yn bodoli yn yr un modd a'r Tîm Integredig.

Mae'r tabl isod yn rhoi crynodeb o'r math o waith fydd yn addas ar gyfer pob cam.

| CAM | RÔL |
|---|---|
| **CAM 1**<br>(Gweithredu Ysgol) | • Gwaith Seicolegydd Addysgol yn ôl dalgylch/ ardal benodol yn ôl y disgrifiadau uchod.<br>• Hyfforddiant ar lefel ysgol, rhanbarthol a sirol ar bynciau sydd yn ymwneud ag ymyraethau, dulliau monitro ac asesu cynnydd, dulliau mapio darpariaeth ysgol gyfan a chynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.<br>• Cyd-weithio agos gyda Swyddogion Ansawdd ADY a Chydlynwyr ADYaCh o fewn ysgolion. |
| **CAM 2**<br>(Gweithredu Ysgol a Mwy) | • Gwaith Seicolegydd Addysgol yn ôl dalgylch/ ardal benodol yn ôl y disgrifadau uchod.<br>• Ymgynghori gyda rhieni a staff allweddol o fewn yr ysgol ar lefel unigolyn neu grŵp i hybu newid a datblygiad<br>• Ymyrraeth therapiwtig ar lefel grŵp neu unigolyn<br>• Cyd-weithio agos gyda Chydlynydd ADYaCh Ysgol/Clwstwr o fewn ysgolion a gyda'r Swyddogion Ansawdd ADY.<br>• Trafod achosion mewn Fforymau Ardal/ Paneli Sirol ADYaCh<br>• Cyd-weithio agos gyda rhieni ac asiantaethau eraill sydd yn ymwneud gydag achosion. |
| **CAM 3 a 4**<br><br>Fforwm Ardal/ Mewnbwn Tîm Integredig (GY+/Datganiad) Panel Traws Sirol | • Mewnbwn Uwch Seicolegydd Addysg Ddynodedig ar gyfer y Gwasanaeth Integredig ymhob maes gan gynnwys Cynllunio strategol, hyfforddiant, ymgynghori o fewn y maes.<br>• Mewnbwn Seicolegol a Strategol o fewn y Fforymau Ardal.<br>• Cydweithio agos gyda'r Swyddogion Ansawdd ADY.<br>• Gwaith Seicolegydd Addysgol yn ôl dalgylch/ ardal benodol sydd yn cynnwys dyletswyddau Statudol o fewn y dalgylch/ardal yma.<br>• Ymgynghori a chyd-weithio agos gydag aelodau o'r un maes o fewn y gwasanaeth integredig, ysgolion ac asiantaethau eraill i sicrhau ymyrraeth o ansawdd uchel ac ymwybyddiaeth Seicolegol. |

## 6. Strwythur Staffio

### Prif Seicolegydd Addysgol

- Cyd-weithio ar lefel strategol gyda'r Uwch Reolwr ADY a'r Uwch Reolwr Cynhwysiad a Phenaethiaid yr Ysgolion Arbennig.
- Cynnal, rheoli a sicrhau ansawdd y Tîm Seicolegwyr Addysgol er mwyn sicrhau fod y gwasanaeth yn gweithio yn ôl safonau HCPC.
- Goruchwyliaeth broffesiynol o'r Seicolegwyr.
- Mynychu'r Panel Traws Sirol yn rheolaidd er mwyn rhoi mewnbwn Seicolegol i'r drafodaeth sydd yn cymryd lle.
- Mynychu'r Fforymau Ardal/Rhanbarthol yn ôl yr angen.
- Sicrhau fod data ynglŷn â gwaith y Tîm yn cael ei gofnodi yn ôl mesuryddion yr Awdurdodau ac ar gyfer monitro gwaith y Tîm.
- Cymryd rôl arweiniol o fewn y Tîm mewn maes/meysydd penodol.

### Uwch Seicolegwyr Addysgol

- Cymryd rôl arweiniol a strategol o fewn y Tîm mewn meysydd penodol. Bydd yr Uwch Seicolegwyr Addysgol yn gyfrifol am fwy nag un maes.
- Yn y meysydd penodol hyn mae'r Uwch Seicolegwyr Addysgol yn darparu arweiniad ysgol gyfan ac awdurdod, arweiniad i aelodau'r timau integredig yn y maes, yn ogystal a chyd-weithio gyda Seicolegwyr Addysgol o fewn y Tim i ddatblygu yr arbenigedd a sicrhau cysondeb.
- Ymchwilio a threialu rhaglenni hyfforddiant i athrawon, cymorthyddion a rhieni.
- Arwain ar brosiectau ymchwiliol i adeiladu at wybodaeth ynglŷn â darpariaethau effeithiol.
- Cynorthwyo'r Prif Seicolegwyr gyda'r broses o sicrhau fod ansawdd a datblygiad y gwasanaeth o fewn safonau'r HCPC a chyfeiriad strategol y Gwasanaeth Seicoleg Addysgol a'r Awdurdod.
- Cynorthwyo gydag anwytho a goruchwylio staff newydd ac o dan hyfforddiant.
- Cynorthwyo gyda gwaith y Prif Seicolegydd Addysgol pan fo angen gyda'r Paneli sirol ac ardal.
- Ymgymryd â gwaith Seicolegydd Addysg (gweler isod) am ran o'r amser.

### Seicolegwyr Addysgol

- Cynorthwyo'r Prif Seicolegydd/Uwch Seicolegydd mewn meysydd arbenigol o fewn y tîm integredig (gweler dogfennau'r meysydd amrywiol) mewn rôl strategol ac arweiniol.
- Cynorthwyo ysgolion i fapio eu darpariaeth yn y maes ar draws yr ysgol ac adnabod meysydd sydd angen sylw/datblygu.
- Cynnal prosiectau ymchwiliol i adeiladu at wybodaeth ynglŷn â darpariaethau effeithiol.
- Darparu hyfforddiant ar lefel Awdurdod, Dalgylch neu Ysgol yn ôl yr angen sydd wedi ei adnabod gan y Prif Seicolegydd Addysgol (neu yn ôl Fforwm Ardal ADYaCh).
- Ymgynghori gyda rhieni a staff allweddol o fewn ysgolion ynglŷn â disgyblion unigol neu grwpiau.
- Cynnal ymyraethau therapiwtig neu ymyrraeth wedi ei dargedu gyda disgyblion unigol neu grwpiau yn defnyddio Seicoleg.
- Arsylwi ac asesu unigolion/grwpiau pan fo hyn yn addas er mwyn cyfrannu at ddarganfod dulliau mwy effeithiol o addysgu.
- Sicrhau fod cofnod o'r gwaith sydd yn cael ei wneud o fewn system data'r gwasanaeth.
- Hybu defnydd dulliau effeithiol o fonitro cynnydd.
- Cyd-weithio agos gydag aelodau eraill o'r Tîm integredig er mwyn cynllunio ymyraethau yn effeithiol.
- Sicrhau ansawdd (ar y cyd efo'r Swyddogion Ansawdd ADYaCh) yr adolygiadau, a'r defnydd o ddulliau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn


DRAFT

## 7. Hyfforddiant

Rhan allweddol bwysig o swyddogaeth y Gwasanaeth Seicoleg Addysgol yw cefnogi gwaith yr ysgolion drwy gynllunio a chyflwyno rhaglen hyfforddiant cytunedig i bob athro/awes a chymhorthydd dosbarth. Mae'r rhaglen hyfforddiant hon yn gyson ar draws yr ysgolion gyda ffocws clir ar ddilyniant blynyddoedd cynnar/ cyfnod sylfaen a cynradd/ uwchradd.

Mae'r rhaglen hyfforddiant yn cael ei adolygu bob 5 mlynedd a dim ond ymyraethau sydd â thystiolaeth o fod yn effeithiol sydd yn cael ei chymeradwyo. Mae adnoddau parod gan y Gwasanaeth yn cael ei rannu drwy'r Llyfrgell Adnoddau.

## 8. Llifsiart Strwythur Staffio




DRAFT

## 9. Gwasanaeth Aml Asiantaeth

### Asiantaethau Eraill

Mae'r Gwasanaeth yn cyd-weithio ar lefel achos ac ar lefel strategol glinigol gydag asiantaethau eraill megis CAMHS, Therapi Iaith a Lleferydd, Gwasanaethau Seicoleg Addysg mewn ardaloedd/siroedd eraill.

### Prifysgolion

Mae'r Gwasanaeth yn cynnal perthynas agos gyda Phrifysgolion sydd â chwrs Hyfforddi Proffesiynol ar gyfer Seicolegwyr Addysg (DipEdPsy), er enghraifft, Prifysgol Caerdydd, Prifysgol Birmingham a Phrifysgol Manceinion. Cynhelir perthynas agos hefyd gydag adran Seicoleg Prifysgol Bangor ar gyfer rhannu arferion da a chyfleoedd ar gyfer cyd-ymchwilio.

# Gwasanaeth Ansawdd Anghenion Dysgu Ychwanegol

## 1. Nod

Mae'r Gwasanaeth Ansawdd ADY a Chynhwysiad yn gefnogaeth i ysgolion prif lif ac arbennig er mwyn:

- Sicrhau fod ysgolion, a Chydlynwyr Clwstwr ADY a Chynhwysiad yn cyd-fynd â gofynion y Cod Ymarfer ADY/Cod Ymarfer newydd ADY a Chynhwysiad.
- Datblygu a monitro ansawdd a chysondeb yn y modd y mae ADY a Chynhwysiad yn cael ei dargedu ar draws Gwynedd a Môn.

## 2. Amcanion

Er mwyn cyrraedd at y nod hwn yr ydym fel gwasanaeth yn gosod yr amcanion canlynol;

- Sicrhau fod ethos ysgolion Gwynedd ac Ynys Môn yn cymryd perchnogaeth o'r plant a'r bobl ifanc yma sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.
- Pob athro/awes ymhob ysgol yng Ngwynedd ac Ynys Môn i dderbyn hyfforddiant priodol, fydd yn arwain at athrawon sydd yn hyderus i weithio â phobl ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.
- Sicrhau cysondeb yn y modd y mae Cydlynwyr Clwstwr ADY a Chynhwysiad yn gweithredu.

## 3. Mesuryddion


Mae'r Gwasanaeth Ansawdd ADY a Chynhwysiad yn mesur llwyddiant y ddarpariaeth drwy nifer o ddangosyddion. Nodir isod ein prif ddangosyddion;

- Data ynglŷn â chynnydd disgyblion sydd ar y rhestr ADY a Chynhwysiad yn ôl dangosyddion y meysydd penodol, er enghraifft cynnydd yn ôl mesurau cyrhaeddiad, targedau a mesurau safonedig ac asesiadau maen prawf cyfeiriol.
- Presenoldeb
- Gwaharddiadau
- Arolwg o ganfyddiad o ansawdd hyfforddiant a gynigir gan y tîm a sut mae'r hyfforddiant wedi cael ei ddefnyddio.

## 4. Darpariaeth

Mae'r ddarpariaeth bresennol a gyflwyni'r drwy'r Gwasanaeth Ansawdd ADY a Chynhwysiad wedi ei rannu i bedair prif haen. (Gweler strwythur pyramid isod)

DRAFT




**Swyddogion Ansawdd ADYaCh** –cyflogedig yn ganolog

– **cynnal Adolygiadau disgyblion mwy dwys**; cynghori a Chefnogi Cydlynwyr Clwstwr ADYaCh a Phenaethiaid; Monitro, Hyfforddi, sicrhau Cysondeb safon a gwerth am arian

**Cydlynwyr Clwstwr ADYaCh**- cyflogedig gan yr ysgolion

-Cyfrifoldeb cyffredinol am ysgolion penodol; adrodd ar ansawdd ADYaCh o fewn yr ysgol/ llywodraethwyr. **Cynnal Adolygiadau CDU**, hyfforddi staff yr ysgol yn y defnydd o gynlluniau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn

**Pennaeth/ Person Cyswllt ADYaCh** – ysgol

-sicrhau perchnogaeth a dealltwriaeth o ADYaCh ar draws yr ysgol; defnydd effeithiol, effeithlon a phriodol o'r cyllid datganoledig ADYaCh. **Sicrhau Proffil un tudalen** ar gyfer pob disgybl.Derbyn cefnogaeth gan y Swyddog Ansawdd ADYaCh a'r cydlynydd Clwstwr ADYaCh.

## CAM 1 - Anghenion Cyffredinol ADYaCh

## Gweithredu Ysgol

Mae pob ysgol yng Ngwynedd ac Ynys Môn yn derbyn cyllideb ddatganoledig ar gyfer gweithredu strategaethau lefel ysgol i gefnogi pobl ifanc sydd ag anawsterau dysgu ychwanegol.

Mae'r Gwasanaeth Ansawdd ADY a Chynhwysiad yn cefnogi gwaith a chyfrifoldebau'r Pennaeth/ Person Cyswllt, a'u hysgolion, drwy sicrhau eu bod yn cyd-fynd ac amserlenni statudol a threfniadau'r awdurdod, ac yn monitro defnydd effeithiol a adnoddau ADY a Chynhwysiad datganoledig yr ysgol.
Yn ogystal maent yn cyflwyno rhaglen hyfforddiant cytunedig yn bennaf drwy'r Cydlynwyr Ysgol/Clwstwr ADYaCh ar gyfer Penaethiaid, Athrawon a Chymorthyddion dosbarth. Mae'r rhaglen hyfforddiant hon yn gyson ar draws yr ysgolion gyda ffocws clir ar ddilyniant cynradd uwchradd.

Mae'r rhaglen hyfforddiant yn cael ei adolygu bob 5 mlynedd a dim ond ymyraethau sydd â thystiolaeth o fod yn effeithiol sydd yn cael eu cymeradwyo.

## CAM 2 – Anghenion Arbenigol ADYaCh

## Gweithredu Ysgol a Mwy

Os caiff anghenion mwy arbenigol eu hadnabod drwy Broffil Un Tudalen neu Gynllun Datblygu Unigol y disgybl darperir gwasanaeth drwy gyfeirio'r achos i Fforwm Ardal ADY a Chynhwysiad. Bydd y Cydlynydd Ysgol/Clwstwr ADYaCh yn cefnogi'r ysgol efo'r ceisiadau a'r adolygiadau yma a bydd y Gwasanaeth Ansawdd ADY a Chynhwysiad yn gwirio a chysoni fod gwybodaeth berthnasol ynglŷn â chynnydd plant yn cyrraedd y Fforwm yn y modd priodol.

## CAM 3 – Anghenion Dwys a Chymleth ADYaCh

## Datganiadau Statudol

Y Swyddogion Ansawdd ADYaCh fydd yn cynnal adolygiadau ar gyfer disgyblion efo anghenion mwy dwys a chymleth a darperir gwasanaeth drwy Banel Cymedroli Traws Sirol a'r Fforymau Ardal ADY a Chynhwysiad. Bydd y Gwasanaeth Ansawdd ADY a Chynhwysiad yn sicrhau fod gwybodaeth berthnasol ynglŷn â chynnydd plant yn cyrraedd y Panel a'r Fforwm yn y modd priodol.

## CAM 4 – Anghenion Dwys a Chymleth ADYaCh

## Ysgolion Arbennig

## 5. Strwythur Staffio

### Swyddogion Ansawdd ADY a Chynhwysiad

Mae Tîm o Swyddogion Ansawdd yn cefnogi gwaith ysgolion a'r gwasanaethau eraill ADY a Chynhwysiad trwy:

- Weithio mewn ardal benodol gan sicrhau fod Cydlynwyr yr Ardal yn gweithredu o fewn gofynion y Cod Ymarfer ADY a Chynhwysiad Cymru a Meini Prawf ADY a Chynhwysiad yr awdurdod.
- Dderbyn arweiniad gan y Gwasanaeth Seicoleg Addysgol a chyd-weithio agos gyda'r Gwasanaethau ADY a Chynhwysiad eraill o fewn yr ardal.
- Amlygu materion ansawdd/ llywodraethiant ysgol i sylw Swyddog Ardal Addysg Gwynedd/Uwch Reolwr ym Môn os yn cael effaith ar ansawdd y ddarpariaeth ADYaCh oddi fewn i'r sefydliad.
- Gynghori Cydlynwyr Clwstwr ADY a Chynhwysiad gyda materion yn ymwneud â gweithredu dydd i ddydd a strategol.
- Rhoi mewnbwn ar arfer dda i ysgolion er mwyn bwydo i brosesau hunan arfarnu a chynllun datblygu ysgol.
- Monitro defnydd effeithiol o adnoddau ADY a Chynhwysiad datganoledig yr ysgol.
- Gymryd rhan o fewn rhaglen hyfforddiant mewn swydd ADY a Chynhwysiad y ddwy sir a chynnig hyfforddiant yn ôl gofyn Cydlynwyr/ Penaethiaid ac ysgolion ym maes Rôl, Arfer dda a Dyletswydd statudol Cydlynydd Clwstwr ADY a Chynhwysiad a'r Person Cyswllt ADYaCh.
- Weithio fel rhan o dîm i sicrhau cysondeb ar draws Gwynedd a Môn.
- Sicrhau fod ysgolion yn cyd-fynd ac amserlenni statudol a threfniadau'r awdurdod (e.e. ar gyfer Fforymau neu Baneli) gyda darparu'r wybodaeth sydd ei angen i wneud penderfyniadau.
- Rhoi mewnbwn ychwanegol i Gydlynwyr Clwstwr ADY a Chynhwysiad a Penaethiaid ysgolion newydd, neu os oes yna newid arwyddocaol yn y baich gwaith o fewn ysgol fach (e.e. nifer plant ADY yn cynyddu yn ddirybudd, sydd yn golygu fod angen addasu systemau'r ysgol i gyd-fynd â'r cynnydd yn y galw).

### Swyddogion Datganiadau (Cyfnod Interim cyn y ddeddfwriaeth newydd)

Yn y cyfnod interim o drosglwyddo o'r Cod Ymarfer ADY Cymru (2002) i'r Cod Ymarfer ADY a Chynhwysiad arfaethedig fe fydd cyfnod trosiannol o ran disgyblion sydd yn destun Datganiad ADY. Bydd angen sicrhau fod yr Awdurdodau ac Ysgolion yn parhau i gyflawni eu dyletswyddau statudol yn ôl y Cod Ymarfer ADY Cymru (2002) nes daw'r ddeddf addysg yn weithredol. Bydd y gwasanaeth yn darparu mewnbwn cydlynu ar gyfer yr unigolion hyn yn ystod y cyfnod yma trwy:

- Gynorthwyo'r Awdurdodau i gyflawni dyletswyddau yn unol â Rheoliadau Deddf Addysg (2001) a Chod Ymarfer ADY Cymru (2002).
- Sicrhau fod ysgolion yn gweithredu yn ôl amserlenni statudol y Cod Ymarfer ADY Cymru (2002).
- Cyd-weithio agos fel rhan o dîm y Swyddogion Ansawdd ADY a Chynhwysiad.
- Cyfrannu at ddata dangosyddion yr Awdurdodau yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru.
- Cysylltu gydag Ysgolion, Rhieni ac Asiantaethau yn unol â gofynion y Panel Cymedroli.
- Cydlynu'r gwaith o drosglwyddo unigolion o Ddatganiadau i Gynlluniau Datblygu Unigol yn ôl arweiniad Llywodraeth Cymru a'r Uwch Reolwyr.

### Cydlynydd Clwstwr ADY a Chynhwysiad

Mae'r Cydlynydd Clwstwr ADY a Chynhwysiad yn rôl allweddol o fewn yr ysgol, gyda mewnbwn strategol. Maent yn atebol i Gyrff Llywodraethol a Phenaethiaid yr ysgol, ac yn derbyn arweiniad pellach gan y Gwasanaeth Ansawdd Ardal ADY a Chynhwysiad. Mae'r unigolyn yma â chyfrifoldeb cyffredinol ar gyfer pob ysgol unigol o fewn eu clwstwr i:

- Defnyddio prosesau mapio darpariaeth er mwyn sicrhau fod darpariaeth ADY a Chynhwysiad ysgol gyfan yn cynnig y defnydd gorau o adnoddau.
- Sefydlu a gweithredu systemau o sgrinio ac adnabod ADY a Chynhwysiad, fel bod modd ymyrryd yn gynnar.

- Sicrhau fod gofynion addysgu bob disgybl efo ADY a Chynhwysiad yn cael eu cyfarch trwy fonitro gwaith y staff dysgu a'r cymorthyddion yn rheolaidd.
- Hyrwyddo cynhwysiad o fewn lleoliadau addysgol.
- Creu perthynas bositif ac agored gyda rhieni disgyblion ADY.
- Ffynhonnell o arbenigedd (ADY a Chynhwysiad) drwy ddatblygu sgiliau arbenigol a gwybodaeth.
- Hyfforddi staff ysgolion gan gynnwys athrawon a chymorthyddion.
- Cyfrannu i Gynllun Datblygu Ysgol a Hunan Arfarniadau.
- Adrodd ar ansawdd ADY a Chynhwysiad o fewn yr ysgol i'r Llywodraethwyr a'r Pennaeth/ Uwch dîm Rheoli.
- Ymwybyddiaeth glir o Feini Prawf yr A.Ll a'r gwasanaethau sydd ar gael i gefnogi'r ysgol.
- Cyfrannu i ddatblygiad gweithdrefnau gan gynnwys cynllunio cyllidol strategol a chasglu a dehongli data.
- Asesiad a'r defnydd o CDU gan ddefnyddio'r dulliau sy'n canolbwyntio ar unigolion.
- Sicrhau'r defnydd priodol o drefniadau'r A.Ll. wrth geisio osgoi anghydfod.
- Gwella eu dysgu proffesiynol eu hunain drwy gysylltu efo'r cydlynwyr eraill er mwyn datblygu a rhannu profiadau ac arfer da.
- Cryfhau trefniadau ar gyfer cyfnodau trosiannol.
- Yn adnabod anghenion y disgyblion ADY a Chynhwysiad yn yr ysgol yn dda gan gydlynu casglu gwybodaeth ar gyfer ffurfio CDU.
- Ymgymryd â rôl arweiniol o ran dosbarthiad cymorthyddion ar lefel clwstwr o ysgolion o ganlyniad i drafodaethau Fforymau ADYaCh.
- Rheolwr llinell i glwstwr o Gymorthyddion Arbenigol ADYaCh penodol o fewn eu clwstwr o ysgolion – er mwyn sicrhau dyraniad cywir o'u hamser, ansawdd y gwasanaeth a chysondeb yn y ddarpariaeth.

**Swyddog Datblygu Data a Defnydd Technoleg Gwybodaeth ADY a Chynhwysiad**

Ar gyfer gwneud defnydd effeithiol o'r data sydd yn cael ei gasglu o fewn y system ONE mae'r Swyddog Data yn gyfrifol am:


- Monitro defnydd systemau gan ysgolion a gweithwyr proffesiynol, ac ymateb i anawsterau gyda defnydd y system pan fo rhain yn codi.
- Ymateb i geisiadau a wneir gan aelodau o'r Tîm Rheoli a'r Gwasanaethau ADY a Chynhwysiad am adroddiadau data a defnydd.
- Sicrhau fod y data sydd ei angen ar gyfer Fforymau Ardal ADY a Chynhwysiad a Phaneli Cymedroli ar gael.
- Adrodd ar effeithiolrwydd a defnydd y system.
- Sicrhau fod y data yn cael ei gadw yn ddiogel a bod gwaith rheoli cefndirol yn cymryd lle i sicrhau effeithiolrwydd y system.

**Swyddogion Gweinyddol ADY a Chynhwysiad**

Er mwyn cefnogi gwaith yr holl Wasanaethau ADY a Chynhwysiad bydd mynediad at weithlu gweinyddol a fydd yn gallu:

- Cefnogi gwaith y Swyddogion Ansawdd ADY a Chynhwysiad a'r Swyddogion Datganiadau o ran dyletswyddau'r Awdurdod yn ôl y Cod Ymarfer ADY a Chynhwysiad a gofynion casglu gwybodaeth a data.
- Cefnogi tasgau gweinyddol y Gwasanaethau ADY a Chynhwysiad er enghraifft:
    - Trefnu lleoliadau ar gyfer Fforymau ADY a Chynhwysiad a Phaneli Cymedroli a chefnogi'r Cydlynwyr Clwstwr a'r Swyddogion Ansawdd yn y gwaith o drefnu gwybodaeth ar gyfer y cyfarfodydd.
    - Trosglwyddo ymholiadau ffôn i'r gweithiwr perthnasol.
    - Cefnogi'r gwaith o greu adnoddau (e.e. llungopïo)
    - Llogi ystafelloedd a chefnogi unrhyw waith trefnu cyfarfodydd neu hyfforddiant.
    - Hysbysu ysgol o salwch neu absenoldeb unrhyw weithiwr o fewn y Tîm.

# 6. Llifsiart Strwythur Staffio




DRAFT

# Polisi a Chanllawiau Diogelu

## 1. Cyflwyniad

Mae'r polisïau a'r gweithdrefnau ar gyfer y Gwasanaeth Addysg yn cyd-fynd â pholisïau corfforaethol Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn ac wedi'i llunio yng nghyd-destun gweledigaeth y cynghorau ar gyfer sicrhau diogelwch a lles plant a phobl ifanc Gwynedd ac Ynys Môn.

Mae Gwasanaeth Addysg Gwynedd ac Ynys Môn yn cydnabod ei rwymedigaethau statudol o ran diogelu plant mewn addysg. Mae'r gwasanaethau addysg yn amcanu i sicrhau lles a diogelwch plant a phobl ifanc sy'n defnyddio gwasanaethau o fewn a thu allan i ysgolion a darpariaethau addysgol eraill.

## 2. Cefndir Deddfwriaethol

Mae'r Awdurdodau'n cydymffurfio â gofynion ac egwyddorion:

- Canllawiau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008
- Diogelu Plant Mewn Addysg: Cylchlythyr 005/2008 LLC
- Gweithio Gyda'n Gilydd – o ran Deddf 2004
- Protocolau a Pholisïau Bwrdd Diogelu Plant Gwynedd a Môn
- Gweledigaeth Panel Strategol Diogelu Plant ac Oedolion Gwynedd
- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Yn ogystal mae gan y gwasanaethau addysg rôl fonitro ar gyfer sicrhau bod Ysgolion Gwynedd ac Ynys Môn yn deall ac yn gweithredu gweithdrefnau diogelu plant.

## 3. Cyfrifoldebau o fewn y Gwasanaethau Addysg

Y Pennaeth Addysg yw'r Prif Swyddog Statudol yng Ngwynedd a'r Pennaeth Dysgu Gydol Oes yn Ynys Môn - sydd â chyfrifoldeb dros sicrhau bod y gwasanaeth yn cyflawni'n llawn ei rwymedigaethau statudol yng nghyd-destun Diogelu Plant.

Dirprwyir y cyfrifoldeb arweiniol ar gyfer datblygu polisïau a gweithdrefnau i'r Swyddog Gweithredol Dynodedig Diogelu Plant yr Adran Addysg . Cydweithia yn agos gyda Gwasanaethau Cymdeithasol Plant i sicrhau polisïau a gweithdrefnau aml asiantaeth a hyfforddiant. Y Swyddog Diogelu Plant yw Swyddog Gweithredol Dynodedig Diogelu Plant yr Adran Addysg ar gyfer derbyn unrhyw ymholiadau (gweler Atodiad 6).

Y Pennaeth Addysg yng Ngwynedd a'r Pennaeth Dysgu Gydol Oes yn Ynys Môn sy'n cynrychioli Addysg ar y Bwrdd Diogelu Plant ac ar baneli Strategol Diogelu Plant ag Oedolion o fewn yr awdurdodau. Mae'r Swyddog Gweithredol Dynodedig Diogelu Plant yr Adran Addysg yn cynrychioli Addysg ar y Panel Gweithredol Diogelu Plant ac Oedolion Gwynedd ac Ynys Môn. Mae Swyddogion Addysg gweithredol o'r Tîm Disgyblion a Chynhwysiad yn cyfrannu'n llawn ar is-grwpiau - Polisi a Phrotocolau ac Adolygiadau Achosion Difrifol, ac yn weithredol fel aelodau Is-grŵp Cynllunio Diogelu Plant yr Adran Addysg.

Adroddir yn chwarterol i'r Timau Rheoli Addysg yn erbyn dangosyddion cytunedig sy'n amlygu perfformiad yr Adrannau yn y maes diogelu. Bydd dilysu allanol am ansawdd gweithdrefnau diogelu yn cael ei gwblhau'n flynyddol, e.e. drwy asesu ysgolion gan gymheiriaid allanol.

## 4. Dyletswyddau Diogelu'r Gwasanaeth ac Ysgolion/Sefydliadau Addysgol

Rôl y gwasanaethau Addysg ac Ysgolion Gwynedd ac Ynys Môn o fewn y drefn Diogelu Plant yw sicrhau amgylchfyd ac ethos diogel lle y gall plant a phobl ifanc ddysgu gan roddi sylw digonol i'w lles a'u diogelwch.

Dylai pob gweithiwr ystyried ei rôl ar gyfer:

- diogelu plant rhag niwed
- atal camdriniaeth
- hybu lles

Mae gan ysgolion a'r Gwasanaethau Addysg gyfrifoldeb i gydweithio gyda Gwasanaethau Cymdeithasol ac adrannau eraill y cynghorau i hyrwyddo diogelwch trwy godi ymwybyddiaeth, gwella dealltwriaeth a chryfhau gwytnwch plant a phobl ifanc thrwy'r cwricwlwm yn ogystal â thrwy waith ataliol ac ymyrraeth gynnar; trwy gyfeirio pryderon, cyfrannu gwybodaeth a thuag at asesiadau o angen. Mae hyn yn cynnwys gwaith Gyda'n Gilydd yng Ngwynedd, Tîm o Amgylch y Teulu yn Ynys Môn a'r 'Fframwaith Asesiad ar y cyd i Deuluoedd' (JAFF), yn ogystal â phlant a phobl ifanc mewn angen neu sy'n agored i risg o gamdriniaeth. Bydd y gwasanaeth yn cydgordio'r gofynion ac yn gweithio'n agos gydag ysgolion ac asiantaethau eraill yn y maes diogelu, yn benodol felly Gwasanaethau Cymdeithasol, Iechyd a'r Heddlu.

Mae'r gwasanaethau addysg yn gweithredu ar gyfrifoldebau corfforaethol ac addysgol Gwynedd ac Ynys Môn wrth sicrhau i'r holl ysgolion, unedau, colegau Addysg Bellach, lleoliadau addysg eraill a phartneriaid fod yn berchen ar weithdrefnau effeithiol wrth:

- rwystro pobl amhriodol rhag gweithio gyda phlant a phobl ifanc
- hyrwyddo arferion ardderchog a herio arferion annigonol ac anniogel
- adnabod ac ymateb yn gadarn i unrhyw achos o bryder yng nghyswllt diogelwch a lles plentyn gan weithredu ar weithdrefnau sy'n sicrhau diogelwch
- monitro ac arfarnu'n rheolaidd i wella ansawdd strwythurau a gweithdrefnau diogelu'r gwasanaeth

Mae disgwyl i holl sefydliadau addysgol Gwynedd ac Ynys Môn sicrhau:

- bod polisi diogelu plant cyfredol a chynhwysfawr mewn lle sy'n cyd-fynd â'r arweiniad a gynigir (Atodiad 12);
- bod y polisïau a'r gweithdrefnau'n ystyried gweithgareddau all ddigwydd y tu mewn a thu allan i oriau i furiau'r ysgol (defnydd o gyfleusterau hamdden, ymweliadau addysgol, defnydd o gyfleusterau'r ysgol i ddibenion cymunedol ayyb)
- bod un aelod o'r Uwch Dîm Rheoli yn berson dynodedig Diogelu Plant ac yn cymryd cyfrifoldeb o fewn y sefydliad am faterion Diogelu. Dylent roddi cyngor, anwytho pob aelod o staff newydd/llanw, cynnig arweiniad penodol a chyffredinol, sicrhau trefniadau hyfforddi a diweddaru, a bod yn ddolen gyswllt gyda'r gwasanaeth addysg/gwasanaethau cymdeithasol/asiantaethau eraill mewn materion diogelu;
- bod y Person Dynodedig Diogelu yn berchen ar yr awdurdod priodol i weithredu, wedi'i hyfforddi i'r lefel priodol a gyda phrofiad addas;
- bod 'eilydd/dirprwy' diogelwch yn wybyddus i bawb yn absenoldeb y Person Dynodedig;
- bod Llywodraethwr Dynodedig Diogelu Plant hefyd wedi'i hyfforddi i'r lefel priodol, eu bod ar gael i gynorthwyo'r Person Dynodedig pan yn briodol, ac yn cyfrannu at a chyflwyno'r Adroddiad Blynyddol i Lywodraethwyr i sylw'r Corff Llywodraethol yn flynyddol a
- bod pob ysgol ac uned yn cyflwyno Adroddiad Blynyddol Diogelu Plant i sylw'r gwasanaeth Addysg pob blwyddyn, erbyn diwedd tymor yr Haf

Rhoddir sylw dyladwy i'r categorïau o gamdriniaeth fel y'u hamlygir yng Nghanllawiau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008:

- Cam driniaeth gorfforol
- Cam driniaeth emosiynol
- Cam driniaeth rywiol
- Esgeulustod

Mae gan holl weithlu Gwasanaeth Addysg Gwynedd ac Ynys Môn gyfrifoldeb:

- i fod yn ymwybodol o Ganllawiau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008
- i ymddwyn yn broffesiynol a chyfreithiol dros les a diogelwch plant a phobl ifanc
- "Chwythu'r Chwiban" os ydynt yn ymwybodol o unrhyw achos o gamdriniaeth
- i fod yn effro i arwyddion o gamdriniaeth ac i ymateb yn unol â chanllawiau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008 (gweler Rhan 2.1, 2.2, 2.3 a 2.4)
- i fod yn effro i arwyddion o gamdriniaeth gan oedolion sy'n gweithio gyda neu yn goruchwylio plant a phobl ifanc, ac ymateb yn unol â chanllawiau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008 (gweler Rhan 2.1, 2.2, 2.3 a 2.4)
- i fod yn effro i arwyddion o fwlio (gweler canllawiau cenedlaethol a lleol)
- gwybod sut i ymateb pan fo plentyn yn datgelu gwybodaeth a pha gamau priodol i'w cymryd (gweler Rhan 2.1,2.2,2.3 a 2.4)
- gwybod at bwy y dylid cyfeirio unrhyw amheuon neu ddatgeliad gan blentyn neu berson ifanc, y tu mewn a thu allan i oriau'r ysgol;
- i gyflwyno datganiad/cofnod ysgrifenedig o'r hyn a welwyd neu a glywodd gan blentyn neu berson ifanc

Yn unol â chanllawiau LLC mae'n ofynnol i bob ysgol adnabod athro/awes a llywodraethwr dynodedig sydd â chyfrifoldeb dros faes Diogelu Plant (gweler Diogelu Plant Mewn Addysg: 005/2008).

Bydd Swyddogion yr Adrannau Addysg yn cynllunio a chydlynu darpariaeth gwasanaethau a dyrannu adnoddau er mwyn cyflawni gofynion Diogelu, yn unol â'r gofynion cyfreithiol, cenedlaethol a lleol. Cydweithir mewn partneriaeth, drwy'r Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru, a'r Paneli Strategol/Gweithredol Diogelu Gwynedd ag asiantaethau eraill gan gyd gynllunio a darparu gyda gweithwyr proffesiynol ym maes gofal iechyd, gwasanaethau cymdeithasol, tîm cyfiawnder ieuenctid.

**Ar lefel strategol bydd gwasanaeth addysg Gwynedd ac Ynys Môn yn:**

- sicrhau cyswllt cyson â'r awdurdodau esgobaethol priodol ynghylch trefniadau ar gyfer yr ysgolion a gynorthwyir;
- monitro ac adrodd ar lwyddiant ysgolion yn flynyddol i gydymffurfio â Chanllawiau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008, yn enwedig gweithrediad polisïau a gweithdrefnau priodol;
- Sicrhau strwythurau recriwtio a chyflogi diogel, yn unol â'r polisïau Corfforaethol;
- cydweithio'n gorfforaethol i sicrhau hyfforddiant staff i'r lefel priodol, gan gynnwys y personau dynodedig sy'n gyfrifol am amddiffyn plant (athrawon a llywodraethwyr);
- dwyn unrhyw ddiffygion i sylw Corff Llywodraethu'r Ysgol a'i gynghori ynghylch pa gamau sydd angen eu cymryd i'w cywiro;
- gweithredu i ddatrys unrhyw broblemau rhyngasiantaethol cyn gynted ag y deuir i wybod amdanynt;
- chwarae rhan lawn mewn adolygu achosion yn unol â Phennod 10 - Diogelu Plant; Gweithio Gyda'n Gilydd - dan Ddeddf Plant 2004;
- rhannu gwybodaeth a deilliannau perthnasol am achosion ac adolygiadau gydag ysgolion/personau dynodedig fel rhan o'r drefn gwella ansawdd;
- sicrhau cydweithio amlasiantaethol a phartneriaeth ar draws y gwasanaeth;
- cydweithio gyda'r Bwrdd Diogelu Lleol a'r cyngor i sicrhau adnoddau priodol i ddiwallu anghenion yn y maes Diogelu

**Ar lefel gefnogol bydd y gwasanaeth addysg yn sicrhau bod:**

- hyfforddiant ar gael i'r lefel priodol i holl staff newydd yn yr Awdurdod, i staff fydd yn gweithio gyda phlant mewn ysgol a gwasanaethau addysg eraill, ac i lywodraethwyr ysgolion. Bydd yr hyfforddiant yn eu galluogi i gyflawni eu cyfrifoldebau amddiffyn plant yn effeithiol. Bydd hyfforddiant blynyddol ar gyfer sicrhau bod sgiliau a gwybodaeth staff yn cael eu diweddaru'n rheolaidd.
- hyfforddiant bellach i staff yr Awdurdod sy'n bennaf gyfrifol am amddiffyn a diogelu plant, wedi'i ddarparu drwy gydweithrediad gyda Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru.
- cofnod o'r holl unigolion dynodedig a'r llywodraethwyr a enwebwyd gan y cyrff llywodraethu i fod yn gyfrifol am amddiffyn plant o fewn ysgolion, pa hyfforddiant a roddwyd i'r unigolion hynny a dyddiadau'r hyfforddiant.
- cyfleoedd i staff ddiweddaru hyfforddiant i'r lefel priodol pob tair blynedd, yn unol â pholisi'r Cyngor.
- cynnig polisïau enghreifftiol a gweithdrefnau enghreifftiol i ysgolion ar bob agwedd o amddiffyn plant.
- gweithredu'n briodol yng nghyswllt honiadau o gam-drin yn erbyn staff a gwirfoddolwyr.
- darparu cyngor a chefnogaeth i ysgolion a gwasanaethau addysg eraill er mwyn delio ag achosion unigol: gweithredu ar eu rhan lle bo angen i ddatrys unrhyw anawsterau gydag asiantaethau partner y Bwrdd Diogelu.

**Ar lefel weithredol bydd y Cynghorau, mewn cydweithrediad a'r gwasanaeth addysg yn:**

- sicrhau gweithdrefnau recriwtio diogel a bod yr holl archwiliadau penodol yn cael eu cyflawni a'u diweddaru ar staff a gwirfoddolwyr sydd yn gweithio â phlant, fel bo'n briodol.
- sicrhau trefniadau diogelu a hybu lles plant sydd ddim yn mynychu ysgolion, rhai sydd wedi eu gwahardd o'r ysgol, sy'n cael eu dysgu mewn unedau cyfeirio, sydd ag anghenion meddygol cymhleth a dwys, neu sy'n derbyn gwasanaeth gan diwtoriaid cartref.
- monitro lles a diogelwch a budd addysgol plant sy'n cael eu haddysgu gartref.
- Cydweithio gyda'r asiantaethau perthnasol i fonitro trefniadau Diogelu i ddysgwyr sy'n cael eu haddysgu y tu allan i'r sir
- sicrhau bod gweithdrefnau ar waith i ddelio â honiadau o gam-drin yn erbyn aelodau o staff yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru. Gweithio gydag ysgolion ac asiantaethau partner y Bwrdd Diogelu Plant i sicrhau yr ymdrinnir â honiadau yn sydyn, yn deg ac yn gyson.
- sicrhau bod staff yr Awdurdod (gan gynnwys unrhyw staff sy'n cyflawni swyddogaethau ar ran yr Awdurdod) sy'n gweithio â phlant yn cael eu harchwilio i lefel briodol ac yn derbyn hyfforddiant i gyflawni cyfrifoldebau amddiffyn plant yn effeithiol.
- Sicrhau cefnogaeth i ysgolion wrth gysylltu â sefydliadau a gwasanaethau y tu allan i'r sir, er mwyn derbyn neu gyfnewid gwybodaeth berthnasol a hyrwyddo cydweithrediad effeithiol traws-sirol.

## 5. Rôl y Corff Llywodraethol mewn Ysgolion a Cholegau Addysg Bellach

- Sicrhau bod gan eu sefydliad bolisïau a gweithdrefnau effeithiol ar waith i ddiogelu a hybu lles plant yn unol â'r canllawiau cenedlaethol a lleol, gan gynnwys ymrwymo adnoddau i faterion amddiffyn plant a monitro bod yr ysgol yn cydymffurfio â gofynion yn y maes;
- bod gan yr ysgol gweithdrefnau recriwtio diogel ac yn sicrhau bod yr holl archwiliadau priodol yn cael eu cyflawni ar staff newydd a gwirfoddolwyr newydd fydd yn gweithio â phlant, gan gynnwys archwiliadau'r Swyddfa Cofnodion Troseddol. (gweler Polisi Recriwtio Diogel);
- bod uwch aelod o dîm arwain/rheoli'r ysgol wedi'i ddynodi fel Person Dynodedig Diogelu/ amddiffyn plant, ac yn derbyn lefel briodol o hyfforddiant gloywi a diweddariad rheolaidd i ddiweddaru ei sgiliau a'i wybodaeth yn gyson, er mwyn rhoi cyngor a chefnogaeth i staff eraill. Bydd y Person Dynodedig yn cynnal cyswllt â'r gwasanaeth addysg ac yn gweithio ag asiantaethau eraill (gweler Atodiad 3 – rôl y Person Dynodedig mewn ysgol) a, lle bo hynny'n briodol, yn cyfarwyddo staff eraill. Dylid dynodi dirprwy

yn absenoldeb y person dynodedig ac mewn sefydliadau mawr, neu rhai gyda nifer fawr o bryderon amddiffyn plant, bydd angen dynodi mwy nac un dirprwy;

- bod y Person Dynodedig a'r holl staff a gwirfoddolwyr parhaol eraill sy'n gweithio â phlant yn derbyn yr hyfforddiant priodol fel y gallant gyflawni eu cyfrifoldebau amddiffyn plant yn effeithiol, a hyfforddiant gloywi i ddiweddaru eu gwybodaeth bob 3 blynedd. Hefyd bod staff a gwirfoddolwyr llanw/dros dro sy'n dirprwyo yn ystod absenoldebau tymor byr, ac a fydd yn gweithio â phlant, yn derbyn canllawiau clir ynghylch trefniadau'r ysgol ar gyfer amddiffyn plant a'u cyfrifoldebau;
- i sicrhau Llywodraethwr Dynodedig Diogelu wedi'i hyfforddi i lefel hyderus o ddeallusrwydd yn y maes, i gyflawni eu swyddogaethau ac i ddeall eu cyfrifoldebau diogelu ehangach. Dylai'r Llywodraethwr dynodedig gael cyswllt rheolaidd â'r pennaeth, a chynorthwyo i ddarparu gwybodaeth ac adroddiadau blynyddol i'r corff llywodraethu ar faterion lle nad oes honiadau yn erbyn staff;
- i ddilyn y canllawiau a gweithdrefnau cywir ble mae honiad o amddiffyn plant wedi'i wneud yn erbyn aelod o staff, gan gynnwys penodi ymchwilydd annibynnol pan yn briodol, yn unol â chanllawiau amddiffyn plant Cymru Gyfan 2008 (Rhan 4) a'r cylchlythyr Gweithdrefnau Disgyblu a Diswyddo Staff Ysgol: Canllawiau Diwygiedig i Gyrff Llywodraethu 002/2013.
- bod y polisi Diogelu'n cael ei adolygu'n flynyddol a'r adroddiad blynyddol yn cael ei gyflwyno i'r adran addysg pob blwyddyn, ac ar gael i rieni neu ofalwyr ar gais;
- bod y corff llywodraethu yn cywiro'n ddi-oed unrhyw ddiffygion neu wendidau yn y trefniadau amddiffyn plant sy'n cael eu dwyn i'w sylw.

## 6. Cyfrifoldebau Ychwanegol Cyrff Llywodraethol ar Gyfer Addysg Aml-Safle, y Tu Allan i Oriau Ysgol a'r Defnydd Cymunedol o Leoliadau

Corff Llywodraethol ysgolion sy'n gyfrifol am reoli'r defnydd diogel o'u safleoedd y tu allan i oriau'r ysgol, heblaw pan mae trefniant ymddiriedolaeth mewn lle, neu mae cytundeb trosglwyddiad rheolaeth mewn lle (gweler Diogelu Plant Mewn Addysg 2008).

Pan fo Corff Llywodraethol yn comisiynu neu yn cynnig gweithgareddau a gwasanaethau o dan oruchwyliaeth uniongyrchol staff yr ysgol, mae'n rhaid gweithredu polisïau a gweithdrefnau Diogelu'r ysgol.

Ble mae plant a phobl ifanc yr ysgol yn cael cynnig gweithgareddau, gwasanaethu a phrofiadau y tu allan i'r ysgol, rhaid sicrhau bod yr endid hwnnw yn cydymffurfio'n llawn â pholisïau recriwtio diogel a bod gweithdrefnau Diogelu cadarn mewn lle. Dylai'r Corff Llywodraethol ddynodi person cyfrifol i sicrhau hyn, gan lunio asesiad risg Diogelwch priodol a'i fonitro.

Mae'n ddyletswydd cyfeirio unrhyw arferion Diogelu annigonol neu gwynion am leoliadau i sylw'r Swyddog Gweithredol Dynodedig Diogelu Plant (Ffion Rhisiart) yn yr adran addysg, er mwyn gallu gweithredi i leihau'r risg i holl blant a phobl ifanc Gwynedd ac Ynys Môn.

## 7. Rôl Prifathrawon a Phenaethiaid

- sicrhau bod y polisïau a'r gweithdrefnau amddiffyn plant sy'n cael eu mabwysiadu gan y corff llywodraethu yn cael eu gweithredu'n llawn, a bod yr holl staff yn eu dilyn;
- sicrhau bod digon o adnoddau ac amser yn cael eu dyrannu fel bod y person dynodedig a staff eraill yn gallu cyflawni eu cyfrifoldebau, gan gynnwys cyfrannu at drafodaethau strategaeth a chyfarfodydd rhyngasiantaethol eraill, ac at asesiadau plant; a
- bod yr holl staff a gwirfoddolwyr yn deall y gweithdrefnau ac yn teimlo y gallent godi pryderon yng nghyswllt unrhyw arferion gwael neu anniogel yng nghyswllt plant, ac yr ymdrinnir yn sensitif, yn effeithiol ac yn brydlon â'r pryderon hynny yn unol â'r Gweithdrefnau ar gyfer Chwythu'r Chwiban mewn Ysgolion a Pholisi Enghreifftiol - cylchlythyr 36/2007.

## 8. Rôl y Person Dynodedig Mewn Ysgol

Mae'r Person Dynodedig yn cyflawni rôl allweddol o fewn ysgol wrth sicrhau ethos diogel, bod gweithdrefnau a pholisïau diogel yn cael eu sefydlu a'u gweithredu er lles disgyblion.

Dylai'r Person Dynodedig:

- arwain a chymryd cyfrifoldeb dros reoli materion ac achosion diogelu ac amddiffyn plant
- hyrwyddo lles a buddiannau Plant Mewn Gofal a grwpiau sy'n agored i niwed
- bod yn aelod o dîm rheoli'r ysgol,
- cymryd cyfrifoldeb am arferion, polisïau, gweithdrefnau a datblygiad proffesiynol yn y maes Diogelu. (gweler Atodiad 8)

## 9. Rôl Perchennog Ysgolion/Sefydliad Preswyl Annibynnol a Rôl Perchnogion Ysgolion Annibynnol

Gweler Cylchlythyr Diogelu Plant Mewn Addysg 005/2008.

## 10. Rôl Rheolwyr Gofal Plant Cyn ac ar ôl Ysgol, Meithrinfeydd, Lleoliadau ac Unedau Blynyddoedd Cynnar

Dylai rheolwyr lleoliadau blynyddoedd cynnar, meithrinfeydd a phartneriaid sicrhau:

- eu bod yn gweithredu fel Person Dynodedig Diogelu ac yn ysgwyddo rôl arweiniol mewn materion a gweithdrefnau diogelu, gan sicrhau diogelwch y plant yn eu gofal;
- bod pob aelod o staff a gwirfoddolwyr wedi'i recriwtio'n ddiogel, eu bod yn derbyn hyfforddiant a chyrsiau gloywi diogelu, a'u bod yn dilyn gweithdrefnau diogelu i'r safonau uchaf;
- bod amser ac adnoddau priodol ar gael i staff gyflawni eu dyletswyddau'n llawn, gan gynnwys amser i gyfrannu at asesiadau plant/mynychu cynadleddau achos a strategaeth fel bo'n briodol;
- bod polisïau a chanllawiau diamwys a safonol wedi'i mabwysiadu ac ar gael i rieni, staff a buddiolwyr eraill.

## 11. Hyfforddiant i Staff y Gwasanaeth Addysg gan Gynnwys Ysgolion

Dylai pob aelod o staff, fel rhan o drefniadau anwytho'r sefydliad (boed yn barhaol neu dros dro, a gwirfoddolwyr) dderbyn arweiniad ysgrifenedig am bolisi a gweithdrefnau Diogelu, gyda manylion cyswllt y Person Dynodedig, ar y diwrnod cyntaf yn y gwaith. (gweler Atodiad 7 - ysgolion)

Disgwylir i holl staff newydd y gwasanaeth addysg, gan gynnwys ysgolion, ymgymryd â hyfforddiant Lefel Un/sylfaenol cyn gynted â phosib, yn unol â pholisi hyfforddiant Diogelu corfforaethol Gwynedd.
Disgwylir i staff dderbyn hyfforddiant gloywi/adnewyddu o leiaf pob 3 blynedd.
Disgwylir i'r Person Dynodedig a'r Llywodraethwr Dynodedig ddilyn cwrs lefel uwch, er mwyn sicrhau eu bod yn gallu cyflawni eu dyletswyddau'n llawn.
Bydd Penaethiaid/llywodraethwyr yn derbyn hyfforddiant/arweiniad ar gyfer delio gyda honiadau ac achosion o gamdriniaeth broffesiynol (Rhan 4)
Bydd y gwasanaeth addysg yn cadw cofnodion hyfforddiant ac arweiniad, gan gynnwys manylion hyfforddiant staff a llywodraethwyr.

Disgwylir i ysgolion gyflwyno cofnod hyfforddiant diogelu staff yn flynyddol i'r gwasanaeth addysg, fel rhan o'r Adroddiad Blynyddol i Lywodraethwyr yn y maes Diogelu.
Trefnir rhaglen hyfforddiant blynyddol drwy raglen hyfforddiant y Bwrdd Diogelu Gwynedd a Môn.

## 12. Honiadau o Gamdriniaeth gan Oedolyn yn erbyn Plentyn

Mae'n hanfodol bod pob honiad o gamdriniaeth yn cael sylw sydyn, teg a chyson er mwyn sicrhau diogelwch y plentyn a sicrhau lles y person a gyhuddwyd o'r gamdriniaeth.

Dylai pob aelod o staff y gwasanaeth addysg, gan gynnwys ysgolion, gyfeirio'n syth at Ran 4 Canllawiau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan, 2008, gan ddilyn y drefn a nodir yn glir yno.

Os am arweiniad pellach, ac nid yw'r Person Dynodedig ar gael NEU mae'r honiad yn erbyn y Person Dynodedig, cysylltwch â'r adran addysg a'r Swyddog Dynodedig Diogelu neu aelod arall o'r Is-grŵp Cynllunio Diogelu Addysg. Rhif ffôn: 01286 679007.

**Gwynedd**

Os am arweiniad pellach cysylltwch â Thîm Cyfeiriadau Plant y Gwasanaethau Cymdeithasol: 01766 772 577 CyfeiradauPlant@gwynedd.llyw.cymru ac os y tu allan i oriau gwaith 01248 353551

**Ynys Môn**

Os am arweiniad pellach cysylltwch â Thîm Cyfeiriadau Plant y Gwasanaethau Cymdeithasol 01248 752900 ac os y tu allan i oriau 01248 353551

Trefniadau a Gweithdrefnau Ysgolion, Cyfeirio Achosion, Cadw Cofnodion a Chyfrannu a Chynadleddau Achos

Gweler y Blwch Coch Diogelu Plant am arweiniad

DRAFT

ADY

# Strategaeth

# Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad

DRAFT

# Y Gwasanaethau ADY

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# Cyfathrebu a Rhyngweithio

## Disgwyliadau Ysgol Gyfan

Mae Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn yn ystyried datblygu sgiliau ieithyddol, lleferydd, a rhyngweithio yn hanfodol bwysig. Mae'r sgiliau yma yn sylfaen allweddol ar gyfer datblygiad sgiliau eraill megis llythrennedd a rhifedd, sgiliau cymdeithasol, hunan hyder a hunan ddelwedd. Mae'n hynod bwysig ymyrryd yn gynnar a sicrhau mynediad addas i'r cwricwlwm i ddisgyblion gydag anghenion ychwanegol yn y meysydd hyn.

1. **Beth mae Cyfathrebu a Rhyngweithio yn ei olygu?**

Mae anawsterau dysgu o fewn y maes Cyfathrebu a Rhyngweithio yn cyfeirio yn benodol at:

- Oediad sylweddol gydag iaith a lleferydd.
- Anhwylderau iaith, lleferydd a chyfathrebu
- Anawsterau cyfathrebu cymdeithasol a rhyngweithio
- Unigolion sydd o fewn yr Anhwylder Sbectrwm Awtistiaeth.
- Mae'r anawsterau yma yn cael effaith ar fynediad i'r cwricwlwm a gallu'r disgybl integreiddio yn gymdeithasol ac emosiynol o fewn yr amgylchedd addysg.

**2. Cyffredinol**

Pan fo pryder yn bodoli nad ydyw disgybl yn gwneud y cynnydd disgwyliedig gyda sgiliau cyfathrebu a rhyngweithio disgwylir i'r ysgol ddilyn y camau isod:

- Cyswllt da gyda sector addysg blynyddoedd cynnar (e.e. Cylchoedd Meithrin) a'r sector iechyd blynyddoedd cynnar (Ymwelwyr Iechyd, Nyrs Ysgol).
- Cyswllt agos gyda rhieni a gofalwyr er mwyn rhannu gwybodaeth a sicrhau fod rhieni yn rhan allweddol o unrhyw ymyrraeth sydd yn cael ei gynnig yn yr ysgol.
- Prosesau a dulliau clir yn bodoli i adnabod anawsterau cyfathrebu mor gynnar â phosibl, gan gyfeirio at yr asiantaethau perthnasol (e.e. Seicolegydd Addysg, Therapi Iaith a Chyfathrebu, Seicoleg Glinigol) mewn partneriaeth a rhieni, os yn briodol.
- Pob disgybl sydd â phroblemau cyfathrebu yn derbyn ymateb graddoledig buan sydd yn cwrdd â'i anghenion, megis mynediad at grwpiau ffocws, grwpiau targed, i ddatblygu sgiliau cyfathrebu a rhyngweithio, llythrennedd a rhifedd.
- Sicrhau fod pob plentyn yn cael mynediad at gwricwlwm llawn ac addas.
- Sicrhau ymrwymiad aml asiantaethol graddoledig i gefnogi'r disgyblion.

Nod Strategaeth a Pholisïau Cyfathrebu a Rhyngweithio Ysgolion Gwynedd ac Ynys Môn yw:

- Hyrwyddo amgylchedd cyfoethog o ran cyfathrebu, rhyngweithio ac iaith.
- Ymyrryd yn gynnar er mwyn gwella safonau iaith a chyfathrebu yn y Cyfnod Sylfaen a thu hwnt.
- Lleihau effaith anawsterau iaith a chyfathrebu ar ddatblygiad holistaidd disgyblion.
- Datblygu hyder staff ysgolion a rhieni mewn ymateb i anawsterau cyfathrebu a rhyngweithio.

**3. Cyfathrebu Clir**

Mae gweithio gyda theuluoedd a sicrhau cydweithrediad rhieni yn allweddol ar gyfer perthynas lwyddiannus ag unrhyw ddisgybl. Dylai pob ysgol yng Ngwynedd ac Ynys Môn fod yn agored i drafodaeth bob amser ac yn annog rhieni i gysylltu os oes unrhyw beth yn eu pryderu.
Wrth ganmol disgyblion mae'n allweddol i fanteisio ar y cyfle i gysylltu â rhieni.

DRAFT

# Gwasanaeth Cyfathrebu a Rhyngweithio

## 1. Nod

Mae'r Gwasanaeth Cyfathrebu a Rhyngweithio yn cyd-weithio ag ysgolion Gwynedd ac Ynys Môn i geisio cyfoethogi sgiliau iaith, cyfathrebu a rhyngweithio ac ymateb yn raddoledig pan fo anawsterau oherwydd Oediad, Anhwylder neu Awtistiaeth yn amharu ar ddatblygiad yn y meysydd hyn.

## 2. Amcanion

Er mwyn cyrraedd at y nod hwn yr ydym fel gwasanaeth yn gosod yr amcanion canlynol;

- Sicrhau fod ethos ysgolion Gwynedd ac Ynys Môn yn sicrhau perchnogaeth yr ysgolion o bobl ifanc sydd ag anghenion cyfathrebu a rhyngweithio.
- Sicrhau partneriaeth lawn gydag asiantaethau perthnasol o fewn y Bwrdd Iechyd (e.e. Therapi Iaith a Lleferydd, Seicoleg Glinigol).
- Gweithlu pob ysgol yng Ngwynedd ac Ynys Môn i dderbyn hyfforddiant priodol fydd yn arwain at athrawon sydd yn hyderus i gynllunio ar gyfer datblygu sgiliau iaith a chyfathrebu.
- Sicrhau arweiniad arbenigol i alluogi ysgolion i deilwrio ymyraethau arbenigol o fewn adnoddau'r ysgol.
- Sicrhau darpariaeth arbenigol safonol lleol ar gyfer y bobl ifanc gydag anghenion mwyaf dwys.
- Sicrhau cyswllt clir gyda'r sector iechyd cymunedol er mwyn adnabod anghenion ieithyddol yn fuan.

## 3. Mesuryddion

Mae'r Gwasanaeth Cyfathrebu a Rhyngweithio yn mesur llwyddiant y ddarpariaeth drwy nifer o ddangosyddion. Nodir isod ein prif ddangosyddion;

- Cynnydd yn y prif ddangosyddion ar ddiwedd cyfnodau allweddol
- Cynnydd mewn sgorau safonedig mewn Profion Safonedig Llythrennedd a Rhifedd.
- Cynnydd mewn sgorau safonedig mewn Profion Cenedlaethol.
- Datblygiad mewn sgiliau yn ôl dangosyddion asesiadau safonedig, ansafonedig a maen prawf gyfeiriol iaith, cyfathrebu a rhyngweithio gan weithwyr proffesiynnol (e.e. Seicolegydd Addysgol a/neu Glinigol, Therapydd Iaith a Lleferydd, Athro/awes Arbenigol)
- Cynnydd mewn canran o weithlu ysgolion sydd â hyfforddiant cyfredol mewn adnabod a thargedu anghenion iaith a chyfathrebu, awtistiaeth a sgiliau rhyngweithio.
- Tystiolaeth o gyffredinoli sgiliau trwy arsylwadau.

## 4. Darpariaeth

Mae'r ddarpariaeth gyflwyni'r drwy'r Gwasanaeth Cyfathrebu a Rhyngweithio wedi ei rannu i ddau brif gydran.

**Gweithredu Ysgol**
*Cyffredinol*

Mae pob ysgol yng Ngwynedd ac Ynys Môn yn derbyn cyllideb ddatganoledig er mwyn gweithredu strategaethau lefel ysgol i gefnogi pobl ifanc sydd ag Anawsterau Cyfathrebu a Rhyngweithio, er enghraifft:

- Sefydlu systemau sydd yn galluogi i'r disgyblion cael eu targedu yn ôl yr angen sydd ganddynt.
- Defnyddio offeryn sgrinio ar gyfer adnabod meysydd er mwyn sicrhau datblygu'r awyrgylch ddysgu yn gyfeillgar ar gyfer datblygu sgiliau cyfathrebu.

- Pob disgybl sydd â phroblemau cyfathrebu yn derbyn ymateb graddoledig buan sydd yn cwrdd â'i anghenion, megis mynediad at grwpiau ffocws, grwpiau targed, i ddatblygu sgiliau cyfathrebu a rhyngweithio, llythrennedd a rhifedd.
- Sicrhau awyrgylch sydd yn gynhwysol i unigolion sydd yn cael trafferthion deall a mynegi yn defnyddio iaith lafar, neu yn cael trafferthion gydag ymgynnwys cymdeithasol rhyngweithiol.

Mae'r Gwasanaeth Cyfathrebu a Rhyngweithio yn cefnogi gwaith yr ysgolion drwy gyflwyno rhaglen hyfforddiant cytunedig i bob athro/awes a chymhorthydd dosbarth. Mae'r rhaglen hyfforddiant hon yn gyson ar draws yr ysgolion gyda ffocws clir ar ddilyniant cynradd uwchradd.

Mae'r rhaglen hyfforddiant yn cael ei adolygu bob 5 mlynedd a dim ond ymyraethau sydd â thystiolaeth o fod yn effeithiol sydd yn cael eu cymeradwyo. Gall ysgolion gael mynediad i adnoddau parod a gwybodaeth benodol drwy Lyfrgell Adnoddau'r Gwasanaeth ADY a Chynhwysiad.

**Gweithredu Ysgol a Mwy**
*Arbenigol*

Mae pob ysgol yng Ngwynedd ac Ynys Môn yn gallu cyfeirio disgyblion i sylw'r Fforwm Ardal ADYaCh. Dylid gwneud hyn yn unol â'r Meini Prawf drwy ddilyn y drefn gytunedig. Bydd rhai disgyblion ifanc wedi eu dwyn i sylw'r gwasanaeth eisoes trwy systemau adnabod Blynyddoedd Cynnar drwy'r Fforwm Blynyddoedd Cynnar.

Fel rhan o'r ddarpariaeth gall ysgol dderbyn cefnogaeth arbenigol ar gyfer yr unigolyn o fewn hanner tymor. Cynllunnir y gefnogaeth arbenigol drwy arweiniad ein Uwch Seicolegydd Addysg Cyfathrebu a Rhyngweithio. Mae cyd-weithio cadarn gyda'r Adran Therapi Iaith a Lleferydd gan wneud y gwasanaeth yn llwyr integredig, gyda'r gwaith o fodelu, monitro a chyd-weithredu'r strategaethau dan arweiniad ein Hathrawon Arbenigol a Therapyddion Iaith a Lleferydd yn rhan o wasanaeth Partneriaeth. Mae effeithiolrwydd y strategaethau arbenigol yn cael eu mesur ac adroddir yn ôl i'r Fforwm ar gynnydd yr unigolyn. Lle nad oes tystiolaeth o gynnydd mae'r gefnogaeth yn cael ei adolygu. Mae'r gefnogaeth Arbenigol yn dilyn camau penodol.

Mae'r ddarpariaeth arbenigol ar gyfer yr unigolyn wedi ei gynllunio ar sail camau er mwyn sicrhau ymyrraeth raddoledig, yn unol â Meini Prawf cytunedig. Mae'r llifsiart isod yn rhoi amlinelliad o gamau'r Gwasanaeth:

**Canolfannau Arbenigol**

Mae'r Gwasanaeth Cyfathrebu a Rhyngweithio yn cynnig darpariaethau arbenigol ar gyfer nifer bach o ddisgyblion sydd yn cyrraedd y Meini Prawf ar gyfer Cam 3. Yn unol â'r Meini Prawf gall rhai disgyblion gael eu cyfeirio at ddarpariaeth arbenigol leol sydd wedi eu lleoli o fewn ysgolion Gwynedd ac Ynys Môn.

Mae ffocws ar uwch sgilio'r disgyblion yma i allu ymdopi yn well o fewn y sefyllfa prif lif y byddant yn dychwelyd iddo. Mae unrhyw ddisgybl sydd yn derbyn lleoliad o fewn ein darpariaeth arbenigol yn gwneud hyn am gyfnod penodol gyda chynllun pendant i ddychwelyd yn ôl i'r prif lif. Mae'r disgybl yn parhau ar gofrestr yr ysgol ac mewn mwyafrif yr achosion lleoliadau hanner diwrnod a gynigir.
Mae'r ddarpariaeth yn cael ei adolygu ar ôl dau dymor, ac yna yn dymhorol yn dilyn hynny. Y Fforwm Ardal ADYaCh sydd yn pennu hyd y lleoliad ac yn dod i farn ynglŷn ag addasrwydd y disgybl i ddychwelyd i'r prif lif.

Wrth adael y Canolfannau Arbenigol fe fydd y Fforwm Ardal ADYaCh yn penderfynu os ydy'r disgybl yn cyrraedd o fewn y Meini Prawf i dderbyn mewnbwn Cam 1 neu 2 yn y trosglwyddiad yn ôl i ysgol prif lif llawn amser.

DRAFT

### *Canolfannau Anhwylder Iaith*

Mae'r Canolfannau Anhwylder Iaith yn cynnig darpariaeth sydd yn ffocysu ar anhwylderau iaith penodol, ble mae agweddau o ddealltwriaeth, mynegiant, lleferydd a chof tymor byr disgybl yn parhau i ddatblygu mewn modd problemus er gallu di-iaith addas.

### *Canolfannau Cyfathrebu Cymdeithasol*

Mae'r Canolfannau Cyfathrebu Cymdeithasol yn ddarpariaeth sydd yn ffocysu ar anawsterau gyda defnydd cymdeithasol o iaith, sgiliau rhyngweithio a chyfathrebu, anghenion ymddygiadol sydd yn deillio o anawsterau cyfathrebu cymdeithasol, dealltwriaeth sefyllfaoedd cymdeithasol ac yn y blaen. Mae'r ddarpariaeth yn addas gyfer plant sydd ag anghenion o'r math yma sydd nid o reidrwydd a diagnosis o Anhwylder Sbectrwm Awtistiaeth.

DRAFT

## Amlinelliad o Gamau'r Gwasanaeth

**System Rhybudd Cynnar**

- Iechyd Cymunedol (Ym Iechyd)
- Darpariaeth Addysg Blynyddoedd Cynnar
- SGRINIO

**Cyfeiriadau Ysgol**

- Cyfeirio yn dilyn gweithredu darpariaeth ysgol
- Mewnbwn Th i a Ll Cymunedol
- Ymgynghori Seicolegydd Addysg

**Fforwm Blynyddoedd Cynnar**
Gweithredu Meini Prawf

**Fforwm Ardal ADYaCh**
Gweithredu Meini Prawf

**CAM 1 – Gweithredu Ysgol a Mwy**

- Ymweliad ar gychwyn a diwedd y cyfnod gan aelod o'r tîm (Athro/awes Arbenigol/Therapydd Iaith a Lleferydd/Cymhorthydd Arbenigol)
- Sefydlu CYNLLUN CYFATHREBU UNIGOL a modelu STRATEGAETHAU

16 WYTHNOS

**Fforwm Ardal ADYaCh**
Gweithredu Meini Prawf

Gwasanaeth anaddas:
Cyfeirio i wasanaeth arall

**CAM 2 – GWASANAETH YMESTYN ALLAN**

- Cynllun Cyfathrebu Unigol
- Ymweliad Th I a Ll/Athro/awes Arbenigol pob hanner tymor (yn ddibynnol ar y math angen)
- Mewnbwn 'Cymorthyddion Arbenigol' 1/2 waith yn wythnosol i ategu at ddarpariaeth Ysgol.
- Ymgynghori gyda Seicolegydd Addysg

2 DYMOR

**Fforwm Ardal ADYaCh**
Gweithredu Meini Prawf

Gwasanaeth anaddas:
Cyfeirio i wasanaeth arall

**CAM 3 – GWASANAETHAU PENODOL**

| | | |
|---|---|---|
| Gwasanaeth Ymestyn Allan (Cynradd/Uwchradd) | Canolfan Anhwylder Iaith (Cynradd) | Canolfan Cyfathrebu Cymdeithasol ac ASD (Cynradd/Uwchradd) |

2 DYMOR

**Fforwm Ardal ADYaCh**
Gweithredu Meini Prawf

Gwasanaeth anaddas:
Cyfeirio i wasanaeth arall

## 5. Lleoliadau Canolfannau'r Gwasanaeth

Mae'r Canolfannau wedi eu lleoli mewn lleoliadau addas o fewn Gwynedd ac Ynys Môn er mwyn cynnig mewnbwn ar lefel lleol. Mae'r tabl isod yn rhoi crynodeb o'r lleoliadau hyn a'r math o ddeilliannau sydd yn cael eu targedu o fewn y canolfannau. Mae'r canolfannau yn rhan annatod o'r gwasanaeth, gyda ffocws clir ar gynyddu sgiliau'r disgyblion wrth ddychwelyd i'r prif lif.

<table>
<tr><th colspan="9">Canolfannau Cyfathrebu a Rhyngweithio</th></tr>
<tr><td colspan="4">Canolfannau Anhwylder Iaith<br>(Dau ddiwrnod yr wythnos)</td><td colspan="3">Canolfannau Cyfathrebu Cymdeithasol ac ASA Cynradd<br>(Llawn amser)</td><td colspan="2">Canolfannau Cyfathrebu Cymdeithasol ac ASA Uwchradd<br>(Llawn amser)</td></tr>
<tr><td>Dwyrain Gwynedd</td><td>Gorllewin Gwynedd</td><td>De Gwynedd</td><td>Môn</td><td>Dwyrain Gwynedd</td><td>Gorllewin / De Gwynedd</td><td>Môn</td><td>Dwyrain Gwynedd/Môn</td><td>Gorllewin / De Gwynedd</td></tr>
<tr><th colspan="9">Deilliannau</th></tr>
<tr><td colspan="4">Cynnydd mewn:<br>Sgiliau dealltwriaeth a mynegiant iaith<br><br>Sgiliau prosesu iaith, cof clywedol a dilyniannu</td><td colspan="5">Cynnydd mewn:<br>Sgiliau dilyn trefn a rwtîn dosbarth<br>Dealltwriaeth o sefyllfaoedd cymdeithasol<br>Sgiliau rhyngweithiol<br>Dealltwriaeth iaith<br><br>Ymddygiad addas i sefyllfa</td></tr>
</table>

Yr Uwch Seicolegydd Cyfathrebu a Rhyngweithio sydd â'r cyfrifoldeb i sicrhau fod y gefnogaeth a gynigir o fewn y Canolfannau yn effeithiol ac yn addas i bwrpas.

## 6. Strwythur Staffio

### Uwch Seicolegydd Addysg Cyfathrebu a Rhyngweithio

Mae'r Seicolegydd Addysg Cyfathrebu a Rhyngweithio yn gyfrifol am gynllunio strategol a sicrhau ansawdd y ddarpariaeth ar lefel ysgol a thu hwnt. Bydd y gwaith yma yn digwydd mewn partneriaeth agos â'r Gwasanaeth Therapi Iaith Lleferydd.

Amlygir isod brif swyddogaethau'r Seicolegydd Addysg Cyfathrebu a Rhyngweithio;

- Ymchwilio i'r strategaethau mwyaf effeithiol yn barhaus ar y cyd a'r Gwasanaeth Therapi Iaith a Lleferydd a'r Uwch Weithiwr Iechyd Meddwl.
- Llunio rhaglen hyfforddiant 5 mlynedd ar gyfer staff ysgolion Gwynedd ac Ynys Môn.
- Llunio rhaglen hyfforddiant blynyddol i staff y gwasanaeth cyfathrebu a rhyngweithio ar y cyd a'r Gwasanaeth Therapi Iaith a Lleferydd a'r Uwch Weithiwr Iechyd Meddwl.
- Cysoni ymarfer Seicolegwyr Addysg ar draws Gwynedd ac Ynys Môn yn y maes.
- Arsylwi a theilwrio ymyraethau effeithiol i'w gweithredu ar lefel ysgol.
- Sicrhau fod y Fforwm Ardal ADYaCh yn gweithredu yn unol â'r Meini Prawf.
- Arwain ar y rhaglenni a'r strategaethau a gyflwynir o fewn y Canolfannau Arbenigol.

DRAFT

## Athrawon Arbenigol Cyfathrebu a Rhyngweithio

Mae’r Athrawon Arbenigol Cyfathrebu a Rhyngweithio yn gweithredu argymhellion yr Uwch Seicolegydd Cyfathrebu a Rhyngweithio ar lefel ysgol ac o fewn yr unedau arbenigol. Maent yn gweithio yn agos gyda’r Gwasanaeth Therapi Iaith a Lleferydd a’r Uwch Weithiwr Iechyd Meddwl. Rôl yr athrawon yma yw cyd weithredu’r strategaethau ar lefel ysgol gan sicrhau'r gynhaliaeth orau i athrawon ysgolion Gwynedd ac Ynys Môn drwy:

- **Gefnogi o fewn ysgolion a threulio cyfnodau o fewn y Canolfannau Arbenigol yn gweithredu strategaethau a rhaglenni cytunedig i grwpiau bach o ddisgyblion.**
- Cynhyrchu adnoddau parod ar ffurf pecynnau gwaith i gefnogi addysgu disgyblion ag anawsterau cyfathrebu a rhyngweithio i gyfoethogi’r Llyfrgell Adnoddau sydd ar gael.
- Arsylwi ar lawr dosbarth gan amlygu cryfderau a meysydd i’w gwella, a dulliau dosbarth cyfan.
- Modelu arfer dda drwy weithio yn uniongyrchol gydag unigolion ar lawr y dosbarth.
- Hybu defnydd yr hyn a gyflwynwyd ac a fodelwyd fel technegau ymyrraeth yn weithredol ar lawr dosbarth.
- Cyd-weithio yn agos gyda thîm o Gymorthyddion Arbenigol Anawsterau Iaith, Lleferydd a Chyfathrebu a fydd yn cefnogi’r disgyblion a’r athrawon.
- Meddu hyfforddiant ac arbenigedd mewn Anhwylderau iaith ac Anhwylderau Sbectrwm Awtistiaeth o fewn y tîm.
- Mae’r athrawon yn ymestyn ar draws y cyfnodau allweddol gan sicrhau’r gynhaliaeth fwyaf cyson i’r disgyblion gan roi sylw penodol i’r cyfnod trosiannol cyn ysgol / cyfnod sylfaen a’r cynradd / uwchradd.

## Cymorthyddion Arbenigol

Bydd y Cymorthyddion Arbenigol yn gyfrifol am gefnogi gwaith y Canolfannau Gwasanaeth a chefnogi athrawon a chymorthyddion ar lawr dosbarth. Bydd hefyd ffocws clir ar gefnogi teuluoedd. Byddant yn treulio amser yn arsylwi, modelu a monitro ar lawr dosbarth wrth weithio yn y prif lif. Yn y canolfannau byddant yn cefnogi’r pecynnau ymyrraeth penodol ar gyfer y disgyblion sydd yn mynychu.

Mae’r **Cymorthyddion Arbenigol** yn cefnogi disgyblion sydd yn dilyn Cynllun Cyfathrebu Unigol wedi ei lunio gan Therapydd Iaith a Lleferydd. Byddant yn derbyn goruchwyliaeth yn ôl gofynion y Coleg Brenhinol Therapi Iaith a Lleferydd (RCSLT) gan Therapydd Iaith a Lleferydd. Fel rhan o’r swyddogaeth yma byddant yn:

- Cydweithio gyda’r Gwasanaeth Therapi Iaith a Lleferydd a’r Athrawon Arbenigol Cyfathrebu a Rhyngweithio.
- Cyflwyno pecynnau gwaith i gefnogi addysgu disgyblion ag anawsterau iaith, lleferydd a chyfathrebu yn ôl camau 1 a 2 o’r ddarpariaeth o fewn yr ysgol prif lif.
- Gweithio o fewn y Canolfannau Anhwylder Iaith, Cam 3 o’r ddarpariaeth.
- Cefnogi rhieni i ymateb yn well i anghenion eu plant yn y maes hwn.
- Arsylwi gwersi gan gynghori cymorthyddion ar ddulliau gwahanol o gefnogi unigolion.
- Modelu technegau cefnogi a dulliau ymyrraeth ar lawr dosbarth.
- Cydweithio â theuluoedd i gefnogi a modelu technegau ataliol ac ymatebol i reoli ymddygiad.
- Hybu defnydd yr hyn a gyflwynwyd ac a fodelwyd fel technegau dysgu yn weithredol ar lawr dosbarth ac ar yr aelwyd.

Mae’r Cymorthyddion Arbenigol hefyd yn cefnogi disgyblion sydd ag anghenion cyfathrebu cymdeithasol ac Anhwylder Spectrwm Awtistiaeth. Nid oes gan bob disgybl yn y categori hwn Gynllun Cyfathrebu Unigol gan nad ydynt o fewn Meini Prawf y Gwasanaeth Therapi Iaith a Lleferydd. Maent fodd bynnag yn ddisgyblion sydd yn derbyn mewnbwn yr Athrawon Arbenigol Cyfathrebu a Rhyngweithio, ac efallai asiantaeth arall megis Seicoleg Addysg/Clinigol. Fel rhan o’r swyddogaeth yma byddant yn:

- Cydweithio gyda’r Athrawon Arbenigol Cyfathrebu a Rhyngweithio, ac o bosib asiantaeth arall fel Therapi Iaith a Lleferydd neu Seicoleg Addysgol/Glinigol.

- Cyflwyno pecynnau gwaith i gefnogi addysgu disgyblion ag anawsterau iaith, lleferydd a chyfathrebu yn ôl camau 1 a 2 o'r ddarpariaeth o fewn yr ysgol prif lif.
- Gweithio o fewn y Canolfannau Cyfathrebu Cymdeithasol ac ASA, Cam 3 o'r ddarpariaeth.
- Cefnogi rhieni i ymateb yn well i anghenion eu plant yn y maes hwn.
- Arsylwi gwersi gan gynghori cymorthyddion ar ddulliau gwahanol o gefnogi unigolion.
- Modelu technegau cefnogi a dulliau ymyrraeth ar lawr dosbarth.
- Cydweithio â theuluoedd i gefnogi a modelu technegau ataliol ac ymatebol i reoli ymddygiad.
- Hybu defnydd yr hyn a gyflwynwyd ac a fodelwyd fel technegau dysgu yn weithredol ar lawr dosbarth ac ar yr aelwyd.

## 7. Hyfforddiant

Mae'r Gwasanaeth Cyfathrebu a Rhyngweithio yn cefnogi gwaith yr ysgolion drwy gyflwyno rhaglen hyfforddiant cytunedig i bob athro/awes a chymhorthydd dosbarth. Mae'r rhaglen hyfforddiant hon yn gyson ar draws yr ysgolion gyda ffocws clir ar ddilyniant blynyddoedd cynnar - cynradd - uwchradd.

Mae'r rhaglen hyfforddiant yn cael ei adolygu bob 5 mlynedd a dim ond ymyraethau sydd â thystiolaeth o fod yn effeithiol sydd yn cael ei chymeradwyo. Er enghraifft:

- Elklan
- PECS (Picture Exchange Communication System)
- Makaton
- Talkabout
- Social Use of Language Programme
- Black Sheep Press

Mae banc o adnoddau parod ar gael ar wefan y gwasanaeth fydd yn cael ei ddiweddaru'n rheolaidd.

## 8. Mewnbwn Aml-Asiantaethol

Mae'r Gwasanaeth Cyfathrebu a Rhyngweithio yn rhan o dîm integredig aml asiantaeth.

**Gwasanaeth Therapi Iaith a Lleferydd**
Drwy weithio'n gwbl integredig gyda'r Gwasanaeth Therapi Iaith a Lleferydd, mae'r gwasanaeth a ddarperir i'r plant yn holistaidd ac yn fwy effeithiol a therapiwtig.

Bydd y Gwasanaeth Therapi Iaith a Lleferydd yn cynnig gwasanaeth penodol er mwyn:


- Cymryd rhan weithredol mewn trafodaethau strategol.
- Cyfrannu i'r drafodaeth o fewn y Fforwm Ardal ADYaCh.
- Sicrhau goruchwyliaeth ar gyfer y Cymorthyddion Arbenigol.
- Sicrhau fod y Gwasanaeth Therapi Iaith a Lleferydd yn cyd-weithio mewn ffordd gydlynol gyda'r Gwasanaeth ADY Cyfathrebu a Rhyngweithio.

**Gwasanaeth Iechyd Meddwl a Clinigol**
Mae'r Gwasanaeth Cyfathrebu a Rhyngweithio yn cyd-weithio mewn modd cwbl integredig gyda gwasanaethau CAMHS. Mae'r modelau Gwasanaeth yn cyd-fynd gyda Llwybrau diagnostig ar gyfer asesu anhwylderau niwro-ddatblygiadol.

Mae'r **Uwch Weithiwr Iechyd Meddwl** yn cynnig gwasanaeth penodol er mwyn:

- Cymryd rhan weithredol mewn trafodaethau strategol.
- Cyfrannu i'r drafodaeth o fewn y Fforwm Ardal ADYaCh.
- Cynorthwyo'r Gwasanaeth i gyfrannu o fewn llwybrau asesu amlasiantaethol anhwylderau niwro-ddatblygiadol.

## 9. Llifsiart Strwythur Staffio




DRAFT

# Canolfannau Anhwylder Iaith Penodol

## 1. Nod

Mae'r Canolfannau Anhwylder Iaith Penodol ar gyfer nifer bach o ddisgyblion sydd ag anhwylder iaith penodol ac a fyddai'n cael budd o **gefnogaeth ddwys** am **gyfnod byr**. Ein nod o gyflwyno'r ddarpariaeth yma yw ceisio newid cadarnhaol hir dymor mewn anhwylder iaith y bobl ifanc a thrwy hyn sicrhau eu bod yn medru llwyddo'n academaidd.

## 2. Amcanion

Er mwyn cyrraedd at y nod hwn yr ydym fel gwasanaeth yn gosod yr amcanion canlynol;

- Sicrhau darpariaeth arbenigol wedi ei deilwrio ar gyfer y disgyblion ac anhwylder iaith penodol.
- Sicrhau fod disgyblion yn cael eu cyfeirio'n brydlon i'r ddarpariaeth
- Sicrhau fod safonau'r ddarpariaeth yn gyson dda.
- Sicrhau fod y ddarpariaeth wedi ei chynllunio'n ofalus ar y cyd â chyngor arbenigwyr meddygol.
- Cefnogi'r bobl ifanc yn y ffordd fwyaf effeithiol drwy gyd weithio â gweithlu ysgolion.

## 3. Mesuryddion

Mae'r Gwasanaeth Cyfathrebu a Rhyngweithio yn mesur llwyddiant y ddarpariaeth yr unedau arbenigol drwy nifer o ddangosyddion. Nodir isod ein prif ddangosyddion;

- Cynnydd yn y prif ddangosyddion ar ddiwedd cyfnodau allweddol
- Cynnydd mewn sgorau safonedig mewn Profion Safonedig Llythrennedd a Rhifedd.
- Cynnydd mewn sgorau safonedig mewn Profion Cenedlaethol.
- Datblygiad mewn sgiliau yn ôl dangosyddion asesiadau safonedig, ansafonedig a maen prawf gyfeiriol iaith, cyfathrebu a rhyngweithio gan weithwyr proffesiynnol (e.e. Seicolegydd Addysgol a/neu Glinigol, Therapydd Iaith a Lleferydd, Athro/awes Arbenigol)
- Tystiolaeth o gyffredinoli sgiliau trwy arsylwadau.

## 4. Mynediad

- Mae mynediad i'r Canolfannau yn cael ei bennu drwy'r Fforwm Ardal ADYaCh a fydd yn cyfarfod bob hanner tymor.
- Mae lleoliad o fewn y Canolfannau yn rhan o ymateb graddoledig.
- Nid oes modd i ysgolion lunio ceisiadau am leoliad yn y Canolfannau. Y Fforwm Ardal ADYaCh a fydd yn pennu mynediad yn unol ag anghenion y disgybl a'r meini prawf.
- Fel rhan o'r broses fynediad dylid ceisio caniatâd rhiant a barn y bobl ifanc, drwy ddefnyddio dulliau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.
- Mae'r Fforwm yn ystyried anghenion y disgyblion ac effaith ymyraethau ar haen 1 a haen 2. Lle bo'r anghenion a'r gofynion yn cyfarfod â'r meini prawf mae lleoliad yn cael ei ganiatáu
- Mae nifer y disgyblion o fewn unrhyw ganolfan yn cael ei gyfyngu i 12 ar unrhyw amser.
- Lleoliadau diwrnod cyfan am ddau ddiwrnod yr wythnos sydd yn cael eu cynnig.
- Nid oes disgwyl i ysgolion dalu am leoliad o fewn y canolfannau arbenigol.

## 5. Staffio

Ar unrhyw amser o fewn y Canolfannau Anhwylderau Iaith Penodol bydd Athro/awes Arbenigol Cyfathrebu a Rhyngweithio a Chymhorthydd Arbenigol. Mae hyn yn sicrhau cymhareb hael oedolyn i blentyn.

## 6. Darpariaeth

### Cwricwlwm

Yn ystod cyfnod y bobl ifanc o fewn y canolfannau maent yn dilyn y cwricwlwm craidd ond fe roddir mwy o bwyslais ar ddatblygu sgiliau dealltwriaeth, mynegiant, sgiliau prosesu iaith a chof

## 7. Materion Gweithredol

- mae rhain yn gyffredin i'r Canolfannau Anhwylderau Iaith Penodol a'r Canolfannau Cyfathrebu Cymdeithasol (gweler isod)

### Presenoldeb

Mae pob disgybl yn cael ei gofrestru ar gyfer pob sesiwn. Defnyddir yr un drefn a chodau presenoldeb ac a ddefnyddir ar draws y sectorau addysg. Bydd y bobl ifanc yn cael eu cofrestru'n fel eu bod yn cael addysg ar safle arall yn y fam ysgol.
Mae targed presenoldeb yn cael ei osod ar gyfer pob cyfnod yn y canolfannau. Mae'r targed yma'n uwch na'r canran presennol.
Rôl Athro/awes Arbenigol Cyfathrebu a Rhyngweithio fydd cysylltu â chartref y disgybl os nad yw'n bresennol ar y dyddiau penodol.

### Cynllun Cyfathrebu Unigol

Mae pob cyfnod o fewn y ganolfan ar gyfer targedu agwedd benodol o gynllun cyfathrebu unigol y disgyblion. Mae'r targedau yn cael eu llunio gan y Therapydd Iaith. Bydd y cynllun yn cael ei rannu gyda'r bobl ifanc, rhieni a'r fam ysgol ar gychwyn unrhyw gyfnod yn y ganolfan.

### Lleoliadau

Lleolir y ddarpariaeth oddi mewn i ysgolion cynradd Gwynedd ac Ynys Môn. Mae'r cyfrifoldeb o ran Iechyd a Diogelwch y safle yn gyfrifoldeb i Bennaeth yr ysgol.
Mae'r cyfrifoldeb o ran adnoddau, staffio, diogelu a rhedeg dydd i ddydd yr unedau yn gyfrifoldeb yr Uwch Seicolegydd Addysg Cyfathrebu a Rhyngweithio.

### Cludiant

Darperir cludiant nol a 'mlaen o'r canolfannau. Mae'r tacsi yn codi disgybl o'r aelwyd ac yn ei dychwelyd i'r aelwyd.

### Profion Cenedlaethol

Yn ystod cyfnod y profion cenedlaethol mae'r canolfannau'n cynnig lleoliad i'r disgyblion eistedd y profion o fewn grwpiau llai. Cyfrifoldeb yr ysgolion prif lif ydi sicrhau nad yw lleoliad o fewn y canolfannau arbenigol yn cael effaith ar berfformiad y disgyblion dan sylw.

### Diogelu

Mae trefniadau diogelu cadarn yn flaenoriaeth. Os cyfyd unrhyw bryder am ddiogelu unrhyw berson ifanc o fewn y ddarpariaeth mae'r cyfrifoldeb am gyfeirio'r achos yn disgyn ar yr Athrawon Cyfathrebu a Rhyngweithio sydd wedi derbyn y wybodaeth. Yn ogystal â chyfeirio'r pryder a chwblhau ffurflen gyfeirio'r gwasanaethau plant mae'n ofyn i'r Athrawon Cyfathrebu a Rhyngweithio rannu'r cyfeiriad â'r person dynodedig amddiffyn plant o fewn yr ysgol a'r Uwch Seicolegydd Addysgol Cyfathrebu a Rhyngweithio.

DRAFT

Cynrychiolydd y fam ysgol yn unig ddylai fynychu cyfarfodydd strategaeth a chynadleddau amddiffyn plant ar ran y gwasanaeth. Os oes angen gall y gwasanaeth ddarparu adroddiadau ysgrifenedig.
Ni all staff y canolfannau arbenigol fod yn rhan o grwpiau craidd dim ond cyfrannu adroddiadau ar gais yr ysgolion prif lif.
Mae'r ddarpariaeth yn cyflwyno adroddiad blynyddol ar ddiogelu plant o fewn yn ddarpariaeth yn unol â'r drefn ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd.

# Canolfannau Cyfathrebu Cymdeithasol

## 1. Nod

Mae'r Canolfannau Cyfathrebu Cymdeithasol ar gyfer nifer bach o ddisgyblion sydd ag anawsterau cyfathrebu cymdeithasol ac o bosib diagnosis o Anhwylder Sbectrwm Awtistiaeth ac a fyddai'n cael budd o gefnogaeth ddwys o fewn cyfundrefn addysg prif lif. Ein nod o gyflwyno'r ddarpariaeth yma ydi ceisio newid cadarnhaol hir dymor mewn sgiliau cyfathrebu cymdeithasol y bobl ifanc a thrwy hyn sicrhau eu bod yn medru llwyddo'n academaidd, gymdeithasol ac yn dod yn fwy annibynnol.

### 2. Amcanion

Er mwyn cyrraedd at y nod hwn yr ydym fel gwasanaeth yn gosod yr amcanion canlynol;

- Sicrhau cyfleoedd i blant integreiddio mewn addysg prif lif lle'n briodol.
- Sicrhau darpariaeth arbenigol wedi ei deilwrio ar gyfer y disgyblion ag anawsterau cyfathrebu cymdeithasol ac o bosib diagnosis o Anhwylder Sbectrwm Awtistiaeth.
- Sicrhau fod disgyblion yn cael eu cyfeirio'n brydlon i'r ddarpariaeth
- Sicrhau fod safonau'r ddarpariaeth yn gyson dda.
- Sicrhau fod y ddarpariaeth wedi ei chynllunio'n ofalus ar y cyd â chyngor arbenigwyr meddygol gan gynnwys Seicolegwyr Clinigol.
- Cefnogi'r bobl ifanc yn y ffordd fwyaf effeithiol drwy gyd weithio â gweithlu ysgolion.

### 3. Mesuryddion

Mae'r Gwasanaeth Cyfathrebu a Rhyngweithio yn mesur llwyddiant y ddarpariaeth y Canolfannau Cyfathrebu Cymdeithasol drwy nifer o ddangosyddion. Nodir isod ein prif ddangosyddion;

- Gostyngiad mewn gwaharddiadau penodol a pharhaol
- Cynnydd mewn canran presenoldeb
- Cynnydd yn y prif ddangosyddion ar ddiwedd cyfnodau allweddol
- Cynnydd mewn sgorau safonedig mewn Profion Safonedig Llythrennedd a Rhifedd.
- Cynnydd mewn sgorau safonedig mewn Profion Cenedlaethol.
- Datblygiad mewn sgiliau yn ôl dangosyddion asesiadau safonedig, ansafonedig a maen prawf gyfeiriol iaith, cyfathrebu a rhyngweithio gan weithwyr proffesiynnol (e.e. Seicolegydd Addysgol a/neu Glinigol, Therapydd Iaith a Lleferydd, Athro/awes Arbenigol)
- Tystiolaeth o gyffredinoli sgiliau trwy arsylwadau.

## 4. Mynediad

- Mae mynediad i'r canolfannau yn cael ei bennu drwy'r Fforwm Ardal ADYaCh a fydd yn cyfarfod bob hanner tymor.
- Mae lleoliad o fewn y canolfannau yn rhan o ymateb graddoledig.
- Nid oes modd i ysgolion lunio ceisiadau am leoliad yn y canolfannau. Y Fforwm Ardal ADYaCh a fydd yn pennu mynediad yn unol ag anghenion y disgybl a'r meini prawf.

- +Fel rhan o'r broses fynediad dylid ceisio caniatâd rhiant a barn y person ifanc.
- Mae'r Fforwm yn ystyried anghenion y disgyblion ac effaith ymyraethau ar haen 1 a haen 2. Lle bo'r anghenion a'r yn cyfarfod â'r meini prawf mae lleoliad yn cael ei ganiatáu
- Mae nifer y disgyblion o fewn unrhyw ganolfan yn cael ei gyfyngu i 6 ar unrhyw amser.
- Yn y sector gynradd cynigir lleoliadau diwrnod cyfan am ddau ddiwrnod yr wythnos.
- Yn y sector uwchradd cynigir lleoliadau llawn amser am gyfnod penodol.
- Nid oes disgwyl i ysgolion dalu am leoliad o fewn y canolfannau arbenigol.

## 5. Staffio

Bydd yr amrediad canlynol o staff yn bresennol ar unrhyw amser o fewn yr unedau arbenigol:  Athro/awes Arbenigol Cyfathrebu a Rhyngweithio, Cymhorthydd Arbenigol a Chymhorthydd dosbarth. Mae hyn yn sicrhau cymhareb hael oedolyn i blentyn.

## 6. Darpariaeth

**Cwricwlwm**
Yn ystod cyfnod y bobl ifanc o fewn y canolfannau maent yn dilyn y cwricwlwm arferol ond fe roddir mwy o bwyslais ar ddatblygu sgiliau cymdeithasol a rhyngweithiol.

DRAFT

# Meini Prawf Cyfathrebu a Rhyngweithio

### Tîm Integredig Cyfathrebu a Rhyngweithio - Mynediad

| | Cam 1 | Cam 2 a 3 |
|---|---|---|
| **Gweithredu Ysgol a Mwy** | Mae ymgynghoriad wedi cymryd lle gyda Seicolegydd Addysg ac mae argymhellion wedi eu dilyn - mae tystiolaeth o hynny (copïau o ymgynghoriadau/asesiadau) | Mae ymgynghoriad wedi cymryd lle gyda Seicolegydd Addysg ac mae argymhellion wedi eu dilyn - mae tystiolaeth o hynny (copïau o ymgynghoriadau/asesiadau) |
| **Asesiadau iaith a chyfathrebu**<br><br>**Arsylwadau o sgiliau cymdeithasol** | Gwybodaeth o Restrau gwirio penodol ** yn awgrymu oediad o ddwy flynedd neu fwy mewn sgiliau iaith a chyfathrebu<br><br>**Neu**, Gwybodaeth o asesiadau gan y Therapydd Iaith a Lleferydd yn disgrifio oediad sylweddol mewn maes/meysydd o ddatblygiad iaith a chyfathrebu<br><br>**Neu**, Gwahaniaeth arwyddocaol rhwng asesiadau safonedig a sgiliau ffwythiannol cyfathrebu/rhyngweithio.<br>**Neu,** Anawsterau sylweddol gyda sgiliau rhyngweithio a chyfathrebu cymdeithasol yn cael eu disgrifio yn glir yn y dystiolaeth, asesiadau, rhestrau gwirio ** | Gwybodaeth o Restrau gwirio penodol ** yn awgrymu oediad o fwy na dwy flynedd neu fwy mewn sgiliau iaith a chyfathrebu<br><br>**Neu**, Asesiad Therapydd Iaith a Lleferydd o fewn y 12 mis diwethaf yn adrodd bod yna anghenion cyfathrebu sydd yn is na'r 5ed canrannell ar gyfer mewnbwn ymestyn allan, 2il ganrannell ar gyfer y CAI<br><br>**Neu**, Gwahaniaeth arwyddocaol rhwng asesiadau safonedig a sgiliau ffwythiannol cyfathrebu/rhyngweithio.<br>**Neu,** Anawsterau sylweddol gyda sgiliau rhyngweithio a chyfathrebu cymdeithasol yn cael eu disgrifio yn glir yn y dystiolaeth, asesiadau asiantaethau allanol (e.e. Th. I a Ll, GSA, CAMHS), rhestrau gwirio ** |
| **Sgiliau Di-Iaith**<br><br>(CAI yn Unig) | | Mae tystiolaeth o asesiadau neu arsylwadau'r Seicolegydd Addysgol yn awgrymu fod sgiliau rhesymu di-iaith y disgybl yn addas i'w oedran. |
| **Gwahaniaethu** | Mae'r dystiolaeth yn dangos fod angen amgylchedd dysgu sydd wedi ei addasu yn sylweddol ac mae'r disgybl angen mewnbwn oedolyn i ddilyn nifer o'r cyfleoedd addysgol a gynigir. | Mae'r dystiolaeth yn dangos fod angen amgylchedd dysgu sydd wedi ei addasu yn sylweddol ac mae'r disgybl angen mewnbwn oedolyn i ddilyn nifer helaeth o'r cyfleoedd addysgol a gynigir.<br><br>**Neu**, Mae gan y plentyn fewnbwn at gymorth arall (e.e. cymhorthydd trwy ddatganiad) ond mae'r cynnydd sydd yn cael ei wneud yn gyfyngedig iawn ac yn awgrymu y byddai mewnbwn hyfforddiant/modelu gan y TI yn ddefnyddiol i deilwrio'r strategaethau a ddefnyddir o dan arweiniad yr Athro/awes Arbenigol/Therapydd Iaith a Lleferydd. *** |
| **Cynnydd dros amser** | Mae'r disgybl yn parhau i gael anawsterau sylweddol gyda chyfathrebu a rhyngweithio er gwaethaf i'r ysgol dargedu anghenion y plentyn dros gyfnod o dymor neu fwy yn defnyddio Cynllun Cyfathrebu Unigol a Chynllun Addysg Unigol/Cynllun Datblygu Unigol<br><br>Mae'r cynnydd a wneir dros dymor yn gyfyngedig iawn gyda sgiliau addysgol y plentyn yn cael ei effeithio yn sylweddol a thystiolaeth glir o hynny i'w weld yn yr asesiadau safonedig/cwricwlaidd yn yr ysgol. | Mae'r disgybl yn parhau i gael anawsterau sylweddol gyda chyfathrebu a rhyngweithio er gwaethaf i'r ysgol dargedu anghenion y plentyn dros gyfnod o Dymor neu fwy yn defnyddio Cynllun Cyfathrebu Unigol a Chynllun Addysg Unigol/Cynllun Datblygu Unigol<br><br>Mae'r cynnydd a wneir dros dymor yn gyfyngedig iawn gyda sgiliau addysgol y plentyn yn cael ei effeithio yn sylweddol a thystiolaeth glir o hynny i'w weld yn yr asesiadau safonedig/cwricwlaidd yn yr ysgol. |

*  Bydd y dystiolaeth sydd yn cael ei ddarparu gan Therapyddion Iaith a Lleferydd sydd yn gweithio gyda disgyblion iaith gyntaf Cymraeg yn ddisgrifiadol oherwydd diffyg profion safonedig Cymraeg yn y maes.

** Rhestr o'r rhestrau gwirio sydd yn dderbyniol – uwchliwio sgiliau sydd wedi eu meistroli ar y ddogfen iCan What's Typical Talk at Primary, cwblhau'r Proffil Tracio ABC ar gyfer plant yn y cyfnod sylfaen.

DRAFT

**Tîm Integredig Cyfathrebu a Rhyngweithio - Gadael**

*(D.S. Dim ond angen cyfarfod un o'r meini prawf gyda sêr)*

| Cam 1 | Cam 2 a 3 |
|---|---|
| Mae effaith yr anhawster wedi lleihau yn fawr ac mae'r plentyn yn gwneud cynnydd disgwyliedig o ran caffael a datblygu sgiliau llythrennedd a rhifedd. | Mae effaith yr anhawster wedi lleihau yn fawr ac mae'r plentyn yn gwneud cynnydd disgwyliedig o ran caffael a datblygu sgiliau llythrennedd a rhifedd. |
| Mae'r anhawster iaith o wedi cyrraedd sgôr safonedig o 85 neu uwch, >15 canrannell | Mae'r anhawster iaith o wedi cyrraedd sgôr safonedig o 85 neu uwch, >15 canrannell |
| Bellach nid yw anawsterau cyfathrebu'r person ifanc yn cael eu hystyried yn gymedrol ac ni theimlir eu bod yn effeithio'n eang ar eu gallu i ddygymod gyda'r cwricwlwm, iaith a gofynion cymdeithasol amgylchedd yr ysgol. | Bellach nid yw anawsterau cyfathrebu'r person ifanc yn cael eu hystyried yn gymedrol/difrifol ac ni theimlir eu bod yn effeithio'n eang ar eu gallu i ddygymod gyda'r cwricwlwm, iaith a gofynion cymdeithasol amgylchedd yr ysgol. |
| Mae'r plentyn wedi datblygu'n ddigonol o ran lefel y gefnogaeth sydd ei angen i wneud tasgau yn y dosbarth. Gallant wneud tasgau sydd wedi eu gwahaniaethu yn briodol gydag annibyniaeth y mwyafrif o'r amser heb gefnogaeth. | Mae'r plentyn wedi datblygu'n ddigonol o ran lefel y gefnogaeth sydd ei angen i wneud tasgau yn y dosbarth. Gallant wneud tasgau sydd wedi eu gwahaniaethu yn briodol gydag annibyniaeth y mwyafrif o'r amser heb gefnogaeth. |
| Mae'r plentyn wedi datblygu yn ddigonol o ran hyder a chymdeithasoliad. Er enghraifft, gallant gymdeithasu gyda'u cyfoedion o fewn amseroedd di-strwythur – priodol o ran oed. | Mae'r plentyn wedi datblygu yn ddigonol o ran hyder a chymdeithasoliad. Er enghraifft, gallant gymdeithasu gyda'u cyfoedion o fewn amseroedd di-strwythur – priodol o ran oed. |
| Mae'r lefel o rwystredigaeth a brofir o ganlyniad i'r anawsterau wedi lleihau yn fawr a dim ond yn effeithio ar leiafrif o'r cyfleoedd addysgol a ddarperir. | Mae'r lefel o rwystredigaeth a brofir o ganlyniad i'r anawsterau wedi lleihau yn fawr a dim ond yn effeithio ar leiafrif o'r cyfleoedd addysgol a ddarperir. |
| *** Ar sail y dystiolaeth uchod, consenswς gan y rhieni, staff a gweithwyr proffesiynol eraill fod y plentyn yn defnyddio strategau i'w alluogi i ddilyn y cwricwlwm er gwaetha'r anawsterau penodol sydd ganddynt.** | *** Ar sail y dystiolaeth uchod, consenswς gan y rhieni, staff a gweithwyr proffesiynol eraill fod y plentyn yn defnyddio strategaethau i'w alluogi i ddilyn y cwricwlwm er gwaetha'r anawsterau penodol sydd ganddynt.** |
| * Gwnaed diagnosis gwahanol o anhawster sylfaenol y plentyn/person ifanc, ac mae'r holl asiantau a gofalwyr yn cytuno fod darpariaeth/cefnogaeth arall yn fwy priodol. | * Gwnaed diagnosis gwahanol o anhawster sylfaenol y plentyn/person ifanc, ac mae'r holl asiantau a gofalwyr yn cytuno fod darpariaeth/cefnogaeth arall yn fwy priodol. |
| * Mae'r plentyn wedi bod yn cael cefnogaeth am gyfnod sylweddol (e.e. 12 mis+) ac mae tystiolaeth o brofion safonedig, asesiadau cwricwlwm a barn rhieni, staff, therapyddion iaith a lleferydd a gweithwyr proffesiynol eraill na fu llawer neu unrhyw gynnydd. | * Mae'r plentyn wedi bod yn cael cefnogaeth am gyfnod sylweddol (e.e. 12 mis+) ac mae tystiolaeth o brofion safonedig, asesiadau cwricwlwm a barn rhieni, staff, therapyddion iaith a lleferydd a gweithwyr proffesiynol eraill na fu llawer neu unrhyw gynnydd. |
| * Mae'r plentyn wedi dangos gwrthwynebiad parhaus i'r gefnogaeth a gynigir. | * Mae'r plentyn wedi dangos gwrthwynebiad parhaus i'r gefnogaeth a gynigir. |

DRAFT

## Anhwylder Sbectrwm Awtistiaeth (PLASC: ASD) ac Anawsterau Cyfathrebu a Rhyngweithio Cymdeithasol (PLASC: SLCD)

| | Gweithredu Ysgol (GY) | Gweithredu Ysgol a Mwy (GY+) |
|---|---|---|
| **Cyfrifoldeb am yr achos** | - Athro/awes dosbarth<br>- Cydlynwyr ADYaCh<br>- Pennaeth<br>- Llywodraethwyr ADY | - Athro/awes dosbarth<br>- Cydlynwyr ADYaCh<br>- Pennaeth<br>- Llywodraethwyr ADY |
| **Disgrifiad o angen** | Mae'r plentyn yn dangos oediad gyda mynegiant, dealltwriaeth, sgiliau cymdeithasol Yn sgil yr oediad mae'r plentyn yn cael trafferth gydag un neu fwy o'r canlynol sydd yn cael effaith ar gynnydd y plentyn a mynediad cwricwlaidd a cymdeithasol<br>• Gwrando a chanolbwyntio<br>• Mynegi anghenion a gwybodaeth<br>• Ymateb i sefyllfa newydd a newidiadau<br>• Dilyn cyfarwyddiadau a deall gwybodaeth<br>• Cymdeithasu a rhyngweithio yn addas | Anawsterau Sylweddol gyda:<br>• Gwrando a chanolbwyntio<br>• Mynegi anghenion a gwybodaeth<br>• Ymateb i sefyllfa newydd a newidiadau<br>• Dilyn cyfarwyddiadau a deall gwybodaeth<br>• Cymdeithasu a rhyngweithio yn addas |
| **PLASC** | • CT1<br>• GS1<br>• SR1<br>• AA1/2 | • CT1<br>• GS2<br>• SR1/2<br>• AA2/3 |
| **Math o Ymyrraeth** | • Cydweithio gyda rhieni.<br>• Cynllun Addysg Unigol/Cynllun Datblygu Unigol a strategaethau penodol yn cael eu defnyddio ar sail gwybodaeth o'r Proffiliau.<br>• Dilyn arweiniad cyffredinol gan asiantaethau perthnasol (e.e. Gwasanaeth Seicoleg Addysg, Athrawon Arbenigol, Adran Therapi Iaith a Lleferydd)<br>• Gwahaniaethu tasgau yn ôl anghenion y disgybl. Gall hyn gynnwys gwahaniaethu ar lefel sgiliau addysgol, yr iaith a ddefnyddir a'r cyfleoedd cymdeithasol sydd yn cael eu rhoi.<br>• Disgwylir fod defnydd o arbenigedd a phrofiad o weithio gydag anghenion iaith a chyfathrebu yn yr ysgol yn cael ei wneud i rannu arfer dda.<br>• **Mewnbwn rheolaidd i dargedu meysydd penodol yn unigol neu o fewn grŵp o llai na 6 bach yn defnyddio strategaethau addas.** | • Ymgynghoriad Gwasanaeth Seicoleg Addysgol efallai fydd yn arwain at gyfeiriad at y Fforwm Ardal ADYaCh am fewnbwn y Tîm Cyfathrebu a Rhyngweithio (Meini Prawf Mynediad Tîm Cyfathrebu a Rhyngweithio)<br>• Ysgol yn cyfeirio at CAMHS, Gwasanaeth Therapi Iaith a Lleferydd.<br>• Cydweithio agos gyda'r rhieni er mwyn rhannu arferion da a rhannu targedau<br>• Cynllun Addysgu Unigol yn targedu meysydd penodol a rhaglen waith wedi ei llunio ar sail yr anghenion.<br>• Mewnbwn rheolaidd o fewn darpariaeth ddatganoledig yr ysgol i dargedu meysydd penodol yn unigol neu o fewn grŵp bach llai yn defnyddio argymhellion Tîm Cyfathrebu a Rhyngweithio. |
| **Monitro** | Ysgol yn monitro dros gyfnod o Dymor | Fforwm Ardal ADYaCh |
| **Mesuryddion Cynnydd** | - Asesiadau safonedig iaith a lleferydd<br>- Deilliannau Cyfnod Sylfaen/Lefelau Cwricwlwm Cenedlaethol perthnasol<br>- Sgorau safonedig llythrennedd a rhifedd o asesiadau safonedig a Phrofion Cenedlaethol | - Asesiadau safonedig iaith a lleferydd<br>- Deilliannau Cyfnod Sylfaen/Lefelau Cwricwlwm Cenedlaethol perthnasol<br>- Sgorau safonedig llythrennedd a rhifedd o asesiadau safonedig a Phrofion Cenedlaethol |
| **Cynnydd?** **Ydy, mae cynnydd da wedi ei weld** | - Lleihau i fewnbwn arferol y dosbarth | Lleihau i GY (Meini Prawf Gadael Tîm Cyfyfathrebu a Rhyngweithio) |
| **Cynnydd?** **Ydy, mae cynnydd digonol wedi ei weld** | - Parhau gyda Gweithredu ysgol am gylch pellach | Parhau gyda Gweithredu Ysgol a Mwy am gylch pellach |
| **Cynnydd?** **Na, ychydig neu ddim cynnydd** | - caniatâd rhieni ar gyfer trafod gyda'r Seicolegydd Addysgol (Cyfeirio at y Gwasanaeth Th I a Ll) | Trafod addasu'r ddarpariaeth o fewn y Fforwm Ardal ADY aCh |

DRAFT

| | Datganiad 1 | Datganiad 2 |
|---|---|---|
| **Cyfrifoldeb am yr achos** | - Athro/awes dosbarth<br>- Cydlynwyr ADYaCh<br>- Pennaeth<br>- Llywodraethwyr ADY | - Athro/awes dosbarth<br>- Cydlynwyr ADYaCh<br>- Pennaeth<br>- Llywodraethwyr ADY |
| **Disgrifiad o angen** | Anawsterau <u>Dwys a chymhleth</u> gyda:<br>- Gwrando a chanolbwyntio<br>- Mynegi anghenion a gwybodaeth<br>- Ymateb i sefyllfa newydd a newidiadau<br>- Dilyn cyfarwyddiadau a deall gwybodaeth<br>- Cymdeithasu a rhyngweithio yn addas<br><br>Mae'r anawsterau yma yn cael effaith <u>sylweddol a pharhaus</u> ar allu'r plentyn i ymdopi a'r cwricwlwm ac i ddatblygu sgiliau cymdeithasol yn annibynnol. Mae'r plentyn yn ddibynnol ar ddulliau cyfathrebu ategol neu mae'r sgiliau cyfathrebu yn gyfyng iawn.<br>- Gall fod anawsterau dysgu cysylltiedig. | Anawsterau <u>dwys a chymhleth</u> gydag anawsterau dysgu cysylltiedig<br>• Gwrando a chanolbwyntio<br>• Mynegi anghenion a gwybodaeth<br>• Ymateb i sefyllfa newydd a newidiadau<br>• Dilyn cyfarwyddiadau a deall gwybodaeth<br>• Cymdeithasu a rhyngweithio yn addas<br><br>Mae'r anawsterau yma yn cael effaith <u>sylweddol a pharhaus</u> ar allu'r plentyn i gyfathrebu, datblygu sgiliau hunan ofal a sgiliau bywyd, datblygu sgiliau addysgol sylfaenol yn annibynnol. Mae yna anawsterau dysgu sylweddol yn bodoli.<br>- |
| **PLASC** | • CT3/4<br>• GS3<br>• SR 1, 2, 3<br>• AA3/4 | • CT4<br>• GS3/4<br>• SR1-4<br>• AA4 |
| **Math o Ymyrraeth** | • Cydweithio agos gyda rhieni.<br>• Dilyn arweiniad cyffredinol gan y Gwasanaeth Seicoleg/Tîm Cyfathrebu a Rhyngweithio ar gyfer ysgol gyfan neu unigolion o fewn yr ysgol yn ddibynnol ar angen yr ysgol.<br>• Mewnbwn gan y Tîm ASD ac Ymgynghoriad Gwasanaeth Seicoleg Addysgol<br>• Asesiad gan Seicolegydd Clinigol/ Therapydd Iaith a Lleferydd ac unrhyw asiantaethau eraill Derwen/GAP os yn berthnasol<br>• Defnydd o argymhellion asiantaethau yn cael ei wneud i fwydo'r Cynllun Datblygu Unigol a'r rhaglen waith<br>• **Mynediad at gymorth oedolyn ychwanegol mewn dosbarth neu grŵp yn y prif lif yn rheolaidd <u>am dros 15 awr yr wythnos</u> gan dargedu sgiliau penodol a dilyn argymhellion asiantaethau allanol a cefnogol.**<br>• **Oriau cefnogol ar gyfer Gofal hefyd mewn rhai achosion yn dilyn cynnal asesiad risg.** | • Cydweithio agos gyda rhieni<br>• **Mewnbwn arbenigol mewn lleoliad arbenigol gyda chymhareb oedolion i blant uchel neu gymorth unigol.**<br>• Strategaethau arbenigol cyson<br>• Mewnbwn/Asesiad gan Derwen/Gwasanaethau Arbenigol Plant<br>• Defnydd o argymhellion asiantaethau allanol yn bwydo i'r Cynllun Datblygu Unigol a'r rhaglen waith wedi ei haddasu'n sylweddol. |
| **Monitro** | Panel Traws Sirol<br>Fforwm Ardal ADYaCh | Panel Traws Sirol<br>Fforwm Mynediad Ysgol Arbennig |
| **Mesuryddion Cynnydd** | Asesiadau safonedig iaith a lleferydd<br>Deilliannau Cyfnod Sylfaen/Lefelau Cwricwlwm Cenedlaethol perthnasol<br>Sgorau safonedig llythrennedd a rhifedd o asesiadau safonedig a Phrofion Cenedlaethol<br>- (Asesiad risg : os yn berthnasol) | Asesiadau safonedig iaith a lleferydd<br>Deilliannau Cyfnod Sylfaen/Lefelau Cwricwlwm Cenedlaethol perthnasol<br>Sgorau safonedig llythrennedd a rhifedd o asesiadau safonedig a Phrofion Cenedlaethol<br>(Asesiad risg : os yn berthnasol) |

| Cynnydd? | | Datganiad 1 | Datganiad 2 |
|---|---|---|---|
| Cynnydd? | **Ydy, mae <u>cynnydd da</u> wedi ei weld** | Lleihau i GY+ gyda chymorth y Tîm Cyf. a Rhyng. neu GY+ | Trafod newid y ddarpariaeth yn y Panel Traws Sirol - ystyried lleihau i Ddatganiad 1. |
| | **Ydy, mae <u>cynnydd digonol</u> wedi ei weld** | Datganiad 1 am gylch pellach | Datganiad 2 am gylch pellach |
| | **Na, cynnydd bychan iawn neu ddim cynnydd dros amser** | Trafod yn y Fforwm Ardal ADYaCh neu'r Panel Traws Sirol pa addasiadau sydd angen ei wneud i'r ddarpariaeth | Trafod yn y Panel Traws Sirol/Fforwm Ysgol Arbennig pa addasiadau sydd angen ei wneud i'r ddarpariaeth |

DRAFT

## Anawsterau Iaith, Lleferydd a Chyfathrebu

| | Gweithredu Ysgol (GY) | Gweithredu Ysgol a Mwy (GY+) |
|---|---|---|
| **Cyfrifoldeb am yr achos** | - Athro/awes dosbarth<br>- Cydlynwyr ADYaCh<br>- Pennaeth<br>- Llywodraethwyr ADY | - Athro/awes dosbarth<br>- Cydlynwyr ADYaCh<br>- Pennaeth<br>- Llywodraethwyr ADY |
| **Disgrifiad o angen** | Mae'r plentyn yn dangos oediad gyda mynegiant iaith, dealltwriaeth iaith, prosesu a chof clywedol.<br><br>Yn sgil yr oediad mae'r plentyn yn cael trafferth gydag un neu fwy o'r sgiliau canlynol:<br>• Gwrando a chanolbwyntio<br>• Mynegi anghenion a gwybodaeth<br>• Dilyn cyfarwyddiadau a deall gwybodaeth<br>• Cymdeithasu a rhyngweithio | • Mae'r plentyn yn dangos oediad <u>sylweddol</u> gyda mynegiant a dealltwriaeth iaith ac/neu leferydd mae'r oediad yma'n cael effaith ar allu'r unigolyn i wneud cynnydd addysgol<br>• Gall fod yn ddibynnol ar ddulliau cyfathrebu eraill ategol – e.e. Makaton, PECS, Ystum<br>• Yn sgil hyn mae'r plentyn yn cael anhawster dilyn cyfarwyddiadau a chyflwyniadau torfol ac angen cyfarwyddyd unigol<br>• Yn cael anhawster mynegi anghenion sylfaenol<br>• Yn ynysig yn gymdeithasol ac yn cael trafferth cydymffurfio<br>• Yn cael anawsterau gyda sgiliau llythrennedd a dealltwriaeth testun |
| **PLASC** | • CT1<br>• GS1<br>• SR1<br>• AA1 | • CT1<br>• GS1/2<br>• SR1<br>• AA2 |
| **Math o Ymyrraeth** | • Cydweithio gyda rhieni.<br>• CAU/CDU a strategaethau penodol yn cael eu defnyddio ar sail gwybodaeth o'r Proffiliau.<br>• Dilyn arweiniad cyffredinol gan asiantaethau perthnasol (e.e. Gwasanaeth Seicoleg Addysg, Athrawon Arbenigol, Adran Therapi Iaith a Lleferydd)<br>• Gwahaniaethu tasgau yn ôl anghenion y disgybl. Gall hyn gynnwys gwahaniaethu ar lefel sgiliau addysgol, yr iaith a ddefnyddir a'r cyfleoedd cymdeithasol sydd yn cael eu rhoi.<br>• Disgwylir fod defnydd o arbenigedd a phrofiad o weithio gydag anghenion iaith a lleferydd yn yr ysgol yn cael ei wneud.<br>• **Mewnbwn i dargedu meysydd penodol yn unigol neu o fewn grŵp bach yn defnyddio strategaethau addas o fewn darpariaeth ddatganoledig yr ysgol.** | • Ymgynghoriad Gwasanaeth Seicoleg Addysgol efallai fydd yn arwain at gyfeiriad at y Fforwm Ardal ADYaCh am fewnbwn y Tîm Cyfathrebu a Rhyngweithio. (Meini Prawf Mynediad Tîm Cyfathrebu a Rhyngweithio)<br>• Ysgol yn cyfeirio at y Gwasanaeth Therapi Iaith a Lleferydd.<br>• Cydweithio agos gyda'r rhieni er mwyn rhannu arferion da a rhannu targedau<br>• Cynllun Datblygu Unigol yn targedu meysydd penodol a rhaglen waith wedi ei llunio ar sail yr anghenion.<br>• Mewnbwn rheolaidd o fewn darpariaeth ddatganoledig yr ysgol i dargedu meysydd penodol yn unigol neu o fewn grŵp bach llai yn defnyddio argymhellion Tîm Cyfathrebu a Rhyngweithio. |
| **Monitro** | Ysgol yn monitro cynnydd | Ysgol/Fforwm Ardal ADYaCh |
| **Mesuryddion Cynnydd** | - Asesiadau safonedig iaith a lleferydd<br>- Deilliannau Cyfnod Sylfaen/Lefelau Cwricwlwm Cenedlaethol perthnasol<br>- Sgorau safonedig llythrennedd a rhifedd o asesiadau safonedig a Phrofion Cenedlaethol | - Asesiadau safonedig iaith a lleferydd<br>- Deilliannau Cyfnod Sylfaen/Lefelau Cwricwlwm Cenedlaethol perthnasol<br>- Sgorau safonedig llythrennedd a rhifedd o asesiadau safonedig a Phrofion Cenedlaethol |
| **Cynnydd?** – **Ydy, mae <u>cynnydd da</u> wedi ei weld** | - Lleihau i fewnbwn arferol y dosbarth | Lleihau i GY (Meini Prawf Mynediad Tîm Cyfathrebu a Rhyngweithio) |
| **Cynnydd?** – **Ydy, mae <u>cynnydd digonol</u> wedi ei weld** | - Parhau gyda Gweithredu ysgol am gylch pellach | Parhau gyda Gweithredu Ysgol a Mwy am gylch pellach |
| **Cynnydd?** – **Na, ychydig neu ddim cynnydd** | - caniatâd rhieni ar gyfer trafod gyda'r Seicolegydd Addysgol (Cyfeirio at y Gwasanaeth Th I a Ll) | Trafod addasu'r ddarpariaeth o fewn y Fforwm Ardal ADYaCh |

DRAFT

| | Datganiad 1 | | |
|---|---|---|---|
| **Cyfrifoldeb am yr achos** | - Athro/awes dosbarth<br>- Cydlynwyr ADYaCh | | - Pennaeth<br>- Llywodraethwyr ADY |
| **Disgrifiad o angen** | Anawsterau Dwys a chymhleth gyda mynegiant a lleferydd, dealltwriaeth, sgiliau cymdeithasol<br>Mae'r anawsterau yma yn cael effaith <u>sylweddol a pharhaus</u> ar allu'r plentyn i ymdopi a'r cwricwlwm ac i ddatblygu sgiliau cymdeithasol a sgiliau bywyd yn annibynnol.<br>Yn ddibynnol ar ddulliau cyfathrebu eraill ategol - ee Makaton, PECS, Ystum<br>Gall fod ag anawsterau dysgu dwys a/neu gyflwr corfforol/meddygol | | |
| **PLASC** | • CT4<br>• GS3 | | • SR 1-4<br>• AA3 |
| **Math o Ymyrraeth** | • Asesu gan Therapydd Iaith a Lleferydd/Nyrs Ysgol neu Gymunedol/ unrhyw asiantaethau eraill os yn berthnasol<br>• CAU/CDU a rhaglen waith a chwricwlwm wedi ei <u>addasu yn sylweddol</u> yn defnyddio argymhellion asiantaethau sydd yn ymwneud.<br>• Mynediad at gymorth oedolyn ychwanegol yn <u>rheolaidd am 15 awr neu fwy'r wythnos</u>, neu dderbyn addysg o fewn grŵp bach. | | |
| **Monitro** | Panel Traws Sirol<br>Fforwm Ardal ADYaCh | | |
| **Mesuryddion Cynnydd** | Asesiadau safonedig iaith a lleferydd<br>Deilliannau Cyfnod Sylfaen/Lefelau Cwricwlwm Cenedlaethol perthnasol<br>Sgorau safonedig llythrennedd a rhifedd o asesiadau safonedig a Phrofion Cenedlaethol | | |
| **Cynnydd?** | **Ydy, mae <u>cynnydd da</u> wedi ei weld** | ← Lleihau i GY+ gyda chymorth y Tîm Cyfyfathrebu a Rhyngweithio neu GY+ | |
| | **Ydy, mae <u>cynnydd digonol</u> wedi ei weld** | Parhau gyda Datganiad am gylch pellach | |
| | **Na, cynnydd bychan iawn neu ddim cynnydd dros amser** | Trafod ynglŷn ag addasu strategaethau i hybu cynnydd pellach rhwng y rhieni, ysgol ac asiantaethau sydd yn ymwneud. → | |

DRAFT

# Anghenion Dysgu Ychwanegol Penodol ac Amhenodol (Gwybyddiaeth a Dysgu)

## Disgwyliadau Ysgol Gyfan

Mae Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn yn ystyried datblygu sgiliau sylfaenol mewn llythrennedd a rhifedd yn rhan allweddol o ddatblygiad dysgwyr. Mae'n hynod bwysig sicrhau mynediad addas i'r cwricwlwm i ddisgyblion gydag anghenion ychwanegol yn y meysydd hyn.

### 1. Beth mae Anghenion Dysgu Ychwanegol Penodol ac Amhenodol yn ei olygu?

**Mae Anghenion Dysgu Ychwanegol Penodol ac Amhenodol yn cyfeirio yn benodol at:**

- Anawsterau sylweddol mewn datblygiad sgiliau llythrennedd a/neu rifedd dros gyfnod o amser. Hyn yn cyfeirio at Anawsterau sydd y tu allan i'r amrediad cyfartalog ar gyfer oedran y plentyn.
- Mae anawsterau yn y meysydd hyn yn cael effaith ar fynediad y disgybl i'r cwricwlwm a dysgu. Mae'r anawsterau yn bodoli ar draws yr ystod gallu gwybyddol.
- Mewn rhai achosion mae'r anawsterau llythrennedd yma yn cael ei disgrifio fel Dyslecsia yn unol â diffiniad y Gymdeithas Seicoleg Brydeinig.

*"Mae Dyslecsia yn bodoli pan fo cywirdeb a llif darllen geiriau a/neu sillafu yn datblygu gydag anhawster mawr neu yn anghyflawn. Mae hyn yn ffocysu ar ddarllen ar lefel gair ac mae'n awgrymu fod y broblem yn sylweddol ac yn barhaus er gwaethaf cyfleon dysgu addas. Mae'n rhoi sail i broses dysgu fesul camau ac asesu trwy ddysgu"*

Y Gymdeithas Seicoleg Brydeinig/ The British Psychological Society (1999) Dyslexia, Literacy and Phonological Assessment: Report of a Working Party of the Division of Educational and Child Psychology of the British Psychological Society, Leicester, BPS

### 2. Cyffredinol

Mae gan bob ysgol gyfrifoldeb i greu awyrgylch gefnogol a gofalus lle y mae'n bosib i bob disgybl ddatblygu i'w llawn botensial. Er mwyn sicrhau awyrgylch sydd yn gyfeillgar i ddysgwyr gydag anawsterau llythrennedd a rhifedd **mae disgwyl i ysgolion:**

- Ystyried anawsterau gyda llythrennedd a rhifedd yn sbectrwm y mae angen cynllunio ar ei gyfer fel rhan annatod o ddarpariaeth yr ysgol.
- Sicrhau fod pob athro/awes yn cynllunio i ymateb i'r anawsterau hyn fel rhan o gwricwlwm dydd i ddydd y dosbarth.
- Fod â phrosesau sgrinio pendant yn eu lle ar gyfer adnabod disgyblion sydd yn dangos anawsterau.
- Sicrhau fod pwyslais cryf ar ddatblygu sgiliau ffonolegol ac iaith, cyn-lythrennol a chyn-rifyddol yn fuan yn y cyfnod sylfaen er mwyn lleihau risgiau ar gyfer datblygu anawsterau llythrennedd a rhifedd.
- Fod yn ymateb yn raddoledig i anghenion drwy sefydlu ymyraethau ar gyfer grwpiau o blant, neu blant unigol sydd wedi cael eu hadnabod drwy brosesau sgrinio ac asesu.
- Fod yn mesur cynnydd plant sydd yn derbyn ymyraethau er mwyn gallu dangos effeithiolrwydd yr ymyraethau.
- Defnyddio asesiadau safonol a cyfeiriol er mwyn dod i gasgliad ynglŷn â chynnydd ag ymyrraeth addas.

### 3. Nod Strategaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol Penodol ac Amhenodol Ysgolion Gwynedd ac Ynys Môn yw:

- Hyrwyddo cysondeb ac ymateb graddoledig;
- Galluogi disgyblion ag anawsterau i dderbyn y cyfle gorau i gyrraedd eu llawn botensial.
- Gwneud yn glir beth yw cyfrifoldebau'r tîm dysgu, uwch dîm rheoli a phennaeth yr ysgol;

- Hyrwyddo ethos o weithio mewn partneriaeth rhwng disgyblion, staff yr ysgol ac asiantaethau allanol.

## 4. Cyfathrebu â Chartrefi / Partneriaeth Rhieni

Mae gweithio gyda theuluoedd a sicrhau fod rhieni yn rhan o unrhyw ymyrraeth yn allweddol ar gyfer perthynas lwyddiannus ag unrhyw ddisgybl. Dylai pob ysgol yng Ngwynedd ac Ynys Môn fod yn agored i drafodaeth bob amser ac yn annog rhieni i gysylltu os oes unrhyw beth yn eu pryderu. Wrth ganmol llwyddiannau a chynnydd disgyblion mae'n allweddol i fanteisio ar y cyfle i gysylltu â rhieni.

DRAFT

# Gwasanaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol Penodol ac Amhenodol

## 1. Nod

Mae'r Gwasanaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol Penodol ac Amhenodol yn cyd-weithio ag ysgolion Gwynedd ac Ynys Môn i geisio cyfoethogi sgiliau llythrennedd a rhifedd ac ymateb yn raddoledig pan fo anawsterau yn amharu ar ddatblygiad yn y meysydd hyn.

## 2. Amcanion

Er mwyn cyrraedd at y nod hwn yr ydym fel gwasanaeth yn gosod yr amcanion canlynol;

- Rhoi ffocws clir ar ddatblygu sgiliau ysgol gyfan mewn cefnogi datblygiad llythrennedd a rhifedd ar draws yr ystod gallu, er mwyn creu awyrgylch sydd yn addas ar gyfer amrywiaeth mewn dulliau dysgu.
- Sicrhau fod prosesau a dulliau clir yn bodoli i adnabod anawsterau llythrennedd a rhifedd yn amserol.
- Sicrhau fod pob disgybl sydd â phroblemau llythrennedd a rhifedd yn derbyn ymateb graddoledig buan sydd yn cwrdd â'i anghenion.
- Sicrhau fod pob plentyn/person ifanc yn cael mynediad at gwricwlwm llawn ac addas.
- Sicrhau fod rhieni yn rhan allweddol o unrhyw ymyrraeth sydd yn cael ei gynnig.

## 3. Mesuryddion

Mae'r Gwasanaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol Penodol ac Amhenodol yn mesur llwyddiant y ddarpariaeth drwy nifer o ddangosyddion. Nodir isod ein prif ddangosyddion;

- Cynnydd yn lefel sgiliau llythrennedd a rhifedd mewn profion safonedig a phrofion cenedlaethol.
- Cynnydd yn y prif ddangosyddion sydd yn ymwneud â llythrennedd a rhifedd ar ddiwedd cyfnodau allweddol.
- Cynnydd mewn canran o weithlu ysgolion sydd â hyfforddiant cyfredol mewn strategaethau datblygu sgiliau llythrennedd a rhifedd.

## 4. Darpariaeth

Mae'r ddarpariaeth gyflwyni'r drwy'r Gwasanaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol Penodol ac Amhenodol wedi ei rannu i ddau brif gydran.

**Gweithredu Ysgol**

*Cyffredinol*

Mae pob ysgol yng Ngwynedd ac Ynys Môn yn derbyn cyllideb ddatganoledig ar gyfer a gweithredu strategaethau lefel ysgol i gefnogi pobl ifanc sydd ag anawsterau llythrennedd a/neu rifedd.

Mae'r Gwasanaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol Penodol ac Amhenodol yn cefnogi gwaith yr ysgolion drwy gyflwyno rhaglen hyfforddiant cytunedig i bob athro/awes a chymhorthydd dosbarth. Mae'r rhaglen hyfforddiant hon yn gyson ar draws yr ysgolion gyda ffocws clir ar ddilyniant cynradd uwchradd. Mae'r ffocws yn glir ar ddatblygu ymateb ysgol gyfan i anawsterau gyda sgiliau sylfaenol llythrennedd a rhifedd.

Mae'r rhaglen hyfforddiant yn cael ei adolygu bob 5 mlynedd a dim ond ymyraethau sydd â thystiolaeth o fod yn effeithiol sydd yn cael eu cymeradwyo. Bydd y rhan helaeth o'r hyfforddiant yn cael ei gyflwyno gan y Seicolegwyr Addysgol a'r Athrawon Arbenigol Anghenion Dysgu Ychwanegol Penodol ac Amhenodol. Bydd yna adnoddau parod ar gael o fewn y Llyfrgell Adnoddau.

**Gweithredu Ysgol a Mwy**
*Arbenigol*

Gall pob ysgol yng Ngwynedd ac Ynys Môn gyfeirio disgyblion sydd yn parhau i gael anawsterau sylweddol, er gwaethaf i'r ysgol ddarparu cyfleoedd addas dysgu, i sylw'r Fforwm Ardal ADYaCh. Dylid gwneud hyn yn unol â'r Meini Prawf drwy ddilyn y drefn gytunedig. Fel rhan o'r ddarpariaeth gall ysgol dderbyn cefnogaeth arbenigol o fewn hanner tymor. Cynllunnir y gefnogaeth arbenigol drwy arweiniad strategol yr Uwch Seicolegydd Anghenion Dysgu Ychwanegol Penodol ac Amhenodol. Bydd y gwaith o fodelu, monitro a chyd-weithredu'r strategaethau dan arweiniad ein Hathrawon Arbenigol. Mae effeithiolrwydd y strategaethau arbenigol yn cael eu mesur ac adroddir yn ôl i'r Fforwm ar gynnydd yr unigolyn. Lle nad oes tystiolaeth o gynnydd mae'r gefnogaeth yn cael ei adolygu. Mae'r gefnogaeth Arbenigol yn dilyn camau penodol.

## 5. Strwythur Staffio

### Uwch Seicolegydd Addysg Anghenion Dysgu Ychwanegol Penodol ac Amhenodol

Bydd pob Seicolegydd Addysgol yn ymwneud â hybu ysgolion i fod yn awyrgylch cynhwysol i blant gydag anawsterau dysgu ychwanegol mewn llythrennedd a rhifedd. Mae'r Uwch Seicolegydd Addysg Anghenion Dysgu Ychwanegol Penodol ac Amhenodol yn gyfrifol am gynllunio strategol a sicrhau ansawdd y ddarpariaeth ar lefel ysgol a thu hwnt.

Amlygir isod brif swyddogaethau'r Uwch Seicolegydd Addysg Anghenion Dysgu Ychwanegol Penodol ac Amhenodol:

- Ymchwilio i'r strategaethau mwyaf effeithiol ar gyfer sicrhau awyrgylch gyfeillgar a chynhwysol.
- Gosod arweiniad strategol i'r gwasanaeth
- Llunio rhaglen hyfforddiant 5 mlynedd ar gyfer staff ysgolion Gwynedd ac Ynys Môn.
- Llunio rhaglen hyfforddiant blynyddol i staff y gwasanaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol Penodol ac Amhenodol a Seicolegwyr Addysg.
- Cysoni ymarfer Seicolegwyr Addysg ar draws Gwynedd ac Ynys Môn yn y maes anawsterau llythrennedd a rhifedd.
- Arsylwi a theilwrio i ymyraethau effeithiol i'w gweithredu ar lefel ysgol.
- Sicrhau fod y Fforwm Ardal ADYaCh yn gweithredu yn unol â'r Meini Prawf.

### Athrawon Arbenigol Anghenion Dysgu Ychwanegol Penodol ac Amhenodol

- Cynorthwyo gwaith yr Uwch Seicolegydd Addysgol Anghenion Dysgu Ychwanegol Penodol ac Amhenodol o ran hyfforddi ac uwch sgilio staff mewn ysgolion.
- Cynhyrchu adnoddau parod ar ffurf pecynnau gwaith i gefnogi addysgu disgyblion ag anawsterau llythrennedd a rhifedd er mwyn ffurfio banc o adnoddau electroneg ar gyfer ysgolion.
- Arsylwi ar lawr dosbarth gan amlygu cryfderau a meysydd i'w gwella, a dulliau dosbarth cyfan.
- Modelu arfer dda drwy weithio yn uniongyrchol gyda disgyblion ar y cyd a staff yr ysgol.
- Hybu defnydd yr hyn a gyflwynwyd ac a fodelwyd fel technegau ymyrraeth yn weithredol ar lawr dosbarth.
- Rheoli Cymorthyddion Arbenigol Anghenion Dysgu Ychwanegol Penodol ac Amhenodol fydd yn cefnogi'r disgyblion a'r athrawon.
- Cyd-weithio gyda'r Uwch Seicolegydd Addysg Anghenion Dysgu Ychwanegol Penodol ac Amhenodol i ddatblygu sail tystiolaeth yn y maes trwy prosiectau ymchwiliol.
- Darparu gwasanaeth asesu ar gyfer Amgylchiadau Arbennig Arholiadau ar gyfer Ysgolion Uwchradd yn ôl trefniadau'r Awdurdodau Lleol.

**Cymorthyddion Arbenigol Anghenion Dysgu Ychwanegol Penodol ac Amhenodol**

Mae’r Cymorthyddion Arbenigol Anghenion Dysgu Ychwanegol Penodol ac Amhenodol yn gweithio o dan arweiniad yr Athrawon Arbenigol Anghenion Dysgu Ychwanegol Penodol ac Amhenodol i weithredu argymhellion Seicolegwyr Addysgol o fewn ysgolion. Bydd ffocws clir ar hybu datblygiad sgiliau o fewn yr ysgolion a chefnogi rhieni trwy:


- Gyflwyno pecynnau ymyrraeth i gefnogi addysgu disgyblion ag anawsterau llythrennedd a rhifedd.
- Gefnogi rhieni i ymateb yn well i anghenion eu plant yn y maes hwn.
- Arsylwi gwersi neu sesiynau grŵp gan gynghori cymorthyddion ar ddulliau gwahanol o gefnogi unigolion.
- Modelu technegau cefnogi a dulliau ymyrraeth ar lawr dosbarth neu mewn grwpiau targedu.
- Hybu defnydd yr hyn a gyflwynwyd ac a fodelwyd fel technegau dysgu yn weithredol ar lawr dosbarth ac ar yr aelwyd.
- Cynnig cyfnod penodol o waith efo disgyblion unigol/grŵp bach

## 6. Hyfforddiant

Mae’r Gwasanaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol Penodol ac Amhenodol yn cefnogi gwaith yr ysgolion drwy gyflwyno rhaglen hyfforddiant cytunedig i bob athro/awes a chymhorthydd dosbarth. Mae’r rhaglen hyfforddiant hon yn gyson ar draws yr ysgolion gyda ffocws clir ar ddilyniant cynradd uwchradd.

Mae’r rhaglen hyfforddiant yn cael ei adolygu bob 5 mlynedd a dim ond ymyraethau sydd â thystiolaeth o fod yn effeithiol sydd yn cael ei chymeradwyo.
Mae banc o adnoddau parod ar gael o fewn y Llyfrgell Adnoddau a bydd yn cael ei ddiweddaru’n rheolaidd.

## 7. Llifsiart Strwythur Staffio




**Prifysgol Bangor**

Mae gwasanaeth yn cyfarfod yn rheolaidd â chynrychiolwyr o’r Brifysgol. Maent yn dylanwadu a chyfrannu tuag at raglen hyfforddiant y Gwasanaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol Penodol ac Amhenodol ac yn ymwybodol o gyfeiriadau strategol Gwynedd a Môn.

DRAFT

# Meini Prawf Anghenion Dysgu Ychwanegol Penodol ac Amhenodol

## Grid Meini Prawf Mynediad Gwasanaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol Penodol ac Amhenodol

| Meini Prawf |
|---|
| **Mae ymgynghoriad wedi cymryd lle gyda'r Seicolegydd Addysgol ac mae'r argymhellion wedi cael eu dilyn - mae tystiolaeth o hynny**. |
| **Mae sgorau safonedig darllen, sillafu neu Fathemateg y disgybl yn 70 neu is mewn asesiadau ffurfiol (os yw'r plentyn o fewn yr amrediad oedran addas i wneud y prawf)**<br>Profion sydd yn cael eu hystyried:<br>Prawf Glannau Menai<br>Prawf Neale's Analysis of Reading Ability II<br>Young's Parallel Spelling<br>Profion Cenedlaethol Llythrennedd a Rhifedd |
| Tystiolaeth o wahaniaeth o leiaf dwy lefel o rhwng meysydd craidd Deilliannau'r Cyfnod Sylfaen neu'r Cwricwlwm Cenedlaethol. |
| Tystiolaeth o wahaniaeth o ddwy lefel neu fwy rhwng sgiliau llafar a gwaith ysgrifenedig, yn defnyddio Deilliannau'r Cyfnod Sylfaen neu Lefelau Craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol. |
| Tystiolaeth fod cynnydd dros amser yn gyfyngedig iawn yn ôl asesiadau'r ysgol dros amser sydd yn golygu fod effaith sylweddol ar fynediad y disgybl i'r cwricwlwm mewn rhai meysydd. |
| Mae tystiolaeth o'r ddau Gynllun Addysg Unigol / Gynllun Datblygu Unigol ddiwethaf fod cynnydd y disgybl yn cael ei effeithio yn sylweddol gan yr anawsterau, er gwaethaf y mewnbwn sydd wedi ei roi gan yr ysgol ar Weithredu ysgol/Gweithredu Ysgol a Mwy. |

*Bydd y mewnbwn sydd yn cael ei roi yn cael ei roi yn famiaith y plentyn yn y lle cyntaf gan ystyried mewnbwn yn ail - iaith y plentyn pan fydd y Cynllun Addysg Unigol / Cynllun Datblygu Unigol yn cael ei adolygu gyntaf ar ôl i'r mewnbwn gael ei gychwyn.*
*Bydd y mewnbwn sydd yn cael ei gynnig i blant sydd yn y Cyfnod Sylfaen yn cael ei adolygu yn fwy aml oherwydd natur y cwricwlwm ac oedran y plant.*

DRAFT

## Grid Meini Prawf Gadael y Gwasanaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol Penodol ac Amhenodol

*(Un o'r Meini Prawf isod sydd angen ei fodloni i gyrraedd meini prawf gadael y gwasanaeth)*

| Meini Prawf |
|---|
| Sgorau safonedig ar gyfer Darllen, Sillafu neu Fathemateg yn 80 neu uwch ac felly o fewn lefel i gael eu cefnogi o fewn darpariaeth yr ysgol ar Weithredu Ysgol/ Gweithredu Ysgol a Mwy. |
| Tystiolaeth o wahaniaeth rhwng lefelau'r cwricwlwm wedi lleihau i un neu lai o wahaniaeth mewn lefel Cwricwlwm Cenedlaethol neu ddeilliant y Cyfnod Sylfaen. |
| Tystiolaeth fod lleihad yn y gwahaniaeth rhwng sgiliau llafar ac ysgrifenedig yn defnyddio Deilliannau'r Cyfnod Sylfaen neu Lefelau'r Cwricwlwm Cenedlaethol. |
| Tystiolaeth fod yr anhawster llythrennedd neu rifedd yn cael llai o effaith ar gynnydd ar draws y cwricwlwm. |
| Mae'r anawsterau yn achosi llai o rwystredigaeth i'r disgybl ac yn cael effaith ar gyfleoedd cyfyngedig cwricwlaidd yn unig. |
| *** Yn ôl y dystiolaeth uchod mae'r rhieni, staff a gweithwyr proffesiynol eraill yn cytuno fod y plentyn yn defnyddio strategaethau i'w g/alluogi i gael mynediad i'r cwricwlwm er gwaethaf anawsterau.** |
| * Mae'r disgybl wedi bod yn derbyn cymorth am 12 mis neu fwy ac mae'r dystiolaeth yn dangos nad oes cynnydd i'w weld. |
| * Mae'r disgybl yn ymateb yn negyddol i'r cymorth sydd yn cael ei gynnig yn barhaus. |

DRAFT

## Anawsterau Llythrennedd a Dyslecsia (Dysl)

| | Gweithredu Ysgol (GY) | Gweithredu Ysgol a Mwy (GY+) |
|---|---|---|
| **Cyfrifoldeb am yr achos** | - Athro/awes dosbarth<br>- Cydlynwyr ADYaCh<br>- Pennaeth<br>- Llywodraethwyr ADY | - Athro/awes dosbarth<br>- Cydlynwyr ADYaCh<br>- Pennaeth<br>- Llywodraethwyr ADY |
| **Disgrifiad o angen** | Yn dangos oediad gyda llythrennedd ac yn sgorio sgôr safonedig is na 85 ar brofion safonedig darllen a/neu sillafu<br>Angen tasgau gwahaniaethol ar gyfer pob tasg yn ymwneud â llythrennedd ac yn cael trafferthion canolbwyntio a gweithio yn annibynnol heb y ddarpariaeth yma.<br>Gweithredu ar lefel llythrennedd sydd yn is na'r disgwyl. | Wedi cael mewnbwn GY ond heb wneud cynnydd.<br>Yn dangos oediad gyda llythrennedd ac yn sgorio yn is na sgôr safonedig o 80 ar brofion safonedig darllen a/neu sillafu<br>Yn cael trafferthion ymdopi gyda thasgau llythrennedd gwahaniaethol o fewn y dosbarth y <u>rhan fwyaf o'r amser</u>. |
| **PLASC** | • CT1<br>• GS1<br>• SR1<br>• AA1 | • CT1<br>• GS1<br>• SR1,2<br>• AA1 |
| **Math o Ymyrraeth** | • <u>Cydweithio</u> gyda rhieni<br>• Cynllun Addysg Unigol/ CDU a strategaethau penodol yn cael eu defnyddio ar sail gwybodaeth o'r Proffiliau.<br>• Dilyn arweiniad cyffredinol asiantaethau (e.e. Gwasanaeth Seicoleg Addysgol/Athro/awes Arbenigol)<br>• Cynllunio a gwahaniaethu tasgau llythrennedd o fewn y dosbarth er enghraifft defnydd o weithgareddau aml-synhwyrol, targedu sgiliau penodol i gyfarfod a thargedau'r Cynllun Addysg Unigol/CDU.<br>• Mewnbwn <u>rheolaidd</u> ar gyfer darllen a/neu sillafu a/neu lawysgrifen o fewn darpariaeth ddatganoledig yr ysgol. | • <u>Cydweithio</u> gyda rhieni<br>• Cynllun Addysg Unigol/ CDU a strategaethau penodol yn cael eu defnyddio ar sail ymgynghoriad gyda Seicolegydd Addysgol ac o bosib cyfeirio am fewnbwn y Gwasanaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol Penodol ac Amhenodol (gweler Grid Meini Prawf Mynediad a Gadael).<br>• Cynllunio a gwahaniaethu tasgau llythrennedd o fewn y dosbarth er enghraifft defnydd o weithgareddau aml-synhwyrol, targedu sgiliau penodol i gyfarfod a thargedau'r Cynllun Addysg Unigol/CDU.<br>• **Mewnbwn <u>rheolaidd</u>**, yn defnyddio rhaglen benodol ar gyfer darllen a/neu sillafu a/neu lawysgrifen o fewn darpariaeth ddatganoledig yr ysgol. |
| **Monitro** | Ysgol | Ysgol/Fforwm Ardal ADYaCh |
| **Mesuryddion Cynnydd** | - Lefel sgiliau Darllen a/neu Sillafu mewn profion safonedig.<br>- Lefel sgorau safonedig Darllen.<br>- Cynnydd yn y prif ddangosyddion sydd yn ymwneud â Llythrennedd ar ddiwedd cyfnodau allweddol | Lefel sgiliau Darllen a/neu Sillafu mewn profion safonedig.<br>Lefel sgorau safonedig Darllen.<br>Cynnydd yn y prif ddangosyddion sydd yn ymwneud â Llythrennedd ar ddiwedd cyfnodau allweddol |
| **Cynnydd?** **Ydy, mae <u>cynnydd da</u> wedi ei weld** | - Mae'r sgorau yn uwch na 85 →<br>Symud i lawr i ymyrraeth Gynnar | Mae'r sgorau yn uwch na 80 neu yn dangos cynnydd<br>Symud lawr i GY |
| **Ydy, mae <u>cynnydd digonol</u> wedi cymryd lle ond ...** | mae'r sgorau safonedig yn parhau yn is na 80 neu wedi parhau o dan 85<br><br>Parhau ar GY am gylch pellach | mae'r sgorau safonedig yn parhau yn is na 80 ond yn uwch na 70 neu mae disgybl yn parhau i fod angen cefnogaeth/gwahaniaethu <u>y rhan fwyaf o'r amser:</u><br>Trafod yn y Fforwm Ardal ADYaCh<br>Parhau ar GY+ |
| **Na, ychydig neu ddim cynnydd wedi ei weld:** | sgôr safonedig yn parhau o dan 80 neu wedi parhau o dan 85 dros ddau neu fwy o gyfnodau monitro GY<br>Caniatâd rhieni i drafod gyda Seicolegydd Addysgol | Mae'r sgorau yn parhau ar 70 neu is er gwaethaf y mewnbwn, dros ddau gylch ar GY+<br><br>Trafod addasu'r mewnbwn yn y Fforwm Ardal ADYaCh. |

DRAFT

## Anawsterau Rhifedd a Dyscalculia (Dysl)

| | Gweithredu Ysgol (GY) | | Gweithredu Ysgol a Mwy (GY+) | |
|---|---|---|---|---|
| **Cyfrifoldeb am yr achos** | - Athro/awes dosbarth<br>- Cydlynwyr ADYaCh | - Pennaeth<br>- Llywodraethwyr ADY | - Athro/awes dosbarth<br>- Cydlynwyr ADYaCh | - Pennaeth<br>- Llywodraethwyr ADY |
| **Disgrifiad o angen** | • Yn dangos oediad gyda Rhifedd ac yn sgorio sgôr safonedig is na 85 ar brofion safonedig rhifedd a/neu fathemateg<br>• Angen tasgau gwahaniaethol ar gyfer pob tasg yn ymwneud â Rhifedd ac yn cael trafferthion canolbwyntio a gweithio yn annibynnol heb y ddarpariaeth yma.<br>• Gweithredu ar lefel Rhifedd a Mathemateg sydd yn is na'r disgwyl. | | • Wedi cael mewnbwn GY ond heb wneud cynnydd.<br>• Yn dangos oediad gyda Rhifedd ac yn sgorio yn is na sgôr safonedig o 80 ar brofion safonedig darllen a/neu sillafu<br>• Yn cael trafferthion ymdopi gyda thasgau Rhifedd gwahaniaethol o fewn y dosbarth y <u>rhan fwyaf o'r amser</u>. | |
| **PLASC** | • CT1<br>• GS1 | • SR1<br>• AA1 | • CT1<br>• GS1 | • SR1, 2<br>• AA1 |
| **Math o Ymyrraeth** | • <u>Cydweithio</u> gyda rhieni<br>• Cynllun Addysg Unigol/ CDU a strategaethau penodol yn cael eu defnyddio ar sail gwybodaeth o'r Proffiliau.<br>• Dilyn arweiniad cyffredinol asiantaethau (e.e. Gwasanaeth Seicoleg Addysgol/Athro/awes Arbenigol)<br>• Cynllunio a gwahaniaethu tasgau Rhifedd o fewn y dosbarth er enghraifft defnydd o weithgareddau aml-synhwyrol, targedu sgiliau penodol i gyfarfod a thargedau'r Cynllun Addysg Unigol/ CDU.<br>• Mewnbwn <u>rheolaidd</u> ar gyfer rhifedd o fewn darpariaeth ddatganoledig yr ysgol. | | • <u>Cydweithio</u> gyda rhieni<br>• Cynllun Addysg Unigol/ CDU a strategaethau penodol yn cael eu defnyddio ar sail ymgynghoriad gyda Seicolegydd Addysgol ac o bosib cyfeirio am fewnbwn y Anghenion Dysgu Ychwanegol Penodol ac Amhenodol (gweler Grid Meini Prawf Mynediad a Gadael).<br>• Cynllunio a gwahaniaethu tasgau Rhifedd o fewn y dosbarth er enghraifft defnydd o weithgareddau aml-synhwyrol, targedu sgiliau penodol i gyfarfod a thargedau'r Cynllun Addysg Unigol/ CDU.<br>• **Mewnbwn <u>rheolaidd</u>**, yn defnyddio rhaglen benodol ar gyfer rhifedd o fewn darpariaeth ddatganoledig yr ysgol. | |
| **Monitro** | Ysgol | | Ysgol/Fforwm Ardal ADYaCh | |
| **Mesuryddion Cynnydd** | - Lefel sgiliau Rhifedd mewn profion safonedig (e.e. Basic Number Screening).<br>- Lefel sgorau safonedig Profion Cenedlaethol Rhif Gweithdrefnol a Rhif Rhesymegol.<br>- Cynnydd yn y prif ddangosyddion sydd yn ymwneud â Rhifedd ar ddiwedd cyfnodau allweddol | | - Lefel sgiliau Rhifedd mewn profion safonedig (e.e. Basic Number Screening).<br>- Lefel sgorau safonedig Profion Cenedlaethol Rhif Gweithdrefnol a Rhif Rhesymegol.<br>- Cynnydd yn y prif ddangosyddion sydd yn ymwneud â Rhifedd ar ddiwedd cyfnodau allweddol | |
| **Cynnydd?** | **Ydy, mae <u>cynnydd da</u> wedi ei weld** | - Mae'r sgorau yn uwch na 85<br>- Symud i lawr i Ymyrraeth Gynnar | mae'r sgorau yn uwch na 80 neu yn dangos cynnydd<br>Symud lawr i GY | |
| | **Ydy, mae <u>cynnydd digonol</u> wedi cymryd lle, ond...** | - Mae'r sgorau safonedig yn parhau yn is na 80 neu wedi parhau o dan 85<br>- Parhau ar GY am gylch pellach | Mae'r sgorau safonedig yn parhau yn is na 80 ond yn uwch na 70 neu mae disgybl yn parhau i fod angen cefnogaeth/gwahaniaethu <u>y rhan fwyaf o'r amser:</u><br>Trafod yn y Fforwm Ardal ADYaCh<br>Parhau ar GY+ | |
| | **Na, ychydig neu ddim cynnydd wedi ei weld:** | - Sgôr safonedig yn parhau o dan 80 neu wedi parhau o dan 85 dros ddau neu fwy o gyfnodau monitro GY<br>- Caniatâd rhieni i drafod gyda Seicolegydd Addysgol. | Mae'r sgorau yn parhau ar 70 neu is er gwaethaf y mewnbwn, dros ddau gylch ar GY+<br>Trafod addasu'r mewnbwn yn y Fforwm Ardal ADYaCh | |

DRAFT

# Nam Synhwyraidd

## Disgwyliadau Ysgol Gyfan

Mae Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn yn ystyried goresgyn unrhyw rwystr sy'n bodoli i ddisgybl gyda Nam Synhwyraidd gael mynediad llawn i'r cwricwlwm yn hanfodol. Mae ysgolion yn amgylchedd cynhwysol a chroesawgar i unrhyw unigolyn gyda nam synhwyraidd.

### 1. Beth a olygir gan Nam Synhwyraidd

Mae anawsterau dysgu o fewn y maes Nam Synhwyraidd yn cyfeirio yn benodol at:

- Nam Golwg: Disgyblion sydd yn gofrestredig ddall neu rannol ddall.
- Nam Clyw: Disgyblion sydd â Nam Clyw wedi ei adnabod gan Adran Awdioleg y Bwrdd Iechyd.
- Nam Aml Synhwyraidd: Disgyblion sydd â chyfuniad o Nam Golwg a Nam Clyw.
- Mae'r anawsterau yma yn cael effaith negyddol ar allu'r disgybl i gael mynediad at y Cwricwlwm heb addasiadau sylweddol.

### 2. Cyffredinol

Mae gan bob ysgol gyfrifoldeb i greu awyrgylch diogel a gofalus lle y mae'n bosib i bob disgybl ddatblygu'n hapus a hyderus. Er mwyn sicrhau awyrgylch sydd yn gyfeillgar i ddysgwyr gyda nam ar y synhwyrau mae disgwyl i ysgolion:

- Sicrhau fod unrhyw risgiau yn cael eu targedu.
- Sicrhau fod yr awyrgylch dysgu a cymdeithasol yn gynhwysol a chroesawgar.
- Fod yn ymateb yn raddoledig i anghenion drwy gymryd i ystyriaeth unrhyw gyngor arbenigol rhesymol sydd yn cael ei ddarparu.
- Fod yn mesur cynnydd plant/pobl ifanc sydd yn derbyn ymyraethau er mwyn gallu dangos effeithiolrwydd yr ymyraethau.
- Defnyddio asesiadau safonol a cyfeiriol er mwyn dod i gasgliad ynglŷn â chynnydd ag ymyrraeth addas.

### 3. Nod Strategaeth Nam Synhwyraidd Ysgolion Gwynedd ac Ynys Môn yw:

Cyd-weithio gyda rhieni, ysgolion a gweithwyr proffesiynol eraill i sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc sydd â Nam Synhwyraidd yn:

- Cael cyfle cyfartal.
- Derbyn eu haddysg ochr yn ochr â'u cyfoedion mewn ysgolion a chymunedau lleol.
- Datblygu sgiliau angenrheidiol arbenigol.
- Cyflawni eu potensial a datblygu i fod yn ddysgwyr annibynnol.
- Darparu gwasanaeth chwaethus wedi ei deilwrio i blant a phobl ifanc y ddwy Sir drwy ddilyn safonau ansawdd cenedlaethol NatSIP (National Sensory Impairment Partnership).
- Hyrwyddo cynhwysiad addysgol, cymdeithasol a lles disgyblion Nam Synhwyraidd o 0 i 25 oed.
- Cyd-weithio gyda rhieni ac ysgolion i godi ymwybyddiaeth ynglŷn â threfniadau cyfeirio at asiantaethau a gwasanaethau perthnasol.

### 4. Cyfathrebu â Chartrefi / Partneriaeth Rhieni

Mae gweithio gyda theuluoedd a sicrhau cydweithrediad rhieni yn allweddol ar gyfer perthynas lwyddiannus ag unrhyw ddisgybl. Dylai pob ysgol yng Ngwynedd ac Ynys Môn fod yn agored i drafodaeth bob amser ac yn annog rhieni i gysylltu os oes unrhyw beth yn eu pryderu. Wrth ganmol llwyddiannau a chynnydd disgyblion mae'n allweddol i fanteisio ar y cyfle i gysylltu â rhieni.

DRAFT

# Gwasanaeth Nam Synhwyraidd

## 1. Nod

Mae'r Nam Synhwyraidd yn cyd-weithio ag ysgolion Gwynedd ac Ynys Môn i sicrhau fod plant a phobl ifanc gyda Nam Synhwyraidd yn cael mynediad llawn i'r cwricwlwm a'r amgylchedd dysgu er mwyn lleihau effaith y Nam ar gynnydd holistaidd ac academaidd y disgyblion.

## 2. Amcanion

Er mwyn cyrraedd at y nod hwn yr ydym fel gwasanaeth yn gosod yr amcanion canlynol;

- Sicrhau fod staff allweddol o fewn ysgolion yn meddu'r sgiliau ac adnoddau priodol wrth weithio gyda disgybl gyda nam synhwyraidd.
- Darparu gwasanaeth strwythuredig sydd yn diwallu anghenion disgyblion Nam Synhwyraidd o 0 i 25 oed mewn darpariaeth blynyddoedd cynnar, ysgolion cynradd, uwchradd ac ysgolion arbennig, gan sicrhau eu bod yn cyrraedd eu llawn botensial.
- Cynnig amrywiaeth o gymorth, darpariaeth ac adnoddau addas i ddiwallu'r anghenion unigol, sydd yn cyd-fynd â gofynion National Sensory Impairment Partnership (NatSIP).
- Cyflwyno a monitro datblygiad Cwricwlwm Arbenigol ymysg disgyblion Nam Synhwyraidd a sicrhau datblygiad cadarn o'r sgiliau angenrheidiol.
- Sicrhau fod rhieni yn rhan allweddol o unrhyw ymyrraeth sydd yn cael ei gynnig.
- Cyd weithio ag asiantaethau allanol i sicrhau ymateb graddoledig i gefnogi'r disgyblion.
- Meithrin gwybodaeth a sgiliau arbenigol y Tîm Nam Synhwyraidd er mwyn cynnal y lefelau arbenigedd sydd yn ofynnol i gefnogi a diwallu anghenion dwys a chymhleth y disgyblion.

## 3. Mesuryddion

Mae'r Gwasanaeth Nam Synhwyraidd yn mesur llwyddiant y ddarpariaeth drwy nifer o ddangosyddion. Nodir isod ein prif ddangosyddion;

- Cynnydd mewn sgorau safonedig llythrennedd a rhifedd.
- Cynnydd mewn deilliannau neu lefelau Cwricwlwm Cenedlaethol.
- Tystiolaeth o sefydlogrwydd neu gynnydd yng ngallu'r disgybl i gael mynediad i'r cwricwlwm.

## 4. Darpariaeth

Mae'r ddarpariaeth gyflwyni'r drwy'r Gwasanaeth Nam Synhwyraidd wedi ei rannu i ddau brif gydran.

**Gweithredu Ysgol**
*Cyffredinol*

Mae pob ysgol yng Ngwynedd ac Ynys Môn yn derbyn cyllideb ddatganoledig ar gyfer gweithredu strategaethau lefel ysgol i gefnogi pobl ifanc sydd ag anawsterau synhwyraidd.

Mae'r Gwasanaeth Nam Synhwyraidd yn cefnogi gwaith yr ysgolion drwy gyflwyno rhaglen hyfforddiant cytunedig i bob athro/awes a chymhorthydd dosbarth. Mae'r rhaglen hyfforddiant hon yn gyson ar draws yr ysgolion gyda ffocws clir ar ddilyniant cynradd uwchradd.

Mae'r rhaglen hyfforddiant yn cael ei adolygu bob 5 mlynedd a dim ond ymyraethau sydd â thystiolaeth o fod yn effeithiol sydd yn cael eu cymeradwyo. Bydd y rhan helaeth o'r hyfforddiant yn cael ei gyflwyno gan yr Athrawon Nam Synhwyraidd gyda mewnbwn y Seicolegwyr Addysgol pan yn briodol.

DRAFT

**Gweithredu Ysgol a Mwy**
*Arbenigol*

Pan fo disgybl yn cael ei adnabod â Nam Clyw neu Nam Golwg, fe fydd gofyn i'r adran berthnasol o'r Ysbyty hysbysu'r Gwasanaeth Nam Synhwyraidd. Bydd y cyfeiriadau yn cael eu hystyried, yn unol â Meini Prawf mynediad y Gwasanaeth, gan y Fforwm Ardal ADYaCh. Mewn rhai achosion bydd y Fforwm yn cyfeirio'r Panel Traws Sirol i ystyried yr achos. Mae effeithiolrwydd y strategaethau arbenigol yn cael eu mesur ac adroddir yn ôl i'r Fforwm ar gynnydd yr unigolyn. Lle nad oes tystiolaeth o gynnydd mae'r gefnogaeth yn cael ei adolygu. Mae'r gefnogaeth Arbenigol yn dilyn camau penodol.

## 5. Strwythur Staffio

### Uwch Seicolegydd Addysg Nam Synhwyraidd

Bydd pob Seicolegydd Addysgol yn ymwneud â hybu ysgolion i fod yn awyrgylch cynhwysol i blant gyda Nam Synhwyraidd. Bydd yr Uwch Seicolegydd Addysg Nam Synhwyraidd yn gyfrifol am gynllunio strategol a sicrhau ansawdd y ddarpariaeth ar lefel ysgol a thu hwnt.

Amlygir isod brif swyddogaethau'r Uwch Seicolegydd Addysg Nam Synhwyraidd
- Cyd-weithio gyda'r Athrawon Arbenigol Nam Synhwyraidd i ymchwilio i'r strategaethau mwyaf effeithiol ar gyfer sicrhau awyrgylch gyfeillgar a chynhwysol.
- Cyd-gynllunio rhaglen hyfforddiant 5 mlynedd gyda'r Athrawon Arbenigol Nam Synhwyraidd ar gyfer staff ysgolion Gwynedd ac Ynys Môn.
- Cyd-gynllunio rhaglen hyfforddiant blynyddol i staff y gwasanaeth Nam Synhwyraidd a Seicolegwyr Addysg.
- Cysoni ymarfer Seicolegwyr Addysg ar draws Gwynedd ac Ynys Môn yn y maes Nam Synhwyraidd.
- Sicrhau fod y Fforwm Ardal ADYaCh yn gweithredu yn unol â'r Meini Prawf.

# Gwasanaeth Nam Golwg

### Athrawon Arbenigol Nam Golwg (QTVI)

Mae'r athrawon yn ymestyn ar draws y cyfnodau allweddol gan sicrhau'r gynhaliaeth fwyaf cyson i'r disgyblion gyda sylw penodol ar fynediad cwricwlaidd y disgyblion. Bydd yr athrawon yn treulio cyfnodau estynedig mewn lleoliadau addysgol yn arsylwi, modelu a monitro er mwyn:

- Darparu a dysgu rhannau o gwricwlwm arbenigol wedi ei deilwrio ar gyfer y plentyn/person ifanc unigol (Braille, meddalwedd TGCh, sgiliau cyffwrdd, sgiliau gwrando, darpariaeth ddwys CVI).
- Dadansoddi gwybodaeth feddygol a sicrhau darpariaeth addas addysgol i ymateb y gofynion golwg.
- Monitro golwg plentyn/person ifanc trwy weinyddu profion golwg safonol (logMAR, Kay, Snellen, BRAT, Maclure, BUST)
- Arsylwi ar lawr dosbarth a chynnig sylwadau adeiladol.
- Monitro fod argymhellion a gyflwynwyd yn weithredol ar lawr y dosbarth.
- Adrodd ar gynnydd disgyblion yn y Fforwm Ardal ADYaCh neu Banel Traws Sirol.
- Ymgynghori ar faterion symudedd ac Iechyd a Diogelwch.
- Darparu mewnbwn yn yr Ysgol Arbennig gyda VI yn ôl cais gan yr Ysgol Arbennig.
- Cyd weithio ag asiantaethau allanol - RNIB, Llyfrgelloedd deillion, cwmnïau meddalwedd arbenigol, UCAN.
- Creu cysylltiadau o fewn ysgol er mwyn hybu rhannu gwybodaeth.
- Rheoli gwaith dydd i ddydd y Cymorthyddion Arbenigol Nam Golwg yn dilyn argymhelliad y Fforwm Ardal ADYaCh neu Banel Traws Sirol.

- Darparu Adnoddau ar gyfer y Llyfrgell Adnoddau a rhannu arfer da o ysgol i ysgol

**Cymorthyddion Arbenigol Nam Golwg**

Mae'r Cymorthyddion Arbenigol Nam Golwg yn gweithio o dan arweiniad yr Athrawon Arbenigol Nam Golwg. Bydd ffocws glir ar hybu datblygiad sgiliau o fewn yr ysgolion a chefnogi rhieni trwy:

- Gynorthwyo'r Athro/awes Arbenigol Nam Golwg cyswllt i ddiwallu gofynion NatSIP.
- Cyflwyno pecynnau gwaith i gefnogi addysgu disgyblion a Nam Golwg.
- Cynorthwyo'r ysgolion i gyflwyno cwricwlwm a deunyddiau addas ar gyfer plant Nam Golwg o dan arweiniad yr Athro/awes Arbenigol. Bydd gan y Cymorthyddion Arbenigol Nam Golwg isafbwynt o lefel Braille Gradd 2 a dealltwriaeth gadarn o'r saith côd Braille.
- Cynnig hyfforddiant Braille i'r rhieni yn eu cartrefi ar ôl oriau gwaith.
- Cynnig hyfforddiant Braille i gymorthyddion.
- Cynorthwyo ysgol i ddarparu ac addasu adnoddau gyda ffocws clir ar uwch sgilio staff yr ysgol i ddiwallu anghenion y disgyblion.
- Arbenigo ar ddefnyddio a hyfforddi disgyblion i ddefnyddio offer arbenigol TGCh Nam Golwg.
- Arsylwi gwersi a chynnig hyfforddiant, gan gynghori cymorthyddion ar ddulliau gwahanol o gefnogi unigolion.
- Modelu technegau cefnogi a dulliau ymyrraeth ar lawr dosbarth.
- Hybu defnydd yr hyn a gyflwynwyd ac a fodelwyd fel technegau dysgu yn weithredol ar lawr dosbarth ac ar yr aelwyd.
- Darparu'r gwasanaeth angenrheidiol fel Swyddogion Symudedd
- Cyd weithio ag asiantaethau allanol - RNIB, Swyddogion Symudedd, Llyfrgelloedd deillion, cwmnïau meddalwedd arbenigol, UCAN

# Gwasanaeth Nam Clyw

**Athrawon Arbenigol Nam Clyw**

Mae'r athrawon yn ymestyn ar draws y cyfnodau allweddol gan sicrhau'r gynhaliaeth fwyaf cyson i'r disgyblion a rhoi sylw penodol i fynediad cwricwlaidd y disgyblion. Bydd yr athrawon yn treulio cyfnodau estynedig mewn lleoliadau addysgol yn arsylwi, modelu a monitro er mwyn:

- Ategu at ddarparu a dysgu cwricwlwm arbenigol wedi ei deilwrio ar gyfer y plentyn/person ifanc unigol.
- Dadansoddi gwybodaeth feddygol a sicrhau darpariaeth addas addysgol i ymateb y gofynion Clyw.
- Monitro Clyw plentyn/person ifanc trwy weinyddu profion gwrando safonol.
- Arsylwi ar lawr dosbarth a chynnig sylwadau adeiladol.
- Monitro fod argymhellion a gyflwynwyd yn weithredol ar lawr y dosbarth.
- Adrodd ar gynnydd disgyblion yn y Fforwm Ardal ADYaCh neu Banel Traws Sirol.
- Ymgynghori ar faterion iechyd a diogelwch ac asesu risg.
- Cyd-weithio aml asiantaethol (e.e. Therapi Iaith a Lleferydd, Gyrfa Cymru).
- Creu cysylltiadau o fewn ysgol er mwyn hybu rhannu gwybodaeth.
- Rheoli gwaith dydd i ddydd y Cymorthyddion Arbenigol Nam Clyw yn dilyn argymhelliad y Fforwm Ardal ADYaCh neu Banel Traws Sirol.
- Darparu Adnoddau ar gyfer y Llyfrgell Adnoddau a rhannu arfer da o ysgol i ysgol

**Cymorthyddion Arbenigol Nam Clyw**

Mae'r Cymorthyddion Arbenigol Nam Clyw yn gweithio o dan arweiniad Athrawon Arbenigol Nam Clyw. Bydd ffocws clir ar hybu datblygiad sgiliau o fewn yr ysgolion a chefnogi rhieni trwy:

- Gynorthwyo’r Athro/awes Arbenigol Nam Clyw cyswllt i ddiwallu gofynion NatSIP.
- Cyflwyno pecynnau gwaith i gefnogi addysgu disgyblion ag anawsterau Nam Clyw.
- Cynorthwyo’r ysgolion i gyflwyno cwricwlwm a deunyddiau addas ar gyfer plant Nam Clyw o dan arweiniad yr Athro/awes Arbenigol.
- Bydd gan y Cymorthyddion Arbenigol Nam Clyw isafbwynt o lefel 2 mewn ‘British Sign Language’.
- Cynnig hyfforddiant i’r rhieni yn eu cartrefi ar ôl oriau gwaith.
- Cynnig hyfforddiant i gymorthyddion ysgol y plant.
- Cynorthwyo ysgol i ddarparu ac addasu adnoddau gyda ffocws clir ar uwch sgilio staff yr ysgol i ddiwallu anghenion y disgyblion.
- Arbenigo ar ddefnyddio a hyfforddi disgyblion i ddefnyddio offer arbenigol TGCh Nam Clyw.
- Arsylwi gwersi a chynnig hyfforddiant, gan gynghori cymorthyddion ar ddulliau gwahanol o gefnogi unigolion.
- Modelu technegau cefnogi a dulliau ymyrraeth ar lawr dosbarth.
- Hybu defnydd yr hyn a gyflwynwyd ac a fodelwyd fel technegau dysgu yn weithredol ar lawr dosbarth ac ar yr aelwyd.
- Cynorthwyo gwaith aml-asianaethol fel tîm.


## 6. Hyfforddiant

Mae’r Gwasanaeth Nam Synhwyraidd yn cefnogi gwaith yr ysgolion drwy gyflwyno rhaglen hyfforddiant cytunedig i bob athro/awes a chymhorthydd dosbarth. Mae’r rhaglen hyfforddiant hon yn gyson ar draws yr ysgolion gyda ffocws clir ar ddilyniant blynyddoedd cynnar/ cyfnod sylfaen a cynradd/ uwchradd.
Fel rhan o’r rhaglen hyfforddiant yma gall fod yr isod yn cael ei gefnogi a’i gyflwyno:

- Hyfforddiant ar lefel ysgol gyfan ac ar lefel mapio darpariaeth er mwyn hybu awyrgylch gynhwysol.
- Hyfforddiant ar lefel disgybl unigol – h.y. ar deilwrio strategaethau ar gyfer disgybl unigol.
- Argymell cyrsiau hyfforddiant i eraill a all fod yn ddefnyddiol.
- Ymweliad arsylwi gan y tîm er mwyn cynnig argymhellion.
- Mynediad at fanc o adnoddau addas o’r Llyfrgell Adnoddau.

Mae’r rhaglen hyfforddiant yn cael ei adolygu bob 5 mlynedd a dim ond ymyraethau sydd â thystiolaeth o fod yn effeithiol sydd yn cael ei chymeradwyo.

## 7. Llifsiart Strwythur Staffio




DRAFT

## 8. Gwasanaeth Aml Asiantaeth

Mae'r Gwasanaeth Nam Synhwyraidd yn rhan o dîm integredig aml asiantaeth. Drwy weithio'n gwbl integredig mae'r gwasanaeth a ddarperir i'r plant yn holistaidd ac yn fwy effeithiol. Mae gan y Gwasanaeth Nam Synhwyraidd gyswllt cyd-weithio cryf gydag Adrannau Arbenigol o fewn Ysbytai ac mae'r cyfeiriadau at y Gwasanaeth yn dod gan yr Adrannau hyn.

DRAFT

# Meini Prawf Synhwyraidd

## Nam Golwg – PLASC VI

| | Gweithredu Ysgol (GY) | Gweithredu Ysgol a Mwy (GY+) |
|---|---|---|
| **Cyfrifoldeb am yr achos** | - Athro/awes dosbarth<br>- Pennaeth<br>- Cydlynwyr ADYaCh<br>- Llywodraethwyr ADY | - Athro/awes dosbarth<br>- Pennaeth<br>- Cydlynwyr ADYaCh<br>- Llywodraethwyr ADY |
| **Disgrifiad o angen** | Plentyn yn dangos arwyddion o Nam ar y Golwg e.e. Anawsterau gyda gwaith agos, copïo, symudoledd (e.e. cwympo'n gyson ac yn methu rhwystrau) | Categori NATSIP – Gwyrdd<br>Cadarnhau Nam Golwg Rhannol<br>**Meithrin a Derbyn**<br>Mân anawsterau o ran cael mynediad at y cam Sylfaen pan gyflwynir gydag adnoddau safonol<br>Gallu cael at wybodaeth yn unig wrth eistedd yn y blaen<br>Mân anawsterau wrth symud o amgylch yr amgylchfyd<br>**CA 2, 3, 4, 5**<br>Mân anawsterau gyda chael mynediad at y cwricwlwm pan gyflwynir gydag adnoddau safonol<br>Gallu cael at wybodaeth wrth eistedd yn y blaen a chael anawsterau i gopïo oddi ar y bwrdd<br>Cael mân anawsterau i symud o amgylch yr ysgol |
| **PLASC** | • CT1<br>• SR1<br>• GS1<br>• AA1 | • CT2<br>• SR3<br>• GS1<br>• AA3 |
| **Math o Ymyrraeth** | - Trafod pryderon gyda'r rhieni fel y gallent drefnu i optegydd asesu.<br>- Defnyddio arbenigedd o fewn yr ysgol eisoes (e.e. cymhorthydd dysgu gyda phrofiad o weithio â phlentyn â nam ar y golwg) er mwyn rhannu arfer dda<br>- Sicrhau bod yr amgylchfyd yn dda ac yn glir o rwystrau diangen<br>- Seddau, goleuadau ac acwsteg priodol | - Partneriaeth gyda rhieni<br>- Asesiad ac Ymgynghori â'r Athro/awes Arbenigol Nam Golwg i ddatblygu strategaethau i gefnogi cymryd rhan yn y dosbarth, datblygu sgiliau iaith, llythrennedd, trefniadaethol a cyfathrebu, cefnogi anghenion cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiad (Canllaw ar amlder cymryd rhan mewn dogfen ar Nam Synhwyraidd gan Partneriaeth De Ddwyrain.<br>- Ymgynghori â'r Gwasanaeth Seicoleg Addysgol os yn briodol<br>- Sicrhau mynediad llawn at y cwricwlwm trwy wahaniaethu dulliau ac adnoddau addysgu<br>- Cyfleoedd ar gyfer gwaith grŵp bychan yn hoelio sylw ar dargedau penodol<br>- Rheoli seddau, goleuadau ac acwsteg<br>- Cymorth oedolyn am ran o bob dydd ar gyfer:<br>• Paratoi/gwahaniaethu adnoddau yn y dosbarth e.e.<br>• Egluro cysyniadau gweledol<br>• Llungopïo/chwyddo/ail-fformadu/ail fformadu i Braille<br>• Cefnogaeth ar gyfer dysgu/cyfleoedd chwarae yn datblygu sgiliau chwarae<br>• Caffael sgiliau – llythrennedd, rhifedd, sgiliau allweddol<br>Goruchwylio materion diogelwch a symudoledd |
| **Monitro** | Ysgol i fonitro cynnydd dros gyfnod o dymor | Fforwm Ardal ADYaCh |
| **Mesuryddion Cynnydd** | - Sgorau safonedig llythrennedd a rhifedd<br>- Deilliannau Cyfnod Sylfaen/Lefelau Cwricwlwm Cenedlaethol<br>- Gwybodaeth ynglŷn â'r Nam Golwg gan Asiantaethau Iechyd<br>- Categori NATSIP | - Sgorau safonedig llythrennedd a rhifedd<br>- Deilliannau Cyfnod Sylfaen/Lefelau Cwricwlwm Cenedlaethol<br>- Gwybodaeth ynglŷn â'r Nam Golwg gan Asiantaethau Iechyd<br>- Categori NATSIP |

| | | Gweithredu Ysgol (GY) | Gweithredu Ysgol a Mwy (GY+) |
|---|---|---|---|
| **Cynnydd?** | **Ydy, mae cynnydd da wedi ei weld** | - Lleihau i fewnbwn arferol y dosbarth | Gostwng cefnogaeth i gefnogaeth GY |
| | **Ydy, mae cynnydd digonol wedi ei weld** | - Parhau gyda Gweithredu ysgol am gylch pellach | Parhau gyda Gweithredu ysgol am gyfnod pellach |
| | **Na, cynnydd bychan iawn neu ddim cynnydd dros amser** | - Bydd yr optegwr yn cyfeirio at yr Opthalmydd<br>- Trafod gyda Seicolegydd Addysgol | Adolygu Categori NATSIP |

DRAFT

ADY Anghenion Dysgu Ychwanegol
Additional Learning Needs

| | Datganiad 1 | Datganiad 2 |
|---|---|---|
| **Cyfrifoldeb am yr achos** | - Athro/awes dosbarth<br>- Pennaeth<br>- Cydlynwyr ADYaCh<br>- Llywodraethwyr ADY | - Athro/awes dosbarth<br>- Pennaeth<br>- Cydlynwyr ADYaCh<br>- Llywodraethwyr ADY |
| **Disgrifiad o angen** | - Categori NATSIP – Melyn<br>- Cofrestrwyd yn rhannol ddall<br>- Anawsterau mawr o ran mynediad at y cwricwlwm<br>- Angen mewnbwn i brint mawr N18+<br>- Golwg pellter yn wael<br>- Anawsterau posibl o ran symud o gwmpas<br>- Angen sgiliau bysellfwrdd neu TGCh atodol | - Categori NATSIP - COCH<br>- Wedi ei gofrestru'n ddall<br>- Anawsterau mawr o ran mynediad i'r cwricwlwm<br>- Angen mynediad i brint bras iawn N24+<br>- Dim yn gallu cael mynediad at Feddalwedd PC safonol yn yr un ffordd a'u cyfoedion<br>- Dim yn gallu defnyddio golwg pellter ar gyfer dysgu yn seiliedig ar yr ystafell ddosbarth<br>- Dim yn gallu symud yn hyderus o amgylch, pryderon am ddiogelwch |
| **PLASC** | • CT4<br>• SR4<br>• GS2, 3 neu 4<br>• AA4 | • CT4<br>• SR4<br>• GS2, 3 neu 4<br>• AA4 |
| **Math o Ymyrraeth** | Partneriaeth gyda rhieni<br>Mewnbwn gan Athro/awes Arbenigol Nam Golwg i ddatblygu strategaethau i gefnogi ymgyfraniad yn y dosbarth, datblygu sgiliau iaith, llythrennedd, trefnu a chyfathrebu, cefnogi anghenion cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiad<br>Mewnbwn Seicoleg Addysgol os yn briodol<br>Sicrhau mynediad llawn i'r cwricwlwm trwy wahaniaethu dulliau ac adnoddau addysgu (Athro/awes dosbarth/GGAAA)<br>Rhoi mwy o amser i gael at addysgu a chyfarwyddiadau gweledol/ar lafar<br>Monitro cynnydd a pherfformiad yn agos<br>Cyfleoedd ar gyfer gwaith grŵp bychan yn canolbwyntio ar dargedau penodol yn yr ystafell ddosbarth<br>Rheoli seddau, goleuadau ac acwsteg<br>Trefniadau mynediad ar gyfer arholiadau (Ysgol Uwchradd yn unig)<br>Strategaethau i gefnogi ymgyfraniad yn y dosbarth, datblygu sgiliau iaith, llythrennedd, trefniadaeth a chyfathrebu, gwella gwybodaeth gyffredinol, cynorthwyo gyda sylw a hoelio sylw, cefnogi anghenion cymdeithasol, emosiynol, ymddygiad, annibyniaeth, diogelwch, gostwng sŵn mewn ystafelloedd dosbarth<br>Oedolyn dynodedig am y rhan fwyaf o'r dydd, wedi ei hyfforddi i gefnogi cynorthwyo gyda'r uchod a rheoli offer arbenigol<br>- Dyrannu amser i baratoi/adnoddau gwahaniaethol e.e. addasu, newid ac ail-fformadu, Braille<br>- Cefnogaeth ar gyfer cyfleoedd dysgu a chwarae, sicrhau diogelwch, ac atgyfnerthu addysgu sgiliau allweddol arbenigol.<br>- Ystafell paratoi (Uwchradd)<br>- Sicrhau cedwir materion Iechyd a Diogelwch i'r lleiaf posibl.<br>- Datblygu annibyniaeth. | Partneriaeth gyda rhieni<br>Mewnbwn gan yr Athro/awes Arbenigol Nam Golwg i ddatblygu strategaethau i gefnogi cymryd rhan yn y dosbarth, datblygu sgiliau iaith, llythrennedd, sgiliau trefnu a chyfathrebu, cefnogi anghenion cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiad<br>Mewnbwn Gwasanaeth Seicoleg Addysgol os yn briodol<br>Sicrhau mynediad llawn i'r cwricwlwm trwy wahaniaethu dulliau ac adnoddau addysgu (Athro/awes dosbarth/CGAAA)<br>Rhoi mwy o amser i gael mynediad at addysgu a chyfarwyddiadau gweledol/ar lafar<br>Cyfleoedd i grŵp bychan gan ganolbwyntio ar dargedau penodol yn yr ystafell ddosbarth<br>Rheoli mannau eistedd, goleuadau ac acwsteg<br>Trefniadau mynediad ar gyfer arholiadau (Ysgol Uwchradd yn unig)<br>Strategaethau i gefnogi cymryd rhan yn y dosbarth, datblygu sgiliau iaith, llythrennedd, trefniadaeth a chyfathrebu, gwella gwybodaeth gyffredinol, cynorthwyo gyda sylw a chanolbwyntio, cefnogi anghenion cymdeithasol, emosiynol, ymddygiad, annibyniaeth, diogelwch, lleihau sŵn mewn ystafelloedd dosbarth<br>Cefnogaeth hyfforddiant dynodedig gan oedolion gydol y diwrnod ysgol er mwyn:<br>• Sicrhau diogelwch<br>• Amser i baratoi, addasu, gwahaniaethu, ail-fformadu, addasu a pharatoi deunyddiau mewn cyfryngau eraill a Braille<br>Atgyfnerthu addysgu sgiliau allweddol arbenigol |
| **Monitro** | Fforwm Ardal ADYaCh, Panel Traws Sirol | Fforwm Ardal ADYaCh, Panel Traws Sirol |
| **Mesuryddion Cynnydd** | - Sgorau safonedig llythrennedd a rhifedd<br>- Deilliannau Cyfnod Sylfaen/Lefelau Cwricwlwm Cenedlaethol<br>- Gwybodaeth ynglŷn â'r Nam Golwg gan Asiantaethau Iechyd<br>- Categori NATSIP | Sgorau safonedig llythrennedd a rhifedd<br>Deilliannau Cyfnod Sylfaen/Lefelau Cwricwlwm Cenedlaethol<br>Gwybodaeth ynglŷn â'r Nam Golwg gan Asiantaethau Iechyd<br>Categori NATSIP |

| Cynnydd? | | Datganiad 1 | Datganiad 2 |
|---|---|---|---|
| | **Ydy, mae <u>cynnydd da</u> wedi ei weld** | ac nid yw'r plentyn angen y lefel bresennol o fewnbwn: Gostwng i GY+ gyda chefnogaeth | ac nid yw'r plentyn angen y lefel bresennol o fewnbwn:<br>Lleihau lefel y gefnogaeth |
| | **Ydy, mae <u>cynnydd digonol</u> wedi ei weld** | Parhau â'r mewnbwn presennol am gyfnod pellach | Parhau â'r mewnbwn presennol. |
| | **Na, cynnydd bychan iawn neu ddim cynnydd dros amser** | Adolygu Categori NATSIP | Adolygu Categori NATSIP |

DRAFT

| | Datganiad 3 – Uwchradd yn unig |
|---|---|
| **Cyfrifoldeb am yr achos** | - Athro/awes dosbarth - Cydlynwyr ADYaCh - Pennaeth - Llywodraethwyr ADY |
| **Disgrifiad o angen** | CATEGORI NATSIP - COCH<br>Wedi ei gofrestru'n ddall<br>Anawsterau mawr o ran cael mynediad at y cwricwlwm<br>Angen mynediad at brint bras iawn N24+ ac/neu Braille<br>Dim yn gallu cael at Feddalwedd PC safonol<br>Dim pellter golwg<br>Dim yn gallu defnyddio moddau safonol o deithio, angen hyfforddiant sgiliau bywyd, pryderon am ddiogelwch. |
| **PLASC** | • CT4 • GS2, 3, neu 4 • SR4 • AA4 |
| **Math o Ymyrraeth** | Partneriaeth gyda rhieni<br>Sicrhau mynediad llawn i'r cwricwlwm trwy wahaniaethu dulliau ac adnoddau addysgu (Athro/awes Dosbarth/Cydlynydd ADYaCh)<br>Rhoi mwy o amser i gael mynediad at addysgu a chyfarwyddiadau gweledol/ar lafar<br>Monitro cynnydd a pherfformiad yn agos<br>Cyfleoedd ar gyfer gwaith grŵp bychan gan hoelio sylw ar dargedau penodol yn y dosbarth<br>Rheoli eisteddleoedd, goleuadau ac acwsteg<br>Trefniadau mynediad ar gyfer arholiadau (Ysgol Uwchradd yn unig)<br>Strategaethau ar gyfer cefnogi cymryd rhan yn y dosbarth, datblygu sgiliau iaith, llythrennedd, trefniadaeth a chyfathrebu, gwella gwybodaeth gyffredinol, cynorthwyo sylw a hoelio sylw, cefnogi anghenion cymdeithasol, emosiynol, ymddygiad, annibyniaeth, diogelwch, lleihau sŵn mewn ystafelloedd dosbarth<br>Mewnbwn gan Arbenigol Nam Golwg i ddatblygu strategaethau i gefnogi cymryd rhan yn y dosbarth, datblygu sgiliau iaith, llythrennedd, trefniadaeth a chyfathrebu, cefnogi anghenion cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiad.<br>Mewnbwn 40 awr yr wythnos gan oedolion i gynnwys mewnbwn uniongyrchol gan yr Athro/awes Arbenigol Nam Golwg ar gyfer:<br>Amser ar gyfer paratoi, addasu, gwahaniaethu, ail-fformadu, addasu a pharatoi deunyddiau mewn cyfryngau eraill a Braille<br>Darparu addysgu a chefnogaeth ar gyfer dysgu a chofnodi<br>Sicrhau caiff anghenion diogelwch eu cwrdd<br>Atgyfnerthu addysgu sgiliau allweddol arbenigol |
| **Monitro** | Fforwm Ardal ADYaCh, Panel Traws Sirol |
| **Mesuryddion Cynnydd** | Sgorau safonedig llythrennedd a rhifedd<br>Deilliannau Cyfnod Sylfaen/Lefelau Cwricwlwm Cenedlaethol<br>Gwybodaeth ynglŷn â'r Nam Golwg gan Asiantaethau Iechyd<br>Categori NATSIP |

| | | |
|---|---|---|
| **Cynnydd?** | **Ydy, mae cynnydd da wedi ei weld** | ← ac nid yw'r plentyn angen y lefel bresennol o fewnbwn: Lleihau lefel y gefnogaeth |
| | **Ydy, mae cynnydd digonol wedi ei weld** | Parhau â'r mewnbwn presennol. |
| | **Na, cynnydd bychan iawn neu ddim cynnydd** | Adolygu Categori NATSIP → |

DRAFT

## Nam Clyw

| | Gweithredu Ysgol (GY) | Gweithredu Ysgol a Mwy (GY+) |
|---|---|---|
| **Cyfrifoldeb am yr achos** | - Athro/awes dosbarth<br>- Cydlynwyr ADYaCh<br>- Pennaeth<br>- Llywodraethwyr ADY | - Athro/awes dosbarth<br>- Cydlynwyr ADYaCh<br>- Pennaeth<br>- Llywodraethwyr ADY |
| **Disgrifiad o angen** | Efallai ceir diagnosis o golli clyw dros dro (e.e. gormod o gwyr yn y glust)<br>Gall gael anawsterau i wrando, talu sylw, canolbwyntio ac o ran hyder<br>Anawsterau'n amlwg mewn sefyllfaoedd megis ble ceir disgyblion yn dod at ei gilydd, tasgau grŵp, cyflwyniadau gan y dosbarth cyfan.<br>Gallu cael mynediad at y cwricwlwm yn llawn trwy gyfrwng Cymraeg/Saesneg llafar ac ysgrifenedig. | Cadarnheir diagnosis Colled Clyw ar y cam hwn – Asesiad Clyw.<br>Categori NATSIP - Gwyrdd<br>Anawsterau gyda gwrando, talu sylw a chanolbwyntio a chyfathrebu<br>Gall gael mynediad at gwricwlwm trwy chwyddiad sŵn ychwanegol e.e. cymhorthion clyw, mewnblannu yn y cochlea<br>Gall ddibynnu ar ddarllen gwefusau<br>Gall arddangos datblygiad oediog o iaith, sgiliau cyfathrebu ac/neu lythrennedd<br>Gall na fydd lleferydd mor eglur<br>Gall bydd gan anawsterau cymdeithasol, emosiynol, ymddygiad sy'n gysylltiedig â cholli clyw<br>Gall gael anawsterau gyda threfnu eu dysgu eu hunain |
| **PLASC** | • CT1<br>• GS1<br>• SR1<br>• AA1 | • CT2<br>• GS1<br>• SR3<br>• AA3 |
| **Math o Ymyrraeth** | Trafod pryderon gyda rhieni – os na cheir cadarnhad, trefnu bod clyw yn cael ei asesu trwy MT.<br>Sicrhau mynediad llawn i'r cwricwlwm trwy wahaniaethu dulliau ac adnoddau addysgu<br>Monitro cynnydd yn agos (gan yr ysgol)<br>Cyfleoedd i gwblhau tasgau penodol o fewn grŵp bychan yn rheolaidd<br>Seddau, golau ac acwsteg briodol - cysylltiadau â gwybodaeth<br>Cydweithrediad â rhieni<br>Defnyddio'r arbenigedd sydd eisoes ar gael yn yr ysgol | Sicrhau mynediad llawn i'r cwricwlwm trwy wahaniaethu dulliau ac adnoddau addysgu<br>Monitro cynnydd yn agos<br>Cyfleoedd ar gyfer gwaith grŵp bychan yn hoelio sylw ar dargedau penodol<br>Rheoli seddau, golau ac acwsteg<br>Mewnbwn gan y Gwasanaeth Nam Synhwyraidd (Canllaw ar ba mor aml yw'r ymlyniad o'r ddogfen NATSIP).<br>Cefnogaeth am ran o bob diwrnod gan oedolyn dynodedig i gynorthwyo gyda'r uchod a rheoli offer clyw.<br>Ymgynghoriad/Asesu gan asiantaethau eraill megis Seicoleg Addysgol pan fo'n briodol |
| **Monitro** | Yr ysgol i arsylwi am dymor | Fforwm Ardal ADYaCh |
| **Mesuryddion Cynnydd** | Sgorau safonedig ar gyfer llythrennedd a rhifedd<br>Canlyniadau Cyfnod Sylfaen/Lefelau cwricwlwm<br>Gwybodaeth a ddarperir gan Bobl Broffesiynol yn y byd Iechyd ynghylch anawsterau Clyw<br>Categoreiddio NATSIP | Sgorau safonedig ar gyfer llythrennedd a rhifedd<br>Canlyniadau Cyfnod Sylfaen/lefelau Cwricwlwm<br>Gwybodaeth a ddarperir gan bobl yn y maes Iechyd ynglyn ag anawsterau Clyw<br>Categoreiddio NATSIP |
| **Cynnydd?** | | |
| **Ydy, mae cynnydd da wedi ei weld** | ← Dileu o restr ADY | ← Gostwng cefnogaeth i gefnogaeth GY |
| **Ydy, mae cynnydd digonol wedi ei weld** | Parhau gyda'r lefel presennol o gefnogaeth am gyfnod pellach. | Parhau gyda Gweithredu ysgol am gyfnod pellach |
| **Na, cynnydd bychan iawn neu ddim cynnydd dros amser** | **Trafod gyda'r Seicolegydd Addysgol**<br>**Cyfeirio at Glyw trwy MT** → | Fforwm Ardal ADYaCh<br>Ystyried cyfeirio at wasanaethau eraill → |

DRAFT

## Nam Clyw – PLASC HI

| | Datganiad 1 | Datganiad 2 |
|---|---|---|
| **Cyfrifoldeb am yr achos** | - Athro/awes dosbarth - Pennaeth<br>- Cydlynydd ADYaCh - Llywodraethwyr ADY | - Athro/awes dosbarth - Pennaeth<br>- Cydlynydd ADYaCh - Llywodraethwyr ADY |
| **Disgrifiad o angen** | Diagnosis o golli clyw parhaol.<br>CATEGORI NATSIP - Oren<br>Dibynnol ar ddarllen gwefusau<br>Manteision cyfyngedig o chwyddo sŵn yn fwy e.g. Cymorth Radio/system maes sain ond gall sicrhau mynediad i'r cwricwlwm.<br>Anhawster i gael at ac/neu brosesu iaith lafar<br>Gall ddibynnu ar BSL/iaith â côd llaw i gefnogi/ychwanegu at ddealltwriaeth<br>Cryn oedi o ran iaith a all lesteirio datblygiad cysyniadol a chaffael geirfa a gwybodaeth gyffredinol<br>Cryn oedi o ran datblygiad sgiliau cyfathrebu ac/neu lythrennedd<br>Lleferydd yn llai eglur<br>Lleihad o ran gwybodaeth gyffredinol<br>Anawsterau o ran talu sylw, canolbwyntio a'r dosbarth yn cymryd rhan<br>Anawsterau cymdeithasol yn gysylltiedig â cholli clyw<br>Gall arddangos anawsterau emosiynol, ymddygiad sy'n gysylltiedig â cholli clyw<br>Anawsterau gyda threfnu eu dysgu eu hunain | Hynod ddibynnol ar ddarllen gwefusau<br>NATSIP CATEGORI - COCH<br>Caiff gryn anhawster i leoli cyfeiriad llais<br>Rhaid dal sylw trwy arwydd corfforol e.e. tapio<br>Gall ddibynnu ar BSL/Iaith Codio â llaw i gefnogi dealltwriaeth a chyfathrebu<br>Amgylchiadau unigol yn arwain at fanteision cyfyngedig o chwyddo ychwanegol<br>Caiff anhawster i gael at ac/neu brosesu iaith lafar<br>Gall ddibynnu ar BSL/Iaith côd a Llaw i gefnogi/ychwanegu at ddealltwriaeth<br>Cryn oedi o ran datblygiad sgiliau Cyfathrebu ac/neu lythrennedd<br>Eglurder lleferydd yn aneglur iawn<br>Llai o wybodaeth gyffredinol<br>Anawsterau o ran talu sylw, canolbwyntio a'r dosbarth yn cymryd rhan<br>Anawsterau cymdeithasol sy'n gysylltiedig â cholli clyw<br>Gall arddangos anawsterau emosiynol, ymddygiad sy'n gysylltiedig â cholli clyw.<br>- Anawsterau gyda threfnu dysgu. |
| **PLASC** | • CT4 • SR4<br>• GS2, 3 neu 4 • AA4 | • CT4 • SR4<br>• GS2, 3 neu 4 • AA4 |
| **Math o Ymyrraeth** | Sicrhau mynediad llawn i'r cwricwlwm trwy wahaniaethu dulliau ac adnoddau addysgu<br>Monitro cynnydd a pherfformiad yn agos<br>Cyfleoedd ar gyfer cynnal gwaith grŵp bychan gan hoelio sylw ar dargedau penodol<br>Rheoli seddau, goleuadau ac acwsteg<br>Trefniadau mynediad ar gyfer arholiadau (Ysgol Uwchradd yn unig)<br>Strategaethau i gefnogi cymryd rhan yn y dosbarth, datblygu sgiliau iaith, llythrennedd, trefniadaethol a chyfathrebu, gwella gwybodaeth gyffredinol, cynorthwyo talu sylw a chanolbwyntio, cefnogi anghenion cymdeithasol, emosiynol, ymddygiad, annibyniaeth a diogelwch, lleihau sŵn mewn ystafelloedd dosbarth<br>Cysylltu â'r Gwasanaeth Arbenigol Nam Clyw i ddatblygu strategaethau i gefnogi cymryd rhan yn y dosbarth, datblygu sgiliau iaith, llythrennedd, trefniadaeth a Chyfathrebu, cefnogi anghenion cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiad.<br>Cefnogaeth am gyfran helaeth o'r diwrnod ysgol gan oedolyn dynodedig i gynorthwyo gyda'r uchod a rheoli offer clyw.<br>Mewnbwn rheolaidd gyda'r Athro/awes Arbenigol Nam Clyw.<br>- Ymgynghoriad/Asesiad gan asiantaethau eraill megis y Therapydd Lleferydd ac Iaith, Seicoleg Addysgol pan fo angen. | Sicrhau mynediad llawn i'r cwricwlwm trwy wahaniaethu dulliau ac adnoddau addysgu<br>Angen addasu'r cwricwlwm fel ei fod yn weledol<br>Monitro cynnydd a pherfformiad yn agos<br>Cyfleoedd ar gyfer cyflawni gwaith grŵp bychan gan hoelio sylw ar dargedau penodol<br>Rheoli seddau, golau ac acwsteg<br>Trefniadau mynediad ar gyfer arholiadau (Ysgol Uwchradd yn unig)<br>Strategaethau i gefnogi cymryd rhan yn y dosbarth, datblygu iaith, llythrennedd, sgiliau trefniadaeth a chyfathrebu, gwella gwybodaeth gyffredinol, cynorthwyo gyda thalu sylw a chanolbwyntio, cefnogi anghenion cymdeithasol, emosiynol, ymddygiad, lleihau sŵn mewn ystafelloedd dosbarth<br>Cysylltu â'r Gwasanaeth Arbenigol Nam Clyw i ddatblygu strategaethau a chefnogi cymryd rhan yn y dosbarth, datblygu sgiliau iaith, llythrennedd, trefniadaeth a chyfathrebu, cefnogi anghenion cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiad.<br>Cael mynediad ar lefel uchel at oedolyn dynodedig i egluro, taflu goleuni ar ac atgyfnerthu cynnwys ac iaith gwers, cynorthwyo mewn paratoi adnoddau a deunyddiau, gweithredu rhaglenni cefnogol a ddynodir gan asiantaethau tu allan, cynorthwyo gyda thalu sylw, canolbwyntio a dosbarth yn cymryd rhan, cymryd nodiadau fel bo angen, a chynorthwyo gyda'r uchod a rheoli offer clyw. Gall bydd hefyd angen goruchwyliaeth er mwyn sicrhau diogelwch yn ystod cyfnodau di-strwythur.<br>Mewnbwn rheolaidd gyda'r Athro/awes Arbenigol Nam Clyw.<br>Ymgynghoriad/Asesiad gan asiantaethau eraill megis y Therapydd Iaith a Lleferydd, Seicoleg Addysgol pan fo angen. |
| **Monitro** | Fforwm Ardal ADYaCh: bob tymor<br>Trafod Adolygiad Blynyddol mewn Panel Cymedroli | Fforwm Ardal ADYaCh: bob tymor<br>Trafod Adolygiad Blynyddol yn y Panel Cymedroli |

| Mesuryddion Cynnydd | | Sgorau safonedig ar gyfer llythrennedd a rhifedd<br>Canlyniadau Cyfnod Sylfaen/lefelau Cwricwlwm<br>Gwybodaeth a ddarperir gan bobl Broffesiynol yn y maes Iechyd ynghylch anawsterau Clyw<br>- Categori NATSIP | Sgoriau safonedig ar gyfer llythrennedd a rhifedd<br>Canlyniadau Cyfnod Sylfaen/Lefelau Cwricwlwm<br>Gwybodaeth a ddarperir gan bobl broffesiynol yn y Maes Iechyd ynghylch anawsterau Clyw.<br>Categori NATSIP |
|---|---|---|---|
| **Cynnydd?** | **Ydy, mae <u>cynnydd da</u> wedi ei weld** | Gostwng i GY+ | Lleihau i gefnogaeth GY+ |
| | **Ydy, mae <u>cynnydd digonol</u> wedi ei weld** | Parhau gyda Datganiad o ADY | Parhau gyda Datganiad o ADY |
| | **Na, cynnydd bychan iawn neu ddim cynnydd dros amser** | Adolygu a thrafod Categori NATSIP yn y Fforwm Ardal ADYaCh<br>Ystyried cyfeirio at wasanaethau eraill | Adolygu a thrafod Categori NATSIP yn y Fforwm ADYaCh<br>Ystyried cyfeirio at wasanaethau eraill |

DRAFT

# Anghenion Meddygol a Corfforol

## Disgwyliadau Ysgol Gyfan

Mae Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn yn ymfalchïo yn y modd y mae pob disgybl yn cyflawni. Mae hyn yn enwedig yn wir am ein disgyblion sydd ag anawsterau meddygol a/neu gorfforol. Mae ein hysgolion yn draddodiadol yn rhai cynhwysol dros ben ac mae hyn yn un o brif rinweddau'r ddwy sir. Disgrifir ADY Meddygol a Corfforol fel anawsterau a fyddai, heb y sylw cywir, yn cael effaith ar fynediad y disgyblion i'r cwricwlwm.

**1. - Beth mae Anghenion Meddygol a Corfforol yn ei olygu?**

Mae nifer o gyflyrau Meddygol a Chorfforol fydd ddim yn cael unrhyw effaith ar fynediad disgybl i'r cwricwlwm gyda man addasiadau a bodolaeth cynllun meddygol ysgol. Mae Anawsterau Dysgu Meddygol a/neu Gorfforol yn cyfeirio at unigolion sydd â chyflwr Meddygol a/neu Gorfforol sydd yn cael effaith sylweddol ar allu'r disgybl i gael mynediad at y Cwricwlwm heb addasiadau sylweddol.

Mae posib y bydd rhai disgyblion sydd ag Anhwylder Datblygiadol Cydsymudedd/ Developmental Co-ordination Disorder (hefyd yn cael ei gyfeirio ato fel Dyspracsia) angen rhai addasiadau a strategaethau penodol. Bydd rhain yn gallu dod o wybodaeth ac argymhellion gan Therapydd Galwedigaethol neu Ffisiotherapydd, yn hytrach na trwy Gynllun Meddygol.

**2. Cyffredinol**

Mae gan bob ysgol gyfrifoldeb i greu awyrgylch diogel a gofalus lle y mae'n bosib i bob disgybl ddatblygu'n hapus a hyderus. Er mwyn sicrhau awyrgylch sydd yn gyfeillgar i ddysgwyr gydag anawsterau Meddygol a/neu Gorfforol mae disgwyl i ysgolion:

- Sicrhau fod yr awyrgylch dysgu a cymdeithasol yn gynhwysol a chroesawgar.
- Sicrhau fod defnydd effeithiol, hyblyg a synhwyraidd yn cael ei wneud o adnoddau staffio ysgol gyfan i ddiwallu anghenion y disgyblion hyn lle bo hynny yn rhesymol.
- Sicrhau fod unrhyw risgiau yn cael eu hadnabod a'u targedu o fewn ffiniau rhesymol.
- Fod yn ymateb yn raddoledig i anghenion drwy gymryd i ystyriaeth unrhyw gyngor arbenigol rhesymol sydd yn cael ei ddarparu.
- Fod yn mesur cynnydd plant sydd yn derbyn ymyraethau er mwyn gallu dangos effeithiolrwydd yr ymyraethau.

**Nod Strategaeth a Pholisïau Cynnal Anghenion Meddygol a/neu Gorfforol Ysgolion Gwynedd ac Ynys Môn yw:**

- Hyrwyddo cysondeb yn y modd y mae ysgolion yn ymateb i anghenion Meddygol a Corfforol;
- Gwneud yn glir beth yw cyfrifoldebau'r tîm dysgu, arweinyddion bugeiliol, uwch dîm rheoli a phennaeth yr ysgol;
- Hyrwyddo ethos o weithio mewn partneriaeth rhwng disgyblion, staff yr ysgol ac asiantaethau allanol.
- Sicrhau fod y disgyblion yn cael cyfle cyfartal, derbyn eu haddysg ochr yn ochr â'u cyfoedion mewn ysgolion a chymunedau lleol
- Hyrwyddo annibyniaeth disgyblion mewn ymateb i'w hanghenion meddygol a corfforol eu hunain ble mae modd gwneud hynny.
- Cyflawni eu potensial a datblygu i fod yn ddysgwyr annibynnol.

**3. Disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol**

Bydd ysgolion Gwynedd ac Ynys Môn yn rhoi ystyriaeth arbennig mewn achosion sydd yn ymwneud â disgyblion sydd ar y gofrestr ADY am resymau eraill yn ogystal â'u hanghenion Meddygol Corfforol. Bydd angen teilwrio

DRAFT

ymyrraeth Feddygol Gorfforol gan ystyried anghenion eraill posib y disgybl (e.e. anabledd dysgu, anhawster cyfathrebu). Mewn achos o'r fath bydd angen ystyried rôl Gwasanaethau eraill.

## 4. Cyfathrebu â Rhieni/Gofalwyr

Mae gweithio gyda theuluoedd a sicrhau cydweithrediad rhieni yn allweddol ar gyfer perthynas lwyddiannus ag unrhyw ddisgybl. Dylai pob ysgol yng Ngwynedd ac Ynys Môn fod yn agored i drafodaeth bob amser ac yn annog rhieni i gysylltu os oes unrhyw beth yn eu pryderu.

DRAFT

# Gwasanaeth Meddygol a Corfforol

## 1. Nod

Mae'r Gwasanaeth Meddygol Corfforol yn cyd-weithio ag ysgolion Gwynedd ac Ynys Môn i hwyluso ymateb addas a rhesymol pobl ifanc sydd yn profi anawsterau meddygol a/neu gorfforol lle bo'r anghenion yma yn effeithio yn sylweddol ar fynediad yr unigolion i'r cwricwlwm.

## 2. Amcanion

Er mwyn cyrraedd at y nod hwn yr ydym fel gwasanaeth yn gosod yr amcanion canlynol;

- Sicrhau fod ethos ysgolion Gwynedd ac Ynys Môn yn sicrhau perchnogaeth yr ysgolion o'r bobl ifanc yma sydd ag anghenion meddygol a/neu gorfforol.
- Pob athro/awes ymhob ysgol yng Ngwynedd ac Ynys Môn i dderbyn hyfforddiant priodol fydd yn arwain at athrawon sydd yn hyderus i weithio â phobl ifanc sydd ag anghenion meddygol a/neu gorfforol.
- Sicrhau arweiniad arbenigol i alluogi ysgolion i deilwrio ymyraethau arbenigol o fewn adnoddau'r ysgol.
- Sicrhau darpariaeth arbenigol safonol lleol ar gyfer y bobl ifanc mwyaf dwys.

## 3. Mesuryddion

Mae'r Gwasanaeth Meddygol Corfforol yn mesur llwyddiant y ddarpariaeth drwy nifer o ddangosyddion. Nodir isod ein prif ddangosyddion;

- Cynnydd/sefydlogrwydd mewn canran presenoldeb.
- Cynnydd yn y prif ddangosyddion ar ddiwedd cyfnodau allweddol.
- Cynnydd mewn canran o weithlu ysgolion sydd â hyfforddiant cyfredol ynglŷn â chyfrifoldebau ysgol gyfan
- Tystiolaeth feddygol ynglŷn â dwyster a sefydlogrwydd y cyflwr.

## 4. Darpariaeth

Mae'r ddarpariaeth gyflwyni'r drwy'r Gwasanaeth Meddygol Corfforol wedi ei rannu i ddau brif gydran.

**Gweithredu Ysgol**
*Cyffredinol*

Mae pob ysgol yng Ngwynedd ac Ynys Môn yn derbyn cyllideb ddatganoledig er mwyn gweithredu strategaethau lefel ysgol i gefnogi pobl ifanc sydd ag anghenion Meddygol a/neu Gorfforol.
Mae'r Gwasanaeth yn cefnogi gwaith yr ysgolion drwy gydlynu rhaglen hyfforddiant cytunedig i bob athro/awes a chymhorthydd dosbarth. Mae'r rhaglen hyfforddiant hon yn gyson ar draws yr ysgolion gyda ffocws clir ar ddilyniant cynradd uwchradd.

Mae'r rhaglen hyfforddiant yn cael ei adolygu ar y cyd gyda'r Gwasanaeth Iechyd bob 5 mlynedd a dim ond ymyraethau sydd â thystiolaeth o fod yn effeithiol sydd yn cael eu cymeradwyo.

**Gweithredu Ysgol a Mwy**
*Arbenigol*

Mae pob ysgol yng Ngwynedd ac Ynys Môn yn medru cyfeirio disgyblion i sylw'r Fforwm Ardal ADYaCh. Dylid gwneud hyn yn unol â'r Meini Prawf drwy ddilyn y drefn gytunedig. Fel rhan o'r ddarpariaeth gall ysgol dderbyn cefnogaeth arbenigol i gydlynu cyngor meddygol ac ymateb i Gynllun Meddygol, asesu risg ac ymateb i leihau'r risgiau sydd wedi ei adnabod, a darganfod hyfforddiant angenrheidiol, cyfeirio at ffynhonnell o gyngor strategaethau/adnoddau.

DRAFT

## 5. Strwythur Staffio

### Uwch Seicolegydd Addysgol Meddygol Corfforol

Mae’r Uwch Seicolegydd Meddygol Corfforol yn cymryd rhan yng nghynllunio strategol a sicrhau ansawdd y ddarpariaeth ar lefel ysgol a thu hwnt.

Amlygir isod brif swyddogaethau’r Seicolegydd Meddygol Corfforol

- Cyd-gynllunio rhaglen hyfforddiant 5 mlynedd gyda swyddogion o'r Gwasanaeth Iechyd (e.e. Meddygon a Nyrsus Arbenigol, Ffisiotherapydd, Therapydd Galwediagaethol, Therapydd Iaith a Lleferydd) a’r Cydlynwyr Meddygol Corfforol ar gyfer staff ysgolion Gwynedd ac Ynys Môn.
- Cyd-gynllunio hyfforddiant a sgiliau’r gweithlu yn y maes Anhwylder Datblygiadol Cydsymudedd trwy greu cysylltiadau gweithredol gyda gweithwyr iechyd yn y maes, e.e. Therapyddion Galwedigaethol.
- Sicrhau fod y Fforwm Ardal ADYaCh yn gweithredu yn unol â’r Meini Prawf.

### Athro/awes Arbennigol Anghenion Meddygol Corfforol

Bydd rôl yr Athro/awes Arbenigol Anghenion Meddygol Corfforol yn allweddol o ran cefnogi ysgolion yn eu hymateb i anghenion disgyblion drwy:

- Defnyddio dealltwriaeth o faes iechyd i gydlynu gwybodaeth ynglŷn â chyflyrau iechyd a corfforol disgyblion, gan gynorthwyo ysgolion i wneud synnwyr o’r wybodaeth.
- Sicrhau ansawdd cynlluniau meddygol ar draws ysgolion.
- Adnabod y gefnogaeth sydd ei angen ar y lefel mwyaf addas a rhesymol.
- Cynorthwyo ysgolion i gynnal asesiadau risg.
- Meddu dealltwriaeth o gyflyrau meddygol a chorfforol a’r ymyraethau addas ar eu cyfer.
- Cynghori ysgolion o ran dealltwriaeth o gyfrifoldeb a Meini Prawf yr A.Ll.

### Nyrs Arbenigol Anghenion Meddygol a Corfforol

### Swyddog Asesu Risg

Bydd rôl yr asesydd risg yn allweddol o ran cefnogi staff ysgolion i reoli risg wrth weithio gyda disgyblion ag anghenion meddygol, ymddygiadol a chorfforol.


## 6. Hyfforddiant

Mae’r Gwasanaeth Meddygol Corfforol yn cefnogi gwaith yr ysgolion drwy gyflwyno rhaglen hyfforddiant cytunedig i bob athro/awes a chymhorthydd dosbarth. Mae’r rhaglen hyfforddiant hon yn gyson ar draws yr ysgolion gyda ffocws clir ar ddilyniant cynradd uwchradd.

Mae’r rhaglen hyfforddiant yn cael ei adolygu bob 5 mlynedd a dim ond ymyraethau sydd â thystiolaeth o fod yn effeithiol sydd yn cael ei chymeradwyo. Bydd y Gwasanaeth hefyd yn cydlynu hyfforddiant gan y Gwasanaeth Iechyd ar lefel ysgol yn ôl anghenion penodol cyflyrau disgyblion ysgolion penodol.

DRAFT

## 7. Llifsiart Strwythur Staffio




## 8. Gwasanaeth Aml Asiantaeth

Mae'r Gwasanaeth Meddygol Corfforol yn rhan o dîm integredig aml asiantaeth. Mae cyswllt gyda'r Gwasanaeth Iechyd yn hanfodol bwysig i sicrhau Gwasanaeth cyd-lynnus. Drwy weithio'n gwbl integredig mae'r gwasanaeth a ddarperir i'r plant yn holistaidd ac yn fwy effeithiol.

DRAFT

# Meini Prawf Corfforol

| | Gweithredu Ysgol (GY) | Gweithredu Ysgol a Mwy (GY+) |
|---|---|---|
| **Cyfrifoldeb am yr achos** | - Athro/awes dosbarth<br>- Pennaeth<br>- Cydlynydd ADYaCh<br>- Llywodraethwyr ADY | - Athro/awes dosbarth<br>- Pennaeth<br>- Cydlynydd ADYaCh<br>- Llywodraethwyr ADY |
| **Disgrifiad o angen** | **Sgiliau Motor Man**<br>Anawsterau Sgil Motor Man/rheolaeth llaw yn effeithio ar rai meysydd cwricwlaidd/hunan gymorth.<br>Oedi o ran datblygiad Motor Man gydag anawsterau gyda gweithgareddau megis newid dillad, cau ffasninau, datblygu gafael mewn pensel, llawysgrifen<br>**Sgiliau Motor Mawr**<br>Oedi o ran datblygiad Motor Mawr gydag anawsterau megis cwympo'n gyson, anawsterau yn cadw osgo, defnyddio sleidiau ac offer chwarae mawr. | **Sgiliau Motor Man**<br>Sgiliau Motor Man/ rheoli â llaw yn effeithio ar swyddogaeth annibynnol mewn llawer o feysydd cwricwlaidd a hunangymorth.<br>Mae gafael llaw yn annodweddiadol neu'n wan yn arwain at flinder a rheolaeth wael o wrthrychau. Gall hefyd gael anhawster gyda chynllunio symudiad, gyda sgiliau sylw, dirnadaeth ac/neu drefniadaethol a gaiff effaith sylweddol ar ffwythiant.<br>**Sgiliau Motor Mawr/Symudoledd**<br>Cerdded y tu mewn ac yn yr awyr agored ac yn dringo grisiau heb gyfyngiadau ond caiff anawsterau gyda sgiliau Motor Mawr a manwl cymhleth iawn oherwydd gostyngiad mewn un neu ragor o'r canlynol: cyflymder, cydbwysedd, cyd-symud, annibyniaeth, sgiliau hunangymorth.<br>Tôn Cyhyr isel (ond nid yn annormal o isel) |
| **PLASC** | • CT1<br>• SR1<br>• GS1<br>• AA1 | • CT2<br>• SR3<br>• GS1<br>• AA3 |
| **Math o Ymyrraeth** | Cydweithio gyda rhieni<br>Defnyddio arbenigedd a geir eisoes yn yr ysgol (e.e. cymhorthydd dysgu gyda phrofiad/hyfforddiant blaenorol)<br>**Sgiliau Motor Man**<br>Gwahaniaethu cwricwlwm i ymarfer adnabod sgiliau cyd-gordio Motor Man/rheoli â llaw.<br>Efallai bydd angen goruchwyliaeth/amser ychwanegol i gyflawni tasg.<br>Gosod targedau penodol o fewn y targedau Cynllun Addysg Unigol i hyrwyddo datblygiad cyd-gordio rheoli sgiliau Motor Man/rheoli â llaw gan ddefnyddio deunyddiau o'r pecyn adnoddau Therapi galwedigaethol.<br>**Sgiliau Motor Mawr**<br>Gosod targedau penodol o fewn y Cynllun Addysg Unigol/CDU i dargedu datblygu sgiliau Motor Mawr gan ddefnyddio deunyddiau o'r pecyn adnoddau Therapi galwedigaethol.<br>Staff ysgol yn mynychu digwyddiadau hyfforddi Therapi galwedigaethol.<br>**Mewnbwn oedloyn un unigol neu mewn grŵp bach o lai na 6 am 30 munud yn wythnosol, neu 10 munud dair gwaith yr wythnos er mwyn targedu sgiliau sy'n peri anhawster.** | Mewnbwn Cydlynydd/ Athro/awes Meddygol Corfforol yn ôl cais y Fforwm Ardal ADYaCh<br>Cydweithio â rhieni<br>Targedau CAU/CDU yn seiliedig ar gyngor asiantaethau sydd ynghlwm megis Therapi Galwedigaethol, Ffisiotherapi, Seicolegydd Addysgol, Athro/awes Arbenigol Meddygol Corfforol os ydynt yn ymwneud â'r plentyn<br>Gall gael eu cyfeirio at Th I a Ll os ceir anawsterau cyfathrebu<br>**Sgiliau Motor Man:**<br>Rhaglenni unigol i ddatblygu sgiliau Motor Man/rheoli llaw o fewn cynnwys, trosglwyddo a chofnodi gwahaniaethol.<br>Argaeledd offer unigol fel a bennir gan Therapi galwedigaethol/Ffysio ac amrywiaeth o addasiadau amgylcheddol.<br>Cefnogaeth ar gael ar gyfer trefniadau arholiadau arbennig pen fo angen.<br>**Motor Mawr/Symudoledd:**<br>Rhaglenni parhaus y gellir eu defnyddio ar draws meysydd cwricwlaidd i addysgu sgiliau Motor Mawr/symudoledd fel yr amlinellir yn y targedau CAU/CDU.<br>Mynediad at gefnogaeth oedolion ar gyfer gwahaniaethu cwricwlwm, gofal personol, a sgiliau hunan gymorth (e.e. newid ar gyfer Addysg Gorfforol)<br>Offer cyffredinol ar gael fel y pennir gan Therapi galwedigaethol/Ffisiotherapi<br>Asesiad Risg<br>Addasiadau i'r amgylchfyd i hyrwyddo symudoledd<br>Mynediad i fewnbwn oedolyn am hyd at 10 awr yr wythnos er mwyn dilyn rhaglen benodol ac argymhellion asiantaethau allanol sydd yn ymwneud (Darpariaeth Ysgol) |
| **Monitro** | Ysgol i fonitro cynnydd dros gyfnod o Dymor | Fforwm Ardal ADYaCh |
| **Mesuryddion Cynnydd** | • Cynnydd yn y prif ddangosyddion ar ddiwedd cyfnodau allweddol<br>• Cynnydd mewn sgorau safonedig sgiliau llythrennedd a rhifedd<br>• Asesiadau gan Asiantaethau Iechyd | • Cynnydd yn y prif ddangosyddion ar ddiwedd cyfnodau allweddol<br>• Cynnydd mewn sgorau safonedig sgiliau llythrennedd a rhifedd<br>- • Asesiadau gan Asiantaethau Iechyd |
| **Cynnydd?** | **Ydy, mae cynnydd da wedi ei weld**<br>- Lleihau lefel y mewnbwn<br>- Parhau i fonitro cynnydd yn dilyn lleihau y mewnbwn | - Lleihau lefel y mewnbwn<br>- Parhau i fonitro cynnydd yn dilyn lleihau y mewnbwn |
| | **Ydy, mae cynnydd digonol wedi ei weld**<br>- Parhau â'r mewnbwn presennol | - Parhau â'r mewnbwn presennol |
| | **Na, cynnydd bychan iawn neu ddim**<br>- Trafod addasu stategaethau neu symyd i'r cam nesaf gyda | Trafod addasu stategaethau neu symyd i'r cam nesaf gyda rhieini yr ysgol ac asiantaethau |

DRAFT

| | cynnydd dros amser | rhieini yr ysgol ac asiantaethau | |
|---|---|---|---|

| | Datganiad 1 | Datganiad 2 |
|---|---|---|
| **Cyfrifoldeb am yr achos** | - Athro/awes dosbarth<br>- Pennaeth<br>- Cydlynydd ADYaCh<br>- Llywodraethwyr ADY | - Athro/awes dosbarth<br>- Pennaeth<br>- Cydlynydd ADYaCh<br>- Llywodraethwyr ADY |
| **Disgrifiad o angen** | **Sgiliau Motor Man**<br>Anawsterau difrifol o ran sgiliau Motor Man/rheoli dwylo a gyda pheth defnydd annibynnol. Effaith ar y Cwricwlwm a meysydd hunan gymorth. Tôn cyhyr abnormal ac/neu wendid yn un neu'r ddwy fraich yn cael effaith sylweddol ar y gallu i afael mewn gwrthrychau a symud y dwylo a'r breichiau gyda rheolaeth ddigonol a chwblhau tasgau. Anawsterau sylweddol gyda chyd-symud ac/neu gyfeiriadedd. Cynorthwyo ac/neu gydweithredu ond angen cymorth corfforol i gwblhau tasgau mewn sawl maes.<br>**Sgiliau Motor Mawr**<br>Cerdded y tu mewn ac yn yr awyr agored ac yn dringo grisiau gan ddal mewn canllaw ond cyfyngiadau wrth gerdded ar arwynebeddau anwastad a llethrau ac wrth gerdded ymhlith llawer o bobl a gofodau cyfyngedig.<br>Nid oes gan blant, ar y gorau, ond y gallu lleiaf i gyflawni sgiliau Motor Mawr megis rhedeg a neidio.<br>Gall bydd angen cymhorthion ac addasiadau neu gymorth corfforol i gyflawni sgiliau hunangymorth.<br>Anawsterau gyda amgylcheddau anghyfarwydd.<br>Gall bod ganddynt dôn gyhyr isel<br>Anawsterau cyfathrebu a gall bod ganddynt anawsterau/anabledd dysgu cysylltiedig. | **Sgiliau Motor Man**<br>Sgiliau Motor Man anawsterau rheoli llaw dwys.<br>Tôn cyhyrau abnormal sylweddol ac/neu wendid yn atal gafael ffwythiannol mewn gwrthrychau a symudiad rheoledig pwrpasol.<br>Angen cymorth corfforol i allu dal i eistedd.<br>Hollol ddibynnol ar oedolyn i gyflawni tasgau rheoli llaw ac ar gyfer pob gofal personol.<br>Anawsterau dwys gyda sgiliau cyd-symud/cyfeiriadedd/synhwyraidd/canfyddiad<br>**Sgiliau Motor Mawr/Sgiliau Symudoledd**<br>Cerdded y tu mewn ac yn yr awyr agored ar arwynebeddau gwastad gyda chymorth i gerdded.<br>Mwy dibynnol ar gadair olwyn ar gyfer symud yn yr awyr agored a dan do ble mae pellter, torfeydd neu beryglon eraill yn ei gwneud yn anymarferol neu'n beryglus cerdded.<br>Gallu eistedd yn annibynnol ond gall bydd angen cymorth pelfig neu fongorff i wneud y gorau o ffwythiant a chael mynediad i'r cwricwlwm.<br>Efallai bod angen offer rheoli osgo.<br>Bydd angen cymorth gyda sgiliau hunan-gymorth.<br>NEU<br>Dim yn gallu cerdded yn ffwythiannol ond gall ddefnyddio cerdded fel ymarfer therapiwtig.<br>Gall drosglwyddo gyda chymorth a gall symud yn annibynnol mewn cadair olwyn a weithir â llaw neu sy'n cael ei phweru.<br>Gallu i eistedd yn debygol i fod yn gyfyngedig ac angen cymorth gydag osgo.<br>Angen offer penodol ar gyfer rheoli osgo.<br>- Angen cymorth yn y dosbarth a gyda sgiliau eraill hunan gymorth. |
| **PLASC** | • CT4<br>• SR4<br>• GS2, 3 neu 4<br>• AA4 | • CT4<br>• SR4<br>• GS2, 3 neu 4<br>• AA4 |
| **Math o Ymyrraeth** | Mewnbwn rheolaidd yr Athro/awes Arbenigol/Cydlynydd Meddygol Corfforol<br>**Sgiliau Motor Man**<br>Darpariaeth reolaidd o fewn cwricwlwm hyblyg sy'n sicrhau rhaglen wedi ei blaenoriaethu i ddatblygu sgiliau Motor Man/rheoli llaw.<br>Dulliau addysgu a chwricwlwm wedi eu cynllunio i hyrwyddo rheoli llaw.<br>Cefnogaeth oedolion am ran o'r dydd i gefnogi dysgu a chofnodi, yn cynorthwyo gydag anghenion corfforol, cyfrannu tuag at drefniant arholiadau, cynorthwyo gyda gofal personol, sicrhau diogelwch.<br>Argaeledd amrywiaeth eang o offer ac adnoddau ar gyfer dibenion penodol gydol y dydd. Cefnogaeth ar gael ar gyfer trefniadau arholi arbennig ble bo angen.<br>**Sgiliau Motor Mawr**<br>Rhaglenni unigol i ddatblygu sgiliau Motor Mawr/sgiliau symudoledd o fewn cynnwys a throsglwyddiad cwricwlwm gwahaniaethol.<br>Cefnogaeth oedolyn am ran o'r dydd ar gyfer gwahaniaethu cwricwlwm, gofal personol a sgiliau hunan gymorth, e.e. newid ar gyfer Addysg Gorfforol, defnyddio grisiau, gofalu am eiddo personol.<br>Argaeledd offer ac adnoddau unigol.<br><br>Asesu Risg<br>Mewnbwn gan asiantaethau sydd ynghlwm (Therapi galwedigaethol/Ffysio/Athro/awes Arbenigol /Seic Add /Th I a Ll) wedi ei ymgorffori i'r Cynllun Addysg Unigol/CDU/ Cynllun Meddygol<br>- Mynediad i fewnbwn oedolyn am 15 awr neu fwy yn ddibynnol ar gyrhaeddiad yr unigolyn a'r argymhellion amlasiantaethol. | Mewnbwn rheolaidd gan yr Athro/awes Arbenigol/Cydlynydd Meddygol Corfforol<br>Mewnbwn gan asiantaethau sydd yn ymwneud (Therapi galwedigaethol/Ffisiotherapi/Athro/awes Arbenigol/Seicoleg Addysgol/Therapi Lleferydd ac Iaith) wedi ei ymgorffori i'r Cynllun Addysg Unigol/CDU<br>Mynediad at hyfforddiant priodol ar gyfer staff ategol a dysgu (e.e. trin â llaw, bwydo)<br>**Sgiliau Motor Man**<br>Cwricwlwm unigol strwythuredig ar gyfer hyrwyddo a chynnal rheolaeth ffwythiannol Motor Man/llaw.<br>Cymorth oedolyn gydol y dydd i gefnogi dysgu a chofnodi, cynorthwyo gydag anghenion corfforol, cyfrannu tuag at drefniant arholiadau, cynorthwyo gyda gofal personol, sicrhau diogelwch.<br>Defnyddio offer ac adnoddau unigol iawn gydol y dydd.<br>**Sgiliau Motor Mawr**<br>Darpariaeth reolaidd o fewn cwricwlwm hyblyg sy'n blaenoriaethu datblygiad sgiliau Motor Mawr trwy raglen wedi ei thargedu.<br>Addasu'r safle fel bod lle i olwynion cadair fawr/offer Ffisiotherapi a darparu lle ar gyfer gweithgareddau ffisiotherapi allan o gadair olwyn.<br>Cymorth oedolion yn unigol a drwy gydol y dydd ar gyfer:<br>• Gwahaniaethu a chofnodi cwricwlaidd<br>• Gofal personol a sgiliau hunan-gymorth, e.e. dilladu, bwydo, canfod sut i fynd o amgylch safle'r ysgol<br>• Cyfathrebu<br>Angen amrywiaeth eang o adnoddau at ddibenion penodol gydol y dydd<br>Addasu mynediad/safle er mwyn sicrhau symudoledd annibynnol llawn a darparu lle ar gyfer gweithgareddau tu allan i gadair olwyn/ffisiotherapi. |

DRAFT

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Monitro** | | Fforwm Ardal ADYaCh: bob tymor<br>Trafod Adolygiad Blynyddol mewn Panel Cymedroli | Fforwm Ardal ADYaCh: bob tymor<br>Trafod Adolygiad Blynyddol yn y Panel Cymedroli |
| **Mesuryddion Cynnydd** | | • Cynnydd yn y prif ddangosyddion ar ddiwedd cyfnodau allweddol<br>• Cynnydd mewn sgorau safonedig sgiliau llythrennedd a rhifedd<br>• Asesiadau gan Asiantaethau Iechyd | • Cynnydd yn y prif ddangosyddion ar ddiwedd cyfnodau allweddol<br>• Cynnydd mewn sgorau safonedig sgiliau llythrennedd a rhifedd<br>• Asesiadau gan Asiantaethau Iechyd |
| **Cynnydd?** | **Ydy, mae <u>cynnydd da</u> wedi ei weld** | - Lleihau lefel y mewnbwn | - Lleihau lefel y mewnbwn |
| | **Ydy, mae <u>cynnydd digonol</u> wedi ei weld** | - Parhau â'r mewnbwn presennol | - Parhau â'r mewnbwn presennol |
| | **Na, cynnydd bychan iawn neu ddim cynnydd dros amser** | - Trafod addasu stategaethau neu symyd i'r cam nesaf gyda rhieini yr ysgol ac asiantaethau | - Trafod addasu stategaethau neu symyd i'r cam nesaf gyda rhieini yr ysgol ac asiantaethau |

DRAFT

| | Datganiad 3 |
|---|---|
| **Cyfrifoldeb am yr achos** | - Athro/awes dosbarth<br>- Cydlynydd ADYaCh<br>- Pennaeth<br>- Llywodraethwyr ADY |
| **Disgrifiad o angen** | **Sgiliau Motor Mawr:**<br>Dim yn gallu cerdded ond gall drosglwyddo gyda chymorth ac offer<br>Gall symud yn annibynnol mewn cadair olwyn wedi ei phweru neu gyda chymorth mewn cadair olwyn a weithir â llaw<br>Mae'n debyg bydd gallu i eistedd yn gyfyngedig ac angen cymorth gydag osgo.<br>Bydd angen cymorth sylweddol yn y dosbarth a gyda phob sgil hunan-gymorth.<br>Bydd angen rheolaeth osgo penodol.<br>Gall bod anhawster Sgiliau Motor Mawr cysylltiedig.<br>Gall bod anhawster dysgu/anabledd cysylltiedig. |
| **PLASC** | • CT3/4<br>• GS 3 neu 4<br>• SR3/4<br>• AA3/4 |
| **Math o Ymyrraeth** | Mewnbwn rheolaidd gan yr Athro/ Cydlynydd Meddygol Corfforol<br>Mewnbwn gan asiantaethau sy'n ymwneud (Therapi galwedigaethol/Ffisiotherapi/Athro/awes Arbenigol/ Seicoleg Addysgol/Therapi Lleferydd ac Iaith) wedi ei ymgorffori i'r Cynllun Addysg Unigol<br>Mynediad at hyfforddiant priodol ar gyfer staff ategol a dysgu (e.e. trin â llaw, bwydo)<br>Cymorth oedolion yn unigol a drwy gydol y dydd o fewn cwricwlwm unigol strwythuredig ar gyfer darparu a chynnal symudoledd ffwythiannol ar gyfer:<br>• Gwahaniaethu/cofnodi cwricwlwm<br>• Sgiliau gofal personol, hylendid a hunan-gymorth e.e. bwydo, toiledu, gwisgo<br>• Cyfathrebu<br>Addasu'r safle ar gyfer cadeiriau olwyn fawr/offer ffisiotherapi.<br>Mannau ar gyfer disgyblion sydd mewn perygl i dderbyn ffisiotherapi goddefol a dilyn gweithgareddau tu allan i gadair olwyn yn ddiogel o fewn yr amgylchfyd dysgu.<br>Asesiad Risg<br>Offer/adnoddau unigol iawn.<br>Gall bydd angen cefnogaeth luosog gan oedolion ar gyfer cyflawni tasgau penodol (e.e. toiledu, trosglwyddo i ffrâm sefyll, teclyn codi) yn ddibynnol ar asesiad risg<br>- Mynediad at hyfforddiant priodol ar gyfer staff ategol a dysgu (e.e. trin â llaw, bwydo) |
| **Monitro** | Fforwm Ardal ADYaCh/Panel Traws Sirol<br>Trafod Adolygiad Blynyddol mewn Panel Traws Sirol |
| **Mesuryddion Cynnydd** | • Cynnydd yn y prif ddangosyddion ar ddiwedd cyfnodau allweddol<br>• Cynnydd mewn sgorau safonedig sgiliau llythrennedd a rhifedd<br>• Asesiadau gan Asiantaethau Iechyd |

| | | |
|---|---|---|
| **Cynnydd?** | **Ydy, mae cynnydd da wedi ei weld** | - Reduce level of input |
| | **Ydy, mae cynnydd digonol wedi ei weld** | - Continue with the current level of input |
| | **Na, cynnydd bychan iawn neu ddim cynnydd dros amser** | - Discussion regarding modifying strategies or moving to the next stage by parents, school and involved agencies at the Annual Review |

DRAFT

# Meini Prawf Meddygol

| | Gweithredu Ysgol (GY) | Gweithredu Ysgol a Mwy (GY+) |
|---|---|---|
| **Cyfrifoldeb am yr achos** | - Athro/awes dosbarth<br>- Pennaeth<br>- Cydlynydd ADYaCh<br>- Llywodraethwyr ADY | - Athro/awes dosbarth<br>- Pennaeth<br>- Cydlynydd ADYaCh<br>- Llywodraethwyr ADY |
| **Disgrifiad o angen** | Angen cefnogaeth achlysurol fel nad yw'r cyflwr meddygol yn atal neu'n amharu ar fynediad i'r cwricwlwm, y gallu i gymryd rhan mewn gweithgareddau penodol yn yr ystafell ddosbarth neu mewn agweddau ar fywyd ysgol | Mae tystiolaeth Feddygol yn nodi fod y disgybl a chyflwr meddygol fydd yn cael effaith ar bresenoldeb a/neu fynediad cyson at y cwricwlwm pe **na fyddai'r cyflwr yn cael ei reoli neu ei fonitro** (e.e. monitro hypoglycemia, epilepsi sydd o dan reolaeth).<br>Darperir cefnogaeth wedi ei gynllunio fel nad yw'r cyflwr meddygol yn rhwystro neu darfu ar fynediad i'r cwricwlwm, y gallu i gymryd rhan mewn gweithgareddau penodol yn yr ystafell ddosbarth neu mewn agweddau o fywyd ysgol |
| **PLASC** | • CT1<br>• SR1<br>• GS1<br>• AA1 | • CT2<br>• SR3<br>• GS1<br>• AA3 |
| **Math o Ymyrraeth** | - Darpariaeth gofal iechyd drwy staff yr ysgol neu hunan foddion, gan ddilyn canllawiau meddygol | Gwneud trefniadau arbennig y cytunir arnynt gyda rhieni, ysgol a phersonél iechyd mewn Cynllun Gofal Iechyd drwy ddarpariaeth ysgol.<br><br>Mewnbwn yr Athro/ Cydlynydd Meddygol Corfforol drwy gais gan y Fforwm Ardal ADYaCh |
| **Monitro** | Rhieni a staff yr ysgol yn cydweithio i gynorthwyo'r plentyn i ddal i fyny gyda'r gwaith a gollwyd; gwneud trefniadau hyblyg ar gyfer gofynion gwaith | Staff, rhieni a disgybl yn gwneud trefniadau arbennig ynghylch materion cwricwlwm, cytuno ar ddull cyson o ymwneud ag addysg y plentyn<br>Fforwm Ardal ADYaCh yn monitro rôl yr Athro/ Cydlynydd Meddygol Corfforol |
| **Mesuryddion Cynnydd** | • Canran presenoldeb<br>• Prif ddangosyddion ar ddiwedd cyfnodau allweddol<br>• Sgorau safonedig sgiliau sylfaenol<br>• Tystiolaeth feddygol | • Canran presenoldeb<br>• Prif ddangosyddion ar ddiwedd cyfnodau allweddol<br>• Sgorau safonedig sgiliau sylfaenol<br>• Tystiolaeth feddygol |
| **Cynnydd?** | **Ydy, mae cynnydd da wedi ei weld** — Nid yw'r plentyn angen y menwbwn bellach: Lleihau lefel y mewnbwn | Nid yw'r plentyn angen y menwbwn bellach: Lleihau lefel y mewnbwn |
| | **Ydy, mae cynnydd digonol wedi ei weld** — Mae'r plentyn yn parhau i fod angen mewnbwn: Parhau | Mae'r plentyn yn parhau i fod angen mewnbwn: Parhau |
| | **Na, cynnydd bychan iawn neu ddim cynnydd dros amser** — Mae dirywiad wedi bod yn y cyflwr meddygol sydd yn arwain at angen am fwy o fewnbwn: | Mae dirywiad wedi bod yn y cyflwr meddygol sydd yn arwain at angen am fwy o fewnbwn |

DRAFT

| | Cynllun Datblygu Unigol (gyda Atodiad Meddygol) | Datganiad |
|---|---|---|
| **Cyfrifoldeb am yr achos** | - Athro/awes dosbarth<br>- Pennaeth<br>- Cydlynydd ADYaCh<br>- Llywodraethwyr ADY | - Athro/awes dosbarth<br>- Pennaeth<br>- Cydlynydd ADYaCh<br>- Llywodraethwyr ADY |
| **Disgrifiad o angen** | Mae Tystiolaeth Feddygol ac Addysgol yn nodi fod cyflwr meddygol y disgybl yn ansefydlog a thu hwnt i reolaeth. Mae hyn yn cael effaith ar bresenoldeb a/neu fynediad at y cwricwlwm (e.e. hypoglycemia ansefydlog, epilepsi sydd methu cael ei reoli gan feddyginiaeth). | Cyflwr meddygol sydd angen triniaeth rheolaidd cyfnod amser rheolaidd gan oedolyn<br>Cyflwr meddygol sy'n golygu fod yr unigolyn angen cyfnodau o gymorth oedolyn gyda tasgau fel newid 'dressings', bywdo a gastronomi, glanhau trachaeostomi, newid/rhoi cawod<br>Dwyster y cyflwr yn golygu fod angen mewnbwn penodol gan wasanaeth nyrsio<br>Cyflwr meddygol yn golygu fod yr unigolyn angen cymorth oedolyn drwy'r dydd ar gyfer anghenion gofal personol, toiledu, sicrhau gofal a diogelwch a cynorthwyo dysgu.<br>Cyflwr meddygol yn dilyn dirywiad cyflym<br>Cyflwr sydd angen monitro parhaus<br>Mae'r plentyn angen 'ventilation' a cymorth gyda bwydo |
| **PLASC** | • CT4<br>• SR4<br>• GS2, 3 neu 4<br>• AA4 | • CT4<br>• SR4<br>• GS2, 3 neu 4<br>• AA4 |
| **Math o Ymyrraeth** | Angen rheolaidd byr am ofal a thriniaeth, ble mae angen cael mynediad dyddiol i triniaeth neu moddion ar y safle.<br>Mae'r cyflwr meddygol yn cael effaith gyson ar y cwricwlwm sydd yn gofyn am fewnbwn penodol i sicrhau fod y plentyn yn gallu cael mynediad at y cwricwlwm.<br><br>Mewnbwn y r Athro/ Cydlynydd Meddygol Corfforol drwy gais gan y Fforwm Ardal ADYaCh | Sesiynau ffisiotherapi, ymarferion, newid bag colostomi<br><br>Mynediad at gymorth oedolyn pan fo angen yn ystod y dydd<br>Yr Athro/awes dosbarth yn monitro'r sefyllfa<br>Cydweithio agos rhwng yr ysgol a'r rhieni<br>Cymorth i sicrhau fod yr unigolyn yn cael mewnbwn i gyfleoedd cwricwlaidd ac all gwricwlaidd gan gynnwys ymweliadau addysgol.<br><br>Cymorth oedolyn am gyfnodau dyddiol<br>Cynllun gwaith unigol i sicrhau fod y plentyn yn gallu cadw i fyny gyda'r cwricwlwm os ydnt yn methu cyfnodau oherwydd y cyflwr (e.e. cyfnod yn yr ysbyty)<br>Yr ysgol yn monitro cynnydd ac yn cadw mewn gysylltiad agos gyda'r rhieni.<br>Cymorth i sicrhau fod yr unigolyn yn cael mewnbwn i gyfleoedd cwricwlaidd ac all gwricwlaidd gan gynnwys ymweliadau addysgol<br>Cynllun gwaith unigol i sicrhau fod y plentyn yn gallu cadw i fyny gyda'r cwricwlwm os ydynt yn methu cyfnodau oherwydd y cyflwr (e.e. cyfnod yn yr ysbyty)<br><br>Cymorth drwy'r dydd a goruchwyliaeth tra'n gorffwys<br>Yr ysgol yn monitro cynnydd ac yn cadw mewn gysylltiad agos gyda'r rhieni.<br>Cymorth i sicrhau fod yr unigolyn yn cael mewnbwn i gyfleoedd cwricwlaidd ac all gwricwlaidd gan gynnwys ymweliadau addysgol<br><br>Cymorth drwy gydol y cyfnod y mae'r unigolyn ar dir yr ysgol<br><br>Angen cymorth ymestynnol drwy'r cyfnod y mae'r unigolyn ar dir yr ysgol |
| **Monitro** | Staff, rhieni a disgybl yn gwneud trefniadau arbennig ynghylch materion cwricwlwm, cytuno ar ddull cyson o ymwneud ag addysg y plenty (Fforwm Ardal ADYaCh) | Fforwm Ardal ADYaCh/Panel Traws Sirol |
| **Mesuryddion Cynnydd** | • Canran presenoldeb<br>• Prif ddangosyddion ar ddiwedd cyfnodau allweddol<br>• Sgorau safonedig sgiliau sylfaenol<br>• Tystiolaeth feddygol | • Gwybodaeth gyfredol gan bersonél meddygol perthnasol<br>• Gwybodaeth gyfredol am gynnydd y plentyn a sut y mae'r cyflwr yn effeithio ar y plentyn gan yr ysgol:<br>• Canran presenoldeb<br>• Prif ddangosyddion ar ddiwedd cyfnodau allweddol<br>• Sgorau safonedig sgiliau sylfaenol |

| Cynnydd? | | | |
|---|---|---|---|
| | **Ydy, mae cynnydd da wedi ei weld** | Mae'r cyflwr meddygol wedi sefydlogi:<br>Lleihau lefel y mewnbwn | |
| | **Ydy, mae cynnydd digonol wedi ei weld** | Mae'r cyflwr yn parhau yn ansefydlog a'r plentyn yn parhau i fod angen mewnbwn:<br>Parhau | |
| | **Na, cynnydd bychan iawn neu ddim cynnydd dros amser** | Mae dirywiad wedi bod yn y cyflwr meddygol sydd yn arwain at angen am fwy o fewnbwn | |

DRAFT

| | Datganiad 3 |
|---|---|
| **Cyfrifoldeb am yr achos** | - Athro/awes dosbarth<br>- Cydlynydd ADYaCh<br>- Pennaeth<br>- Llywodraethwyr ADY |
| **Disgrifiad o angen** | **Sgiliau Motor Mawr:**<br>Dim yn gallu cerdded ond gall drosglwyddo gyda chymorth ac offer<br>Gall symud yn annibynnol mewn cadair olwyn wedi ei phweru neu gyda chymorth mewn cadair olwyn a weithir â llaw<br>Mae'n debyg bydd gallu i eistedd yn gyfyngedig ac angen cymorth gydag osgo.<br>Bydd angen cymorth sylweddol yn y dosbarth a gyda phob sgil hunan-gymorth.<br>Bydd angen rheolaeth osgo penodol.<br>Gall bod anhawster Sgiliau Motor Mawr cysylltiedig.<br>Gall bod anhawster dysgu/anabledd cysylltiedig. |
| **PLASC** | ● CT3/4<br>● GS 3 neu 4<br>● SR3/4<br>● AA3/4 |
| **Math o Ymyrraeth** | Mewnbwn rheolaidd gan yr Athro/ Cydlynydd Meddygol Corfforol<br>Mewnbwn gan asiantaethau sy'n ymwneud (Therapi galwedigaethol/Ffisiotherapi/Athro/awes Arbenigol/ Seicoleg Addysgol/Therapi Lleferydd ac Iaith) wedi ei ymgorffori i'r Cynllun Addysg Unigol/ Cynllun Datblygu Unigol<br>Mynediad at hyfforddiant priodol ar gyfer staff ategol a dysgu (e.e. trin â llaw, bwydo)<br>Cymorth oedolion yn unigol a drwy gydol y dydd o fewn cwricwlwm unigol strwythuredig ar gyfer darparu a chynnal symudoledd ffwythiannol ar gyfer:<br>• Gwahaniaethu/cofnodi cwricwlwm<br>• Sgiliau gofal personol, hylendid a hunan-gymorth e.e. bwydo, toiledu, gwisgo<br>• Cyfathrebu<br>Addasu'r safle ar gyfer cadeiriau olwyn fawr/offer ffisiotherapi.<br>Mannau ar gyfer disgyblion sydd mewn perygl i dderbyn ffisiotherapi goddefol a dilyn gweithgareddau tu allan i gadair olwyn yn ddiogel o fewn yr amgylchfyd dysgu.<br>Asesiad Risg<br>Offer/adnoddau unigol iawn.<br>Gall bydd angen cefnogaeth luosog gan oedolion ar gyfer cyflawni tasgau penodol (e.e. toiledu, trosglwyddo i ffrâm sefyll, teclyn codi) yn ddibynnol ar asesiad risg<br>- Mynediad at hyfforddiant priodol ar gyfer staff ategol a dysgu (e.e. trin â llaw, bwydo) |
| **Monitro** | Fforwm Ardal ADYaCh/Panel Traws Sirol<br>Trafod Adolygiad Blynyddol mewn Panel Traws Sirol |
| **Mesuryddion Cynnydd** | • Cynnydd yn y prif ddangosyddion ar ddiwedd cyfnodau allweddol<br>• Cynnydd mewn sgorau safonedig sgiliau llythrennedd a rhifedd<br>• Asesiadau gan Asiantaethau Iechyd |

| | | |
|---|---|---|
| **Cynnydd?** | **Ydy, mae <u>cynnydd da</u> wedi ei weld** | |
| | **Ydy, mae <u>cynnydd digonol</u> wedi ei weld** | |
| | **Na, cynnydd bychan iawn neu ddim cynnydd dros amser** | |

DRAFT

ADY

Strategaeth

# Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad

DRAFT

# Y Gwasanaethau Cynhwysiad

Cyngor Sir Ynys Môn
Isle of Anglesey County Council

Cyngor Gwynedd Council

# Cynnal Ymddygiad

## Cynnal Ymddygiad o Fewn Ysgolion

Mae Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn yn ymfalchïo yn y modd y mae pob disgybl yn cyflawni. Mae hyn yn enwedig yn wir am ein disgyblion sydd ag anawsterau ymddygiadol neu emosiynol. Mae ein hysgolion yn draddodiadol yn rhai cynhwysol dros ben ac mae hyn yn un o brif rinweddau'r ddwy sir.

### 1. Cyffredinol

Mae gan bob ysgol gyfrifoldeb i greu awyrgylch gefnogol a gofalus lle y mae'n bosib i bob disgybl ddatblygu'n hapus a hyderus.
Os yw disgybl yn cam ymddwyn neu'n arddangos ymddygiad annerbyniol mae pob ysgol yn cymryd camau cadarn, cyson a theg i symud ymlaen i'r cyfeiriad cywir.

Mae'r camau cadarn yma wedi eu seilio ar nifer o egwyddorion syml:

- fod yr athro/awes sydd â gofal o'r disgybl, *in loco parentis*, yn gwneud hyn yn y ffordd fwyaf positif a gofalgar
- mae pob disgybl yn bwysig ac yn rhan werthfawr o gymdeithas yr ysgol
- fod ein triniaeth o bob disgybl yn gyson a theg
- fod canmol disgyblion yn allweddol ar gyfer cynnig cyngor a chyfeiriad i ddisgyblion ynghyd â sicrhau fod ymddygiad annerbyniol yn cael ei gywiro
- gwerthfawrogi fod cysondeb a threfn yn cyfrannu tuag at foddhad a lles disgyblion
- fod meithrin atebolrwydd a chyfrifoldeb mewn unigolion yn rhan bwysig o nod yr ysgol
- fod cadw cysylltiad cyson â chartrefi'r disgyblion yn allweddol i sefydlu perthynas weithio effeithiol ac adeiladol gyda rhieni.

Nod Strategaeth a Pholisïau Cynnal Ymddygiad Ysgolion Gwynedd ac Ynys Môn yw:

- hyrwyddo cysondeb
- hwyluso'r gwaith o ddelio â phroblemau a thrwy hyn adeiladu hyder staff
- gwneud yn glir beth yw cyfrifoldebau'r tîm dysgu, arweinyddion bugeiliol, uwch dîm rheoli a phennaeth yr ysgol
- hyrwyddo ethos o weithio mewn partneriaeth rhwng disgyblion, staff yr ysgol ac asiantaethau allanol.

### 2. Gwobrwyo a Chanmoliaeth

Mae pwyslais gwaith ysgolion Gwynedd ac Ynys Môn yn y maes cynnal ymddygiad ar wobrwyo a chanmol ymddygiad da. Mae'n allweddol ein bod yn gwobrwyo a chanmol gan ei fod yn cael dylanwad cadarnhaol ar ymddygiad a'i fod yn arf pwerus i annog disgyblion i ymddwyn yn well. Mewn egwyddor dylai pob ysgol ffocysu ei sylw ar ymddygiad da a gwobrwyo yn hytrach na thynnu sylw at ymddygiad annerbyniol. Dylai pob ysgol fod yn ymarfer y canlynol yn rheoliad:

- canmoliaeth lafar;
- talu sylw i'r disgyblion sydd yn gwrando yn syth yn hytrach na thalu sylw i'r rhai sydd ddim yn gwrando;
- dyfarnu pwyntiau llwyddiant
- rhannu tystysgrifau dathlu llwyddiant yn gyson
- arddangos gwaith da, canmoliaeth gyhoeddus
- sylwadau ar waith
- sylwadau yn y llyfr cyswllt cartref
- tynnu sylw eraill at waith da.

### 3. Trefn Ddyddiol a Chysondeb Staff

**Pwysleisir y dylai staff ddisgwyl parch gan bob aelod o gymdeithas yr ysgol.** Dylai pob aelod o staff geisio dilyn y canllawiau yma gan fod sicrhau **cysondeb** ar draws yr ysgol yn allweddol i sicrhau trefn a chymdeithas barchus a phositif.

#### Gwersi

Yr athro/awes yw'r dylanwad mwyaf ar unrhyw ddosbarth mewn unrhyw wers. Mae llwyddiant y wers yn seiliedig ar y ffactorau elfennol canlynol:

- Prydlondeb yr athro/awes. Mae hyn yn allweddol er mwyn sicrhau cychwyn prydlon a threfn gynnar i'r gweithgareddau a'r dysgu.
- Cychwyn trefnus i wers.
- Diwedd trefnus i'r wers gyda'r disgyblion yn gadael ar amser.
- Trin y disgyblion gyda pharch. Dylid gwneud pob ymdrech i gynnal perthynas weithio bositif gyda'r disgyblion.
- Parodrwydd i ymateb yn syth i ymddygiad annerbyniol.
- Paratoi gweithgareddau'r wers yn ofalus.
- Gosod gwaith sydd wedi ei wahaniaethu'n addas gan sicrhau fod yr iaith a ddefnyddir i gyfathrebu yn addas ac yn cael ei deall gan bob disgybl.
- Rhaid bod yn ymwybodol o anghenion addysgiadol ac ymddygiadol unigolion a sut y gall hyn effeithio ar ymddygiad o fewn gwersi. Os oes gennych bryder am anghenion addysgiadol neu ymddygiadol plentyn/person ifanc dylid trafod hyn â'r Cydlynydd ADYaCh.

**Amser digyswllt**

Mae ymddygiad disgyblion mewn sefyllfaoedd anffurfiol yn arddangos gwir ethos yr ysgol. Mae sicrhau fod rheolau a safonau'r ysgol yn cael eu dilyn yn y sefyllfaoedd yma yn gyfrifoldeb ar bob aelod o staff bob amser.

**5. Ymddygiad Disgyblion Mewn Gwersi**

Mae gan bob disgybl gyfrifoldeb am ei ymddygiad ef/ei hun. Mae llwyddiant y wers yn seiliedig ar y ffactorau elfennol canlynol:

- Prydlondeb
- Dod i mewn yn drefnus a thawel
- Bod â'r offer angenrheidiol ar gyfer y wers
- Parodrwydd i wrando a dilyn cyfarwyddiadau'r wers
- Cwrteisi a pharch tuag at eraill
- Cymryd rhan adeiladol o fewn y wers ac yn y dysgu
- Parchu'r amgylchedd ddysgu
- Gadael y dosbarth yn drefnus a thawel

### 6. Disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol

Bydd ysgolion Gwynedd ac Ynys Môn yn rhoi ystyriaeth arbennig mewn achosion sydd yn ymwneud â disgyblion sydd ar y gofrestr ADY os ystyrir fod ei gyflwr meddygol, ei gefndir ethnig, ei anabledd, y ffaith ei fod mewn gofal ayyb. yn ffactor sydd wedi dylanwadu ar y camymddwyn.

## 7. Cyfathrebu Clir

Mae disgwyliadau ysgolion Gwynedd ac Ynys Môn o ran ymddygiad disgyblion gael eu cyfathrebu'n glir, syml a chyson. Mae gosod disgwyliadau cyson yn allweddol ac mae cyfathrebu'n syml a chlir yn ffordd o rannu'r weledigaeth yma. Mae llais yr athro/awes yn ddylanwad pwerus ac adeiladol. Dylid osgoi brawddegau cymhleth, defnydd eironi neu eiriau all ddrysu disgyblion yn enwedig pan fod disgybl yn anniddig neu amharod i wrando.

### Cyfathrebu â Chartrefi / Partneriaeth Rhieni

Mae gweithio gyda chartrefi a sicrhau cydweithrediad rhieni yn allweddol ar gyfer perthynas lwyddiannus ag unrhyw ddisgybl. Dylai pob ysgol yng Ngwynedd ac Ynys Môn fod yn agored i drafodaeth bob amser ac yn annog rhieni i gysylltu os oes unrhyw beth yn eu pryderu.
Wrth ganmol disgyblion mae'n allweddol i fanteisio ar y cyfle i gysylltu â rhieni.
Wrth ddisgyblu bydd yr ysgolion Gwynedd ac Ynys Môn yn cysylltu â rhieni er mwyn egluro'r cyd-destun ac unrhyw ymateb neu gosb a roddwyd gan yr ysgol. Dylid anelu tuag at gytundeb ynglŷn â'r ffordd ymlaen.

## 8. Ymateb i Broblemau Ymddygiad o Fewn Ysgol

### Rheolau'r Ysgol
Mae pob ysgol yng Ngwynedd ac Ynys Môn yn sicrhau fod rheolau'r ysgol yn wybyddus i bob disgybl ac i gymuned yr ysgol. Mae'r rheolau'n cael eu hadolygu'n flynyddol gan gynghorau ysgol, staff yr ysgol cyn i'r cyrff llywodraethol eu trafod a'u cymeradwyo.

#### Polisi Clod ac Ymddygiad Cadarnhaol
Mae pob ysgol yng Ngwynedd ac Ynys Môn â pholisi cyfredol ar gyfer hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol. Mae'r polisi hwn yn amlygu trefn yr ysgol o ran delio ag ymddygiad. Mae'r drefn yma yn raddoledig.

DRAFT

# Cefnogaeth Cynhwysiad Uwchradd

## 1. Gweledigaeth

Mae pob un o ysgolion uwchradd Gwynedd ac Ynys Môn â gweledigaeth glir o ran cynhwysiad. Mae'r weledigaeth yn canolbwyntio ar gynnal disgyblion o fewn yr ysgolion ac o fewn y ddarpariaeth prif lif. Sicrheir hyn drwy gyfleoedd amgen a chefnogaeth i ddisgyblion.

Drwy gytuno ar fesuryddion ansoddol a meintiol yn draws sirol yr ydym wedi sicrhau bod gweledigaeth yr ysgolion yn cyd-fynd â Gweledigaeth Cynhwysiad y Siroedd sef bod disgyblion ag anghenion emosiynol ac ymddygiadol yn cael eu cynhwyso'n llawn o fewn ysgolion Gwynedd ac Ynys Môn

Mae pob ysgol Uwchradd yn derbyn cyllideb ddatganoledig go gyfer a sicrhau cynhaliaeth i ddisgyblion sydd ag anghenion ymddygiadol ac /neu emosiynol.

## 2. Ar gyfer pwy mae'r ddarpariaeth?

Mae ystod eang o ddisgyblion yn manteisio ar y ddarpariaeth cynhwysiad o fewn yr ysgolion.

Mae nifer o disgyblion ag anghenion emosiynol cymdeithasol yn manteisio ar adnoddau'r ddarpariaeth gynhwysiad o fewn ysgol. O ganlyniad, mae'r defnydd o asiantaethau allanol ar gyfer anghenion llai dwys wedi lleihau. Mewn llawer o ysgolion, mae'r galw ar amser aelodau Uwch Dîm Rheoli wedi gostwng.

Mae gostyngiad mewn gwaharddiadau dros dro a pharhaol yn ffordd o fesur effaith y gwaith da mae pob ysgol Uwchradd yn ei wneud ym maes ymddygiad.

Nid yw'r ddarpariaeth yn sicrhau cynhwysiad disgyblion sydd ag anghenion ymddygiadol mwyaf dwys oddi mewn i'r Sir.

## 3. Beth yw'r ystod o ddarpariaethau?

Darpariaeth o fewn y dosbarth:
Darperir cynhaliaeth ar lawr y dosbarth ym mhob ysgol. Mae hyn yn cynnwys cymhorthydd un i un yn cadw disgybl/disgyblion ar dasg. Mae'r athro/awes pwnc yn cynllunio a thrafod gyda'r staff cynhwysiad y math o gefnogaeth sydd ei angen. Mewn rhai ysgolion, mae'r Uwch Dîm Rheoli / Staff Cynhwysiad yn monitro dosbarthiadau neu unigolion anodd yn rheolaidd. Mae polisi cynnal ymddygiad yr holl ysgolion yn manylu trefn glir i gadw disgyblion yn y dosbarth.

Darpariaeth tu allan i'r dosbarth:
Mae darpariaeth tu allan i'r dosbarth yn amrywio o ysgol i ysgol yn unol â'r galw. Mae gan bron bob un ystafell neu ystafelloedd penodol i gynnal/cefnogi disgyblion bregus a'r rhai ag anghenion ymddygiadol, cymdeithasol ac emosiynol. Mewn rhai o'r ystafelloedd, rhoddir pwyslais ar gefnogaeth emosiynol yn ogystal â rhoi cyfle i ddisgyblion ganolbwyntio ar eu gwaith drwy gefnogaeth staff sy'n deall eu hamgylchiadau. Mewn ystafelloedd eraill, rhoddir pwyslais ar gynnydd academaidd a all fod wedi cael ei amharu oherwydd anawsterau ymddygiad a/neu absenoldeb rheolaidd. Mae gan bob ysgol drefn gyfeirio i'r ddarpariaeth yma.

Mewn lleiafrif o ysgolion, darperir y gynhaliaeth emosiynol ac ymddygiadol o fewn yr un ystafell.

Mae ychydig iawn o ddisgyblion ag anghenion ymddygiadol dwys yn derbyn cyfran sylweddol o'u haddysg o fewn Ystafelloedd Cynhwysiad tu allan i'r dosbarthiadau prif lif. Mae hyn yn digwydd o dan arweiniad yr athro/awes cynhwysiad gyda'r cwricwlwm yn deillio o'r athrawon pwnc.

DRAFT

Nid oes ystafelloedd ymdawelu yn yr ysgolion.

## 4. Sut mae'r ddarpariaeth yn cael ei staffio?

Mae amrywiaeth yn ffordd mae'r ddarpariaeth yn cael ei staffio o ganlyniad i'r dyraniad cyllidol ac anghenion yr ysgol. Er enghraifft:
Athro/awes a Chymorthyddion Arbenigol /Cymorthyddion â gofal am gynhwysiad ar draws yr ysgol
Athro/awes a/neu Gymhorthydd Arbenigol â gofal am y ddarpariaeth gynhwysiad
Cymorthyddion yn cefnogi disgyblion ar lawr dosbarth
Cymorthyddion yn darparu cefnogaeth ADY i ddisgyblion sydd ag anghenion cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol yn ogystal
Cymorthyddion yn darparu cyrsiau er mwyn datblygu sgiliau llythrennedd emosiynol

## 5. Gwaith aml asiantaethol

Mae'r ddarpariaeth cynhwysiad er mwyn sicrhau lleihad yn niferoedd yr asiantaethau allanol a fyddai wedi ymweld yn achlysurol a disgyblion unigol. Er hyn parheir i ddarparu cefnogaeth arbenigol gan nifer llai o unigolion o asiantaethau allanol.

Mae ffurfio perthynas adeiladol â rhieni disgyblion sydd â phroblemau cymdeithasol, emosiynol ymddygiadol yn rhan bwysig o ddarpariaeth gynhwysiad, ac ar ei orau, pan fo'r ysgol yn cyd-weithio â'r asiantaethau allanol i gefnogi'r teuluoedd.

## 6. Monitro

Mae pob ysgol yn monitro gwaharddiadau (penodol a pharhaol), presenoldeb a chymwysterau yn fanwl. Defnyddir gwaharddiadau, presenoldeb a chymwysterau gan amlaf i fesur llwyddiant. Yn ogystal defnyddir lefelau niferoedd disgyblion sydd allan o waith, hyfforddiant neu goleg wedi iddynt orffen eu haddysg.

## 7. Rôl Llywodraethwyr

Mae llywodraethwyr yn ymwybodol o waith y ddarpariaeth cynhwysiad yn yr ysgolion.

DRAFT

# Gwasanaeth Cynnal Ymddygiad

## 1. Nod

Mae'r Gwasanaeth Cynnal Ymddygiad yn cyd-weithio ag ysgolion Gwynedd ac Ynys Môn i geisio newid cadarnhaol mewn ymddygiad pobl ifanc sydd yn profi anawsterau ymddygiadol, emosiynol a datblygiad cymdeithasol. Ein nod yw gwella ymddygiad a lleihau'r risg o waharddiad o ysgol.

## 2. Amcanion

Er mwyn cyrraedd at y nod hwn yr ydym fel gwasanaeth yn gosod yr amcanion canlynol;

- Sicrhau fod ethos ysgolion Gwynedd ac Ynys Môn yn sicrhau perchnogaeth yr ysgolion o'r bobl ifanc yma sydd ag anghenion ymddygiadol, emosiynol a chymdeithasol
- Pob athro/awes ymhob ysgol yng Ngwynedd ac Ynys Môn i dderbyn hyfforddiant priodol fydd yn arwain at athrawon sydd yn hyderus i weithio â phobl ifanc sydd ag anghenion ymddygiadol, emosiynol a chymdeithasol
- Sicrhau arweiniad arbenigol i alluogi ysgolion i deilwrio ymyraethau arbenigol o fewn adnoddau'r ysgol
- Sicrhau darpariaeth arbenigol safonol lleol ar gyfer y bobl ifanc ac anghenion ymddygiadol ac emosiynol mwyaf dwys

## 3. Mesuryddion

Mae'r Gwasanaeth Cynnal Ymddygiad yn mesur llwyddiant y ddarpariaeth drwy nifer o ddangosyddion. Nodir isod ein prif ddangosyddion;

- Gostyngiad mewn gwaharddiadau penodol a pharhaol
- Cynnydd mewn canran presenoldeb
- Cynnydd yn y prif ddangosyddion ar ddiwedd cyfnodau allweddol
- Cynnydd mewn canran o weithlu ysgolion sydd â hyfforddiant cyfredol mewn cynnal ymddygiad
- Lleihad yn y nifer o bobl ifanc sydd y profi anawsterau ymddygiadol, emosiynol a datblygiad cymdeithasol sydd yn cael ei lleoli'n all sirol

## 4. Darpariaeth

Mae'r ddarpariaeth gyflwyni'r drwy'r Gwasanaeth Cynnal Ymddygiad wedi ei rannu i ddau brif gydran.

**Gweithredu Ysgol**
*Cyffredinol*

Mae pob ysgol yng Ngwynedd ac Ynys Môn yn derbyn cyllideb ddatganoledig i weithredu strategaethau lefel ysgol i gefnogi pobl ifanc sydd ag anawsterau ymddygiadol/emosiynol.

Mae'r Gwasanaeth Cynnal Ymddygiad yn cefnogi gwaith yr ysgolion drwy gyflwyno rhaglen hyfforddiant cytunedig i bob athro/awes a chymhorthydd dosbarth. Mae'r rhaglen hyfforddiant yn gyson ar draws yr ysgolion gyda ffocws clir ar ddilyniant cynradd uwchradd.

Gall ysgolion gael mynediad i adnoddau parod a gwybodaeth benodol drwy Lyfrgell Adnoddau'r Gwasanaeth ADY a Chynhwysiad.
Mae'r rhaglen hyfforddiant yn cael ei adolygu bob 5 mlynedd a dim ond ymyraethau sydd â thystiolaeth o fod yn effeithiol sydd yn cael eu cymeradwyo.

DRAFT

**Gweithredu Ysgol a Mwy**
*Arbenigol*

Mae pob ysgol yng Ngwynedd ac Ynys Môn yn medru cyfeirio disgyblion i sylw'r Fforwm Ardal. Dylid gwneud hyn yn unol â'r Meini Prawf drwy ddilyn y drefn gytunedig. Fel rhan o'r ddarpariaeth gall ysgol dderbyn cefnogaeth arbenigol o fewn hanner tymor. Cynllunnir y gefnogaeth arbenigol drwy arweiniad ein Uwch Seicolegydd Ymddygiad a Chynhwysiad a'r Uwch Weithiwr Iechyd Meddwl gyda'r gwaith o fodelu, monitro a chyd-weithredu'r strategaethau dan arweiniad ein Pennaeth Cynnal Ymddygiad a'r Athrawon Arbenigol. Mae effeithiolrwydd y strategaethau arbenigol yn cael eu mesur ac adroddir yn ôl i'r Fforwm ar gynnydd yr unigolyn. Lle nad oes tystiolaeth o gynnydd mae'r gefnogaeth yn cael ei adolygu. Mae'r gefnogaeth Arbenigol yn dilyn camau penodol.

**Ymyrraeth Tîm**

Mae'r Gwasanaeth Cynnal Ymddygiad wedi ei rannu i dimau penodol, Dwyrain Gwynedd, Ynys Môn a Gorllewin/De Gwynedd. Mae pob tîm yn cynnwys Athro/awes Arbenigol, Cymhorthydd Arbenigol ac Uwch Weithiwr Iechyd Meddwl. Mae'n bwysig nodi fod gan ysgolion, drwy eu cyllidebau datganoledig, fynediad at Gymorthyddion Arbenigol ADY. Bydd y Fforwm yn cyfeirio y cymorth yma yn unol â'r gofyn.

Ar gais y fforwm gall y tîm ddarparu cynhaliaeth ddwys i unigolion neu grwpiau o ddisgyblion ar lawr dosbarth am gyfnodau estynedig. Drwy gynnig y gynhaliaeth yma o fewn yr ysgolion bydd modd adnabod yn well pam fod y disgyblion yn arddangos ymddygiad heriol ac hefyd adnabod a modelu sut i ymateb iddynt mewn ffordd gadarnhaol.

Dylid ystyried ymyrraeth tîm fel cam cyntaf cyn ystyried cynhaliaeth arbenigol.

**Cynhaliaeth Arbenigol** (*Canolfannau Arbenigol CA2 a CA3)*

Yn dilyn ystyriaeth lawn i ymrraeth tîm ar lefel ysgol gall y Gwasanaeth Cynnal Ymddygiad gynnig cynhaliaeth arbenigol ar gyfer nifer bach o ddisgyblion sydd ag anghenion sydd tu hwnt i'r hyn sydd yn ddisgwyliedig i ysgol ymateb iddo heb gymorth ychwanegol. Yn unol â'r Meini Prawf gall y Fforwm Ardal gyfeirio rhai disgyblion at y gynhaliaeth arbenigol fydd wedi ei leoli o fewn ysgolion Gwynedd ac Ynys Môn.

Mae unrhyw ddisgybl sydd yn derbyn cefnogaeth ein cynhaliaeth arbenigol yn gwneud gyda chynllun pendant i ddychwelyd yn llawn amser i'r prif lif. Mae'r disgybl yn parhau ar gofrestr yr ysgol ac mewn mwyafrif yr achosion lleoliadau hanner diwrnod a gynigir.

Y Fforwm Ardal sydd yn pennu hyd y lleoliad ond mae'r Gwasanaeth Cynnal Ymddygiad am i bob disgybl integreiddio'n ôl o fewn hanner tymor.

Mae nifer y disgyblion all gael mynediad i'r gynhaliaeth arbenigol yn cael ei gyfyngu i ddim mwy na 6 ar unrhyw amser. Drwy ddefnyddio sesiynau hanner diwrnod bydd modd addasu nifer y disgyblion all gael mynediad i'r ddarpariaeth gan dargedu grwpiau penodol.

Ni roddir ystyriaeth i ffiniau awdurdodau ac o ganlyniad gall plant o naill awdurdod fynychu cynhaliaeth arbenigol o fewn yr awdurdod arall.

Y Pennaeth Cynnal Ymddygiad a'r Uwch Seicolegydd Ymddygiad a Chynhwysiad sydd â'r cyfrifoldeb i sicrhau fod y gefnogaeth a gynigir o fewn y ddarpariaeth yn effeithiol ac yn addas i bwrpas. Byddant yn gweithio'n agos â'r Uwch Weithiwr Iechyd Meddwl er mwyn sicrhau fod y gefnogaeth yn cefnogi iechyd meddwl y disgyblion.

Bydd yr Uwch Weithiwr Iechyd Meddwl yn pontio â chartrefi'r disgyblion gan gynnig hyfforddiant a chefnogaeth i deuluoedd y disgyblion bregus yma.

**Pecynnau 25**

Mae'r Gwasanaeth Cynnal Ymddygiad â darpariaeth arbenigol ar gyfer nifer bach o ddisgyblion sydd wedi dadrithio'n llwyr o addysg erbyn neu yn ystod CA4. Mae'r ysgolion yn talu am fynediad at Becyn 25.

Y Fforwm Ardal ADYaCh sydd yn pennu mynediad yn unol â'r Meini Prawf.
Mae'r gwasanaeth ar y cyd ag Ysgol y Moelwyn yn llunio pecynnau o ddarpariaeth fydd yn anelu i roi hyd at uchafswm o 25 awr o ddarpariaeth i bob disgybl. Mae'r Pennaeth Cynnal Ymddygiad yn sicrhau ansawdd y sesiynau mae'r disgyblion yn ei gael drwy fonitro gwersi a chraffu llyfrau'r disgyblion.

Mae pecynnau pob disgybl yn wahanol ac wedi ei deilwrio o amgylch eu targedau a'u dyheadau fodd bynnag mae llythrennedd, rhifedd, technoleg gwybodaeth, profiad gwaith estynedig, chwaraeon, gwaith ieuenctid a chyrsiau coleg yn medru bod yn rhan o'r pecyn. Y Pennaeth Cynnal Ymddygiad fydd yn llunio a monitro'r pecynnau yma'n rheoliadd.

Mae pob disgybl â gweithiwr allweddol sydd mewn cyswllt rheoliadd â'r darparwyr, disgyblion, ysgolion a theuluoedd.

**Llywodraethiant**

Mae disgyblion sydd yn cael eu cyfeirio at y gynhaliaeth arbenigol ddwys yn y sector gynradd neu yn CA3 yn cael eu gofrestru'n ddeuol gyda'r ysgol lle lleolir y gynhaliaeth arbenigol.

Mae ansawdd y ddarpariaeth yn cael ei graffu gan fwrdd safonau EOTAS yr awdurdod ac o dan ofal y Pennaeth Cynnal Ymddygiad o ddydd i ddydd.

Mae disgyblion sydd yn cael mynediad at Becyn 25 yn cael eu cofrestru fel disgyblion Ysgol Arbennig Pendalar. Mae Pennaeth y Gwasanaeth Cynnal Ymddygiad yn rhan o dîm rheoli Ysgol Pendalar ac yn gweithio gyda'r ysgol i sicrhau ansawdd y ddarpariaeth arbenigol.

Mae ansawdd y ddarpariaeth yn cael ei fonitro'n rheolaidd gan Gorff Llywodraethu Ysgol Pendalar ynghyd â bwrdd safonau EOTAS yr awdurdod.

## 5. Strwythur Staffio

### Pennaeth Gwasanaeth Cynnal Ymddygiad

Mae Pennaeth Gwasanaeth Cynnal Ymddygiad yn atebol am redeg dydd i ddydd ac ansawdd y ddarpariaeth. Mae cyfrifoldebau'r rheolwr yn ymestyn o'r blynyddoedd cynnar hyd at ddiwedd Cyfnod Allweddol 4. Amlygir isod brif swyddogaethau'r Pennaeth Gwasanaeth Cynnal Ymddygiad

- Sicrhau fod diogelu plant yn flaenoriaeth o fewn y gwasanaeth.
- Llunio, gweithredu ac adrodd ar gynnydd cynllun busnes blynyddol yn unol â blaenoriaethau'r gwasanaethau addysg a'r gwasanaeth cynnal ymddygiad.
- Sicrhau datblygiad proffesiynol staff y gwasanaeth.
- Sicrhau gweithdrefnau asesu risg effeithiol.
- Sicrhau gweithredu'r drefn mynediad i ddarpariaethau uned.

## Uwch Seicolegydd Ymddygiad a Chynhwysiad

Mae'r Uwch Seicolegydd Ymddygiad a Chynhwysiad yn cynllunio'n strategol a sicrhau ansawdd y ddarpariaeth ar lefel ysgol a thu hwnt. Bydd ffocws penodol y gwaith o'r blynyddoedd cynnar hyd at ddiwedd Cyfnod Allweddol 3.

Amlygir isod brif swyddogaethau'r Uwch Seicolegydd Ymddygiad a Chynhwysiad

- Ymchwilio i'r strategaethau cynnal ymddygiad mwyaf effeithiol yn barhaus.
- Llunio rhaglen hyfforddiant 5 mlynedd ar gyfer staff ysgolion Gwynedd ac Ynys Môn.
- Llunio rhaglen hyfforddiant blynyddol i staff y gwasanaeth cynnal ymddygiad.
- Cysoni ymarfer Seicolegwyr Addysg ar draws Gwynedd ac Ynys Môn yn y maes cynnal ymddygiad a iechyd emosiynol.
- Arsylwi a theilwrio ymyraethau effeithiol i'w gweithredu ar lefel ysgol ar y cyd a'r Uwch Weithiwr Iechyd Meddwl.
- Sicrhau fod y Fforwm Ardal ADYaCh yn gweithredu yn unol â'r Meini Prawf.
- Arwain ar y rhaglenni a'r strategaethau a gyflwynir o fewn yr unedau arbenigol.
- Arsylwi a theilwrio ymyraethau effeithiol i'w gweithredu ar lefel uned.

## Athrawon Arbenigol Ymddygiadol

Mae'r Athrawon Arbenigol Ymddygiadol yn gweithredu o dan arweiniad y Pennaeth Cynnal Ymddygiad, argymhellion yr Uwch Seicolegydd Ymddygiad a Chynhwysiad ar lefel ysgol ac o fewn y gynhaliaeth arbenigol. Rôl yr athrawon yma fydd gweithredu'r strategaethau ar lefel ysgol gan sicrhau'r gynhaliaeth ac arweiniad gorau i athrawon ysgolion Gwynedd ac Ynys Môn.

Mae'r athrawon yn treulio cyfnodau o fewn y gynhaliaeth arbenigol yn gweithredu strategaethau a rhaglenni cytunedig i grwpiau bach o ddisgyblion, yn ogystal maent yn cefnogi athrawon ar lawr y dosbarth.

Mae'r athrawon yn ymestyn ar draws y cyfnodau allweddol gan sicrhau'r gynhaliaeth fwyaf cyson i'r disgyblion gan roi sylw penodol i'r cyfnod trosiannol cynradd / uwchradd.

## Uwch Weithiwr Iechyd Meddwl

Mae'r Uwch Weithiwr Iechyd Meddwl ar secondiad o CAMHS ac yn gweithredu o dan arweiniad Pennaeth Cynnal Ymddygiad. Darperir goruchwyliaeth broffesiynol drwy gydweithrediad y gwasanaeth CAMHS.

Rôl yr Uwch Weithiwr Iechyd Meddwl fydd gweithio'n agos gyda'r Uwch Seicolegydd a'r Pennaeth Cynnal Ymddygiad er mwyn cynllunio, lle'n briodol, ymyraethau i gefnogi iechyd meddwl disgyblion sydd yn arddangos problemau ymddygiadol, emosiynol a chyflyrau pryder (e.e. mudandod detholus, pryder cyffredinol) ac iselder. Gall yr ymyraethau yma fod drwy hyfforddiant, rhan o ymyrraeth tîm neu fel rhan o'r gynhaliaeth ddwys arbenigol.

Mae ffocws ar hyfforddiant ysgol gyfan a gwaith ataliol o fewn y maes. Yn ogystal mae ffocws ar gynnig arweiniad i rieni a gofalwyr.

Mae'r Uwch Weithiwr Iechyd Meddwl yn cynnig arweiniad i dîm bychan o weithwyr iechyd meddwl sydd yn rhan o'r timau ar lefel ardal.

Mae'r Uwch Weithiwr Iechyd Meddwl yn berson cyswllt i wasanaeth CAMHS ac yn sicrhau fod y cyfeiriadau ddaw o'r gwasanaethau addysg ac o ysgolion yn rhai addas.

**Cymorthyddion Arbenigol Cynnal Ymddygiad**

Mae'r Cymorthyddion Arbenigol Cynnal Ymddygiad yn gweithio ar y cyd â'r Athrawon Arbenigol Ymddygiadol i weithredu argymhellion Seicolegydd Ymddygiad Arbenigol fel rhan o ymyrraeth tîm neu fel rhan o gynhaliaeth arbenigol ddwys.

Yn absenoldeb un o'r Athrawon Arbenigol Ymddygiadol mae'r Cymorthyddion Arbenigol Cynnal Ymddygiad yn sicrhau parhad y gwasanaeth ac yn parhau i ddilyn rhaglen unigol y disgybl.

**Gweithwyr Hyrwyddo Iechyd Meddwl**

Mae'r Gweithwyr Hyrwyddo Iechyd Meddwl yn gweithio dan arweiniad yr Uwch Weithiwr Iechyd Meddwl i gyflwyno rhaglenni ymyrraeth i grwpiau neu ddisgyblion unigol.

Lle'n briodol gall y gweithwyr yma weithio gyda theuluoedd yn ogystal.

**Swyddogion Cynhwysiad Uwchradd P25**

Mae'r Swyddogion Cynhwysiad Uwchradd yn gweithredu fel person allweddol ar gyfer nifer bach o ddisgyblion sydd yn derbyn cefnogaeth drwy'r Pecyn 25.

O dan arweiniad y Pennaeth Cynnal Ymddygiad ac arweiniad cwricwlaidd Ysgol y Moelwyn maent yn darparu ac addasu pecynnau addysg i ddisgyblion ar lefel un i un neu mewn grwpiau bach.

Mae'r ddarpariaeth yma yn cael ei gynnal mewn amryw o leoliadau ar draws Gwynedd ac Ynys Môn gyda blaenoriaeth ar gynnig y gefnogaeth yn lleol.


## 6. Hyfforddiant

Mae'r Gwasanaeth Cynnal Ymddygiad yn cefnogi gwaith yr ysgolion drwy gyflwyno rhaglen hyfforddiant cytunedig i bob athro/awes a chymhorthydd dosbarth. Mae'r rhaglen hyfforddiant hon yn gyson ar draws yr ysgolion gyda ffocws clir ar ddilyniant cynradd uwchradd.

Mae'r rhaglen hyfforddiant yn cael ei adolygu bob 5 mlynedd a dim ond ymyraethau sydd â thystiolaeth o fod yn effeithiol sydd yn cael ei chymeradwyo.
Mae llyfrgell o adnoddau parod ar gael ar wefan y gwasanaeth fydd yn cael ei ddiweddaru'n rheolaidd.

DRAFT

## 7. Llifsiart Strwythur Staffio




### Gwasanaeth Aml Asiantaeth

Mae'r Gwasanaeth Cynnal Ymddygiad yn rhan o dîm aml asiantaeth. Drwy weithio'n integredig mae'r gwasanaeth a ddarperir i'r plant yn holistaidd ac yn fwy effeithiol.

### Gwasanaethau Cymdeithasol


Ni ellir gweithio â disgyblion sydd yn agored i wasanaethau statudol. Fodd bynnag pan fod disgybl yn agored byddwn yn cyd-weithio'n agos â'r gwasanaethau plant.

### Prifysgol Bangor

Mae'r Gwasanaeth yn cyfarfod yn rheolaidd â chynrychiolwyr o'r Brifysgol. Maent yn dylanwadu a chyfrannu tuag at raglen hyfforddiant y Gwasanaeth Cynnal Ymddygiad.

DRAFT

# Trosolwg o'r Gynhaliaeth Cynnal Ymddygiad



# Pecynnau 25

## 1. Nod

Mae Pecynnau 25 yn cael eu cynnig i'r disgyblion ysgolion Gwynedd ac Ynys Môn sydd wedi profi anawsterau ymddygiadol, emosiynol a datblygiad cymdeithasol mwyaf dwys yn ystod ag hyd at ddiwedd Cyfnod Allweddol 4. Ein nod o gyflwyno'r ddarpariaeth yma ydi ceisio newid cadarnhaol mewn ymddygiad y bobl ifanc, cynnig ffordd wahanol iddynt lwyddo'n academaidd ynghyd â dileu'r risg o waharddiad o ysgol.

## 2. Amcanion

Er mwyn cyrraedd at y nod hwn yr ydym fel gwasanaeth yn gosod yr amcanion canlynol;

- Sicrhau darpariaeth arbenigol wedi ei deilwrio ar gyfer y bobl ifanc mwyaf dwys yn ymddygiadol, emosiynol a chymdeithasol.
- Cyflwyno cwricwlwm eang a heriol sydd yn unol â'u gallu.
- Pob disgybl i dderbyn trothwy lefel 1 fel isafswm gyda throthwy lefel 2 yn darged i bob disgybl.
- Cefnogi disgyblion bregus i barhau i ymgysylltu ag addysg hyd at ddiwedd Cyfnod Allweddol 4 a thu hwnt.
- Cyd weithio'n agos â phob asiantaeth i gyfoethogi'r ddarpariaeth ymhellach a sicrhau darpariaeth cwbl holistaidd.

## 3. Mesuryddion

Mae'r Gwasanaeth Cynnal Ymddygiad yn mesur llwyddiant y ddarpariaeth Pecynnau 25 drwy nifer o ddangosyddion. Nodir isod ein prif ddangosyddion;

- Gostyngiad mewn gwaharddiadau penodol a pharhaol
- Cynnydd mewn canran presenoldeb
- 100% o ddisgyblion sydd yn cael eu derbyn ar y pecyn yn cyrraedd at drothwy lefel 1
- 100% yn ymgysylltu ag addysg, hyfforddiant neu waith 6 mis wedi iddynt adael y ddarpariaeth
- Lleihad yn y nifer o bobl ifanc sydd yn profi anawsterau ymddygiadol, emosiynol a datblygiad cymdeithasol sydd yn cael ei lleoli'n all sirol

## 4. Mynediad

Mae mynediad i'r Pecynnau 25 yn cael ei bennu drwy'r Fforwm Ardal.

Gwahoddir ysgolion i lunio ceisiadau am leoliad Pecyn 25 drwy'r Fforwm Ardal yn dymhorol.
Fel rhan o unrhyw gais dylid ceisio caniatâd rhiant a barn y person ifanc.

Mae'r panel yn ystyried anghenion y bobl ifanc ac ymateb yr ysgolion. Lle bo'r anghenion a'r ymateb yn cyfarfod â'r meini prawf mae lleoliad ar y pecyn yn cael ei warantu.

Mae nifer y disgyblion ar Becynnau 25 yn cael ei gyfyngu i 30.

Fel cam cyntaf o lunio unrhyw becyn mae'r ysgol â'r hyblygrwydd i gytuno a'r gwersi a/neu ddarpariaethau a all y disgybl barhau i'w dilyn yn yr ysgol.

Mae pob ysgolion yn talu £3500 am fynediad at Becyn 25. Lle bo ysgol yn cytuno i barhau ag elfennau o'r ddarpariaeth bydd y swm yma'n lleihau o £700 am bob 5 awr o ddarpariaeth.

## 5. Darpariaeth

### *Gweithiwr Allweddol*

Mae pob person ifanc sydd ar y Pecyn 25 yn derbyn cefnogaeth gweithiwr allweddol o dan oruchwyliaeth athro/ athrawes benodol. Rôl y gweithiwr allweddol ydi sicrhau fod y bobl ifanc yn ymwneud â'r addysg sydd yn cael ei gyflwyno iddynt drwy'r pecyn a bod yn bwynt cyswllt rheoliad i'r person ifanc leisio unrhyw bryder all fod yn bryderon personol neu'n ymwneud â'r ddarpariaeth. Swyddogion Cynhwysiad Uwchradd sydd yn diwallu'r rôl yma.

### *Amserlen Unigol*

O fewn wythnos i dderbyn mynediad i'r pecyn mae pob person ifanc yn cymryd rhan mewn adolygiad trylwyr. Ar ddiwedd yr adolygiad yma mae amserlen o ddarpariaeth yn cael eu llunio a fydd yn ymateb i ddyheadau'r unigolyn.
Mae pecynnau pob disgybl yn wahanol ac wedi ei deilwrio o amgylch eu targedau a'u dyheadau fodd bynnag mae llythrennedd, rhifedd, technoleg gwybodaeth, profiad gwaith estynedig, mewnbwn therapiwtig, chwaraeon, gwaith ieuenctid a chyrsiau coleg yn medru bod yn rhan o'r pecyn.

### *Presenoldeb*

Mae pob disgybl yn cael ei gofrestru ar gyfer pob sesiwn. Defnyddir yr un codau presenoldeb ac a ddefnyddir ar draws y sectorau addysg.
Mae targed presenoldeb yn cael ei osod ar gyfer pob disgybl yn dymhorol gyda'r targed hwn yn uwch na chanran presenoldeb y disgybl ar gyfer y flwyddyn addysgol ddiwethaf o fewn y prif lif.

Rôl y Swyddog Cynhwysiad Uwchradd fydd cysylltu â chartref y disgybl os nad yw'n troi i fyny ar y diwrnod.

### *Targedau Addysgol*

Mae pob pecyn yn sicrhau trothwy lefel 1 fel isafswm disgwyliadau gyda throthwy lefel 2 yn darged i bob disgybl. Mae'r gwasanaeth ar y cyd ag Ysgol y Moelwyn yn llunio pecynnau o ddarpariaeth fydd yn anelu i roi hyd at uchafswm o 25 awr o ddarpariaeth i bob disgybl.

### *Adolygu Targedau*

Trafodir cynnydd addysgol pob disgybl sydd â Phecyn 25 bob hanner tymor drwy'r Fforwm ADYaCh. Lle na fo cynnydd addas addasir y pecyn i gwrdd â'r angen.

### *Lleoliadau*

Lleolir y ddarpariaeth mewn lleoliadau amrywiol ar hyd a lle Gwynedd ac Ynys Môn. Yr ydym yn defnyddio canolfannau hamdden, llyfrgelloedd a lleoliadau eraill drwy gydweithrediad y trydydd sector. Ein bwriad bob amser yw canfod lleoliad lleol i'r disgyblion sydd â gofod digonol, cysylltiad i'r we a pherson cyfrifol o fewn cyrraedd pe byddai problem yn codi.

### *Arholiadau*

Mae pob disgybl yn cael eu cofrestru drwy Ysgol y Moelwyn fel ymgeiswyr allanol ar gyfer eistedd arholiadau allanol.
Mae gwaith cwrs y disgyblion yn cael ei farcio gan staff Ysgol y Moelwyn.
Mae'r disgyblion yn eistedd yr arholiad yn yr ysgolion uwchradd lleol gyda staff o'r adran addysg yn cefnogi'r gwaith o oruchwylio arholiadau pan fo'r angen.

***Diogelu***

Mae natur anghenion y disgyblion yma'n mynnu fod yr angen am drefniadau diogelu cadarn yn flaenoriaeth. Os cyfyd unrhyw bryder am ddiogelu unrhyw berson ifanc o fewn y ddarpariaeth mae'r cyfrifoldeb am gyfeirio'r achos yn disgyn ar y Swyddog Cynhwysiad Uwchradd sydd wedi derbyn y wybodaeth. Yn ogystal â chyfeirio'r pryder a chwblhau ffurflen gyfeirio'r gwasanaethau plant mae'n ofyn i'r Swyddog Cynhwysiad rannu'r cyfeiriad â Phennaeth y Gwasanaeth Cynnal Ymddygiad.
Pennaeth y Gwasanaeth Cynnal Ymddygiad fydd yn mynychu cyfarfodydd strategaeth a chynadleddau amddiffyn plant.
Swyddogion Cynhwysiad fydd yn rhan o unrhyw grŵp craidd.

Mae'r Pennaeth Cynnal Ymddygiad yn cyflwyno adroddiad blynyddol ar ddiogelu plant o fewn y ddarpariaeth Pecyn 25 yn unol â'r drefn ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd.

***Cludiant***

Gan ein bod yn darparu'r pecynnau yn lleol nifer bychan o ddisgyblion fydd â'r angen am gludiant arbenigol. Bydd y mwyafrif o ddisgyblion yn derbyn pas bws neu docyn trên. Lle nad yw'n ymarferol defnyddio cludiant cyhoeddus mae ystyriaeth ar gyfer comisiynu tacsi i'r lleoliad.

***Ysgol Arweiniol***

Ysgol y Moelwyn yw'r ysgol arweiniol ar gyfer y Pecyn 25 ar draws Gwynedd ac Ynys Môn. Mae'r ysgol yn darparu'r gefnogaeth isod;

- Arweiniad cwricwlaidd ar ffurf pecynnau gwaith mewn ystod o bynciau gan gynnwys pob un o'r pynciau craidd.
- Arweiniad cwricwlaidd ar ffurf cyfarfodydd rheoliad ag arweinyddion pwnc.
- Cyngor ar sut i addasu a chyflwyno darnau penodol o waith.
- Cofrestru disgyblion ar gyfer arholiadau (ymgeiswyr allanol)
- Hyfforddi'r Swyddogion Cynhwysiad Uwchradd mewn meysydd cwricwlaidd

***Llywodraethiant***

Mae disgyblion sydd yn cael mynediad at Becyn 25 yn cael eu cofrestru fel disgyblion Ysgol Arbennig Pendalar.

Mae ansawdd y ddarpariaeth yn cael ei fonitro'n rheolaidd gan Gorff Llywodraethu Ysgol Pendalar ynghyd a bwrdd safonau EOTAS yr awdurdod.

DRAFT

# Cynhaliaeth Arbenigol CA2 a CA3

## 1. Nod

Mae'r gynhaliaeth arbenigol ddwys ar gyfer nifer bach o ddisgyblion sydd ag anghenion sydd tu hwnt i'r hyn sydd yn ddisgwyliedig i ysgol ymateb iddo. Ein nod o gyflwyno'r ddarpariaeth yma ydi ceisio newid cadarnhaol hir dymor mewn ymddygiad y bobl ifanc a thrwy hyn sicrhau eu bod yn medru parhau i lwyddo'n academaidd o fewn cyfundrefn addysg arferol.

## 2. Amcanion

Er mwyn cyrraedd at y nod hwn yr ydym fel gwasanaeth yn gosod yr amcanion canlynol;

- Sicrhau darpariaeth arbenigol wedi ei deilwrio ar gyfer y bobl ifanc mwyaf dwys yn ymddygiadol, emosiynol a chymdeithasol.
- Sicrhau fod disgyblion yn cael eu cyfeirio'n brydlon i'r ddarpariaeth
- Sicrhau fod safonau'r ddarpariaeth yn gyson dda.
- Sicrhau fod y ddarpariaeth wedi ei chynllunio'n ofalus gyda ffocws penodol.
- Cefnogi'r bobl ifanc yn y ffordd fwyaf effeithiol drwy gyd weithio â gweithlu ysgolion.

## 3. Mesuryddion

Mae'r Gwasanaeth Cynnal Ymddygiad yn mesur llwyddiant y ddarpariaeth yr unedau arbenigol drwy nifer o ddangosyddion. Nodir isod ein prif ddangosyddion;

- Gostyngiad mewn gwaharddiadau penodol a pharhaol
- Cynnydd mewn canran presenoldeb
- Lleihad yn y niferoedd o bobl ifanc sydd y profi anawsterau ymddygiadol, emosiynol a datblygiad cymdeithasol sydd yn cael mynediad i Becynnau 25.
- Lleihad yn y niferoedd o bobl ifanc sydd yn profi anawsterau ymddygiadol, emosiynol a datblygiad cymdeithasol sydd yn cael eu lleoli'n all sirol.

## 4. Mynediad

- Mae mynediad i'r gynhaliaeth arbenigol yn cael ei bennu drwy'r Fforwm Ardal fydd yn cyfarfod bob hanner tymor.
- Mae mynediad at y gynhaliaeth arbenigol yn rhan o ymateb graddoledig.
- Nid oes modd i ysgolion lunio ceisiadau am leoliad yn y gynhaliaeth arbenigol, y Fforwm Ardal fydd yn pennu mynediad yn unol â chynllun y disgybl.
- Fel rhan o'r broses fynediad dylid ceisio caniatâd rhiant a barn y person ifanc.
- Mae'r Fforwm yn ystyried anghenion y bobl ifanc ac ymateb blaenorol yr ysgolion. Lle bo'r anghenion a'r ymateb yn cyfarfod â'r meini prawf mae lleoliad mewn cynhaliaeth arbenigol yn cael ei ganiatáu
- Mae nifer y disgyblion o fewn unrhyw gynhaliaeth arbenigol yn cael ei gyfyngu i 6 ar unrhyw amser.
- Ein nod yw cynnig lleoliadau hanner diwrnod, fodd bynnag, gellir ystyried lleoliadau estynedig mewn amgylchiadau eithriadol.

## 5. Staffio

Ar unrhyw amser o fewn yr gynhaliaeth arbenigol bydd dau aelod o staff all gynnwys Athro/awes Arbenigol, Cymhorthydd Arbenigol, Uwch Swyddog Iechyd Meddwl neu Swyddog Cynhwysiad Uwchradd. Mae hyn yn sicrhau cymhareb hael oedolyn i blentyn.

## 6. Darpariaeth

### *Cwricwlwm*

Yn ystod cyfnod y bobl ifanc o fewn yr gynhaliaeth arbenigol maent yn dilyn cwricwlwm arbenigol sydd yn targedu angen ymddygiadol neu emosiynol penodol mewn modd therapiwtig a holistaidd.
Er yn ymarfer sgiliau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth nid yw'r sesiynau'n canolbwyntio'n benodol ar yr agweddau yma.

### *Presenoldeb*

Mae pob disgybl yn cael ei gofrestru ar gyfer pob sesiwn. Defnyddir yr un drefn a chodau presenoldeb ac a ddefnyddir ar draws y sectorau addysg. Bydd y bobl ifanc yn cael eu cofrestru'n fel eu bod yn cael addysg ar safle arall yn y fam ysgol.
Mae targed presenoldeb yn cael ei osod ar gyfer pob cyfnod yn yr gynhaliaeth arbenigol. Mae'r targed yma'n uwch na'r canran presennol.
Rôl Athro/awes Arbenigol Ymddygiadol fydd cysylltu â chartref y disgybl os nad yw'n troi i fyny ar y diwrnod.

### *Targedau*

Mae pob cyfnod o fewn y ddarpariaeth arbenigol ar gyfer targedu agwedd benodol o anghenion ymddygiadol neu emosiynol.
Mae'r targedau yn cael eu cytuno gyda'r bobl ifanc, rhieni ac yr ysgolion.

### *Adolygu Targedau*

Trafodir cynnydd pob disgybl sydd o fewn yr uned arbenigol yn barhaus gyda'r ysgol prif lif a'r rhieni, ac ar ddiwedd y lleoliad llunnir adroddiad crynodol sydd yn crynhoi cryfderau a meysydd sydd angen gwella. Fel rhan o'r adroddiad bydd athrawon y bobl ifanc yn derbyn arweiniad ar strategaethau cynnal effeithiol ynghyd â chanllawiau ar sut i'w gweithredu.

### *Lleoliadau*
Lleolir y ddarpariaeth oddi mewn i ysgolion cynradd ac uwchradd Gwynedd ac Ynys Môn. Mae'r cyfrifoldeb o ran iechyd a diogelwch y safle yn gyfrifoldeb i Bennaeth yr ysgol.

Mae'r cyfrifoldeb o ran adnoddau, staffio, diogelu a rhedeg dydd i ddydd yr unedau yn gyfrifoldeb i Bennaeth y Gwasanaeth Cynnal Ymddygiad.

### *Cludiant*

Darperir cludiant nol a 'mlaen o'r gynhaliaeth arbennig. Ar gyfer y sesiynau boreol mae'r tacsi yn codi disgybl o'r aelwyd ac yn ei dychwelyd i'r ysgol prif lif. Ar gyfer y sesiynau yn y prynhawn mae'r bobl ifanc yn cael tacsi o'r ysgolion prif lif ac yn cael ei dychwelyd adref.

### *Profion Cenedlaethol*

Yn ystod cyfnod y profion cenedlaethol mae'r gynhaliaeth arbennig yn cynnig lleoliad i'r disgyblion eistedd y profion o fewn grwpiau llai. Cyfrifoldeb yr ysgolion prif lif ydi sicrhau nad yw lleoliad o fewn yr gynhaliaeth arbennig yn cael effaith ar berfformiad y disgyblion dan sylw.

***Diogelu***

Mae natur anghenion y disgyblion yma'n mynnu fod yr angen am drefniadau diogelu cadarn yn flaenoriaeth. Os cyfyd unrhyw bryder am ddiogelu unrhyw berson ifanc o fewn y ddarpariaeth mae'r cyfrifoldeb am gyfeirio'r achos yn disgyn ar yr Athrawon Ymddygiadol Arbenigol sydd wedi derbyn y wybodaeth. Yn ogystal â chyfeirio'r pryder a chwblhau ffurflen gyfeirio'r gwasanaethau plant mae'n ofyn i'r Athrawon Ymddygiadol Arbenigol rannu'r cyfeiriad â'r person dynodedig amddiffyn plant o fewn yr ysgol a Phennaeth y Gwasanaeth Cynnal Ymddygiad.

Y Pennaeth Cynnal Ymddygiad fydd yn mynychu cyfarfodydd strategaeth a chynadleddau amddiffyn plant ar ran y gwasanaeth.

Ni all staff y gynhaliaeth arbenigol fod yn rhan o grwpiau craidd dim ond cyfrannu adroddiadau ar gais yr ysgolion prif lif.
Mae'r Pennaeth Cynnal Ymddygiad yn cyflwyno adroddiad blynyddol ar ddiogelu plant o fewn yn ddarpariaeth yn unol â'r drefn ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd.

DRAFT

# Profiad Gwaith ac Estynedig

## 1. Nod

Mae'r cynllun profiad gwaith (wythnos o brofiad gwaith) ac estynedig (un diwrnod yr wythnos o brofiad gwaith yn ystod tymhorau'r ysgol) yn caniatáu i ddisgyblion Gwynedd ac Ynys Môn sy'n mlwyddyn 10 neu uwch fynychu lleoliad gwaith gyda phwyslais ar agweddau dysgu. Nod y cynllun yw cynyddu presenoldeb a gwella ymddygiad a chymhelliant disgyblion gan gynnwys datblygu sgiliau byd gwaith a fydd yn eu gwneud yn fwy cyflogadwy gan leihau'r siawns o fod yn NEET ar ôl gadael ysgol.

## 2. Amcanion

Er mwyn cyrraedd at y nodau uchod yr ydym fel gwasanaeth yn gosod yr amcanion canlynol;

- Ymateb yn brydlon a chyson i geisiadau ysgolion am brofiad gwaith estynedig.
- Cysylltu gyda chyflogwyr i ganfod lleoliadau addas ar gyfer y disgyblion.
- Gwneud ymweliad addasrwydd ar y lleoliadau gwaith i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â rheolau iechyd a diogelwch cyn i ddisgyblion gychwyn.
- Trefnu cyfweliadau a diwrnodau cychwyn ar ran y disgyblion.
- Sicrhau bod y bas data o leoliadau addas yn cael ei ddiweddaru'n gyson.

## 3. Mesuryddion

Mae'r cynllun profiad gwaith yn mesur llwyddiant y ddarpariaeth drwy nifer o ddangosyddion. Nodir isod ein prif ddangosyddion;

- Cynnydd mewn canran presenoldeb.
- Perfformiad ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 4 yn prif ddangosyddion.
- Nifer o ddisgyblion sydd wedi cymryd rhan yn y cynllun.
- Nifer y disgyblion sydd wedi ennill cymhwyster cydnabyddedig yn dilyn lleoliad profiad gwaith estynedig.
- Nifer o ddisgyblion sydd wedi newid lleoliadau yn ystod y flwyddyn.
- Adborth cyflogwyr ar ddiwedd y profiad.

## 4. Sut mae trefnu profiad gwaith?

Mae gan bob Ysgol neu Uned Gyfeirio Disgyblion Gydlynydd Profiad Gwaith sy'n gyfrifol am oruchwylio unrhyw raglenni Profiad Gwaith.
Gofynnir i fyfyrwyr ddod o hyd i'w lleoliadau eu hunain gyda chymorth athrawon/rhieni. Os na allant ddod o hyd i leoliad gellir cwblhau ffurflen gyfeirio a'i anfon at Swyddog Profiad Gwaith, gall y swyddog helpu myfyriwr ddod o hyd i leoliad. Unwaith bydd y cwmni'n barod i gymryd myfyriwr bydd y cwmni'n cael ymweliad addasrwydd lleoliad. Gofynnir wedyn i Rieni, Cyflogwyr a Myfyrwyr gwblhau'r ffurflen gymeradwyo sy'n dynodi bod pob parti'n cytuno gyda'r trefniadau.

## 5. Proses Gyfeirio

Bydd pob cais am brofiad gwaith yn cael eu cyfeirio drwy gydlynwyr profiad gwaith yn yr ysgol. Fe fydd rhaid i'r disgybl, rhiant a'r ysgol gwblhau ffurflen gyfeirio cyn bydd unrhyw waith yn cael ei wneud yn chwilio am leoliad addas.
Dylai unrhyw gais am brofiad gwaith fod yn eglur a manwl gan ddatgan unrhyw beth all fod yn berygl i iechyd a diogelwch y plentyn, cyflogwr, aelodau o staff a'r cyhoedd. Os ydi'r disgyblion yn gweithio gydag asiantaethau allanol megis y Gwasanaeth Cyfiawnder yna bydd disgwyl iddynt gyflwyno asesiad risg priodol i benderfynu beth fyddai'n addas ar gyfer y disgybl. Dim ond unwaith bydd yr holl fanylion wedi'i derbyn byddwn yn mynd ati i ddarganfod lleoliadau fwyaf addas ar gyfer y disgyblion.



DRAFT

## 6. Ffurflen Gymeradwyo a Chaniatâd

Cyn bod disgyblion yn mynd allan ar eu profiad gwaith fe fydd y Swyddog Profiad Gwaith yn ymweld â'r safle gwaith er mwyn sicrhau bod y lleoliad yn ddiogel. Yn ystod yr ymweliad bydd y swyddog yn cwblhau ffurflen cymeradwyo a chaniatâd gyda'r cyflogwr. Mae'r Ffurflen Gymeradwyo a Chaniatâd yn ffordd y gall yr holl bartneriaid (myfyriwr, rhiant, cyflogwr ac ysgol) gymeradwyo'n swyddogol y gweithgareddau a'r amodau drwy ei arwyddo. Ni all lleoliad gwaith ddigwydd heb i'r ffurflen hon gael ei chwblhau'n llawn a'i dychwelyd i'r ysgol. Mae'r ffurflen hon yn nodi risgiau arbennig a'r mesurau rheoli yn ogystal ag amlinellu cyfrifoldebau pob partner.

## 7. Trefniadau Monitro

Ar gyfer profiad gwaith bloc ac estynedig, cyfrifoldeb yr ysgol ydi hi i fonitro'r lleoliadau. Bydd aelod o staff yr ysgol yn ymweld â chyflogwr yn ystod y lleoliad er mwyn siarad â'r myfyriwr a'r goruchwyliwr i fonitro ac adolygu cynnydd y myfyriwr. Os nad yw ymweliad yn "ymarferol resymol" e.e. y tu allan i'r sir, bydd yr ysgol yn cysylltu â'r cyflogwr a'r myfyriwr ac yn cwblhau adroddiad.

## 8. Staffio

**Swyddog Profiad Gwaith**

Mae un Swyddog Profiad Gwaith yn weithredol yng Ngwynedd ac Ynys Môn.
Mae'r Swyddog gyda chyfrifoldeb dros ddarganfod lleoliadau addas ar gyfer disgyblion sy'n mynd allan ar brofiad gwaith estynedig. Unwaith bydd lleoliadau wedi eu canfod ar gyfer lleoliadau bloc ac estynedig yna bydd y swyddog yn ymweld â'r lleoliadau gwaith. Tra ar ymweliad fe fydd y swyddog yn casglu manylion am y cyflogwr i sicrhau bod y lleoliad yn ddiogel ac yn addas. Wrth gasglu'r manylion fe fydd asesiad risg yn cael ei gwblhau ar y dyletswyddau bydd gan y disgybl tra yn y gweithle.
Unwaith bydd yr holl fanylion am y lleoliadau wedi eu casglu am y cyflogwyr bydd y swyddog yn anfon y ffurflen i gael ei arwyddo gan yr ysgol, disgybl a rhiant. Unwaith bydd pawb wedi ei arwyddo bydd copi yn cael ei anfon i'r cyflogwyr a'r cydlynwyr yn yr ysgolion.
Mae'r swyddog yn diweddaru'r bas data yn dilyn yr ymweliadau â chyflogwyr gan sicrhau ei fod yn gyfredol i'r ysgolion.

## 9. Cyllideb

Bydd pob ysgol yn talu ffi am leoliad profiad gwaith estynedig.

DRAFT

# Meini Prawf Ymddygiad

## Tîm Integredig Cynnal Ymddygiad - Mynediad

| | Meini Prawf | Tystiolaeth | Mesur (Fforwm yn unig) |
|---|---|---|---|
| **Gweithredu Ysgol** | Mae gan yr Ysgol systemau ysgol gyfan yn eu lle i gynnal ymddygiad da<br>e.e. grwpiau targedu Talkabout | • Map Darpariaeth Ysgol Gyfan<br>• Gwybodaeth Ffurflen Gyfeirio | |
| **Gweithredu Ysgol a Mwy** | Mae ymgynghoriad wedi cymryd lle gyda Seicolegydd Addysg ac mae argymhellion wedi eu dilyn - mae tystiolaeth o hynny | • Cofnod o Ymgynghori GSA<br>• Cynllun Addysg/Ymddygiad Unigol wedi ei werthuso | |
| **Asesiadau Ymddygiad/ Datblygiad Emosiynol a Cymdeithasol** | Gwybodaeth o broffilio penodol yn dangos fod ymddygiad y disgybl yn cael effaith sylweddol a rheolaidd ar ei c/chynhwysiad addysgol, cymdeithasol ac emosiynol y rhan fwyaf o'r amser. | • Holiadur Athrawon Gwasanaeth Cynnal Ymddygiad<br>*a/neu*<br>• Proffil Boxall | |
| **Gwahaniaethu** | Mae'r dystiolaeth yn dangos fod angen amgylchedd dysgu sydd wedi ei addasu yn sylweddol ac mae'r disgybl angen mewnbwn oedolyn i ddilyn nifer o'r cyfleoedd addysgol a gynigir. | Cyfuniad o'r Uchod | |
| **Cynnydd dros amser** | Mae'r disgybl yn parhau i gael anawsterau sylweddol gydag ymddygiad/datblygiad emosiynol er gwaethaf i'r ysgol dargedu anghenion y plentyn dros gyfnod o 6 mis neu fwy yn defnyddio Cynllun Cyfathrebu Unigol a Chynllun Addysg Unigol/Cynllun Datblygu Unigol<br><br>Mae'r cynnydd a wneir dros dymor yn gyfyngedig iawn gyda sgiliau addysgol y plentyn yn cael ei effeithio yn sylweddol a thystiolaeth glir o hynny i'w weld yn yr asesiadau safonedig/cwricwlaidd yn yr ysgol. | Cyfuniad o'r uchod | |

DRAFT

## Tîm Integredig Cynnal Ymddygiad - Gadael

*(D.S. Dim ond angen cyfarfod un o'r meini prawf gyda sêr)*

| Meini prawf | Tystiolaeth | Mesur |
|---|---|---|
| Mae'r ysgol wedi gwneud defnydd adeiladol o fewnbwn y Tîm ac wedi addasu strategaethau yn effeithiol i gynorthwyo cynhwysiad y disgybl. | • Map darpariaeth<br>• Gwybodaeth gan y Tîm Cynnal Ymddygiad<br>• CAU/CDU | |
| Mae effaith yr anhawster yn achlysurol ac mae'r plentyn yn gwneud cynnydd disgwyliedig o ran sefydlogi ymddygiad, meithrin a defnyddio sgiliau hunan reolaeth, datblygu sgiliau emosiynol | • Holiadur Athrawon wedi ei adolygu<br>• Proffil Boxall wedi ei adolygu | |
| Mae'r proffiliau ymddygiad (e.e. Holiadur Athrawon, Proffil Boxall) yn dangos cynnydd pendant | • Holiadur Athrawon wedi ei adolygu<br>• Proffil Boxall wedi ei adolygu | |
| Bellach nid yw anawsterau ymddygiadol ac emosiynol y person ifanc yn cael eu hystyried yn sylweddol ac ni theimlir eu bod yn effeithio'n rheolaidd ar eu gallu i ddygymod gyda'r cwricwlwm, amgylchedd dosbarth a gofynion cymdeithasol amgylchedd yr ysgol. | Cyfuniad o'r uchod | |
| Mae'r plentyn wedi datblygu'n ddigonol o ran lefel y gefnogaeth sydd ei angen i wneud tasgau yn y dosbarth. Gallant wneud tasgau sydd wedi eu gwahaniaethu yn briodol gydag annibyniaeth y mwyafrif o'r amser gyda chefnogaeth achlysurol. | Cyfuniad o'r uchod | |
| Mae'r plentyn wedi datblygu yn ddigonol o ran hyder a chymdeithasoliad. Er enghraifft, gallant gymdeithasu gyda'u cyfoedion o fewn amseroedd di-strwythur – priodol o ran oed am gyfnodau penodol. | Cyfuniad o'r uchod | |
| * Mae cyfnod y ddarpariaeth benodol wedi dod i ben a bydd y Fforwm Ymddygiad yn ystyried darpariaeth arall ar ei gyfer/ei chyfer | • Gwybodaeth gan y Tîm Cynnal Ymddygiad/ Seicolegydd Addysgol | |
| *** Ar sail y dystiolaeth uchod, consensws gan y rhieni, staff a gweithwyr proffesiynol eraill fod y plentyn yn defnyddio strategau i'w alluogi i ddilyn y cwricwlwm er gwaetha'r anawsterau penodol sydd ganddynt.** | • Gwybodaeth gan y Tîm Cynnal Ymddygiad<br>• Gwybodaeth o adolygu CDU | |
| * Gwnaed diagnosis gwahanol o anhawster sylfaenol y plentyn/person ifanc, ac mae'r holl asiantau a gofalwyr yn cytuno fod darpariaeth/cefnogaeth arall yn fwy priodol. | • Gwybodaeth gan y Tîm Cynnal Ymddygiad<br>• Gwybodaeth o adolygu CAU/CDU | |
| * Mae'r plentyn wedi bod yn cael cefnogaeth am gyfnod sylweddol (e.e. 12 mis+) ac mae tystiolaeth o brofion safonedig, asesiadau cwricwlwm, proffiliau ymddygiad a barn rhieni, staff, a gweithwyr proffesiynol eraill na fu llawer neu unrhyw gynnydd. | • Gwybodaeth gan y Tîm Cynnal Ymddygiad<br>• Gwybodaeth o adolygu'r CAU/CDU | |
| * Mae'r plentyn wedi dangos gwrthwynebiad parhaus i'r gefnogaeth a gynigir. | • Gwybodaeth gan y Tîm Cynnal Ymddygiad/Ysgol | |

Opsiynau pellach (rhowch gylch):

| | | |
|---|---|---|
| Parhau gyda'r gefnogaeth bresennol | Cau'r achos i'r Tîm Integredig Cynnal Ymddygiad | Cais i drosglwyddo'r achos i Dîm Integredig maes ______________________ |

DRAFT

**Canolfan Cynnal Ymddygiad – Mynediad**

| | Meini Prawf | Tystiolaeth | Mesur (Fforwm yn unig) |
|---|---|---|---|
| **Gweithredu Ysgol** | Mae gan yr Ysgol systemau ysgol gyfan yn eu lle i gynnal ymddygiad da<br><br>e.e. grwpiau targedu Talkabout | • Map Darpariaeth Ysgol Gyfan<br>• Gwybodaeth Ffurflen Gyfeirio<br>• Gwybodaeth yn dilyn mewnbwn y Tîm Integredig Cynnal Ymddygiad | |
| **Gweithredu Ysgol a Mwy** | Mae'r disgybl wedi cael mewnbwn gan Athrawon Arbenigol/Swyddog y Tîm Cynnal Ymddygiad yn dilyn cael ei gyfeirio at y Fforwm Ardal ADYaCh ac mae'r argymhellion wedi eu dilyn ar lefel dosbarth/ysgol gyfan. | • Cofnod o Ymgynghori GSA<br>• Cynllun Addysg/Ymddygiad Unigol/Cynllun Datblygu Unigol wedi ei adolygu<br>• Gwybodaeth gan y Tîm Cynnal Ymddygiad yn y Fforwm | |
| **Asesiadau Ymddygiad/ Datblygiad Emosiynol a Cymdeithasol** | Gwybodaeth o broffilio penodol yn dangos fod ymddygiad y disgybl yn cael effaith sylweddol a rheolaidd ar ei c/chynhwysiad addysgol, cymdeithasol ac emosiynol y rhan fwyaf o'r amser | • Holiadur Athrawon Gwasanaeth Cynnal Ymddygiad<br>***a/neu***<br>• Proffil Boxall<br>**a/neu**<br>• Gwybodaeth am asesiad neu fewnbwn gan asiantaeth arall perthnasol (e.e. CAMHS, Gwasanaethau Cymdeithasol) | |
| **Gwahaniaethu** | Mae'r dystiolaeth yn dangos fod angen amgylchedd dysgu sydd wedi ei addasu yn sylweddol yn barhaus ac mae'r disgybl angen mewnbwn oedolyn i ddilyn pob cyfle addysgol a gynigir. | Cyfuniad o'r Uchod | |
| **Cynnydd dros amser** | Mae'r disgybl yn parhau i gael anawsterau dwys a chymhleth gydag ymddygiad/datblygiad emosiynol er gwaethaf i'r ysgol dargedu anghenion y plentyn dros gyfnod o ___ ar y cyd a'r Tîm Integredig Cynnal Ymddygiad<br><br>Mae'r cynnydd a wneir dros dymor yn gyfyngedig iawn gyda sgiliau addysgol y plentyn yn cael ei effeithio gan ymddygiad heriol iawn yn sylweddol a thystiolaeth glir o hynny i'w weld yn yr asesiadau safonedig/cwricwlaidd yn yr ysgol. | Cyfuniad o'r uchod | |

DRAFT

## Uned Cynnal Ymddygiad - Gadael

*(D.S. Dim ond angen cyfarfod un o'r meini prawf gyda sêr)*

| Meini prawf | Tystiolaeth | Mesur |
|---|---|---|
| Mae effaith yr anhawster wedi lleihau yn fawr ac mae'r plentyn yn gwneud cynnydd disgwyliedig o ran sefydlogi ymddygiad heriol, ennyn sgiliau hunan reolaeth, datblygu sgiliau emosiynol | • Holiadur Athrawon wedi ei adolygu<br>• Proffil Boxall wedi ei adolygu | |
| Mae'r proffiliau ymddygiad (e.e. Holiadur Athrawon, Proffil Boxall) yn dangos cynnydd pendant | • Holiadur Athrawon wedi ei adolygu<br>• Proffil Boxall wedi ei adolygu | |
| Bellach nid yw anawsterau ymddygiadol ac emosiynol y person ifanc yn cael eu hystyried yn gymedrol/difrifol ac ni theimlir eu bod yn effeithio'n eang ar eu gallu i ddygymod gyda'r cwricwlwm, amgylchedd dosbarth a gofynion cymdeithasol amgylchedd yr ysgol. | Cyfuniad o'r uchod | |
| Mae'r plentyn wedi datblygu'n ddigonol o ran lefel y gefnogaeth sydd ei angen i wneud tasgau yn y dosbarth. Gallant wneud tasgau sydd wedi eu gwahaniaethu yn briodol gydag annibyniaeth y mwyafrif o'r amser gyda chefnogaeth ysgol. | Cyfuniad o'r uchod | |
| Mae'r plentyn wedi datblygu yn ddigonol o ran hyder a chymdeithasoliad. Er enghraifft, gallant gymdeithasu gyda'u cyfoedion o fewn amseroedd di-strwythur – priodol o ran oed am gyfnodau penodol. | Cyfuniad o'r uchod | |
| * Mae cyfnod y ddarpariaeth benodol wedi dod i ben a bydd y Fforwm Ymddygiad yn ystyried darpariaeth arall ar ei gyfer/ei chyfer (e.e. drwy Asesiad Statudol??) | • Gwybodaeth gan y Tîm Cynnal Ymddygiad/ Seicolegydd Addysgol | |
| *** Ar sail y dystiolaeth uchod, consensws gan y rhieni, staff a gweithwyr proffesiynol eraill fod y plentyn yn defnyddio strategaethau i'w alluogi i ddilyn y cwricwlwm er gwaetha'r anawsterau penodol sydd ganddynt.** | • Gwybodaeth gan y Tîm Cynnal Ymddygiad<br>• Gwybodaeth o adolygu CDU | |
| * Gwnaed diagnosis gwahanol o anhawster sylfaenol y plentyn/person ifanc, ac mae'r holl asiantau a gofalwyr yn cytuno fod darpariaeth/cefnogaeth arall yn fwy priodol. | • Gwybodaeth gan y Tîm Cynnal Ymddygiad<br>• Gwybodaeth o adolygu CAU/CDU | |
| * Mae'r plentyn wedi bod yn cael cefnogaeth am gyfnod sylweddol (e.e. 12 mis+) ac mae tystiolaeth o brofion safonedig, asesiadau cwricwlwm, proffiliau ymddygiad a barn rhieni, staff, a gweithwyr proffesiynol eraill na fu llawer neu unrhyw gynnydd. | • Gwybodaeth gan y Tîm CY<br>• Gwybodaeth o adolygu'r CAU/CDU | |
| * Mae'r plentyn wedi dangos gwrthwynebiad parhaus i'r gefnogaeth a gynigir. | • Gwybodaeth gan y Tîm Cynnal Ymddygiad/Ysgol | |

Opsiynau pellach:

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Parhau gyda'r gefnogaeth bresennol | Dod a'r gefnogaeth Uned i ben a pharhau gyda mewnbwn i'r Tîm Integredig Cynnal Ymddygiad yn y Prif Lif | Cau'r achos i'r Tîm Integredig Cynnal Ymddygiad | Cais i drosglwyddo'r achos i Dîm Integredig maes____________ | Trosglwyddo i'r Panel Traws Sirol |

DRAFT

# Gwasanaeth Lles Addysg

## 1. Nod

Mae'r Gwasanaeth Lles Addysg yn cyd-weithio ag ysgolion Gwynedd ac Ynys Môn i ddarparu cymorth proffesiynol o safon i blant, pobl ifanc, teuluoedd ag ysgolion fel y gall plant a phobl ifanc elwa o'r ddarpariaeth addysgol a ddarperir ar eu cyfer. Ein nod yw gwella presenoldeb a thrwy hynny cyrhaeddiad addysgol ein pobl ifanc.

## 2. Amcanion

Er mwyn cyrraedd at y nod hwn yr ydym fel gwasanaeth yn gosod yr amcanion canlynol drwy sicrhau ein bod yn;

- Ymchwilio i'r rhesymau dros absenoldeb o'r ysgol.
- Cynnig gwybodaeth a chanllawiau.
- Cynnal ymyriadau a fydd wedi eu trefnu.
- Rhoi cyngor i deuluoedd ar wasanaethau cymorth arbenigol eraill.
- Gwneud atgyfeiriadau i wasanaethau priodol yn ôl y gofyn.
- Rhybuddio, dirwyo ac erlyn yn unol â'r drefn gytunedig.

## 3. Mesuryddion

Mae'r Gwasanaeth Lles Addysg yn mesur llwyddiant y ddarpariaeth drwy nifer o ddangosyddion. Nodir isod ein prif ddangosyddion;

- Cynnydd cyffredinol mewn canran presenoldeb.
- Cynnydd yn y nifer o ysgolion sydd yn perfformio yn uwch na'r canolrif o gymharu ag ysgolion sydd yn yr un teulu cinio ysgol am ddim.
- Presenoldeb Gwynedd ac Ynys Môn yn uwch na gweddill awdurdodau Cymru.

## 4. Rôl y Gwasanaeth Lles Addysg

Mae'r Gwasanaeth Lles Addysg yn darparu cymorth i ysgolion, disgyblion a rhieni i sicrhau presenoldeb rheolaidd ac i ddatrys problemau sy'n ymwneud ag absenoldeb. Mae'r Gwasanaeth yn ymgysylltu ag asiantaethau eraill ac yn darparu cysylltiad pwysig rhwng y cartref a'r ysgol, gan helpu rhieni ac athrawon i weithio mewn partneriaeth fel y gall disgyblion elwa ar y cyfleoedd addysgol sydd ar gael yn lleol.

Mae'r Swyddog Lles Addysg yn gweithredu ar ran yr awdurdod lleol gan sicrhau fod rhieni yn cydymffurfio â'u dyletswydd i ddarparu addysg briodol i'w plant. Prif swyddogaeth y Gwasanaeth Lles Addysg yw gwella presenoldeb cyffredinol a lleihau absenoldeb parhaus ym mhob ysgol a darpariaeth addysg amgen.

Yn ogystal mae'r Gwasanaeth Lles Addysg yn cyflawni dyletswyddau eraill megis,

- rheoleiddio cyflogaeth plant a thrwyddedau perfformio ar gyfer plant o oedran ysgol;
- helpu i drefnu darpariaeth addysgol amgen ar gyfer disgyblion unigol;
- cynghori ar blant sy'n cael eu haddysgu y tu allan i'r ysgol; a
- chynghori ar ddiogelu plant mewn addysg.

### Prif Amcanion y Gwasanaeth Lles Addysg

Prif amcanion y Gwasanaeth Lles Addysg fydd gweithio mewn partneriaeth ag ysgolion, disgyblion, rhieni a chymunedau i sicrhau hawl i addysg a phresenoldeb rheolaidd. Bydd y Gwasanaeth yn cyfrannu at ymdrech yr

awdurdod lleol a'r ysgolion i wella canlyniadau i blant ac yn anelu at gydweithio'n effeithiol a rhwydweithiau o asiantaethau sy'n darparu addysg, iechyd a gwasanaethau cymdeithasol i blant a phobl ifanc.

Byddwn yn cyflawni'r amcanion uchod drwy;

- hyrwyddo a chefnogi polisïau presenoldeb ysgol gyfan;
- darparu cyngor ar arferion da sydd wedi ennill eu plwyf;
- gweithio gyda staff yr ysgol, disgyblion, rhieni a phobl berthnasol eraill ar raglenni i geisio gwella lefelau presenoldeb;
- cyflawni gwaith unigol gyda disgyblion;
- cyflawni gwaith sy'n canolbwyntio ar y teulu;
- gweithredu camau statudol ar ran yr awdurdod lleol;

## 5. Strwythur Staffio'r Gwasanaeth Lles Addysg

Er mwyn sicrhau fod y Gwasanaeth Lles Addysg yn cyflawni'r prif amcanion mae strwythuro staffio'r gwasanaeth fel a ganlyn.

### Uwch Swyddog Lles


- Mae un Uwch Swyddog Lles yn weithredol yng Gwynedd ac Ynys Môn. Mae'n parhau i weithredu fel Swyddog Lles ond gyda nifer llai nag arfer o ysgolion.
- Mae'r Uwch Swyddog â chyfrifoldeb dros ddarparu goruchwyliaeth a chyngor proffesiynol rheolaidd i weddill y Swyddogion Lles.
- Mae'n cynhyrchu adroddiadau rheolaidd fydd yn crynhoi arfer effeithiol a llai effeithiol ar draws yr awdurdodau ac yn llunio, gweithredu, monitro ac adolygu cynlluniau gwella'r gwasanaeth.
- Rôl yr Uwch Swyddog Lles yw cynorthwyo ysgolion i hunan arfarnu, cynllunio a gwella presenoldeb. Ynghyd â'r hunan arfarniad blynyddol a data presenoldeb dros dreigl mae'r Uwch Swyddog Lles yn targedu ysgolion gan weithio'n ymgynghorol ar strategaethau gwella.

### Swyddogion Lles

Mae Swyddog Lles dynodedig ar gyfer pob ysgol. Mae pob Swyddog Lles yn ymateb i gyfeiriadau yn ffordd a ddiffinnir yn y gyfadran "Ymateb y Gwasanaeth Lles Addysg i Gyfeiriad". Yn ogystal ag ymateb i gyfeiriadau mae disgwyl iddynt ymwneud â dyletswyddau amrywiol eraill megis rheoleiddio cyflogaeth plant, trwyddedau perfformio ar gyfer plant o oedran ysgol a chynghori ar ddiogelu plant mewn addysg.

Er wedi eu lleoli ac yn gysylltiedig ag ysgolion mae'r Swyddogion Lles yn rhan o dîm ar lefel 3 ardal, Ynys Môn, Dwyrain Gwynedd, De/Gorllewin Gwynedd.

### Llifsiart Strwythur Staffio




DRAFT

## 6. Lleoliad Gwaith

Lleolir Swyddogion Lles o fewn Ysgolion Uwchradd. Mae hyn yn arwain at well defnydd o amser, gwell perthynas weithio ag ysgolion a threfniadau mwy effeithiol ar gyfer mynediad at ddata a chofnodi gwaith.

Byddant angen:

- Ystafell ddynodedig addas o fewn yr ysgol.
- Mynediad at ffôn.
- Mynediad i'r we.
- Lle i storio ffeiliau.

## 7. Ymateb i Ddiffyg Presenoldeb

**Ymateb Ysgolion**

- Sicrhau fod polisi presenoldeb a phrydlondeb yr ysgol yn gyfredol.
- Cofnodi presenoldeb a phrydlondeb yn ofalus.
- Cysylltu â'r cartref drwy ffôn, llythyr neu gyfarfod.
- Gweithio gyda rhieni.

**Cymorth Gwasanaeth Lles Addysg**

- Gwasanaeth Lles yn gweithio mewn rôl ymgynghorol ag ysgolion i dreialu strategaethau amgen.
- Cefnogi ysgolion i chwilio am wasanaeth neu gymorth asiantaethau eraill addas.
- Cydweithio ag ysgolion i lunio adnoddau rhagweithiol.
- Cynnal cyfres o weithgareddau yn ystod gwyliau ysgol fyddai'n hybu presenoldeb, prydlondeb a lles drwy bontio â'r cartref.

**Cyfeiriad i'r Gwasanaeth Lles Addysg**

- Cyfeiriadau yn seiliedig ar lefel presenoldeb a phrydlondeb disgybl.
- Ffurflen gyfeirio wedi ei chwblhau.
- Ysgol wedi ymdrechu i gysylltu â chartref y disgybl drwy ffôn, llythyr neu gyfarfod.

**Gwaith y Swyddog Lles Addysg**

- Llunio cynllun i ymateb i ddiffyg presenoldeb neu brydlondeb y disgybl.
- Canolbwyntio ar gydweithio â phlant a theuluoedd.
- Gosod cyfnod ymyrraeth pendant.
- Adolygu a gwerthuso effeithiolrwydd unrhyw ymyrraeth yn gyson.
- Cofnodi'n gyson ac effeithiol.
- Trafod unrhyw bryderon â'r Swyddog Lles Ardal mewn sesiynau goruchwyliaeth.
- Adrodd yn ôl i ysgolion yn rheolaidd.

**Erlyn Rhieni**

- Gweithredu pwerau erlyn rhieni trwy'r Llysoedd Ynadon dan Adran 444 o Ddeddf Addysg 1996

## 8. Dyletswyddau Ysgolion

Cyfrifoldeb yr ysgol yw sicrhau presenoldeb ac fe ddylai ysgolion ystyried y ffurf fwyaf effeithiol o ddefnyddio a chyd weithio â'r Swyddog Lles Addysg. Mae'r Swyddog Lles Addysg yn ddarparwr gwasanaeth i ysgolion ac yn gweithio fel pwynt cyswllt rhwng cartref ag ysgol. Bydd gan bob ysgol yng Ngwynedd ac Ynys Môn Swyddog Lles dynodedig fydd â dyletswydd i ymweld yn rheolaidd.

Mae amser y Gwasanaeth Lles Addysg yn brin, felly dylai ysgolion sicrhau bod trefniadau clir ar waith ynglŷn â sut a phryd y gwneir cyfeiriadau a sicrhau bod pob aelod staff yn deall y gweithdrefnau. Cyn cyfeirio, mae'n rhaid i ysgol:

- ddefnyddio ei holl weithdrefnau ei hun er mwyn delio ag absenoldeb;
- ddefnyddio ffurflen gyfeirio bob amser fel bod cofnod ysgrifenedig o bresenoldeb y disgybl, ei brydlondeb, ei gryfderau a'i wendidau, ei berthynas gyda'i gyfoedion a'i athrawon, ei gysylltiad ag asiantaethau allanol nawr neu yn y gorffennol ac unrhyw wybodaeth berthnasol arall

## 9. Hunan Arfarnu a Chynllunio ar Gyfer Gwella Presenoldeb ar Lefel Ysgol

Mae'n ofynnol ar i bob ysgol yng Ngwynedd ac Ynys Môn hunan arfarnu ei gweithdrefnau i sicrhau presenoldeb yn flynyddol. Darperir patrymlun syml ar gyfer gwneud hyn ac fe'i cesglir ai dadansoddir gan yr Uwch Swyddog Lles Addysg. Gweler **Atodiad 1**

Mae'r wybodaeth o'r Hunan Arfarniad ynghyd â data perfformiad dros dreigl yn cynorthwyo'r Gwasanaeth Lles i dargedu'n fwy effeithiol unrhyw gymorth ac arweiniad a ellir ei roi i ysgolion.

## 10. Cofrestr Presenoldeb yn yr Ysgol

Mae Rheoliadau Addysg (Cofrestru Disgyblion) (Cymru) 2010 yn ei gwneud hi'n ofynnol i ysgolion gofrestru presenoldeb disgyblion ddwywaith y dydd; ar ddechrau'r sesiwn fore ac unwaith yn ystod sesiwn y prynhawn. Hwyrach y gofynnir i'r ysgol gyflwyno'r gofrestr mewn llys fel tystiolaeth mewn achos am absenoldeb. Gall hefyd gyfrannu gwybodaeth at adroddiadau diwedd tymor, cofnodion cyrhaeddiad a geirdaon disgyblion sy'n gadael. Mae system gofrestru gywir a chyson yn hanfodol er mwyn mynd i'r afael â phresenoldeb a phrydlondeb gwael mewn ysgol. Mae'n hollbwysig bod disgyblion yn ymwybodol bod cofrestru'n rhan bwysig o'r diwrnod ysgol.

Dylai pob aelod staff sy'n rhan o'r broses gofrestru fod yn ymwybodol bod y gyfraith yn benodol ynglŷn â threfniadau cadw cofrestri. Mae marcio a chadw'r gofrestr yn bwysig dros ben.
Ystyr absenoldeb heb ei awdurdodi yw absenoldeb heb ei gymeradwyo gan un o gynrychiolwyr awdurdodedig yr ysgol, ac mae'n cynnwys pob absenoldeb heb esboniad. Bydd yna adegau pan fydd yr ysgol yn awdurdodi absenoldeb disgybl, ac felly ystyrir nad oes unrhyw drosedd wedi'i chyflawni. Felly, mae penderfyniad yr ysgol i awdurdodi neu wrthod awdurdodi absenoldeb yn ffactor hollbwysig wrth i'r awdurdod lleol benderfynu a yw am erlyn rhieni gan fod erlyniad yn bosibl ar gyfer absenoldebau anawdurdodedig yn unig.

Mae'n bwysig bod ysgolion yn ofalus wrth awdurdodi absenoldeb. Os yw'r ysgol yn amau'r esboniad a roddir gan rieni, dylid ymchwilio ymhellach i'r absenoldeb a gwrthod ei awdurdodi hyd nes i'r mater gael ei ddatrys yn foddhaol yn nhyb yr ysgol. Mae penderfyniad yr ysgol i awdurdodi absenoldeb ai peidio yn ffactor hollbwysig wrth bennu i ba raddau y bydd y Gwasanaeth Lles Addysg yn cymryd rhan. Os yw'r ysgol wedi awdurdodi absenoldeb disgybl, yn ôl y gyfraith ni fydd gan y rhieni achos i'w ateb.

Bydd y Gwasanaeth Lles Addysg ar gael i gynnig cyngor ag arweiniad i ysgolion ar y drefn gofrestru presenoldeb. Cyfrifoldeb yr ysgol yw cwblhau'r gofrestr. Disgwylir i bob ysgol gadw fersiwn ddigidol o gofrestr yr ysgol sydd yn gyfredol ar ddiwedd pob diwrnod.

DRAFT

## 11.Polisi Presenoldeb yn yr Ysgol

Anogir ysgolion i ddatblygu polisi ysgol gyfan ar bresenoldeb mewn ymgynghoriad â staff, llywodraethwyr, rhieni a disgyblion, gan ystyried canllawiau Llywodraeth y Cynulliad ar Gynnwys a Chynorthwyo Disgyblion ac arferion da a nodir gan yr awdurdod lleol.

Dylai'r polisi hwn:

- roi blaenoriaeth uchel i bresenoldeb a phrydlondeb;
- sicrhau cydymffurfiad â'r holl ofynion statudol;
- sicrhau bod gwybodaeth glir yn cael ei chyfathrebu'n rheolaidd i rieni a disgyblion;
- casglu data presenoldeb a gwneud defnydd effeithiol ac adeiladol ohono;
- darparu canllawiau clir i staff ar y broses gofrestru a materion cysylltiedig fel categoreiddio absenoldeb yn briodol;
- cynnwys gweithdrefnau clir i nodi ac ymchwilio i bob achos o absenoldeb a diffyg prydlondeb;
- cydnabod pwysigrwydd ymyrraeth gynnar;
- gwneud darpariaeth ar gyfer cyswllt ar ddiwrnod cyntaf yr absenoldeb;
- monitro triwantiaeth ar ôl cofrestru trwy gymryd cofrestri dosbarth a hap wiriadau;
- bod yn wyliadwrus ar adegau hollbwysig (e.e. trosglwyddo rhwng Cyfnodau Allweddol 2/3);
- nodi amrywiaeth o strategaethau i fynd i'r afael ag absenoldeb/diffyg prydlondeb;
- darparu hierarchaeth glir a dealladwy o gosbau;
- datblygu cynlluniau cymell presenoldeb sy'n cydnabod cyraeddiadau presenoldeb disgyblion;
- ystyried gosod targedau ar gyfer unigolion, dosbarthiadau, grwpiau blwyddyn ac ati;
- sefydlu gweithdrefnau ar gyfer adnabod ac ailintegreiddio disgyblion sydd wedi bod yn absennol dros gyfnod hir;
- darparu ar gyfer cyfarfodydd strwythuredig rheolaidd rhwng staff yr ysgol a'r Gwasanaeth Lles Addysg;
- sicrhau bod yr ysgol yn cymryd camau rhesymol cyn gwneud atgyfeiriad priodol i'r Gwasanaeth Lles Addysg;
- pwysleisio i rieni bwysigrwydd parhad dysgu, yn enwedig mewn perthynas â gwyliau teuluol yn ystod y tymor (prin yw'r absenoldeb ar gyfer gwyliau yn ystod y tymor y dylai ysgolion ei ganiatáu);
- defnyddio cyfleoedd fel nosweithiau rhieni a phrosbectws yr ysgol i atgoffa rhieni bolisi'r ysgol ar bresenoldeb;
- cynnwys llywodraethwyr;
- nodi uwch aelod staff allweddol â chyfrifoldeb cyffredinol dros bresenoldeb;
- sicrhau bod arferion da'n cael eu nodi a'u rhannu;
- cael ei fonitro a'i adolygu'n rheolaidd; a
- cymryd camau i greu diwylliant sy'n annog presenoldeb, gan fynd i'r afael ag achosion presenoldeb gwael yn yr ysgol fel bwlio, hiliaeth, y cwricwlwm ac ati.

## 12.Gweithio gyda Rhieni

Mewn sawl ffordd, mae absenoldeb a gymeradwyir gan rieni'n anoddach i'w nodi nag unrhyw fath arall o absenoldeb. Mae'r math hwn o absenoldeb yr un mor niweidiol i brofiad addysgol y disgybl ag unrhyw fath arall o absenoldeb. Mewn llawer o achosion, mae'r rhieni'n teimlo eu bod yn cadw eu plentyn o'r ysgol am resymau dilys. Hwyrach y byddant yn teimlo eu bod yn diogelu eu plentyn. Pan fo staff yr ysgol yn teimlo bod yna batrwm o absenoldeb, mae'n hanfodol eu bod yn gweithio'n agos gyda gwasanaethau cymorth iechyd, cymdeithasol ac addysg i sicrhau bod yr ymyrraeth fwyaf priodol ac effeithiol ar gael i'r disgybl a rhieni.

Hwyrach y bydd rhieni plant o wahanol ddiwylliannau'n teimlo nad yw'r ysgol yn amgylchedd diogel neu addas i'w plant. Mae'n hollbwysig bod ysgolion yn ymchwilio ac yn ceisio adnabod materion diwylliannol a all atal disgybl rhag mynychu'r ysgol.

DRAFT

Mae prydlondeb disgybl yn ofyniad cyfreithiol ac mae rhieni/gofalwyr disgybl sy'n aml yn hwyr yn euog o drosedd. Mae'r gyfraith yn ystyried bod yn hwyr yn aml (ar ôl Cofrestru) yr un fath â phresenoldeb afreolaidd, a gall rhieni gael eu herlyn os na chaiff y broblem ei datrys.

Gall rhieni wneud llawer i wella presenoldeb a phrydlondeb eu plant. Dylai ysgolion a'r Gwasanaeth Lles Addysg weithio gyda rhieni i'w helpu a'u hannog i:

- ddangos diddordeb ym mywyd a gwaith ysgol eu plentyn;
- mynychu nosweithiau rhieni a digwyddiadau eraill yn yr ysgol lle bo'n bosibl;
- sicrhau bod eu plentyn yn cwblhau ei waith cartref ac yn mynd i'r gwely ar adeg briodol;
- bod yn ymwybodol o lythyrau y mae eu plentyn yn dod â nhw adref o'r ysgol gyda nhw;
- sicrhau bod eu plentyn yn cyrraedd yr ysgol ar amser bob dydd;
- sicrhau nad yw eu plentyn yn colli ysgol oni bai bod rhesymau na ellir eu hosgoi neu resymau y gellir eu cyfiawnhau, fel salwch neu ddiwrnodau a neilltuir ar gyfer defodau crefyddol;
- rhoi gwybod i'r ysgol cyn gynted â phosibl - ar y bore cyntaf os yw'n bosibl -am unrhyw absenoldeb;
- cadarnhau hyn yn ysgrifenedig pan fo'r plentyn yn dychwelyd i'r ysgol;
- ceisio osgoi trefnu gwyliau teuluol yn ystod y tymor;
- siarad â'r ysgol os ydynt yn poeni efallai bod eu plentyn yn gyndyn i fynd i'r ysgol.

Bydd y Gwasanaeth Lles Addysg yn cynnal nifer o weithgareddau yn flynyddol ar gyfer addysgu a chefnogi rhieni i wella presenoldeb a phrydlondeb eu plant. Bydd gweithgareddau hefyd yn cael ei gynnal ar gyfer y disgyblion gyda'r bwriad o sefydlu perthynas weithio positif. Bydd y gweithgareddau yn cael eu cynllunio gan y Swyddogion Lles Ardal ac yn cael eu cynnal a'u cyflwyno yn ystod gwyliau ysgol gan bob aelod o'r Gwasanaeth.

## 13.Y Broses Gyfeirio

Dylid dadansoddi'r data presenoldeb cyn cyfarfod â'r Swyddog Lles Addysg. Cyn derbyn cyfeiriad am waith bydd y Swyddog Lles Addysg yn edrych am dystiolaeth bod yr ysgol wedi gwneud ymdrech i fynd i'r afael â'r mater presenoldeb trwy:

- gamau gweithredu gan y tiwtor dosbarth fel rhan o'i ddyletswyddau o ddydd i ddydd
- cynnwys eraill yn yr ysgol e.e. Pennaeth Blwyddyn, Pennaeth ac ati; a
- cysylltiad â rhieni.

Bydd Gwasanaeth Lles Addysg yn gofyn i ysgolion gyflwyno'r wybodaeth ganlynol ar ffurf taflen gyfeirio fel rhan o gyfeiriad am wasanaeth:

- gwybodaeth am y disgybl e.e. enw, oedran, dyddiad geni, grŵp blwyddyn/dosbarth, rhyw, tarddiad ethnig, iaith heblaw Saesneg/Cymraeg, gofynion unrhyw ddefodau crefyddol, cyfeiriad os yw'n wahanol i gyfeiriad rhieni/gofalwyr ac ati;
- asesiad o'r disgybl gan yr ysgol e.e. gallu, hanes academaidd, meysydd sy'n peri anhawster, rheswm dros gyfeirio, manylion presenoldeb ac ati;
- gwybodaeth am rieni/gofalwyr, gan gynnwys eu dyddiadau geni;
- camau a gymerwyd gan yr ysgol i ddatrys anawsterau a chanlyniadau'r camau hyn;
- gwybodaeth berthnasol arall yn ymwneud â ffactorau sy'n cyfrannu ac unrhyw unigolion/asiantaethau eraill sy'n rhan o'r gwaith;
- materion risg e.e. materion diogelu, ymddygiad ymosodol neu drais yn y teulu neu gan ddisgybl;
- unrhyw wybodaeth arall sy'n berthnasol i'r achos.

Bydd Gwasanaeth Lles Addysg yn derbyn cyfeiriadau am wasanaeth pan fo:

- patrwm o bresenoldeb afreolaidd wedi datblygu;
- cyfnod o absenoldeb hirdymor wedi sefydlu;
- llythyrau a anfonwyd gan yr ysgol at y rhieni heb ennyn fawr ddim ymateb os o gwbl;
- diffyg cydweithrediad gan rieni i sicrhau presenoldeb rheolaidd plentyn;
- patrwm o driwantiaeth ar ôl cofrestru yn parhau er gwaethaf ymdrechion yr ysgol i'w atal;

DRAFT

- rhiant yn tynnu disgybl o'r ysgol ar ôl mynegi bwriad i'w addysgu gartref, ond nad yw wedi dadgofrestru'r plentyn yn ffurfiol trwy hysbysu'r awdurdod lleol;
- disgybl yn cael ei dynnu o'r ysgol gan rieni sy'n symud i ardal arall ond nad yw'r ysgol yn derbyn cais am gofnodion y disgybl gan ysgol yn yr ardal newydd;
- mae plentyn wedi cyrraedd canran absenoldeb a osodir gan yr ysgol;
- patrwm o ddiffyg prydlondeb cyson (ar ôl cau'r gofrestr) wedi datblygu;
- materion lles penodol ac amlwg sy'n atal disgybl rhag cael mynediad i addysg;
- pryderon penodol yn ymwneud â materion amddiffyn plant, dylid atgyfeirio'r achosion hyn yn uniongyrchol i Swyddog Amddiffyn Plant yr ysgol.

## 14.Ymateb y Gwasanaeth Lles Addysg i Gyfeiriad

Bydd y Gwasanaeth Lles Addysg yn ymweld â chartref y disgybl o fewn 3 diwrnod gwaith i dderbyn y cyfeiriad. Yn dilyn yr ymweliad yma bydd y Swyddog Lles yn darparu ymateb ysgrifenedig ar ffurf adroddiad a'i thrafod gyda'r pennaeth/tiwtor blwyddyn o fewn 5 diwrnod gwaith. Lle na cheir ateb yn y cartref a lle nad yw'r rhieni wedi ymateb i gerdyn ymweld byddwn yn ysgrifennu llythyr (a chyflwyno copi i'r ysgol), ymweld â'r cartref gyda'r nos neu gysylltu â'r rhieni yn y gwaith.

Os na fydd presenoldeb y disgybl yn gwella ac os bydd pob ymdrech i gysylltu â'r rhieni/gofalwyr yn methu, gellir cyflwyno rhybudd swyddogol.

**Materion a nodir gan y teulu / Camau penodol**

Os yw salwch yn ffactor, bydd y Swyddog Lles Addysg yn cadarnhau'r problemau meddygol a nodir gan y plentyn/rhiant (yn enwedig os oes sawl atgyfeiriad wedi'i wneud ac os mai salwch yw'r esboniad a roddir am yr absenoldeb). Os teimlir nad yw'r rhieni wedi gofyn am gymorth meddygol priodol a bod yr absenoldeb yn parhau, gyda chydweithrediad y rhieni bydd yn gwneud atgyfeiriad i nyrs yr ysgol neu swyddog meddygol yr ysgol. Os nodir salwch fel asthma ysgafn, meigryn neu boenau mislif fel y rheswm dros absenoldeb aml neu barhaus, bydd angen cael barn feddygol nyrs yr ysgol neu swyddog meddygol yr ysgol.

Yn achos anghenion dysgu ychwanegol neu broblemau'n ymwneud â ffobia neu wrthod mynd i'r ysgol, bydd y Swyddog Lles Addysg yn ymgynghori â'r Cydlynwyr ADYaCh (ALENCo) i ystyried cyfeiriad i'r Athro/awes Anghenion Addysgol Ymgynghorol neu'r Seicolegwr Addysg priodol. Hefyd, hwyrach y bydd angen i'r Swyddog Lles Addysg drafod gyda'r teulu a'r plentyn atgyfeiriad i'r CAMHS neu asiantaethau eraill os yw hynny'n briodol.

Os yw'r Gwasanaethau Cymdeithasol ynghlwm wrth y mater, bydd y Swyddog Lles Addysg yn cysylltu â'r gweithiwr cymdeithasol dynodedig i bennu meysydd o gyfrifoldeb ac i ystyried y posibilrwydd o ymweliad ar y cyd.

Yn dibynnu ar oedran, hwyrach y bydd angen i'r Swyddog Lles Addysg drafod gyda'r teulu a'r ysgol ddewisiadau eraill, fel darpariaeth addysg amgen.

Bydd y Swyddog Lles Addysg yn mynd i'r afael ag unrhyw faterion a nodir gan y plentyn a/neu'r teulu sy'n ymwneud ag unrhyw anawsterau a all atal presenoldeb rheolaidd, er enghraifft bwlio, problemau gyda'r cwricwlwm, perthynas athro/awes / disgybl, problemau domestig, cyni ariannol, camddefnyddio cyffuriau/alcohol ac ati, a llunio cynllun gweithredu gyda'r ysgol i ddatrys y problemau.

Mae asesu'n broses barhaus a hwyrach y bydd angen sawl ymweliad os bydd achosion cymhleth. Ar ôl yr asesiad cychwynnol, bydd y Swyddog Lles Addysg, mewn cydgysylltiad â staff yr ysgol ac asiantaethau eraill o bosibl, yn llunio cynllun gweithredu. Mewn rhai achosion, gall hyn olygu gweithio gyda rhieni i'w helpu i weld safbwynt yr ysgol, ac fel arall. Ystyrir bod datrys anghydfod rhwng yr ysgol a'r cartref a cheisio newid agweddau rhieni at addysg yn un o brif hanfodion y Gwasanaeth Lles Addysg.

## 15.Cadw cofnodion

Bydd y Gwasanaeth Lles Addysg yn cadw cofnod cywir a gwrthrychol o'u gwaith parhaus gyda defnyddwyr gwasanaethau, ynghyd â manylion atgyfeiriadau a chanlyniadau.

Byddwn yn defnyddio ffurflenni safonol i hwyluso'r broses hon:

- ffurflen cyfeirio;
- ffurflen asesiad cychwynnol;
- ffeil achos;
- ffurflen crynodeb o gysylltiad;
- cofnod o oruchwyliaeth; a
- crynodeb terfynol

Mae llawer o waith y Gwasanaeth Lles Addysg ar bresenoldeb yn ymwneud â'r fframwaith deddfwriaethol, a gall arwain at ddarparu gwybodaeth i'r llysoedd pan fydd camau cyfreithiol yn cael eu cymryd. O dan y rhan fwyaf o amgylchiadau, disgwylir y byddai adroddiadau y gofynnwyd amdanynt am blentyn neu deulu penodol yn cael eu trafod gyda nhw cyn eu cyflwyno. Bydd pob Swyddog Lles Addysg yn cadw tystiolaeth ddogfennol o'r gwaith achos a gyflawnir.

## 16.Sicrhau Ansawdd Darpariaeth

Mae'r Gwasanaeth Lles Addysg yn ymroddedig i sicrhau gwasanaeth lles addysg o ansawdd i holl ddisgyblion, rhieni ag ysgolion Gwynedd ac Ynys Môn yn ddiwahân. I'r perwyl yma byddwn yn sefydlu a dilyn;

- Trefn rheoli achosion sy'n ymgorffori system gyfeirio ffurfiol.
- Trefn rheoli achosion sy'n ymgorffori asesu, cynllunio, monitro a gwerthuso.
- Trefn ar gyfer cau achosion.

Bydd strwythur staffio'r gwasanaeth yn caniatáu i bob gweithiwr fod â mynediad rhwydd a hawdd i oruchwyliaeth effeithiol gan reolwr llinell. Bydd y rheolwr llinell â chyfrifoldeb dros reoli llwyth gwaith y gweithiwr ac arfarnu ac ymateb i adborth defnyddiwr gwasanaeth y gweithiwr.

Bydd pob Swyddog Lles Addysg yn cydweithio ag ysgolion er mwyn paratoi adroddiadau ar bresenoldeb a thriwantiaeth mewn ymgynghoriad ag Ysgolion. Ynghyd â hyn bydd yr Uwch Swyddog Lles yn paratoi adroddiadau tymhorol i'r timau rheoli addysg ar bresenoldeb a phrydlondeb o fewn nifer penodol o ysgolion.

## 17.Pwerau cyfreithiol i Sicrhau Presenoldeb Rheolaidd

Mae'r Gwasanaeth Lles Addysg yn gweithredu ar ran yr awdurdod lleol mewn perthynas â rhieni nad ydynt yn sicrhau presenoldeb rheolaidd eu plant yn yr ysgol neu rieni nad ydynt yn ymrestru eu plant mewn ysgol neu ddarpariaeth addysgol heblaw yn yr ysgol.

Ystyrir dwyn camau cyfreithiol yn erbyn rhieni fel rhan o ymyrraeth gyda theuluoedd.

## 18.Swyddogaethau a chyfrifoldebau

Mae sicrhau presenoldeb rheolaidd yn yr ysgol yn faes anodd sy'n dibynnu ar sefydlu a meithrin perthnasoedd gwaith agos rhwng rhieni, disgyblion, ysgolion, y Swyddog Lles Addysg a gweithwyr proffesiynol eraill sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc mewn lleoliadau cymdeithasol, addysgol a gofal iechyd.

Mae dealltwriaeth glir o rôl a chyfrifoldebau pob unigolyn yn rhan allweddol o unrhyw berthynas waith lwyddiannus ac mae'r adran hon, felly, yn mynd ati i egluro swyddogaethau a chyfrifoldebau'r sawl sy'n ceisio mynd i'r afael â materion presenoldeb.

**Rhiant**

O dan adran 7 o Ddeddf Addysg 1996, y rhiant sy'n gyfrifol am sicrhau bod ei blentyn o oedran ysgol gorfodol yn derbyn addysg llawn amser effeithlon sy'n addas i oedran, gallu a medr y plentyn ac unrhyw anghenion addysgol arbennig sydd ganddo. Gall yr addysg hon fod trwy bresenoldeb rheolaidd yn yr ysgol, darpariaeth amgen neu addysg yn y cartref o ddewis (gall y rhiant ddewis darparu addysg i'w blentyn).

**Ysgol**

Mae Rheoliadau Addysg (Cofrestru Disgyblion) Cymru 2010 yn ei gwneud hi'n ofynnol i ysgolion gofrestru presenoldeb disgyblion ddwywaith y dydd; ar ddechrau'r sesiwn fore ac unwaith yn ystod sesiwn y prynhawn. Mae cywirdeb y gofrestr yn bwysig er mwyn cefnogi unrhyw ymyriadau statudol gofynnol a all fod eu hangen. Dylid nodi bod methu cadw cofrestri cywir yn drosedd.

**Awdurdod lleol**

O dan adran 437 o Ddeddf Addysg 1996, mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd i sicrhau bod plentyn y maent yn gyfrifol amdano'n derbyn addysg addas, naill ai trwy bresenoldeb rheolaidd yn yr ysgol neu ddarpariaeth amgen.

Ym mis Medi 2009, cychwynnodd Llywodraeth y Cynulliad adran 436A o Ddeddf Addysg ac Arolygiadau 2006, sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau lleol wneud trefniadau i'w galluogi i ganfod (cyn belled ag y bo'n bosibl) plant sy'n byw yn eu hardal nad ydynt yn derbyn 'addysg addas'.

Dylai'r gwaith o weithredu'r ddyletswydd o dan adran 436A gael ei integreiddio gyda'r amrywiaeth ehangach o ddyletswyddau sydd gan awdurdodau lleol, gan gynnwys Deddf Plant 2004 (adrannau 25-29) a Diogelu Plant: Gweithio gyda'n Gilydd o dan Ddeddf Plant 2004 sy'n ceisio gwella canlyniadau, a diogelu a hyrwyddo lles plant. Dylai'r ddyletswydd newydd gryfhau ac ategu'r dyletswyddau cyfredol hyn.

**Hysbysiadau Cosb Benodol (F.P.N.)**

Mae presenoldeb rheolaidd a phrydlon disgyblion yn yr ysgol yn ofyn cyfreithlon ac mae'n hanfodol er mwyn galluogi disgyblion i wneud y gorau o'r cyfleoedd addysgol sydd ar gael iddynt. O dan y gyfraith, cyflawnir trosedd os yw rhiant/gofalwr yn methu â sicrhau presenoldeb eu plentyn yn yr ysgol ac nad yw'r ysgol wedi awdurdodi'r absenoldeb.

Mae Adrannau 444A a 444B o Ddeddf Addysg 1996 yn amodi y gellir delio ag achosion penodol o absenoldebau heb eu hawdurdodi trwy hysbysiad cosb. Mae hysbysiad cosb yn ddirwy o hyd at £120 a gellir ei osod ar riant/gofalwr o ganlyniad i blentyn yn colli ysgol yn rheolaidd. Rhaid i hysbysiadau cosb gydymffurfio â holl ofynion y Ddeddf Hawliau Dynol a deddfwriaeth cyfleoedd cyfartal.

Cynghorau Gwynedd ac Ynys Môn sydd â'r prif gyfrifoldeb am ddatblygu'r protocol a bydd pob partner a enwir yn y Rheoliadau Addysg (Hysbysiadau Cosb) (Cymru) 2013 yn gweithredu yn unol â'r protocol a bydd y Gwasanaeth Lles Addysg (GLlA) yn cyflawni'r cyfrifoldeb ar ran yr Awdurdodau Lleol.

Bydd Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn yn parhau i ymchwilio i achosion o bresenoldeb afreolaidd gan ysgol a dilyn gwaith achos priodol, ac yn rhoi cychwyn ar gamau cyfreithiol os yn briodol. Fodd bynnag, rhydd hysbysiadau cosb ddull o ymyrraeth gyflym y bydd Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn yn ei ddefnyddio i ddelio â materion o absenoldeb rheolaidd cyn iddynt hen sefydlu.

**Gorchmynion Mynychu'r Ysgol (SAO)**

Lle'n briodol bydd y Gwasanaeth Lles Addysg yn gwneud defnydd o Orchymyn Mynychu'r Ysgol. Byddwn yn ei defnyddio mewn achosion lle mae rhiant plentyn o oedran ysgol gorfodol yn methu profi bod y plentyn yn derbyn addysg addas a lle mae'r awdurdod o'r farn y dylai'r plentyn fynychu ysgol. Gellir defnyddio Gorchymyn Mynychu'r Ysgol i gyfarwyddo rhiant i anfon ei blentyn i ysgol benodol, a dylid ei ddefnyddio pan nad yw disgybl ar gofrestr unrhyw ysgol. Ni fyddwn yn ei ddefnyddio ar gyfer disgyblion sy'n mynychu ysgol yn afreolaidd.

Bydd y gorchymyn yn parhau mewn grym cyhyd ag y bo'r plentyn o oedran ysgol gorfodol. Os bydd y rhieni'n parhau i fethu cofrestru'r plentyn, gall yr awdurdod lleol ddewis atgyfeirio'r achos i'r Gwasanaethau Cymdeithasol i ystyried camau gofal.

**Gorchymyn Goruchwyliaeth Addysg**

Gellir defnyddio Gorchymyn Goruchwyliaeth Addysg i sicrhau presenoldeb rheolaidd yn yr ysgol, waeth a yw plentyn wedi ymrestru mewn ysgol ai peidio. Dylai hefyd sicrhau bod plentyn yn derbyn addysg llawn amser sy'n addas i'w oedran, ei allu, ei ddawn ac unrhyw anghenion addysgol arbennig sydd ganddo, a bod y rhiant a'r plentyn yn cael cymorth a chanllawiau digonol.

Mae gan awdurdod lleol ddyletswydd o dan adran 447 o Ddeddf Addysg 1996 i ystyried gwneud cais am Orchymyn Goruchwyliaeth Addysg cyn penderfynu a ddylid erlyn rhieni am bresenoldeb gwael neu fethu cydymffurfio ag Orchymyn Mynychu Ysgol. Gall awdurdod lleol wneud cais am Orchymyn Goruchwyliaeth Addysg yn lle neu yn ogystal ag erlyn y rhieni. Os bydd awdurdod lleol yn dewis peidio â gwneud cais am Orchymyn Goruchwyliaeth Addysg, dylai gofnodi/darparu tystiolaeth o'r ystyriaeth a'r rhesymau dros benderfynu na fyddai'n briodol.

Mae Gorchymyn Goruchwyliaeth Addysg yn rhoi dyletswydd ar awdurdod lleol i fod yn gyfrifol am gynghori, cefnogi a rhoi 'cyfarwyddiadau' i'r plentyn sy'n derbyn goruchwyliaeth a'i rieni mewn ffordd sy'n sicrhau bod y plentyn yn cael ei addysgu'n gywir. Mae'n rhaid i'r cyfarwyddiadau hyn gael eu diffinio gan yr awdurdod lleol a dylent geisio helpu i wella presenoldeb y plentyn (er enghraifft, gallai'r awdurdod lleol gyfarwyddo'r rhiant i fynychu cyfarfodydd yn yr ysgol dros gyfnod y gorchymyn, ei gwneud yn ofynnol i'r rhiant/plentyn hysbysu'r awdurdod lleol am ei gyfeiriad presennol neu ei gwneud yn ofynnol i'r rhiant fynychu dosbarthiadau rhianta).

Bydd Gwasanaeth Lles Addysg Gwynedd yn gwneud defnydd llawn o Orchmynion Goruchwyliaeth Addysg lle'n briodol i sicrhau cynnydd mewn presenoldeb.

**Erlyn Rhieni**

Mae'r Awdurdod yn cydnabod ei gyfrifoldeb mewn achos o absenoldebau difrifol a phan fo pob ymdrech arall rhesymol wedi methu, i erlyn rhieni trwy'r Llysoedd Ynadon dan Adran 444 o Ddeddf Addysg 1996.

Byddwn bob amser yn egluro goblygiadau cyfreithiol absenoldeb o'r ysgol yn gynnar iawn yn ystod unrhyw ymyrraeth ond yn ofalus i beidio tanseilio'r dull cydweithredol o fynd i'r afael â phroblemau sylfaenol.

Mae erlyniad bob amser yn ymyrraeth wedi'i chynllunio. Drwy erlyn yn effeithiol mae modd diogelu hawl plentyn i addysg ac ymgysylltu mwy grymus â rhieni sydd wedi methu cydweithredu ag ymyriadau blaenorol i wella presenoldeb.

Er mwyn sicrhau fod proses erlyn yr awdurdod yn dryloyw, cyson a theg bydd pob Swyddog Lles yn ymgynghori â Swyddog Lles Ardal a Swyddog Cynhwysiad yr awdurdod cyn symud ymlaen i baratoi achos.

Byddwn yn ystyried erlyn pan fo presenoldeb disgybl wedi syrthio yn islaw 70% dros gyfnod o ddau dymor allai fod dros ddwy flwyddyn ysgol.

Ni ystyrir fod erlyn yn briodol:

- pan fo pryderon am iechyd meddwl y rhieni.
- os y byddai erlyn yn dwysáu sefyllfa anodd mae asiantaethau eraill yn ymwneud a hi.
- pan fo salwch wedi ei ardystio gan Feddyg.
- amgylchiadau penodol rhieni.

Anfonir hysbysiadau ffurfiol at rieni cyn dechrau cymryd camau cyfreithiol. Byddwn yn sicrhau fod ystod eang o strategaethau ataliol wedi ei gweithredu gan yr ysgol a'r Gwasanaeth Lles Addysg. Bydd tystiolaeth ysgrifenedig o'r strategaethau i'w cael o'r ffurflen gyfeirio ac o gofnodion achos y Gwasanaeth Lles Addysg.

Byddwn yn cynnal cyfarfod strategaeth fydd yn trafod yr achos gyda phob asiantaeth sydd yn gweithio gyda'r disgybl. Bydd effaith erlyn, ar y disgybl ar rhiant, yn cael ei drafod yn y cyfarfod yma ynghyd â chyfrifoldeb y rhieni dros absenoldeb y plentyn.

Byddwn yn ystyried ffactorau eraill megis:

- Pa mor wael yw'r lefel presenoldeb?
- A oes yna hanes o bresenoldeb gwael?
- A oes yna resymau dilys dros yr absenoldeb? e.e. bwlio, profedigaeth, materion emosiynol, materion meddygol
- A yw'r ysgol wedi awdurdodi'r absenoldeb; os felly, am ba reswm?
- A yw'r rhieni'n ymwybodol o'r absenoldeb?
- Faint o reolaeth/dylanwad sydd gan y rhieni dros y plentyn?
- Pa mor gydweithredol yw'r rhieni?
- Beth yw amgylchiadau'r teulu?
- Beth yw barn y plentyn ac i ba raddau y dylid ystyried hyn (e.e. oedran y plentyn)?
- Pa waith sydd eisoes wedi'i wneud gyda'r teulu? Pa mor effeithiol oedd y gwaith hwnnw?
- A oes yna ddigon o dystiolaeth i gefnogi erlyniad?
- A fyddai erlyniad yn datrys y broblem presenoldeb?
- A fyddai erlyniad er lles y cyhoedd?

Bydd pob Swyddog Lles Addysg yn paratoi isafswm o un erlyniad y flwyddyn. Nid yw hyn o reidrwydd yn golygu y bydd pob erlyniad yn cyrraedd y llys. Cyfrifoldeb y Swyddog Lles fydd paratoi achos.

Bydd y Gwasanaeth Lles Addysg yn cyhoeddi adroddiad tymhorol i sylw ysgolion a thîm rheoli'r gwasanaeth ysgolion fydd yn crynhoi achosion o erlyn rhieni. Bydd yr adroddiad yn crynhoi pob ymyrraeth y mae'r ysgol a gwasanaeth lles wedi ei wneud cyn symud ymlaen i erlyn. Drwy'r adroddiad yma bydd modd i ysgolion rannu arferion da o safbwynt gweithdrefnau rhagweithiol a chael ei diweddaru parthed effeithiolrwydd gwaith erlyn y Gwasanaeth Lles Addysg.

### Contractau Rhianta

Mae'r Gwasanaeth Lles Addysg yn cydnabod eu rôl mewn gweithio gydag ysgolion er mwyn llunio contractau rhianta ar gyfer disgybl sydd yn absennol neu'n cael ei gwahardd o'r ysgol yn gyson. Bydd y Gwasanaeth Lles yn cyfrannu drwy gyflwyno adroddiad ysgrifenedig ar bresenoldeb y disgybl ar hyn sydd wedi ei wneud eisoes i wella presenoldeb. Bydd yr adroddiad yma yn gymorth i lunio rhan o'r contract. Cyfrifioldeb ysgol fydd llunio'r contractau rhiantu yma.

### Gorchmynion Rhianta

Nod Gorchmynion Rhianta yw helpu rhieni i fynd i'r afael ag ymddygiad problemus eu plentyn. Eu bwriad yw bod yn ddull cymorth yn hytrach na chosb.

Gall y llys gyflwyno Gorchymyn Rhianta o dan sawl set o amgylchiadau, gan gynnwys yn dilyn collfarn am drosedd o dan adran 443 neu 444 o Ddeddf Addysg 1996. Mae'n rhaid i'r llys fod yn fodlon y byddai'r Gorchymyn yn ddymunol er mwyn atal unrhyw droseddu pellach o dan yr adrannau hynny. Mae'r Gorchymyn Rhianta'n orchymyn ategol ac ni all fod yn ddedfryd ar ei ben ei hun - felly, os caiff ei gyflwyno, bydd yn ychwanegol at unrhyw gosb arall a roddir.

Cyn cyflwyno Gorchymyn Rhianta mewn perthynas â phlentyn neu berson ifanc o dan 16 oed, mae'n rhaid i'r llys gael ac ystyried gwybodaeth am amgylchiadau'r teulu ac effaith debygol Gorchymyn ar yr amgylchiadau hynny. Fel arfer, mae'r wybodaeth hon ar ffurf adroddiad ysgrifenedig neu lafar a baratoir gan y Gwasanaeth Lles Addysg fel sy'n briodol. Dylai'r Gwasanaeth Lles Addysg gynnwys yr adroddiad hwn yng ngwybodaeth y llys.

Bydd y Gwasanaeth Lles Addysg yn cyfrannu adroddiad ysgrifenedig neu lafar gogyfer a pharatoi Gorchymyn Rhianta.

## 19.Diogelu ac Amddiffyn Plant

Mae gan bob aelod o Wasanaeth Lles Addysg gyfrifoldeb i: -

- Helpu i nodi pryderon lles a dangosyddion camdriniaeth neu esgeulustod posibl mewn perthynas â phob disgybl yn gynnar, gan atgyfeirio'r pryderon hynny at yr asiantaeth briodol (y categorïau camdriniaeth yw camdriniaeth gorfforol, emosiynol, rhywiol ac esgeulustod)
- Gweithio gyda'r awdurdod lleol i sicrhau bod holl staff yr ysgol yn gyfarwydd â gweithdrefnau diogelu ac yn deall eu cyfrifoldebau
- Gweithio gyda'r awdurdod lleol i ddarparu cyngor a hyfforddiant yn ôl y gofyn
- Helpu asiantaethau amddiffyn plant i ymchwilio i gamdriniaeth ac i amddiffyn plant sydd "mewn perygl" yn ôl y gofyn
- Cynrychioli addysg mewn adolygiadau, grwpiau craidd a chynadleddau achos Amddiffyn Plant
- Lle bo'n briodol, gweithredu fel eiriolwr y plentyn
- Bod yn ymwybodol o faterion megis priodas dan orfod, masnachu mewn plant, diogelu plant y ffugiwyd eu salwch a diogelu plant rhag camdriniaeth mewn perthynas â chredoau eu bod wedi'u meddiannu gan ysbryd drwg.

**Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008**

Bydd holl staff y Gwasanaeth Lles Addysg yn cydymffurfio'n llawn â'r fersiwn ddiweddaraf o'r gweithdrefnau gan eu bod yn rhan hanfodol o'r agenda ehangach mewn perthynas â diogelu plant a phobl ifanc a hyrwyddo eu lles. Mae'r gweithdrefnau wedi'u hailysgrifennu a'u diwygio'n sylweddol i ystyried newidiadau mwy diweddar mewn polisi a deddfwriaeth.

Mae'r canllawiau ar gyfer y Gwasanaeth Lles Addysg yn nodi:

- Os oes yna bryder neu os gwneir honiad o gamdriniaeth mewn sefyllfa ysgol, dylid rhoi gwybod yn syth i'r pennaeth neu'r aelod staff uwch â chyfrifoldeb dros ddelio â materion amddiffyn plant a dylid dilyn gweithdrefnau'r ysgol.
- Os oes yna bryder neu os gwneir honiad o gamdriniaeth "y tu allan i'r sefyllfa ysgol", dylid dilyn yr un gweithdrefnau yn ddi-oed.

## 20.Cyflogaeth / Perfformiadau

Ceir manylion pellach am reoliadau Cyflogaeth Plant yn **Atodiad 2**

Cynhwysir y prif ddarpariaethau sy'n llywodraethu cyflogaeth plant yn adran 18 o Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 1933. Gall is-ddeddfau Awdurdodau Lleol a wneir o dan Ddeddf 1933 osod amodau pellach ar yr oriau ac amgylchiadau gwaith a natur y gyflogaeth a ganiateir.

Er bod yr is-ddeddfau hyn yn gwahaniaethu o awdurdod i awdurdod mae'n rhaid i bob un gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth sylfaenol a'r egwyddor gyffredinol mai lles y plentyn yw'r ystyriaeth bwysicaf. Mae'r Rhwydwaith Cenedlaethol dros Blant mewn Cyflogaeth neu Berfformiadau (NNCEE) yn darparu mwy o wybodaeth ar eu gwefan **http://www.nncee.org.uk**

## 21.Trwyddedau Perfformiadau Plant

Mae Deddf Plant a Phobl Ifanc 1933 a Rheoliadau Plant (Perfformiadau) 1968 fel y'i diwygiwyd yn nodi'r rheolau ar blant sy'n cymryd rhan mewn perfformiadau, gan gynnwys perfformiadau darlledu, ffotograffiaeth neu fodelu. Mae'r Rheoliadau yn ei gwneud hi'n ofynnol bod plant sy'n iau nag oedran gadael yr ysgol yn cael trwydded cyn cymryd rhan mewn perfformiad. Diben y darpariaethau hyn yw diogelu iechyd, lles ac addysg plant sy'n cymryd

rhan mewn perfformiadau. Mae'r ddeddfwriaeth yn ei gwneud hi'n ofynnol bod plant, o fabanod newydd-anedig hyd nes eu bod yn hŷn na'r oedran ysgol gorfodol, yn cael trwydded i berfformio gan yr awdurdod lleol lle maent yn byw. Mae gan bob awdurdod lleol gyfrifoldeb statudol i gyflwyno Trwydded Perfformiad Plant i blant sy'n byw yn ei ardal. Mae gan bob awdurdod lleol gyfrifoldeb i archwilio unrhyw eiddo yn ei ardal lle gall plant fod yn perfformio.

Wrth ystyried cais am drwydded, dylai'r awdurdod lleol fod yn fodlon:

- Na fydd addysg ffurfiol y plentyn yn cael ei heffeithio
- Na fydd iechyd y plentyn yn dioddef
- Bod y lleoliad lle mae'r perfformiad neu'r ymarfer yn cael ei gynnal yn addas
- Y bydd holl amodau'r drwydded yn cael eu bodloni.

Bydd y plentyn dan oruchwyliaeth gwarchodwr. Mae'r gyfraith yn nodi bod y gwarchodwr yn gweithredu yn lle rhiant *in loco parentis* ac y dylai ddarparu'r gofal y gellid disgwyl y byddai rhiant da yn ei ddarparu i'r plentyn hwnnw.

Bydd y Gwasanaeth Lles Addysg yn gweithredu er mwyn sicrhau lles plentyn ymhob achos. Dylai ffurflen gais ar gyfer trwydded gael ei chwblhau ai arwyddo gan y rhiant, cyflogwr ar ysgol a chael ei chyflwyno i Swyddog Lles y plentyn cyn iddynt gychwyn gweithio. Bydd y Gwasanaeth Lles yn prosesu pob cais o fewn 10 diwrnod ysgol.

DRAFT

# Gwasanaeth Cwnsela

## 1. Nod

Mae'r Gwasanaeth Cwnsela yn wasanaeth annibynnol sydd yn gweithio gydag ag ysgolion Gwynedd ac Ynys Môn i gefnogi pobl ifanc sydd â phryderon cymdeithasol, emosiynol i gyrraedd eu llawn botensial. Ein nod yw cynnal anghenion emosiynol cymhleth y bobl ifanc yma a thrwy hynny gwella eu cyrhaeddiad addysgol.

## 2. Amcanion

Er mwyn cyrraedd at y nod hwn yr ydym fel gwasanaeth yn gosod yr amcanion canlynol;

- Cynnig lle ac amser rheolaidd er mwyn siarad a thrafod eu gofidiau neu anawsterau
- Helpu pobl ifanc i drafod eu teimladau ac edrych ar y ffordd y maen nhw efallai eisiau i bethau fod yn wahanol, trwy siarad a defnyddio amrywiaeth o fodelau cwnsela.
- Ymwneud â materion datblygiadol, datrys problemau, gwella perthnasoedd, gwneud dewisiadau, ymdopi â newidiadau, meithrin mewnwelediad a dealltwriaeth, tyfu fel unigolyn
- Cefnogi a chynnal ein plant a phobl ifanc drwy sicrhau cwnselwyr hyfforddedig cymwysedig sy'n gweithio o fewn côd moeseg a chod ymarfer cydnabyddedig y Gymdeithas Cwnsela a Seicotherapi Prydain.

Nid yw cwnselwyr yn rhoi cyngor. Mae nhw'n ceisio edrych ar y problemau y mae pobl ifanc yn sôn amdanynt wrthynt o bersbectif y person ifanc. Wrth ddarparu amser, cyfrinachedd a lle diogel gallant helpu pobl ifanc i siarad am eu gofidiau ac unrhyw broblemau sy'n effeithio arnynt, ac i ganfod ffyrdd o ymdopi

## 3. Mesuryddion Addysg

Mae'r Gwasanaeth Cwnsela yn mesur llwyddiant y ddarpariaeth drwy nifer o ddangosyddion. Nodir isod ein prif ddangosyddion;

- Gostyngiad mewn gwaharddiadau penodol a pharhaol
- Cynnydd mewn canran presenoldeb
- Cynnydd yn y prif ddangosyddion ar ddiwedd cyfnodau allweddol
- Gwelliant mesuredig (CORE) mewn iechyd meddwl, cymhelliant a llwyddiant addysgiadol.
- Lleihad yn y nifer o bobl ifanc sydd â phryderon cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol a all arwain at tangyflawni'n addysgol.
- Arfarniadau ysgolion ar yr unigolion a'r Gwasanaeth.
- Ffurflenni adborth cleientiaid/Ffurflenni adborth yr ysgolion.

## 4. Beth yw cwnsela?

*"Mae gwaith Cwnsela Ffurfiol yn cael ei wneud gan gwnselydd proffesiynol yn rhinwedd ei swyddogaeth arbenigol ac yn unol â chod moeseg gydnabyddedig sy'n gofyn am gyfrinachedd, atebolrwydd, goruchwylio a datblygiad proffesiynol parhaus."*

*(Gwasanaethau Cwnsela mewn Ysgolion yng Nghymru - Strategaeth Genedlaethol)*

*"Mae plentyndod a llencyndod yn gallu bod yn gyfnodau dirdynnol iawn ac, yn debyg i oedolion, weithiau mae pobl ifanc angen siarad â rhywun deallus, annibynnol na fydd yn eu barnu."*

*"Mae cwnsela yn ffordd i helpu pobl trwy siarad a gwrando. Mae cleientiaid yn cael eu hannog i fynegi eu teimladau a'u meddyliau am eu problem fel y gallant ddeall eu hunain a'u hymddygiad yn well ac o ganlyniad gwella'u dulliau ymdopi."*

DRAFT

*"Mae cwnsela yn ymwneud â chytundeb sydd wedi'i wneud yn fwriadol â therfynau cytunedig ac ymglymiad i breifatrwydd a chyfrinachedd. Mae angen cysyniad eglur a gwybodus."*

*(Cod Moeseg a Chod Ymarfer Cymdeithas Cwnsela a Seicotherapi Prydain)*

## 5. Gwasanaeth Cwnsela

Mae'r Gwasanaeth Cwnsela Mewn Ysgolion yn wasanaeth proffesiynol, cyfrinachol sydd ar gael i bobl ifanc mewn ysgolion uwchradd ac ar gyfer disgyblion blwyddyn 6 yn yr ysgolion cynradd. Mae'r gwasanaeth yn cynnig lle rheolaidd i bobl ifanc siarad a meddwl am y pethau sy'n bwysig iddynt. Mae'r gwasanaeth yn gweithredu yn unol â Fframwaith Moesegol Cymdeithas Cwnsela a Seicotherapi Prydain a'r Strategaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei datblygu ar gyfer gwasanaethau cwnsela sydd wedi'u sefydlu mewn ysgolion yng Nghymru. Mae'r gwasanaeth cwnsela yn darparu cefnogaeth i blant a phobl ifanc sydd â phryderon cymdeithasol ac emosiynol megis galar, hunanladdiad, anafu, trais a trawma, ac yn eu cefnogi wrth iddynt gyrraedd eu potensial. Mae'r gwasanaeth yn cynnwys cwnselwyr proffesiynol cymwysedig, goruchwylwyr, arolygwyr a hyfforddwyr sydd â blynyddoedd o brofiad o weithio â phlant a phobl ifanc.

Mae'r gwasanaeth cwnsela'n cael ei gynllunio ar gyfer anghenion unigol plant a phobl ifanc. Mae'n darparu:

- cwnsela un i un ar gyfer pobl ifanc
- hyfforddiant i staff pan wneir cais amdano
- ymgynghoriaeth
- cysylltiadau ag asiantaethau priodol eraill
- gwaith grŵp ar ôl cysylltiad ag asiantaethau eraill

Mae'n wasanaeth a ddylai gael ei hybu fel cefnogaeth ac ni ddylai unrhyw stigma fod ynghlwm iddo.

## 6. Sut mae cwnsela yn cyd-fynd â chefnogaeth fugeiliol ar lefel ysgol?

Mae amrywiaeth o weithwyr proffesiynol yn gweithio mewn ysgolion lle mae eu swyddogaeth yn cynnwys gofal bugeiliol dros ddisgyblion ac mae gan ysgolion gyfrifoldeb dros addysg a datblygiad disgyblion; mae hyn yn cynnwys materion yn ymwneud â lles.

Mae'r Gwasanaeth Cwnsela mewn Ysgolion yn wasanaeth arbennig ac annibynnol sy'n cael ei reoli'n broffesiynol. Mae'n cael ei ystyried yn ffynhonnell ychwanegol o gymorth arbenigol sydd ar gael yn gyffredinol mewn ysgolion ac o fewn amser ysgol. Er ei fod yn wasanaeth ar wahân, mae'n cydweithredu gyda'r ysgol a'r adran addysg.

Mae athro/awes cyswllt dynodedig gan bob ysgol i fod yn gyswllt ar gyfer sicrhau fod y Gwasanaeth Cwnsela mewn ysgolion yn gweithredu'n effeithlon yn yr ysgol ac yn unol ag anghenion y plant/bobl ifanc.

## 7. Gweithdrefnau cyfeirio

Ceir mynediad i sesiynau cwnsela un ac un yn yr ysgol trwy bobl ifanc yn **hunangyfeirio**. Mae staff yr ysgol hefyd yn gallu cyfeirio, yn ogystal â gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio â phobl ifanc, a rhieni/gwarcheidwaid â chaniatâd y person ifanc.

Gellir cysylltu â chwnselwyr yr ysgol yn y modd canlynol:

- trwy ymweld â'r cwnselydd (ar y dyddiau pan mae yn yr ysgol) yn ei fan cyswllt yn yr ysgol er mwyn trefnu apwyntiad
- trwy ffonio'r Gwasanaeth Cwnsela ar 01286 679199 er mwyn trefnu apwyntiad
- anfon e-bost at y Gwasanaeth Cwnsela mewn Ysgolion

Dylai'r holl wybodaeth hon gael ei chynnwys yn y llyfryn cyswllt sy'n cael ei ddarparu i bob disgybl bob blwyddyn. Dylai dyddiadau, amseroedd a lleoliadau'r cwnsela sydd ar gael fod yn y llyfryn cyswllt hefyd.

DRAFT

Gall staff neu rieni/warcheidwaid gefnogi pobl ifanc i gael mynediad i'r gwasanaeth. Fodd bynnag, rhaid i'r cwnselydd gael caniatâd eglur y person ifanc cyn cychwyn sesiynau cwnsela.

## 8. System Apwyntiadau

Wedi i apwyntiad gael ei drefnu bydd y cwnselydd yn cysylltu â'r aelod staff penodedig yn yr ysgol i roi gwybod iddo y bydd y person ifanc yn cael cwnsela ac i egluro ym mha ystafell y bydd y cyfarfod yn yr ysgol. Pan fydd ar gael, gellir defnyddio system e-bost fewnol yr ysgol. Ar adegau efallai ni fydd person ifanc eisiau cael cwnsela yn yr ysgol. Os felly, mae'n bosib bydd y cwnselydd yn gallu trefnu lleoliad ac amser arall. Ni fydd cwnsela yn cymryd lle yn y cartref.

Mae'n bwysig bod y system apwyntiadau'n cael ei gweithredu mewn modd synhwyrol, a bod staff yn cael gwybod ar sail angen i wybod. Bydd angen i'r aelod staff penodedig wybod bod person ifanc yn cael cwnsela. Gweler atodiad 1.

## 9. Cyfrinachedd

**Mae cyfrinachedd yn egwyddor foesegol sylfaenol yn y broses gwnsela.** Mae'n caniatáu i berthynas ymddiriedol ddatblygu. Mae'n galluogi'r person ifanc i rannu teimladau a phryderon heb ofni bai na dial. Mae hawl person ifanc i breifatrwydd a chyfrinachedd wedi'i sefydlu'n gyfreithiol yn erthygl 8 Deddf Hawliau Dynol 1998.

Ni fydd y cwnselydd yn rhannu unrhyw fanylion am y sesiynau, ond gall, â chaniatâd y plentyn, gyfathrebu o bryd i'w gilydd â staff bugeiliol yr ysgol ynglŷn â datblygiad cyffredinol. Mae person ifanc yn rhydd i siarad ag unrhyw un am y sesiynau cwnsela os dymuna wneud hynny, ond ni ddylai staff yr ysgol ei holi'n uniongyrchol.
Weithiau, mae angen cysylltu â'r person ifanc neu ei gyfeirio at asiantaeth arall er mwyn iddo gael cymorth pellach. Dylid gwneud hyn yn unig â chaniatâd eglur y person ifanc, yn amodol ar faterion yn ymwneud â diogelwch plant ac iechyd meddwl.

Bydd problemau yn ymwneud â chynnal cyfrinachedd yn annhebygol o ddigwydd os oes ymddiriedaeth, ewyllys da a pharch ar y cyd rhwng y cwnselydd, yr ysgol, y staff a'r rhieni.

## 10. Pa gyfyngiadau sydd ar gyfrinachedd?

(Cyfeiriwch os gwelwch yn dda at Becyn Offer Cwnsela Mewn Ysgolion)

*"Bydd unrhyw ymgais i gael gwared ar yr egwyddor o gyfrinachedd wrth gwnsela yn tanseilio ethos cyffredinol yr ysgol fel cymuned addysgol ofalgar."*

(Roger Casemore, *Confidentiality & School Counselling*, Cymdeithas Cwnsela a Seicotherapi Prydain 1995)

Eto i gyd gall y brif ddyletswydd o ddiogelu lles plentyn fynd y tu hwnt i ddymuniadau unigolyn ynglŷn â chyfrinachedd. (Mae hyn yn ddibynnol ar y materion a ddatgelwyd.) (*Diffinnir plentyn fel unrhyw un sydd o dan 18 oed,* Deddf Plant 1989.) Mae cwnselwyr ysgol yn gweithio'n unol â'r polisïau diogelu plant sydd gan ysgolion unigol ac â gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan.

O'r cychwyn, bydd y cwnselydd yn egluro, wrth y person ifanc, ei fod yn bosibl y bydd yn rhaid iddo dorri cyfrinachedd (hynny yw, dweud wrth rywun a chwilio am gymorth). Bydd hyn yn digwydd pan fydd y person ifanc neu unrhyw unigolyn arall mewn perygl o ddioddef niwed arwyddocaol. Bydd y cwnselydd yn trafod hyn eto â'r person ifanc os bydd angen. Os yw'r plentyn yn *'gymwys yn ôl Gillick a Frazer ' (gweler atodiad 4), bydd y cwnselydd yn ceisio cael caniatâd ganddo i ddatgelu ei bryderon. Os yw'n bosibl, bydd y cwnselydd yn rhoi gwybod i'r person ifanc a'u cynnwys yn y broses hon. Mae cwnselwyr ysgol yn gyfarwydd â gweithdrefnau amddiffyn plant mewn ysgolion ac yn gweithio y tu mewn iddynt ac maen nhw'n gwybod sut i gysylltu â'r

unigolyn penodedig sy'n gofalu am ddiogelu plant yn yr ysgol. Mewn achosion eithriadol, hyd yn oed heb ganiatâd y plentyn, mae'n bosibl y bydd yn rhaid iddynt ddadlennu gwybodaeth y bydd plentyn wedi'i datgelu.

Yn achos person ifanc sy'n bygwth hunanladdiad neu hunan-niwed difrifol, derbynnir yn gyffredinol yr angen am ymyrraeth hyd yn oed pan fydd hyn yn golygu torri cyfrinachedd. Bydd pryderon llai difrifol yn aros yn gyfrinachol heblaw bod y person ifanc eisiau eu rhannu er mwyn cael cymorth pellach.
**Nid** yw'n ofynnol i gwnselydd rannu gwybodaeth am berson ifanc yn torri rheol ysgol neu'n troseddu, heblaw y gellir ystyried bod cwnselydd, wrth beidio â rhannu gwybodaeth, yn cynorthwyo ac yn annog trosedd (er enghraifft, person ifanc yn gwerthu cyffuriau yn yr ysgol).

** Ystyrir bod pobl ifanc sy'n cael eu hystyried yn 'gymwys yn ôl Gillick a Frazer' yn ddigon deallus i allu gwneud penderfyniad ynglŷn â mater y mae'n rhaid iddynt benderfynu yn ei gylch heb ganiatâd eu rhieni neu'n groes i ewyllys eu rhieni.*

## 11. Diogelu / Amddiffyn Plant

Mae'r cwnselydd wedi'i ymrwymo i Weithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan a chanllawiau oddi mewn i'r Bwrdd Lleol Diogelu Plant.

Mae hyn yn cynnwys yr angen i'r cwnselydd nodi a rhoi gwybod, drwy'r Person Amddiffyn Plant Dynodedig, am achosion posibl o niwed i blant a phobl ifanc a fyddai'n deillio o unrhyw ddatgeliadau a wneir gan y person ifanc, neu os oes gan y cwnselydd wybodaeth, bryderon neu amheuon bod plentyn yn dioddef niwed neu mewn perygl o gael ei niweidio. Bydd hyn yn cynnwys datgeliadau ynglŷn â cham-drin corfforol, emosiynol ac/neu rywiol ac/neu esgeulustod honedig ganddo'i hun neu gan rywun arall, ac yn diystyru unrhyw gytundeb cyfrinachedd a wnaed rhwng y cwnselydd a'r cleient.

Dylai cwnselwyr ymdrechu i fod yn ymwybodol o ddeddfwriaeth gyfredol a chyfraith achosion. Rhaid i bob cwnselydd gadw Dogfennau Bugeiliol yr ysgol, sy'n cynnwys y polisi amddiffyn plant, y polisi gwrth-fwlio a'r polisi disgyblu. Mae'n ofynnol i bob cwnselydd gymryd rhan mewn unrhyw hyfforddiant cenedlaethol, rhanbarthol neu leol gorfodol ar amddiffyn plant.

Bydd yr ysgol yn cytuno ar drefniadau penodol i roi gwybod am bryderon amddiffyn plant ac yn nodi'r trefniadau hynny yng ngweithdrefnau'r ysgol.

RHAID trosglwyddo unrhyw bryderon amddiffyn plant i'r Person Amddiffyn Plant Dynodedig a fydd yn gweithio'n unol â chyfarwyddyd Llywodraeth Cymru a Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan.

Dylai gwasanaethau roi sylw dyledus i ddeddfwriaeth a chanllawiau cyfredol, a chynnig cyfrinachedd oddi mewn i'r terfynau moesegol a diogelu arferol.

Rhaid i'r ysgol a'r Cwnselydd gydweithio oddi mewn i ofynion cyfarwyddyd Llywodraeth Cymru, Diogelu Plant: Gweithio gyda'n gilydd o dan Ddeddf Plant 2004 (cyhoeddwyd yn 2007); Diogelu Plant mewn Addysg: Rôl awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu o dan Ddeddf Addysg 2002 (cyhoeddwyd yn 2008) a Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan (cyhoeddwyd yn 2008).

Bydd Estyn, ac mewn rhai amgylchiadau, Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru yn cynnal arolwg o bob sefydliad addysgol, pob ysgol annibynnol a phob awdurdod lleol. Bydd perfformiad y sefydliad mewn perthynas â'u cyfrifoldeb i ddiogelu a hyrwyddo lles plant yn unol â'r ddeddfwriaeth a chanllawiau perthnasol yn ffurfio rhan o ddyfarniad yr arolygiaeth berthnasol o berfformiad cyffredinol y sefydliad. Nid yn ôl bodolaeth gweithdrefnau'n unig y mesurir perfformiad yn y maes hwn, ond pa mor effeithiol yr ydynt wrth ddiogelu plant rhag niwed."
***(Pecyn Cymorth Gweithredu Cwnsela Mewn Ysgolion – Cymdeithas Cwnsela a Seicotherapi Prydain / Llywodraeth Cymru)***

## 12. Caniatâd gan rieni

Bydd y Cwnselydd yn ceisio caniatâd rhieni os na fydd y cleiant yn gymwys i dderbyn cwnsela (*'gymwys yn ôl Gillick a Frazer'*

## 13. Pa bryd y mae gan berson ifanc hawl i gael mynediad i gwnsela heb ganiatâd gan rieni?

Weithiau mae rhiant yn gwrthod rhoi caniatâd neu mae'r person ifanc mewn cyfyngder mawr ac yn amharod i'r ysgol fynd at y rhieni. Mewn achosion fel hyn, gall cwnsela fynd yn ei flaen os yw cwnselydd yn barnu bod y person ifanc yn gymwys yn ôl Gillick i roi caniatâd ei hun. Gweler atodiad 2.
Os yw person ifanc yn amharod i gynnwys ei rieni ac fe'i asesir i fod yn gymwys, gall y person ifanc roi ei ganiatâd ysgrifenedig ei hun i gael cwnsela.

"*Fel egwyddor gyffredinol mae'n gyfreithlon ac yn dderbyniol i berson ifanc ofyn am gwnsela cyfrinachol heb ganiatâd gan rieni cyn belled â bod ganddynt ddigon o ddealltwriaeth a'u bod yn ddigon deallus."* (*Gillick v. West Norfolk AHA*, Tŷ'r Arglwyddi 1985)

Os nad ydyn nhw yn gymwys yn ôl Gillick, bydd angen caniatâd gan rieni, heblaw mewn achosion arbennig, pryd y bydd modd defnyddio prosesau amgen.

Mae asesiad cymhwysedd sy'n seiliedig ar egwyddor Gillick yn dibynnu ar;

- Aeddfedrwydd y personifanc
- Y person ifanc yn meddu ar ddigon o ddeallusrwydd a dealltwriaeth i'w alluogi i ddeall yr hyn sy'n cael ei gynnig h.y. cwnsela
- Y person ifanc yn meddu ar ddigon o ddeallusrwydd a dealltwriaeth o ganlyniadau ei weithrediadau.

Gall unigolyn:-

a) nad oes ganddo gyfrifoldeb rhiant am blentyn penodol ond
b) sy'n gofalu am y plentyn

(yn amodol ar ddarpariaethau'r Ddeddf) wneud beth bynnag fo'n rhesymol ym mhob un o amgylchiadau'r achos at y pwrpas o ddiogelu neu hybu lles y plentyn. (Deddf Plant 1989 Adran 3.(5))

## 14. Sesiynau cwnsela

Mae'r sesiwn gyntaf yn gyfle i'r person ifanc ddarganfod mwy am gwnsela. Byddant yn cael gwybod ei fod yn wirfoddol a chyfrinachol (â rhai eithriadau a fyddant yn cael eu hesbonio'n hwyrach), byddant yn gallu cychwyn ymddiried yn y cwnselwyr ac yn siarad am eu sefyllfa. Bydd y cwnselydd yn ennyn diddordeb y person ifanc hefyd ac yn gwneud asesiad cychwynnol, a fydd yn llywio gwaith y dyfodol.

Mae sesiynau cwnsela un ac un yn para rhyw 45 - 50 munud fel arfer. Mae'n bosibl y bydd angen neilltuo amser ar ddiwedd y sesiynau i bobl ifanc feddwl am y pethau a drafodwyd yn y sesiwn. Ar adegau, gall fod angen i berson ifanc gael mynediad i fan tawel yn dilyn sesiwn.
Os yw person ifanc wedi colli dwy sesiwn neu fwy unwaith i'r cwnsela ddechrau, hysbysir yr aelod staff penodedig a bydd yn cysylltu â'r person ifanc.

Bydd penderfyniad i ddod i ben â sesiynau cwnsela'n rhywbeth y cytunir arno rhwng y cwnselydd a'r person ifanc. Os digwydd hyn, bydd yr aelod staff penodedig yn cael gwybod, ynghyd â'r Pennaeth Blwyddyn perthnasol. Ar adegau, gall fod angen cyfeirio pobl ifanc at asiantaeth arall am gymorth pellach. Gwneir hyn â chaniatâd y person ifanc, yn amodol ar bryderon diogelu plant neu iechyd meddwl. Bydd cwnselydd yr ysgol yn sefydlu cysylltiadau ag asiantaethau lleol priodol eraill ac, mewn rhai achosion, â rhieni neu ofalwyr.

## 15.Ystafell

Dylid darparu ystafell briodol ar gyfer sesiynau cwnsela. Yn ddelfrydol, ni ddylai fod yn bosibl i eraill edrych i mewn i'r ystafell a dylid ei haddurno mewn ffordd sy'n ei gwahaniaethu o ystafell ddosbarth neu swyddfa.

## 16.Hyrwyddo'r Gwasanaeth Cwnsela mewn Ysgolion

Bydd y gwasanaeth yn cynhyrchu taflenni gwybodaeth i rieni er mwyn eu hysbysu'n briodol ac er mwyn iddynt fod yn ymwybodol sut y gall pobl ifanc ddefnyddio'r gwasanaeth. Bydd taflenni ar gael gan gwnselwyr ysgol.

Bydd angen sicrhau bod gwybodaeth am y gwasanaeth cwnsela ar gael ym mhrosbectws yr ysgol, ar wefan yr ysgol, mewn llenyddiaeth am ofal bugeiliol a thaflenni gwybodaeth.

## 17.Fframwaith Moesegol

Mae'r holl gwnselwyr ysgol wedi eu cofrestru â Chymdeithas Cwnsela a Seicotherapi Prydain ac yn gweithredu yn unol â 'Fframwaith Moesegol ar gyfer Arfer Da' Cymdeithas Cwnsela a Seicotherapi Prydain. Mae goruchwylio a chadw cofnodion (tu mewn i ganllawiau diogelu data), ffurflenni gwerthuso a gweithdrefnau cwyno oll y tu mewn i'r côd hwn ar gyfer cwnselwyr proffesiynol.

## 18.Cadw cofnodion

Bydd y cwnselydd yn darparu'r cofnodion canlynol i aelod staff penodedig:

- Y disgyblion sy'n cael cwnsela
- Caniatâd gan rieni y gofynnwyd amdano neu a dderbyniwyd [Blwyddyn 6 – Gillick]
- Nifer y sesiynau a fynychwyd hyd at ddiwedd y cwnsela
- Unrhyw weithredu pellach

Bydd pob cwnselydd o fewn y gwasanaeth hwn yn defnyddio'r un taflenni a ffurflenni i recordio data ac unrhyw wybodaeth arall. Bydd y cwnselydd ysgol yn cadw 'nodiadau proses' yn ystod y gwaith hwn â phobl ifanc. Ar ôl cwblhau'r cwnsela neu ar ôl eu defnyddio yn ystod goruchwyliaeth broffesiynol ymgynghorol, bydd y cwnselydd yn sicrhau bod y nodiadau proses yn cael eu cadw'n ddiogel a bydd yn eu dinistrio ar ôl cyfnod rhesymol.

Bydd y cwnselydd ysgol yn cydymffurfio â Deddf Diogelu Data 1998 sy'n cwmpasu nodiadau â llaw sy'n cael eu cadw mewn ffordd systematig sy'n enwi unigolion, yn ogystal â'r rhai a gedwir ar gyfrifiadur. Gall pobl ifanc ofyn i weld y nodiadau hyn ar ôl rhoi rhybudd rhesymol.

Mewn rhai achosion, mae gan blant o dan 16 oed, sy'n meddu ar y gallu a'r ddealltwriaeth i benderfynu ynghylch eu triniaeth, hawl i drafod pa wybodaeth bersonol sy'n cael ei rhannu ac i bawb barchu eu cyfrinachedd yn gyffredinol, er enghraifft, pe byddent yn cael cwnsela neu driniaeth am rywbeth na ddymunent i'w rhieni wybod amdano. Mae cyfraith achos wedi sefydlu bod plentyn felly, a adnabyddir fel bod yn "gymwys yn ôl Gillick", lle mae'r plentyn o dan 16 oed ond mae'n deall digon am y driniaeth dan sylw i roi neu wrthod caniatâd, y dylid parchu ei benderfyniad. Fodd bynnag, mae arfer da'n datgan y dylid annog y plentyn i gynnwys rhieni neu warcheidwaid cyfreithlon eraill mewn unrhyw wybodaeth anghenrheidiol.

*(Cyfarwyddyd Mynediad i Geisiadau Iechyd o dan Ddeddf Diogelu Data 1998)*

## 19.Gweithdrefnau Cwyno

Mae holl gwnselwyr Gwasanaeth Cwnsela mewn Ysgolion yn aelodau cofrestredig o Gymdeithas Cwnsela a Seicotherapi Prydain ac maent yn cadw at Weithdrefn Ymddygiad Proffesiynol y Gymdeithas. Amcan y Weithdrefn Ymddygiad Proffesiynol yw rhoi llwybr adfer clir a gonest i achwynwyr pan wneir cwynion yn erbyn aelodau o'r Gymdeithas Cwnsela a Seicotherapi Prydain. Wrth brosesu'r cwynion hyn, anela'r Gymdeithas

Cwnsela a Seicotherapi Prydain at ddiogelu aelodau o'r cyhoedd, enw da'r Gymdeithas Cwnsela a Seicotherapi Prydain a'r proffesiynau cwnsela a seicotherapi.

## 20.Gwybodaeth ychwanegol

Dylid darllen y ddogfen hon ochr yn ochr â:

- **Gwasanaeth Cwnsela mewn Ysgolion yng Nghymru – Strategaeth Genedlaethol H**ydref 2006 gan Lywodraeth Cynulliad Cymru
- **Guidelines for counselling in schools** – Cymdeithas Cwnsela a Seicotherapi Prydain ar y cyd â'r Sefydliad Gulbenkian
- **Good Practice Guidance for Counselling in Schools** a gyhoeddwyd gan Gymdeithas Cwnsela a Seicotherapi Prydain – golygwyd gan Janette Newton 4ydd rhifyn 2001

**Bydd y ddogfen hon yn cael ei hadolygu bob dwy flynedd**

## 21.Cyfeiriadau


- Casemore, R. (1995), **Confidentiality & School Counselling**, Cymdeithas Cwnselwyr a Seicotherapi Prydain
- **Deddf Plant** (1989), Adran 3.(5)
- Yr Adran Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, (2007), **Gwasanaeth Cwnsela mewn Ysgolion yng Nghymru – Strategaeth Genedlaethol,** Llywodraeth Cynulliad Cymru
- Tŷ'r Arglwyddi, **Gillick v. West Norfolk AHA**, (1985), 3 All ER 402 (HL)
- Newton, J. **Good Practice Guidance for Counselling in Schools,** Cymdeithas Cwnselwyr a Seicotherapi Prydain
- Bond, T. (2007), **Ethical Framework for Good Practice in Counselling and Psychotherapy,** Cymdeithas Cwnselwyr a Seicotherapi Prydain
- Deddf Diogelu Data 1998, **Guidance for Access to Health Requests,** Adran Iechyd


**Gwefannau**

www.bacp.co.uk

## 22.Strwythur Staffio

Er mwyn sicrhau fod y Gwasanaeth Cwnsela yn cyflawni'r prif amcanion mae strwythuro staffio y gwasanaeth fel a ganlyn.


### Uwch Gwnselydd

Mae un Uwch Gwnselydd yn weithredol yng Ngwynedd ac Ynys Môn. Er bod gan yr Uwch Gwnselydd ymrwymiad o ran oriau cwnsela'n wythnosol, bydd yn gyfrifol am nifer llai nag arfer o gleientiaid.
Mae'r Uwch Gwnselydd â chyfrifoldeb dros ddarparu goruchwyliaeth a chyngor proffesiynol rheolaidd i weddill y cwnselwyr.
Mae'n cynhyrchu adroddiadau rheolaidd fydd yn crynhoi perfformiad y gwasanaeth ar draws y ddau awdurdod ac yn llunio, gweithredu, monitro ac adolygu cynlluniau gwella'r gwasanaeth.
Nid oes gan yr Uwch Gwnseyldd gyfrifoldeb dros reoli cyllideb a materion adnoddau dynol o fewn y gwasanaeth.

### Cwnselwyr Ysgol

Mae cwnselwr dynodedig ar gyfer pob ysgol yng Ngwynedd ac Ynys Môn. Mae pob Cwnselydd yn ymateb i gyfeiriadau yn y ffordd a ddiffinnir yn Atodiad 3.
Er fod Cwnselwyr yn gysylltiedig ag ysgolion unigol, maent hefyd yn rhan o dîm ardal oddi mewn i un o'r rhanbarthau canlynol, Ynys Môn, Dwyrain Gwynedd, De/Gorllewin Gwynedd.

## 23.Llifsiart Strwythur Staffio




## 24.Cyllido Darpariaeth Ychwanegol

Gall ysgolion wneud cais ar gyfer cyllido mwy o gefnogaeth y gwasanaeth cwnsela.
Mae gofyn i ysgolion unigol wneud y cais cyn cychwyn y flwyddyn gyllidol ar gyfer gweithredu o gychwyn y flwyddyn academaidd. Nid oes modd cyllido cefnogaeth ychwanegol yn ystod blwyddyn academaidd.
Bydd unrhyw fuddsoddiad ychwanegol yn cael eu ddefnyddio i dargedu disgyblion o fewn ysgolion.

DRAFT

# Addysg Gartref i Blant Sâl

## 1. Nod

Mae'r gwasanaeth addysg gartref i blant sâl yn gweithio â theuluoedd ac ysgolion prif lif Gwynedd ac Ynys Môn i gefnogi pobl ifanc sydd â chyflyrau meddygol cymhleth i gyrraedd eu llawn botensial. Ein nod yw cynnig cefnogaeth brydlon ac effeithiol i ddisgyblion Gwynedd ac Ynys Môn er mwyn goresgyn unrhyw broblem all godi oherwydd salwch hir dymor.

## 2. Amcanion

Er mwyn cyrraedd at y nodau uchod yr ydym fel gwasanaeth yn gosod yr amcanion canlynol;

- Ymateb yn brydlon a chyson i geisiadau ysgolion am addysg gartref i blant ag anghenion meddygol.
- Cynllunio darpariaeth addysgol sydd ar lefel addas ar gyfer pob disgybl.
- Cydweithio ag ysgolion i gyflwyno'r ddarpariaeth fwyaf addas.
- Cynnal y disgyblion yn emosiynol.
- Gwneud atgyfeiriadau i wasanaethau priodol yn ôl y gofyn.
- Sicrhau llwybr gyrfa i ddisgyblion ar ddiwedd ei gyrfa addysgol.

## 3. Mesuryddion

Mae'r Gwasanaeth Addysg i blant sâl yn mesur llwyddiant y ddarpariaeth drwy nifer o ddangosyddion. Nodir isod ein prif ddangosyddion;

- Cynnydd mewn canran presenoldeb ysgolion cynradd ac uwchradd.
- Cynnydd yn y prif ddangosyddion ar ddiwedd cyfnodau allweddol.
- Lleihad yn y nifer o bobl ifanc gwael sydd yn tangyflawni'n addysgol.
- Lleihad mewn nifer y disgyblion sydd allan o addysg, hyfforddiant a gwaith yn ôl 16.
- Ffurflenni adborth cleientiaid.

## 4. Meini Prawf

Darperir addysg gartref ar gyfer disgyblion o oedran ysgol gorfodol nad ydynt am sawl rheswm, yn gallu mynychu ysgol briodol. Mewn achosion unigol, mae'r ffactorau penodol yn aml yn gymhleth.
Ystyrir addysg gartref dros dro/cyfnod penodol yn yr amgylchiadau canlynol;

- Disgyblion â chyflyrau meddygol sydd yn eu hatal rhag mynychu ysgol. (Achosion meddygol; yn cynnwys disgyblion gyda chyflyrau seicolegol neu seiciatrig ac sydd yn agored i wasanaeth CAMHS)
- Meddygol corfforol - Plant sy'n derbyn adroddiad meddygol gan arbenigwyr neu bediatrydd sy'n datgan ei fod yn beryg iddynt fynychu'r ysgol.
- Meddygol emosiynol - (ffobia ac sydd yn agored i wasanaeth CAMHS).

***Gyda phob un o'r cyflyrau uchod disgwylir llythyr gan Bediatrydd neu Arbenigwyr Meddygol yn nodi'n glir y dylai'r disgybl dderbyn addysg gartref. Bydd unrhyw gais sydd yn cael ei gyflwyno heb lythyr yn cael ei wrthod.***

## 5. Disgyblion Cofrestredig

Yr Awdurdod sy'n gyfrifol am ddarparu ar gyfer disgyblion wedi iddynt gael eu derbyn i'r gwasanaeth oherwydd un o'r rhesymau a restrir uchod. Fodd bynnag, tra bo'r ddarpariaeth yn parhau, bydd enw'r disgybl yn aros ar gofrestr yr ysgol a bydd yr ysgol yn parhau i dderbyn gwerth ariannol y disgybl.
Yn y mwyafrif o achosion, cyflyrau dros dro sy'n arwain at sefyllfaoedd o'r math yma ac yn aml gwelir y disgybl yn dychwelyd i'r ysgol wedi cyfnod o absenoldeb. O'r herwydd, ac er mwyn sicrhau nad yw'r disgybl yn wynebu anfantais addysgiadol yn sgil yr absenoldeb, mae'n ofynnol i ysgolion gydweithio â'r Adran Addysg trwy ddarparu a marcio gwaith. Mae hyn yn hanfodol ar gyfer disgyblion sy'n wynebu profion/arholiadau allanol.

## 6. Disgyblion nad ydynt yn Gofrestredig

Yn an aml iawn cyfyd sefyllfa lle y gall addysg gartref fod yn opsiwn ar gyfer disgybl nad yw ar gofrestr ysgol. Bydd yr Awdurdod yn cymryd cyfrifoldeb am addysgu a darparu gwaith i'r categori yma. Bydd pob disgybl yn cael ei gofrestru ar y gofrestr addysg tu allan i ysgol (EOTAS). Yr Awdurdod sy'n gyfrifol am unrhyw gostau arholi.

## 7. Natur Addysg Gartref i blant sâl

Ni all addysg tu allan i'r ysgol roi i ddisgyblion ehangder profiadau addysgol a chymdeithasol amgylchfyd yr ysgol, felly ble bynnag bo modd, caiff disgyblion eu dysgu mewn grwpiau bychain. Ceir sawl mantais i hyn;

- cynyddu nifer yr oriau sydd ar gael i ddysgu;
- caniatáu rhywfaint o arbenigedd,
- annog rhai disgyblion i ddychwelyd i'r ysgol.

Cynigir hyfforddiant unigol mewn cartrefi yn dilyn methu ymuno â grwpiau dysgu bychan.

Darperir isafswm o ***5 awr yr wythnos*** o hyfforddiant unigol mewn cartref. Gellir cynnal hyn yng nghartref y disgybl neu mewn canolfan benodol. Mae'r Athro/awes plant sâl yn gyfrifol am fonitro cynnydd pob disgybl ac am adolygu'r trefniadau. Mae adolygiadau yn cael eu cynnal pob hanner tymor a gofynnir am dystiolaeth gan yr asiantaethau perthnasol.

Mae'r ddarpariaeth yn dod i ben ar ddiwedd Blwyddyn 11, yn unol ag amserlen y flwyddyn addysgol.

## 8. Proses Gyfeirio

Bydd pob cais am addysg gartref yn cael eu cyfeirio at sylw'r **'Fforwm Ardal ADYaCh'** drwy'r 'Ffurflen Gyfeirio Addysg Gartref i blant sal'.
Bydd y Fforwm yn dod i farn, yn seiliedig ar dystiolaeth gan asiantaethau ac unigolion sydd ynghlwm â'r achos, a yw'n ddyletswydd ar yr awdurdod i ddarparu a pharatoi darpariaeth addysg gartref.

Yn y rhan fwyaf o achosion, mae'r ddarpariaeth am gyfnod byr dros dro i ddisgyblion cyn iddynt ddychwelyd i ddysgu ymhlith eu cyfoedion.

Dylai unrhyw gais am addysg gartref gyflwyno tystiolaeth eglur a manwl o'r angen gan gynnwys adroddiadau gan arbenigwyr meddygol neu bediatrydd sy'n datgan ei fod yn berygl i iechyd a diogelwch plentyn i fod yn bresennol. Bydd disgwyl i Ysgol gyflwyno asesiad risg priodol i gefnogi'r cais i'w ystyried gan y panel mynediad.
Disgwylir i ddisgyblion allu cael at y ddarpariaeth a ddarperir. Os nad yw disgybl yn barod i dderbyn addysg gartref neu ei fod yn gwrthod cydweithredu, tynnir y ddarpariaeth yn ôl gan hysbysu'r rhieni neu ofalwyr yn ysgrifenedig, gan roi cyfleoedd iddynt drafod ffyrdd ymlaen.

## 9. Trefniadau Monitro

Yn sgil trefnu unrhyw fath o addysg gartref, bydd yr Adran Addysg yn cymryd cyfrifoldeb am fonitro ac adolygu'r trefniadau. Anelir i gynnal adolygiad pob hanner tymor gan ofyn am dystiolaeth gan yr asiantaethau perthnasol.
Bydd diweddu'r ddarpariaeth ac integreiddio yn ôl i'r prif lif yn cael ei drafod ym mhob cyfarfod monitro.

## 10.Ail-integreiddio

Mae gan yr Adran Addysg weithdrefn gytunedig ar gyfer cefnogi integreiddio disgyblion yn ôl i'r ysgol. Gall hyn fod yn cefnogi plentyn yn ôl i'r ysgol pan maent ar y gofrestr neu gefnogi disgybl i ymgartrefu mewn ysgol newydd. Bydd y rhaglen integreiddio/cefnogi yn cynnwys y canlynol:

- Cynnal cyfarfod cychwynnol gyda staff perthnasol o'r ysgol er mwyn trafod manylion cefnogaeth. Gall y cyfarfod hefyd gynnwys cynrychiolwyr o asiantaethau eraill megis gweithwyr cymdeithasol, y tiwtor cartref, seicolegwyr addysgol ayb.
- Fel arfer bydd y rhaglen integreiddio yn cael ei chyflwyno cam wrth gam a'i strwythuro er mwyn cefnogi tra mae'r disgybl yn yr ysgol. Mae hyn yn cynnwys:
    - Cytundeb ynghylch gwersi ble rhoddir cefnogaeth.
    - Cytundeb ynghylch dull a natur y gefnogaeth.
    - Cytundeb ynghylch delio â sefyllfaoedd a all fod yn anodd i'r disgybl.
    - Trefniadau adolygu a monitro ar gyfer y rhaglen.

## 11.Strwythur Staffio

Er mwyn sicrhau fod y Gwasanaeth Addysg i blant sâl yn cyflawni'r prif amcanion mae strwythuro staffio y gwasanaeth fel a ganlyn.


**Athro/awes Addysg Gartref Plant Sâl**

Mae un Athro/awes Arbenigol Addysg Gartref Plant Sâl yn weithredol yng Ngwynedd ac Ynys Môn.
Mae'r athro â chyfrifoldeb dros sicrhau fod pob disgybl yn derbyn pecyn addysg gartref sydd yn addas o ran her addysgol.

Bydd y Pennaeth Cynnal Ymddygiad â'r cyfrifioldeb i fonitro a sicrhau ansawdd yr addysgu. Mae cyd weithio a'r ysgolion prif lif yn allweddol er mwyn sicrhau dilyniant.

Lle'n briodol bydd y gwasanaeth yn gofyn i Swyddogion Cynhwysiad Uwchradd/ Swyddogion Cynhwysiad plant sal i gyflwyno'r pecynnau addysg gartref yn y lle cyntaf. Yn dilyn gweithredu pob gwiriad diogelu bydd yr Athro/awes Arbenigol Addysg Gartref Plant Sâl yn sicrhau fod y gefnogaeth addas yn cael ei chynnig i'r bobl ifanc.

Mae'r Athro  Addysg plant sal yn llunio adroddiadau cynnydd bob hanner tymor ar gyfer pob un o'r disgyblion sydd yn derbyn addysg gartref.
Mae'r Athro Addysg plant sal yn cymryd rhan, yn ôl yr angen, mewn prosesau sy'n adolygu, monitro a datblygu'r Gwasanaeth Addysg Gartref. Mae hyn yn cynnwys yr angen i hunan arfarnu a llunio cynlluniau datblygu manwl ar gyfer y gwasanaeth.




DRAFT

# Gwasanaeth i Ddisgyblion Saesneg fel Iaith Ychwanegol

## 1. Nod

Mae'r Gwasanaeth i Ddisgyblion Saesneg Fel Iaith Ychwanegol (SIY) yn gweithio ag ysgolion Gwynedd ac Ynys Môn i gefnogi pobl ifanc sydd Saesneg fel iaith ychwanegol i gyrraedd eu llawn botensial. Ein nod yw cynnig cefnogaeth brydlon ac effeithiol i ysgolion Gwynedd ac Ynys Môn er mwyn goresgyn unrhyw broblem all godi oherwydd diffyg iaith ac o ganlyniad dealltwriaeth.

## 2. Amcanion

Er mwyn cyrraedd at y nod uchod mae'r gwasanaeth yn gosod yr amcanion canlynol:

- Ymateb yn brydlon a chyson i geisiadau ysgolion am gefnogaeth.
- Gweithio fel tîm i ddarparu'r gefnogaeth fwyaf addas ar gyfer disgyblion.
- Cynnal asesiadau cychwynnol ar 'newydd-ddyfodiaid' mewn Ysgolion Cynradd ac Uwchradd
- Sefydlu cysylltiadau positif gyda theuluoedd
- Cyflwyno ystod o strategaethau cynaliadwy ar gyfer cynnal disgyblion.
- Cefnogi athrawon i wahaniaethu ar gyfer disgyblion SIY gan gynnwys cyd ddysgu a modelu arferion da.
- Codi ymwybyddiaeth o faterion cydraddoldeb, diwylliant, iaith ac amrywiaeth mewn ysgolion.
- Gwneud atgyfeiriadau i wasanaethau priodol yn ôl y gofyn.

## 3. Darpariaeth Canolfan

Mae'r tîm yn cynnal cyrsiau Saesneg byr, dwys ar gyfer grwpiau o blant wedi eu targedu, yn bennaf o CA2. Mae disgyblion o wahanol ysgolion yn mynychu'r Ganolfan Iaith am gyfnodau cyfyngedig. Fel arfer, caiff disgyblion mae Saesneg a Cymraeg yn newydd iddynt, eu targedu, ond mae modd i ddisgyblion sydd yn symud o CA2 i CA3 hefyd yn elwa o'r ddarpariaeth.
Mae gan y Ganolfan Iaith le i hyd at 8 disgybl.

## 4. Mesuryddion

Mae'r Gwasanaeth Saesneg Fel Iaith Ychwanegol yn mesur llwyddiant y ddarpariaeth drwy nifer o ddangosyddion. Nodir isod ein prif ddangosyddion;

- Cynnydd yn y prif ddangosyddion ar ddiwedd cyfnodau allweddol.
- Cynnydd yn ôl graddfa'r 5 cam caffael cytunedig Saesneg fel Iaith Ychwanegol.
- Lleihad yn y nifer o bobl ifanc sydd â Saesneg fel iaith ychwanegol sydd yn tangyflawni'n addysgol.
- Arfarniadau ysgolion ar yr unigolion a'r Gwasanaeth.
- Ffurflenni adborth cleientiaid.

## 5. Darpariaeth

Mae'r gwasanaeth yn cefnogi ysgolion a disgyblion unigol mewn amrywiaeth o ffyrdd gwahanol. Amlygir isod y prif ymyraethau a ddarperir.

***Addysgu ar y cyd a gwersi enghreifftiol***

Mae athrawon o fewn y gwasanaeth yn gweithio ar y cyd ac athrawon yn yr ystafell ddosbarth o fewn ysgolion Cynradd ac Uwchradd.

DRAFT

Cyflwynir cyfres o wersi a thrwy gyd arsylwi amlygir sut y gellid gwahaniaethu'r cwricwlwm ar gyfer y gwahanol lefelau o ddysgwyr SIY yn y dosbarth. Yn y sector uwchradd mae'r gwasanaeth yn cefnogi disgyblion mewn gwersi gan gynhyrchu adnoddau dwyieithog ar gyfer athrawon a sydd o gymorth i ddisgyblion gael mynediad llawn i'r cwricwlwm.

### *Cefnogaeth Cyfoedion*

Mae'r gwasanaeth yn cyd weithio ac ysgolion prif lif, uwchradd yn bennaf, i gynnal clybiau amser cinio. Mae disgyblion o Blynyddoedd 12 a 13 yn gwirfoddoli i helpu disgyblion gyda gwaith cwrs, gwaith cartref neu unrhyw broblemau eraill y gallent fod yn eu cael, yn ystod yr egwyl cinio. Mae'r disgyblion hyn oll yn siarad Saesneg yn rhugl ond gallent gyfathrebu gyda'r disgyblion iau mewn ystod o ieithoedd.

### *TGAU Iaith Gyntaf*

Mae'r gwasanaeth yn gweithio gydag ysgolion uwchradd i sicrhau mynediad i achrediadau TGAU i ddisgyblion yn ieithoedd cyntaf rhai o'r disgyblion.

### *International English Language Test System*

Mae'r gwasanaeth yn tiwtora disgyblion sydd angen y cymhwyster IELTS i'w galluogi gael mynediad at y cyrsiau addysg bellach o'u dewis.

### *Canllawiau Gyrfaoedd*

Drwy gyd weithio a'r Athro/awes Cynghori Gyrfaoedd o fewn yr ysgolion yn yr ysgol cynnigir cynorthwyo i ddisgyblion SIY i benderfynu ar gyrsiau a galwedigaethau a fyddai'n addas ar gyfer eu hanghenion.

### *Talking Partners*

Mae staff y gwasanaeth wedi hyfforddiant i fod yn bartner yn y prosiect 'Talking Partners', sef strategaeth ymyrraeth mesuradwy 10 wythnos a sefydlwyd yn wreiddiol yn Bradford i gynorthwyo i ddatblygu sgiliau siarad a gwrando disgyblion SIY. Caiff disgyblion eu tynnu allan mewn grwpiau o 3, deirgwaith yr wythnos. Mae gwaith iaith wedi ei strwythuro'n fanwl, yn seiliedig ar fodelu gan athrawon ac wedi ei gysylltu'n agos â'r cwricwlwm ystafell ddosbarth.

Mae'r gwasanaeth yn rhedeg y prosiect mewn nifer o ysgolion gwahanol. O gymharu canlyniadau o asesiad ar ddechrau'r ymyrraeth ac asesu ar y diwedd, gwelir gwelliant sylweddol o ran sgiliau llafar ymhlith yr holl ddisgyblion a gymerodd ran.

### *Iaith y Mis*

Codi'r ymwybyddiaeth a statws ieithoedd heblaw Saesneg neu Gymraeg a gynrychiolir mewn ysgolion drwy gyflwyno iaith y mis. Mae hyn yn annog y tîm gyflwyno gwahanol iaith i ddisgyblion bob mis ac o ganlyniad mae ystod yr ieithoedd a gefnogir gan y gwasanaeth yn ymestyn. Defnyddir adnoddau a ddarparwyd gan Ysgol Newbury Park, Redbridge, sydd ar gael i'w llawrlwytho a'i defnyddio ar-lein i gefnogi'r gwaith yma.
**http://www.newburyparkschool.net/langofmonth/**

### *Wythnos Ryngwladol*

Mae'r tîm yn gymorth i ysgolion sefydlu a darparu adnoddau ar gyfer cynnal Wythnos Ryngwladol. Defnyddir ein cysylltiadau yn y gymuned leol a thu hwnt i gyfoethogi'r profiadau i'r disgyblion o fewn yr ysgolion sydd yn cymryd rhan.

### *Hyfforddiant*

Mae'r tîm ar gael i hyfforddi timau staff cyfan mewn ysgolion gan godi ymwybyddiaeth o'r materion sy'n wynebu dysgwyr S/CY ac yn pwysleisio strategaethau y gellir eu defnyddio i wneud y cwricwlwm yn fwy hygyrch i ddysgwyr e.e. ychwanegu cymhorthion gweledol at gyflwyniadau i wersi a taflenni gwaith. Yn dilyn yr hyfforddiant mae'r gwasanaeth yn paratoi cardiau atgoffa bychain ar gyfer staff i'w cynnwys yn eu llyfrau cynllunio a'u dosbarthu i athrawon yn yr ysgolion.

### *Hyfforddiant i Fyfyrwyr*

Mae'r tîm yn darlithio i fyfyrwyr ym Mhrifysgol Bangor yn rheolaidd er mwyn cysylltu damcaniaeth gydag arfer ac yn herio rhagdybiaethau presennol ynghylch iaith, cydraddoldeb a dysgwyr Cymraeg neu Saesneg mewn ysgolion.

Mae aelodau o Wasanaeth SIY Gwynedd ac Ynys Môn hefyd yn cyflwyno gwersi enghreifftiol a siarad yn helaeth gyda athrawon dan hyfforddiant sydd ar ymarfer dysgu mewn ysgolion ar sut i ddarparu cefnogaeth briodol ar gyfer disgyblion sy'n dysgu SIY yn y dosbarth.

## 6. Gwirfoddolwyr

Gwneir defnydd o wirfoddolwyr i gefnogi rhai plant. Lle'n briodol mae unigolion yn y gymuned sy'n siarad yr un iaith a rhai o'r disgyblion ac a fuasai'n hoffi helpu neu sy'n chwilio am waith, yn dod i gysylltiad a'r gwasanaeth. Mae'r gwasanaeth yn medru comisiynu amser y gwirfoddolwyr.

## 7. Strwythur Staffio

### Uwch Athro/awes Saesneg Fel Iaith Ychwanegol

Mae un Uwch Athro/awes Saesneg Fel Iaith Ychwanegol yn weithredol yng Ngwynedd ac Ynys Môn. Er bod ymrwymiad o ran oriau dysgu'n wythnosol, bydd yn gyfrifol am nifer llai nag arfer o ddisgyblion.
Mae'r athro/awes â chyfrifoldeb dros sicrhau fod pob disgybl yn derbyn y gefnogaeth sydd yn addas o ran ei anghenion ieithyddol ac addysgol. Yn ogystal mae a chyfrifioldeb i fonitro a sicrhau ansawdd yr addysgu. Mae cyd weithio a'r ysgolion prif lif yn rhan allweddol o'r gwaith yma.
Mae'r Uwch Athro/awes Saesneg Fel Iaith Ychwanegol yn llunio adroddiadau cynnydd bob hanner tymor ar gyfer y gwasanaeth.
Mae'r Uwch Athro/awes Saesneg Fel Iaith Ychwanegol yn cymryd rhan, yn ôl yr angen, mewn prosesau sy'n adolygu, monitro a datblygu'r gwasanaeth. Mae hyn yn cynnwys yr angen i hunan arfarnu a llunio cynlluniau datblygu manwl ar gyfer y gwasanaeth.

### Athrawon Arbenigol Saesneg Fel Iaith Ychwanegol


Mae'r Athrawon Arbenigol Saesneg Fel Iaith Ychwanegol yn gweithio gydag ysgolion, disgyblion unigol a grwpiau o ddisgyblion i sicrhau'r gefnogaeth orau i blant ac yr arweiniad gorau i athrawon ar lawr dosbarth.
Yn ogystal â chefnogi o fewn ysgolion mae'r athrawon yn medru treulio cyfnodau o fewn yr unedau arbenigol yn cyflwyno rhaglenni cytunedig i grwpiau bach o ddisgyblion.
Mae'r athrawon yn ymestyn ar draws y cyfnodau allweddol gan sicrhau'r gynhaliaeth fwyaf cyson i'r disgyblion gan roi sylw penodol i'r cyfnod trosiannol cynradd/uwchradd.

### Cymorthyddion Arbenigol Saesneg Fel Iaith Ychwanegol

Mae'r Cymhorthydd Arbenigol yn gweithio ar y cyd â'r Athrawon Arbenigol Saesneg Iaith Ychwanegol i weithredu rhaglenni a chefnogi disgyblion yn unol â'r gofyn.

Yn absenoldeb un o'r Athrawon Arbenigol mae'r Cymhorthydd Arbenigol yn medru sicrhau parhad gwasanaeth o fewn y canolfannau.

## 8. Llifsiart Strwythur Staffio




DRAFT

# Cynnal a Sicrhau Ansawdd Addysg i Blant Mewn Gofal

## 1. Nod

Mae adrannau addysg Gwynedd ac Ynys Môn yn cydweithio ag ysgolion a Gwasanaethau Plant Gwynedd ac Ynys Môn i gefnogi pobl ifanc sydd yn cael eu rhoi mewn gofal i gyrraedd eu llawn botensial addysgol mewn awyrgylch gefnogol ac ystyriol. Nid yw'r gefnogaeth wedi ei chyfyngu i ddisgyblion Gwynedd ac Ynys Môn; bydd unrhyw blentyn mewn gofal o fewn ein cyfundrefn yn derbyn yr un lefel o gynhaliaeth. Ein nod yw cynnig cefnogaeth brydlon ac effeithiol er mwyn goresgyn unrhyw rwystrau addysgol all fod o ganlyniad i fynd i ofal o fewn Gwynedd, Ynys Môn neu thu hwnt.

## 2. Amcanion

Er mwyn cyrraedd at y nod uchod yr ydym fel gwasanaeth yn gosod yr amcanion canlynol;

- Gweithio mewn partneriaeth â'r gwasanaethau plant i gynllunio a darparu'r gefnogaeth fwyaf addas.
- Sicrhau fod ethos ysgolion Gwynedd ac Ynys Môn yn sicrhau perchnogaeth yr ysgolion o'r bobl ifanc bregus yma.
- Sicrhau fod pob un o ysgolion Gwynedd ac Ynys Môn â pherson dynodedig a llywodraethwr dynodedig ar gyfer plant mewn gofal.
- Sicrhau fod ysgolion yn cynllunio'n ofalus ar gyfer anghenion plant mewn gofal.
- Sicrhau hyfforddiant priodol fydd yn arwain at gynhaliaeth addas a Chynlluniau Datblygu Unigol addas ac effeithiol.
- Sicrhau arweiniad arbenigol i alluogi ysgolion i deilwrio ymyraethau arbenigol o fewn adnoddau'r ysgol.
- Sicrhau fod llais a barn plant mewn gofal am y gefnogaeth addysgol yn cael eu clywed.

## 3. Mesuryddion

Mae'r Gwasanaeth Cymdeithasol i Blant Mewn Gofal yn mesur llwyddiant y ddarpariaeth drwy nifer o ddangosyddion. Nodir isod eu prif ddangosyddion;

- Canran y plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth sydd â phrofiad o symud ysgol unwaith neu fwy yn ystod cyfnod neu gyfnodau o dderbyn gofal, nad oedd y symud hwnnw oherwydd trefniadau trosiannol, yn y 12 mis hyd at 31 Mawrth.
- Canran presenoldeb disgyblion tra'u bod mewn gofal sydd yn yr ysgolion cynradd
- Canran presenoldeb disgyblion sy'n derbyn gofal tra mewn ysgolion uwchradd
- Canran y plant sy'n derbyn gofal yn ystod y flwyddyn a chanddynt Gynllun Addysg Personol o fewn 20 diwrnod ysgol i dderbyn gofal neu ymuno ag ysgol newydd yn ystod y flwyddyn yn gorffen 31 Mawrth.
- Canran o blant sy'n derbyn gofal, sy'n gymwys ar gyfer asesiad ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 sydd wedi ennill y Dangosydd Pwnc Craidd fel caiff eu penderfynu yn ôl Asesiad Athro/awes
- Canran o blant sy'n derbyn gofal, sy'n gymwys ar gyfer asesiad ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3 sydd wedi ennill y Dangosydd Pwnc Craidd fel caiff eu penderfynu yn ôl Asesiad Athro/awes
- Cyfartaledd y sgôr pwyntiau mewn cysylltiad â chymwysterau allanol plant 16 oed sy'n derbyn gofal mewn unrhyw sefyllfa ddysgu a gynhelir gan awdurdod lleol.
- Canran y plant sy'n derbyn gofal a gafodd eu gwahardd yn barhaol o'r ysgol yn ystod y flwyddyn academaidd flaenorol.
- Nifer y diwrnodau ar gyfartaledd wedi'u treulio allan o'r ysgol ar waharddiadau cyfnod penodol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a gafodd eu gwahardd yn ystod y flwyddyn academaidd flaenorol.
- Canran o blant mewn gofal sydd wedi symud ysgol fwy nag unwaith yn ystod eu cyfnod o fod mewn gofal, nad oedd o ganlyniad i newid sector, yn y flwyddyn yn gorffen 31 Mawrth.
- Canran o blant mewn gofal sydd yn cyrraedd Dangosydd Pwnc Craidd ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 a 4.

DRAFT

- Canran o blant sydd yn gadael gofal sydd mewn addysg, hyfforddiant neu waith 12 mis a 24 mis wedi gadael gofal.

## 4. Strwythur Staffio

**Swyddog Cyswllt Addysg Plant Mewn Gofal**

Amlygir isod brif swyddogaethau'r Swyddog Cyswllt Addysg Plant Mewn Gofal (PMG).

Sicrhau bod Plant Mewn Gofal yn cael mynediad llawn i gyfleoedd addysg sy'n caniatáu iddynt wneud y gorau o'u talentau, diddordebau, gallu ac i gyflawni eu potensial.

Cyfrifoldeb dros gydlynu rhaglenni addysgol a lles (CAP) i blant mewn gofal mewn cydweithrediad â darparwyr addysg yn cynnwys:

- sefydliadau cyn ysgol
- ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig
- ysgolion all sirol a darparwyr annibynnol
- colegau addysg bellach a phrifysgolion

Cyfrifoldeb dros arwain datblygiadau cenedlaethol a lleol ym maes plant mewn gofal

Cyfrifoldeb dros sicrhau gweithrediad priodol ar gyfer diogelu lles plant mewn gofal

Cyfrifoldeb am gydweithio cydlynus ac effeithiol gyda'r asiantaethau perthnasol e.e:

- gweithwyr cymdeithasol, teuluoedd maeth, athrawon dynodedig, Cydlynwyr ADYaCh, gweithwyr iechyd, cydweithwyr o fewn y ddau awdurdod, disgyblion penodol, swyddogion Llywodraeth Cymru ac asiantaethau trydydd sector.

Cyfrifoldeb am sicrhau cyfleoedd addysgol cyfartal i blant mewn gofal drwy gydymffurfio â phrotocolau cenedlaethol a lleol.

Mynychu cyfarfodydd cynllunio ac adolygiadau fel bo'r angen.

Mynychu a chyfrannu at benderfyniadau y Paneli Cymedroli/Fforymau fel bo'r angen ar gyfer diweddaru gwybodaeth am blant mewn gofal.

Cyfrannu at adolygiadau statudol, Cynlluniau Cefnogi Personol, fel bo'r angen.

Cynrychioli'r Adran Addysg ar Baneli Maethu, Panel Mabwysiadu, Paneli Gofal Plant a'r Panel Comisiynu Lleoliadau i sicrhau diweddariad gwybodaeth addysgol am unigolion ag anghenion penodol.

Cydweithio â darparwyr addysgol i sicrhau rhaglenni dysgu llawn amser.

Cynnig cymorth a chyngor i ddarparwyr addysg parthed cynnwys ac adolygu CAP gan adolygu eu heffeithiolrwydd ar ran yr Awdurdod.

Gweithredu fel person allweddol yr Adran Addysg o ran cydweithio gyda phersonél eraill fydd ynghlwm â darpariaeth addysg, yn benodol gan fonitro ansawdd y trefniadau a'r darpariaethau.

Cyfrannu at gydlynu a chynllunio'n strategol ar gyfer plant mewn gofal gan sicrhau polisïau a chynlluniau gweithredu i gefnogi'r unigolion mewn addysg.

Sicrhau ansawdd a dibynadwyedd data cyrhaeddiadau plant mewn gofal. Tracio cynnydd a monitro ansawdd y ddarpariaeth, adnabod bylchau yn y gyfundrefn a gweithredu arnynt a darparu adroddiadau yn seiliedig ar y wybodaeth yn ôl y gofyn.

Sicrhau hyfforddiant i staff arweiniol dynodedig a llywodraethwyr dynodedig ar reoli ymddygiad heriol a nodi anghenion plant sy'n dioddef o broblemau trawma ac ymlyniad.

Sicrhau gwasanaethau cymorth o'r un safon uchel ar gyfer plant sydd wedi cael eu mabwysiadu neu sy'n destun Gorchymyn Gwarcheidwaeth Arbennig.

Sicrhau hyfforddiant a chefnogaeth i ofalwyr maeth, gweithiwyr gofal preswyl plant, gofalwyr sy'n berthnasau a rhieni er mwyn hyrwyddo addysg.

Bod yn aelod o'r grŵp strategol cenedlaethol er mwyn cefnogi ymarfer cyson wrth gefnogi PMG, nodi'r rhyngddibyniaethau sy'n bodoli rhyngddynt, hyrwyddo cymorth i ymarferwyr a rhannu arferion da, a nodi a goresgyn rhwystrau i lwyddiant.

Bod yn aelod o gymuned ymarfer i helpu meithrin cysylltiadau a pherthynas waith mwy effeithiol rhwng aelodau o staff arweiniol dynodedig mewn ysgolion a sefydliadau addysg bellach, Cydgysylltwyr Addysg PMG, gofalwyr a gweithwyr cymdeithasol.

Cydweithio a hyrwyddo Strategaeth Rhanbarthol PMG a Grwpiau bregus (GwE) a mynychu cyfarfodydd rhanbarthol tymhorol y rhanbarth.

Adeiladu Rhwydwaith effeithiol o'r holl staff allweddol trwy gyfres o gyfarfodydd sirol i sicrhau bod gwasanaethau cyson yn cael eu darparu i BMG.

Darparu adroddiadau penodol yn unol â'r gofyn.

## 5. Cynllun Addysg Personol (CAP) Plant Mewn Gofal

Mae pob cynllun addysg personol a gwblheir gan ysgolion Gwynedd ac Ynys Môn yn dilyn y drefn o Adolygiad Person Canolog. Mae hyn yn cyd-fynd â'r newid o fewn y maes anghenion dysgu ychwanegol ac yn rhoi ffocws clir ar ddeilliannau. Amlygir yn glir atebolrwydd unigolion o fewn yr ysgolion, a thu hwnt, o ran cefnogi addysg yr unigolyn.

Mae ein gweithdrefnau o ran ymateb i'r angen i lunio CAP o fewn 20 diwrnod wedi ei nodi isod:

- Mae'r Adran Addysg yn derbyn gwybodaeth gan y Gwasanaethau Cymdeithasol pan fo plentyn yn symud ysgol neu ddod i ofal. Llenwir blaenddalen y ffurflen CAP gyda'r wybodaeth sylfaenol a ddaw o'r hysbysiad lleoliad.
- Anfonir e-bost i'r ysgolion perthnasol yn gofyn iddynt gwblhau Cynllun Addysg Personol. Nodir yn yr e-bost bod gofyn i'r cynllun gael ei gwblhau o fewn 20 diwrnod ysgol i'r plentyn dderbyn gofal neu ymuno ag ysgol newydd.
- Atgoffir yr ysgolion yn rheolaidd o'u cyfrifoldebau mewn perthynas â PMG a'r drefn weithredu sydd angen ei dilyn.
- Mae pob ysgol wedi derbyn copi o'r daflen 'Gofynion gweithredol yng nghyd-destun Plant Mewn Gofal'.
- Codir ymwybyddiaeth yr ysgolion o'r gofynion mewn cyfarfodydd penaethiaid yn rheolaidd.

Mae Fforwm Addysg Plant Mewn Gofal yn craffu ar ansawdd y Cynlluniau Addysg Personol. Mae aelodau'r Fforwm a rôl i herio ansawdd y cynlluniau yma gan sicrhau fod ysgolion yng Ngwynedd, Ynys Môn, a thu hwnt, yn darparu'r cyfleoedd a'r gynhaliaeth orau ar gyfer ein plant mewn gofal.

## 6. Fforwm Addysg Plant Mewn Gofal

Mae **Atodiad 1** yn amlygu cylch gorchwyl a chyfansoddiad y Fforwm Addysg Plant Mewn Gofal.

Bydd y Fforwm yn cael ei gynnal unwaith y mis yn syth wedi cyfarfod rheolwr tîm y gwasanaethau cymdeithasol. Ein bwriad yma yw sicrhau llwyfan er mwyn ymateb yn syth i unrhyw bryder all godi am addysg plentyn mewn gofal.

**Cynlluniau Addysg Plant Mewn Gofal**

Mae'r Fforwm yn derbyn adroddiad chwarterol ar nifer y Cynlluniau Addysg Personol a dderbyniwyd o fewn 20 diwrnod ysgol i'r plentyn fynd i ofal neu ymuno ag ysgol newydd. Mae unrhyw lithriad yn y perfformiad yn derbyn sylw'n brydlon ac mae hyn yn ein cynorthwyo i gyrraedd targed y dangosydd perfformiad yma sef 85%.

Mae'r Fforwm yn craffu ar sampl o gynlluniau addysg plant mewn gofal ymhob cyfarfod, a lle'n briodol, gofynnir i ysgolion am dystiolaeth o'r gweithredu disgwyliedig sydd yn deillio o'r cynlluniau unigol. Lle nad yw safon y cynllun yn ddigonol, neu lle nad yw'r gweithredu'n ddigonol, mae gan y Fforwm gyfrifoldeb i herio'r ysgolion dan sylw.

**Perfformiad ac Ansawdd**

Mae'r Fforwm yn derbyn adroddiadau ar berfformiad addysgol pob plentyn mewn gofal o fewn ysgolion Gwynedd ac Ynys Môn sydd yn cwmpasu'r wybodaeth a ganlyn:

- Presenoldeb, canlyniadau profion cenedlaethol, targedau addysgol mewn pynciau penodol a pherfformiad presennol.
- Adroddiadau ar berfformiad dangosyddion meddal yn ogystal megis cymhelliant.
- Adroddiadau ysgol tymhorol a blynyddol y disgyblion

Mae cynnwys yr adroddiadau yma'n cael eu craffu a'u cwestiynu gan yr aelodau.

**Ymddygiad a Chynhwysiant**

Mae'r Fforwm yn derbyn y data diweddaraf am waharddiadau penodol a pharhaol unrhyw blentyn mewn gofal. Lle bo pryder am ymddygiad, gellir cyfeirio achos i sylw'r Fforwm Ardal ADYaCh. Yn ogystal, bydd y Cydlynydd Addysg PMG yn sicrhau nad oes cyfnodau lle nad oes addysg yn cael ei ddarparu oherwydd heriau ymddygiadol.

**Cefnogaeth Ychwanegol**

Mae arian ar gael i gefnogi addysg plant mewn gofal o fewn ysgolion Gwynedd ac Ynys Môn. Mae'r Fforwm Addysg Plant mewn gofal â chyfrifoldeb dros flaenoriaethu'r gyllideb ar gyfer cefnogi addysg plant mewn gofal. Mae'r Fforwm yma yn derbyn ceisiadau gan ysgolion am gyfran o'r arian ar gyfer cyfoethogi ymhellach yr hyn a gyflwynir gan yr ysgolion. Gellir gwneud ceisiadau am gyllid i gynnig gwersi un i un ychwanegol neu anogaeth dysgu ychwanegol i unigolion ar ddiwedd cyfnodau allweddol. Mae'r Fforwm yn blaenoriaethu lle y dylid buddsoddi wrth ystyried perfformiad addysgol ac amgylchiadau'r unigolion.
Mae'r Fforwm yn medru cyfeirio ysgolion at hyfforddiant yn ôl yr angen.

**Cynllun Adnoddau**

Mae modd i ysgolion a Gweithwyr Cymdeithasol lunio ceisiadau ar gyfer adnoddau technoleg gwybodaeth megis gliniaduron neu ipads. Mae'r Fforwm yn derbyn ceisiadau gan ysgolion a gweithwyr cymdeithasol am gyfran o'r arian ac yn blaenoriaethu lle y dylid buddsoddi wrth ystyried perfformiad addysgol ac amgylchiadau'r unigolion.

**Lleoliadau Heriol**

Mae amgylchiadau nifer fychan o blant mewn gofal yn gosod her benodol ar y ddarpariaeth addysg yng Ngwynedd ac Ynys Môn. Mewn sefyllfaoedd lle y ceir disgyblion oedd o fewn darpariaeth arbenigol, o ran gofal

ac addysg, yn dychwelyd oherwydd newid mewn amgylchiadau cymdeithasol yn unig gosodir her ar yr Adran Addysg i ddarparu cynhaliaeth a darpariaeth arbenigol lle nad yw ar gael ar hyn o bryd.

Mae'r Fforwm yn gyfle i drafod anghenion addysgol y disgyblion yma cyn iddynt ddychwelyd er mwyn sicrhau bod yr Awdurdod mewn gwell lle i ymateb yn amserol ac addas.

Mae'r Fforwm yn gyfle i leisio pryder pe byddai'r ddarpariaeth wedi ei chynllunio ai gweithredu yn ddiffygiol neu'n aneffeithiol.

**Atebolrwydd**

Mae'r Fforwm Addysg Plant Mewn Gofal yn atebol i'r Paneli Rhiantu Corfforaethol ac i'r Uwch Dimau Rheoli Addysg.

Mae cofnodion y Fforwm, yn dilyn ei anonimeiddio, yn cael eu rhannu ag aelodau'r Panel Rhiantu Corfforaethol.

DRAFT

# NODIADAU

- **Fersiwn drafft yw hwn.**
- **Bydd ystod o Atodiadau yn cael eu hychwanegu wrth gwblhau'r ddogfen fanwl yma.**
- **Bydd y Meini Prawf i gyd yn cael eu hadolygu.**

DRAFT

# Atodiad 1 – Strwythur y Gwasanaethau Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad

| | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Pennaeth Addysg | | | | | | | | | | | |
| | Uwch Reolwr Cynhwysiad | | | | | | Uwch Reolwr Anghenion Dysgu Ychwanegol | | | | | |
| | | | | | | Pennaeth Ymddygiad | Prif Seicolegydd | | | | | Swyddog Ansawdd ADYaCh |
| **Timau Gwasanaeth** | Cwnsela | Saesneg Iaith Ychwanego | Plant mewn Gofal | Diogelu | Lles | Cynnal Ymddygiad | Seicolegwyr Addysgol | Cyfathrebu a Rhyngweithio | ADY Penodol ac Amhenodol | Nam Synhwyraidd | Corfforol/ Meddygol | |
| | Uwch Gwnselydd | Uwch Athro SIY | Swyddog Cyswllt Addysg Plant Mewn Gofal | Swyddog Diogelu | Uwch Swyddog Lles | Athrawon Arbenigol Canolfannau | Uwch Seicolegwyr | Athrawon Arbenigol Canolfannau Anhwylder Iaith | Athrawon Arbenigol ADY Penodol ac Amhenodol | Athrawon Arbenigol Nam Clyw | Athro/awes Arbenigol Meddygol/ corfforol | Gwasanaethau: Cydlynwyr ADYaCh Ysgol/ Clwstwr Swyddogion Datganiad (Interim) Cefnogaeth Weinyddol |
| | Cwnselwyr | Athrawon Arbenigol SIY | | | Swyddogion Lles | Cymorth. Arbenigol Canolfannau | Seicolegwyr Addysgol | Athrawon Arbenigol Canolfannau ASD | Cymorth Arbenigol ADY Penodol ac Amhenodol | Athrawon Arbenigol Nam Golwg | Cydlynydd Meddygol/ Corfforol | |
| | | Cymorth. Arbenigol SIY | | | | Cymorthyddion | | Therapyddion Iaith | | Cymoth Arbenigol Nam Synhwyraidd | Swyddog Asesu Risg | |
| | | | | | | Athro Arbenigol P25/ Plant sal | | Cymorth. Arbenigol Cyf a Rhyng | | | | |
| | | | | | | Swydd. Cynhwys. P25 | | | | | | |
| | | | | | | Swydd Cynhwys Plant Sal | | | | | | |

# Atodiad 2 – Cynllun Datblygu Unigol (CDU)



Rhan 1 *Part* 1

Hanfodol

# Proffil [Enw] 's Profile



## Beth sydd yn bwysig i [Enw] ?
## What's important to [Name] ?

[Teipiwch yma/Type here]

## Hoffi ac edmygu am [Enw]
## Like and appreciate about [Name]

[Teipiwch yma/Type here]

## Beth sydd yn bwysig er mwyn cefnogi [Enw] ?
## How best to support [Name] ?

[Teipiwch yma/Type here]

Tudalen 421

# Beth sydd yn gweithio?
## What's working?

I / For: [Enw/Name]

[Teipiwch yma/Type here]

I'r Ysgol ?
For the school?

[Teipiwch yma/Type here]

I'r teulu ?
For the family?

[Teipiwch yma/Type here]

I eraill ?
For others?

[Teipiwch yma/Type here]

Tudalen 422

# Beth sydd ddim yn gweithio?

## What's not working?

I / For: [Enw/Name]

[Teipiwch yma/Type here]

I'r Ysgol ?
For the school?

[Teipiwch yma/Type here]

I'r teulu
For the family?

[Teipiwch yma/Type here]

I eraill ?
For others?

[Teipiwch yma/Type here]

Tudalen 424

**Beth yw dyheadau [Enw/Name] ?** **What are [Enw/Name]'s aspirations?**

[Teipiwch yma/Type here]

**Beth yw dyheadau'r teulu?** **What are the family's aspirations?**

[Teipiwch yma/Type here]

**Beth yw dyheadau'r ysgol?** **What are the school's aspirations?**

[Teipiwch yma/Type here]

**Cytundeb gwneud penderfyniadau**
**Decision-making agreement**

**Pwy sy'n gwneud pa benderfyniadau?**
***Who makes what decisions?***

[Teipiwch yma/Type here]

**Pwy sy'n bwysig i [Enw/Name] ?**
**Who's important to [Enw/Name] ?**

**Teulu…** **Family…**

[Teipiwch yma/Type here]

**Ysgol…** **School…**

[Teipiwch yma/Type here]

**I ddarparu cefnogaeth…** **To provide support…**

[Teipiwch yma/Type here]

**Ffrindiau a pherthnasau eraill…** **Friends and other relations…**

[Teipiwch yma/Type here]

**Cynllun Cyfathrebu**
**Communication Plan**

**Unrhyw wybodaeth i sicrhau cyfathrebu da…**
***Any information to ensure good communication…***

[Teipiwch yma/Type here]

**Rhan 2**
***Part 2***

Dewisol

# Cynllun Datblygu Unigol [Enw]
## *[Name]'s Individual Development Plan*

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 1. | **Enw Llawn**<br>*Full Name* | | | | |
| 2. | **Dyddiad Geni**<br>*Date of Birth* | | | | |
| 3. | **Rhyw**<br>*Gender* | | | | |
| 4. | **Cyfeiriad**<br>*Address* | | | | |
| 5. | **Enw Rhiant/Gwarchodwr**<br>*Name of Parent/Guardian* | | | | |
| 6. | **Rhif(au) Ffôn Rhiant/Gwarchodwr**<br>*Phone Number(s) of Parent/Guardian* | | | | |
| 7. | **(i) Iaith y Cartref**<br>*Home Language* | | | | |
| | **(ii) Iaith Gohebu**<br>*Language for Correspondence* | | | | |
| | **(iii) Saesneg fel Iaith Ychwanegol?**<br>*English as an additional language?* | | | | |
| 8. | **Rhif UPN**<br>*UPN Number* | | | | |
| 9. | **Rhif Gwas. Cymdeithasol**<br>*Social Services Number* | | | | |
| 10. | **Rhif GIG**<br>*NHS Number* | | | | |
| 11. | **Mewn Gofal?**<br>*In Care?* | | | | |
| 12. | **Wedi bod mewn gofal ar un cyfnod tra ar gofrestr yr ysgol bresennol?** | | | | |
| 13. | **Lleoliad Addysgol**<br>*Educational Placement* | | | | |
| 14. | **Dyddiad Derbyn i'r Ysgol**<br>*Date of Admission to the School* | | | | |
| 15. | **Grŵp Blwyddyn**<br>*Year Group* | | | | |
| 16. | **Cyfnod Allweddol**<br>*Key Stage* | | | | |
| 17. | **Dyddiad y CDU Cyntaf**<br>*Date of Initial IDP* | | | | |
| 18. | **Dyddiad Llunio'r CDU presennol ***<br>*Date of current IDP ** | Click here to enter a date. | | | |
| 19. | **Dyddiad y Cyfarfod**<br>*Date of the Meeting* | Click here to enter a date. | | | |
| 20. | **Maes/Meysydd Angen - Cod(au) CYBLD**<br>*Area(s) of Need - PLASC Code(s)* | (i) | Dewiswch un / Choose one | (ii) | Dewiswch un / Choose one |
| 21. | **Darpariaeth AAA Disgybl**<br>*Pupils ALN Provision* | | | | |
| 22. | **Lefel y Ddarpariaeth**<br>*Level of the Provision* | | | | |
| 23. | **Cofnod Presenoldeb y Plentyn**<br>*School Attendance Records* | | | | |
| 24. | **PYD?**<br>*FSD?* | | | | |
| 25. | **Cofnod o Waharddiad(au)?**<br>*Record of Exclusion(s)?* | | | | |

| Cyrhaeddiad / *Attainment** | | | |
|---|---|---|---|
| Meysydd Dysgu/ *Areas of Learning* | | Cyrhaeddiad Presennol *Current Attainment* | Targedau Cyrhaeddiad *Attainment Targets* |
| Cyfnod Sylfaen (CS)/Deilliannau'r CS *Foundation Stage (FS)/ FS Outcomes* | **Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Diwylliannol** *Personal and Social Development, Well-Being and Cultural Diversity* | Dewiswch un / Choose one | |
| | **Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu** *Language, Literacy and Communication* | Dewiswch un / Choose one | |
| | **Datblygiad Mathemategol** *Mathematical Development* | Dewiswch un / Choose one | |
| | **Dwyieithrwydd** *Bilingualism* | Dewiswch un / Choose one | |
| | **Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd** *Knowledge and Understanding of the World* | Dewiswch un / Choose one | |
| | **Datblygiad Corfforol** *Physical Development* | Dewiswch un / Choose one | |
| | **Datblygiad Creadigol** *Creative Development* | Dewiswch un / Choose one | |
| Pwnc / Maes Cyrhaeddiad *Subject / Attainment Area* | | CC. neu INSTEP presennol/ Lefel arall *Current N.C. or INSTEP/ other Level* | |
| **Cyfnodau Allweddol 1-4 Asesiadau Safonol Athro/awes** *Key Stages 1-4 Moderated Teacher Assessments* | **Siarad a Gwrando** *Speaking and Listening* | Dewiswch un / Choose one | |
| | **Darllen** *Reading* | Dewiswch un / Choose one | |
| | **Ysgrifennu** *Writing* | Dewiswch un / Choose one | |
| | **Rhif** *Number* | Dewiswch un / Choose one | |
| | **Siâp, Gofod a Mesur** *Shape, space and Measure* | Dewiswch un / Choose one | |
| | **Gwyddoniaeth** *Science* | Dewiswch un / Choose one | |
| **Profion Cenedlaethol** *National Tests* | **Cymraeg** *Welsh* | | |
| | **Saesneg** *English* | | |
| | **Mathemateg (Gweithdrefnol)** *Mathematics (Procedural)* | | |
| | **Mathemateg (Rhesymu)** *Mathematics (Reasoning)* | | |
| **Cwricwlwm 14-19 e.e. ASDANTuag at Annibyniaeth/ SGILIAU ALLWEDDOL (e.e. cyfathrebu/rhifedd/TGCh)** *14-19 Curriculum, e.g. ASDANTowards Independence / KEY SKILLS (e.g. communication/ numeracy/ IT)* | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |

Hanfodol

# Manylion Pellach
*Further Details*

1. Pwy sydd yn y cyfarfod / *Who is at the meeting?*

| Enw / *Name* | Asiantaeth / *Agency* | Rôl / *Role* | Adroddiad? *(gan gynnwys ei ddyddiad)* / *Report? (inc. date)* | |
|---|---|---|---|---|
| (i) | | Prif Bwynt Cyswllt o fewn yr ysgol<br>*Main point of contact within the school* | ✕ | Click here to enter a date. |
| (ii) | | | ✕ | Click here to enter a date. |
| (iii) | | | ✕ | Click here to enter a date. |
| (iv) | | | ✕ | Click here to enter a date. |
| (v) | | | ✕ | Click here to enter a date. |
| (vi) | | | ✕ | Click here to enter a date. |
| Ymddiheuriadau / *Apologies* | | | | |
| (i) | | | ✕ | Click here to enter a date. |
| (ii) | | | ✕ | Click here to enter a date. |
| (iii) | | | ✕ | Click here to enter a date. |

2. Crynodeb o'r maes(ydd) angen a lefel y gefnogaeth a ddarperir/ *Summary of the area(s) of need and the level of support provided*

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| (i) | Cod(au) CYBLD / *PLASC Code(s)* | 1 | Dewiswch un / Choose one | 2 | Dewiswch un / Choose one<br>*Os yn berthnasol/*If applicable* |
| (ii) | Disgrifydd Ymyrraeth / *Intervention descriptor* | Dewiswch un / Choose one | | | |
| (iii) | Lefel y ddarpariaeth / *Level of provision* | Dewiswch un / Choose one 1-4? | | | |
| (v) | Darpariaeth gan yr awdurdod? / *Local Authority Provision?* | Cliciwch yma. | | | |

| 3. | Cynlluniau Cysylltiedig / *Related Plans* | Oes/Nac Oes? *Yes/No?* | Ynghlwm? / *Attached* | Dyddiad y Cynllun / *Date of the Plan* |
|---|---|---|---|---|
| (i) | Meddygol? / *Medical?* | Cliciwch yma. | ✕ | Click here to enter a date. |
| (ii) | Asesiad Risg? / *Risk Assessment?* | Cliciwch yma. | ✕ | Click here to enter a date. |
| (iii) | Datganiad? / *Statement?* | Cliciwch yma. | ✕ | Click here to enter a date. |
| (iv) | Cynllun Cyfathrebu Unigol / *Individual Communication Plan* | Cliciwch yma. | ✕ | Click here to enter a date. |

# Cynllun Gweithredu [Enw]

## *[Name]'s Action Plan*

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| ***Deilliant 1:*** *Outcome 1:* | | | | | | | | *Perthnasol i adolygiadau'n unig* |
| | **Targedau i gyrraedd y deilliant** *Targets to achieve the outcome* | **Lle 'ryda ni arni rŵan?** *Where we're at now?* | **Beth ydym angen ei wneud i gyrraedd y deilliant?** *What do we need to do to achieve the outcome?* | **Yn ddarostyngedig i benderfyniad fforwm/panel cymedroli?** *Subject to the decision of the forum/moderation panel?* | **Pwy fydd yn gyfrifol am wneud hyn?** *Who will be responsible for doing this?* | **Targed Cynnydd** *Progress Target* | **Erbyn Pryd?** *By when?* | **Mesur Twf** *Measuring Progress* –/–/– |
| *i* | *Drop down a free text?* | Choose an item. | *Free text?* | *✓NEU X→ Drop down - MATH O BANEL → CALENDAR PANELI.* | *Drop down - Ysgol, All, Rhieni, asiantaethu* | Choose an item. | Click here to enter a date. | *Gwahaniaeth rhwng Lle ryda ni arni a targed cynnydd…* |
| *ii* | | | | | | | | |
| *iii* | | | | | | | | |
| *iv* | | | | | | | | |

## Cynllun Darpariaeth [Enw]
## *[Name]'s Support Plan*

| Darpariaeth / Provision | Amlder a Chymhareb Staff? *Frequency and ratio of staff?* | Cyfnod y ddarpariaeth: Dyddiad Cychwyn | Cyfnod y ddarpariaeth: Dyddiad Gorffen | Cost |
|---|---|---|---|---|
| **1. Darpariaeth Ysgol** *School Provision* | | | | |
| | | | | |
| **2. Darpariaeth wedi'i gyllido gan yr Awdurdod Lleol (os yn berthnasol)** *Provision funded by the Local Authority(if applicable)* | | | | |
| | | | | |
| **3. Darpariaeth Ychwanegol e.e. Asiantaethau Allanol, Cymorthyddion (os yn berthnasol)** *Additional Provision e.g. External Agencies, Teaching Assistants (if applicable)* | | | | |
| | | | | |

## Cofnod o Gytundeb/Ganiatâd i Rannu Gwybodaeth

*Record of Agreement/Permission to Share Information*

Mae'r cynllun hwn yn crynhoi fy anghenion addysgol/anghenion addysgol fy mhlentyn a'r ddarpariaeth sydd ei hangen i fodloni'r anghenion hynny. Mae fy marn i a/neu farn fy nheulu wedi'i hystyried wrth ysgrifennu'r Cynllun.
Rhoddaf fy nghaniatâd i'r wybodaeth uchod gael ei rhannu gyda phobl a sefydliadau perthnasol eraill.
* Gwelwch Nodyn am Rannu Gwybodaeth (isod).

*This plan summarises my / my child's educational needs and the provision required to meet those needs. My view and/or the view my family have been taken into account when writing the plan.*
*I give my consent to the above information to be shared with people and other relevant organisations.*
* *See Note about sharing information (below).*

**Llofnod/ *Signature*:** **Dyddiad / *Date*:**

Person Ifanc / Gofalwr (dilëir fel sy'n briodol) / *Young Person/Carer (written as appropriate)*

**Llofnod Aelodau'r Cyfarfod / *Meeting Members Signature:***

(i)
(ii)
(iii)
(iv)
(v)

**Dyddiad / *Date*:**

**** Nodyn: RHANNU GWYBODAETH***
*Er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth a'r cymorth dysgu ar gael, gall fod yn angenrheidiol rhannu'ch Cynllun gyda'r bobl/sefydliadau canlynol:*

i. *Eich rhiant/rhieni, gwarcheidwad/gwarcheidwaid neu ofalwr*
ii. *Gwasanaethau Cymdeithasol*
iii. *Gweithwyr Proffesiynol: e.e. Gweithwyr Proffesiynol Iechyd a gweithwyr allweddol*

****Note: SHARING INFORMATION***
*In order to ensure that the provision and learning support is available, it may be necessary to share your plan with the following people/organisations:*

i. *Your parent/parents, guardian or carer*
ii. *Social Services*
iii. *Professionals e.g. Health Professionals and key workers.*

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **PWYLLGOR** | **PWYLLGOR GWAITH / CYNGOR SIR** |
| **DYDDIAD** | **19 Medi / 27 Medi 2016** |
| **TEITL YR ADRODDIAD** | **Adrodd ar Adolygiad o Ddogfen Polisi Gamblo yr Awdurdod Lleol** |
| **ADRODDIAD GAN** | **Pennaeth Gwasanaeth – Rheoleiddio a Datblygu Economaidd** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD** | **Gofyn am gael cymeradwyo'r Terfynol o'r Polisi Gamblo yn dilyn ymgynghoriad** |
| **GWEITHREDU** | **Mabwysiadu a chymeradwyo'r Polisi Gamblo** |

## 1 RHAGARWEINIAD

1.1 Yn unol â Deddf Gamblo 2005, mae'n rhaid i Awdurdodau Lleol baratoi a chyhoeddi datganiad ar ei bolisi gamblo bob tair blynedd.

1.2 Mae'r polisi presennol wedi gwasanaethu'r Awdurdod yn dda dros y tair blynedd diwethaf ac ni ragwelir y bydd unrhyw faterion yn codi petaem yn penderfynu parhau i ddefnyddio'r polisi hwnnw yn y tymor byr. Nid oes unrhyw bryderon am ymddygiad unrhyw sefydliadau gamblo masnachol ar yr Ynys ar hyn o bryd ac ni chafwyd unrhyw broblemau sylweddol ers gweithrediad y Ddeddf.

## 2. CEFNDIR

2.1 Mae'n rhaid i Awdurdodau Lleol, yn unol ag Adran 5 Deddf Gamblo 2005, adolygu eu Polisi Gamblo bob tair blynedd. Mae'n rhaid penderfynu ar y Polisi diwygiedig cyn 1 Hydref, 2016.

2.2 Mae copi cyflawn o'r Polisi Trwyddedu llawn ar gael i'w archwilio isod.

2.3 Mae Atodiad D, o fewn y Polisi, yn cynnwys cofrestr o'r rheini yr ymgynghorwyd â nhw trwy e-bost i osgoi costau ychwanegol yn wyneb yr hinsawdd economaidd gyfredol

2.4 Mae'r Polisi diwygiedig yn atgyfnerthu pwysigrwydd gwaith partneriaeth er mwyn lleddfu'r risgiau; er mwyn adlewyrchu'r newid i gyfrifoldebau cymdeithasol o fewn Amodau Trwydded a Chodau Ymarfer y Comisiwn ac i ddarparu arweiniad i weithredwyr allu cynnal Asesiad Risg lleol o'r ardal gyfagos.

Mae 5ed rhifyn o Ganllawiau'r Comisiwn hefyd wedi eu hystyried.

## 3. Argymhellion

Bod y Cyngor Sir yn cymeradwyo'r adroddiad uchod ac yn mabwysiadu'r Polisi Gamblo diwygiedig.

Paratowyd yr Adroddiad gan D.M.JONES, Prif Swyddog Trwyddedu, ar ran yr Adran Safonau Masnach.

Cyngor Sir Ynys Mon

# Datganiad o Bolisi Gamblo

# Cyngor Sir Ynys Môn
# Datganiad o Bolisi Gamblo

## Cefndir


**1. Cyflwyniad:**

1.1 Amcanion Trwyddedu
1.2 Proffil
1.3 Awdurdodau Cyfrifol
1.4 Parti â diddordeb
1.5 Mathau o drwydded
1.6 Eiddo trwyddedadwy a thrwyddedau
1.7 Hawliau Sylfaenol
1.8 Ymgynghorwyd â
1.9 Cyfnewid Gwybodaeth
1.10 Strategaethau Integredig ac osgoi dyblygu
1.11 Strategaeth Gymunedol Datblygiad Cynaliadwy

**2. Deddfwriaeth, Polisi a Strategaethau**

2.1 Deddfwriaeth
2.2 Perthynas gyda Pholisïau Cynllunio
2.3 Strategaethau Cenedlaethol
2.4 Strategaethau a Pholisïau Lleol
2.5 Amgylchedd Trwyddedu Priodol

**3. Gwneud Penderfyniadau**

3. Gweinyddu, Ymarfer a Dirprwyo Swyddogethau
3.2 Gweithdrefn Apeliadau
3.3 Cwynion yn erbyn Eiddo Trwyddedig
3.4 Adolygiadau Trwyddedig
3.5 Amodau Trwyddedu a Chodau Ymarfer (LCCP)

**4. Safonau Lleol**

4.1 Ceisiadau
4.2 Amodau
4.3 Gorfodaeth
4.4Casinos
4.5 Trwyddedau peiriannau Hapchwarae
mewn Canolfan Adloniant Teuluol Ddidrwydded
4.6 Canllawiau Ychwanegol
4.7 Loterïau Bychan
4.8 Eiddo wedi'i rannu

5. Amodau Trwyddedu a Chodau Ymarfer

6. Asesiad Risg – Eiddo Betio

7. Gwybodaeth bellach

**Atodiad A - Map o'r Ardal**

**Atodiad B – Dirprwyo Dyletswyddau**

**Atodiad C – Manylion Cyswllt yr Awdurdodau Perthnasol**

**Atodiad D – Y Rhai yr Ymgynghorwyd â Hwy**

**Atodiad E – Geirfa**

**Atodiad F – Crynodeb Peiriannau Hapchwarae**

## Cefndir

Mae Deddf Gamblo 2005 yn gweithredu cynigion y Llywodraeth i ddiwygio'r gyfraith ar gamblo. Mae'r Ddeddf yn sefydlu system reolaethol newydd i reoli pob darpariaeth gamblo yng Ngwledydd Prydain ar wahân i'r Loteri Genedlaethol a betio ar led. Cafodd Gydsyniad Brenhinol ar 7 Ebrill 2005

Mae'r Ddeddf Gamblo'n diddymu Deddf Betio, Hapchwarae a Loterïau 1963, Deddf Gamblo 1968 a Deddf Loterïau a Difyrion 1976. Mewn gwirionedd, bydd gamblo'n anghyfreithlon yng Ngwledydd Prydain oni bai ei fod yn cael ei ganiatáu o dan y mesurau yn y Ddeddf.

Mae'r Ddeddf yn caniatáu tri chategori o drwyddedau
Trwyddedau gweithredu Trwyddedau personol Trwyddedau eiddo

Bydd Cyngor Sir Ynys Môn yn gyfrifol am gyflwyno trwyddedau eiddo a bydd y Comisiwn Gamblo, sy'n disodli'r Bwrdd Hapchwarae, yn gyfrifol am gyflwyno'r trwyddedau gweithredu a phersonol.

Bydd y Comisiwn Gamblo yn rheoleiddio gamblo er budd y cyhoedd drwy gadw gamblo'n rhydd o droseddu, sicrhau fod gamblo'n cael ei gynnal yn deg ac yn agored a gwarchod plant a'r bregus. Bydd y Comisiwn yn dal i gyflwyno canllawiau i Awdurdodau Lleol ynghylch y modd y dylent reoli gamblo a darparu ar ei gyfer a gallai hynny hefyd gynnwys darpariaethau ar gyfer hysbysebu darpariaethau gamblo.

Gellir cysylltu â'r Comisiwn Gamblo ar www.gamblingcommission.gov.uk

Diffinnir **Gamblo** yn y Ddeddf fel hapchwarae, betio neu gymryd rhan mewn loteri.

Golyga **hapchwarae** chwarae gêm o siawns am wobr.

Golyga **betio** roi neu dderbyn bet ar ganlyniad ras, cystadleuaeth neu unrhyw ddigwyddiad arall, y tebygolrwydd y bydd rhywbeth yn digwydd neu ddim yn digwydd ac a yw rhywbeth yn wir ai peidio.

**Loteri** yw pan fo raid i rywun dalu er mwyn cymryd rhan mewn trefniant lle mae un neu fwy o wobrau'n cael eu dyrannu drwy broses sy'n dibynnu'n gyfan gwbl ar hap.

# 1. CYFLWYNIAD:

## 1.1Amcanion Trwyddedu

Mae'r Ddeddf Gamblo 2005 yn rhoi'r cyfrifoldeb ar y Cyngor i gynnal ei wahanol waith trwyddedu er mwyn hyrwyddo'r tri phrif amcan trwyddedu:

- rhwystro gamblo rhag bod yn ffynhonnell trosedd neu anhrefn, bod yn gysylltiedig â throsedd neu anhrefn neu o gael ei ddefnyddio i gefnogi trosedd.
- sicrhau fod gamblo'n cael ei gynnal mewn modd teg ac agored ac
- amddiffyn plant a phobl fregus eraill rhag cael eu niweidio neu eu camddefnyddio gan amblo.

Dylid nodi fod y Comisiwn Gamblo wedi dweud: "Y gofyniad mewn perthynas â phlant yn benodol yw eu gwarchod rhag cael eu niweidio neu eu hecsbloetio drwy gamblo".

Mae'r Cyngor, fel yr Awdurdod Trwyddedu, yn ymwybodol mai'r nod, fel ar gyfer Adran 153, wrth wneud penderfyniadau am Drwyddedau Eiddo a rhybuddion defnydd dros dro yw y dylid caniatáu'r defnydd o eiddo ar gyfer gamblo cyn belled a'i fod yn ystyried ei fod:

- yn unol ag unrhyw god ymarferol perthnasol a roddir gan y Comisiwn Gamblo
- yn unol ag unrhyw arweiniad perthnasol a roddir gan y Comisiwn Gamblo
- yn rhesymol gyson â'r amcanion trwyddedu ac;
- yn unol â datganiad yr awdurdod ar bolisi trwyddedu

Daw'r Cyngor felly yn awdurdod trwyddedu o dan Ddeddf Gamblo 2005. Golyga hyn y bydd y Cyngor yn gyfrifol am ganiatáu trwyddedau eiddo yn Ynys Môn ar gyfer:

- adeiladau casino
- bingo mewn neuaddau ac mewn eiddo wedi'i drwyddedu ar gyfer gwerthu alcohol
- eiddo betio gan gynnwys traciau
- canolfannau hapchwarae i oedolion
- canolfannau adloniant teuluol
- a pheiriannau hapchwarae mewn tafarndai a chlybiau

## 1.2 Proffil

Mae'r Cyngor yn gwasanaethu'r ardal ddaearyddol a adwaenir fel Ynys Môn – cyfeirir ati'n aml fel Môn Mam Cymru ac mae dwy bont wych, sef pont enwog Telford, 'Pont Borth' a Phont Britannia sy'n fwy diweddar, yn ei chysylltu gyda thir mawr Gogledd-orllewin Cymru. Oherwydd ei bod mor agos i Iwerddon, mae'n "borth" rhyngwladol strategol i Weriniaeth Iwerddon gyda phorthladd y

fferi yng Nghaergybi yn cludo 2.5 miliwn o bobl bob blwyddyn dros y môr i ac o'r Ynys Werdd.

Gan Ynys Môn y mae'r boblogaeth leiaf yng Nghymru – 68,368 yng nghanol 2003. Serch hynny, gydag arfordir o 125 milltir yn cwmpasu ardal sy'n 720 cilometr sgwâr, Ynys Môn ydyw'r fwyaf o ynysoedd Cymru. Gweler map o'r ardal yn Atodiad A. Erys yn gadarnle i'r iaith a'r diwylliant Cymreig ac mae'n cynnwys 22,000 hectar o Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol, 60 safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig sy'n ategu at 4 o Warchodfeydd Natur Cenedlaethol, 3 Ardal Diogelwch Arbennig ac 8 ardal sy'n ymgeisio am statws Ardaloedd Cadwraeth Arbennig.

Ar hyn o bryd, mae gan y Cyngor 7 Eiddo Betio trwyddedig, 3 Canolfan Adloniant Teuluol, 107 Eiddo Trwyddedig gyda Hysbysiadau Peiriannau Gemau, nifer cyfyngedig o Drwyddedau Peiriannau Gemau mewn Clybiau ac ychydig dros 200 o loterïau bach.

Yn ôl Deddf 2005, rhaid i'r Cyngor gyhoeddi 'Datganiad o Bolisi Trwyddedu' sy'n gosod allan y polisïau y bydd y Cyngor fel rheol yn eu defnyddio i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu wrth benderfynu ar geisiadau ac adolygiadau o dan y Ddeddf.

Cafodd y Polisi hwn ei baratoi gan gadw mewn cof ddarpariaethau'r Ddeddf Gamblo, y Canllawiau a dderbyniwyd oddi wrth y Comisiwn Gamblo a'r ymatebion a gafwyd yn ystod y broses o ymgynghori. Bwriedir iddi fod yn ddogfen addysgiadol ac yn ddogfen drafod a fydd yn arwain y Cyngor at fabwysiadu Datganiad o Bolisi Trwyddedu ffurfiol.

Daw'r polisi i rym ar y dyddiad y bydd yn cael ei fabwysiadu gan y Cyngor ac fe'i adolygir yn ôl y gofyn ac o leiaf bob tair blynedd o ddyddiad ei fabwysiadu.

**1.3 Awdurdod Cyfrifol**

Mae angen i'r Awdurdod Trwyddedu, drwy reoliadau, nodi'r egwyddorion y bydd yn eu gweithredu wrth ymarfer ei bwerau o dan Adran 157(h) o'r Ddeddf er mwyn dynodi, yn ysgrifenedig, corff sydd â'r gallu i gynghori'r awdurdod am sut i amddiffyn plant rhag niwed. Yr egwyddorion yw:

Yr angen i'r corff fod yn gyfrifol am ardal sy'n cynnwys holl ardal yr Awdurdod Trwyddedu; a'r angen i'r corff fod yn atebol i unigolion sydd wedi'u hethol mewn modd democrataidd, yn hytrach nag unrhyw grŵp sydd â diddordeb personol.

Yn unol â'r awgrymiad yng Nghanllawiau'r Comisiwn Gamblo ar gyfer Awdurdodau Trwyddedu, mae'r awdurdod hwn yn dynodi'r Bwrdd Diogelu Plant lleol i'r diben hwn; ond gallai fod yn ddoeth i'r Cyngor gynnwys sefydliadau eraill os yw'n credu ei fod yn ddoeth i wneud hynny er mwyn atal niwed corfforol, moesol neu seicolegol, yn enwedig lle bydd yn derbyn sylwadau i'r perwyl hwnnw

Mae manylion cyswllt yr holl Awdurdodau Cyfrifol sydd wedi'u nodi o dan Deddf Gamblo 2005, wedi eu cynnwys yn Atodiad B.

**1.4 Parti â Diddordeb:**

At ddibenion Deddf Gamblo 2005, mae unigolyn yn barti â diddordeb, mewn perthynas â thrwydded eiddo os, ym marn yr Awdurdod Trwyddedu sy'n rhoi'r drwydded neu y gwneir y cais iddynt, fod yr unigolyn:

- Yn byw yn ddigon agos i'r eiddo fel eu bod yn debygol o gael eu heffeithio gan y gweithgareddau a awdurdodir;
- Sydd â buddiannau busnes a allai gael eu heffeithio gan y gweithgareddau awdurdodedig; gallai hyn gynnwys, er enghraifft, cymdeithasau masnach, elusennau, grwpiau ffydd a chanolfannau meddygol.
- Yn cynrychioli unigolion sy'n bodloni unrhyw un o'r uchod; Cymdeithasau Trigolion a Thenantiaid er enghraifft.

  Wrth ystyried a yw unigolyn yn barti â diddordeb, bydd pob achos yn cael ei ystyried yn unigol gan ystyried yr amgylchiadau perthnasol, gan gynnwys y rhai hynny sy'n cael eu cynnwys yng Nghanllawiau'r Comisiwn Gamblo ar gyfer Awdurdodau Lleol.

**1.5 Mathau o Drwydded**

Mae'r ddogfen yn gosod allan y polisïau y bydd y Cyngor yn eu defnyddio wrth benderfynu ar geisiadau ar gyfer:

1. Trwydded Eiddo
2. Hysbysiadau Defnydd Dros Dro
3. Hysbysiadau Defnydd Achlysurol
4. Hawlenni sydd raid eu cael o dan y Ddeddf, a
5. Cofrestriadau sydd raid eu cael o dan y Ddeddf

**1.6 Eiddo trwyddedadwy a thrwyddedau**

Mae'r polisi hwn yn ymwneud â'r holl eiddo trwyddedadwy, rhybuddion, caniatadau a chofrestriadau sydd wedi eu cynnwys yn narpariaethau'r Ddeddf, sef:-

- adeiladau casino
- adeiladau bingo
- canolfannau betio, gan gynnwys traciau
- canolfannau gemau i oedolion
- canolfannau adloniant i deuluoedd

Ac eithrio yn achos traciau (lle mae'n bosib nad y sawl sy'n rhedeg y trac ac sydd â'r Drwydded yw'r person sy'n cynnig y gweithgaredd gamblo) ni fedrir ond rhyddhau trwydded i bobl a chanddynt drwydded weithredu berthnasol. Er enghraifft, i gael trwydded ar gyfer adeilad bingo, rhaid i'r ymgeisydd hefyd fod â thrwydded weithredu ar gyfer bingo. Gellir trosglwyddo trwyddedau adeiladu i rywun arall sydd â thrwydded weithredu ddilys.

Yn unol â'r Ddeddf , gall awdurdodau trwyddedau roddi amodau ynghlwm wrth drwyddedau adeiladu. Mae Rhan 9 y Canllawiau hyn yn awgrymu'r amodau y gellir eu hystyried mewn perthynas â phob math o drwydded.

Yn ychwanegol at drwyddedau, mae yna fathau eraill o awdurdodiadau y gall awdurdod trwyddedu eu caniatáu, er enghraifft, awdurdodiadau ar gyfer defnydd dros dro o eiddo, rhybuddion defnydd achlysurol a 5 o wahanol fathau o ganiatâd ar gyfer canolfannau adloniant i'r teulu nad oes trwydded ar eu cyfer, gemau gyda gwobrau, peiriannau gemau mewn adeiladau â thrwydded alcohol a chaniatadau ar gyfer gemau clwb a pheiriannau mewn clybiau.

## 1.7 Hawliau Sylfaenol

Yn unol ag amodau'r Ddeddf gall unrhyw unigolyn/cwmni wneud cais am amrywiaeth o fathau o ganiatâd a chael eu ceisiadau wedi eu hystyried ar sail unigol. Yn ogystal, mae gan unrhyw Barti sydd â Diddordeb neu Awdurdod Cyfrifol yr hawl i wneud sylwadau perthnasol ar gais neu i ofyn am adolygiad o drwydded neu dystysgrif lle mae darpariaeth iddynt wneud hynny wedi'i nodi yn y Ddeddf.

Mae gan ymgeiswyr a'r rhai hynny sy'n gwneud sylwadau perthnasol o ran ceisiadau i'r Awdurdod Trwyddedu yr hawl i apelio i'r Llys Ynadon yn erbyn penderfyniadau'r Awdurdod Trwyddedu.

Bydd y Cyngor, wrth ymgymryd â'i waith trwyddedu, yn talu sylw dyladwy i'r angen i wahardd gwahaniaethu anghyfreithlon ac i hyrwyddo cydraddoldeb a pherthynas dda rhwng pobl o wahanol hil.

## 1.8 Y rhai yr ymgynghorwyd â nhw

Ymgynghorir yn ffurfiol ynghylch y Datganiad o Bolisi Trwyddedu hwn gyda:

1. Heddlu Gogledd Cymru.
2. Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru.
3. Cynrychiolwyr o ddeiliaid gwahanol drwyddedau eiddo yn yr ardal a fydd yn cael eu heffeithio gan y polisi hwn.
4. Pobl a busnesau a fyddai'n debygol o gael eu heffeithio gan y gamblo a awdurdodir yn yr Ardal

*Ni fwriedir i'r rhestr uchod fod yn gyflawn, yn wir disgwylir yr ymgynghorir yn hynod o eang, gweler Atodiad D am restr gyflawn.*

Bydd y Cyngor, gan dalu sylw llawn i Ganllawiau'r Comisiwn, yn rhoi'r pwys dyladwy ar farn y rhai yr ymgynghorwyd â nhw. Wrth benderfynu ar faint o bwys a ddylid ei roi i sylw penodol, bydd y Cyngor yn cadw mewn cof:

i. pwy sy'n cyflwyno'r sylw (beth yw ei arbenigedd neu ei ddiddordeb)

ii. beth allai fod eu cymhelliad

iii. faint o bobl eraill sydd wedi mynegi barn debyg

iv. y graddau y mae'r sylwadau'n berthnasol i faterion y dylai'r Cyngor fod yn eu cynnwys yn y ddogfen bolisi.

### 1.9 Cyfnewid Gwybodaeth

Mae angen i awdurdodau trwyddedu gynnwys yn eu datganiadau yr egwyddorion sydd i'w gweithredu gan yr awdurdod wrth ymarfer eu swyddogaethau o dan adrannau 29 a 30 o'r Ddeddf mewn perthynas â chyfnewid gwybodaeth gyda'r Comisiwn Gamblo a'r swyddogaethau o dan adran 350 o'r Ddeddf mewn perthynas â chyfnewid gwybodaeth rhyngddo a'r unigolion eraill a restrir yn Atodlen 6 o'r Ddeddf.

Yr egwyddor y mae'r Awdurdod Trwyddedu hwn yn ei weithredu yw y bydd yn gweithredu yn unol â darpariaeth Deddf Gamblo 2005 wrth gyfnewid gwybodaeth sy'n cynnwys y ddarpariaeth na fydd Deddf Diogelu Data 1998 yn cael ei thorri. Bydd yr Awdurdod Trwyddedu hefyd yn rhoi ystyriaeth i unrhyw Ganllawiau a roddir gan y Comisiwn Gamblo ar y mater hwn, yn ogystal ag unrhyw bwerau perthnasol a roddir gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan y pwerau a ddarperir yn Neddf Gamblo 2005.

Petai unrhyw brotocolau yn cael eu sefydlu o ran cyfnewid gwybodaeth â chyrff eraill yna byddant ar gael.

Gall y Cyngor o bryd i'w gilydd ymarfer ei bwerau o dan adran 115 o Ddeddf Trosedd ac Anrhefn 1998 er mwyn cyfnewid data a gwybodaeth gyda'r heddlu a phartneriaid eraill er mwyn cyflawni ei amcan statudol o leihau trosedd yn yr ardal.

Byddai'r awdurdod yn dymuno gwneud ei broses gwneud penderfyniadau mor dryloyw â phosibl a bydd yr holl sylwadau a wneir yn cael eu rhannu â'r holl bartïon ar gais. Bydd raid cydymffurfio gyda'r ddeddfwriaeth rhyddid gwybodaeth.

### 1.10 Integreiddio Strategaethau ac osgoi dyblygu

Drwy ymgynghori'n eang cyn cyhoeddi'r Datganiad Polisi hwn, bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn rhoddi ystyriaeth lawn i'r polisïau lleol sy'n cynnwys atal trosedd, diwylliant, cludiant, cynllunio a thwristiaeth fel rhan o strategaeth integredig ar gyfer yr Awdurdod Trwyddedu, yr Heddlu ac asiantaethau eraill. Efallai na fydd rhai o'r strategaethau hyn yn ymwneud yn uniongyrchol â hyrwyddiad y tri amcan trwyddedu, ond efallai y byddant yn effeithio'n anuniongyrchol arnynt.

Wrth ystyried unrhyw gais, bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn osgoi dyblygu gwaith gydag unrhyw gyfundrefnau rheoleiddiol eraill i'r graddau y mae hynny'n bosibl. Felly, ni fydd yr Awdurdod Trwyddedu yn rhoi amodau ar drwydded oni bai yr ystyrir eu bod yn angenrheidiol, yn rhesymol ac yn gyfatebol i'r defnydd o'r eiddo ar gyfer gamblo ac yn gyson â'r amcan trwyddedu.

## 1.11 Strategaeth Gymunedol Datblygiad Cynaliadwy

Mae Deddf Llywodraeth Leol 2000 yn nodi bod angen i'r holl awdurdodau lleol gynhyrchu strategaeth gymunedol o fewn fframwaith Strategaeth Datblygiad Cynaliadwy'r DU - "Gwell ansawdd bywyd" a strategaethau rhanbarthol perthnasol.

Mae strategaethau cymunedol yn darparu canolbwynt ar gyfer adnabod materion lleol a dyheadau o ran cynhwysiant cymdeithasol, gwarchod yr amgylchedd, cyflogaeth a datblygiad economaidd.

Mae partneriaethau strategol lleol, sydd fel arfer yn cynnwys yr heddlu, awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol a chynrychiolwyr o fyd addysg, busnes a'r sefydliadau sector gwirfoddol, yn gyfrifol am gyflawni amcanion y cytunir arnynt yn lleol.

Yn unol â Deddf Trosedd ac Anrhefn 1998 mae'n rhaid i awdurdodau lleol roi ystyriaeth i effaith tebygol gweithrediad eu swyddogaethau ar drosedd ac anhrefn yn yr ardal a gwneud popeth o fewn eu gallu er mwyn atal trosedd ac anrhefn yn yr ardal. Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn rhoi ystyriaeth benodol i'r effaith tebygol y bydd trwyddedu yn ei gael ar drosedd ac anrhefn yn y Sir, yn enwedig wrth ystyried y lleoliad, effaith, gweithrediad a rheolaeth yr holl geisiadau trwydded, adnewyddiadau ac amrywiadau amodau.

## 2. DEDDFWRIAETH, POLISI A STRATEGAETHAU

Ni fydd dim yn y Datganiad o Bolisi hwn yn:

1. Tanseilio hawliau unrhyw berson i gyflwyno cais o dan y Ddeddf am sawl math o ganiatâd ac i gael y cais wedi'i ystyried yn ôl ei deilyngdod ei hun NEU'n
2. Goresgyn hawl unrhyw berson i gyflwyno sylwadau ar unrhyw gais neu ofyn am adolygiad o drwydded neu hawlen lle mae'r Ddeddf yn caniatáu hynny.

Y man cychwyn ar gyfer penderfynu ar geisiadau fydd rhagdybio y dylid caniatáu'r cais, heb amodau. Dim ond pan fydd eu hangen i gyfarfod ag anghenion yr amcanion trwyddedu yr ystyrir amodau ac ni fydd unrhyw amod a osodir yn or lawdrwm ond bydd yn gymesur â'r cais ac â'r 'risgiau' a ragwelir. Fel rheol, ystyrir na fydd angen amodau os oes deddfwriaeth arall sy'n cyflawni'r un amcan.

Gwerthfawrogir, fel y nodir yng Nghanllawiau'r Comisiwn Gamblo ar gyfer awdurdodau lleol nad yw "gwrthwynebiad moesol tuag at gamblo yn rheswm dilys ar gyfer gwrthod ceisiadau am Drwyddedau Eiddo" ac nid yw galw sydd heb ei fodloni yn faen prawf ar gyfer awdurdod trwyddedu.

Mae'r Amodau Trwydded a Chod Ymarfer (LCCP) a gyhoeddir gan y Comisiwn Gamblo yn rhoi cyfrifoldeb pellach ar ddeiliaid yr eiddo i gwblhau asesiad risg yn seiliedig ar God 8 sef y cod cyfrifoldeb cymdeithasol. Bydd y Cyngor yn rhoi ystyriaeth i'r cod hwn wrth ystyried ceisiadau. Mae hyn wedi'i gynnwys yn Adran 6 o'r Polisi.

Wrth benderfynu ar gais am drwydded eiddo neu adnewyddu trwydded eiddo, telir sylw i ba mor agos yw'r eiddo at ysgolion, canolfannau oedolion bregus neu at ardaloedd trigiannol gyda nifer fawr o deuluoedd â phlant. Ystyrir hefyd pa mor fawr yw'r eiddo gamblo a sut y bydd yn gweithio. Fodd bynnag, penderfynir ar bob achos yn ôl ei deilyngdod. Felly, os gall ymgeisydd ddangos mewn gwirionedd sut y gallai oresgyn bryderon ynghylch amcan trwyddedu, bydd hyn yn cael ei ystyried.

Mae trwyddedu'n golygu rheoli eiddo trwyddedig, Hysbysiadau Defnydd Dros Dro a Hysbysiadau Defnydd Achlysurol o dan delerau'r Ddeddf. Gellir gosod amodau ar drwyddedau ar gyfer ymdrin â materion sydd o dan reolaeth trwyddedeion unigol.

Wrth ystyried a ddylid gosod amodau ar drwyddedau, dylai'r Cyngor ganolbwyntio'n bennaf ar beth fyddai effaith uniongyrchol y gweithgareddau sy'n digwydd mewn eiddo trwyddedig ar y cyhoedd sy'n byw neu'n gweithio yn yr ardal honno. Gall yr Ysgrifennydd Gwladol, drwy reoliad, ddarparu ar gyfer gosod amod benodol ar Drwydded Eiddo fel amod 'fandadol neu 'ddiofyn'. Wrth benderfynu ar gais, ni ddylai'r Awdurdod Trwyddedu dalu sylw i'r gofyn am yr hyn sy'n cael ei ddarparu.

Mae'r Cyngor yn cydnabod fod sawl ffordd arall ar gael ar wahân i drwyddedu o dalu sylw i achosion o ymddygiad afreolus a allai ddigwydd y tu allan i eiddo trwyddedig, gan gynnwys:

1. Rheoli cynllunio

2. Gwaith i greu amgylchedd diogel a glân yn yr ardaloedd hynny mewn partneriaeth â busnesau lleol, cwmnïau cludiant ac Adrannau eraill o'r Cyngor.
3. Cysylltiad rheolaidd gyda'r Heddlu ynghylch problemau gorfodi'r gyfraith pan geir anrhefn ac ymddygiad gwrthgymdeithasol
4. Hawliau'r Heddlu, awdurdodau cyfrifol eraill neu drigolion neu fusnes lleol i ofyn am adolygiad o'r drwydded

Bydd gofyn i wrthwynebwyr ddweud i ba un neu ragor o'r Amcanion Trwyddedu y mae eu gwrthwynebiad yn berthnasol iddynt, fel y nodir yn adran 1.1 uchod cyn y bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n gallu ei ystyried.

Pan fo person, sydd naill ai'n cael ei effeithio'n uniongyrchol gan y cais neu sy'n byw gerllaw eiddo yr ystyrir ei drwyddedu, yn cyflwyno'i hun fel cynrychiolydd trigolion y cyffiniau, bydd yr Awdurdod Trwyddedu fel arfer yn gofyn am brawf ei fod yn eu cynrychioli mewn gwirionedd

Bydd y Cyngor, wrth ymgymryd â'i swyddogaeth drwyddedu, yn rhoi sylw dyledus i'r angen i wneud i ffwrdd â gwahaniaethu anghyfreithlon ac i hyrwyddo cydraddoldeb a pherthnasau da rhwng pobl o wahanol grwpiau hîl.

**2.1 Deddfwriaeth**

Wrth gyflawni ei swyddogaethau trwyddedu dan Ddeddf Gamblo 2005 bydd raid i'r Cyngor ystyried deddfwriaethau eraill, gan gynnwys:

1. Adran 17 Deddf Trosedd ac Anrhefn 1988
2. Deddf Hawliau Dynol 1998
3. Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith ayb 1974;
4. Deddf Gwarchod yr Amgylchedd 1990;
5. Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003;
6. Deddf Cysylltiadau Hiliol (a ddiwygiwyd) 1976
7. Deddf Trwyddedu 2003
8. Gorchymyn Datganiadau Rheolaethol (Diogelwch Tân) 2005

Fodd bynnag, ni fwriedir i'r polisi ddyblygu'r ddeddfwriaeth bresennol na'r trefniadau rheolaethol sydd eisoes yn ymrwymo cyflogwyr a gweithredwyr.

**2.2 Perthynas gyda Pholisïau Cynllunio**

Wrth benderfynu ar gais ni fedrir, yn unol â thelerau'r Ddeddf, gymryd i ystyriaeth ganiatâd cynllunio neu reoliadau adeiladu ac/neu gyfyngiadau cynllunio.

Nid yw galw heb ei ddiwallu yn ystyriaeth y telir sylw iddo wrth benderfynu ar gais am drwydded eiddo o dan Ddeddf Gamblo 2005.

Mae'r broses o gyflwyno Caniatâd dros Dro am drwydded eiddo yn broses wahanol ac ar wahân i ryddhau Caniatâd Cynllunio. Rhaid gwneud cais a derbyn caniatâd Cynllunio a Rheoliadau Adeiladu cyn y gellir cychwyn ar unrhyw ddatblygu.

## 2.3 Strategaethau Cenedlaethol

Bydd y Cyngor hefyd yn ceisio cyflawni ei gyfrifoldebau fel y cânt eu nodi yn Strategaethau eraill y Llywodraeth, i'r graddau y maent yn effeithio ar ei waith trwyddedu.

## 2.4 Strategaethau a Pholisïau Lleol

Bydd y Cyngor yn ystyried ceisiadau gan gadw mewn cof y polisïau lleol eraill a fabwysiadwyd, gan gynnwys Gweledigaeth, Amcanion Strategol a Blaenoriaethau'r Cyngor.

## 2.5 **Amgylchedd Trwyddedu Priodol**

Mae'r Canllawiau ar gyfer Awdurdodau Lleol a'r Amodau Trwyddedu a Chodau Ymarfer (LCCP) sy'n dechrau ym Mai 2015, yn nodi materion ychwanegol y dylai'r Awdurdod Trwyddedu roi ystyriaeth iddynt wrth ystyried ceisiadau trwyddedu ar gyfer Eiddo Trwyddedig.

Mae Canllaw 19, amod LCCP 16 a chod 9 yn nodi cyfyngiadau ar weithgareddau gamblo mewn eiddo, y cyfeiriwyd atynt yn flaenorol fel prif weithgaredd gamblo. Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn ystyried unrhyw gais yn seiliedig ar y darpariaethau yn y codau a'r arweiniad hwn.

Lle darperir cyfleusterau gamblo mewn eiddo fel gweithgaredd sy'n ychwanegol at brif ddiben yr eiddo; e.e. ardaloedd cyfleusterau priffyrdd a chanolfannau siopa, bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn disgwyl i'r ardal gamblo gael ei diffinio'n glir er mwyn sicrhau bod cwsmeriaid yn gwbl ymwybodol eu bod yn dewis mynd i mewn i ardal gamblo a bod yr ardal yn cael ei goruchwylio'n briodol bob amser.

Bydd y Cyngor yn ystyried y pethau hyn a ffactorau perthnasol eraill wrth iddo wneud ei benderfyniad, yn ddibynnol ar holl amgylchiadau'r achos.

Mae darpariaethau mynediad perthnasol y Comisiwn Gamblo ar gyfer pob math o eiddo sydd wedi eu hatgynhyrchu isod:

### Casinos

Mae'n rhaid i'r brif fynedfa i'r eiddo fod oddi ar stryd (fel y diffinnir yn 7.24 y Canllawiau). Ni ddylid cael unrhyw fynediad i gasino o eiddo a ddefnyddir yn llawn neu gan amlaf gan blant a/neu bobl ifanc.

Ni ddylai unrhyw gwsmer allu mynd i mewn i gasino yn uniongyrchol o eiddo arall sydd â Thrwydded Eiddo gamblo.

### Canolfan Hapchwarae Oedolion

Ni ddylai unrhyw gwsmer allu cael mynediad i'r eiddo yn uniongyrchol o unrhyw eiddo gamblo trwyddedig arall.

### Siopau Betio

Rhaid i'r fynedfa fod o'r stryd (fel y diffinnir ym mharagraff 7.23 o Ganllawiau Awdurdodau Trwyddedu) neu o eiddo arall sydd â Thrwydded Eiddo betio.

Dim mynediad uniongyrchol o siop fetio i eiddo arall a ddefnyddir ar gyfer gwerthu eiddo neu wasanaethau. Mewn gwirionedd, ni ellir cael mynedfa i siop fetio o unrhyw fath o siop ac ni allech gael siop fetio yng nghefn caffi – byddai'n rhaid i'r holl ardal fod wedi'i thrwyddedu.

### Traciau

· Ni ddylai unrhyw gwsmer allu cael mynediad i'r eiddo yn uniongyrchol o:
- gasino
- canolfan hapchwarae oedolion

### Eiddo Bingo

·Ni ddylai unrhyw gwsmer allu cael mynediad i'r eiddo yn uniongyrchol o:
- gasino
- canolfan hapchwarae oedolion
- eiddo betio, heblaw am drac

### Canolfan Adloniant Deuluol

·Ni ddylai unrhyw gwsmer allu cael mynediad i'r eiddo yn uniongyrchol o:
- gasino
- canolfan hapchwarae oedolion
- eiddo betio, heblaw am drac

Mae Rhan 7 o Ganllawiau'r Comisiwn Gamblo i Awdurdodau Trwyddedu yn cynnwys arweiniad pellach ar y mater, y bydd yr awdurdod hwn hefyd yn ei ystyried wrth wneud penderfyniadau.

## 3. GWNEUD PENDERFYNIADAU

### 3.1 Gweinyddu, Ymarfer a Dirprwyo Swyddogaethau

Gall pwerau a dyletswyddau'r Awdurdod Trwyddedu gael eu cyflawni gan y Pwyllgor Trwyddedu, gan Is-Bwyllgor neu gan un neu fwy o swyddogion sy'n gweithredu yn unol â'r awdurdod dirprwyedig.

Ystyrir y bydd nifer o'r swyddogaethau yn rhai gweinyddol eu natur ac ni ragwelir unrhyw feysydd dadleuol. O ran effeithlonrwydd a bod yn gost effeithiol fe gyflawnir y pethau hyn, gan amlaf, gan Swyddogion.

Mae'r amserlen ganlynol yn nodi'r ddirprwyaeth o swyddogaethau a argymhellir a phenderfyniadau yn ôl arweiniad. Fodd bynnag, gall yr Awdurdod Trwyddedu gyfeirio unrhyw fater i'r Pwyllgor Trwyddedu neu Is-Bwyllgor.

Mae'r amserlen ar gyfer dirprwyo swyddogaethau trwyddedu wedi'i hatodi fel Atodiad B.

### 3.2 Gweithdrefn Apeliadau

Mae hawliau trydydd parti i apelio os ydynt yn teimlo wedi'u tramgwyddo gan yr Awdurdod Trwyddedu wedi eu nodi yn Adrannau 206 i 209 o Ddeddf 2005. Rhaid cyfeirio apeliadau at Lys Ynadon yr ardal lle mae'r Awdurdod Trwyddedu, sydd wedi ystyried y cais, wedi'i leoli.
Rhaid dechrau apêl drwy roi rhybudd o'r apêl gan y sawl sy'n apelio, i Lys Ynadon Caernarfon o fewn cyfnod o 21 diwrnod, yn dechrau gyda'r diwrnod yr

hysbyswyd yr unigolyn gan yr Awdurdod Trwyddedu o'r penderfyniad y mae wnelo'r apêl ag ef.

Wrth benderfynu ar yr apêl, gall y Llys:
Ddiystyru'r apêl;
Disodli'r penderfyniad yr apeliwyd yn ei erbyn gyda phenderfyniad arall y gallai'r Awdurdod Trwyddedu fod wedi'i wneud:

Dychwelyd yr achos i'r Awdurdod Trwyddedu er mwyn gwaredu'r apêl yn unol â chyfeiriad y Llys.

Gwneud gorchymyn am gostau

## 3.3 CWYNION YN ERBYN EIDDO TRWYDDEDIG

Bydd y Cyngor yn ymchwilio i gwynion yn erbyn eiddo trwyddedig o ran materion sy'n berthnasol i'r amcanion trwyddedu y mae ganddo gyfrifoldeb amdanynt. Anogir pawb i gwyno'n gyntaf wrth y trwyddedai neu'r busnes a cheisio datrys y mater eu hunain.

Pan fo parti â diddordeb yn cyflwyno sylwadau dilys ynghylch eiddo trwyddedig, neu'n cyflwyno cais dilys am adolygu trwydded, gall y Cyngor yn gyntaf argymell cyfarfod cymodi i geisio egluro a datrys y broblem.

Ni fydd y broses yn amharu ar hawl unrhyw barti â diddordeb i ofyn i'r pwyllgor trwyddedu ystyried gwrthwynebiadau dilys a bydd gan ddeilydd trwydded hawl i wrthod cymryd rhan mewn cyfarfod cymodi.

**Rhoddir yr ystyriaeth briodol i bob sylw perthnasol oni bai yr ystyrir eu bod yn amherthnasol, yn ddisylwedd neu'n flinderus neu os na fydd yn achosi'r Cyngor i addasu/diddymu/gwahardd y drwydded**

### 3.4 Adolygiadau Trwyddedu

Bydd y Cyngor yn cynnal adolygiad o'r drwydded eiddo pan fydd yn derbyn cais ffurfiol yn unol â'r Ddeddf i'w hadolygu mewn perthynas ag un neu ragor o'r Amcanion Trwyddedu. Gallai sylwadau fod ynghylch yr hyn sy'n digwydd yn yr eiddo, gan gynnwys y canlynol:

- Defnydd o eiddo trwyddedig i werthu a dosbarthu cyffuriau Dosbarth A a golchi cynnyrch troseddau cyffuriau.
- Defnyddio eiddo trwyddedig ar gyfer gwerthu a dosbarthu drylliau anghyfreithlon
- Defnyddio eiddo trwyddedig ar gyfer puteinio neu werthu pornograffi anghyfreithlon
- Defnyddio eiddo trwyddedig fel canolfan gweithgaredd troseddol wedi'i drefnu.
- Defnyddio eiddo trwyddedig i drefnu ymosodiadau hiliol, homoffobig neu drais rhywiol.
- Defnyddio eiddo trwyddedig ar gyfer gwerthu tybaco neu nwyddau wedi'u smyglo

- Defnyddio eiddo trwyddedig ar gyfer gwerthu nwyddau wedi'u lladrata
- Bod plant neu bobl fregus yn cael eu peryglu

Rhoddir yr ystyriaeth briodol i bob sylw perthnasol ond anwybyddir sylwadau sy'n disgyn i'r categorïau canlynol:

a) ar sail nad oes sylwedd iddo

b) ar sail ei fod yn flinderus

c) ar sail ei fod yn amherthnasol

d) ar sail na fyddai'r sylw yn achosi'r Cyngor i ddiddymu neu atal trwydded neu dynnu neu osod amodau ar Drwydded yr Eiddo

e) ar sail ei fod yn sylweddol yr un fath â sylw a gyflwynwyd mewn cais blaenorol ynghylch yr un eiddo; neu

f) ar sail ei fod yn sylweddol yr un fath a sylw a wnaed pan oedd y cais am Drwydded Eiddo'n cael ei ystyried.

Gall y Cyngor ei hunan hefyd benderfynu y dylid adolygu Trwydded Eiddo.

Unwaith mae adolygiad wedi'i gwblhau mae'n rhaid i'r Cyngor, cyn gynted ag y bydd hynny'n bosibl, hysbysu deilydd y drwydded, yr ymgeisydd, y comisiwn ac unrhyw un a wnaeth gynrychioliadau, Prif Gwnstabl yr Heddlu a Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi.

## 4. Gweinyddu

### 4.1 Ceisiadau

Dim ond person sydd un ai wedi derbyn NEU wedi ymgeisio am Drwydded Gweithredu sy'n ei awdurdodi i gynnal y gweithgaredd all ymgeisio am Drwydded Eiddo ar gyfer y gweithgaredd hwnnw.

Rhaid cyflwyno asesiad o sut y bydd yr ymgeisydd yn hyrwyddo pob Amcan Trwyddedu ar ffurf Atodlen Gweithredu ysgrifenedig gyda phob cais am gael, trosglwyddo neu amrywio trwydded eiddo. Gall Ymgeisydd ofyn am gyngor gan y Cyngor ynghylch faint o wybodaeth a ddylid ei gyflwyno. Gweler hefyd Asesiadau Risg.

Bydd y cyngor yn cynghori faint o fanylion y dylid eu cyflwyno a bydd hynny yn gymesur â natur y cais a gyflwynir.

### 4.2 Amodau

Rhoddir amodau sy'n gymesur ac yn addas ar gyfer y busnes, y sefydliad neu'r unigolyn ar drwyddedau. Bydd y Cyngor yn dibynnu'n bennaf ar gyngor a geir gan y Comisiwn Gamblo ac yn gosod amodau yn unol ag amgylchiadau pob cais unigol.

Bydd amodau a osodir ar drwyddedau eiddo yn adlewyrchu strategaethau atal trosedd lleol, i'r graddau y mae hynny'n bosibl. Er enghraifft, byddai'n addas gofyn am deledu cylch cyfyng mewn rhai eiddo.

### 4.3 Gorfodaeth

Bydd y Cyngor yn cael ei arwain gan Ganllawiau'r Comisiwn Gamblo ar gyfer Awdurdodau Lleol, y Cod Rheolyddion a Pholisi Gorfodaeth y Cyngor. Bydd y Cyngor yn ymdrechu i fod yn

- Gymesur: dim ond pan fo angen gwneud hynny y bydd rheoleiddwyr yn ymyrryd; bydd yr hyn a gynigir yn addas ar gyfer y risg a welir ac yn costio cyn lleied â phosibl.
- Atebol: Bydd rheoleiddwyr yn gallu cyfiawnhau penderfyniadau a bydd pob gwybodaeth ar gael i'r cyhoedd.
- Cyson: bydd rheolau a safonau yn gyson ac yn cael eu gweithredu'n deg.
- Tryloyw: bydd rheoleiddwyr yn agored ac yn ymdrechu i gadw'r rheoliadau'n syml ac yn hawdd eu deall.
- Wedi'u targedu: bydd rheoli'n canolbwyntio ar y broblem ac yn achosi'r lleiaf posibl o sgîl-effeithiau.

Bydd y Cyngor yn ceisio osgoi dyblygu gyda threfniadau rheolaethol eraill cyn belled a bo modd.

Sefydlir cynllun o archwilio eiddo'n rheolaidd a phenderfynir pa mor aml y gwneir hynny yn ôl yn risg sy'n codi o'r eiddo h.y. bydd eiddo lle'r ystyrir fod mwy o risg yn cael ei archwilio'n amlach nag eiddo sydd â llai o risg.

Wrth benderfynu ar risg, ystyrir y canlynol:

natur y gamblo sy'n digwydd yn yr eiddo
leoliad yr eiddo mewn perthynas ag ysgolion ayb.
y gweithdrefnau sydd gan y rheolwyr ar gyfer cwrdd â'r amcanion trwyddedu.

Gellir archwilio ar hap hefyd, yn ôl disgresiwn y tîm trwyddedu, pan ystyrir fod hynny'n angenrheidiol i gyfarfod ag amcan trwyddedu neu pan dderbynnir cwyn. Bydd yr Ardal yn cael ei monitro am eiddo didrwydded.

Bydd y Cyngor yn cydweithio'n agos gyda'r heddlu i orfodi deddfwriaeth trwyddedu. Bydd yn annog yr heddlu i rannu gwybodaeth ynghylch trwyddedeion ac eiddo trwyddedig o dan Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998.

Y Comisiwn Gamblo yw'r corff gorfodaeth ar gyfer y trwyddedau gweithredu a phersonol. Mae hefyd yn werth nodi nad yr Awdurdod Trwyddedu sy'n delio gyda phryderon am weithgynhyrchu, cyflenwi neu atgyweirio peiriannau hapchwarae, dylid hysbysu'r Comisiwn Gamblo am faterion o'r fath.

Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn ystyried canllawiau'r Comisiwn Gamblo a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2015 (neu unrhyw ddiwygiadau dilynol) 'Ymdrin â Phrofion Prynu' wrth ystyried cynnal profion prynu mewn eiddo gamblo. Bydd y Cyngor hefyd yn dilyn ei bolisïau a'i weithdrefnau ei hun o ran y defnydd o bobl dan oed ar gyfer profion prynu.

Bydd yr Awdurdod Trwyddedu hefyd yn cadw i fynyd â'r datblygiadau o ran gwaith y Gweithredwr Rheoliadau Gwell wrth ystyried swyddogaethau rheoli yr awdurdodau lleol.

## 4.4 Casinos

Does dim penderfyniad i wahardd casinos yn y Sir ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i adolygu hyn ac efallai y bydd, rywbryd, yn penderfynu peidio â chaniatáu casinos. Does dim casinos yn y Sir ar hyn o bryd.

Pe byddai'r Cyngor yn cymryd penderfyniad o'r fath, byddai'n cael ei wneud gan y Cyngor Llawn ar ôl trafodaeth drwyadl a byddai'r rhesymau paham y penderfynwyd felly'n cael eu cofnodi. Ni fyddai hawl i apelio yn erbyn penderfyniad o'r fath.

## 4.5 Canolfannau Adloniant Teuluol Ddidrwydded

Pan nad oes gan eiddo Drwydded Eiddo ond dymunir cael peiriannau hapchwarae gellir cyflwyno cais i'r awdurdod trwyddedu am y caniatâd hwn.

Dim ond os yw'r awdurdod trwyddedu'n fodlon y defnyddir yr eiddo fel Canolfan Adloniant Teuluol didrwydded, ac os ymgynghorwyd gyda phrif swyddog yr heddlu, y rhoddir caniatâd. Yr hyn a ystyrir yn berthnasol wrth benderfynu ar y cais fydd addasrwydd yr ymgeisydd, megis a oes ganddo unrhyw record droseddol a fyddai'n ei wneud yn anaddas i redeg canolfan adloniant teuluol, ac addasrwydd yr eiddo o ran lleoliad ac a oes yno hanes o anhrefn.

Byddai'r Awdurdod yn disgwyl i'r ymgeisydd ddangos y byddai yna bolisïau a gweithdrefnau yn eu lle er mwyn amddiffyn plant rhag niwed. Yn y cyswllt hwn, ni fyddai niwed wedi'i gyfyngu i niwed o ganlyniad i gamblo ond byddai'n cynnwys ystyriaethau amddiffyn plant ehangach megis hyfforddiant staff am driwantiaeth posibl, sut i ddelio â phlant nad ydynt yn cael eu goruchwylio, plant ifanc iawn neu blant sy'n achosi problemau yn yr eiddo neu yn y cyffiniau.

## 4.6 Canllawiau Ychwanegol

Mae'r Cyngor yn nodi fod y term 'Peiriant Hapchwarae' erbyn hyn yn golygu pob peiriant gamblo ac mae'r term yn cael ei ddefnyddio yn y Ddeddf gan ei fod yn un hawdd i'w ddeall. Mae'r diffiniad o 'beiriannau hapchwarae' yn ehangach yn Neddf Gamblo 2005 nag mewn deddfwriaeth gamblo o'r blaen ac mae'n berthnasol i bob math o weithgareddau gamblo y gellir eu cynnal ar beiriant, gan gynnwys betio ar ddigwyddiadau rhithiol.

Dylid nodi, fodd bynnag, fod gwahaniaeth o hyd rhwng peiriannau sy'n profi sgil a pheiriannau hapchwarae a bod dal eithriadau pwysig ynghylch pam nad yw peiriant yn cael ei ystyried yn beiriant hapchwarae hyd yn oed pan mae'n cael ei ddefnyddio ar gyfer gamblo, er enghraifft, cyfrifiadur personol yn y cartref.

Mae Deddf Gamblo 2005 yn rhoi'r hawl i'r Ysgrifennydd Gwladol baratoi rheoliadau i ddiffinio pedwar dosbarth o beiriannau hapchwarae. Dangosir y manylion sydd ar gael gan y Comisiwn Gamblo ar hyn o bryd yn Atodiad E ynghyd â thabl yn crynhoi'r darpariaethau. Nid yw'r Comisiwn Gamblo wedi gorffen ymgynghori ynghylch hyn eto.

## 4.7 Loterïau Bychan

Bydd y Cyngor yn dal i drwyddedu loterïau bychan ond gyda gweithdrefnau ychydig yn wahanol. Cyhoeddir y manylion fis Medi 2006 gan y Comisiwn Gamblo. Gellir cael manylion pellach ar wefan y Comisiwn Gamblo o dan 'Guidance to Licensing Authourities – Small Society Lotteries.

Bydd yr Awdurdod yn mabwysiadu agwedd sy'n seiliedig ar risg tuag at ei gyfrifoldebau gorfodi ar gyfer loterïau cymdeithasau bach. Mae'r awdurdod yn ystyried y gallai'r rhestr ganlynol o bethau, er nad yw'n rhestr gyfyngedig, effeithio ar statws risg y gweithredwr:

- cyflwyno dychweliadau hwyr (rhaid cyflwyno dychweliadau ddim hwyrach na thri mis ar ôl y dyddiad y cynhaliwyd y loteri).
- byddai cyflwyno dychweliadau anghyflawn neu anghywir yn torri'r cyfyngiadau ar gyfer loterïau cymdeithasau bach

## 4.8 Eiddo wedi'i rannu

Bydd y Cyngor yn talu sylw penodol os bydd unrhyw faterion yn ymwneud ag is-rannau o un adeilad neu blot a byddant yn sicrhau y glynir wrth amodau gorfodol yn ymwneud â mynediad.

Yn y cyswllt hwn bydd y Cyngor yn ystyried:
Os oes gan yr eiddo gofrestriad ar wahân ar gyfer trethi busnes.
Os yw'r eiddo cyfagos yn berchen i unigolyn gwahanol.
Os gellir cael mynediad i'r eiddo cyfagos o'r stryd neu'r dramwyfa gyhoeddus.
Os gellir ond cael mynediad gan eiddo gamblo trwyddedig eraill.

## 5. Amodau Trwyddedu a Chodau Ymarfer 2015 (LCCP)

Fe wnaeth y Comisiwn Gamblo ryddhau LCCP ym mis Chwefror 2015 gyda dyddiad dechrau o Mai 2015. Fe wnaeth y cod gryfhau anghenion y cod cyfrifoldeb cymdeithasol (SR). Gellir cael mynediad i fanylion y codau LCCP ac SR drwy wefan y Comisiwn Gamblo drwy fynd i www.gamblingcommission.gov.uk

Mae'r cod yn nodi bod angen i weithredwyr:

- Goruchwylio cwsmeriaid yn effeithiol ar eiddo gamblo ac adnabod cwsmeriaid a allai fod yn agored i risg cysylltiedig â gamblo.
- O Ebrill 2016 ymlaen, bod â chynllun mewn lle er mwyn galluogi cwsmeriaid i hunan-eithrio eu hunain o'r holl weithredwyr o fath tebyg yn yr ardal lle maent yn byw ac yn gweithio.
- Meddu ar amrywiaeth o fesurau cysylltiedig â marchnata er mwyn sicrhau cyfrifoldeb cymdeithasol sy'n dryloyw ac nad yw'n gamarweiniol.
- O Ebrill 2016 ymlaen, cynhyrchu asesiad risg ar eiddo unigol, a
- Cael polisïau, gweithdrefnau a mesurau rheoli yn eu lle er mwyn lliniaru risgiau lleol i'r amcanion trwyddedu.

## 6 Asesiadau Risg – Eiddo Betio

6.1
Mae angen asesiadau risg o'r fath gan ymgeiswyr newydd a gan ddalwyr trwydded presennol sydd am amrywio trwydded. Mae'r cod yn nodi bod angen i holl weithredwyr: Casinos, AGC, Eiddo Bingo, FEC, siopau betio a chyfryngwyr betio o bell i asesu risgiau lleol i'r amcan trwyddedu ac i gael polisïau, gweithdrefnau a mesurau rheoli yn eu lle er mwyn ceisio lliniaru'r risgiau hynny.

6.2 Yn unol â'r cod AR mae angen i weithredwyr sicrhau bod yr asesiad risg ar gael ar gyfer awdurdodau trwyddedu pan gyflwynir cais un ai am drwydded Eiddo Newydd neu ar gyfer amrywio Trwydded Eiddo, neu fel arall ar gais a bydd hyn yn ffurfio rhan o broses Arolygu'r Awdurdod Lleol a gellir gwneud cais i'w weld pan fydd swyddogion yn ymchwilio i gwynion.

6.3 Mae'r cod yn nodi bod yn rhaid i'r Awdurdod Trwyddedu nodi'r materion maent yn disgwyl i'r gweithredwr eu hystyried yn yr asesiad risg yn ei ddatganiad polisi a byddai'r Awdurdod Trwyddedu hwn yn argymell y dylai gweithredwyr ystyried y materion canlynol wrth wneud eu hasesiad risg:

- Gwybodaeth sydd gan ddeilydd y drwydded am hunan waharddiadau ac achosion o gamblo dan oed,
- Tueddiadau hapchwarae a allai adlewyrchu taliadau budd-daliadau
- Trefniadau ar gyfer cyfnewid gwybodaeth yn lleol mewn perthynas â hunan waharddiadau a thueddiadau hapchwarae.
- Lleoliad dinesig megis pellter o ysgolion, masnach amgylcheddol, ffactorau'n effeithio ar sŵn troed
- Yr amrywiaeth o gyfleusterau ger yr eiddo trwyddedig megis mannau gamblo eraill, banciau, swyddfeydd post, cyfleusterau lluniaeth ac adloniant
- Problemau hysbys yn yr ardal megis problemau sy'n codi o ganlyniad i bobl yn yfed ar y stryd, pobl ifanc yn ymddwyn mewn modd gwrthgymdeithasol, delio cyffuriau ac ati.

6.4
Byddai'r Awdurdod Trwyddedu yn argymell y dylai gweithredwyr ystyried y materion canlynol wrth gyflawni eu hasesiad risg.

Materion yn ymwneud â phlant a phobl ifanc, gan gynnwys:

- Sefydliadau, mannau neu ardaloedd lle disgwylir presenoldeb pobl ifanc megis ysgolion, clybiau ieuenctid, parciau a lleoliadau adloniant megis canolfannau bowlio, sinemas ac ati.
- Unrhyw le lle bydd plant yn dod at ei gilydd megis safleoedd bws, caffis, siopau ac unrhyw le arall sy'n denu plant.
- Ardaloedd sy'n lle mae pobl ifanc yn tueddu i gymryd rhan mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol, gan gynnwys gweithgareddau megis graffiti, yfed o dan oed ac ati.
- Achosion o geisio gamblo o dan oed sydd wedi'u cofnodi.

Materion yn ymwneud ag oedolion bregus, yn cynnwys:

- Gwybodaeth sydd gan ddeilydd y drwydded am hunan eithriadau ac achosion o gamblo o dan oed.
- Tueddiadau hapchwarae a allai adlewyrchu patrymau o ran taliadau budd-daliadau megis diwrnod talu
- Trefniadau ar gyfer cyfnewid gwybodaeth yn lleol mewn perthynas â hunan waharddiadau a thueddiadau hapchwarae.
- Lleoliad dinesig megis pellter o ysgolion, masnach amgylcheddol, ffactorau'n effeithio ar sŵn troed
- Agosrwydd at eiddo y gall pobl fregus fod yn eu mynychu megis ysbytai, cartrefi gofal preswyl, cyfleusterau meddygol, meddygfeydd, swyddfeydd tai cynghorau, clinigau dibyniaeth neu ganolfannau cymorth, llefydd lle gall pobl sy'n gaeth i alcohol a chyffuriau ymgynnull ac ati.

Gallai materion eraill y gellid eu hystyried gynnwys:

- Materion ffydd, yn cynnwys yr holl enwadau ffydd neu grefydd gan gynnwys pellter o eglwysi, mosgiau, temlau neu fannau addoli eraill.

Nid yw hon yn restr hollgynhwysfawr ac mae'n rhaid ystyried ffactorau eraill nad ydynt ar y rhestr hon.

### 6.5 Mesurau Rheoli

Gallai mesurau rheoli y gellir eu hadnabod yn hawdd ar gyfer osgoi risgiau a ystyrir cynnwys cyfuniad o systemau, dyluniadau a mesurau corfforol. Er enghraifft er mwyn delio â'r risgiau sy'n gysylltiedig â phlant yn cael mynediad i eiddo gamblo â chyfyngiad oedran 18 oed, gallai'r gweithredwr adnabod y mesurau canlynol:

**Systemau:** Cerdyn PASS neu bolisïau gwirio oedran, cynllun her 21 a hyfforddiant staff

**Dyluniad**: Cynllun allanol na fydd yn denu plant i mewn i'r eiddo, bydd cynllun y fynedfa yn galluogi staff i fonitro'r bobl sy'n mynd i mewn ac allan o'r adeilad a phan fo'n briodol, eu herio ar sail eu hoedran.

**Corfforol**: TCC a synwyryddion electronig

## 9. Gwybodaeth bellach

Gellir cael gwybodaeth bellach ynghylch Deddf Gamblo 2005, y Datganiad hwn o Bolisi Trwyddedu a'r broses ymgeisio, gan gynnwys ffurflenni cais a chanllawiau gan

Y Swyddog Trwyddedu
Cyngor Sir Ynys Môn
Swyddfeydd y Cyngor
Llangefni
Ynys Môn
LL77 7TW

Rhif Ffôn 01248 752840
Ffacs 01248 752884
E-bost www.dmjpp@anglesey.gov.uk

Gellir cael gwybodaeth hefyd oddi wrth

Gambling Commission
Victoria Square House
Birmingham
B2 4BP

Ffôn: 0121 230 6666

Gwefan: www.gamblingcommission.gov.uk



## TABL O DDIRPRWYIADAU GWAITH TRWYDDEDU

Atodiad B

| Y MATER I'W DRAFOD | Y CYNGOR LLAWN | IS BWYLLGOR NEU BANEL | SWYDDOGION |
|---|---|---|---|
| Polisi trwyddedu tair blynedd | X | | |
| Polisi i beidio â chaniatáu casinos | X | | |
| Gosod Ffioedd – pan yn addas | | Pwyllgor Gwaith | |
| Cais am drwydded eiddo | | Pan dderbynnir sylwadau sydd heb eu tynnu'n ôl | Pan na dderbynnir sylwadau neu eu bod wedi'u tynnu'n ôl |
| Cais am amrywio trwydded | | Pan dderbynnir sylwadau sydd heb eu tynnu'n ôl | Pan na dderbynnir sylwadau neu eu bod wedi'u tynnu'n ôl |
| Cais am drosglwyddo trwydded | | Pan dderbynnir sylwadau oddi wrth y Comisiwn | Pan na dderbynnir sylwadau oddi wrth y Comisiwn |
| Cais am drwydded dros dro | | Pan dderbynnir sylwadau sydd heb eu tynnu'n ôl | Pan na dderbynnir sylwadau neu eu bod wedi'u tynnu'n ôl |
| Adolygu trwydded eiddo | | X | |
| Cais am hawlenni peiriannau / clwb hapchwarae | | Pan dderbynnir sylwadau sydd heb eu tynnu'n ôl | Pan na dderbynnir sylwadau neu eu bod wedi'u tynnu'n ôl |
| Diddymi hawlenni peiriannau / clwb hapchwarae | | X | |
| Ceisiadau am hawlenni eraill | | | X |
| Diddymu hawlenni peiriant hapchwarae eiddo trwyddedig | | | X |
| Ystyried hysbysiadau defnydd dros dro | | | X |
| Penderfyniad i gyflwyno gwrth hysbysiad i hysbysiad defnydd dros dro | | X | |
| Penderfynu a yw person yn Barti â Diddordeb | | | X |
| Penderfynu a yw sylwadau'n berthnasol | | | X |
| Penderfynu a yw sylwadau'n amherthnasol, yn ddisylwedd, yn flinderus neu'n ailadroddus | | | X |

## Atodiad C

**Manylion Cyswllt yr Awdurdodau Perthnasol**

| | |
|---|---|
| **Cyngor Sir Ynys Môn** | **Trwyddedu, Adain Safonau Masnach<br>Adran Gwasanaethau Amgylchedd a Thechnegol<br>Cyngor Sir Ynys Môn<br>Swyddfeydd y Cyngor<br>Llangefni<br>Ynys Môn<br>LL77 7TW<br>Dmjpp@ynysmon.gov.uk** |
| **Y Comisiwn Gamblo** | **Gambling Commission<br>Victoria Square House<br>Birmingham<br>B2 4BP<br>Rhif ffôn: 0121 230 6666<br>info@gamblingcommission.gov.uk** |
| **Heddlu Gogledd Cymru.** | **Adain Trwyddedu<br>Heddlu Gogledd Cymru<br>Yr Ala<br>Pwllheli<br>Gwynedd<br>LL53 5BU<br>Ian.williams4@nthwales.pnn.police.uk** |
| **Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru** | **Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru<br>Pencadlys<br>Ffordd Llanberis<br>Caernarfon<br>Gwynedd<br>LL55 2DF<br>Fs.wd.supv1@nwales-fireservice.org.uk** |
| **Adran y Gwasanaethau Cymdeithasol** | **Swyddfeydd y Cyngor<br>Llangefni<br>Ynys Môn<br>LL77 7TW<br>Dwjssynysmon.gov.uk** |
| **Tollau a Chyllid EM** | **HM Revenue & Customs<br>National Registration Unit<br>Portcullis House<br>21 India Street<br>Glasgow<br>G2 4PZ** |

**Y Rhai yr Ymgynghorwyd â hwy**

Swyddogion Etholedig, Cyngor Sir Ynys Môn
Cynghorau Tref a Chymuned ar Ynys Môn
Y Comisiwn Gamblo
Gwasanaeth Heddlu Gogledd Cymru.
Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru.
Pennaeth y Gwasanaethau Cymdeithasol, Cyngor Sir Ynys Môn
Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi
Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Ynys Môn
Pennaeth Addysg a Hamdden, Cyngor Sir Ynys Mon
Pennaeth Cynllunio Cyngor Sir Ynys Môn
Cymdeithas Bingo
Poppelston Allen
William Hill
Ladbrooks
Coral
Corbetts
Carefree Racing
Empire Bingo
Crown Leisure Links
Leisure Link
Sceptre Leisure Solutions Ltd
City Vending UK Ltd
Gamestec Leisure Ltd
Grŵp yn cynrychioli Eiddo Trwyddedig yn gwerthu alcohol
Perchnogion Safleoedd Carafannau
Grwpiau Crefyddol / Ffydd
Canolfannau Cynghori
Gam Care (Gamblwyr Anhysbys)
Byddin yr Iachawdwriaeth
Asiantaethau Rheoli Dyled
Urdd Gobaith Cymru
Undebau Llafur
Sefydliadau Gwirfoddol / Cymunedol yn gweithio gydag phlant / oedolion bregus

Cynrychiolwyr o ddeiliaid gwahanol drwyddedau yn yr Ardal a fydd yn cael eu heffeithio gan y polisi hwn.

Aelodau o'r cyhoedd a fydd yn cael eu heffeithio gan y polisi hwn.

Noder: Nid yw'r rhestr o angenrheidrwydd yn gyflawn.  Bydd croeso i unrhyw un sy'n cael ei effeithio gan y polisi hwn gyflwyno sylwadau.

# Atodiad E

## Geirfa

Yn y Datganiad o Bolisi hwn, diffinnir y geiriau a'r termau canlynol fel a ganlyn:

**Amcanion Trwyddedu** Fel y diffinnir yn adran 1.1 uchod.

**Y Cyngor** Cyngor Sir Ynys Mon

**Ardal** Ardal Ynys Mon sy'n cael ei gweinyddu gan y Cyngor

**Trwyddedau** Fel y diffinnir yn adran 1.4 isod.

**Ceisiadau** Am Drwyddedau neu Hawlenni fel y diffinnir yn adran 1.4 isod.

**Hysbysiadau** Hysbysiadau Defnydd Dros Dro a Hysbysiadau Defnydd Achlysurol

**Y Ddeddf** Deddf Gamblo 2005

**Rheoliadau** Rheoliadau a wnaed o dan Ddeddf Gamblo 2005

**Eiddo** Unrhyw le sy'n cynnwys cerbyd, llestr neu strwythur symudol

**Côd Ymarfer** Codau cysylltiedig o dan adran 24 Deddf Gamblo 2005

**Mandadol** Amod benodol y darperir ar ei chyfer yn y rheoliadau

**Amod** Ynghlwm wrth y drwydded

**Awdurdod Cyfrifol** Mae Deddf Gamblo 2005 yn diffinio'r canlynol fel awdurdodau cyfrifol ynghylch eiddo

Yr Awdurdod Trwyddedu (Cyngor Sir Ynys Mon)

Y Comisiwn Gamblo

Heddlu Gogledd Cymru

Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru.

Adain Cynllunio Cyngor Sir Ynys Mon

Iechyd yr Amgylchedd, Cyngor Sir Ynys Mon

Gwasanaethau Cymdeithasol, Cyngor Sir Ynys Mon

Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi

**Atodiad F**

## <u>Tabl A</u>

Isod, gwelir y cynigion diweddaraf gan y Comisiwn Gamblo ynglŷn â'r gwahanol gategorïau gyda'r betiau a'r gwobrau uchaf a all fod yn berthnasol.

| Machine category | Maximum stake (from January 2014) | Maximum prize (from January 2014) | Allowed premises |
|---|---|---|---|
| A | Unlimited | Unlimited | Regional Casino |
| B1 | £5 | £10,000 (with the option of a maximum £20,000 linked progressive jackpot on a premises basis only) | Large Casino, Small Casino, Pre-2005 Act casino and Regional Casinos |
| B2 | £100 | £500 | Betting premises and tracks occupied by pool betting and all of the above |
| B3 | £2 | £500 | Bingo premises, Adult gaming centre and all of the above |
| B3A | £2 | £500 | Members' club or Miners' welfare institute only |
| B4 | £2 | £400 | Members' club or Miners' welfare club, commercial club and all of the above. |
| C | £1 | £100 | Family entertainment centre (with Commission operating licence), Qualifying alcohol licensed premises (without |

| Machine category | Maximum stake (from January 2014) | Maximum prize (from January 2014) | Allowed premises |
|---|---|---|---|
| [redacted] | | | additional gaming machine permit), Qualifying alcohol licensed premises (with additional LA gaming machine permit) and all of the above. |
| [redacted] | 10p | £5 | Travelling fairs, unlicensed (permit) Family entertainment centre and all of the above |
| [redacted] | 30p | £8 | All of the above. |
| [redacted] | £1 | £50 | All of the above. |
| [redacted] | 10p | £8 (of which no more than £5 may be a money prize) | All of the above. |
| [redacted] | 20p | £20 (of which no more than £10 may be a money prize) | All of the above. |

Table B expands on the above provisions coupling the premise type applicable to each machine category and numbers allowed per premises.

| | Machine category | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Premises type** | **A** | **B1** | **B2** | **B3** | **B4** | **C** | **D** |
| **Large casino** (machine/table ratio of 5-1 up to maximum) | | Maximum of 150 machines<br>Any combination of machines in categories B to D (except B3A machines), within the total limit of 150 (subject to machine/table ratio) | | | | | |
| **Small casino** (machine/table ratio of 2-1 up to maximum) | | Maximum of 80 machines<br>Any combination of machines in categories B to D (except B3A machines), within the total limit of 80 (subject to machine/table ratio) | | | | | |
| **Pre-2005 Act casino** (no machine/table ratio) | | Maximum of 20 machines categories B to D (except B3A machines), or any number of C or D machines instead | | | | | |
| **Betting premises and tracks occupied by pool betting** | | | Maximum of 4 machines categories B2 to D (except B3A machines) | | | | |
| **Bingo premises**[1] | | | | Maximum of 20% of the total number of gaming machines which are available for use on the premises categories B3 or B4 | | No limit on category C or D machines | |
| **Adult gaming centre**[2] | | | | Maximum of 20% of the total number of gaming machines which are available for use on the premises categories B3 or B4 | | No limit on category C or D machines | |
| **Licensed family entertainment centre**[3] | | | | | | No limit on category C or D machines | |
| **Family entertainment centre** (with permit)[3] | | | | | | | No limit on category D machines |
| **Clubs or miners' welfare institute** (with permits)[4] | | | | | Maximum of 3 machines in categories B3A or B4 to D | | |
| **Qualifying alcohol-licensed premises** | | | | | | 1 or 2 machines of category C or D automatic upon notification | |
| **Qualifying alcohol-licensed premises** (with licensed premises gaming machine permit) | | | | | | Number of category C-D machines as specified on permit | |
| **Travelling fair** | | | | | | | No limit on category D machines |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Gwaith** |
| **Dyddiad:** | **19 Medi 2016** |
| **Pwnc:** | **Gweledigaeth Twf ar gyfer Economi Gogledd Cymru** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Y Cynghorydd Richard Dew** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Dylan J Williams** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br><br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | **Dylan J Williams (Pennaeth y Gwasanaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd)**<br>**2499**<br>**DylanJWilliams@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Yr holl Aelodau** |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

**Cymeradwyo'r strategaeth "Gweledigaeth Twf ar gyfer Economi Gogledd Cymru" a gynhyrchwyd gan Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (Y Bwrdd) fel sail ar gyfer cychwyn trafodaethau gyda Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ynghylch Cais Twf ar gyfer y rhanbarth.**

**B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod a/neu ddewis yr opsiwn hwn?**

Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith gymeradwyo'r strategaeth "Gweledigaeth Twf ar gyfer Economi Gogledd Cymru" a gynhyrchwyd gan Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (Y Bwrdd) sy'n nodi blaenoriaethau'r rhanbarth i sicrhau twf economaidd a chyflogaeth gynaliadwy ar draws Gogledd Cymru.

Mae'r Bwrdd yn grŵp cydweithredol o sefydliadau preifat a chyhoeddus (gan gynnwys Awdurdodau Lleol, prifysgolion a cholegau lleol) yng Ngogledd Cymru sydd wedi ymrwymo i hyrwyddo twf economaidd yn Ynys Môn, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd a Wrecsam.

Mae'r strategaeth "Gweledigaeth ar gyfer Twf" yn darparu fframwaith a chyd-destun heriol ond cyraeddadwy ar gyfer partneriaid strategol, yn arbennig felly Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru, i lywio  buddsoddiad i Ogledd Cymru a chronni adnoddau i ariannu amrywiaeth o brosiectau strategol i hwyluso datblygiad economaidd sylweddol.

Mae'r Weledigaeth yn amlinellu uchelgais clir ar gyfer Gogledd Cymru, yn enwedig mewn perthynas â datblygu seilwaith, sgiliau a chyflogaeth, a thwf busnes.  Nodau'r Weledigaeth yw:

- Gwella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Gogledd Cymru

- Cefnogi a chadw pobl ifanc yng nghymunedau'r rhanbarth
- Mynd i'r afael â diweithdra ac anweithgarwch ar draws y rhanbarth
- Cefnogi a galluogi buddsoddiad gan y sector preifat yn y rhanbarth i hybu cynhyrchiant economaidd a gwella perfformiad economaidd a chyflogaeth yng Ngogledd Cymru.

Mae'r Weledigaeth yn cydnabod yr effeithiau cadarnhaol a'r manteision posib i economi Gogledd Cymru - rhai na welwyd mo'u tebyg o'r blaen - yn sgil Adeiladu Gorsaf Niwclear Wylfa Newydd, yn ogystal â'r rheini a ddaw yn sgil prosiectau ynni arwyddocaol eraill ym Môn a gefnogir ar hyn o bryd drwy'r Rhaglen Ynys Ynni (Rhy). Bydd Ynys Môn a'r Rhy yn rhan annatod o sefydlu clwstwr ynni gwerth uchel a fydd yn arbenigo mewn cynhyrchu ynni a thechnolegau a phrosesau carbon isel, gyda busnesau yn gallu manteisio ar y cyfleoedd sy'n deillio o ddatblygiadau ynni mawr.

Os sicrheir cyllid i gyflawni'r prosiectau a nodwyd, rhagwelir twf economaidd yn y rhanbarth ac y bydd gwerth yr economi yng Ngogledd Cymru yn cynyddu o £12.8 biliwn i £ 20 biliwn erbyn 2035. Bydd cyfradd twf o'r fath yn cynhyrchu o leiaf 120,000 o gyfleoedd cyflogaeth newydd ychwanegol.

Cafwyd cefnogaeth eang ar draws gwahanol sectorau'r rhanbarth i'r strategaeth " Gweledigaeth ar gyfer Twf ". O ystyried hynny a chryfder y gefnogaeth, gellir dweud heb os nac oni bai y bydd pawb yn gweithio hefo'i gilydd ac y bydd momentwm i gyflawni'r strategaeth ynghyd ag ymgysylltiad cadarnhaol gan Ysgrifennydd Cabinet newydd Llywodraeth Cymru dros yr Economi a Seilwaith. Mae eisoes wedi rhoi ei gefnogaeth anffurfiol i gysyniad y weledigaeth hon ar gyfer Gogledd Cymru, sydd wedi'i hintegreiddio â Gogledd-Orllewin Lloegr ac sy'n gysylltiedig ag economi ehangach y DU. Cafwyd trafodaethau cadarnhaol hefyd gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru a'r Is-ysgrifennydd Gwladol yn Swyddfa Cymru.

Os bydd pob un o'r chwe Awdurdod Lleol yn cymeradwyo'r Weledigaeth ar gyfer Twf bwriedir cynnal trafodaethau wedyn gyda Changhellor y Trysorlys, Swyddfa Cymru a Llywodraeth Cymru, yn enwedig mewn perthynas â rhaglen fuddsoddi bosib i gyflawni'r cynllun gweithredu ar gyfer prosiectau . Bwriedir hefyd cynnal trafodaethau ynghylch "Bargen Twf" posib ar gyfer Gogledd Cymru. Ystyrir mai'r Fargen Twf yw un o'r ffyrdd i sicrhau buddsoddiad fel y gellir cyflawni nodau a dyheadau'r strategaeth "Gweledigaeth ar gyfer Twf" o hyn tan 2035

| **C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** |
|---|
| Mewn cyfarfod o'r Bwrdd ar 1 Gorffennaf cytunodd Arweinwyr a Phrif Weithredwyr y chwe Awdurdod Lleol yng Ngogledd Cymru y dylai pob un o'r chwe awdurdod geisio cymeradwyaeth eu Pwyllgorau Gwaith i'r strategaeth "Gweledigaeth Twf ar gyfer Economi Gogledd Cymru" erbyn diwedd Medi 2016. Cymeradwywyd y ddogfen yn swyddogol gan y Bwrdd yn ei gyfarfod ar 1 Awst 2016.<br><br>Un thema gyson sydd wrth wraidd y ddogfen "Gweledigaeth ar gyfer Twf" yw'r cydweithio a'r gwaith partneriaeth, gyda'r sector preifat yn chwarae rhan gref, ynghyd ag ymagwedd "Tîm Gogledd |

| |
|---|
| Cymru". Mae hyn yn adeiladu ar y cynghreiriau cryf a'r cyd-gynllunio sydd wedi digwydd yn ddiweddar yn y rhanbarth drwy waith y Bwrdd. |

| **CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
|---|
| Mae'r Weledigaeth ar gyfer Twf yn gyson â dyheadau economaidd Cyngor Sir Ynys Môn yn y Cynllun Corfforaethol a chyda Chynllun Darparu Gwasanaeth y Gwasanaeth Rheoleiddio a a Datblygu Economaidd. |

| **D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
|---|
| |

| **DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | |
| **2** | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | |
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| **5** | **Eiddo** | |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| **7** | **Sgriwtini** | |
| **8** | **Aelodau Lleol** | Strategaeth ranbarthol ydyw ac nid mater lleol. |
| **9** | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | Cafwyd cyfraniadau / adborth cadarnhaol i'r Weledigaeth gan y cyrff allanol canlynol - Prifysgol Bangor, Prifysgol Glyndŵr, Grŵp Llandrillo-Menai, Coleg Cambria, LEP Swydd Gaer a Warrington, Byrddau Parth Menter, Cynghrair Merswy- Dyfrdwy, Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU. |

| **E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | | |
|---|---|---|
| **1** | **Economaidd** | |
| **2** | **Gwrthdlodi** | |
| **3** | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| **4** | **Amgylcheddol** | |
| **5** | **Cydraddoldebau** | |
| **6** | **Cytundebau Canlyniad** | |
| **7** | **Arall** | |

| **F - Atodiadau:** |
| --- |
| Atodiad A – “Gwledigaeth Twf ar gyfer Economi Gogledd Cymru” |

| **FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** |
| --- |
| |


# Gweledigaeth ar gyfer Twf yr Economi yng Ngogledd Cymru



Tudalen 465

north wales economic ambition board
bwrdd uchelgais economaidd gogledd cymru

Gorffennaf 2016



“Rhanbarth hyderus, cydlynol sydd â thwf economaidd cynaliadwy, sy'n elwa i'r eithaf o lwyddiant sectorau economaidd gwerth uchel a'i gysylltiad ag economïau Pwerdy'r Gogledd ac Iwerddon.”

# GWELEDIGAETH AR GYFER GOGLEDD CYMRU

Gweledigaeth sengl, gyd-gysylltiedig yw hon ar gyfer twf economaidd a chyflogaeth i Ogledd Cymru.  Fe'i cyflawnir drwy gydweithio a gweithio mewn partneriaeth, gyda'r sector preifat yn chwarae rhan bwysig ac ymagwedd "***Tîm Gogledd Cymru***", yn adeiladu perthnasau economaidd agos gydag ardaloedd cyfagos.


Bydd yn creu' amodau priodol i gefnogi darparu blaenoriaethau Isadeiledd Cenedlaethol Llywodraeth y DU yng ngogledd Cymru hefyd, yn benodol Wylfa Newydd - sy'n un o'r buddsoddiadau sector preifat mwyaf yn y DU - a'r prosiect moderneiddio'r rheilffyrdd o Crewe i Gaergybi, a fydd yn cynnwys trydaneiddio.

Cyflwynir ein huchelgais ar gyfer gogledd Cymru yn 2035 yn adran 2 y papur hwn, tra bod adrannau 3 a 4 yn nodi ein Strategaeth a'n Cynllun Gweithredu Prosiectau i ddarparu twf a galluogi i'r sector preifat fuddsoddi a rhoi hwb i gynhyrchiant.

Mae'n bwysig pwysleisio mai pwrpas y papur hwn yw adnabod ein gweledigaeth ar gyfer twf i ogledd Cymru, a threfnu ein Strategaeth a'n pecyn o brosiectau i wireddu'r weledigaeth honno.

Ymchwilir i amrywiol raglenni ariannu er mwyn cefnogi gweithrediad y Strategaeth a'r Cynllun Gweithredu Prosiectau, yn benodol cynnig Cynllun Twf gyda Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru.




Y Ganolfan Ymchwil i Ynni Solar, Prifysgol Glyndŵr

Mae nifer o resymau dros fynd ar ôl gweledigaeth o'r fath:

- Gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol gogledd Cymru;
- Cefnogi a chadw pobl ifanc yng nghymunedau'r rhanbarth;
- Mynd i'r afael â diweithdra a segurdod ledled y rhanbarth;
- Cefnogi a galluogi buddsoddiad sector preifat yn y rhanbarth i roi hwb i gynhyrchiant economaidd a gwella perfformiad economaidd a chyflogaeth gogledd Cymru.

# GOGLEDD CYMRU YN 2035.....

Gwireddir y weledigaeth drwy glystyrau economaidd gwerth uchel ledled gogledd Cymru.

Bydd gan y **clwstwr ynni** arbenigedd mewn cynhyrchu ynni, technolegau a phrosesau carbon isel, gyda busnesau wedi'u paratoi'n dda i elwa ar gyfleoedd o ganlyniad i fuddsoddiad yn Wylfa Newydd, Adweithyddion Modiwlar Bychain Trawsfynydd a phrosiectau ynni llanw ac ynni gwynt oddi ar y tir. Bydd gan fusnesau o fewn y clwstwr gysylltiadau cryf gyda chanolfannau ymchwil ynni blaenllaw, yn enwedig yn ardal Pwerdy'r Gogledd, er mwyn hwyluso rhannu gwybodaeth yn effeithiol, arloesedd, Ymchwil a Datblygu o ansawdd uchel, a masnacheiddio technoleg.


Wylfa Newydd

Yn bwysig, gwneir pob ymdrech i elwa ar synergedd gyda gweithgarwch datblygiadau clwstwr y sector ynni mewn rhanbarthau eraill cyfagos, yn enwedig cyfleoedd cadwyni cyflenwi. Bydd gogledd Cymru, ynghyd â'r ardal draws-ffiniol a gogledd-orllewin Lloegr, yn cael eu gosod fel un o leoliadau mwyaf blaenllaw'r DU ar gyfer buddsoddi mewn cynhyrchu ynni a chadwyni cyflenwi yn ymwneud ag ynni, gydag arbenigedd mewn busnes ac academia i achub ar gyfleoedd am y galw byd-eang ar gyfer ynni carbon isel neu dim carbon.

Bydd y **clwstwr gweithgynhyrchu uwch** yn y rhanbarth yn hynod gystadleuol ar y llwyfan byd-eang. Bydd y rhanbarth yn ferw o weithgareddau yn y clwstwr hwn, gan adeiladu ar rwydwaith cryf o gwmnïau angori gyda phroffil rhyngwladol a mantais gystadleuol o fewn awyrofod, deunyddiau a phrosesau, peirianneg forol ac amgylcheddol, cerbydau modur, electroneg a bwyd.


Airbus

Cyflenwir y cwmnïau angori yn y clwstwr hwn gan y mentrau bach a chanolig o fewn y rhanbarth sydd ag enw da am ansawdd uchel. Bydd y clwstwr yn elwa o bortffolio o safleoedd datblygu â gwasanaethau da ynghyd ag argaeledd asedau a chyfleusterau gwybodaeth gymhwysol, yn enwedig o fewn addysg uwch. Gyrrir twf yn y clwstwr hwn yn benodol gan y Parthau Menter (megis Parth Menter Glannau Dyfrdwy), ynghyd â buddsoddiad newydd ym Mhorth y Gogledd, Glannau Dyfrdwy; Parc Diwydiannol Wrecsam; Parc Busnes Llanelwy; Parc Bryn Cegin, Bangor a Pharc Cybi, Caergybi.

Bydd y **clwstwr digidol** yn rhan annatod o'r rhanbarth a bydd twf cyflym nifer o fusnesau digidol yn cadarnhau safle gogledd Cymru fel hwb o ragoriaeth technoleg yn y DU.

Bydd y sector digidol amrywiol, yn cynnwys cyfrifiannu perfformiad uchel, dadansoddi data, y cyfryngau, cyfrifiant gwybyddol ac ati, yn allweddol i'r rhanbarth, gan greu sectorau arloesol newydd a chreu ffyrdd newydd o ymgymryd â busnes. Y clwstwr digidol fydd peirianwaith twf yng

ngogledd Cymru, gan adeiladu ar y manteision cystadleuol yn nhermau academia, ansawdd bywyd a phrydferthwch naturiol eithriadol, ac isadeiledd o ansawdd.

Bydd y diwydiannau creadigol, datblygu meddalwedd, technoleg iechyd a gwyddor ariannol oll yn rhan o glwstwr o'r fath, gan fagu eu momentwm eu hunain ar gyfer twf. Bydd ein cryfder mewn technoleg ddigidol yn cael ei yrru gan ymchwil gymwys gref o Brifysgolion a Cholegau Addysg Bellach y rhanbarth gyda pheirianwyr trydanol a meddalwedd yn gyrru'r arbenigedd mewn caledwedd a chyfathrebu diwifr. Bydd rhai safleoedd strategol yn rhoi ffocws ar gyfer gweithgareddau yn y sector digidol, yn benodol Parc Gwyddoniaeth Menai, Parc Technoleg Wrecsam a Pharc Busnes Llanelwy.

Bydd gan y rhanbarth grynodiad uchel o gwmnïau digidol - clwstwr technoleg sylweddol, gan greu 'cyffro' gwirioneddol a fydd yn llwyddo i ysbrydoli pobl ifanc a chreu delwedd o ranbarth modern, eangfrydig ac sydd â chysylltiadau da.

Mae Gogledd Cymru yn economaidd gysylltiedig â **Phwerdy'r Gogledd**. Ni fydd ffiniau gweinyddol yn rhwystr, gydag economi gogledd Cymru wedi'i gysylltu'n annatod a'i alinio'n agos â gogledd-orllewin Cymru.

Bydd cydweithio ar draws ffiniau yn digwydd hefyd wrth gyflwyno prosiectau strategol, megis cludiant, a datblygu clystyrau gwerth uchel allweddol a fydd yn rhoi hwb i berfformiad a chynhyrchiant economaidd.

Mae rhai o'r prosiectau trawsffurfiol allweddol yn y rhanbarth, megis Wylfa Newydd ac Adweithyddion Modiwlar Bychain Trawsfynydd, yn cynnig synergedd posib anferthol gyda'r clwstwr ynni ym Mhwerdy'r Gogledd, a bydd yn elwa'n uniongyrchol o'r arbenigedd gweithgynhyrchu uwch sy'n bodoli o fewn sefydliadau megis Canolfan Ymchwil Gweithgynhyrchu Uwch Niwclear sydd yn Sheffield a Dalton Institute Prifysgol Manceinion.

Yn ogystal, bydd y rhanbarth yn elwa o ddatblygu cysylltiadau masnachu, masnachol a busnes gydag Iwerddon. Gwneir y mwyaf o'r buddion economaidd o fod wedi'n gosod rhwng prif ganolfannau economaidd megis Manceinion a Dulyn - gan gynyddu'n hapêl ymhellach fel prif gyrchfan busnes.


Buddsoddiad yn rheilffyrdd

Bydd gwella'r isadeiledd cludiant ac economaidd rhanbarthol yn cefnogi twf tai cynaliadwy ac yn gwella mynediad i'r rhanbarth i hyrwyddo'r hyn sydd ganddo i'w gynnig i ymwelwyr. Bydd Gwireddu'r Weledigaeth wedi'i integreiddio mewn cynlluniau ar gyfer cynllunio a datblygu cymunedau cynaliadwy sy'n parchu nodweddion diwylliannol ac ieithyddol unigryw'r rhanbarth.

Bydd gwireddu'r uchelgais hon yn sicrhau y bydd gan ogledd Cymru gynnig rhanbarthol cryf i Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru. Bydd y cynnig hwn yn grynodiad o fusnesau arloesol mewn clystyrau economaidd gwerth uchel wedi'u sefydlu yn y rhanbarth, gan elwa i'r eithaf ar y sail sgiliau lefel uchel, isadeiledd o ansawdd a chysylltiadau ardderchog gyda Phwerdy'r Gogledd. Bydd crynodiad o'r fath yn sefydlu gogledd Cymru fel "Canolfan Ragoriaeth" er mwyn lleoli busnesau mewn clystyrau gwerth uchel ac o ganlyniad, gan roi hwb i lefelau cynhyrchedd y DU a chydbwyso'r economi.

# STRATEGAETH I GYFLAWNI'R WELEDIGAETH


Wrth galon y weledigaeth mae'r ysfa i wella **cynhyrchedd, yr awydd i gystadlu a thwf** ledled gogledd Cymru.

Mae wedi'i ddatblygu a'i gytuno arno gan bartneriaeth eang o bobl, sefydliadau a busnesau sy'n rhannu balchder mewn ardal sydd ag asedau, heriau a chyfleoedd unigryw, ynghyd ag uchelgais ar gyfer yr ardal honno.

Bydd y ffocws ar greu'r amodau priodol er mwyn i glystyrau economaidd gwerth uchel megis ynni, gweithgynhyrchu uwch a'r sector digidol ffynnu ac er mwyn rhoi hwb i'r cyfraniad i berfformiad yr economi.

Cyflawnir hyn drwy adeiladu ar gryfderau sylfaenol busnesau presennol a dod dros unrhyw rwystrau a heriau drwy ddarparu pecyn o brosiectau strategol sydd eu hangen er mwyn cael newid cadarnhaol i drawsffurfio'r economi.

Mae cynyddu cynhyrchedd yn nod allweddol. Fodd bynnag, er mwyn cyflawni hyn yn llwyddiannus, a darparu economi mwy llwyddiannus a chytbwys, bydd angen buddsoddiad hirdymor er mwyn mynd i'r afael â heriau hirdymor, yn benodol ym meysydd trafnidiaeth, sgiliau a chyflogaeth, cefnogi busnes ac anghenion tai.





Bydd y Strategaeth y cyflawni'r weledigaeth o gynyddu cynhyrchedd, twf a swyddi drwy ganolbwyntio ar yr isod:

**Gwella'r isadeiledd ledled y rhanbarth**, yn enwedig trafnidiaeth a digidol, er mwyn hwyluso a galluogi buddsoddiad economaidd a gwireddu potensial economaidd gogledd Cymru. Rhaid diweddaru technoleg ddigidol yn sylweddol er mwyn bod yn alluogwr allweddol ar gyfer cynhyrchedd ac yn rhywbeth sy'n gyrru arloesedd a masnachu rhyngwladol. Hefyd, mae angen canolbwyntio ar wella mynediad i safleoedd cyflogaeth, a mynd i'r afael â phroblemau tagfeydd traffig ar rai llwybrau ffyrdd penodol, yn enwedig yn ardal y ffin. Rhaid buddsoddi yn rhwydwaith rheilffyrdd gogledd Cymru hefyd - mae trydaneiddio'r rheilffordd yn flaenoriaeth ynghyd â gwella amlder, cyflymder ac ansawdd y gwasanaethau rheilffordd. Hefyd, rhaid i'r rhanbarth sicrhau bod portffolio o safleoedd datblygu yn bodoli sy'n ymateb i'r farchnad, wedi'u gwasanaethu'n dda, sydd ar gael yn rhwydd ac sy'n bodloni anghenion sectorau a chlystyrau economaidd heddiw ac yfory, yn enwedig ar hyd coridor yr A55. Mae hyn yn hanfodol os ydym am fod yn lleoliad y mae busnesau yn

ei ffafrio a denu buddsoddiad. Bydd gofyn i'r cynnig tai ledled gogledd Cymru - sy'n gydran allweddol o alluogi twf - ymateb i newidiadau demograffig a bodloni anghenion tai ledled y rhanbarth. Bydd angen annog cynlluniau i ddarparu tai o safon ar draws amrediad o ddaliadaethau, sy'n addas ar gyfer amrediad o lefelau incwm a dyheadau yn agos at ganolfannau cyflogaeth mawr.

**Gwella ac uwchraddio sgiliau'r rhanbarth a hyrwyddo twf cyflogaeth**, gan ganolbwyntio'n benodol ar wella'r cyflenwad o sgiliau uwch yn y clystyrau economaidd gwerth uchel a mynd i'r afael â diweithdra. Rhaid cefnogi cyflogwyr yn y rhanbarth i yrru darpariaeth sgiliau sy'n ymateb i'w hanghenion, gan gadw hyblygrwydd i ymateb i ofynion sy'n newid. Rhaid i ni hefyd sicrhau bod pobl ifanc ac oedolion yn y rhanbarth yn meddu ar y sgiliau y mae cyflogwyr eu hangen a sicrhau bod yr ardal yn darparu cynnig cyflogaeth deniadol i ddenu a chadw gweithwyr, yn enwedig y rheini sydd â sgiliau lefel uchel. Mae'r Ganolfan Gweithgynhyrchu Uwch yng Nglannau Dyfrdwy, y Ganolfan Technoleg Awyrofod ym Mrychdyn a'r Ganolfan Sgiliau newydd ar gyfer Ynni a'r Amgylchedd yn Llangefni yn enghreifftiau o brosiectau allweddol y mae angen eu darparu er mwyn cefnogi'r agenda sgiliau. Bydd rhaid i'r system addysg yn y rhanbarth fod yn fwy seiliedig ar y galw, gan adlewyrchu blaenoriaethau cyflogwyr a sectorau twf yn y cwricwlwm addysg. Rhaid i ni hefyd sicrhau bod y rheini sy'n chwilio am waith yn meddu ar y sgiliau er mwyn cael mynediad i gyflogaeth gynaliadwy, ac mae angen cefnogi'r rheini sydd mewn gwaith i ddatblygu eu potensial. Ymdrinnir â diweithdra drwy ddarparu rhaglenni integredig a chydlynol a fydd yn canolbwyntio'n benodol ar anghenion ac amgylchiadau'r unigolyn - gan roi'r hyder a'r gefnogaeth iddynt allu mynd i mewn i'r farchnad lafur.



Minesto ynni'r llanw

**Hyrwyddo a chefnogi twf busnesau ac arloesedd**, yn enwedig mewn sectorau allweddol, a chryfhau cadwyni cyflenwi o fewn y rhanbarth. Mae angen i ni greu amgylchedd cefnogol a chystadleuol iawn i'n busnesau, fel eu bod yn parhau'n wydn ac wedi'u sefydlu'n lleol. Mae'n hanfodol bod y gefnogaeth hon yn cael ei chydlynu'n effeithiol, yn enwedig drwy ymagwedd Tîm Gogledd Cymru. Yn ogystal, bydd cyfle i fusnesau yn y rhanbarth i elwa i'r eithaf ar gynlluniau buddsoddiad sector preifat sylweddol, megis Wylfa Newydd, Parth Menter Glannau Dyfrdwy, Orthios Caergybi, ac mae'n hanfodol y rhoddir y gefnogaeth a'r adnoddau cywir iddynt allu cael mynediad i'r cadwyni cyflenwi perthnasol a chadw gwariant yn y rhanbarth. Rhaid i ni hefyd roi hwb i dwf mewn mentrau ar draws allforio, arloesedd a busnesau newydd, yn enwedig drwy ymyraethau sydd â chyswllt ac ymrwymiad llawn y sector preifat. Rhaid i ni hefyd sicrhau bod y gwasanaethau a'r cyfleusterau priodol ar gael yn y rhanbarth i gefnogi'r sector busnes i gael mynediad i adnoddau Ymchwil a Datblygu, yn benodol o addysg uwch ac addysg bellach. Mae angen mentrau marchnata rhagweithiol hefyd er mwyn denu buddsoddiad newydd, gan adeiladu ar gryfderau lleoliadau amrywiol ledled y rhanbarth, a sefydlu Gogledd Cymru fel cyrchfan allweddol. Yn syml, rhaid i ni gael enw gwell fel lleoliad ardderchog o safon uchel ar gyfer buddsoddiad newydd, yn benodol yn y clystyrau economaidd gwerth uchel.

Rhennir y buddion er mwyn cefnogi twf cynaliadwy'r gwahanol isranbarthau yng ngogledd Cymru.

Rhoddir ystyriaeth yn awr i ffurf o fodel llywodraethu a fydd yn gynhwysol a gyda'r modd o weithredu'n brydlon a chadarn, ynghyd ac ymgymryd â gwaith cyd-gynllunio gyda Phartneriaethau Rhanbarthol fel Sir Gaer a Warrington.

# PROSIECTAU STRATEGOL I GYFLAWNI'R STRATEGAETH

Mae portffolio o brosiectau strategol wedi'u hadnabod er mwyn cefnogi'r gwaith i wireddu'r strategaeth. Mae'r prosiectau hyn - sydd oll wedi'u hadnabod fel blaenoriaethau gan bartneriaeth yn cynnwys Awdurdodau Lleol, Llywodraeth Cymru, y sector preifat a Cholegau Addysg Uwch ac Addysg Bellach - wedi'u cynnwys isod dan y penawdau perthnasol.

Dylid nodi bod blaenoriaethau allweddol y chwe Awdurdod Lleol ar gyfer Isadeiledd, Sgiliau a Thwf Busnes wedi'u hymgorffori o fewn y portffolio hwn.



## *Cynllun Isadeiledd i alluogi twf:*

<table>
<tr><td>Ffyrdd</td><td>
<ul>
<li>Prosiect Gwella Llwybr yr A55 / A494 (£210m), gwella'r prif fynediad o ogledd Cymru i Bwerdy'r Gogledd*:
<ul><li>Gwelliant Aston Hill</li><li>Ffordd amgen Pont Sir y Fflint</li></ul></li>
<li>Gwelliannau Capasiti a Gwytnwch yr A55 (£35m):
<ul><li>Materion tagfeydd traffig mewn mannau cyfyng allweddol e.e. Helygain ac Abergele</li><li>Gwelliannau gwytnwch</li></ul></li>
<li>Prosiect Gwella Llwybr yr A483 / A5 (£300m), gwella'r prif fynediad o ogledd Cymru i Ganolbarth a De Lloegr*:
<ul><li>Cyffordd yr A483 / A55 ym Mharc Busnes Caer</li><li>Cyffyrdd Canol Tref Wrecsam</li><li>Cyffyrdd yr A483 / A5 yn Halton drwy Groesoswallt</li></ul></li>
<li>Yr A55 ar draws y Fenai (£135m)</li>
<li>Yr A487 Ffordd Osgoi Caernarfon Bontnewydd (£85m)</li>
<li>Mynediad Porthladd Caergybi (£10-15m)</li>
</ul>
</td></tr>
</table>

| | |
|---|---|
| | • Mynediad lleol i gyfleoedd cyflogaeth |
| Rheilffordd | • Darparu prosbectws manwl (Growth Track 36) sy'n amlinellu ein huchelgais ar gyfer gwelliannau gwasanaethau rheilffordd a chysylltedd gyda'r HS2 yn hwb Crewe - gan gynnwys cynigion i wella:<br>• Gwelliannau amlder a chyflymder y gwasanaeth (£20m - £25m)*<br>• Gwelliannau capasiti y rhwydwaith (£35m)*<br>• Gwelliannau i'r cerbydau<br>• Trydaneiddio'r rhwydwaith (£750m)*<br>• Gwell gorsafoedd yng Nglannau Dyfrdwy |
| Trafnidiaeth Integredig | • Darparu rhwydwaith trafnidiaeth teithwyr rhanbarthol sy'n integreiddio'n llawn yr holl foddau trafnidiaeth. |
| Safleoedd ac Eiddo Strategol | • Gwireddu rhaglen wedi'i rheoli sy'n darparu safleoedd cyflogaeth strategol gydag isadeiledd cysylltiedig yn cynnwys mynediad:<br>• Porth y Gogledd, Glannau Dyfrdwy (£10m)*<br>• Warren Hall, Brychdyn (£20m)*<br>• Ehangu Parc Technoleg Wrecsam (£10m)*<br>• Ymestyn Stad Ddiwydiannol Wrecsam (£15m)*<br>• Ailddatblygu Ardal Fusnes Wrecsam (£8m)*<br>• Ehangu Parc Busnes Llanelwy (£10m)<br>• De ddwyrain Abergele (£7m)<br>• Parc Bryn Cegin, Bangor (£3m)<br>• Ehangu Parc Cefni, Llangefni (£5m)<br>• Parc Cybi, Caergybi (£2m)<br>• Ailddatblygu Porthladd Caergybi (£5m)<br>• Safle Ferodo, Caernarfon (£5m)<br>• Canolfan Cynhyrchu Ynni Trawsfynydd (£5m)<br>• Canolfan Awyrofod Eryri, Llanbedr (£6m)<br>• Parc Gwyddoniaeth Menai (£21m) |

| | |
|---|---|
| | • Sefydlu Bwrdd Cyflwyno rhanbarthol er mwyn datblygu safleoedd ac eiddo ac adnabod cyfleoedd ariannu arloesol. |
| Digidol | • Hyrwyddo a chyflwyno prosiectau sy'n cynyddu band eang cyflym a rhwydwaith ffonau symudol sy'n galluogi ein busnesau i gael mynediad i farchnadoedd newydd.<br>• Cyflymu datblygiad rhaglen isadeiledd cysylltedd y rhanbarth.<br>• Cefnogi buddsoddiad parhaus yn y rhwydwaith a'r isadeiledd digidol, yn enwedig cysylltedd symudol, a hyrwyddo gweithgareddau i wneud y mwyaf o'r ffaith fod band eang cyflym ar gael. Monitro defnydd a hyrwyddo'r capasiti a ddarperir. |
| Tai | • Mynd i'r afael â rhwystrau allweddol i ddarparu tai, yn enwedig yn Wrecsam a Sir y Fflint, a sicrhau bod digon o dir ar gael ar gyfer datblygiad preswyl i fodloni'r galw a'r angen a amcangyfrifir, yn enwedig ailddefnyddio safleoedd tir llwyd.<br>• Bydd cefnogaeth ar gael i gynorthwyo gyda chostau sy'n gysylltiedig ag adfer safle, darparu isadeiledd galluogi a'r diffyg arian a achoswyd gan fynediad cyfyngedig i arian gan fanciau a sefydliadau. |

(** hefyd wedi eu cynnwys yng nghais twf Sir Gaer a Warrington)*

Tudalen 474

# *Cynllun Sgiliau a Chyflogaeth i alluogi twf:*

| | |
|---|---|
| | • Cyflwyno strategaeth sy'n cynyddu'r defnydd o bynciau STEM i gefnogi'r sectorau ynni, gweithgynhyrchu uwch a digidol yng ngogledd Cymru.<br>• Adnabod galw am sgiliau a gweithio gyda darparwyr o fewn Addysg Uwch ac Addysg Bellach a'r trydydd sector i gefnogi datblygu ac uwch-sgilio'r gweithlu rhanbarthol.<br>• Datblygu mentrau a phrosiectau i hyrwyddo darpariaeth sgiliau ar draws darparwyr addysg a hyfforddiant er mwyn cefnogi blaenoriaethau economaidd rhanbarthol. |

- Cyflwyno prosiectau a rhaglenni penodol er mwyn cefnogi'r sectorau allweddol:
  - Canolfan Ragoriaeth ABWR Grŵp Llandrillo Menai / Horizon a Champws Niwclear yn Llangefni
  - Canolfan Ragoriaeth mewn Ynni Adnewyddadwy ym Mhrifysgol Bangor ac ym Mharc Gwyddoniaeth Menai
  - Canolfan Gweithgynhyrchu Uwch yng Nglannau Dyfrdwy a Labordy Peirianneg a Chynhyrchedd Busnes ym Mhrifysgol Glyndŵr Wrecsam
  - Canolfan technoleg awyrofod ym Mrychdyn
  - Adnodd gwyddonol a thechnoleg newydd ym Mhrifysgol Bangor
- Ariannu gwasanaeth cyngor gyrfaol ar draws ffiniau i gefnogi'r ddarpariaeth sgiliau.

# *Cefnogi Cynllun Twf Busnes:*



- Datblygu prosiectau sy'n benodol i'r sector sy'n cefnogi twf parhaus y sector Gweithgynhyrchu Uwch, yn enwedig yn y sectorau Awyrofod, Cerbydau Modur, Pecynnu, Niwclear, Deunyddiau Uwch, Bwyd a Diod a Gwyddorau Meddygol.
- Cyflwyno'r prosiectau cynhyrchu ynni ac ynni adnewyddadwy carbon is a gynlluniwyd, ynghyd â hyrwyddo a chefnogi cyfleoedd i ddatblygu prosiectau yn y rhanbarth ymhellach e.e. Parth Arddangos Morol Morlais, Canolfan Ynni Adnewyddadwy Catapult.
- Hyrwyddo datblygiad parhaus y sectorau Cyllid, Busnes, gwasanaeth Creadigol a Digidol dwys a gwerth / gwybodaeth uchel sy'n tyfu yng ngogledd Cymru e.e. Gwasanaethau Ariannol Wrecsam.
- Rhoi hwb i dwf yn ein ffrwd Menter ar draws ffiniau ym maes Allforio / Arloesedd / Cynhyrchedd a Sefydlu Busnesau, drwy becyn o arian ac adnoddau ar gyfer Ymchwil a Datblygu Busnes ac Ymchwil Addysg Uwch ac Addysg Bellach / Recriwtio Graddedigion / Rheoli Allforion / Fflyd Deori 'Pop-up' rhanbarthol.
- Trosoli a phwlio adnoddau presennol sy'n cefnogi datblygiad economaidd drwy sefydlu Hwb Buddsoddi a Chyflymu Twf Gogledd Cymru (Hwb Twf Gogledd Cymru), gan gyd-leoli adnoddau allweddol Llywodraeth Cymru a'r Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru mewn un lleoliad. Yr holl drosolion a chefnogaeth allweddol

| | |
|---|---|
| | mewn un lle - 'tîm Gogledd Cymru'.<br>• Cefnogi busnesau yn y rhanbarth i gael mynediad i gyfleoedd sy'n deillio o gynlluniau buddsoddi sector preifat a chyhoeddus mawr, yn enwedig drwy'r gadwyn gyflenwi. Mae rhai o'r prosiectau mawr hyn yn cynnwys Wylfa Newydd, Parc Gwyddoniaeth Menai, Parthau Menter, Orthios Caergybi a gwelliannau mawr i'r rhwydwaith ffyrdd.<br>• Datblygu mentrau newydd i gefnogi cynaladwyedd a gwytnwch y sector adeiladu yng ngogledd Cymru.<br>• Darparu cefnogaeth ac ysgogiad i gwmnïau angori mawr sydd wedi'u lleoli yng ngogledd Cymru i dyfu a datblygu ymhellach, megis Airbus / JCB / Siemens / Redrow / Moneypenny / Moneysupermarket / Toyota / Kingspan.<br>• Sefydlu Rhaglen Trosglwyddo Gwybodaeth - cysylltu anghenion byw busnesau gyda chyfleusterau ymchwil ac arbenigedd ledled gogledd Cymru, Merswy Dyfrdwy a rhanbarth ehangach Pwerdy'r Gogledd.<br>• Datblygu prosiectau i gyflymu masnacheiddio technolegau newydd a chynnyrch sy'n arwain y farchnad, gan roi hwb i dwf arloesedd a chynhyrchedd.<br>• Buddsoddiad yn y 'Coridor Arloesedd' ledled gogledd Cymru i ehangu a gwella cyfleusterau ac amgylcheddau dysgu, gan helpu i sefydlu Prifysgol Bangor, Prifysgol Glyndŵr, Coleg Cambria a Grŵp Llandrillo-Menai yn benodol fel canolfannau ar gyfer arloesedd, ymchwil a datblygu.<br>• Elwa i'r eithaf ar enw da'r rhanbarth fel lle ag ansawdd bywyd gwych, fel cyrchfan twristiaeth antur sy'n adnabyddus ledled y byd ac fel y lleoliad canolog sy'n cysylltu'r Farchnad Wyddelig a'n rhanbarth ehangach o Bwerdy'r Gogledd, drwy sefydlu Cronfa Farchnata Ranbarthol i gefnogi Mewnfuddsoddi a hyrwyddo Twristiaeth (rheolaeth Sector Cyhoeddus/Preifat). |

# EFFAITH AR BERFFORMIAD ECONOMAIDD Y RHANBARTH

Y gyfradd twf sydd wedi'i ragweld ar gyfer yr economi ranbarthol - yn seiliedig ar dueddiadau presennol - yw 1.9% rhwng 2016 a 2035. Er hynny, fe allwn gyflawni cyfradd twf uwch o weithredu'r Weledigaeth Twf a'r Strategaeth Dwf, a chodi gwerth economi Gogledd Cymru o £12.8 biliwn i £20 biliwn erbyn 2035 - yn cynrychioli cyfradd twf o 2.8%

Byddai gwerth yr economi yn tyfu 56% mewn llai nag 20 mlynedd. Amcangyfrifir y bydd lefelau twf o'r fath yn cynhyrchu o leiaf 120,000 o gyfleoedd cyflogaeth newydd ychwanegol. Mae hyn yn seiliedig ar ystyriaethau sydd wedi'u cynnwys mewn adroddiad annibynnol a gomisiynwyd gan y Bwrdd Uchelgais Economaidd a oedd yn modelu gwahanol senarios o symudiadau mewn GVA yn y dyfodol yng ngogledd Cymru.

Bydd gwelliannau o'r fath mewn twf GVA a chyflogaeth yn lleihau'r bwlch allbwn gyda gweddill y DU yn sylweddol

Mae'r ddarpariaeth a ragwelir ar gyfer dyraniadau tai ar hyn o bryd mewn Cynlluniau Datblygu Lleol sydd wedi'u mabwysiadu neu sydd ar y gweill ledled y rhanbarth (sy'n gorffen ar wahanol adegau) yn amrywio o 37,500 o gartrefi i 44,100, sy'n 2,500-3,000 o gartrefi newydd y flwyddyn. Fodd bynnag, mae 13,100 o gartrefi wedi'u cwblhau rhwng mis Ebrill 2007 a mis Ebrill 2015 - y mwyafrif yn ardal Sir y Fflint a Wrecsam. Mae hyn yn dangos fod yn rhaid i'r rhanbarth fod yn fwy uchelgeisiol yng nghynllunio twf tai cynaliadwy.

O ystyried y twf a ragwelir yn y rhanbarth, rhaid i fesurau fod yn eu lle i sicrhau bod cyfyngiadau a rhwystrau'n cael eu gwaredu er mwyn rhyddhau safleoedd dynodedig ar gyfer datblygiadau tai - yn enwedig mewn ardaloedd o dwf cyflogaeth uchel. (Mae'r weithred hon wedi'i chynnwys yn y Cynllun Isadeiledd yn y Strategaeth). Yn ogystal, bydd angen dyraniadau pellach o dir ar gyfer tai wrth i'r Cynlluniau Datblygu Lleol gael eu hadnewyddu o 2021 ymlaen. Mae hyn yn rhoi cyfle i ni sicrhau bod y broses cynllunio defnydd tir yn cael ei hintegreiddio a'i halinio'n agos gyda'n strategaeth twf economaidd.

.

**£7.2bn** gwerth ychwanegol i'r economi ranbarthol erbyn 2035

# CYFRIFOLDEBAU NEWYDD I'R RHANBARTH ER MWYN CYFLAWNI

Mae'r rhanbarth wedi'i baratoi ac yn barod i dderbyn cyfrifoldebau a phwerau newydd ar benderfyniadau allweddol sy'n effeithio arno. Bydd hyn yn cefnogi cyflawniad y Weledigaeth a'r Strategaeth Twf, ynghyd â hyrwyddo ffyrdd newydd o weithio a gwella cydlynu gwasanaethau i fusnesau a phobl drwy ymagwedd "Tîm Gogledd Cymru".

Er enghraifft, mae potensial i edrych i mewn i'r isod gyda Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru:

- Integreiddio rhaglenni cyflogaeth a sgiliau ar y lefel ranbarthol - yn benodol rhaglenni DWP a mentrau sgiliau Llywodraeth Cymru sydd wedi'u targedu at y grwpiau "anodd eu cyrraedd" a'r rheini sy'n economaidd anweithredol. Drwy ymagwedd o'r fath, daw cyfle i fynd i'r afael â diweithdra mewn ffordd lawer mwy ystyrlon ac effeithiol, gan deilwra'r Rhaglen Gwaith ac Iechyd newydd i fodloni anghenion gogledd Cymru.
- Cronfa Fuddsoddi wedi'i Gwarantu gan Asedau - Gellid cyflawni hyn pe byddai asedau Awdurdodau Lleol / Llywodraeth Cymru / cyrff cyhoeddus yn cael eu pwlio. Yr hyn sy'n bwysig, er mwyn i'r ymagwedd hon fod yn gwbl effeithiol, yw y byddai rhai o'r pwerau sydd gan Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd ers dyddiau'r WDA / Awdurdod Tir yn rhoi cyfrifoldebau a phwerau allweddol i'r endid newydd.
- Cynllunio defnydd tir strategol - yn benodol er mwyn cyflawni gwell aliniad rhwng polisïau cynllunio a blaenoriaethau datblygu'r economi. Gellid ymgymryd â'r broses o adnabod cyflenwad tir sydd ei angen ar gyfer twf tai a thwf economaidd yn fwy rhanbarthol a strategol, ynghyd ag adnabod safleoedd strategol. Mae cyfle yma i gyflawni gwell integreiddiad strategol rhwng cynllunio trafnidiaeth, cynllunio economaidd a chynllunio defnydd tir drwy ymagwedd newydd a beiddgar.
- Awdurdod trafnidiaeth rhanbarthol gyda'r cyfle i flaenoriaethu cynlluniau ar gyfer ariannu ledled y rhanbarth - gyda'r nod o "alluogi" twf economaidd.
- Tîm cefnogi busnes a masnach - yn gweithio ledled y rhanbarth gydag ymagwedd "tîm gogledd Cymru". Byddai'r tîm hwn yn canolbwyntio'n benodol ar ein sectorau twf a gorchfygu rhwystrau i dwf ac arloesedd. Gallai gynnwys twristiaeth a marchnata hefyd.
- Pwerau cyllidol newydd ar y lefel ranbarthol, yn benodol rhaglen o brosiectau Cyllid Cynyddu Treth a ariannir drwy enillion refeniw treth Ardreth Annomestig Genedlaethol (NNDR) ychwanegol o weithgareddau datblygu'r economi, ynghyd â Chronfa Buddsoddi Ranbarthol i ddarparu arian a chyllid ar gyfer gweithgareddau adfywio ledled y rhanbarth.


Partneriaid allweddol yn uno i gefnogi'r prosbectws rheilffyrdd Growth Track 360

Mae gogledd Cymru mewn lle da i dderbyn ystod o gyfrifoldebau newydd, ac mae'n hyderus y bydd y pwerau a ddatganolir i'r rhanbarth - yn dilyn trafodaethau a chytundeb gyda Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru - yn cael effaith gadarnhaol ar gyflawni'r Weledigaeth a'r Strategaeth Twf, gan roi hwb i lefelau cynhyrchedd a gwella rhagolygon cyflogaeth ein trigolion.

# Cefnogir y Weledigaeth ar gyfer Twf gan:

Cyng. Dilwyn Roberts, Arweinydd

Cyng. Hugh Evans OBE, Arweinydd

Cyng. Aaron Shotton, Arweinydd

Cyng. Dyfed Edwards, Arweinydd

hefyd
*Cadeirydd, Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru*

Cyng. Mark Pritchard, Arweinydd

Cyng. Ieuan Williams, Arweinydd

Ashley Rogers, Cadeirydd

David Jones OBE, Prif Weithredwr

Yr Athro Maria Hinfelaar, Is-ganghellor

Yr Athro John Hughes, Is-ganghellor

Glyn Jones OBE, Prif Weithredwr

www.northwaleseab.co.uk

Cyswllt: Iwan Trefor Jones ar ran Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru
t. 01286 679162 e. IwanJ@gwynedd.llyw.cymru

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Gwaith** |
| **Dyddiad:** | **19 Medi, 2016** |
| **Pwnc:** | **Polisi Cydymffurfiaeth â Safon Ansawdd Tai Cymru** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Aled Morris Jones** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Shan Lloyd Williams** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | **Dafydd Rowlands – Rheolwr Gwasanaethau Technegol**<br>**01248 752240**<br>**drxhp@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Yn berthnasol i bob Aelod Lleol** |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

Argymhellir bod y Pwyllgor Gwaith yn cymeradwyo: -

**A1**. Drafft o'r Polisi Cydymffurfiaeth â Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC).

**Rhesymau**

**1.0 Cefndir**

**1.1** Bydd Aelodau'n ymwybodol y llwyddwyd i gyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru yn ystod 2012 ac mai Ynys Môn oedd yr ail Awdurdod yng Nghymru i gyrraedd y safon hon.
Mae SATC yn nodi y dylai pob aelwyd gael y cyfle i fyw mewn tai o ansawdd da sydd:

- Mewn cyflwr da,
- Yn ddiogel a saff,
- Wedi eu gwresogi'n ddigonol, yn effeithlon o ran defnyddio tanwydd ac wedi'u hinswleiddio'n dda,
- Gyda cheginau ac ystafelloedd ymolchi modern,
- Yn cael eu rheoli'n dda,
- Wedi'u lleoli mewn amgylchedd deniadol a diogel,
- Yn cwrdd â gofynion penodol yr aelwyd (e.e. anghenion pobl ag anableddau penodol) cyn belled ag y bo modd.

1.2 Ym mis Mehefin 2013, penododd Llywodraeth Cymru ymgynghorwyr i gynnal prosiect ymchwil o'r enw 'Safon Ansawdd Tai Cymru - Dilysu Cynnydd o ran cyrraedd y Safon'.
Nod yr ymchwil oedd rhoi gwybod i'r Gweinidog ar gyfer Tai ac Adfywio a Swyddogion Llywodraeth Cymru am:

- Sut mae landlordiaid yn barnu bod eu heiddo wedi cyrraedd SATC yn unol â chanllawiau dehongli a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2008;
- Sut mae landlordiaid wedi gweithredu meini prawf ar gyfer 'methiannau derbyniol' ;
- I ba raddau y cafodd cydymffurfiaeth landlordiaid â Safon Ansawdd Tai Cymru ei dilysu'n allanol ac yn annibynnol
- I ba raddau y mae rhaglenni gwella SATC wedi llwyddo i gyflawni buddion cymunedol

'Roedd yr ymchwil yn argymell, oherwydd natur ddeongliadol y Canllawiau, y dylai pob landlord gynhyrchu Polisi Cydymffurfiaeth â SATC sy'n mynegi ac yn egluro eu dehongliad o'r Canllawiau SATC ac y dylai gynnwys: -

- Dehongli'r SATC;
- Dehongli a chofnodi 'methiannau derbyniol';
- Casglu a storio data;
- Adrodd ar gynnydd gyda SATC;
- Dilysu;
- Safon SATC + ;
- Crynodeb o'r buddsoddiad ariannol blynyddol yn y stoc;
- Dehongli a mesur Buddion Cymunedol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu'r argymhelliad clir hwn ac wedi gofyn i bob landlord lunio Polisi Cydymffurfiaeth a'i adolygu bob blwyddyn.

**2.0 Polisi Cydymffurfiaeth â SATC**

2.1 Pwrpas ein polisi arfaethedig yw amlinellu'r egwyddorion sylfaenol yr ydym yn eu dilyn i sicrhau y parheir i gydymffurfio â Safon Ansawdd Tai Cymru a chydymffurfio â gofynion Llywodraeth Cymru fel y crybwyllir nhw uchod. Bydd y Polisi hwn yn cyfrannu at roi sicrwydd i Lywodraeth Cymru, tenantiaid a'r Cyngor y llwyddwyd i gwrdd â SATC a bod y safon yn cael ei chynnal.

2.2 Gofynnir i Aelodau nodi'r egwyddorion allweddol canlynol sy'n sail i'n strategaeth ar gyfer parhau i gydymffurfio gyda SATC:

- Bydd contractau cynnal a chadw cynlluniedig allanol traddodiadol yn parhau i fod yn sail i'n cynlluniau buddsoddi cyfalaf yn ystod 2016-20;
- Mae'n bolisi gennym i wneud unrhyw waith SATC mewnol sydd ar ôl ar ddiwedd tenantiaethau. Parheir i ddilyn y polisi hwn nes bod yr holl geginau, ystafelloedd ymolchi ac elfennau ailweirio'n cydymffurfio'n llawn;
- 'Rydym yn bwriadu gwneud gwaith arolygu pellach yn 2016/17 er mwyn sefydlu a ddylid adnewyddu, yn ystod 2017-20, yr elfennau mewnol hynny nad oeddent yn rhan o'r cynllun buddsoddi gwreiddiol
- Byddwn yn mabwysiadu proses ddilysu annibynnol bob blwyddyn a fydd yn cynnwys yr adolygiad blynyddol o weithdrefnau casglu data, cynnal y gronfa ddata rheoli asedau a dilysu cynnydd /

| |
|---|
| cydymffurfiaeth gyda SATC. Bydd hyn yn cynnwys cyfarwyddo arbenigwyr arolygu / tai allanol i gynnal archwiliad blynyddol o gynnydd a gweithdrefnau;<br>- Byddwn yn cynnal arolwg pellach o gyflwr y stoc, naill ai arolwg llawn neu un cynrychioliadol, cyn 2020;<br>- Rhoddir tystysgrif cydymffurfio â SATC i denantiaid newydd pan fydd eiddo'n cael ei ailosod;<br>- Er mwyn cofnodi a mesur Buddion Cymunedol, byddwn yn defnyddio Offeryn Mesur Gwerth Cymru ac yn adrodd y canlyniadau i Lywodraeth Cymru ar ôl cwblhau'r contractau gwaith cyfalaf;<br>- Adolygir y Polisi Cydymffurfiaeth â SATC bob blwyddyn. |

| **B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?** |
|---|
| Nid oes opsiynau eraill i'w hystyried. Mae mabwysiadau polisi cydymffurfiaeth â SATC yn amod ar gyfer derbyn Grant Gwaith Trwsio Mawr gan Lywodraeth Cymru. |

| **C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** |
|---|
| Mae'n ymwneud â'r Cynllun Busnes ar gyfer y CRT. |

| **CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
|---|
| Mae'r penderfyniad hwn yn gyson â'r Blaenoriaethau Corfforaethol mewn perthynas ag Adfywio Cymunedol a Datblygu Economaidd, Cynyddu ein Hopsiynau Tai a Lleihau Tlodi. |

| **D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
|---|
| Ydi |

| | **DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | Cefnogol |
| **2** | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | Derbyniwyd sylwadau gan y Swyddog 151 yn ystod yr ymgynghoriad. Byddwn yn cytuno yn flynyddol gyda'r swyddog Adran 151 yn union pa ragdybiaethau ariannol a manylion gwariant sydd i'w defnyddio yn y Polisi Cydymffurfio bydd yn cael ei ddiweddaru yn flynyddol. |

| | | |
|---|---|---|
| 3 | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | Dim sylwad |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| 5 | **Eiddo** | |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| 7 | **Sgriwtini** | |
| 8 | **Aelodau Lleol** | |
| 9 | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | |

| **E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | | |
|---|---|---|
| 1 | **Economaidd** | |
| 2 | **Gwrthdlodi** | |
| 3 | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| 4 | **Amgylcheddol** | |
| 5 | **Cydraddoldebau** | |
| 6 | **Cytundebau Canlyniad** | |
| 7 | **Arall** | |

| **F - Atodiadau:** |
|---|
| Polisi Cydymffurfiaeth â Safon Ansawdd Tai Cymru 2016 - Drafft |

| **FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** |
|---|
| Cynllun Busnes 30 blynedd ar gyfer y Cyfrif Refeniw Tai am y cyfnod 2016-46 |

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

# Polisi Cydymffurfiaeth â Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC) - Drafft

**Polisi Cydymffurfiaeth â Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC) - Drafft**


| CYNNWYS | | |
|---|---|---|
| 1.0 | Cefndir | Tudalen 2 |
| 2.0 | SATC - Trosolwg a Dehongli | Tudalen 2 |
| 3.0 | Cynnydd gyda SATC | Tudalen 4 |
| 4.0 | Cynlluniau Gwaith Cyfredol: Ebrill 16 | Tudalen 5 |
| 5.0 | Cofnodi a Dehongli Methiannau Derbyniol | Tudalen 6 |
| 6.0 | Casglu data | Tudalen 8 |
| 7.0 | Storio a Rheoli Data | Tudalen 9 |
| 8.0 | Cydymffurfiaeth â SATC - Dilysu Annibynnol | Tudalen 10 |
| 9.0 | Safon SATC + | Tudalen 12 |
| 10.0 | Crynodeb o’r Buddsoddiad Ariannol Blynyddol yn y Stoc | Tudalen 13 |
| 11.0 | Monitro ac Adrodd ar Gynnydd gyda SATC | Tudalen 14 |
| 12.0 | Cofnodi Buddion Cymunedol | Tudalen 15 |
| A1 | Atodiad 1 - Arolwg o Gyflwr y Stoc - Costau 30 Blynedd | Tudalen 18 |

## 1.0 Cefndir

**1.1** Adroddodd Swyddogion i Bwyllgor Gwaith y Cyngor ar 20 Tachwedd 2006 fod cadw'r stoc a throsglwyddo'r stoc, y naill a’r llall, yn opsiynau ymarferol ar gyfer cwrdd â Safon Ansawdd Tai Cymru erbyn 2012.

O gofio’r gwelliannau cyfalaf a wnaed eisoes neu a oedd ar y gweill, a chan ragamcanu’r sefyllfa fel yr oedd hi ar y pryd, adroddwyd y byddai modd cwrdd â SATC erbyn 2012 trwy gyfuniad o fenthyca â chymorth a benthyca digymorth ac y byddai modd cynnal y safon dros 30 blynedd. Mae'r Cyfrif Refeniw Tai (CRT) yn gynaliadwy ac mae’r opsiwn o gadw’r stoc yn ymarferol.

Yr opsiwn a ffafriwyd gan Bwyllgor Gwaith y Cyngor oedd cadw'r stoc yn hytrach na’i throsglwyddo i sefydliad allanol. Cadarnhawyd y penderfyniad hwn yn ystod cyfarfod llawn o'r Cyngor Sir a gynhaliwyd ar 14 Rhagfyr, 2006.

## 2.0 Trosolwg a Dehongli – SATC

**2.1** Mae "Cartrefi Gwell i Bobl Cymru" yn datgan gweledigaeth Llywodraeth Cymru fod "pob aelwyd yng Nghymru ... yn cael y cyfle i fyw mewn tai o ansawdd da sydd:

- mewn cyflwr da
- yn ddiogel a saff
- wedi eu gwresogi'n ddigonol, yn gwneud defnydd effeithlon o danwydd ac wedi'u hinswleiddio'n dda
- yn cynnwys ceginau ac ystafelloedd ymolchi modern
- wedi eu rheoli'n dda
- wedi eu lleoli mewn amgylcheddau deniadol a diogel
- yn cwrdd â gofynion penodol yr aelwyd i’r graddau y bo’n bosib (e.e. anableddau penodol)

**2.2** Mae’r gwaith y bydd angen ei wneud ar bob un o'n heiddo wedi cael ei asesu ar sail y Canllawiau SATC a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2008 a thrwy ddefnyddio’r Rhestr Wirio ar gyfer Asesiad Safonol. O ran gwaith y tu mewn i eiddo, mae’n canolbwyntio ar bedair elfen allweddol, sef ceginau, ystafelloedd ymolchi, ailweirio a systemau gwresogi. O ran gwaith allanol, canolbwyntir ar gyflwr cydrannau allweddol gan gynnwys toeau, waliau, ffenestri, drysau, llwybrau a ffensys.

## 3.0 Cynnydd gyda SATC

**3.1** Blwyddyn 2012-13 oedd y flwyddyn olaf o Gynllun Buddsoddi pum mlynedd gan y Gwasanaeth Tai i gyflawni gwaith a oedd yn ofynnol er mwyn cydymffurfio â SATC. Yn unol ag amserlenni a amlinellwyd eisoes, cadarnhaodd y Gwasanaeth Tai bod y brif raglen o waith caffael er mwyn cydymffurfio â SATC wedi ei chwblhau'n llwyddiannus yn ystod mis Rhagfyr, 2012. O ganlyniad, Cyngor Sir Ynys Môn oedd un o'r awdurdodau cyntaf yng Nghymru i gydymffurfio â SATC.

**3.2** Rydym yn fodlon, lle bynnag y bo'n ymarferol bosib, fod pob eiddo'n cydymffurfio â'r prif elfennau SATC ac eithrio lle gwrthodwyd gwaith gan denantiaid neu'r achosion hynny sy'n cwrdd â'r meini prawf ar gyfer methiannau derbyniol. Ni fyddem ond yn ystyried cofnodi methiant derbyniol os byddai cost y gwaith cydymffurfio'n anymarferol o safbwynt economaidd.

**3.3** Mae'r rhaglen wedi cyflawni amcanion a chanlyniadau allweddol a oedd yn cynnwys gosod ceginau ac ystafelloedd ymolchi modern, gwaith ailweirio a gwaith gwresogi. 'Roedd y cyflawniadau nodedig yn cynnwys:

- Cwblhau'r contract ar amser ac o fewn y gyllideb
- Cwrdd â disgwyliadau cleientiaid a chwsmeriaid
- Mwy o gyfranogiad gan denantiaid a buddion cymunedol ehangach
- Mae'r rhaglen, bron yn ddieithriad, wedi cyflogi gweithwyr lleol

**3.4** Ers 2013, mae swyddogion wedi bod yn ailymweld â phob aelwyd a oedd wedi gwrthod rhoi caniatâd i'r Cyngor wneud rhai elfennau o waith. Rydym yn hyderus y bydd y dull rhagweithiol hwn o weithredu'n parhau i sicrhau gostyngiad pellach yn nifer y methiannau derbyniol.

O ystyried yr uchod, byddwn yn parhau i ddyrannu cyllid cyfalaf ar gyfer gwaith mewnol hyd nes ein bod yn fodlon bod pob un o'n cartrefi'n cydymffurfio â SATC. Dyrannwyd £750,000 ar gyfer gwaith mewnol yn 2015-16.

**3.5** Ers cwblhau'r Rhaglen Fuddsoddi Fewnol ym mis Rhagfyr 2012, mae'r tîm buddsoddi cyfalaf wedi llwyddo i gaffael contractau gwaith sylweddol mewn cysylltiad â gwaith adnewyddu allanol traddodiadol a gwelliannau amgylcheddol.

Mae sgôp cyffredinol y gwaith a wnaed eisoes neu sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd fel arfer yn cynnwys gwaith ail-doi, gwaith rendro wedi'i inswleiddio, gosod

ffenestri a drysau newydd lle bo'n briodol, ynghyd â gwaith allanol sy'n cynnwys llwybrau, ffensys a waliau terfyn.

**3.6** Yn ystod blwyddyn ariannol 2015-16, cymeradwywyd ein Strategaeth Datblygu Tai Cyngor am y cyfnod 2015-2020. 'Roedd y strategaeth honno'n cynnwys targed i sicrhau cynnydd o 95 yn nifer yr unedau yn ein stoc dai dros gyfnod o 5 mlynedd. Dros y cyfnod o 5 mlynedd, bydd 44 o'r anheddau newydd yn eiddo a brynir gan y Cyngor. Yn ystod blwyddyn ariannol 2015-16 cychwynnwyd ar ein Rhaglen Ddatblygu a phrynwyd yn ôl 10 o dai cyngor a werthwyd gynt drwy'r Ddeddf Hawl i Brynu. Ein polisi yw sicrhau y bydd yr holl eiddo a gaffaelir fel rhan o'r Rhaglen Ddatblygu hon yn cael eu hadnewyddu ac yn cydymffurfio â SATC cyn iddynt gael eu gosod.

## 4.0 Cynlluniau Gwaith Cyfredol: Ebrill 2016

4.1 Mae'r tabl canlynol yn cadarnhau ein sefyllfa bresennol mewn perthynas ag adnewyddu elfennau allweddol:

| Elfen | Y cyfanswm a oedd wedi ei gynnwys yn yr arolwg sgopio gwreiddiol | Y cyfanswm a gwblhawyd hyd yma | Y cyfanswm a wrthodwyd gan denantiaid | Y cyfanswm na chafodd ei gynnwys ar yr arolwg sgopio |
|---|---|---|---|---|
| **Ceginau** | 3073 | 3338 | 235 | 207 |
| **Ystafelloedd ymolchi / cawodydd mynediad gwastad** | 2271 | 3229 | 178 | 373 |
| **Ailweirio** | 1543 | 2799 | 180 | 801 |

'Rydym yn bwriadu gwneud gwaith arolygu pellach yn ystod 2016/17 ar yr elfennau na chawsant eu cynnwys yn y gwaith a nodwyd yn yr arolygon sgopio gwreiddiol ar gyfer gwaith buddsoddi mewnol. Bydd unrhyw waith a nodwyd yn cael ei raglennu ar gyfer adnewyddu yn ystod 2017/18, 2018/19 a 2019/20.

**4.2** Ein polisi yw gwneud unrhyw waith SATC mewnol sydd ar ôl pan fo'n tenantiaethau'n dod i ben. Parheir i ddilyn y polisi hwn hyd nes y bydd yr holl waith ar y ceginau a'r ystafelloedd ymolchi wedi ei wneud, ynghyd â'r holl waith

ailweirio, fel eu bod oll yn cydymffurfio'n llawn.  Rydym yn cydnabod bod hyn yn cael effaith andwyol ar ystadegau trosiant mewn perthynas â’r amser a gymerir i ailosod eiddo gwag ond mae’n rhoi sicrwydd y bydd cydrannau newydd yn cael eu gosod yn y pen draw.

Ers cwblhau'r Rhaglen Fuddsoddi Fewnol ym mis Rhagfyr 2012, rydym hefyd wedi bod yn rhagweithiol wrth fynd i'r afael ag achosion lle gwrthodwyd gwaith yn flaenorol ac rydym yn croesawu cyswllt gan denantiaid sydd wedi gwrthod gwaith yn y gorffennol. Os yw tenantiaid yn awr mewn sefyllfa i ganiatáu gwaith ar geginau ac ystafelloedd ymolchi a gwaith ailweirio, ein polisi yw ailraglennu’r gwaith hwnnw cyn gynted ag sy'n ymarferol bosib. Gall ein gweithlu ein hunain wneud y gwaith hwn neu gontractwyr allanol yn dilyn cyflwyno tendr.

Os yw cyn-denantiaid wedi gwrthod cyfle i gael system gwres canolog nwy mewn ardal a wasanaethir gan rwydwaith prif gyflenwad nwy, bydd cysylltiadau a systemau nwy newydd yn cael eu gosod yn awtomatig ar gyfer tenantiaethau newydd. Mae gennym 25 eiddo a all ddisgyn i'r categori hwn.

**4.3** Yn ystod Ch1 2016 datblygwyd rhaglen 3 blynedd ar gyfer gwneud gwaith adnewyddu allanol ar y tai cyfan, sy'n cynnwys gwelliannau amgylcheddol. Bydd y buddsoddiad hwn yn rhaglen dreigl sy'n cynnwys amnewid neu adnewyddu simneiau, toeau, gwteri, gwaith rendro, ffensys a llwybrau. Bydd gwaith cynnal a chadw allanol traddodiadol dan y rhaglen a gynlluniwyd yn parhau i fod yn sail i'n cynlluniau buddsoddi cyfalaf am y cyfnod 2016-20.

## 5.0 Dehongli a Chofnodi Methiannau Derbyniol

**5.1** Nid yw’n ymarferol bosib bob amser i gydymffurfio â SATC yn llawn. Mae pedair sefyllfa sy'n dylanwadu ar ein gallu i gofnodi cydymffurfiaeth, sef:

- Dewis y preswylydd
- Cyfyngiadau ffisegol
- Amseriad y gwaith
- Cost y gwaith

Amlinellir isod ein polisi a'n dull o ddehongli, casglu a chofnodi methiannau derbyniol.

**5.2** Mae'r Cyngor yn derbyn y dylid ymgynghori gyda phreswylwyr ac y dylent gael dewis ynghylch y gwaith y bwriedir ei wneud ar eu cartrefi. ‘Rydym yn parhau i dderbyn y gall tenantiaid, am ba bynnag reswm, benderfynu nad ydynt yn dymuno i rai mathau o waith gwella mewnol gael eu gwneud. Yr unig eithriad i hyn yw ein bod yn gorfodi gwaith os oes ystyriaethau iechyd a diogelwch, er enghraifft, gwaith uwchraddio trydanol sy’n hanfodol er mwyn cynhyrchu Tystysgrif o Gydymffurfiaeth Trydanol.

Pan fo tenant wedi gwrthod y gwaith hwn caiff ei gofnodi fel methiant derbyniol oherwydd bod y preswylydd wedi gwrthod y gwaith. Mae hyn yn berthnasol i waith mewnol, megis gosod ceginau ac ystafelloedd ymolchi newydd a gwaith ailweirio trydanol. Nid yw trigolion yn cael dewis yn achos rhaglenni gwaith cynnal mawr, megis gwaith ail-doi, rendro a gosod ffenestri a drysau newydd.

**5.3** Mae rhai unedau yn gyfyng ac felly nid oes modd cydymffurfio'n llawn â'r safonau SATC oherwydd cyfyngiadau ffisegol. Nid yw'n bolisi gennym i adeiladu estyniadau i geginau os nad yw maint ceginau yn cwrdd â meini prawf SATC.

Er gwaethaf yr uchod, ein polisi yw gwneud gwaith sy’n cynnig yr ateb mwyaf ymarferol. Gall hynny gynnwys gwaith ailfodelu a / neu addasiadau strwythurol rhesymol.

**5.4** Ein polisi yw gwneud gwelliannau allanol i eiddo yn ystod gwaith a raglennwyd dan gontractau cynnal a chadw. Bydd cynlluniau cynnal a chadw cynlluniedig traddodiadol yn cynnwys, lle bynnag y bo angen, gwaith ail-doi, ailrendro, ffenestri, drysau, gwelliannau i ffensys terfyn, waliau a llwybrau. Ein nod yw sicrhau bod gwaith a raglennwyd yn cael ei wneud mewn modd amserol a chyn i elfennau allweddol ddirywio, megis strwythur a gorchudd toeau, waliau allanol, ffenestri a drysau allanol a simneiau.

Ni ystyrir bod cydymffurfio'n llawn â'r canllawiau ‘Diogelu drwy Ddylunio’ ar gyfer llecynnau allanol ac, yn arbennig ffensys terfyn, yn ymarferol y tu allan i gynlluniau cynnal a raglennwyd, a hynny oherwydd amseriad y gwaith.

**5.5** Mae cost y gwaith yn dylanwadu ar ein gallu i gydymffurfio â'r targed SATC sy’n nodi y dylai sgôr effeithlonrwydd ynni pob eiddo fod yn 65 neu’n uwch. Mae gan y Cyngor 1200 o anheddau nad ydynt wedi eu cysylltu â'r rhwydwaith nwy ac nid yw’n edrych fel bydd y rhwydwaith hwnnw’n cael ei ehangu yn y dyfodol.

Mewn gwirionedd, mae hyn yn golygu bod gennym anheddau nad ydynt yn cyrraedd y sgôr o 65 er bod y cartrefi yn cael eu gwresogi'n ddigonol trwy gyfrwng systemau gwres canolog modern, cymharol economaidd y mae modd eu rhaglennu. Os yw'r waliau ceudod a'r croglofftydd wedi eu hinswleiddio (300mm) ac os oes ganddynt ffenestri a drysau gwydr dwbl effeithlon, bydd y Cyngor yn cofnodi'r rhain fel methiannau derbyniol oherwydd cost y gwaith unioni. Gellir gweld rhagor o wybodaeth mewn cysylltiad ag effeithlonrwydd ynni dan **Safon SATC +** yn **8.0** isod.

Ein targed yw y bydd sgôr ynni cyfartalog ein stoc yn 70 ac y bydd gan 90% o'r stoc sgôr ynni o 65 neu drosodd erbyn 2020.

## 6.0 Casglu Data

**6.1** Yn ystod 2008, cyflogodd y Gwasanaethau Tai gwmni proffesiynol a chanddo'r cymwysterau addas, sef Savills, i gynnal arolwg llawn o gyflwr y stoc tai sector cyhoeddus. Roedd yn rhaid i'r broses gaffael gydymffurfio â gofynion Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2006 a Chyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd (OJEU).

**6.2** Prif ddiben yr arolwg uchod oedd nodi gwaith yr oedd angen ei wneud ar bob eiddo fel sail ar gyfer gweithredu strategaeth i gydymffurfio â Safon Ansawdd Tai Cymru erbyn 2012. Roedd yr arolwg cyflwr yn golygu casglu'r wybodaeth allweddol ganlynol:

- Asesiad Sylfaenol Safon Ansawdd Tai Cymru a nodi elfennau allweddol y byddai'n rhaid eu hamnewid.
- Ychwanegiad ar gyfer cynnal arolwg llawn o gyflwr y stoc, gan gynnwys asesiad yn erbyn y System Mesur Iechyd a Diogelwch ar gyfer Tai (HHSRS), gyda dyddiad pryd rhagwelir y bydd elfennau unigol yn methu, ynghyd â rhagamcanion cost 30 blynedd ar gyfer gwaith ar bob rhan o'r holl eiddo.
- Nodi addasiadau cyfredol ac addasiadau y gall bod eu hangen yn y dyfodol ar gyfer trigolion anabl a / neu oedrannus.
- Asesu'r holl eiddo yn unol â RDSAP 2005.
- Arolwg Asbestos yn unol â MDHS 100.

**6.3** Yn ogystal â data a gafwyd o'r arolwg o gyflwr y stoc, mae'r data a gasglwyd yn y meysydd canlynol yn ffynhonnell werthfawr o wybodaeth gywir sy'n hwyluso adrodd ar SATC a chydymffurfiaeth:

**i)** Archwilio Anheddau Gwag: Mae'r gwaith o archwilio anheddau gwag a'r gwaith cyfalaf a wneir wedi hynny dan y Rhaglen Fuddsoddi Fewnol yn cyfrannu at leihau nifer y methiannau derbyniol.
**ii)** Archwiladau Blynyddol - Nwy, Olew a Thanwydd Solet: Mae'r archwiliadau hyn nid yn unig yn caniatáu i ni gyflawni ein rhwymedigaethau statudol, mae'r wybodaeth a gesglir yn hanfodol ar gyfer monitro cydymffurfiaeth â SATC ar sail barhaus. Maent hefyd yn cael eu defnyddio i gynorthwyo i benderfynu ar amseriad buddsoddiadau cyfalaf yn y dyfodol.
**iii)** Tystysgrifau Perfformiad Ynni: Nid yw ein Tystysgrifau wedi cael eu diweddaru i gymryd i ystyriaeth y buddsoddiad cyfalaf sylweddol a wnaed ers cwblhau'r arolwg llawn o gyflwr y stoc yn 2009/10. Er enghraifft, nid yw camau mawr a gymerwyd i inswleiddio croglofftydd, mesurau ynni adnewyddadwy, gwaith inswleiddio waliau allanol a rhaglenni gwresogi wedi cael eu cofnodi. Yn ystod y cyfnod 2016-2020 'rydym yn bwriadu cynnal arolwg o'n holl eiddo i gael y sgoriau ynni diweddaraf.
**iv)** Profion Trydanol: Mae'n bolisi gennym i gynnal profion bob 5 mlynedd fel rhan o raglen gylchol o tua 750 y flwyddyn.

**6.4** Yn y dyfodol, bydd y gwaith o gasglu'r data yn cael ei wneud yn bennaf gan arolygwyr mewnol ac yn cael ei gofnodi gan swyddogion systemau ar ein cronfa ddata rheoli asedau. Er enghraifft, bydd yr arolygon graddfeydd ynni a grybwyllir uchod yn cael eu gwneud gan staff mewnol a chanddynt y cymwysterau addas.  Bydd yr holl waith cyfalaf a wneir yn cael ei gofnodi gan ein Tîm Perfformiad ac Asedau .

## 7.0 Storio a Rheoli Data

**7.1** **'**Keystone' yw enw ein cronfa ddata ar gyfer rheoli asedau.  Gosodwyd y datrysiad rheoli asedau 'Keystone' fel rhan o System Rheoli Tai newydd ac mae'n declyn integredig a gynlluniwyd yn benodol i helpu landlordiaid cymdeithasol i weithredu swyddogaethau Gwasanaethau Technegol.

**7.2** Mae'r arolygon o gyflwr y stoc a wnaed gan Savills yn 2009 a 2013 wedi darparu data craidd ar gyfer y gronfa ddata Keystone.  'Roedd arolwg Savills o gyflwr y stoc yn seiliedig ar asesiad o gydrannau penodol ac fe'i diweddarwyd i adlewyrchu'r holl waith cyfalaf SATC a wnaed yn ystod rhaglen fuddsoddi fewnol 2008-2112. Yn y lle cyntaf, fe lwythwyd y data o'r arolwg i feddalwedd arbenigol Savills fel bod modd dilysu'r arolwg a chynhyrchu adroddiadau dadansoddi a

chost. Yna cafodd y wybodaeth ei throsglwyddo i'r Feddalwedd Rheoli Asedau Keystone.

**7.3** Mae Keystone yn cofnodi nodweddion eiddo, cydrannau newydd a osodwyd dan SATC, rhagolygon costau amnewid, asesiadau ynni, tystysgrifau perfformiad a data o'r System Mesur Iechyd a Diogelwch ar gyfer Tai. Mae Keystone hefyd yn cynnal ein Cofrestr Asbestos sy'n cydymffurfio â MDHS. Rydym yn defnyddio'r modiwl Trin ac Archwilio yn y system Keystone i reoli gwaith trin blynyddol neu gyfnodol ar gyfer systemau gwresogi, profion trydanol ac asesiadau risg tân. Mae'r system yn ein galluogi i sefydlu a chynnal cofrestr o gyfarpar, cofnodi llif gwaith a chynhyrchu llythyrau safonol i denantiaid.

**7.4** Ein Tîm Asedau, Perfformiad ac Iechyd a Diogelwch sy'n gyfrifol am gynnal data Rheoli. Mae gwybodaeth am gydrannau'n cael ei diweddaru'n barhaus ar ôl cwblhau gwaith cyfalaf, gwaith cylchol a gwaith ar eiddo gwag. Bydd 'Keystone' yn golygu y gellir casglu data cywir at ddibenion cyflwyno adroddiadau yn fewnol ac yn allanol, gan gynnwys adrodd i Lywodraeth Cymru ar ddata SATC.

## 8.0 Gwiriad Annibynnol o Gydymffurfiaeth gyda SATC

**8.1** 'Roedd ein Cynllun Busnes ar gyfer y Stoc Dai am y cyfnod 2012-2013 yn cadarnhau ein bwriad i gomisiynu Arolwg o Gyflwr y Stoc yn dilyn y Rhaglen Fuddsoddi Fewnol er mwyn:

- Cael cadarnhad annibynnol y llwyddwyd i gwrdd â SATC;
- Darparu gwybodaeth ychwanegol ar gyfer blaenoriaethau cynllunio buddsoddiadau a gofynion ariannol yn y dyfodol ; a
- Diweddaru data ynghylch cyflwr y Stoc cyn mabwysiadu meddalwedd rheoli asedau, sef Keystone.

Yn dilyn adroddiad i Bwyllgor Gwaith y Cyngor yn ystod mis Mehefin 2013 cyflogodd y Gwasanaeth Tai gwmni profiadol, sef Savills, i gynnal sampl gynrychioliadol o 20% o'r Stoc Dai.

**8.2** Isod ceir Crynodeb Gweithredol o'r Arolwg o Gyflwr y Stoc a gynhaliwyd gan Savills yn ystod haf 2013:

*"1.1 In accordance with your instructions we have undertaken a stock condition survey of your housing stock, in summary, the main objectives of the exercise were:*

a) *To provide accurate and statistically reliable information concerning repairs and maintenance as well as improvement costs forecast over a 30 year term;*

b) *To collect, validate and report upon attribute and condition information about the stock for the purpose of improving existing records and future maintenance planning;*

c) *To establish a methodology upon which further surveys may be undertaken in the future to supplement this survey exercise;*

d) *To provide accessible, reliable and easily maintainable planning data for future repairs, maintenance and improvement programmes;*

e) *To assess the properties in accordance with the Welsh Housing Quality Standard.*

*1.2 The total stock comprises 3,805 properties and we have surveyed a representative 20% sample. The sample has been carefully chosen to ensure a representative mix of properties based on the different types and locations. This information has been combined with a 100% survey we carried out in 2009 and updated to reflect the capital investment in the stock since that time.*

*1.3 The overall impression of the stock gained from the surveys is that it is in good condition having enjoyed the benefits of substantial investment.*

*1.4 The Council has finished the internal modernisation programme which consisted of new kitchens, bathrooms, rewires and heating systems. Whilst there has been investment in the external and environmental areas continued investment will need to be carried out to meet the ongoing obligations of the WHQS.*

*1.5 Our survey has included an assessment of the properties against the criteria set out in the WHQS. Other than where the residents have refused work or it is not pragmatic to carry out the work the housing stock meets the requirements for the WHQS.*

*1.6 We have identified a programme of work to maintain properties to the WHQS over the next 30 years, where practical to do so. Our assessment of the total*

*repairs and maintenance costs of the stock for the next 30 years equates to a figure of £29,340 per unit. This cost purely relates to the actual building work and is exclusive of any management costs, revenue expenditure and VAT. It also excludes any allowance for future inflation or any decanting costs in the event that this is necessary.*

*1.7 The work identified as part of the stock condition survey has been priced by means of a Schedule of Rates. The rates we have adopted reflect those being paid by the Council as part of the major works programme.*
*The unit rates are, in our experience, competitive and represent good value for money. In terms of life cycles, we have applied industry standard life cycles to the building elements."*

**8.3** Mae'r cylchoedd bywyd ar gyfer cydrannau allweddol yn ein rhagamcanion cost 30 blynedd, fel y crybwyllwyd yn 1.7 uchod, yn cynnwys:

- Cegin - 15 mlynedd
- Ystafell ymolchi - 25 mlynedd
- Bwyleri - 15 mlynedd
- Gwresogyddion - 25 mlynedd
- Ailweirio llawn - 25 mlynedd

**8.4** 'Rydym yn bwriadu cyflogi ymgynghorwyr allanol i ddilysu ein gwybodaeth am gyflwr y stoc cyn 2020. Bydd hyn yn cynnwys arolwg arall o gyflwr y stoc, naill ai arolwg llawn neu un cynrychioliadol, ynghyd ag archwiliad o'r wybodaeth a gedwir ac asesiad annibynnol ynghylch a ydym yn dal i gydymffurfio â SATC ai peidio.

**8.5** Mae'r Gwasanaeth Tai wedi cynnal archwiliad manwl o'r wybodaeth a gedwir ar Keystone er mwyn asesu cywirdeb ac eglurder yn ystod 2016.

Bydd ein cydymffurfiaeth gyda SATC yn cael ei dilysu'n annibynnol bob blwyddyn gan arbenigwyr cymwys ac addas yn y Sector Tai. Bydd y broses ddilysu'n cynnwys adolygiad o'r gweithdrefnau casglu data, y modd y cynhelir y data-bas rheoli asedau a'r dadansoddiad o gynnydd a chydymffurfiaeth gyda SATC.

**8.6** O Chwarter 3 2016-17 ymlaen, bydd y Gwasanaeth tai, ar adeg ail-osod eiddo, yn darparu Tystysgrif o Gydymffurfiaeth gyda SATC ynghyd â Thystysgrifau Perfformiad Ynni.

Bydd y Dystysgrif Gydymffurfiaeth yn rhoi gwybod i denantiaid newydd am y gwaith a wnaed yn faenorol ar yr eiddo ac am unrhyw waith y bwriedir ei wneud yn ystod y 3 blynedd.

## 9.0 Safon SATC +

**9.1** Nid yw'r Cyngor wedi mabwysiadu Safon SATC +; serch hynny, rydym wedi buddsoddi mewn prosiectau a safonau y gellid eu dehongli fel rhai sy'n mynd y tu hwnt i'r gofynion sylfaenol, yn enwedig mewn perthynas ag amseriad gwaith penodol, effeithlonrwydd ynni, ynni adnewyddadwy a mynd i'r afael â thlodi tanwydd. Er enghraifft:

**9.2** Ein polisi yw gosod cawodydd trydan uwch ben baddonau addas o fath nad oes modd llithro ynddynt. Parheir i uwchraddio'r baddonau cyfredol - beth bynnag fo'u hoed a'u cyflwr - drwy osod rhai gwrthlithro.

**9.3** Yn ddiweddar cwblhawyd prosiect newid tanwydd mewn partneriaeth â Wales and West Utilities a olygodd y bu modd cysylltu 235 o anheddau'r Cyngor â'r prif gyflenwad nwy a gosod boeleri cyddwyso graddfa 'A' a systemau gwres canolog.

**9.4** Mae gan 450 o'n heiddo dechnoleg ynni adnewyddadwy. Mae gan gyfanswm o 370 o anheddau systemau PV Solar ac mae gan 80 o rai eraill osodiadau Thermol Solar. Yn ystod 2016/17 rydym wedi ymrwymo i ddarparu 26 o Systemau PV Solar ychwanegol hefyd.

**9.5** Ers yr 1990au rydym wedi bod yn dilyn polisi o inswleiddio waliau allanol ein heiddo waliau solet. Yn dilyn cwblhau'r Rhaglen Fuddsoddi Fewnol mae'n bolisi gennym i wneud y gwaith inswleiddio hwn fel rhan annatod o bob cynllun cynnal a chadw cynlluniedig traddodiadol sy'n cynnwys eiddo gyda waliau ceudod. Bydd cyfanswm o 156 o'r anheddau hyn yn manteisio ar y mesur arbed ynni hwn yn ystod 2016/17 fel rhan o'n rhaglen buddsoddi cyfalaf.

**9.6** Bydd cynlluniau cynnal a chadw sy'n cynnwys eiddo nad ydynt wedi eu cysylltu â'r prif rwydwaith nwy yn cael eu hystyried ar gyfer mesurau ynni adnewyddadwy, fel arfer PV Solar, yn amodol ar addasrwydd technegol a fforddiadwyedd.

## 10.0 Crynodeb o'r Buddsoddiad Ariannol yn y Stoc

**10.1** Mae crynodeb o'r holl gostau a chrynodeb elfennol ar gyfer yr holl stoc wedi eu cynnwys yn **Atodiad 1.** Mae'r cyfanswm costau wedi eu rhannu i wahanol gategorïau atgyweirio a chyfanswm y gost fesul eiddo dros 30 mlynedd yw £29,340.

**10.2** Mae'r prif gategori, sef gwaith Adnewyddu a Raglennwyd, yn cynnwys darpariaeth ddigonol i wneud gwaith i atgyweirio / ailwampio / adnewyddu cydrannau adeiladu o bryd i'w gilydd er mwyn cadw adeiladau mewn cyflwr sy'n addas ar gyfer eu gosod ac i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â SATC. Mae gan elfennau adeiladau eu cylchoedd bywyd naturiol ac ar ddiwedd y cyfnod hwnnw mae'n rhaid cael rhai newydd. Mae'r disgwyliadau oes a ddefnyddir i gynhyrchu rhagolygon cost yn seiliedig ar safonau diwydiant, RICS a chyhoeddiadau'r BRE: "Disgwyliadau oes Cydrannau Adeiladau" a'n profiad ein hunain.

**10.3** Mae'r Arolwg o Gyflwr y Stoc a'r costau yn Atodiad 1 yn cynnwys asesiad o rwymedigaeth ariannol y Cyngor i gynnal asedau stoc. Byddai'r rhain yn gyffredinol yn cynnwys garejys, ffyrdd nad ydynt wedi eu mabwysiadu, llwybrau troed, ardaloedd mwynderau a llecynnau caled. Mae categorïau eraill yn cynnwys Atgyweiriadau Dal i Fyny, Gwaith Rheoli Asbestos a Gwelliannau Amgylcheddol.

**10.4** Mae'r gwaith a nodir yn y cynllun 30 blynedd wedi cael ei brisio gan ddefnyddio rhestr gyfraddau sy'n seiliedig ar brofiad y Cyngor o osod contractau a phrofiad Savills o weithio gydag Awdurdodau Lleol tebyg. Nid yw'r costau'n cynnwys costau rheoli a gweinyddu, ffioedd proffesiynol gwariant refeniw, costau adleoli a TAW.

**10.5** Gellir gweld rhagor o wybodaeth ariannol fanwl yn ein Cynllun Busnes diweddaraf ar gyfer y Stoc Dai. Mae'r fersiwn ddiweddaraf ar gael yn: (      )

## 11.0 Monitro ac Adrodd ar Gynnydd gyda SATC

**11.1** Yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru, mae'n rhaid i bob awdurdod sydd wedi cadw ei stoc dai baratoi Cynllun Busnes Blynyddol ar gyfer y Stoc Dai. Mae'r Cynllun Busnes yn rhagolwg ariannol hirdymor sy'n dibynnu ar rai tybiaethau allweddol i asesu pa mor ymarferol ydyw, o safbwynt ariannol, i barhau i gydymffurfio gyda SATC dros gyfnod o 30 blynedd.

**11.2** Mae derbyn grant Lwfans Atgyweiriadau Mawr (MRA) yn amodol ar Lywodraeth Cymru yn cymeradwyo Cynlluniau Busnes blynyddol. Mae'r grant MRA, sydd yn werth £2.65 miliwn y flwyddyn ar hyn o bryd, yn gyfraniad ariannol gan Lywodraeth

Cymru tuag at gost gwaith cyfalaf i gyflawni SATC ac i gynnal y safon wedi hynny. Mae'r Cynllun Busnes hefyd yn cael ei gyflwyno i Bwyllgor Gwaith y Cyngor i'w gymeradwyo bob blwyddyn.

**11.3** Ym mis Ebrill 2014 cyflwynwyd trefniadau hunangyllido yng Nghymru. Mae hyn wedi golygu bod yr awdurdodau hynny sydd wedi cadw eu stoc dai yn gallu cadw'r holl incwm rhent a gynhyrchir gan y stoc dai. Yn dilyn prynu allan o'r System Cymhorthdal CRT, mae'r Gwasanaeth Tai wedi cryfhau trefniadau llywodraethu ac wedi sefydlu Bwrdd Tai i fonitro perfformiad a buddsoddiad cyfalaf. Mae aelodau'r Bwrdd yn cynnwys Arweinydd y Cyngor, yr Aelodau Portffolio ar gyfer Tai a Chyllid ac uwch staff Tai a Chyllid.

**11.4** O 2016 byddwn yn cynhyrchu Crynodeb Buddsoddiad SATC bob blwyddyn a fydd yn cynnwys manylion am ein holl weithgarwch buddsoddi yn ystod y flwyddyn. Bydd hyn yn cynnwys buddsoddi i gynnal SATC, prosiectau amgylcheddol, adeiladu o'r newydd a phrynu eiddo.

**11.5** Adroddir yn rheolaidd ar gynnydd gyda Buddsoddiadau Cyfalaf yn ystod fforymau a gynhelir yn rheolaidd gyda thenantiaid ac mewn cylchlythyrau.

## 12.0 Cofnodi Buddion Cymunedol

**12.1** Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn ategu ac yn cefnogi safbwynt Llywodraeth Cymru y gall buddsoddiadau cyfalaf yn y maes tai greu buddion cymunedol ychwanegol sylweddol. Yn hanesyddol, lluniwyd ein buddsoddiad mwyaf sylweddol, sef y Rhaglen Fuddsoddi Fewnol, gan roi ystyriaeth lawn i ddefnyddio contractwyr lleol a rhwymedigaethau cyflogaeth a hyfforddiant. Hwn oedd y tendr cyntaf i fabwysiadu cymalau Recriwtio a Hyfforddiant wedi'u Targedu fel rhan o Becyn Cymorth 'Gallu Gwneud' SATC.

**12.2** Ar ôl cwblhau'r gwaith mewnol dan y Rhaglen SATC mae bron i bob un o'n contractau wedi bod ar gael i gwmnïau o Gymru drwy'r wefan GwerthwchiGymru. Yn ogystal, ers mis Ebrill 2015 mae gennym bolisi bod pob contract buddsoddi cyfalaf sy'n werth dros £500k yn cynnwys cymalau budd cymunedol ac amod bod rhaid i'r contractwyr llwyddiannus gwblhau Offeryn Mesur Gwerth Cymru i ddangos y buddion a gyflawnwyd.

**12.3** Ystyrir bod caffael yn sbardun allweddol ar gyfer cyflawni'r ymrwymiadau datblygu cynaliadwy a wnaed gan y sefydliad. Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn awyddus i

sicrhau buddion gwerth ychwanegol ar gyfer ein prosiectau cyfalaf mawr ac yn hyn o beth, gofynnir i dendrwyr ddarparu datganiad dull yn amlinellu pa fanteision cymdeithasol, economaidd neu amgylcheddol y maent yn teimlo y gallant eu cyflawni fel rhan o'r prosiect y maent yn tendro amdano.

Nodir isod enghreifftiau o feysydd i dendrwyr ganolbwyntio arnynt. Fodd bynnag, nid yw'r rhestr isod yn gynhwysfawr ac anogir tendrwyr i gynnig buddion y tu hwnt i'r rheini a restrir yma:

- Cyfleoen profiad gwaith
- Cyfleon Prentisiaeth
- Hysbysebu unrhyw gyfleoedd isgontractio trwy GwerthwchiGymru er mwyn caniatáu cyfleon i is-gontractwyr lleol.
- Gweithio gydag ysgolion a cholegau lleol (e.e. ymweliadau safle, sgyrsiau iechyd a diogelwch mewn ysgolion ac ati)
- Cefnogi prosiectau lleol (e.e. amser staff, nawdd ac ati)
- Cyfrannu tuag at unrhyw fentrau amgylcheddol yn yr ardal

Bydd raid i gontractwyr hefyd ddarparu 160 awr o leoliadau profiad gwaith i bob ymgeisydd perthnasol am bob £500,000 o wariant cyfalaf. Bydd y tendrwr yn sicrhau bod yr unigolion yn cael y cyfle i ennill eu tystysgrif CSCS. Pobl ddi-waith neu bobl ifanc nad ydynt mewn cyflogaeth nac addysg fyddai'r ymgeiswyr perthnasol. Bydd Gyrfa Cymru a'r Ganolfan Byd Gwaith, neu sefydliad tebyg, yn gallu rhoi manylion cyswllt ar gyfer ymgeiswyr perthnasol. Mae cefnogaeth ar gael hefyd gan Sgiliau Adeiladu i wneud y cysylltiadau gyda phobl ifanc sy'n awyddus i fanteisio ar y cyfleoedd hyn.

Bydd y contractwyr a ddewisir ar gyfer y prosiectau mwy hefyd yn mabwysiadu'r Rhaglen Llwybrau at Brentisiaethau gan Lywodraeth Cymru i gynnig lleoliad i un unigolyn am bob £1,000,000 bob blwyddyn.

Mae'r awdurdod hefyd yn cymryd rhan weithredol o ran cwblhau'r Pecyn Cymorth Gwerth Cymru gan Lywodraeth Cymru i gofnodi Buddion Cymunedol, Cymdeithasol ac Economaidd y gall ein prosiectau cyfalaf mawr eu cyflawni.

## 13. Adolygiad

Adolygir y polisi hwn gan y Rheolwr Gwasanaeth Technegol ym mis Mawrth 2017 neu mewn ymateb i newidiadau deddfwriaethol neu Gyfarwyddebau gan Lywodraeth Cymru.

## 14. Cyfeiriadau


- Llywodraeth Cymru (Gorffennaf 2008) - Safon Ansawdd Tai Cymru.

- Altair ar ran Llywodraeth Cymru (2014) - Safon Ansawdd Tai Cymru: Dilysu Cynnydd o ran Cyrraedd y Safon. Ymchwil Gymdeithasol gan Lywodraeth Cymru.
- Llythyr; Kath Palmer, Llywodraeth Cymru (Gorffennaf 2015) - Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC – Dilysu Cyflawni a Chynnal Safonau: Y Camau Nesaf. Llywodraeth Cymru.
- Llythyr; Kath Palmer, Llywodraeth Cymru (Mawrth 2015) - Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC) – Dilysu Cyflawni a Chynnal Safonau @ Camau Nesaf. Llywodraeth Cymru.
- Arolygon Cyflwr Stoc a gynhaliwyd gan Savills yn 2008 + 2013

This page is intentionally left blank